

**ASTUDIAETH O AMRYWIADAU FFONOLEGOL
MEWN DWY ARDAL YNG NGHANOLBARTH CYMRU**

Iwan Wyn Rees

Cyflwynir y gwaith hwn am radd PhD
Gorffennaf 2013

Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth

CYNNWYS

Crynodeb.....	3
Datganiadau.....	4
Diolchiadau.....	5
Byrfoddau a symbolau.....	6

ADRAN A: CYD-DESTUN YR ASTUDIAETH

Pennod 1: Rhagarweiniad.....	8
Pennod 2: Amrywio ffonolegol yn y canolbarth.....	19
Pennod 3: Methodoleg.....	85

ADRAN B: TROSOLWG O BATRYMAU FFONOLEGOL Y DDWY ARDAL

Pennod 4: Llafariaid syml cyffiniau Harlech a Bro Dysynni.....	118
Pennod 5: Deuseiniaid cyffiniau Harlech a Bro Dysynni.....	155
Pennod 6: Cytseiniaid cyffiniau Harlech a Bro Dysynni.....	187

ADRAN C: DADANSODDIADAU MEINTIOL O BEDAIR NODWEDD FFONOLEGOL BENODOL YN Y DDWY ARDAL

Pennod 7: Yr ‘u ogleddol’.....	246
Pennod 8: Yr ‘æ fain’.....	280
Pennod 9: Y ffrwydrolion tafnodol [kj] a [gj].....	349
Pennod 10: Y llafariaid hanner caeedig/hanner agored [e(:)]/[o(:)] ac [ɛ(:)]/[ɔ(:)].....	390
Pennod 11: Trafodaeth.....	459
Pennod 12: Casgliadau.....	489
Llyfryddiaeth.....	495
Atodiad.....	I

CRYNODEB

Amcan yr astudiaeth hon yw archwilio i amrywiadau ffonolegol dwy ardal benodol yng nghanolbarth Cymru, sef cyffiniau Harlech a Bro Dysynni. Yn gyntaf, ceisir gosod y gwaith hwn yng nghyd-destun astudiaethau tafodieithgol a sosioieithyddol a gyflawnwyd eisoes yng Nghymru a thu hwnt. Eir ati wedyn i ddisgrifio systemau ffonolegol y ddwy ardal am y tro cyntaf erioed. Arwain hyn yn naturiol at ganolbwynt yr astudiaeth, sef dadansoddiadau meintiol manwl o bedair nodwedd ffonolegol benodol sy'n gysylltiedig â chanolbarth Cymru. Bydd canlyniadau'r traethawd hwn yn taflu goleuni newydd ar y gwahanol amrywiadau a geir yn y canolbarth, ac ar natur gymhleth ardaloedd trawsnewid. Holir hefyd i ba raddau y mae grwpiau o siaradwyr sy'n ymddangos yn debyg o safbwynt eu cefndir cymdeithasol yn unffurf yn ieithyddol. Bydd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn berthnasol i dafodieithegwyr a sosioieithyddion fel ei gilydd.

DATGANIADAU

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lun-gopiïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

DIOLCHIADAU

Yn gyntaf oll, rhaid imi gydnabod fy nyled a'm gwerthfawrogiad i'r Dr Gwenllian Awbery am y cyfarwyddyd trylwyr a'r sylwadau doeth a dderbyniais ar hyd y daith. Diolch o waelod calon am eich anogaeth gyson dros y blynyddoedd.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i drigolion ardal Harlech a Bro Dysynni am eu parodrwydd i rannu eu hatgofion a'u straeon diddorol â mi, ac am eu croeso ar eu haelwydydd. Yn amlwg, ni fyddai'r astudiaeth hon wedi dwyn ffrwyth heboch chi.

Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r Athro Marged Haycock am ei chymorth fel Tiwtor y Graddedigion yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, am drefnu hyfforddiant ym maes seineg imi yn y lle cyntaf, ac am fy nghyflwyno i dafodieithoedd y Gymraeg yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y coleg.

Rhaid imi hefyd gydnabod y gefnogaeth a roddwyd imi gan fy nghydweithwyr yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Athro Sioned Davies a'r Athro Diarmait Mac Giolla Chríost am fy rhyddhau o'm dyletswyddau wrth i'r gwaith dynnu tua'i derfyn, yn ogystal ag i'r Dr Dylan Foster Evans ac i Jonathan Morris am drafod rhannau o'r gwaith â mi, ac am awgrymu rhai deunyddiau darllen addas.

Diolchaf hefyd i'r AHRC am eu hysgoloriaeth a ganiataodd imi allu astudio'n llawn amser am dair blynedd.

Mawr yw fy nyled hefyd i'm cymar, Rhiannon, a'm cefnogodd yn ddirwgnach ar hyd y daith, ac a gododd fy nghalon droeon yn ystod sawl awr dywyll. Rhaid imi ddiolch yn olaf i'm teulu yng nghyffiniau Harlech, yn arbennig i'm mam a'm diweddar dad, Marian a Gareth, y bu eu cariad tuag at drigolion, hanes a thraddodiadau'r ardal yn ysbrydoliaeth imi.

BYRFODDAU A SYMBOLAU

e.e.	er enghraifft
etc.	et cetera (ac yn y blaen)
h.y.	hynny yw
Saes.	Saesneg
“ ”, e.e. “tŷ”	ffurfiau orgraffyddol Cymraeg
<i>geiriau a italeiddir</i> , e.e. <i>axle</i>	ffurfiau orgraffyddol Saesneg
‘ ’, e.e. ‘darfu imi’	ffurfiau gwreiddiol (h.y. tarddiadau geiriau)
[], e.e. [ti:]	nodiant seinegol (adysgrifiad seinegol llydan)
/ /, e.e. /gwɛɪ/	nodiant ffonemig
(sain), e.e. [k(j)]	yr elfen sydd mewn cromfachau yn opsiynol, h.y. cynhwysir [k] a [kj] yn yr achos hwn
(:), e.e. [æ(:)]	hyd yn opsiynol, h.y. cynhwysir y llafariad fer [æ] a’r un hir [æ:] yn yr achos hwn
[^l], e.e. [kəm ^l ræ:g]	dilynir [^l] gan sillaf acennog, h.y. y mae’r acen bwys ar [ræ:g] yn yr enghraifft hon. Mewn geiriau amlsillafog yn unig y’i defnyddir yn y traethawd hwn, ac os nad yw ffurf yn cynnwys y symbol hwn, dylid dehongli mai ar ddechrau’r goben acennog y mae’r acen, e.e. yn [kapal] “capel”.
*	ffurfiau treigledig
^	ffurfiau amhosibl
>	yn datblygu yn...
<	yn tarddu o...

ADRAN A:
CYD-DESTUN YR ASTUDIAETH

PENNOD 1: Rhagarweiniad

1. Cyflwyniad

Astudiaeth a berthyn yn bennaf i faes tafodieitheg y Gymraeg yw hon. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, na olyga hynny ar unrhyw gyfrif mai ceisio delfrydu neu roi bri ar amrywiadau prin o Gymraeg llafar a wneir yma ‘fel y cadwer i’r oesoedd a ddêl y glendid a fu’. Yr amcan yn hytrach yw dadansoddi rhai amrywiadau tafodieithol mewn modd gwrthrychol, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes yn y maes, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Bwriad y bennod ragarweiniol hon, felly, yw cyflwyno’n gryno gysyniadau ac ystyriaethau a fydd yn ganolog i’r astudiaeth hon. Trafodir yn 1.1 i ddechrau y gwahanol fathau o amrywiadau tafodieithol a geir yn y Gymraeg, gan egluro sut y cyfyngir y maes eang hwn i un agwedd benodol. Sonnir wedyn yn 1.2 am y rhanbarth a’r ardaloedd o Gymru a fydd o dan sylw yn y gwaith hwn. Eir ati wedyn yn 1.3 i ymdrin â’r modd y mae’r syniad o unffurfiaeth ieithyddol yn greiddiol i’r rhan fwyaf o astudiaethau blaenorol ar amrywiadau llafar o’r Gymraeg. Yn olaf, rhoddir amlinelliad o strwythur y traethawd hwn yn 1.4, lle y tynnir sylw at y modd y defnyddir dulliau dadansoddi meintiol at ddibenion sy’n newydd yn y maes.

1.1. Amrywio tafodieithol yn y Gymraeg

Ceir yng Nghymru ystod eang o amrywiadau llafar Cymraeg o wahanol fathau o ran geirfa, patrymau gramadegol a nodweddion ffonolegol (gweler, e.e., B. Thomas a P. W. Thomas, 1989 ac Awbery, 2009). Priodol yn gyntaf yw crybwyll amrywiadau geirfaol gan y ceir mewn Cymraeg llafar nifer helaeth o eiriau tafodieithol gwahanol am yr un eitemau yn union. Cymerer, er enghraifft, y ffurfiau canlynol sy'n cyfateb i *boy* y Saesneg: “bachgen”, “hogyn”, “crwt(yn)”, “rhocyn” a “còg”. Ymddengys, er hynny, nad ar hap a damwain y ceir yr amrywiaeth hon o ffurfiau, ond bod gan bob un ohonynt eu dosbarthiad daearyddol eu hunain (gweler A. R. Thomas, 1973: 518).

Fodd bynnag, nid yw pob gair Cymraeg a glywir ar lafar yn gyfyng o ran ei ddosbarthiad daearyddol. Cymerer, er enghraifft, yr eitemau geirfaol canlynol, sydd naill ai'n nodweddiadol o iaith y gogledd yn gyffredinol (ar yr ochr chwith), neu'n gysylltiedig â'r de i gyd (ar yr ochr dde). Dylid pwysleisio bod y geiriau sy'n gyfochrog â'i gilydd yn gyfystyron, e.e. “allan” a “mas” (gweler dosbarthiad daearyddol pob un o'r rhain yn A. R. Thomas, 1973).

Y GOGLEDD

allan

taid

nain

rŵan

pry cop

cwt mochyn

'goriad

Y DE

mas

tad-cu

mam-gu

nawr

corryn

twlc

allwedd

Math arall o amrywiadau tafodieithol wedyn yw rhai gramadegol. Tra pherthnasol yn y cyswllt hwn yw cyferio at yr amrywiaeth o gystrawennau a ddefnyddir ar lafar er mwyn cyfleu'r amser gorffennol yn y Gymraeg. Cyfetyb pob un o'r ffurfiau canlynol, er enghraifft,

i *I saw* y Saesneg: “gwelais i”, “(mi / fe) welais i”,¹ “(mi) ddaru fi weld”,² “wnes i weld”, “fi welais”.³ Gwelir yma, felly, ystod eang o wahanol gystrawennau cryno a rhai cwmpasog, a diau y gallai lleoliad daearyddol yn ogystal ag oedran siaradwyr fod yn ffactorau perthnasol i’w hystyried wrth archwilio i ddefnydd gwahanol dafodieithoedd ohonynt.

Gellir ychwanegu fod rhai cystrawennau sy’n gyffredin drwy’r gogledd neu ar hyd y de i gyd, a bod y rhain yn aml yn drawiadol wahanol i’w gilydd. Cymerer y brawddegau canlynol, er enghraifft, sy’n debyg o ran eu hystyr, ond nid o safbwynt eu patrymau gramadegol.

Y GOGLEDD

dydw i ddim yn gweld
ma gen(a) i ddigon

Y DE

smo fi’n gweld / sai’n gweld⁴
ma ’da fi ddigon⁵

¹ Nid rhagenw fel y cyfryw yw’r “mi” / “fe” a geir ar ddechrau’r gystrawen hon, ond geiryn rhagferfol. Dylid pwysleisio yma nad yw’r geirynnau rhagferfol hyn yn gyfyngedig i rai personau yn unig, h.y. y mae modd i “mi” ragflaenu y ferf gryno U3 “gwelodd”, er enghraifft, yn ogystal â’r ffurf gryno U1 “gwelais” (gweler enghreifftiau pellach yn B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 74-77).

² Tarddu o ‘darfu imi’ y mae “ddaru mi”. Noder, felly, mai rhagenw syml sydd bellach yn arferol yn dilyn y ferf gynorthwyol hon, er mai ffurf rediadol ar yr arddodiad ‘i’ a geid yn wreiddiol. Y mae’r gystrawen hon yn nodweddiadol o dafodieithoedd y gogledd yn unig (gweler B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 69-70).

³ Diau mai hon yw’r gystrawen fwyaf anghyffredin (os y’i ceir ar lafar o gwbl bellach) gan ei bod yn gysylltiedig â thafodiaith draddodiadol Sir Forgannwg (y Wenhwysseg). Gellir barnu bod y gystrawen hon yn eithriadol, nid yn unig am fod ynddi ragenw personol (nid geiryn rhagferfol y tro hwn) yn rhagflaenu berf gryno, ond hefyd am fod rhif y rhagenw (U1) yn cyfateb i rif y ferf (gweler sylwadau B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 76). Gellir cymharu’r patrwm hwn i gystrawennau tebyg a geir mewn rhai emynau, e.e. yn ‘Tydi a roddaist’ (nid ‘Tydi a roddodd / roes’).

⁴ Cywasgiadau o ‘nid oes (dim) ohonof / ohonaf i’ (cf. Cymraeg Canol ‘ohanaf’) a welir yma. Nodir gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 79) hefyd yr amrywiadau “sdimo i”, “simo i”, “soi” a “sana i” fel enghreifftiau pellach o ffurfiau negyddu person cyntaf unigol Presennol ‘bod’. Y mae’r patrwm gogleddol wedyn yn deillio o ‘nid ydw i ddim’, cystrawen hollol wahanol i ‘nid oes (dim) ohonof i’.

⁵ Ffurf ar yr arddodiad ‘gyda’ wedi ei dilyn gan ragenwau syml sy’n nodweddiadol o dafodieithoedd deheuol, felly, tra bo ffurfiau rhediadol ar yr arddodiad ‘gan’ wedi eu dilyn gan ragenwau ategol / syml yn arferol ar lafar yn y gogledd (gweler, er enghraifft, B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 59-60).

Rhaid sôn yn olaf am amrywiadau ffonolegol sydd hefyd yn niferus mewn Cymraeg llafar. Gellir cyfeirio yma, er enghraifft, at y modd y mae siaradwyr gogledd-orllewin Cymru yn defnyddio [a] (neu'n 'swnio'r a', fel y dywedir ar lafar) yn sillaf olaf ddiacen geiriau a fyddai'n cynnwys "e", "ae", "au" ac "ai" yn yr orgraff, tra bo siaradwyr y gogledd-ddwyrain ar y llaw arall yn defnyddio [ɛ] (neu'n 'swnio'r e') yn yr un geiriau. Darlunnir y gwahaniaeth hwn isod.⁶

Y GOGLEDD-ORLLEWIN

Y GOGLEDD-DDWYRAIN

"e"	[kapal] "capel"	[kapɛl] "capel"
"ae"	[χwara] "chwarae"	[χwarɛ] "chwarae"
"au"	[darna] "darnau"	[darne] "darnau"
"ai"	[tamad] "tamaid"	[tamɛd] "tamaid"

Ceir hefyd wahaniaethau ffonolegol trawiadol rhwng gogledd a de Cymru yn gyffredinol. Gellir cymharu, er enghraifft, y defnydd amlwg a wna gogleddwyr o'r llafariad caeedig canol [i(:)] / [ɨ] (yr 'u ogleddol') ar draws y gogledd ag absenoldeb y seiniau hynny mewn tafodieithoedd deheuol.⁷ Cymharer, er enghraifft, y ffurfiau isod â'i gilydd.

Y GOGLEDD

Y DE

[di:n] "dyn"	[di:n] "dyn"
[kɪn] "cyn"	[kɪn] "cyn"
[prəni] "prynu"	[prəni] "prynu"

Gwahaniaeth ffonolegol trawiadol arall rhwng tafodieithoedd y gogledd a rhai'r de yw'r modd y mae hyd llafariad geiriau unsill yn amrywio mewn gwahanol gyd-destunau seingol

⁶ Amlygir y rhaniad tafodieithol hwn yn eglur ar fap 1 pennod 4 (4.2.2.2) o eiddo B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 41). Gwelir ar y map hwn hefyd fod 'swnio'r a' yn gyffredin yn nhafodiaith draddodiadol de-ddwyrain Cymru.

⁷ Dangosir tiriogaeth yr 'u ogleddol' yn glir ar fap 3 pennod 2 (2.2.1.5) gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 32).

(gweler, er enghraifft, Awbery, 1984). Dangosir isod, er enghraifft, mai llafariad fer sy'n arferol o flaen [ɫ] "ll" yn y gogledd, ond bod llafariaid hir yn gyffredin yn yr un geiriau yn y de. Fodd bynnag, o safbwynt llafariaid sy'n rhagflaenu'r clystyrau [sb], [sd], [sg] a [ɫd], gwelir mai'r gwrthwyneb sy'n arferol, sef llafariaid hir yn y gogledd, a rhai byrion yn y de.

Y GOGLEDD

[gwɛɫ] "gwell"

[ko:sb] "cosb"

[po:sd] "post"

[pa:sg] "Pasg"

[gwe:ɫd] "gwellt"

Y DE

[gwe:t] "gwell"

[kɔsb] "cosb"

[pɔsd] "post"

[pasg] "pasg"

[gwɛɫd] "gwellt"

Y mae'n amlwg oddi wrth y draffodaeth uchod, felly, fod amrywio tafodieithol fel y cyfryw yn faes hynod eang, ac yn cynnwys geirfa, gramadeg a ffonoleg. O ganlyniad, ni fyddai'n ymarferol cwmpasu'r elfennau hyn i gyd mewn astudiaeth fanwl. Penderfynwyd canolbwyntio'n llwyr, felly, ar amrywiadau ffonolegol yn y traethawd hwn.

1.2. Rhanbarth ac ardaloedd yr astudiaeth hon

Wrth drafod gwahanol fathau o amrywiadau tafodieithol Cymraeg yn 1.1 uchod, daeth i'r amlwg fod rhaniad ieithyddol o bwys rhwng gogledd a de Cymru. Gellir ychwanegu mai gwahaniaethu rhwng systemau ieithyddol gogleddol a rhai deheuol y mae sawl ymdriniaeth gyffredinol â thafodieithoedd y Gymraeg (gweler, e.e., Awbery, 1984, 2009; G. E. Jones, 1984; Ball a Williams, 2001). Ymddengys, felly, mai'r rhagdybiaeth gyffredinol yw bod ardal drawsnewid (*transition zone*) i'w chael rhwng y gogledd a'r de, h.y. yng nghanolbarth Cymru. Yr hyn a olygir wrth ardal drawsnewid yw tiriogaeth lle y mae gwahanol ffurfiau (rhai gogleddol a rhai deheuol, dyweder) yn cydfodoli neu'n amrywio â'i gilydd (gweler enghreifftiau yn B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 10-12 a Chambers a Trudgill, 1998: 93-4, 104-23).

Penderfynwyd, felly, y gallasai canolbarth Cymru fod yn rhanbarth delfrydol ar gyfer astudio gwahanol amrywiadau ffonolegol. Dylid egluro yma mai de Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd yw'r 'canolbarth' a ystyrir yn ganolog i'r astudiaeth hon. Gan fod astudiaethau tafodieithogol blaenorol a ganolbwyntiodd ar y canolbarth yn gymharol brin (gweler eu manylion ym mhennod 2), gellir barnu nad yw'n hysbys ar hyn o bryd i ba raddau y ceir ardaloedd trawsnewid yn y rhanbarth. Ni wyddys, felly, sut yn union y gwireddir y newid a geir rhwng patrymau ffonolegol gogleddol a rhai deheuol. Yn wir, cydnebydd Gwenllian Awbery fod bylchau sylweddol yn ein gwybodaeth o ran union natur ardaloedd trawsnewid yng nghanolbarth Cymru:

What is the nature of the transitions? In drawing a clear line on a map we imply a sharp switch from one pattern to another, but it is equally possible that the changeover is gradual, with one pattern slowly giving way to another in an area of some confusion. This is what we find with other phonological boundaries such as when we are dealing with the addition or loss of a phoneme. (Awbery, 1984: 102)

Bwriedir yn yr astudiaeth hon, felly, daflu rhywfaint o oleuni ar y cymhlethdodau hyn drwy ddadansoddi'n fanwl batrymau amrywio ffonolegol dwy ardal benodol yn y canolbarth, sef

cyffiniau Harlech a Bro Dysynni (dalgyrch Tywyn).⁸ Er hwylustod, dangosir lleoliad y ddwy ardal hyn ar y map isod o Gymru.

Map 1: Lleoliad Harlech a Thywyn yng Nghymru

(Addaswyd o http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Wales_location_map.svg)



⁸ Trafodir y modd y dewiswyd yr ardaloedd hyn yn fanwl ym mhennod 3 (3.1.1).

1.3. Unffurfiaeth ieithyddol

Er bod tafodieithegwyr a sosioieithyddion fel rheol yn ymddiddori mewn gwahanol amrywiadau ffonolegol, ymddengys er hynny mai gwahanol agweddau ar unffurfiaeth ieithyddol sy'n greiddiol i'r rhan fwyaf o astudiaethau blaenorol ar dafodieithoedd y Gymraeg.

O safbwynt astudiaethau tafodieithegol traddodiadol yn gyntaf, tueddir ynddynt i ddibynnu ar siaradwyr hŷn o ardaloedd gwledig a fu'n byw yn yr un gymuned ar hyd eu hoes. Y term Saesneg a ddefnyddir ar gyfer disgrifio'r math hwn o siaradwyr yw 'NORMs', talfyriad o 'non-mobile, older, rural males' (gweler Chambers a Trudgill, 1998: 29-30).⁹ Drwy gael grŵp mor benodol â hyn, ymddengys i dafodieithegwyr traddodiadol ragdybio y byddai tebygrwydd y siaradwyr hyn o ran eu cefndir cymdeithasol a diwylliannol yn rhwym o esgor ar unffurfiaeth ieithyddol, ac y cynrychiolai hynny y dafodiaith fwyaf traddodiadol a phur. Gellir barnu, felly, fod dylanwad y syniadau hyn i'w gweld ar draethodau MA a PhD sy'n ymddrin â gwahanol dafodieithoedd Cymraeg, ac a gyflwynwyd i Brifysgol Cymru rhwng y 1930au a'r 1980au (gweler, e.e., Davies, 1934; Watkins, 1951 a Griffiths, 1974). Yr un syniadau a amlygir hefyd mewn holiaduron tafodieithol Cymraeg (gweler Thomas, 1973; G. E. Jones ac A. Jones, 1996 ac A. R. Thomas et al., 2000). Fodd bynnag, gellir dadlau nad archwiliwyd erioed i weld i ba raddau y mae iaith gwahanol 'NORMs' yn unffurf, ac yn gynrychioliadol o'r grŵp penodol hwn, ac mai cymryd yr unffurfiaeth hon yn ganiataol a wneid.

O ran astudiaethau sosioieithyddol mwy diweddar wedyn, gellir barnu mai eu pennaf genadwri yw dangos bod nodweddion ieithyddol yn amrywio o fewn cymunedau penodol, ac mai ffactorau cymdeithasol megis oedran y siaradwyr, eu rhywedd, eu haelodaeth o gapeli a'u statws a rydd gyfrif am yr amrywio hwnnw (gweler, e.e., R. O. Jones, 1983; C. Jones, 1987; B. Thomas, 1998 a M. C. Jones, 1998). Er mai ceisio darlunio nad yw iaith yn unffurf o fewn cymuned benodol y mae gweithiau sosioieithyddol, felly, gellir dadlau bod tuedd ynddynt i ragdybio (yn baradocsaid) fod unffurfiaeth ieithyddol i'w chanfod ymhlith

⁹ Trafodir manteision ac anfanteision y math hwn o siaradwyr yn fanwl ym mhennod 3 (3.2.1).

carfannau neilltuol o siaradwyr. Oherwydd y rhagdybiaeth hon, felly, nid yw rhai astudiaethau sosioieithyddol yn cyflwyno data fesul unigolyn o gwbl (gweler, e.e., M. C. Jones, 1998).

Teg fyddai ystyried, felly, fod tafodieithegwyr traddodiadol a sosioieithyddion fel ei gilydd yn cymryd yn ganiataol fod grwpiau cymdeithasol o siaradwyr o wahanol fathau yn arddangos elfen gref o unffurfiaeth ieithyddol. Gellir dadlau, fodd bynnag, nad ymchwiliwyd yn fanwl hyd yma i ba raddau y ceir unffurfiaeth ieithyddol ymhlith carfannau penodol o siaradwyr sy'n ymddangos yn debyg o ran eu nodweddion cymdeithasol a diwylliannol. Dyna y bwriedir ei wneud yn yr astudiaeth hon, felly. Os canfyddir bod amrywio ar waith ymhlith grŵp o siaradwyr sy'n debyg o ran eu cefndir,¹⁰ bydd raid ystyried pa ffactorau (boent ieithyddol neu allieithyddol) a all fod yn cyflyru eu defnydd o wahanol nodweddion tafodieithol.

Yn olaf, gellir barnu bod yr astudiaeth hon yn torri tir newydd yn natblygiad tafodieitheg y Gymraeg gan mai dyma'r tro cyntaf (hyd y gwyddys) y dadansoddir amrywiadau ffonolegol canolbarth Cymru drwy ddefnyddio dulliau meintiol.¹¹ Gellir ychwanegu yn y cyswllt hwn mai ar gyfer canfod gwahaniaethau rhwng gwahanol garfannau o siaradwyr y defnyddiwyd dulliau meintiol yn y gorffennol yng nghyd-destun y Gymraeg, ond mai er mwyn archwilio i ba raddau y gwelir unffurfiaeth ieithyddol ar waith ymhlith siaradwyr ymddangosiadol debyg y'u defnyddir yn y traethawd hwn. Dyma hefyd y tro cyntaf i ddefnydd dwy dafodiaith neilltuol o'r un nodweddion ffonolegol gael eu cymharu drwy ddefnyddio dulliau meintiol.

¹⁰ Manylir ar y math o siaradwyr a gafwyd yn y ddwy ardal ym mhennod 3 (3.2.1).

¹¹ Amlinellir y dulliau meintiol hyn yn llawn ym mhennod 3 (3.4).

1.4. Strwythur y traethawd

Y mae i'r traethawd hwn dair adran benodol. Fe'u nodir isod, felly, gan ymhelaethu'n gryno ar eu cynnwys:

- **ADRAN A: CYD-DESTUN YR ASTUDIAETH (Penodau 1–3)**

Yn dilyn y bennod ragarweiniol hon, manylir ym mhennod 2 ar astudiaethau blaenorol sy'n canolbwyntio ar y canolbarth. Bydd y bennod hon hefyd yn dadlennu pa nodweddion ffonolegol sy'n bwysig i'w hystyried yng nghyd-destun tafodieithoedd y canolbarth, ac sy'n ganolog i'r traethawd hwn. Eir ati wedyn ym mhennod 3 i drafod ystyriaethau methodolegol y bu raid eu pwysu a'u mesur ar gyfer cyflawni'r astudiaeth hon.

- **ADRAN B: TROSOLWG O BATRYMAU FFONOLEGOL Y DDWY ARDAL (Penodau 4–6)**

Yn yr adran hon, disgrifir patrymau ffonolegol cyffredinol dwy ardal benodol yn y canolbarth, sef cyffiniau Harlech a Bro Dysynni. Ymdrinnir yn gyntaf â llafariaid y ddwy dafodiaith (ym mhennod 4), yna eu deuseiniaid (ym mhennod 5), cyn y bwrir golwg yn olaf ar eu cytseiniaid (ym mhennod 6). Bydd y disgrifiadau cychwynnol hyn yn gosod sail gadarn ar gyfer dadansoddi pedair nodwedd ffonolegol yn fanylach yn Adran C.

- **ADRAN C: DADANSODDIADAU MEINTIOL O BEDAIR NODWEDD FFONOLEGOL BENODOL YN Y DDWY ARDAL (Penodau 7–12)**

Yng ngoleuni dadansoddiadau Adran B, ymchwilir i ddefnydd siaradwyr o'r ddwy ardal o bedair nodwedd ffonolegol benodol drwy ddefnyddio dulliau meintiol. Testunau penodau cyntaf yr adran hon, felly, fydd yr 'u ogleddol' [i(:)] / [ɨ] (ym mhennod 7), yr 'æ fain' [æ(:)] (ym mhennod 8), y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] (ym mhennod 9), a'r llafariaid hanner caeedig a'r rhai hanner agored [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)] (ym mhennod 10). Dilynir y dadansoddiadau meintiol hyn gan drafodaeth fanwl (ym mhennod 11) a fydd yn ystyried

goblygiadau y canlyniadau a gyflwynir ym mhenodau 7-10. I gloi, tynnir casgliadau'r astudiaeth hon ynghyd (ym mhennod 12).

1.5. Y cam nesaf

Eir ati yn y bennod nesaf i drafod yr hyn sydd eisoes yn hysbys ynghylch patrymau ac amrywiadau ffonolegol y canolbarth oddi wrth astudiaethau tafodieithogol blaenorol. Nodir hefyd y bylchau a geir yn ein gwybodaeth o amrywiadau ffonolegol yn y rhanbarth hwn o Gymru. Gosodir seiliau cedyrn, felly, ar gyfer cyflawni archwiliad manwl o batrymau ffonolegol mewn dwy ardal benodol o'r canolbarth.

PENNOD 2: Amrywio Ffonolegol yn y Canolbarth

2. Cyflwyniad

Fel yr eglurwyd ar ddiwedd y bennod ddiwethaf, bwriad y bennod hon yw bwrw golwg fanylach ar astudiaethau blaenorol a gyflawnwyd mewn rhannau o'r canolbarth, gan weld beth sydd eisoes yn hysbys am batrymau ffonolegol y rhanbarth. Yn 2.1 i ddechrau, eir drwy'r mathau gwahanol o astudiaethau a ganolbwyntiodd ar y canolbarth, cyn edrych yn fanylach yn 2.2 ar rai o ganlyniadau'r gweithiau hyn a fydd yn allweddol inni eu hystyried yng ngoleuni'r data newydd a gyflwynir yn yr astudiaeth hon. Yn 2.3 wedyn, ceisir tynnu casgliadau ynghyd am amrywiadau ffonolegol mwyaf hysbys y rhanbarth, yn ogystal â'r bylchau a erys yn ein gwybodaeth, ac y bydd angen inni eu harchwilio'n fanylach yng nghwrs yr astudiaeth hon. Er eglurder, cyflwynir yr astudiaethau blaenorol mewn trefn gronolegol yn yr adrannau a ganlyn, o'r cynharaf i'r diweddaraf.

2.1. Braslun o ymdriniaethau blaenorol

Gwelir bod y gwahanol weithau isod naill ai'n arolygon cyffredinol neu'n astudiaethau sy'n ymdrin ag ardaloedd unigol. Rhaid cofio, fodd bynnag, nad mewn gwagle y'u cyflawnwyd, ond eu bod i raddau helaeth yn adeiladu ar ei gilydd. Eir ati yma, felly, i amlinellu'n gryno ffrwyth ymchwil gwahanol awduron, a chynigir arfarniad cyffredinol o'u gwaith.

2.1.1. Thomas Darlington

Traddodwyd darlith gan Thomas Darlington gerbron Cymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain yn 1901, a dyna yw swmp a sylwedd ei erthygl sef 'Some Dialectal Boundaries in Mid-Wales: With Notes on the History of the Palatalization of Long a' (Darlington, 1902). Yr hyn a geir gan Darlington, felly, yw arolwg cyffredinol o rai ffiniau seinegol yn y canolbarth, ynghyd â damcaniaeth ynghylch tarddiad a datblygiad y llafariad led agored flaen [æ:] (yr 'æ fain'). Ymddengys mai yn rhinwedd ei swydd fel arolygwr ysgolion y daeth yn ymwybodol o wahanol amrywiadau tafodieithol, er na nodir hynny ganddo, ac mai o wahanol brofiadau yn arolygu ac yn ymweld â nifer o leoedd yn y canolbarth y deillia'r honiadau a wna.¹²

Y mae i erthygl Darlington, felly, gryn bwysigrwydd yn natblygiad tafodieitheg y Gymraeg gan mai dyma'r ymgais gyntaf i ymdrin yn fanwl â lleoliad elfennau ffonolegol nodweddiadol o'r canolbarth. Ceir gan yr arolygwr ysgolion fanylder sy'n amlwg yn seiliedig ar adnabyddiaeth dda o'r rhanbarth. Er hyn, cyfyd ambell broblem wrth astudio ei waith. Yn gyntaf, ni cheir gan Darlington unrhyw fanylion methodolegol ynghylch ei

¹² Yn ddiddorol, cyfeirir yn y *Transactions of the Guild of Graduates* (1901) at archwiliad Darlington o ffin yr 'u ogleddol' a oedd wrthi'n mynd rhagddo ar y pryd. Meddir: 'Owing to the fact that the gradations from the broadest 'u' of North Wales to the narrowest Dimetian 'i' are more real than is generally supposed, the determination of this dialect boundary is somewhat difficult, but the matter is now being carefully investigated by Mr. T. Darlington, in whose inspectorial district the boundary lies. On the West Coast, the boundary, according to Mr. Darlington's observations, appears to begin about Llwyngwrl in Meirionethshire.' (Anwyl, 1901: 41). Dengys hyn yn glir fod ysgolheigion a gyfoesai â Darlington yn ymwybodol o'i archwiliad, a bod ffin yr 'u ogleddol' yn destun o bwys iddynt ar y pryd.

ddulliau gwaith maes. Ni cheir ganddo chwaith unrhyw drawsgrifiadau o lafar siaradwyr neu ddata (meintiol neu ansoddol) i gefnogi ei ddadleuon. Disgwylir i'r gynulleidfa, yn syml, dderbyn ei air. Ni ddywedir hyd yn oed ar ba fath o siaradwyr y seilir ei ddisgrifiadau o'r nodweddion tafodieithol y rhydd sylw iddynt, boent ddisgyblion ysgol, athrawon neu aelodau eraill o gymunedau'r canolbarth. Y mae hefyd yn anfanteisiol na cheir manylion ynghylch rhai nodweddion sy'n amlwg yn y canolbarth, megis y defnydd a wneir o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn y rhanbarth. Er yr ymddengys fod Darlington yn ymwybodol nad llinellau hollol absoliwt mo'r isoglosau a luniodd, a'i fod yn barod i ystyried gwahanol bosibiliadau o ran datblygiadau hanesyddol, perygl pennaf y dadansoddiad hwn yw y creir ynddo'r argraff fod ffiniau ieithyddol pendant yn rhedeg yn daclus drwy'r wlad. Nid yw Darlington, mewn gwirionedd, yn ystyried y posibilrwydd y gallasai ardaloedd trawsnewid sylweddol fodoli lle y ceid gwahanol seiniau a ffurfiau yn ymgynwys â'i gilydd, a hynny efallai o fewn llafar yr unigolyn. Er tegwch iddo, fodd bynnag, dylid cofio mai cysyniad diweddarach na chyfnod Darlington yw'r 'ardal drawsnewid' fel y cyfryw.

2.1.2. Alf Sommerfelt

Cyhoeddwyd ffrwyth ymchwil y Norwyad Alf Sommerfelt (1925) mewn cyfrol a dddwg yr enw *Studies in Cyfeiliog Welsh: A Contribution to Welsh Dialectology*. I raddau helaeth, astudiaeth fanwl o iaith un ardal a geir yn y gyfrol hon, ond ceir ynddi hefyd ymgais i adeiladu ar ganlyniadau arolwg Thomas Darlington. Hon yn sicr yw'r astudiaeth gyntaf i ymdrin yn fanwl â nodweddion ffonolegol canolbarth Cymru mewn dull gwyddonol. Yn y rhagair i'w gyfrol, noda Sommerfelt (1925: V-VI) mai ei amcan yn wreiddiol oedd astudio datblygiad hanesyddol yr iaith mewn rhannau o'r canolbarth. Bu raid iddo gyfyngu'r ymchwil, fodd bynnag, i gyflwr yr iaith ar y pryd, ac yn arbennig i batrymau ffonolegol yn y canolbarth, a chyfeddyf nad yw ei ddisgrifiad o'r iaith yn gyflawn. Canolbwyntiodd yn bennaf ar blwyf Darowen (cyffiniau Llanbryn-Mair), ond aeth ati hefyd i ymchwilio ymhellach i hynt a helynt nodweddion ffonolegol ar hyd ardal Basn Dyfi, neu'r 'Dyfi Basin', fel y geilw ef yr ardal. Ar gyfer diffinio tiriogaeth Basn Dyfi, ceir gan Sommerfelt ddyfyniad helaeth o ddisgrifiad Iorwerth C. Peate o'r ardal. I grynhoi'r disgrifiad hwnnw, nodir bod Basn Dyfi yn cynnwys '... a large area of Montgomeryshire, a portion of South Western Meirionethshire and a part of North Cardiganshire' (Peate, 1925-26, a ddyfynnir yn

Sommerfelt, 1925: 1). Nid yw union ffiniau Basn Dyfi yn eglur oddi wrth y disgrifiad, fodd bynnag, ond mae'n amlwg yr ystyria Sommerfelt fod y mannau canlynol, lle y cafodd ei siaradwyr ohonynt, o fewn y diriogaeth: Darowen, Llanbryn-Mair, Carno, Llanerfyl, Llanymawddwy, Dinas Mawddwy, Cemaes, Machynlleth ac Aberdyfi.

O ran y modd y bu iddo gasglu ei ddata, noda Sommerfelt mai ffrwyth llafur tri ymweliad â'r rhanbarth ym 1922, 1923 a 1925 yw sail ei ymchwil. Ar gyfer ei ddisgrifiad manwl o systemau ieithyddol plwyf Darowen (cyffiniau Llanbryn-Mair), canolbwyntiodd yr ymchwilydd ar iaith dwy fenyw; mam a merch a aned ac a barhâi i fyw yn y cylch. Noda Sommerfelt (1925: 4, 151) fod y naill rhwng 75 a 80 oed, tra bo'r llall tua 40 oed. Dywed iddo hefyd ddefnyddio siaradwyr eraill o wahanol gymunedau ym Masn Dyfi (y'u nodwyd uchod) 'for certain points of interest' (1925: 4), a rhestrir deuddeg ohonynt yng nghefn y gyfrol. Y mae pob un o'r siaradwyr ychwanegol hyn yn ddynion, yn wahanol i'r ddwy wraig a fu'n sail i'w brif ymdriniaeth, a chynrychiolant rychwant eithaf eang o oedrannau. Nodir, er enghraifft, fod Iorwerth Peate, y siaradwr ieuengaf, yn 24 oed ar y pryd, bod rhai eraill rhwng 40 a 50 oed, tra bo'r hynaf tua 80 oed.

Y mae i'r gyfrol hon nifer o gryfderau. Yn y lle cyntaf, ceir ynddi gryn fanylder seinegol gan Sommerfelt. Rhoddir, er enghraifft, ddisgrifiadau technegol o lafariaid a chytseiniaid, yn ogystal â nifer helaeth o enghreifftiau o'r seiniau hynny wedi eu nodi yng ngwyddor yr *Association Phonétique Internationale*. Gwelir hefyd fod yr ieithydd yn meddu ar allu i gymharu seiniau'r Gymraeg â rhai ieithoedd Ewropeaidd eraill, gan gynnwys rhai Celtiadd.¹³ Wrth ymdrin â'r defnydd a wneir yn Narowen o'r 'æ fain' ar ddechrau deuseiniaid, er enghraifft, cyfeiria at achosion cyffelyb o [æ:] '[also] found in the diphthong *a:i*... in Donegal Irish' (1925: 136). Yn yr un modd, barna fod y llafariad ôl hanner agored 'of the French type in *pot, faux*' (1925: 11).¹⁴ Diau fod ymwybyddiaeth Sommerfelt o nodweddion ffonolegol ieithoedd eraill, felly, yn atgyfnerthu gwrthrychedd ei ddadansoddiad o Gymraeg y canolbarth. Cryfder arall y gyfrol yw bod ynddi fanylion ynghylch y siaradwyr a

¹³ Dylid pwysleisio yma i Sommerfelt gyhoeddi astudiaethau manwl o dafodieithoedd Llydaweg a Gwyddeleg cyn iddo gyflawni ei waith maes yng nghanolbarth Cymru. Gweler, er enghraifft, *Le Breton Parlé à Saint-Pol-de-Léon: Phonétique et Morphologie* (1920) a *The Dialect of Torr, Co. Donegal* (1921).

¹⁴ Gweler 2.2.4.2 isod ynghylch amwysedd y disgrifiad 'half open' gan Sommerfelt.

ddefnyddiwyd, yn wahanol i'r hyn a gaed gan Darlington. Nodir enwau pob un ohonynt (gan amlygu, felly, eu rhywedd), ynghyd â'u hoedrannau a lleoliad eu cartrefi. Yn ogystal â cheisio cymharu gwahanol bentrefi a threfi â'i gilydd o safbwynt sawl nodwedd dafodieithol, ceir yma hefyd ymgais i dynnu cymariaethau rhwng defnydd gwahanol siaradwyr o nodweddion penodol, e.e. rhwng y fam a'r ferch o Ddarowen. Gellir mynd cyn belled â dweud bod yma felly elfennau sosioieithyddol cynamserol yn yr astudiaeth hon. Y mae'n fanteisiol hefyd fod nifer o ganlyniadau'r gyfrol yn awgrymu datblygiadau hanesyddol posibl (gweler 2.2 am fanylion pellach), a byddai Sommerfelt yn sicr wedi bod yn agored ei feddwl i bosibiliadau o'r math hwn gan mai ymdrin â gwedd hanesyddol y Gymraeg oedd ei amcan yn wreiddiol.

Un o ddiffygion yr astudiaeth hon, fodd bynnag, yw bod casgliadau Sommerfelt ar adegau yn seiliedig ar niferoedd bychain o siaradwyr. Cymerer y gosodiad canlynol hwn am y defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], er enghraifft:

It results... that the palatalization is most general in the north-western part of the Dyfi Basin and that it is less frequent in the south and east. (Sommerfelt, 1925: 138)

Go brin y gallasai Sommerfelt honni hynny gydag argyhoeddiad am na chafodd ond un siaradwr o bob un o'r cymunedau canlynol: Carno, Llanerfyl, Cemaes, Dinas Mawddwy, Llanymawddwy ac Aberdyfi. Peryglus, fodd bynnag, yw rhagdybio bod y cymunedau hyn yn unffurf, gan gredu y gall un siaradwr gynrychioli tueddiadau pentref neu dref gyfan. Dyna, ysywaeth, a awgrymir gan honiadau fel y canlynol:

In Machynlleth, Cemmaes and Dinas Mawddwy... I did not find palatals; but in Llan ym Mawddwy and in Aberdyfi they are general. (Sommerfelt, 1925: 139)

Er bod Sommerfelt yn nodi bod gwahanol ansoddau i lafariad yr 'æ fain', gallasai ef er hynny fod wedi rhoi mwy o sylw i'r defnydd o'r sain hon ar gyrion ei thiriogaeth; yng nghyffiniau Harlech neu Drawsffynnydd, dyweder. Buasai hynny wedi datgelu i ba raddau y ceid ardaloedd trawsnewid o safbwynt yr 'æ fain' yn y 1920au. Yr hyn a geir ganddo'n hytrach yw ymdriniaeth sy'n gyfyngedig i ardaloedd lle yr oedd defnydd o'r 'æ fain' yn sefydlog ac yn unffurf. Er gwaetha'r elfennau anffanteisiol hyn, y mae disgrifiadau seinogol manwl

Sommerfelt, yn ogystal â'i ymdriniaethau estynedig â gwahanol nodweddion ar hyd Basn Dyfi, yn gosod seiliau cedyrn i ymchwilio ymhellach i dafodieithoedd y canolbarth.

2.1.3. Robert Owen Jones

Bu cryn fwch amseryddol rhwng astudiaeth Sommerfelt o Gymraeg cyffiniau Darowen ac ymdriniaeth Robert Owen Jones (1967) â thafodiaith ardal arall o'r canolbarth, sef Llanfachreth ger Dolgellau. Mewn rhannau o draethawd MA o'r enw *A Structural Phonological Analysis and Comparison of Three Dialects* y canfyddir yr ymdriniaeth honno, ac fel yr amlyga'r teitl, astudiaeth o batrymau ffonolegol mewn tair tafodiaith wahanol yng Nghymru a geir yma, sef rhai Dyffryn Nantlle, Llanfachreth a Thŷ Ddewi. Ceir yn y traethawd dair adran: seineg, ffonoleg, a chymhariaeth i gloi sy'n bennaf ffonolegol ei hymdriniaeth. Dywed Robert Owen Jones (1967: 13-14) iddo ganolbwyntio ar bensynwyr yn unig, a llwyddodd i recordio pedwar o drigolion hŷn Llanfachreth, sef dwy fenyw a dau ddyn. Ceisiodd yr ymchwilydd sicrhau bod y siaradwyr y bu'n cyfweld â hwy yn ateb yr un gofynion, h.y. eu bod hwy, yn ogystal â'u rhieni, wedi byw yn yr ardal ar hyd eu hoes; eu bod wedi derbyn ychydig o addysg ffurfiol yn unig, neu heb dderbyn dim; a'u bod yn 'good speaker[s] and quick to respond' (1967: 16-17). Er bod lle i ddadlau na ddiffinnir yn union yr hyn a olygir wrth y canllaw olaf, nid oes ddwywaith nad arwain at ganlyniadau mwy dilys a wna ei ymgais i sicrhau bod yr holl siaradwyr o gefndiroedd a medrau cyffelyb.

Un o brif anfanteision ymdriniaeth Robert Owen Jones, fodd bynnag, yw na fanylir odid ddim ar yr amrywiadau ffonolegol a geid yn Llanfachreth. Gan mai cymharu strwythurau ffonolegol elfennol tair tafodiaith Gymraeg hollol wahanol i'w gilydd sy'n greiddiol i'r astudiaeth hon, ni cheir ynnddi nemor ddim pwyslais ar amrywio o fewn y cymunedau eu hunain. Yr hyn a geir yn hytrach (fel y gwelir yn 2.2) yw darlun unffurf a sefydlog o batrymau ffonolegol ardal Llanfachreth, a diau fod y penderfyniad i ddefnyddio pedwar siaradwr yn unig o blith y genhedlaeth hŷn er mwyn cynrychioli'r gymuned gyfan yn rhannol gyfrifol am hyn. Yn wir, bu Robert Owen Jones ei hun yn feirniadol o'r wedd hon yn ei astudiaeth ddoethuriaethol ddiweddarach, sef 'yr elfen o orgyffrediniad sy'n peri bod cymaint o weithiau tafodieithogol diweddar yn anghynrychioliadol' (1983: 50), a chyfeddyf am ei draethawd MA fod y '...gwaith yn anghynrychioliadol ac yn annilys' (1983: 51). Rhaid

cofio er hynny nad astudiaeth sosioieithyddol drylwyr yn cymharu gwahanol garfannau o siaradwyr â'i gilydd a geir yma, mewn gwirionedd, yn wahanol i'w ymchwil ar Ddyffryn y Camwy ym Mhatagonia. Y mae canlyniadau'r astudiaeth hon, felly, yn gosod sail i archwilio i dafodieithoedd ardaloedd eraill yn y canolbarth yn fanylach, ac i weld a yw eu patrymau ffonolegol mor unffurf a phendant ag yr awgrymir am Lanfachreth.

2.1.4. Dafydd Wyn Griffiths

Traethawd MA arall a gyflawnwyd yn fras yn yr un cyfnod ag un Robert Owen Jones yw un D. W. Griffiths (1974), sef *Astudiaeth Eirfaol o Gymraeg Llafar Llanfair Caereinion*. Fel yr awgryma teitl y traethawd hwn, geirfa swmpus a geir ynddo yn bennaf. Yn y rhagymadrodd yn unig, felly, y rhoddir manylion sy'n ymwneud â ffonoleg ardal Llanfair Caereinion. Ceir y manylion hyn ar ffurf ymdriniaeth â ffonemau llafarog a chytseiniol y dafodiaith, ynghyd â chrynodeb byr o 'amrywiadau seinegol' y dafodiaith ar ddiwedd y rhagymadrodd. Y mae'n briodol dyfynnu brawddeg o ragymadrodd D. W. Griffiths sy'n awgrymu ei fod yn ymwybodol o'r ffaith iddo weithio mewn ardal drawsnewid, a bod amrywiadau'n codi oherwydd hynny:

Bu astudio iaith lafar sydd yn agos i'r ffin rhwng 'Cymraeg y Gogledd' a 'Chymraeg y De' a hefyd yn agos i'r ffin rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn waith hynod o ddiddorol a diau y byddai dychwelyd i Lanfair Caereinion ymhen ugain mlynedd yr un mor ddiddorol a hefyd yr un mor werthfawr o safbwynt ieithyddol. (1974: XVIII)

Prif anfantais y traethawd hwn, fodd bynnag, yw na cheir ynddo unrhyw fanylion am y siaradwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth. Ni nodir hyd yn oed sawl unigolyn y buwyd yn eu holi. Awgrymir yn aml, felly, fod iaith lafar ardal Llanfair Caereinion yn unffurf, a bod yr un amrywiadau seinegol gan bawb yn y gymuned. Pan awgrymir bod ambell nodwedd yn gyfyngedig i rai pobl, e.e. y defnydd o'r llafariad gaeedig ganol (yr 'u ogleddol') yn y cylch, ni cheir unrhyw ymgais i egluro pwy yw'r 'r[h]ai o drigolion o'r ardal' (1974: LXVI) sy'n defnyddio'r sain honno, boent henoed neu blant, ddynion neu ferched. Mae'n amlwg hefyd na cheisiodd yr ymchwilydd fesur union faint yr amrywio a geir yn achos newidynnau megis y llafariad led agored flaen (yr 'æ fain'). Yn amlwg, nid yw nodi mai [æ:] hir a glywodd 'gan amlaf' yn ddim ond argraff gyffredinol, ac nid yw mewn

gwirionedd yn ddibynadwy. Dylid hefyd nodi fod peryglon ynghylch y derminoleg pan ddywedir bod [a:] ac [æ:] yn ‘amrywio’n ddiamod’ gan fod yr ymchwilydd fel petai’n awgrymu mai ar hap a damwain y ceir y naill sain a’r llall yn gwamalu â’i gilydd. Amlygir, felly, nad yw D. W. Griffiths yn ystyried y gallasai ffactorau cymdeithasol egluro’r amrywio hwn. Y mae’r ymdriniaeth hon, serch hynny, yn gyflwyniad effeithiol ddigon i amrywiadau posibl yr ardal, ac yn sylfaen i gyflawni astudiaeth ffonolegol fanylach yno yn y dyfodol.

2.1.5. Beth Thomas a Peter Wynn Thomas

Amlygir yn nheitl y llyfr *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno’r Tafodieithoedd* (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989) mai cyflwyniad yn anad dim a geir yma i faes eang iawn. Rhoi blas inni ar amrywiadau tafodieithol o bob cwr o Gymru yw’r amcan, felly, ac y mae i’r gyfrol ddwy ran sy’n wahanol i’w gilydd yn eu hymdriniaeth â’r testun. Yn y rhan gyntaf, arolwg cyffredinol o dafodieithoedd Cymraeg traddodiadol a geir i bob pwrpas, lle y trafodir eu prif nodweddion o ran geirfa, seineg a gramadeg. Y mae’n amlwg mewn manau mai tynnu ar waith rhai o’r awduron a drafodwyd eisoes a wneir, e.e. y mae mapiau o diriogaeth ambell sain yn cyd-fynd â’r hyn a adroddir gan Darlington a Sommerfelt. Yn ail ran y gyfrol wedyn, eir ati i roi enghreifftiau penodol o lafar naturiol siaradwyr o bedair ar ddeg o ardaloedd gwahanol yng Nghymru, ac a berthyn yn ddieithriad i’r genhedlaeth hÿn. Gwneir hyn drwy gyfrwng trawsgrifiadau o ddeholiadau byrion o gyfweliadau, ynghyd â recordiadau cyfatebol o’r darnau hynny. Nodir gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 85) enwau’r holl siaradwyr a glywir ar y casét (sydd wrth reswm yn amlygu eu rhywedd) ynghyd â’u dyddiad geni. Eglurir yn y rhagair i’r gyfrol mai at ‘gynulleidfa eang’ (1989: ix) yr anelir ei sylwadau, a diau mai hynny sy’n cyfrif am ddiffyg manylion technegol a’r modd y ‘...bu’n rhaid [ynndi] ymwrthod... â chynildeb yr wyddor seinegol fanwl ond caethiwus i’r anghyfarwydd’ (1989: ix). Ffurfiâu a geidw’n agos at gonfensiynau orgraff y Gymraeg a geir, felly, gydag ambell eithriad megis æ, a ddefnyddir i gyfleu ansawdd yr ‘æ fain’ mewn llafariad hir, ac ε a ddefnyddir i gynrychioli fersiwn fer ar yr un sain.¹⁵

¹⁵ Er eglurder, nodir holl ffurfiâu’r gyfrol hon mewn print bras.

Er nad yw'r manylion a geir yn y gyfrol hon yn dechnegol iawn, y mae'n amlwg o bori drwyddi mai ffrwyth llafur dau dafodieithegydd profiadol a geisiai symleiddio cysyniadau cymhleth a geir ynddi, a bod sylwadau'r awduron yn seiliedig ar wybodaeth drylwyr ym maes tafodieitheg y Gymraeg. Codir, felly, nifer o gysyniadau a fyddai'n gymhleth o'u harchwilio'n llawn. Awgrymir, er enghraifft, fod gwahanol raddau ansoddol i lafariad yr 'æ fain', a bod Bryn-crug mewn ardal drawsnewid o ran y defnydd o'r 'u ogleddol'. I raddau helaeth, felly, y mae hon yn gyfrol sy'n braenaru'r tir ar gyfer cyflawni astudiaethau manylach yn y canolbarth.

Fel y nodwyd uchod, yr hyn a wneir yn ail ran y gyfrol yw cymryd un siaradwr o bob ardal fel sail i ymdrin â thafodieithoedd gwahanol gymunedau. Fodd bynnag, fel y pwysleisiwyd wrth drafod astudiaethau cynharach, perygl dadansoddiad o'r math hwn yw ei fod yn rhagdybio bod iaith un dyn neu fenyw yn gynrychioliadol o gymuned gyfan. O ran y tri siaradwr a gafwyd o'r canolbarth, mae'n debyg nad oedd pob un o gefndiroedd cymdeithasol tebyg. Nodir bod Mrs Evans o Fryn-crug, er enghraifft, yn ferch i feddyg, ond nid ystyrir y ffactor hwnnw fel rheswm posibl dros gynaniad llai caeedig o'r 'æ fain' na'r hyn a geir gan Mrs Jones o Lanymawddwy (gweler 2.2 isod am fanylion pellach). Ceir tueddiad, felly, i ragdybio mai lleoliad daearyddol yn anad dim arall sydd wrth wraidd gwahaniaethau rhwng y siaradwyr. Yn wir, gellir barnu bod honiadau megis bod yr 'æ fain' yn 'debycach o lawer i â' (1989: 36) yng nghyffiniau Tywyn nag yn Llanymawddwy yn annibynadwy os ydynt yn seiliedig ar iaith un brodor o bob ardal. Problem arall a gyfyd yn y gyfrol yw nad yw'r orgraff a ddefnyddir yn y trawsgrifiadau bob amser yn dadlennu beth yw'r union sain a gwyenir gan y siaradwyr. Tra defnyddir 'u' weithiau yn effeithiol ar gyfer adlewyrchu sain yr 'u ogleddol', e.e. yn **geuthon**, **felun**, a **rhoud**, ac 'i' ar adegau eraill er mwyn amlygu ansawdd y sain ddeheuol gyfatebol, e.e. yn **sisnag** a **gia**, gellir barnu nad yw ffurfiau fel **gaea**, **tywydd** neu **gwrych** ar y llaw arall yn llwyddo i gyfleu pa un o'r ddwy lafariad a ddefnyddir.¹⁶ Ceir yma, felly, ddiffyg cysondeb orgraffyddol rhwng ffurfiau fel **geuthon**, lle

¹⁶ Dylid pwysleisio yma nad ymddengys y defnyddir 'y' ar gyfer tynnu sylw at y lafariad gaeedig ganol [i(:)], ac mai 'u' a ddewiswyd ganddynt yn hytrach ar gyfer gwneud hyn. Ar gyfer eu trawsgrifiad o dafodiaith Pencaer, Sir Benfro, er enghraifft, gwelir mai adlewyrchu [i] flaen a wna 'y' mewn ffurfiau fel **fory** "yfory" a **finy** "(i) fyny" (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 130-31).

y cynrychiolir y llafariad gaeedig ganol [i] yn effeithiol, a **gaea**, lle na lwyddir i wneud hynny. Perygl arall â'r orgraff a ddefnyddir yw ei bod yn awgrymu bod ansawdd yr 'æ fain' yn fwy caeedig mewn llafariad byrion nag ydyw mewn rhai hir gan y defnyddir dau symbol gwahanol ar eu cyfer, e.e. ceir **mæm** ar gyfer [mæm], ond **tæd** ar gyfer [tæ:d]. Er gwaetha'r anfanteision hyn, fodd bynnag, ni ellir gorbwysleisio pa mor ddefnyddiol yw'r gyfrol hon ar gyfer rhoi syniad cyffredinol inni o batrymau ffonolegol elfennol y tafodieithoedd Cymraeg. Mewn gwirionedd, llawlyfr tafodieithogol ydyw y gall astudiaethau manylach adeiladu arno.

2.1.6. *The Welsh Dialect Survey*

Y gyfrol ddiweddaraf i gael ei chyhoeddi, ac sy'n berthnasol i'r astudiaeth ffonolegol hon, yw *The Welsh Dialect Survey* (A. R. Thomas et al., 2000). Ffrwyth llafur gwaith maes a gyflawnwyd rhwng 1991 a 1995, a gwaith golygu pellach a orffennwyd ym 1999, yw'r holiadur tafodieithol hwn. Ceir ynddo gofnodion seinegol ar gyfer dros 700 o eitemau, a hynny ar gyfer 117 o ardaloedd gwahanol yng Nghymru. Fel hyn yr eglurir yng nghyflwyniad y gyfrol sut y dewiswyd siaradwyr ar gyfer yr astudiaeth:

Informants were drawn from older generation speakers...; gender was not a criterion; a minimum of formal education, and long-standing family connection with the locality was looked for where there was a choice of informants. (2000: xiv)

Gellir barnu ei bod yn anochel y ceir problemau o ddibynnu ar un siaradwr o bob ardal. Dylid pwysleisio yma eto, fel a wnaed eisoes yn achos astudiaethau eraill, nad yw defnyddio un aelod o blith y genhedlaeth hŷn er mwyn cynrychioli iaith cymuned gyfan yn ddull dibynadwy. Cyfeiriwyd eisoes at feirniadaeth Robert Owen Jones o'r 'elfen [hon] o orgyffrediniad sy'n peri bod cymaint o weithiau tafodieithogol diweddar yn anghynrychioliadol' (1983: 50). Nid yw'r *Welsh Dialect Survey*, felly, yn adlewyrchu holl amrywiadau tafodieithol posibl Cymru. Gellir ychwanegu hefyd nad oes modd gydag un siaradwr adlewyrchu unrhyw gydberthynas rhwng ffactorau cymdeithasol megis rhywedd, oedran neu fuchedd, a gwahanol ddefnydd o amrywiadau llafar mewn gwahanol leoliadau. Anfantais arall â'r holiadur hwn yw bod cryn bosibilrwydd fod rhai siaradwyr wedi defnyddio ffurfiau a ystyrid ganddynt yn fwy "safonol" na'r rhai a ddefnyddient yn naturiol.

Sefyllfa ffurfiol, wedi'r cyfan, yw un lle y ceir dieithryn o gyfwelydd yn mynd drwy holiadur hirfaith, ac y mae'n debyg o beri i'r siaradwyr ddefnyddio ffurfiau sy'n annaturiol iddynt. Gwelir, er enghraifft, fod y siaradwr a gaed yn Harlech yn defnyddio amryw o ffurfiau lle y ceir yr [ɛ] ffurfiol yn sillaf olaf ddiacen geiriau amlsillafog yn hytrach na'r [a] sy'n nodweddiadol o'r dafodiaith, e.e. yn [karɛg] "carreg", [lɔnɛð] "llynedd", [serɛn] "seren" a [talkɛn] "talcen". Awgrymir hefyd gan yr amrywio a welir rhwng [a:] ac [æ:] mewn geiriau unsill, a chan absenoldeb ffurfiau taflodol mewn nifer o ardaloedd, fod elfennau nodweddiadol o'r canolbarth o dan reolaeth yn aml gan nifer helaeth o siaradwyr (gweler 2.2 am fanylion pellach). Diau, felly, ei bod yn fwy tebygol cael ffurfiau nodweddiadol o wahanol ardaloedd drwy eu casglu o ffrydiau o lafar naturiol na thrwy nodi atebion un gair i holiadur ieithyddol. Gellir cloriannu rhagoriaethau a gwendidau'r holiadur hwn, felly, drwy ddweud nad ydyw'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod yr amrywiadau llafar sy'n bosibl ym mhob ardal, ond ei fod er hynny yn llwyddo i amlygu prif strwythurau ffonolegol y tafodieithoedd Cymraeg.

2.2. Canlyniadau astudiaethau blaenorol

Hyd yma, rhoddwyd amlinelliad o'r astudiaethau a gyflawnwyd eisoes mewn rhannau o'r canolbarth, ac fe'u harfarnwyd o safbwynt eu rhagoriaethau a'u gwendidau. Nid ydys eto, fodd bynnag, wedi manylu ar ganlyniadau'r gweithiau hyn, a dyna y bwriedir ei wneud yn yr adran hon. O fynd drwy'r astudiaethau hyn yn fanwl, gellir barnu bod tair nodwedd ffonolegol neilltuol yn mynnu ein sylw. Y defnydd a wneir o'r llafariad gaeedig ganol [i(:)] (yr 'u ogleddol') mewn gwahanol rannau o'r canolbarth yw'r nodwedd amlwg gyntaf. Yr ail nodwedd sy'n ennyn cryn sylw gan bob un o'r awduron uchod yw'r defnydd trawiadol a wneir o'r llafariad led agored flaen [æ:] (yr 'æ fain') mewn rhannau helaeth o'r canolbarth. Y mae hefyd yn amlwg oddi wrth y gweithiau uchod fod defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn cael ei ystyried yn nodweddiadol o lafar y canolbarth. O blith y gwahanol ffynonellau sy'n ymdrin â'r tair nodwedd hyn, ceir cryn amrywiaeth o ddeunyddiau. Ceir, er enghraifft, ddisgrifiadau o ffiniau rhai o'r seiniau hyn, manylion ynghylch ansawdd rhai ohonynt, yn ogystal ag ymdriniaethau â systemau ffonolegol lle y rhestrir gwahanol ffurfiau sy'n cynnwys llafariad neu gytseiniaid penodol. Bwriedir yn yr isadran hon, felly, grynhoi a dadansoddi'r manylion a nodir ynghylch y tair nodwedd uchod ym mhob un o'r astudiaethau a gyflwynwyd eisoes.

Er y gellid bod wedi cyfyngu'r astudiaeth hon i nodweddion yr 'u ogleddol', yr 'æ fain' a'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], dadleuir yma fod nodwedd arall y dylid ei hystyried yng nghyd-destun ffonoleg y canolbarth, ac y bu tuedd gan ymchwilyr blaenorol i beidio â sylwi arni neu i'w hanwybyddu. Y nodwedd dan sylw yw'r defnydd a wneir o'r llafariad hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)]. Penderfynwyd, felly, grynhoi'r manylion a geir mewn gwahanol astudiaethau ynghylch y defnydd o'r llafariad hyn mewn gwahanol rannau o'r canolbarth. Dylid pwysleisio, er hynny, nad yw'r nodwedd hon mor amlwg â'r tair uchod yn yr astudiaethau dan sylw, a bod yr hyn yr adroddir amdani yn amrywio o'r naill awdur i'r llall.

Yng ngweddill y bennod hon, felly, eir drwy'r pedair nodwedd uchod yn eu tro, sef yr 'u ogleddol', yr 'æ fain', y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] a'r llafariad hanner caeedig / hanner agored. Ym mhob achos, rhoddir disgrifiad cyffredinol o'r nodweddion cyn manylu ar yr

hyn y dywed y gwahanol astudiaethau amdanynt. Ar ddiwedd pob isadran wedyn, tynnir casgliadau ynghylch yr hyn sy'n hysbys am y nodweddion dan sylw, yn ogystal â nodi beth yw'r bylchau a erys yn ein gwybodaeth.

2.2.1. Yr 'u ogleddol'

Gellir bod yn sicr fod y llafariad gaeedig ganol, neu'r 'u ogleddol' fel y'i gelwir ar lafar, yn graddol ddarfod o'r tir mewn rhannau o'r canolbarth. Gwyddys bod cyferbyniad i'w gael yn y gogledd rhwng [i(:)] gaeedig ganol ac [i(:)] gaeedig flaen, e.e. rhwng [ti:] "tŷ" a [ti:] "ti". Yn y de ar y llaw arall, niwtraleiddir y cyferbyniad hwn, ac [i(:)] flaen a geir yno yn gyson. Dyna sydd felly'n egluro pam y byddai "tŷ" a "ti" yn homoffonau yn y de, h.y. [i(:)] a yngenid yn y ddwy ffurf. O ganlyniad i'r gwahaniaeth hwn, y mae un llafariad yn llai fel rheol yn systemau ieithyddol y de nag yn rhai'r gogledd. Tybir yn naturiol, felly, mai mewn ardaloedd o'r canolbarth y collir y cyferbyniad hwn rhwng [i(:)] ac [i(:)] rywsut.

Fodd bynnag, nid yw'r 'u ogleddol' yn gyfyngedig i lafariaid hir mewn geiriau unsill gan y gellir ei chlywed yn fyr hefyd mewn geiriau unsill, e.e. yn [mænd] "mynd", ar ddechrau a diwedd deuseiniaid, e.e. yn [biu] "byw" a [ko:ɪd] "coed", yn ogystal â mewn nifer o gyd-destunau amlsillafog, e.e. yn [sgwiða] "ysgwyddau" a [kəχwɛn] "cychwyn". O edrych ar fap a geisia ddangos tiriogaeth y sain hon (gweler, er enghraifft, fap 3 yn 2.2.1.5 isod), ymddengys y gall y canolbarth fod yn ardal drawsnewid o ryw fath lle y mae'r sain ogleddol yn graddol gilio mewn ardaloedd penodol, e.e. yng nghanol Bro Dysynni yng ngorllewin ei thiriogaeth. Archwilir yn fanylach i union natur trawsnewid o'r math hwn ym mhennod 7. Cyn hynny, fodd bynnag, edrychir ar ymdriniaethau'r gwahanol awduron â'r nodwedd hon.


2.2.1.1. Thomas Darlington

Manyla Darlington ar ddechrau ei erthygl ar 'the northern boundary of what is known as the South Welsh pronunciation of *u* (*y*), as in *bu*, *llys*, *ufudd*, *hyn*; that is to say the pronunciation which makes no distinction between *i* and *u*' (1902: 14). Mewn geiriau eraill, ceir ganddo linell neu isoglos lle y ceir [i(:)] i'r gogledd ohono, ac [i(:)] i'r de. Gwelir y ffin honno ar fap

1 o eiddo Iorwerth C. Peate, a atgynhyrchwyd o'r gyfrol *Studies in Cyfeiliog Welsh* (Sommerfelt, 1925: Clawr). Y disgrifiad canlynol yw sail yr isglos a luniwyd:

Starting from the coast near Tonfannau Station... this boundary-line runs through Rhoslefain and Llanegryn, then passes to the south of Abergynolwyn, and crosses the hill to Esgairgeiliog; thence leaving Corris and Aberllefenni to the north, it runs down Cwmllecoediog to Aberangell. From this place to Llanerfyl in the valley of the Banw, the boundary-line is formed by the watershed which separates the valley of the Banw and those of its tributaries from the valleys watered by the tributaries of the Dovey. From Llanerfyl the line crosses the ridge between the Banw and the Vyrnwy..., passes between Pont Dolanog and Pont Robert, and then, leaving Llwydiarth and Llanfihangel-yng-Ngwynfa well to the north, follows the watershed between the Vyrnwy and the Cain to Llansaintffraid, where the English-speaking portion of Montgomeryshire is reached. Llansaintffraid itself is for the most part English-speaking, but so far as can be ascertained, the South Wales pronunciation of *u* predominates among those natives of the place who still speak Welsh. (Darlington, 1902: 14-15)

Map 1: Isoglosau yr 'u ogleddol' a'r 'æ fain' gan Peate (yn Sommerfelt, 1925: Clawr)¹⁷



¹⁷ Er eglurder, y llinell doredig yn y canol sy'n cynrychioli isglos yr 'u ogleddol', tra bo'r llinellau di-dor ar frig ac ar waelod y map yn adlewyrchu ffiniau yr 'æ fain'.

Er nad yw Darlington i'w weld yn mynegi ansicrwydd ynghylch pa mor gadarn yw'r llinell, amlygir yn ei ddehongliad ei fod yn ymwybodol fod rhyw fath o amrywio ar waith, a hynny o fewn pentrefi, cyhyd ag y bo ynganiadau o'r llafariad gaeedig ganol yn y cwestiwn:

...the pronunciation of the vowel *u* is found to be mixed, either in the sense that some of the inhabitants use the S[outh] W[elsh] vowel, and some the N[orth] W[elsh] vowel, as in the case at Rhoslefain and Bwlchycibau; or that an intermediate vowel, very like the ordinary English (short) *i*, is used, as in the case at Llanerfyl. (Darlington, 1902: 15)

Awgryma hefyd fod ffin honedig y llafariad ogleddol hon yn symud tua'r gogledd, a bod tueddiad cynyddol gan ieuenctid Corris, er enghraifft, i ddefnyddio [i(:)] yn hytrach nag [i(:)] eu rhieni:

There can be no doubt that the area of the S[outh] W[elsh] vowel is spreading northward. This is partly due to the spread of a knowledge of English, since careless bilingual speakers will not trouble to distinguish between the English *i* and the N.W. *u*. (Darlington, 1902: 15)

Dylid nodi yn olaf na cheir gan Darlington unrhyw fanylion ynglŷn â deuseiniaid sydd ag 'u ogleddol' yn elfen ynddynt.

2.2.1.2. Alf Sommerfelt

Rhydd Sommerfelt sylw estynedig i'r defnydd o'r llafariad gaeedig ganol yng nghyffiniau Basn Dyfi, a dywed fod ei diflaniad '...of fundamental importance to the phonetic system' (1925: 133). Gan mai defnyddio symbolau'r *Association Phonétique Internationale* a wna yn hytrach na rhai'r IPA, y yw'r symbol a ddefnyddia ar gyfer y sain ganol uchel, nid [i], ac *i* a geir ar gyfer [i].¹⁸ Er eglurder, ceisir yma gyfateb y ffurfiau a geir gan Sommerfelt gan y rhai a geid heddiw yn nodiant yr Wyddor Seinegol Gydwladol (yr IPA).

¹⁸ Ceir manylion pellach am ddatblygiad gwyddorau seinegol, a'r modd y'u defnyddiwyd yng nghyd-destun y Gymraeg, gan Iwan Wmffre (2003). Meddir: 'A phonetic notation of sounds generally accepted in scientific circles was only developed in the late nineteenth century. The IPA, which was subsequently to become the generally accepted notation, started life in France as the notation of the Association Phonétique... Sweet's 'Spoken North Welsh' (1888) [*sic*] and Fynes-Clinton's *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (1913)

Cyfeiria Sommerfelt at y ffin a ddisgrifiwyd gan Darlington ym 1902 o safbwynt [i] / [i̯], gan nodi ei farn amdani:

There can be no doubt that this boundary is, in the main, correct. Darlington's unique opportunity of observation... vouches for it. (Sommerfelt, 1925: 133)

Ar sail ei waith maes, anghytuna Sommerfelt â'r ffin mewn un ardal benodol:

The examples from Cwm Nant yr Eira show that Darlington has drawn the boundary too far north in this country. (1925: 135)

Barna, fodd bynnag, na ddylid cymryd yr isoglos a luniwyd ganddo yn rhy 'absoliwt':

...there must be intermediate districts where both sounds are heard. (1925: 133-34)

Yn ogystal â'r awgrym cryf hwn fod ardaloedd trawsnewid i'w cael yn y canolbarth o safbwynt yr 'u ogleddol', ceir ganddo ambell sylw am y modd y gwireddir y newid graddol hwnnw:

... [my] investigation has shown that North Welsh *y* does not finish suddenly with a high front vowel opposed to it. There is an intermediate type and *y* does not disappear in all positions at the same time. (Sommerfelt, 1925: 134)

Casgliad ei waith maes ehangach oedd mai [i(:)] yn unig a geid yn rhan ddeheuol Basn Dyfi, ac ar gyfer ardaloedd Aberdyfi, Machynlleth, Cemaes a Charno, nodir ffurfiau megis *ti*: [ti:] "tŷ", *di*:ð [di:ð] "dydd", *iχel* [iχɛl] "uchel" a *plentin* [plɛntin] "plentyn". Ar y llaw arall, [i̯(:)] a geir ganddo ar gyfer ardaloedd mwy gogleddol ym Masn Dyfi, a dywed fod y llafariad hon '... of the type which Sweet describes from Caernarfon, a little more to the front than the Anglesey vowel' (1925: 135). Ar gyfer ardaloedd Llanymawddwy a Chwm Nant-yr-Eira, felly, rhoddir ffurfiau megis *ty*: [ti:] "tŷ", *dry*:d [dri:d] "drud", *yχel* [iχɛl] "uchel" a *plentyn* [plɛntin] "plentyn". Honna Sommerfelt hefyd y ceid '... a mixed vowel when it is long... not

were the first to adapt it for Welsh, followed by Sommerfelt's *Studies in Cyfeiliog Welsh* (1925).' (Wmffre, 2003: 31).

identical with the North Welsh sound, but... pronounced more to the front' (1925: 134), a defnyddia'r symbol *ÿ*: ar ei chyfer.¹⁹ Ar gyfer Llanbryn-Mair a Dinas Mawddwy yn unig y nodir y llafariad hon, a gwelir gwahaniaeth rhwng ansawdd llafariad hir a rhai byrion yr ardaloedd hyn, e.e. rhwng *tÿ*: [t̪i:] "tŷ", *krÿ*:ð [kr̪i:ð] "crydd", *drÿ*:d [dr̪i:d] "drud", ac *iχel* [iχɛl] "uchel", *ivið* [ivið] "ufudd" a *plentin* [plɛntin] "plentyn". Awgrymir yma, felly, fod Sommerfelt yn credu bod yr 'u ogleddol', neu o leiaf sain a ymdebygai iddi, yn fwy tebygol o ymddangos mewn llafariad hir nag ydoedd mewn rhai byrion o wahanol fathau. Y mae'n ddiddorol hefyd y nodir bod modd clywed y sain *ÿ*:, h.y. llafariad hir fwy blaen nag [i:], gan dad yn Llanbryn-Mair a oedd rhwng 55 a 60 oed, sef George Peate, ond mai [i:] a glywid yn gyson gan Iorwerth Peate y mab, a oedd yn 24 oed ar y pryd (1925: 135). Daw, felly, i'r un casgliad â Darlington fod yr 'u ogleddol' yn graddol golli tir:

It follows that the isoglosses *i* : *ÿ* : *y* can be traced with comparative precision. They indicate further that the development *i* > *y* is spreading northwards. It is highly significant that in one case... the father has *ÿ* but the son *i*: ... (Sommerfelt, 1925: 135)

Y mae'n werth nodi hefyd fod Sommerfelt wrth restru llafariad syml ardal Darowen yn rhan gyntaf y gyfrol yn cynnwys *ï*, sain y'i disgrifir fel hyn:

This is not properly a mixed vowel but a retracted *i*, midway between the ordinary *i* and a high-mixed-narrow sound... *ï* is a rare vowel. (1925: 9)

Ymddengys, felly, mai llafariad fer y mae ei hansawdd hanner ffordd rhwng [i] ac [i̠] yw hon.²⁰ Dengys yr ychydig enghreifftiau ohoni fod Sommerfelt yn ei chlywed mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, e.e. yn *firð* [fir̪ð] "ffyrdd", *tirnjo* [t̪ir̪njo] "turnio", *pirjon* [pir̪jɔn] "purion" a *sirjon* [sir̪jɔn] "surion". Y mae'n werth pwysleisio, felly, na chaiff y sain hon unrhyw sylw yn y rhan o'r gyfrol sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth yn ansawdd yr 'u ogleddol' ar hyd Basn Dyfi, ac mai sain ganolradd arall a gaiff sylw Sommerfelt yn y rhan honno, sef y llafariad hir *ÿ*:. Nid yw'n gwbl glir, felly, beth yw'r gwahaniaeth rhwng ansawdd *ï* fer ac *ÿ* hir.

¹⁹ Defnyddir yma [i̠] er mwyn ceisio cyfateb ansawdd y llafariad hon yn nodiant yr IPA gyfoes.

²⁰ Defnyddir yma'r symbol [i̠] ar gyfer cyfleu ansawdd y llafariad hon yn yr IPA gyfoes.

Er ei bod yn gwbl ddiawys oddi wrth y sylwadau uchod fod Sommerfelt yn clywed amrywiaeth yn ansawdd yr ‘u ogleddol’ pan gymhara siaradwyr o wahanol ardaloedd â’i gilydd, ni chofnodir ganddo yr un achos o amrywio o fewn iaith yr unigolyn. Y mae er hynny yn barod i ystyried bod ymglyfnwid o’r math hwnnw yn bosibl yn y rhanbarth. Cymerer y dyfyniad canlynol, er enghraifft:

In this case the speakers examined had either *y* and *y:*, or *i* and *y:* or only *i* and *i:*. Transitional phenomena, the same person using both *i:* and *y:* or *y:* and *y:* probably occur as they do in the case of the parallel development of Donegal *á:* > *y:*, *i:*... (Sommerfelt, 1925: 150)

O safbwynt defnydd o’r ‘u ogleddol’ mewn deuseiniaid wedyn, y mae’n anfanteisiol inni fod astudiaeth ehangach Sommerfelt o’r llafariad hon yn gyfyngedig i lafariaid syml (hir a byr) yn unig. Er hynny, wrth drafod system ffonolegol Darowen yn adran gyntaf y gyfrol, rhoddir sylw i ddeuseiniaid yr ardal honno. Nodir yn y dadansoddiad hwn mai [i] flaen a geir yno yn ddieithriad lle y disgwyliid cael [i] ganol fel rheol yn neuseiniaid y gogledd, e.e. yn *hu:ir* [hu:ir] “hwyr”, *ko:is* [kɔ:is] “coes”, *da:i* [da:i] “dau”, *teili* [tɛili] “teulu”, *koiden* [kɔiden] “coeden” ac *egluis* [ɛgluis] “eglwys”. Fel ail elfen deuseiniaid y digwydd y llafariad [i] yn y ffurfiau uchod, ond fe’i ceir hefyd fel elfen gyntaf yn y ffurfiau *diu* [diu] “Duw”, *biu* [biu] “byw” a *biuχ* [biuχ] “buwch”. Ymddengys, felly, na sylwodd Sommerfelt ar unrhyw amrywio o bwys o safbwynt y defnydd o a wneir o’r ‘u ogleddol’ mewn deuseiniaid yn y canolbarth.²¹

2.2.1.3. Robert Owen Jones


Rhydd Robert Owen Jones (1967) enghreifftiau o’r llafariad gaeedig ganol [i] yn ymddangos mewn gwahanol gyd-destunau yn nhafodiaith Llanfachreth. Nodir, er enghraifft, achosion o’r sain hon yn codi mewn llafariad byrion a rhai hir mewn geiriau unsill, e.e. yn [pɪmp]

²¹ Y mae’n berthnasol nodi barn Glyn E. Jones (1989/90) ynghylch y dehongliad hwn: ‘Ni chofnododd Sommerfelt ddigwyddiad y deuseiniaid [oi] a [ui] yn ei astudiaeth ef ond y maent yn digwydd yn yr ardal. Mewn recordiadau o Gymraeg siaradwyr o Lanbryn-mair... [o] archif sain yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, codais... enghreifftiau... o’r deuseiniaid hyn’ (1989/90: 112-4). Y ffurfiau a nodir yw [oið] “oedd” a [buid] “bwyd”.

“pump” a [bɪ:d] “byd”, mewn llafariaid byrion yn y goben acennog, e.e. yn [kɪl:ax] “culach”, yn ogystal â mewn llafariaid byrion yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [tal:i] “talu”. O ran y deuseiniaid a nodir wedyn, ceir enghreifftiau o’r sain hon yn ymddangos fel ail elfen gwahanol ddeuseiniaid mewn geiriau unsill, e.e. yn [fra:i] “ffrae”, [o:in] “oen” a [lu:i] “llwy”, yn ogystal ag yn y goben acennog, e.e. yn [kɔisa] “coesau”, [trɔina] “trwynau” a [bɔidi] “beudy”. Ceir hefyd ambell enghraifft o’r llafariad gaeedig ganol hon yn codi fel elfen gyntaf yn y ddeusain [iʊ] mewn geiriau unsill, e.e. yn [biʊ] “byw” (1967: 139).

Nid awgrymir mewn unrhyw fodd, felly, fod amrywio ar waith yn Llanfachreth o safbwynt y defnydd o’r llafariad ogleddol hon, a dengys llinell goch map 2 o eiddo Robert Owen Jones (1967: Clawr) fod cyffiniau Dolgellau yn amlwg i mewn yn nhiriogaeth yr ‘u ogleddol’.

Map 2: Isoglosau ffonolegol sy’n berthnasol i’r canolbarth (R. O. Jones, 1967: Clawr)



2.2.1.4. Dafydd Wyn Griffiths

Noda D. W. Griffiths (1974) fod amrywio ar waith rhwng yr ‘u ogleddol’ a’r sain ddeheuol gyfatebol yn ardal Llanfair Caereinion (noder mai /y:/ yw’r symbol a ddefnydda i gynrychioli’r sain). Yn ymdriniaeth ffonolegol rhagymadrodd yr astudiaeth hon, felly, ceir enghreifftiau o’r llafariad gaeedig ganol yn ymddangos fel llafariad hir mewn geiriau unsill, e.e. yn [dy:] “du”, [by:s] “bys” a [gwy:ld] “gwyllt”; yn y sillaf olaf acennog, e.e. yn [əŋ^hhy:d] “ynghyd”; yn ogystal ag yn y goben acennog o flaen llafariaid, e.e. yn [dy:ɔn] “duon” a [dy:aɪ] “deall”, ac o flaen cytsain sengl yn [gwy:res] “wyres”. Rhoddir hefyd enghreifftiau o’r llafariad hon yn codi mewn llafariaid byrion mewn geiriau unsill, e.e. [kyn] “cyn” a [ty] “tu” (heb fod o dan yr acen); yn y goben acennog, e.e. [kysan] “cusan” a [pylpyt] “pulpud”; yn ogystal ag yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. [gwely] “gwely” a [helynt] “helynt”.

Amlyga rhai o sylwadau D. W. Griffiths ei safbwynt mai graddol ddarfod o’r tir a wna’r llafariad gaeedig ganol yn Llanfair Caereinion. Dywedir y canlynol, er enghraifft, am y llafariad hir:

Gan rai o drigolion o’r ardal yn unig y ceir y ffonem hon. Yn iaith y mwyafrif y mae /i:/... wedi ei disodli ym mhob safle. (Griffiths, 1974: LXVI)

Yn yr un modd, dyma a fynegir am y sain fer gyfatebol:

Digwydd y ffonem hon gan yr ychydig siaradwyr hynny y ceir /y:/ yn eu system seinegol... Yn iaith y mwyafrif disodlwyd /y/ gan /i/. (Griffiths, 1974: LXXII)

Rhoddir sylw cryno hefyd i ddeuseiniaid sydd â’r ‘u ogleddol’ ynddynt. Nodir sawl enghraifft o ddeusain (hir a byr) yn cau â’r llafariad hon, e.e. ceir /a:y/, /o:y/, /u:y/, /ay/, /oy/, ac /uy/ mewn ffurfiau megis [fra:y] “ffrae”, [ko:ys] “coes”, [du:y] “dwy”, [hayl] “haul”, [poy] “poen” a [buyd] “bwyd”. Yn ogystal â hyn, ceir ambell enghraifft o’r ‘u ogleddol’ fel elfen gyntaf y ddeusain /yu/, e.e. yn [byux] “burch” a [byu] “byw”. Awgrymir eto mai lleiafrif o blith trigolion Llanfair Caereinion sy’n defnyddio’r sain ogleddol mewn deuseiniaid. Ceir y sylw a ganlyn am /a:y/, er enghraifft,

Digwydd y ddeusain gan rai siaradwyr yn lle /a:i/ ac /æ:i/. (Griffiths, 1974: LXXVI)

Yn yr adran olaf o'r rhagymadrodd ar 'amrywiadau seinegol', mynega D.W. Griffiths ei farn am yr isoglos a luniwyd gan Darlington ar gyfer y sain hon, sydd i'r gogledd o Lanfair Caereinion.

Ar y cyfan cytunwn â hyn. Nid oes cyferbyniad rhwng parau fel [hi:n] a [ly:n], o leiaf yng Nghymraeg y mwyafrif mawr o'r boblogaeth. Ond mae'n rhaid nodi serch hynny y cawsom yr argraff fod [y:/y] i'w clywed (mewn cyferbyniad ag [i:/i]) gan rai siaradwyr arbennig. Hyd y gallwn sicrhau mae'r siaradwyr hyn yn frodorion ac nid oes unrhyw reswm allanol yn cyfrif am yr elfen hon yn eu hiaith. Yr oedd cywirdeb eu defnydd o'r ffonemau /y:/y/ wedi ein hargyhoeddi o'u dilysrwydd. Fodd bynnag, er fod [*sic*] y siaradwyr dan sylw yn defnyddio'r ffonemau hyn yn gywir ni ellir dweud eu bod yn eu defnyddio'n gyson. (1974: XC)


Ymddengys fod y dadansoddiad hwn, felly, yn awgrymu mai graddol gilio o'r ardal a wna'r llafariad ogleddol (er nad yn llwyr), a'i fod yn gyson â barn Darlington a Sommerfelt fod y ffin yn symud tua'r gogledd. Gan fod brawddeg olaf y dyfyniad uchod yn amlygu na ddefnyddir yr 'u ogleddol' yn gyson gan y siaradwyr sy'n ynganu'r sain, y mae hyn yn amlwg yn gyfystyr â nodi bod amrywio ar waith rhwng y llafariad gaeedig ganol a'r un flaen gyfatebol. Ni cheir unrhyw fanylion, fodd bynnag, am natur yr amrywio hwnnw, ac ni ddywedir chwaith a yw'r llafariad ogleddol yn fwy cyffredin mewn ambell air neu gyddestun na mewn un arall.

2.2.1.5. Beth Thomas a Peter Wynn Thomas

Yn achos yr 'u ogleddol', yn ogystal â'r nodweddion eraill sy'n dilyn, rhoddir sylw yn gyntaf i'r manylion cyffredinol a geir yn rhan gyntaf y gyfrol *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989). Bwrir golwg wedyn ar ail ran y gyfrol, lle y ceir enghreifftiau o lafar gwahanol ardaloedd yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar eu hymdriniaeth ag iaith tri siaradwr o'r canolbarth, sef Mrs Jones o Lanymawddwy (recordiad rhif 6 y gyfrol), Mrs Evans o Fryn-crug (recordiad rhif 7), a Mr Thomas o Garno (recordiad rhif 8).

Yn rhan gyntaf y gyfrol, felly, trafodaeth gyffredinol a geir gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 30-33) ar y llafariad gaeedig ganol, neu'r 'u ogleddol' fel y'i gelwir. Rhoddir sylw, er enghraifft, i'r isoglos a ddisgrifiwyd gan Darlington, a dyna a amlygir ganddynt ar fap 3 isod a atgynhyrchwyd o'r gyfrol hon (1989: 32).²²

Map 3: Tiriogaeth yr 'u ogleddol' (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 32)



Er bod yr awduron i bob pwrpas yn ailgyflwyno'r ffin a luniwyd yn wreiddiol gan Iorwerth Peate yn sgil disgrifiad Darlington o diriogaeth yr 'u ogleddol', daw i'r amlwg nad ydynt yn ystyried y llinell fel un absoliwt. Meddir:

Pan wnaeth Darlington ei waith fe dybiai tafodieithegwyr fod ffiniau ieithyddol yn debyg i rai gweinyddol, a bod modd tynnu llinell derfyn bendant rhwng nodweddion a'i gilydd... Erbyn hyn, gwyddom nad yw ffiniau ieithyddol mor hawdd eu diffinio, ac felly er bod map Darlington yn crynhoi

²² Dangosir ar y map hwn hefyd fod yr 'u ogleddol' yn ymddangos yn nhafodiaith draddodiadol rhannau o'r hen Sir Forgannwg yn y de-ddwyrain, a chadarnheir hyn gan un o recordiau'r gyfrol. Cyfyngir y drafodaeth hon, fodd bynnag, i ddefnydd y canolbarth o'r sain hon.

hanfodion y sefyllfa... ni ddylid meddwl bod y ‘ffin’ yn gadarn a diwyro... (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 31)

Diau fod y dehongliad hwn, felly, yn awgrymu bod ardaloedd trawsnewid i’w cael yn y canolbarth o safbwynt yr ‘u ogleddol’. Rhoddir sylw hefyd yn rhan gyntaf y gyfrol i ystyriaethau hanesyddol, a chynigir damcaniaeth argyhoeddiadol fod y llafariad gaeedig ganol wedi bodoli drwy Gymru ben baladr yn y gorffennol, ei bod wedi graddol gilio ers hynny, ac mai dyna pam y cysylltir defnydd y sain â thafodieithoedd y gogledd yn unig bellach.²³

O ran ymdriniaeth yr awduron â’r sain yng Nghymraeg gwahanol unigolion o’r canolbarth wedyn, amlygir nad yw’r sefyllfa yn debyg yn y tair ardal y rhoddwyd sylw iddynt. Ymddengys i ddechrau fod y defnydd o’r sain yn hollol gyson yng nghyffiniau Llanymawddwy:

Rhennir tiriogaeth yr **æ** yn ogledd a de yn ôl y defnydd a wneir o’r **u** ogleddol... Yng ngogledd tiriogaeth yr **æ** y mae Llanymawddwy, ac felly y mae Mrs Jones yn defnyddio **u** yn y cyd-destunau gogleddol arferol, fel yn **tŷ**. (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 111)

Ar y llaw arall, dywedir bod ardal Bryn-crug ‘... ar gyrion tiriogaeth yr **u** ogleddol’ (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 116), a bod y ‘sain yn brin iawn’ yno. Awgrymir, felly, fod pentref Bryn-crug mewn ardal drawsnewid lle y mae’r llafariad gaeedig ganol fel petai’n cystadlu yn erbyn y llafariad flaen ddeheuol gyfatebol. Nodir, er enghraifft, mai’r **i** ddeheuol a geir yn **dydd** (ll.1) ac **edrych** (ll.4). Tynnir ein sylw hefyd at orgywiriad gan siaradwraig Bryn-crug, sef defnydd o’r llafariad gaeedig ganol mewn gair lle y disgwyliid clywed ynddo y llafariad gaeedig flaen. Y ffurf **melun** “melin” sydd dan sylw ganddynt, ond gellid ychwanegu mai’r un ffenomen a welir yn y ffurf **rhou** “rhoi” a geir gan yr un siaradwraig.

Gwahanol eto, fe ymddengys, yw’r sefyllfa yng Ngharno yn Sir Drefaldwyn:

Nid yw’r **u** ogleddol yn amlwg yn ei iaith; **i** ddeheuol sydd ganddo mewn geiriau fel **dyn**... a **tŷ**... (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 121)

²³ Rhoddir sylw manylach i’r wedd hanesyddol hon yn mhennod 7 sy’n ymdrin yn benodol â nodwedd yr ‘u ogleddol’ (gweler 7.4.2).

Awgryma'r gosodiad uchod, fodd bynnag, nad yw'r awduron yn ystyried bod y llafariad yn hollol absennol yn yr ardal, er bod Carno ymhell i'r de o ffin Darlington.

O safbwynt deuseiniaid sydd ag 'u ogleddol' yn un o'u helfennau, ni sonnir nemor ddim amdanynt yn y gyfrol hon. Gellir nodi, er hynny, fod y symbol 'u' a ddefnyddir ganddynt yn amlygu mai'r llafariad gaeedig ganol a geir yn elfen olaf mewn rhai deuseiniaid yn y tair ardal dan sylw, e.e.

[æ:i] yn **llæuth** "llaeth" (Llanymawddwy)

[ɛi] / [əi] yn **geuthon** "cawsom" (Bryn-crug)

[əi] yn **rhouð** "rhou" (Bryn-crug)

[æ:i] yn **ciæu** "cae" (Carno)

Yn yr un modd, adlewyrchir y gwrthwyneb gan y symbol 'i' a geir yn **mai** "mae", sef ffurf a nodir ar gyfer siaradwr Carno, lle y cyfleir mai'r llafariad gaeedig flaen a geir yn elfen olaf yn [æi]. Yr ynganiad [mai] "mae" a ddisgwyliid yn y gogledd ar y llaw arall.


2.2.1.6. *The Welsh Dialect Survey*

Ar gyfer ymdrin â chanlyniadau'r holiadur tafodieithol hwn o safbwynt yr 'u ogleddol', yn ogystal â'r nodweddion sy'n dilyn, canolbwyntiwyd yn benodol ar bedair ardal ar bymtheg yn y canolbarth. Ni all pennu pa ardaloedd yn union y dylid eu hastudio'n fanwl beidio â bod yn benderfyniad goddrychol mewn gwirionedd, a cheir temtasiwn i gynnwys ambell ardal gyffiniol arall (yng ngogledd Sir Geredigion neu yn ne Sir Gaernarfon, dyweder) er mwyn gweld beth yw'r patrymau a gyfyd yno hefyd. Daethpwyd i'r casgliad, fodd bynnag, fod yn rhaid tynnu terfyn yn rhywle, ac y byddai'r pedair ardal ar bymtheg dan sylw yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r patrymau a geir yn y canolbarth. Nodir yr ardaloedd a ddedholwyd yn y tabl isod,²⁴ ac fe'u lleolir yn eglur ar fap 4 a atgynhyrchwyd o gyflwyniad *The Welsh Dialect Survey* (A. R. Thomas et al., 2000: xiii), ac a addaswyd gennyf.

²⁴ Ceir rhestr gyflawn o'r ardaloedd yng nghyflwyniad yr holiadur (A. R. Thomas et al., 2000: xii).

Rhif yr ardal ar fap 4	Enw'r ardal	Rhif yr ardal ar fap 4	Enw'r ardal
35	Penffordd-las	47	Llanfachreth
36	Pont-ddôl-goch	48	Llwyngwritl
37	Yr Adfa	49	Llanymawddwy
38	Llangadfan	50	Corris
39	Pontrobert	51	Talerddig
40	Pen-y-bont-fawr	52	Aberdyfi
41	Llangedwyn	53	Aberhosan
44	Trawsfynydd	54	Tre'r-ddôl
45	Harlech	55	Llangurig
46	Abermaw		

Map 4: Ardaloedd y canolbarth (addaswyd o A. R. Thomas et al., 2000: xiii)



O ran y modd y cyflwynir ffurfiau seinegol yn yr holiadur, rhestri yn unig a geir ar gyfer gwahanol eitemau. Defnyddiwyd y rhain, felly, ar gyfer cymharu canlyniadau gwahanol yr ardaloedd uchod â'i gilydd. Rhoddwyd y canlyniadau mewn tablau, ac fe'u hamlygir ar y mapiau isod. Yn achos cyd-destunau y ceir ynddynt lawer o ffurfiau perthnasol, e.e. yr 'u ogleddol' fel llafariad hir mewn geiriau unsill, penderfynwyd astudio saith ffurf gyntaf yr holiadur ("tŷ", "du", "dyn", "bys", "chwys", "clust" a "gwyllt" yn yr achos hwn). O ran cyd-destunau na cheir ynddynt gymaint â saith ffurf, seilir y dadansoddiad ar bob un ffurf berthnasol a nodir, e.e. pum ffurf a geir yn yr holiadur yng nghyd-destun yr 'u ogleddol' fel llafariad fer mewn geiriau unsill (sef "chwyn", "llyn", "cyll", "byr" a "byth").

O safbwynt y defnydd o'r 'u ogleddol' yn y canolbarth, felly, y mae data'r holiadur ar y cyfan yn darlunio sefyllfa glir a sefydlog. Lluniwyd map 5 ar sail canlyniadau chwe chyd-destun penodol, sef:

1. Llafariaid hir mewn geiriau unsill, e.e. "dyn";²⁵
2. Llafariaid byrion mewn geiriau unsill, e.e. "chwyn";
3. Llafariaid syml yn y goben acennog, e.e. "culach";²⁶
4. Deuseiniaid mewn geiriau unsill sy'n cau ag [i] yn y gogledd, e.e. "cae";²⁷
5. Deuseiniaid yn y goben acennog sy'n cau ag [i] yn y gogledd, e.e. "neuadd";²⁸
6. Deuseiniaid yn y sillaf olaf ddiacen sy'n cau ag [i] yn y gogledd, e.e. "siroedd".²⁹

²⁵ Nodwyd eisoes yn y paragraff blaenorol y geiriau a ddadansoddir sy'n berthnasol i gyd-destunau 1 a 2.


²⁶ Y geiriau a ddadansoddir yw "duo", "purach", "munud" a "puro".

²⁷ Y geiriau a ddadansoddir yw "baedd", "cae", "ddoe" ac "oer".

²⁸ Y geiriau a ddadansoddir yw "heulog" a "neuadd".

²⁹ Y geiriau a ddadansoddir yw "tonau", "tonnau" a "siroedd".

Map 5: Yr ‘u ogleddol’ mewn chwe chyd-destun gwahanol




Amlygir ar fap 5, felly, isoglos amlwg lle y ceir y llafariaid deheuol [i(:)] / [ɪ] i’r de ohono, tra ceir [i(:)] / [ɨ] i’r gogledd o’r llinell. Yr un ffin a geir, felly, ar gyfer y chwe chyd-destun uchod. Cymhlethir y darlun rywfaint, fodd bynnag, gan y gwelir bod seiniau deheuol a rhai gogleddol yn ymgynffwrdd â’i gilydd mewn rhai achosion yn ardaloedd cyffiniol 44 (Trawsfynydd) a 45 (Harlech), sydd ymhell i’r gogledd o’r ffin. Ceir, er enghraifft, [kli:st] “clust” ond [gwi:t] “gwyllt” gan siaradwr Harlech, ac yn yr un modd, parau fel [bir] “byr” a [bɨθ] “byth” a nodir ar gyfer Trawsfynydd. O blith y chwe chyd-destun dan sylw, gwelir amrywio rhwng [i(:)] / [ɨ] ac [i(:)] / [ɪ] ym mhob un ohonynt yn y ddwy ardal hyn, ac eithrio yng nghyd-destun 5 yn Harlech, ac yng nghyd-destunau 1 a 3 yn Nhrawsfynydd (gweler rhestr uchod), lle y ceir [i(:)] / [ɨ] yn gyson.

Sefyllfa fwy amrywiol, fodd bynnag, a ddarlunnir ar fap 6, sy’n adlewyrchiad o ganlyniadau’r holiadur ar gyfer cyd-destun arall, sef ffurfiau sydd â llafariaid syml yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. “celyn”.³⁰ Gwelir ar y map hwn fod yr un isoglos yn parhau i’w amlygu ei hun, a bod y defnydd o [i] / [ɪ] yn dra sefydlog i’r de o’r ffin hon. Cymhlethir y darlun, fodd bynnag, gan y gwelir amrywio ar waith rhwng y llafariaid deheuol a’r rhai gogleddol, nid yn unig yn Nhrawsfynydd (44) a Harlech (45), ond hefyd mewn pedwar lleoliad arall sydd i’r gogledd o’r ffin (ardaloedd 38-41), yn ogystal â mewn un lleoliad i’r de o’r ffin honno (ardal

³⁰ Y saith ffurf gyntaf yw “mynydd”, “tywydd”, “gwely”, “celyn”, “talu”, “munud” a “crasu”.

35). Cofnodir, felly, barau megis [kjɛlɪn] “celyn” ~ [*vɪnɪd] “munud” ar gyfer ardal 39 (Pontrobert), a [mənɪð] “mynydd” ~ [təwɪð] “tywydd” ar gyfer ardal 40 (Pen-y-bont-fawr).

Map 6: Yr ‘u ogleddol’ mewn llafariaid syml byrion yn y sillaf olaf ddiacen



I grynhoi dehongliad yr holiadur o sefyllfa'r ‘u ogleddol’, felly, awgryma'r canlyniadau yn gryf y ceir ffin (nid annhebyg i'r un a ddisgrifiwyd gan Darlington) yn rhedeg drwy'r canolbarth lle y ceir fel rheol y llafariaid caeedig canol i'r gogledd ohoni, a'r llafariaid caeedig blaen i'r de ohoni. Ychydig o arwyddion a geir yn yr holiadur hwn, felly, fod ardaloedd trawsnewid ar hyd y canolbarth lle y ceir y llafariaid gogleddol a'r rhai deheuol yn ymgynffwrdd â'i gilydd yn gyson, ac eithrio yn achos llafariaid byrion y sillaf olaf ddiacen. Y mae hefyd yn anodd egluro pam y cofnodir bod cryn amrywio ar waith rhwng y llafariaid deheuol a'r rhai gogleddol yn ardaloedd Harlech a Thrawsfynydd, sydd ymhell i mewn yn nhiriogaeth y llafariad gaeedig ganol.

2.2.1.7. Casgliadau

Ar sail y ffynonellau uchod, gellir casglu cryn dipyn o wybodaeth ynghylch y defnydd a wneir o nodwedd yr ‘u ogleddol’ mewn gwahanol rannau o'r canolbarth. O safbwynt tiriogaeth y sain hon yn gyntaf, gwelwyd bod Darlington (1902) yn disgrifio isoglos penodol iawn, ac yn honni mai [i] a geid i'r gogledd ohono, tra ceid [ɪ] i'r de. Cytuno'n ofalus â'r dehongliad hwn a wna Sommerfelt ar y cyfan, gan bwysleisio er hynny ‘[that] there must be intermediate districts where both sounds are heard’ (1925: 133-34). Tebyg i farn Sommerfelt

yw ymdriniaeth y gyfrol *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* â'r ffin hon hefyd lle y dangosir yr isoglos a ddisgrifiwyd gan Darlington ar fap 3 uchod, gan bwysleisio er hynny '[na] ddylid meddwl bod y 'ffin' yn gadarn a diwyro' (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 31). Gwelwyd hefyd fod D. W. Griffiths (1974) yn cytuno i raddau helaeth â barn Darlington, er iddo nodi bod modd clywed y sain gaeedig ganol [i(:)] i'r de o'r ffin yn Llanfair Caereinion. Ar sail fy nadansoddiad o ffurfiau *The Welsh Dialect Survey* (2000) wedyn, awgryma canlyniadau'r holiadur hwn yn gryf fod ffin (un debyg i'r hyn a gafwyd gan Darlington) lle y ceir yr 'u ogleddol' fel rheol ar y naill ochr ohoni, a'r llafariad ddeuheuol ar yr ochr arall. Yr unig astudiaeth nad ydyw'n manylu ar ffin yr 'u ogleddol' yn y canolbarth, felly, yw un Robert Owen Jones (1967). Y mae ei ganlyniadau, fodd bynnag, yn dangos yn eglur mai'r llafariad ogleddol hon a ddefnyddir yn gyson yn Llanfachreth ger Dolgellau, a bod yr ardal honno felly yn amlwg yn nhiriogaeth yr 'u ogleddol'.

Y mae'n eglur oddi wrth y gweithiau hyn, felly, eu bod yn gyson â'i gilydd yn yr ystyr bod cytundeb rhyngddynt fod ffin bwysig yn y canolbarth, neu o leiaf ardal drawsnewid lle y graddol gyfnewidir y naill lafariad am y llall. Er hynny, nid yw'n hysbys inni o gwbl sut y gwireddir y newid hwnnw. Ni wyddys, er enghraifft, beth yw natur yr amrywio a welir mewn ardal drawsnewid o'r math hwn. Diau y gallai ymgyfnewid rhwng y ddwy sain fod yn bosibl mewn amrywiaeth o gyd-destunau a safleoedd o fewn geiriau, ond ni phrofir hynny mewn gwirionedd gan yr un o'r astudiaethau uchod. Diddorol, er hynny, yw sylw Sommerfelt '[that] y does not disappear in all positions at the same time' (1925: 134), er nad yw'n ymhelaethu ar y wedd honno yn anffodus. Y mae dirfawr angen dadansoddiad meintiol a fesurai amllder y gwahanol lafariaid hyn mewn gwahanol gyd-destunau sillafog a seinegol, felly.

Er bod yr awduron uchod yn gytûn â'i gilydd fod isoglos neu ardal drawsnewid amlwg mewn ardaloedd o'r canolbarth o safbwynt y defnydd o'r 'u ogleddol', ymddengys nad ymddiddorwyd i'r un graddau yn ei hunion ansawdd. Barna Darlington, er hynny, fod sain ganolradd, h.y. 'an intermediate vowel, very like the ordinary English (short) *i*' (1902: 15), i'w cael yn Llanerfyl. Yn yr un modd, ystyria Sommerfelt fod dwy lafariad ganolradd i'w cael yng nghyffiniau Llanbryn-Mair, y naill yn hir a'r llall yn fyr, ond nid yw'r glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng eu hansoddau a'u hamlder.

Arwain hynny'n naturiol at ystyriaeth arall sy'n haeddu sylw, sef y modd yr awgryma rhai o'r astudiaethau uchod ein bod yn ymdrin â newidiadau sy'n digwydd dros gyfnod o amser, a bod y rheini yn dal i fynd rhagddynt ar y pryd. Awgrymwyd gan Darlington (1902) i ddechrau fod ffin yn symud tua'r gogledd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ac mai arwydd o hynny oedd ei habsenoldeb ymhlith ieuenctid ardal Corris. Y mae dehongliad Sommerfelt (1925) yntau fod y sain ganolradd hir (h.y. sain rhwng [i(:)] ac [i(:)]) yn gyfyngedig i iaith rhai o genhedlaeth hŷn dalgylch Llanbryn-Mair ar y pryd hefyd yn gyson â'r farn hon mai symud tua'r gogledd a wnâi'r isoglos hwn. Yn ogystal â hyn, ymddengys fod yr amrywio y sylwodd D. W. Griffiths (1974) arno rhwng [i(:)] ac [i(:)] yn iaith rhai o siaradwyr Llanfair Caereinion yn cyd-fynd eto â damcaniaeth Darlington. Yn ychwanegol at hyn, y mae'n werth nodi y dadleuir yn argyhoeddiadol gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989) fod y llafariad gaeedig ganol hon wedi bod yn rhan o Gymraeg pob ardal o Gymru ar un adeg, a cheir tystiolaeth gadarn o'i bodolaeth yn nhafodiaith draddodiadol Sir Forgannwg yn y de-ddwyrain.³¹ Er i Sommerfelt nodi bod colli cyferbyniad rhwng [i(:)] ac [i(:)] '... of fundamental importance to the phonetic system' (1925: 133), gellir dadlau nad archwiliwyd yn fanwl hyd yma i effeithiau diflaniad yr 'u ogleddol' ar strwythurau ffonolegol gwahanol dafodieithoedd.³²

Y mae'n amlwg, felly, yr erys sawl cwestiwn heb ei ateb. Yn wir, gellir dadlau bod holl natur ardaloedd trawsnewid o ran y defnydd o'r 'u ogleddol' mewn gwahanol gymunedau yn dir nas troediwyd eto. Nid yw'n wybyddus, felly, pa ffactorau (os ceir rhai) sy'n cyflyru'r defnydd a wneir o'r sain hon ar gyrion ei thiriogaeth. Ar sail y gweithiau blaenorol uchod hefyd, ymddengys fod i'r llafariad sawl ansawdd posibl, ond na chafodd yr agwedd honno ar y sain lawer o sylw yn y gorffennol. Yn olaf, dylid ystyried y posibilrwydd y gallai astudio amrywiadau mewn ardaloedd trawsnewid daflu goleuni ar ddatblygiadau hanesyddol a ddigwyddodd eisoes mewn ardaloedd eraill, gan egluro hefyd beth yw effaith bodolaeth neu absenoldeb yr 'u ogleddol' ar batrymau ffonolegol ehangach. Bwriedir ymdrin yn fanylach â nifer o'r cymhlethdodau hyn, felly, pan ddychwelwn at y llafariad hon ym mhennod 7.

³¹ Fel y nodwyd eisoes, trafodir y wedd hanesyddol hon yn llawn ym mhennod 7 (gweler 7.4.2).

³² Rhoddir sylw manwl i effeithiau posibl o'r math hwn hefyd ym mhennod 7 (gweler 7.4.3).

2.2.2. Yr ‘æ fain’

I gymhlethu patrymau ffonolegol y rhanbarth hwn, nid yw holl elfennau ieithyddol y canolbarth yn nodweddion ‘trawsnewidiol’ sy’n codi oherwydd ei safle rhwng y gogledd a’r de. Ceir yno hefyd nodweddion tafodieithol na cheir mohonynt mewn ardaloedd eraill o Gymru. Un o’r rheini yw defnydd o [æ(:)], neu’r ‘æ fain’, sef llafariad fwy caeedig a mwy blaen na’r [a(:)] agored fwy safonol a geir yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru. Dengys map o diriogaeth yr ‘æ fain’ fod modd clywed y sain hon drwy rannau helaeth o’r canolbarth (gweler map 7 yn 2.2.2.5 isod). Nid colli neu greu cyferbyniad a wneir yn achos yr ‘æ fain’, eithr ynganu’n wahanol mewn cyd-destunau arbennig. Y rhagdybiaeth gyffredinol yw bod yr ‘æ fain’ yn ymddangos gan amlaf fel llafariad hir mewn geiriau unsill ac yn sillaf olaf acennog ffurfiau, e.e. yn [tæ:d] “tad” a [kanja¹tæ:d] “caniatâd”, mewn deuseiniaid hir fel elfen gyntaf, e.e. yn [glæ:u] “glaw” a [læ:iθ] “llaeth”, yn ogystal ag yn fyr mewn ffurfiau eithriadol fel [mæm] “mam”. Gwelir ym mhennod 8, fodd bynnag, fod y sefyllfa yn gymhlethach na hynny. Cyn hynny, edrychir ar ymdriniaeth y gwahanol awduron â’r nodwedd hon.

2.2.2.1. Thomas Darlington

Ceir gan Darlington ddisgrifiad tebyg o diriogaeth yr ‘æ fain’ i’r hyn a geir ganddo ar gyfer yr ‘u ogleddol’. Y mae isoglosau’r ‘æ fain’ a ddangosir gan Iorwerth Peate ar fap 1 y bennod hon (yn 2.2.1.1) yn bennaf seiliedig felly ar y dyfyniad canlynol:

Starting from the coast, the northern boundary is as follows:- First, Traeth Bach; then the boundary between the parishes of Llandecwyn and Maentwrog; then that between the parishes of Maentwrog and Trawsfynydd; then, successively, the watersheds between the Mawddach and the Dee, the Dee and the Vyrnwy, the Dee and the Ceiriog, the Ceiriog and the Tanat. The boundary line meets the English border at Llansilin...

The southern boundary is as follows:- First, the low ridge of hills between Eglwysfach and Tre’rddol in North Cardiganshire, then the Plynlymon watershed, or what comes to the same thing, the boundary between the counties of Montgomery and Cardigan. When the border of Radnorshire is reached, the

river Elan becomes the boundary, until its junction with the Wye. From this point, eastward and southward, we are dealing with a purely English-speaking district... (Darlington, 1902: 17)

Mynega Darlington ei gred nad oedd ansawdd y llafariad hon yn unffurf drwy'r canolbarth, a'i fod o'r farn fod y sain yn llai caeedig ar gyrion tiriogaeth yr 'æ fain':

On the fringes of the district, e.g., at... Talsarnau, the sound heard is the long vowel corresponding to the short 'a' (æ) in Southern English 'man': e.g., 'y gath fach' (gⁱæth væch). Nearer the centre, e.g., at Llanbrynmair... it is an open e-sound, like the vowel-sound in E[nglish] 'care' (y gⁱeth vech). (Darlington, 1902: 18-19)

Nodir ganddo hefyd fod defnydd o'r 'æ fain' yn gyfyngedig i lafariaid hir, ac eithrio yn achos un ffurf arbennig:

There is no trace of this short (æ) in any Welsh-speaking district, except in the solitary instance of 'mam', where presumably the palatalization has... been caused... by habitual collocations such as "tad a mam", "mam bach"... (Darlington, 1902: 19)

Ym marn Darlington, felly, datblygiad diweddarach oedd yr [æ] fer, a thrwy gydweddiad â'r [æ:] hir y daeth i fod. Cyfeiria'n gryno hefyd at y defnydd a wneid o [æ:] hir yn elfennau cyntaf y deuseiniaid *āe* [a:i] / [a:ɨ] ac *āw* [a:u]. Meddir:

Both of these diphthongs are at present pronounced in the Welsh-speaking parts of the district under consideration [i.e. the territory of [æ:]]... with the narrow *a*. (Darlington, 1902: 19)

Ni ddywed yr awdur, er hynny, a gafodd enghreifftiau o'r deuseiniaid [æ:i], [æ:ɨ] ac [æ:u] yn amrywio â'r deuseiniaid mwy safonol cyfatebol [a:i], [a:ɨ] ac [a:u].

2.2.2.2. Alf Sommerfelt

Ar gyfer plwyf Darowen, nodir gan Sommerfelt yntau enghreifftiau o [æ:] hir yn ymddangos mewn geiriau unsill, e.e. yn *tæ:d* [tæ:d] "tad", ac yn sillaf olaf acennog ffurfiau amlsillafog, e.e. yn *kanja'tæ:d* [kanja'tæ:d] "caniatâd". Nid yw hyn yn annisgwyl o gofio bod y plwyf hwn yng nghanol tiriogaeth yr 'æ fain' i bob pwrpas, ac nid yw ei sylw ynghylch y llafariad

hir fwy agored [a:] yn syndod: ‘It may be heard, but very seldom...’ (1925: 12). Ceir ganddo hefyd ambell enghraifft o [æ] fel llafariad fer, ond mae’n amlwg mai mewn ffurfiau eithriadol y digwydd hyn. Dyma a ddywedir, er enghraifft, am y ffurf unsill *mæm* [mæm] “mam” y cyfeiriodd Darlington ati: ‘*mam* is also heard though *mæm* seems to be general in Llan bryn Mair’ (1925: 8). Ceir enghraifft arall o [æ] fer yn ymddangos yn y goben acennog yn *ækstro* [ækstrɔ] “acstro” (Saes. *axle*), ffurf a ymglyfnewidiai ag *akstro* [akstrɔ], yn ôl Sommerfelt. O ran y deuseiniaid, cofnodir bod [a:i] ac [æ:i] yn ymglyfnewid yn Llanbryn-Mair, e.e. yn *la:iθ* [la:iθ] ~ *læ:iθ* [læ:iθ] “llaeth”, tra honnir y canlynol am y ddeusain [æ:u]:

æ: is usually the first element of this diphthong though I have heard *a:* too. (Sommerfelt, 1925: 15)

Nodir ganddo yr enghreifftiau *glæ:u* [glæ:u] “glaw”, *læ:u* [læ:u] “llaw” a (*pan*) *ðæ:u* [(pan) ðæ:u] “(pan) ddaw”, ond ni cheir ganddo yr un enghraifft o ffurf sy’n cynnwys [a:u]. Ar y llaw arall, ni nodir unrhyw achosion o [æ] ar ddechrau deuseiniaid byrion.

Gellir cynnig, felly, fod yr amrywio a nodwyd gan Sommerfelt rhwng y llafariad byrion [æ] ac [a] yn y parau *mæm* [mæm] ~ *mam* [mam] ac *ækstro* [ækstrɔ] ~ *akstro* [akstrɔ], o gymharu hynny â sefydlogrwydd yr [æ:] hir yn yr ardal, yn awgrymu’n gryf mai datblygiad diweddarach yn y dafodiaith yw’r defnydd o ‘æ fain’ fer. Yn yr un modd, y mae’r ymglyfnewid a gofnodir rhwng y deuseiniaid [a:i] ~ [æ:i] ac [a:u] ~ [æ:u] hefyd yn awgrymu mai datblygiad diweddarach nag [æ:] fel llafariad syml yw’r defnydd o [æ:] hir fel elfen gyntaf mewn deuseiniaid.

Ymetyb Sommerfelt hefyd i’r ffiniau a ddisgrifiwyd gan Darlington o safbwynt tiriogaeth yr ‘æ fain’:

Even if these boundaries are, in the main, correct – and that is probable – they are too absolute, even more so than in the case of *y : i*. The development *ɑ: > æ:* does not mean a change in the system to the same extent as that of *y* into *i*. (Sommerfelt, 1925: 136)

Anghytuna hefyd â Darlington ynghylch ansawdd y sain yn Llanbryn-Mair:

It has certain latitude of oscillation, but I think it is nearer to English *a* in *cat* than to that in *care* with which Darlington identifies Llan bryn Mair æ:. (Sommerfelt, 1925: 8)

Casgliad ei ymchwiliad pellach oedd fod modd clywed [æ:] hir ym mhob un o'r ardaloedd ym Masn Dyfi lle y cyflawnodd waith ychwanegol, e.e. yn y ffurfiau *tæ:d* [tæ:d] "tad", *jæ:χ* [jæ:χ] "iach" a *gw læ:n* [gw læ:n] "gw lân". Nodir ganddo hefyd fod ansawdd y llafariad hon yn amrywio o fewn ei thiriogaeth yn y canolbarth:

The æ: is not exactly the same over the whole of this area. The usual one is that of... Llan bryn Mair... but in Aberdyfi it is broader and more retracted, approaching a front a. (Sommerfelt, 1925: 136)

2.2.2.3. Robert Owen Jones

Darlun digon syml a bortreedir ar gyfer y defnydd o'r llafariad agored [a(:)] ac [æ(:)] yn Llanfachreth. Ceir gan Robert Owen Jones (1967) enghreifftiau o [æ:] hir yn ymddangos yno mewn ffurfiau unsill fel [dæ:] "da" a [kæ:θ] "cath", ond ni cheir ganddo yr un enghraifft o [a:] hir. Awgryma'r sefydlogrwydd a ddarlunnir, felly, nad yw Llanfachreth mewn ardal drawsnewid o safbwynt y defnydd a wneir yno o'r 'æ fain'. Er hynny, dengys map 2 y bennod hon (gweler 2.2.1.3) a luniwyd hefyd gan Robert Owen Jones nad yw ffin ogleddol yr 'æ fain' yn bell iawn o Lanfachreth. Ceir ganddo hefyd un ffurf sy'n cynnwys [æ:] hir yn y goben acennog, sef [næ:ge] "nage". Fodd bynnag, y mae'n amlwg mai eithriadol yw ffurfiau o'r math hwn gan na cheir yn y gogledd fel rheol unrhyw hyd o flaen cytsain yn y goben acennog. Ni sonnir gair am [æ] fer; nid yn y ffurf [mæm] "mam" hyd yn oed. Ceir, er hynny, enghreifftiau o [a] fer mewn gwahanol gyd-destunau, e.e. yn [kam:] "cam", [bar:a] "bara" a [nes:a] "nesa".

O safbwynt deuseiniaid sydd â'r 'æ fain' yn elfen gyntaf ynddynt, dangosir bod patrymau pendant i'w gweld eto yn Llanfachreth. O ran y rhai sy'n cau ag [ʊ] yn gyntaf, ceir gan Robert Owen Jones enghreifftiau o'r 'æ fain' fel elfen gyntaf y ddeusain hir [æ:ʊ], e.e. yn [læ:ʊ] "llaw" a [bæ:ʊ] "baw", ond nid ar ddechrau'r ddeusain fer [aʊ], e.e. yn [daʊns] "dawns" a [braʊd] "brawd". Ar y llaw arall, [a(:)] yn unig a geir ganddo mewn deuseiniaid hir a rhai byrion sy'n cau ag [i] neu [i], e.e. yn [jaiθ] "iaith", [jai] "iau", [xwa:ir] "chwaer" a [xwa:iθ] "chwaeth".

2.2.2.4. Dafydd Wyn Griffiths

Yn wahanol i ddadansoddiad Robert Owen Jones (1967) o'r sain yn Llanfachreth, cydnebydd D. W Griffiths (1974) fod amrywio ar waith o safbwynt y defnydd o'r 'æ fain' yng nghylch Llanfair Caereinion. Nid yw, er hynny, yn cynnig rhesymau posibl am hynny. Yn nadansoddiad ffonolegol ei ragymadrodd, nid yn unig y nodir bod [æ:] hir yn ymddangos mewn geiriau unsill ac yn y sillaf olaf acennog, e.e. yn [plæ:] "pla", [tæ:d] "tad", [hæ:ld] "hallt" a [par'hæ:d] "parhad", ceir hefyd enghreifftiau o [a:] yn ymddangos yn yr un cyd-destunau (a'r un geiriau o ran hynny), e.e. yn [pla:] "pla", [ta:d] "tad", [ha:ld] "hallt" a [par'ha:d] "parhad". Fodd bynnag, y ffonem /a:/ yn unig a geir ganddo ar gyfer y goben acennog mewn ffurfiau fel [gra:geð] "gwragedd" a [gwa:gle] "gwagle". Yn yr adran fer ar 'amrywiadau seinegol', felly, crynhoir yr ymglyfnawid a geir yn Llanfair Caereinion rhwng y llafariaid hir [æ:] ac [a:] â'r geiriau canlynol:

Mewn geiriau unsill ac yn sillaf olaf geiriau lluosill mae [æ:] ac [a:] yn amrywio'n ddiamod [tæ:d] ~ [ta:d]. Gan amlaf [æ:] a glywais gan y trigolion ond clywir [a:] hefyd yn achlysurol. (Griffiths, 1974: XC)

O safbwynt yr 'æ fain' yn ymddangos mewn llafariaid byrion, nodir bod '... /æ/, yn achlysurol iawn, yn amrywio gydag /a/' (1974: LXIX). Rhestrir isod yr enghreifftiau a roddir ar gyfer y gwahanol gyd-destunau:

1. **Mewn geiriau unsill:** [mæm] "mam", [klæs] Saes. *class*, [mæn] "man", [kænt] "cant", [dænt] "dant" a [kæ] "cael" (ffurf nad ydyw o dan yr acen yw'r ddiwethaf).
2. **Yn y goben acennog:** [tæmæd] "tamaid", [kædu] "cadw", [dæŋos] "dangos", [træmpjo] "trampio", [næʃnəl] Saes. *national* a [mældwin] "Maldwyn".
3. **Yn y sillaf olaf ddiacen:** [bənæg] "bynnag" a [brənær (hæ:)] 'am gae a drowyd ac a adawyd dros y gaeaf' (1974: 58).

Eir ati wedyn i bwysu a mesur y defnydd a wneir o'r llafariaid byrion [a] ac [æ] yn yr adran fer ar 'amrywiadau seinegol':

Ceir amrywio hefyd rhwng y llafariaid byr [æ] ac [a] ond cyfyng iawn yw'r amrywiad yn yr achos hwn. Nid yw [æ] yn digwydd ond mewn ychydig bach iawn o eiriau... (Griffiths, 1974: XC)

Rhoddir hefyd enghreifftiau o [æ:] hir yn ymddangos fel elfen gyntaf y deuseiniaid hir /æ:i/ ac /æ:u/, e.e. ceir [kjæ:i] “cae”, [sdæ:in] “staen”, [kəm'ræ:ig] “Cymraeg” ac [əm'læ:in] “ymlaen” ar gyfer y ddeusain gyntaf, a [glæ:u] “glaw”, [næ:u] “naw” a [hɛb'læ:u] “heblaw” ar gyfer yr ail. Nodir, fodd bynnag, fod y deuseiniaid /a:i/ ac /a:u/ hefyd yn gyffredin yn y dafodiaith, e.e. yn [gwa:ɪd] “gwaed”, [əm'la:in] “ymlaen”, [gla:u] “glaw” a [hɛb'la:u] “heblaw”. Yn ogystal â'r deuseiniaid hir hyn, ceir hefyd enghreifftiau o ddeuseiniaid byrion sydd â'r ‘æ fain’ yn elfen gyntaf ynddynt. Nodir bod /æu/ ‘yn y gair unsill canlynol yn unig’, sef [pnæun] “p(ry)n(h)awn”, ac ‘yn sillaf [olaf] ddiacen y gair...’ [inlæu] “unllaw” (1974: LXXXV). Cyfeirir hefyd at fodolaeth [æ] fer yn [kjæi (hi:r)] “cae (hir)” ‘mewn sillafau diacen’ (1974: LXXIV). Wrth ymdrin ag ‘amrywiadau seinegol’ wedyn, amlygir bod [a(:)] ac [æ(:)] yn gwamalu â'i gilydd ar ddechrau deuseiniaid drwy restru paruau o ffurfiau ar yr un geiriau, e.e. [æ:i] ac [a:i] yn [əm'læ:in] ~ [əm'la:in] “ymlaen”; [æ:u] ac [a:u] yn [glæ:u] ~ [gla:u] “glaw”; [æi] ac [ai] yn [kjæi (hi:r)] ~ [kjai (hi:r)] “cae (hir)”; [æu] ac [au] yn [inlæu] ~ [inlau] “unllaw” (1974: XC-XCI).


Y mae'n amlwg oddi wrth y canlyniadau hyn, felly, i D. W. Griffiths sylwi ar gryn dipyn o amrywio ar waith o safbwynt nodwedd yr ‘æ fain’. Mewn un ystyr, y mae ei ddehongliad mai [æ:] a glywodd gan amlaf mewn llafariaid hir, tra bo'r [æ] fer yn gyfyngedig i rai geiriau yn unig, yn gyson ar y cyfan â'r hyn a welwyd eisoes mewn astudiaethau cynharach. Fodd bynnag, gellir barnu mai un o ddarganfyddiadau mwyaf newydd a thrawiadol yr astudiaeth hon yw bodolaeth yr ‘æ fain’ fel llafariad fer mewn ffurfiau ar wahân i [mæm] “mam”, e.e. yn [mæn] “man”, [dænt] “dant”, [tæmɛd] “tamaid”, [kædu] “cadw” a [bənæg] “bynnag”, yn ogystal ag ar ddechrau'r ddeusain [æu] mewn dwy ffurf benodol, sef [pnæun] “p'n'awn” ac [inlæu] “unllaw”. Ceir gan D. W. Griffiths, felly, enghreifftiau helaethach o [æ] fer yn digwydd mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog na'r hyn a geir mewn gweithiau cynharach, yn ogystal ag achosion o [æ] mewn cyd-destun hollol newydd, sef yn y sillaf olaf ddiacen. Gosodir yma sail, felly, i weld a yw'r ffurfiau hyn yn patrymu mewn ffordd benodol ai peidio.

2.2.2.5. Beth Thomas a Peter Wynn Thomas

Yn rhan gyntaf cyfrol B. Thomas a P. W. Thomas (1989), ceir sylwadau cyffredinol am y defnydd o'r 'æ fain' yn nhafodieithoedd y Gymraeg. Fel yn achos yr 'u ogleddol', dangosir map o diriogaeth y sain hon (sy'n rhannol seiliedig ar erthygl Darlington), sef map 7 isod, lle yr amlygir ynddi fod defnydd o'r 'æ fain' yn gysylltiedig ag ardal helaeth o'r canolbarth (1989: 37).³³ Honnir, er hynny, nad yw cynaniad yr [æ(:)] yn unffurf drwy ei thiriogaeth:

... mae cryn amrywiaeth yn ansawdd y sain o le i le... Yn y Canolbarth, tuedda'r sain i fod yn weddol gaeëdig (neu 'fain') yn ardal Carno, ond yng nghyffiniau Tywyn mae'n debycach o lawer i â. (1989: 36)

Map 7: Tiriogaeth yr 'æ fain' (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 37)



³³ Dengys y map hefyd fod y llafariad hon yn gyffredin yn nhafodieithoedd traddodiadol y de-ddwyrain, ond cyfyngir yma'r drafodaeth i'w defnydd yng nghanolbarth Cymru.

Wrth ymdrin â'r gwahanol gyd-destunau seinegol sy'n caniatáu defnydd o'r 'æ fain' yn y canolbarth, adlewyrchir mai'n hir y ceir y sain fel rheol, a hynny yn y ddau gyd-destun penodol hyn:

1. Mewn llafariad hir mewn geiriau unsill, e.e. **tæd** [tæ:d] "tad" a **gwællt** [gwæ:ld] "gwallt"
2. Mewn llafariad hir y sillaf olaf acennog, e.e. **gwahæn** [gwa'hæ:n] "gwahân"

Pwysleisir er hynny nad yw'r sain hon yn gyfyngedig ei dosbarthiad i lafariad syml hir yn y canolbarth, ac amlygir bod y cyd-destunau canlynol hefyd yn caniatáu'r sain:

3. Mewn llafariad fer yn y ffurf unsill **mæm** [mæm]
4. Yn y ddeusain hir [a:u] mewn geiriau unsill, e.e. **llæw** [læ:u] "llaw"
5. Yn y ddeusain hir [a:i] mewn geiriau unsill, e.e. **llæuth** [læ:iθ] "llaeth"
6. Yn y ddeusain hir [a:i] yn y sillaf olaf acennog yn **Cymræig** [kəm'ræig] "Cymraeg"³⁴

Gellir casglu, felly, mai dehongliad y gyfrol hon yw mai yn hir y digwydd yr 'æ fain' gan amlaf, boed mewn llafariad syml neu fel elfen gyntaf mewn deuseiniaid. O safbwynt defnydd o'r sain mewn llafariad byrion ar y llaw arall, gwelir bod achosion o'r math hwn yn dra phrin, ac fel rheol yn gyfyngedig i un gair penodol:

Mewn rhai ardaloedd yn y Canolbarth ceir fersiwn fer ar æ... Yn yr un gair **mæm** 'mam' y digwydd hon amlaf. (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 39)

Tebyg yw'r dehongliad hwn o'r sefyllfa, felly, i'r hyn a gofnodwyd gan Darlington (1902) a Sommerfelt (1925). Fodd bynnag, yn wahanol i ymdriniaeth D. W. Griffiths â'r sain hon, ni ddywedir a oes modd i'r sain godi ar ddechrau deuseiniaid byrion megis [au] ac [æi].

³⁴ Gwelir ym mhennod 5 (5.3.2.1) mai [a:i] / [æ:i] (yn hytrach nag [a:i] / [æ:i]) sydd i'w weld yn arferol mewn ffurfiau ar "Cymraeg", hyd yn oed i'r gogledd o ffin yr 'u ogleddol'.

O safbwynt y tair ardal y rhoddir sylw iddynt yn ail ran y gyfrol, nodir bod Llanymawddwy, Bryn-crug a Charno fel ei gilydd yn nhiriogaeth yr ‘æ fain’. Ceir enghreifftiau o’r sain yn ymddangos fel llafariad hir, e.e. nodir **giæt** [gjæ:t] “gât” ar gyfer Llanymawddwy, **bæch** [bæ:ɣ] “bach” a **cæ**l [kæ:l] “cael” ar gyfer Bryn-crug, yn ogystal â **glæs** [glæ:s] “glas” a **plæs** [plæ:s] “plas” ar gyfer Carno. Nodir hefyd achosion o [æ:] fel elfen gyntaf deuseiniaid hir, e.e. **llæuth** [læ:iθ] “llaeth” yn Llanymawddwy, **næw** [næ:u] ym Mryn-crug, a **ciæu** [kjæ:i] “cae” yng Ngharno. Ymddengys, felly, mai’r hyn a geisir ei gyfleu eto yw bod yr ‘æ fain’ yn ymddangos yn bennaf mewn dau gyd-destun gwahanol, sef

1. Yn hir fel llafariad syml;
2. Yn hir fel elfen gyntaf y deuseiniaid [æ:u] ac [æ:i] / [æ:i].

Gellir ychwanegu y ceir ambell enghraifft o’r sain yn ymddangos mewn llafariad byrion, ond eu bod yn dra phrin, e.e.

- i fæm** [i væm] “ei fam” (Carno);
- mæi** [mæi] “mae” (Carno);
- ciæ**l [kjæ:l] “cael” (Llanymawddwy).³⁵

Nid ymddengys oddi wrth fanylion y gyfrol nac oddi wrth y recordiadau fod gwahaniaeth rhwng amllder y sain yn y tair ardal. O safbwynt ansawdd yr ‘æ fain’, fodd bynnag, tynnir ein sylw at ‘...y gwahaniaeth rhwng y sain hon yn iaith Mrs Evans [Bryn-crug] ac eiddo Mrs Ann Jones o Lanymawddwy’ (1989: 116). O wrando ar y recordiadau hyn fy hun, ymddengys mai awgrymu bod y sain yn fwy caeedig yn yr ail ardal a wneir. Ni fanylir ar ansawdd y llafariad yng Ngharno, ond ar ôl gwrandao ar y recordiad hwn, gellir barnu bod ansawdd yr ‘æ fain’ rywfaint yn fwy caeedig gan Mr Thomas nag ydyw yn iaith Mrs Jones (Llanymawddwy), a chryn dipyn yn fwy caeedig na’r hyn a glywir gan Mrs Evans (Bryn-crug).


³⁵ Noder mai llafariad hir / deusain hir a geid yn y ddwy enghraifft olaf pe byddai’r ffurfiau hyn o dan yr acen.

2.2.2.6. *The Welsh Dialect Survey*

Fel a wnaed â'r 'u ogleddol', canolbwyntiwyd yma hefyd ar saith ffurf gyntaf y cyd-destunau isod er mwyn dadansoddi data'r holiadur sy'n berthnasol i'r 'æ fain'. Os na cheir saith ffurf ar gyfer ambell gyd-destun, seilir y dadansoddiad ar bob un ffurf sydd yn yr holiadur. Dylid pwysleisio yma hefyd y cyfyngir y drafodaeth isod i lafariaid syml oherwydd bod enghreifftiau o ddeuseiniaid sydd ag [a(:)] / [æ(:)] fel elfen gyntaf yn rhy brin.

Gan gychwyn â'r defnydd o lafariaid agored hir mewn geiriau unsill,³⁶ e.e. yn "ffa" a "glân", dengys canlyniadau'r holiadur fod ymglyfnwid rhwng [æ:] ac [a:] yn gyffredin drwy'r canolbarth, ac amlygir hyn ar fap 8 isod. Mewn pedair ardal ar ddeg, felly, gwelir [a:] ac [æ:] yn amrywio â'i gilydd, e.e. ceir [skwa:r] "sgwâr" ond [gwæ:s] "gwas" yn Aberdyfi (52), a [gla:n] "glân" ond [fæ:] "ffa" yn Abermaw (46). Ni cheir ond tri lleoliad lle y ceir [æ:] yn gyson yn y saith ffurf, sef Yr Adfa (37), Llanfachreth (47), a Llanymawddwy (49). Ar y llaw arall, [a:] a geir yn gyson yn ardaloedd Trawsfynydd (44) a Thre'r-ddôl (54), sydd naill ai ar gyrion tiriogaeth yr 'æ fain', neu y tu hwnt iddi.

Map 8: Yr 'æ fain' yn llafariaid hir geiriau unsill




Ar y llaw arall, darlun tra chyferbyniol a geir o safbwynt y defnydd o 'æ fain' mewn llafariaid byrion mewn mewn tri chyd-destun penodol, sef

³⁶ Y saith gair cyntaf a ddadansoddir yw "ffa", "glân", "tâl", "sgwâr", "gwas", "gast" a "gwallt".

1. mewn geiriau unsill, e.e. yn “call”,³⁷
2. yn y goben acennog, e.e. yn “cadw”,³⁸
3. yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn “ysgafn”.³⁹

Gwelir oddi wrth fap 9 mai [a] a geir yn gyson drwy’r canolbarth, ac eithrio mewn tair ardal lle y gwelir bod ambell ffurf yn cynnwys [æ] fer. Y ffurfiau hynny yw [kjæɫ] “call”, [gjævr] “gafr”, [kjædu] “cadw”, [talkjæn] “talcen” ac [æskjævn] “ysgafn” yn Llanfachreth (47); [kjæɫ] “call” yn Abermaw (46); yn ogystal â [kræsi] “crasu” yn Aberhosan (53). Yn Llanfachreth, felly, y nodir y defnydd helaethaf o [æ] fer, ac y mae’n ddiddorol nodi bod pob enghraifft o [æ] yn yr ardal hon, yn ogystal â’r un a nodir ar gyfer Abermaw, yn dilyn y ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj]. Yr unig ffurf a geir yn y data sy’n eithriad i’r patrwm hwn yw [kræsi].

Map 9: Yr ‘æ fain’ mewn llafariaid byrion (mewn tri chyd-destun)



Ar y cyfan, felly, tra phrin yw’r defnydd o ‘æ fain’ mewn llafariaid byrion ar hyd y canolbarth, yn ôl y canlyniadau hyn. Dylid pwysleisio, serch hynny, na chynhwysir y gair “mam” yn yr holiadur. Diau y gwelsid defnydd helaethach o’r ‘æ fain’ fer pe cynhwysid y gair hwnnw gan y gwyddys oddi wrth waith Darlington (1902), Sommerfelt (1925), D. W. Griffiths (1974) a B. Thomas a P. W. Thomas (1989) fod y ffurf [mæm] yn nodweddiadol o lafar y canolbarth.

³⁷ Y ffurfiau a ddadansoddir yw “glan”, “tal”, “dall”, “call” a “gafr”.

³⁸ Y ffurfiau a ddadansoddir yw “talu”, “calon”, “crasu” a “cadw”.

³⁹ Y ffurfiau a ddadansoddir yw “talcen”, “ysgafn”, “olaf”, “neuadd”, “tonau” a “tonnau”.

Ymddengys oddi wrth y canlyniadau uchod, felly, fod [æ:] hir yn llafariad y gall nifer o drigolion y canolbarth ei rheoli, a'i chyfnwid am [a:] fwy safonol ar adegau. Dengys hyn, felly, nad yw amrywio rhwng [æ:] ac [a:] o angenrheidrwydd yn adlewyrchu mai ymwneud ag ardal drawsnewid a wneir. Byrdwn hyn yw bod cywair, ffurfioldeb neu gyd-destun y llafar yn ystyriaethau llawn cyn bwysiced â lleoliad daearyddol wrth ddadansoddi'r nodwedd hon. Yn ddiddorol hefyd, awgryma rhai o ganlyniadau'r holiadur fod rhyw berthynas rhwng y defnydd o [æ] fer a'r defnydd a wneir o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj], yn enwedig gan eu bod yn cyd-ddigwydd yn aml.

2.2.2.7. Casgliadau

Fel yn achos yr 'u ogleddol', neilltua sawl un o'r ffynonellau uchod ofod ar gyfer amlygu ffiniau tiriogaeth yr 'æ fain'. Yn gyntaf, ceir gan Darlington (1902) ddisgrifiad manwl o isoglosau'r nodwedd (yng ngogledd ac yn ne'r diriogaeth). Nid yw Sommerfelt (1925) yn anghytuno â'r ffiniau hyn fel y cyfryw, ond fe'u hystyrir yn rhy absoliwt ganddo. Ar sail disgrifiad Darlington yn bennaf hefyd y nodir tiriogaeth yr 'æ fain' ar fapiau diweddarach o eiddo Robert Owen Jones (1967: Clawr) a B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 37).

Gwelwyd uchod hefyd nifer o sylwadau diddorol parthed amrywiaeth yn ansawdd y llafariad hon. Darlington (1902) oedd y cyntaf i nodi bod cryn wahaniaeth rhwng ansawdd weddol agored y sain ar gyrion ei thiriogaeth yn Nhalsarnau, a'i hansawdd fwy caeedig yn Llanbryn-Mair, sy'n nes at ganol ardal yr 'æ fain'. Er bod Sommerfelt hefyd yn sylwi ar wahaniaeth tebyg rhwng y sain yn Aberdyfi a'r un a geir yn Llanbryn-Mair, y mae'n werth cofio nad yw'n llwyr gytuno â sylwadau Darlington ar ei hansawdd: '...I think it is nearer to English *a* in *cat* than to that in *care* with which Darlington identifies Llan bryn Mair æ:' (1925: 8). Yn ogystal â hyn, nodir gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989) fod gwahaniaeth rhwng ansawdd 'æ fain' siaradwraig o Lanymawddwy ac eiddo siaradwraig arall o Fryn-crug. Er hyn, ni ddywedir sut y mae eu cynaniadau yn wahanol i'w gilydd. Gellir bod yn sicr ddigon, felly, nad yw ansawdd y sain hon yn unffurf ym mhob rhan o'i thiriogaeth, a bod rhagor o waith casglu a dadansoddi yn angenrheidiol ar gyfer deall sut yn union y mae gwahanol ardaloedd yn y canolbarth yn gwahaniaethu â'i gilydd o safbwynt defnydd siaradwyr o'r 'æ fain'.

Ystyriaeth ganolog arall o ran y sain hon yw'r math o gyd-destunau neu safleoedd mewn geiriau sy'n caniatáu iddi ddigwydd. Y mae'r gwahanol ddeongliadau sy'n gysylltiedig â'r wedd hon ar y sain hefyd yn awgrymu gwahanol ddatblygiadau hanesyddol y mae'n werth inni eu hystyried. Cymerer disgrifiad Darlington, er enghraifft, lle y nodir mai mewn llafariad hir y ceid yr 'æ fain' fel rheol, ond bod y sain yn digwydd yn fyr mewn un achos eithriadol, sef yn [mæm] "mam". Awgrymir, felly, mai datblygiad diweddarach yw'r ffurf [mæm] "mam", ac mai drwy gydweddiad â'r [æ:] hir y daeth i fodolaeth. Yn yr un modd, dadlennol yw ymdriniaeth Sommerfelt â'r sain lle y noda mai [æ:] a geid yn ddieithriad bron yn llafariad hir ardal Llanbryn-Mair, tra bo amrywio rhwng [æ:] ac [a:] yn gyffredin ar y llaw arall ar ddechrau deuseiniaid hir. Gellir unwaith eto ystyried bod yr amrywio hwn yn awgrymu mai'n ddiweddarach na'r llafariad syml [æ:] y datblygodd deuseiniaid hir megis [æ:u] ac [æ:i].

Ar y cyfan, felly, y mae pob un o'r astudiaethau a drafodwyd yn gytûn â'i gilydd mai mewn llafariad syml hir ac ar ddechrau deuseiniaid hir y digwydd yr 'æ fain' gan amlaf, tra bo'r sain yn brin iawn mewn llafariad byrion ac fel arfer yn gyfyngedig i ambell air yn unig. Gellir nodi er hynny fod yr enghreifftiau a rydd D. W. Griffiths (1974) o'r 'æ fain' yn codi mewn llafariad byrion yn fwy lluosog na'r hyn a welir mewn astudiaethau cynharach. Gosodir yma'r sail, felly, i geisio ateb ai ar hap a damwain y ceir [æ] fer, neu a oes patrymau ffonolegol pendant yn cyflyru'r dewis rhwng [æ] ac [a] byrion.

Er bod cryn wybodaeth ar gael, felly, ynghylch y gwahanol gyd-destunau sy'n caniatáu 'æ fain', yn ogystal â pheth manylion ynglŷn ag amrywiaeth yn ansawdd y sain, nid yw'r un o'r ymdriniaethau uchod yn canolbwyntio ar amllder y llafariad hon mewn gwahanol gyd-destunau neu safleoedd mewn geiriau. Nid oes unrhyw ddata manwl, felly, sy'n dangos sut yn union y mae'r defnydd o'r sain hon yn amrywio yn ôl ei chyd-destun o fewn y gair. O ganlyniad, nid oes modd dweud a yw'r ddeusain [æ:i], dyweder, yn digwydd yn amlach ai peidio na'r ddeusain [æ:u]. Ni wyddys chwaith ai'r un canlyniadau a geid ym mhob ardal o diriogaeth yr 'æ fain'. Diau y gallai dadansoddiad meintiol, felly, fod yn ddadlennol ac yn newydd. Yn wir, byddai'n ddiddorol pe cyflawnid gwaith o'r math hwn ar gyrion tiriogaeth y sain, e.e. yn ardal Harlech, yn enwedig gan nad yw astudiaethau cynharach yn manylu dim

ar amllder y sain mewn ardaloedd trawsnewid fel y rhain. Y mae'n amlwg, felly, yr erys llawer o waith meintiol i'w wneud ar y nodwedd hon, a cheir ymgais i gychwyn ar y gwaith hwnnw pan ddychwelwn at yr 'æ fain' ym mhennod 8.

Darlun cyfnewidiol o'r sefyllfa yn y canolbarth a geir o safbwynt y defnydd o'r 'æ fain'. Tra cyfleir bod y defnydd o'r sain yn dra sefydlog a chyson mewn ardaloedd o'r canolbarth gan rai awduron (e.e. Darlington, 1902; Sommerfelt, 1925; R. O. Jones, 1967 a B. Thomas a P. W. Thomas, 1989), dadlennir patrymau mwy amrywiol mewn gweithiau eraill (e.e. D. W. Griffiths, 1974 ac A. R. Thomas et al., 2000). Gellir bod yn sicr, fodd bynnag, mai mewn llafariad hir yr ymddengys yr 'æ fain' gan amlaf yn y rhannau o'r canolbarth a astudiwyd eisoes, ond nid yw amllder y sain hon mewn llafariad byrion yn glir. Mewn un neu ddwy ffurf yn unig y'i ceir yn ôl rhai ffynonellau (Darlington, 1902; Sommerfelt, 1925), ond ceir enghreifftiau mwy lluosog o'r 'æ fain' fer mewn astudiaethau eraill (D. W. Griffiths, 1974; A. R. Thomas et al., 2000). Gellir barnu, felly, y gallasai mesur amllder y sain hon yn fanwl fod yn ddadlennol. Sonia rhai awduron hefyd am y modd yr amrywia ansawdd y sain o'r naill le i'r llall yn y canolbarth (e.e. Darlington, 1902; Sommerfelt, 1925; B. Thomas a P. W. Thomas, 1989). Nid astudiwyd yn fanwl, fodd bynnag, y defnydd a wneir o'r sain hon mewn ardaloedd trawsnewid megis Harlech a Thrawsfynydd.

2.2.3. Y ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj]

Seiniau eraill a ystyrir yn nodweddiadol o lafar y canolbarth yw'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj]. Cynaniad mwy blaen na'r ffrwydrolion felar safonol [k] a [g] a geir wrth i daflod y geg fod yn rhan o'r broses o gynhyrchu'r cytseiniaid hyn sydd fel petaent yn cael eu dilyn gan lafariaid caeedig blaen. Gellir clywed ffrwydrolion taflodol ar ddechrau geiriau unsill, e.e. yn [kjæ:θ] "cath", ar ddechrau'r goben acennog, e.e. yn [kjapal] "capel", yn ogystal ag ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [baɣgjan] "bachgen". Ni ellir, fodd bynnag, glywed [kj] neu [gj] ar ddiwedd geiriau, e.e. yn [ˈte:gj] "teg".⁴⁰ Unwaith eto, nid colli neu greu cyferbyniad a geir yma, ond mater syml o ynganu'r cytseiniaid hyn ychydig yn wahanol i'r hyn a geir yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru, a hynny mewn cyd-destunau penodol. O safbwynt union diriogaeth y seiniau hyn, ymddengys fod sefyllfa [kj] a [gj] yn llai clir na'r hyn a welwyd yn achos yr 'æ fain' a'r 'u ogleddol'. Trafodir taflodoli ymhellach ym mhennod 9. Cyn hynny, bwrir golwg ar yr hyn a ddywed y gwahanol awduron am y seiniau hyn.

2.2.3.1. Thomas Darlington

Ni roddir nemor ddim sylw gan Darlington i'r modd y defnyddir y ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn y canolbarth. Y mae ambell enghraifft ganddo, fodd bynnag, sy'n awgrymu bod y seiniau hyn yn gyffredin yn y rhanbarth, e.e. 'y gⁱæth væch', a cheir ganddo un troednodyn sy'n ymwneud â'r nodwedd hon:

It is worth while to observe... that the palatalization of an initial *k* or *g* is in no wise dependent on the palatalization of the following *a*. (Darlington, 1902: 19)

⁴⁰ ^ = Ffurf amhosibl.

2.2.3.2. Alf Sommerfelt

Rhydd Sommerfelt sylw i'r modd y defnyddir y ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] ar draws rhanbarth Basn Dyfi, a barna fod rhai siaradwyr yn rheoli eu defnydd neu'n 'cuddio' [kj] a [gj] pan siaradent ag ef:

Most people know that this pronunciation is not literary and they are afraid of being noted as ignorants. People from other parts ridicule it. I have heard a speaker mention with all signs of profound contempt the pronunciation *k'ænt*, *k'ent* for *kant*. (Sommerfelt, 1925: 136-37)

Dywed, fodd bynnag, fod taflodoli yn gyffredin ym mhob ardal o Fasn Dyfi, a cheir enghreifftiau ganddo o'r nodwedd mewn nifer o bentrefi a threfi fel Machynlleth, Cemaes a Llanymawddwy. Daw Sommerfelt i'r casgliad fod taflodoli yn fwy cyffredin yng ngogledd-orllewin Basn Dyfi, tra bo'r nodwedd yn llai cyffredin yn ne ac yn nwyrain yr ardal. Dywed fod ambell air yn fwy tebygol nag un arall o gynnwys cytsain daflodol yn ardal Darowen, a nodar ffurfiau *k'æ:θ* [kjæ:θ] "cath", *k'æ:i* [kjæ:i] "cae", *k'apel* [kjapɛl] "capel" a *k'ant* [kjant] "cant".

O safbwynt y gwahanol safleoedd o fewn geiriau sy'n caniatáu'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], ceir gan Sommerfelt enghreifftiau o'r seiniau hyn ar ddechrau geiriau unsill, y goben acennog, y sillaf olaf ddicaen, a'r sillaf ragobennol, e.e. yn *k'æ:n* [kjæ:n] "cân", *k'ant* [kjant] "cant", *k'e:g* [kjɛ:g] "ceg", *k'erχ* [kjɛrχ] "cerch", *k'anol* [kjanɔl] "canol", *k'efil* [kjɛfil] "ceffyl" a *k'envig'en* [kjɛnvigjɛn] "cenfigen". Gwelir oddi wrth yr enghreifftiau uchod, felly, fod modd i'r cytseiniaid taflodol hyn ragflaenu'r llafariaid agored [a] / [æ:] "a" yn ogystal â'r llafariad flaen "e".⁴¹

Er nad yw Sommerfelt yn mentro nodi ffiniau penodol ar gyfer tiriogaeth [kj] / [gj], ceir ganddo er hynny ambell awgrym fod a wnelo oedran y siaradwyr â'r defnydd o ffrwydrolion taflodol. Cyfeiria, er enghraifft, at sawl enghraifft o [kj] yn Narowen gan Mrs Jones, y fam, mewn geiriau lle y ceid [k] heb daflodiad gan Mrs Roberts, y ferch:

⁴¹ Trafodir dehongliad Sommerfelt o ansawdd y llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] yn 2.2.4.2 isod.

The repartition of *k* and *k'* before *a* is not the same with both, e.g. *kani* 'to sing', Mrs. R. : *k'ani* Mrs. J... similarly before *e*, e.g... *keven* 'back', Mrs. R. : *k'even* Mrs. J. (Sommerfelt, 1925: 131)

Gellir dehongli, felly, fod y gwahaniaeth hwn rhwng y fam a'r ferch yn awgrymu bod taflodoli yn ffenomen fwy cynhyrchiol ar y pryd ymhlith cenhedlaeth hŷn ardal Darowen.

2.2.3.3. Robert Owen Jones

Tyn Robert Owen Jones (1967) gymhariaeth rhwng y defnydd o ffrwydroliion taflodol yn Llanfachreth, a'r defnydd a wneir ohonynt yn Nyffryn Nantlle. Er y ceir tair enghraifft o ffurf daflodol debyg yn y ddwy ardal, sef /kjansar/ *cancer*, /gjat/ "gât" a /gjas/ *gas*, nodir bod setiau geirfaol pellach yn dangos bod y defnydd o /kj/ a /gj/ yn helaethach yn Llanfachreth nag ydyw yn Nyffryn Nantlle. Yn wir, rhestrir nid llai na naw ffurf lle y gwelir bod taflodoli ar waith yn y naill ardal, ond nid yn y llall. Nodir, felly, mai yn Llanfachreth yn unig y ceir y ffurfiau /kja:θ/ "cath", /kjapal/ "capel", /kjanistar/ *canister*, /kja:i/ "cae", /gjaval/ "gafael", /gjavr/ "gafr", /gjalu/ "galw", /gjalar/ "galar" a /gjaħi/ "gallu". Deuir i'r casgliad fod taflodoli ar waith mewn mwy o eiriau yn Llanfachreth nag yn Nyffryn Nantlle, ond ni cheisir cynnig rhesymau am hynny.⁴² Gellir ychwanegu mai rhagflaenu /a(:)/ agored y mae'r cytseiniaid taflodol sydd ym mhob un o'r enghreifftiau uchod, ac na sonnir dim am daflodoli o flaen y llafariaid hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ].

2.2.3.4. Dafydd Wyn Griffiths

Noda D. W. Griffiths fod [kj], [gj] a [ŋj] yn gytseiniaid taflodol cyffredin yng nghyffiniau Llanfair Caereinion. Ynghylch [kj] i ddechrau, dywedir y'i ceir 'yn ddechreuol o flaen [a], [æ] yn bennaf, ond... hefyd o flaen [ɛ] yn achlysurol' (1974: XCII), ac enghreifftir hyn â ffurfiau megis [kjap] "cap", [kjarped] "carped", [kjæ:l] "cael", [kjæ:θ] "cath", a [kjeven] "cefn". Perthnasol hefyd yw'r sylw canlynol parthed dylanwad y [kj] Gymraeg ar ffurfiau Saesneg:

⁴² Trafodir y gwahaniaethau posibl rhwng y defnydd o gytseiniaid taflodol yn y canolbarth a'r rhai a geir yn y gogledd mewn manylder ym mhennod 9 (9.4.3).

Dylid nodi y'i clywir yn Saesneg y trigolion:- [kjarəts, kjats...] (Griffiths, 1974: XCII)

Rhoddir hefyd enghreifftiau o [kj] yn digwydd ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen o flaen [e], e.e. yn [kakjen] "cacen", [bukjed] "bwcaid", [fɔrkjen] "fforcen", [talkjen] "talcen", ond nid o flaen [a].⁴³

Ynghylch [gj] wedyn, nodir '[nad] yw'r dilyniad [gj] mor gyffredin â [kj]' (1974: XCIII). Er hynny, ceir gan D. W. Griffiths enghreifftiau o'r sain ar ddechrau geiriau, e.e. yn [gjɛmz] Saes. *gems*, [gjavel] "gafael" ac yn [o gjaken], ffurf dreigledig "cacen". Fe'i ceir ganddo hefyd yn dilyn y clwstwr cytseiniol [sg] ar ddechrau'r gair [sgjarf] "sgarff", yn ogystal ag ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen o flaen [e], ond nid o flaen [a], e.e. yn [kɔgjen] "cogen" a [baxgjen] "bachgen".

Nodir y canlynol wedyn o safbwynt [ɲj]:

Anaml y clywir y dilyniad [ɲj] ac fe ddigwydd yn fewnol yn unig:- [lanvihanjel, lɔnje] (Griffiths, 1974: XCIII)

Ni cheir yn yr astudiaeth hon, fodd bynnag, gasgliadau pendant ynghylch tiriogaeth y nodwedd dafodieithol hon, ond nodir bod rhai siaradwyr yn fwy tueddol nag eraill o ddefnyddio'r cytseiniaid taflodol hyn:

Yn wahanol i Sommerfelt... ni ellais ddod i unrhyw gasgliad pendant ynglŷn â dosbarthiad y taflodi a all ddigwydd i [k, g, ɲ] dan rai amodau. Ceir cynaniad taflodol gan rai ([kjaɲel]) ond nid gan eraill ([kapel]). Yn ardal Cyfeiliog awgryma Sommerfelt fod gwrthwynebiad gelyniaethus i'r ynganiad taflodol... Nid yw hyn yr un yn yr ardal hon er y canfyddais dueddiad gan rai i fod braidd yn ysgafnawddoglyd ynglŷn â thaflodi. (Griffiths, 1974: XCII)

I grynhoi darlun D. W. Griffiths o'r cytseiniaid hyn yn Llanfair Caereinion, felly, y mae'n amlwg oddi wrth y dyfyniad diwethaf iddo sylwi ar amrywio ar waith yn y cylch, ond nid

⁴³ Yn debyg i'r sefyllfa yn Llanbryn-Mair, y mae [e] / [ɛ] yn gyffredin yn sillaf olaf ddiacen ffurfiau amlsillafog yr ardal hon hefyd. Noder mai [a] a geid fel rheol yn sillafolaf olaf y pedair ffurf hyn yn y gogledd-orllewin.

ymhelaetha nemor ddim am natur yr amrywio hwnnw. Gellir nodi, fodd bynnag, mai hon yw'r astudiaeth gyntaf i gyfeirio at y trwynolyn taflodol [ɲj], ac mai hi hefyd yw'r unig un i nodi bod modd clywed cytseiniaid taflodol yn Saesneg rhai siaradwyr yn y canolbarth.

2.2.3.5. Beth Thomas a Peter Wynn Thomas

Trafodaeth gryno iawn a geir yn rhan gyntaf cyfrol B. Thomas a P. W. Thomas (1989) ar gyfer y defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn y tafodieithoedd Cymraeg. Awgrymir, fodd bynnag, fod rhyw fath o gydberthynas rhwng y defnydd o'r 'æ fain' a'r cytseiniaid taflodol hyn:

Nodweddir ardaloedd sydd yn cyfateb yn agos i diriogaethau æ y Canolbarth a dwyrain Morgannwg gan gytseiniaid arbennig mewn nifer o eiriau sydd yn dechrau gyda **ca** a **ga**... Enghreifftiau yw **ciæth**, **ciant**, **ciaws**, **gialfal**, **giarw** a **gialw**. (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 39)

Sylwer bod yr enghreifftiau hyn yn gyfyngedig i ddechrau geiriau yn unig, ac na nodir ffurfiau fel [baɣgjan] "bachgen" a [haɲkjas] "hances". Ni cheir chwaith enghreifftiau yn yr adran hon o daflodoli o flaen 'e'. Dylid cyfeirio hefyd at yr honiad

'[nad] yr un nodwedd a welir mewn ffurfiau fel **giât**, **giaffar**, a **giami** mewn rhai ardaloedd gogleddol: mae'n debyg mai adlewyrchu ynganiad y math o Saesneg y benthyciwyd ohono y mae'r ffurfiau hyn yn **gi**' (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 39).⁴⁴

O ran y tri siaradwr a ddefnyddiwyd i gynrychioli tafodieithoedd y canolbarth, ni cheir nemor ddim sylwadau ar eu defnydd o [kj] / [gj]. O ddarllen y trawsgrifiadau, ac o wrando ar y siaradwyr, fodd bynnag, ymddengys i mi fod gwahaniaethau rhwng y siaradwyr. Ni cheir yr un ffurf daflodol gan siaradwraig Bryn-crug, a dwy ffurf yn unig a geir gan y wraig o Lany-mawddwy, sef **ciæl** [kjæ:l] "cael" a **giæt** [gjæ:t] "gât" (gweler y sylwadau uchod am **giât**). Ceir gan y siaradwr o Garno, ar y llaw arall, dair ffurf daflodol o fathau gwahanol, sef **ciæu** [kjæ:i] "cae", **ciæl** [kjæ:l] "cael" a **gielwydd** [*gjelwɪð], ffurf dreigledig ar "celwydd". Ceir yma, felly, enghraifft o daflodoli o flaen 'e', er na chyfeirir at hynny yn sylwadau cyffredinol rhan gyntaf y gyfrol.


⁴⁴ Ymdrinnir â'r cymhlethdod hwn yn fanylach ym mhennod 9 (9.4.3).

2.2.3.6. *The Welsh Dialect Survey*

Gan ystyried eto y saith gair cyntaf y gellir cael ynddynt y cytseiniaid taflodol [kj] / [gj],⁴⁵ penderfynwyd gosod y pedwar lleoliad ar bymtheg yn un o'r ddau ddsbarth canlynol:

1. Ardaloedd lle y **ceir** o leiaf un ffurf daflodol;
2. Ardaloedd lle **na cheir** yr un enghraifft o daflodoli ar waith.

Map 10: Y defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj]



Amlyga map 10, felly, fod naw ardal yn perthyn i'r dosbarth cyntaf, tra bo'r deg arall yn perthyn i'r ail. Ni ellir gweld unrhyw batrymau daearyddol pendant yma gan y ceir yng ngogledd a de y rhanbarth ardaloedd sy'n perthyn i'r ddau ddsbarth gwahanol. Y canlyniadau mwyaf trawiadol, fodd bynnag, yw rhai Llanfachreth (47), lle y mae pum ffurf o'r saith posibl yn cynnwys ffrwydrolyn taflodol, sef [kjæ:j] “cae”, [*gjɛlɪn] “celyn”, [kjenin] “cennin”, [kjædu] “cadw” ac [əskjævn] “ysgafn”. Prawf y ffurfiau hyn hefyd fod yr holiadur yn cynnwys enghreifftiau o ffrwydrolion taflodol o flaen [æ:] / [a] yn ogystal ag o flaen [ɛ].

Gellir dehongli, felly, fod data'r holiadur yn awgrymu bod modd clywed ffurfiau taflodol ar draws y rhanbarth, ond bod yr union ddefnydd o daflodoli yn ddibynnol ar arfer siaradwyr

⁴⁵ Y saith gair a ddadansoddir yw “cae”, “celyn”, “cer”, “cennin”, “calon”, “cadw” ac “ysgafn”.

unigol, neu hyd yn oed eu defnydd o gyweiriau. Er y gwelir defnydd eithafol o'r seiniau [kj] / [gj] o flaen [æ] fer gan un unigolyn yn Llanfachreth, ni ellir bod yn sicr fod hyn yn nodweddiadol o'r gymuned yn ei chyfanrwydd, yn enwedig gan nad yw Robert Owen Jones (1967) yn cydnabod bodolaeth [æ] fer o gwbl yn Llanfachreth.

2.2.3.7. Casgliadau

Gwelwyd oddi wrth y ffynonellau uchod fod amrywiaeth o sylwadau diddorol ar gael ynghylch y defnydd o'r cytseiniaid taflodol [kj] a [gj] mewn gwahanol rannau o'r canolbarth, ond bod ymdriniaethau â'r seiniau hyn ar y cyfan yn fwy cyffredinol na'r hyn a gafwyd ar gyfer yr 'u ogleddol' a'r 'æ fain'.

O ran tiriogaeth y cytseiniaid taflodol hyn i ddechrau, gellir nodi nad yw ffiniau [kj] / [gj] yn glir o gwbl oddi wrth yr astudiaethau uchod. Er bod Sommerfelt (1925) yn cymharu defnydd gwahanol ardaloedd ym Masn Dyfi o'r seiniau hyn (ar sail un siaradwr o bob ardal), nid yw'n mentro nodi ffiniau ar eu cyfer. Y mae Robert Owen Jones (1967) wedyn yn nodi bod taflodoli ar waith yn Llanfachreth ac yn Nyffryn Nantlle (Sir Gaernarfon), ond bod enghreifftiau o'r nodwedd hon yn fwy lluosog yn yr ardal gyntaf nag yn yr ail. Ar y llaw arall, ymddengys fod y gyfrol *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (1989) yn ystyried bod ffurfiau taflodol y canolbarth a rhai taflodol y gogledd yn rhan o ddatblygiadau ffonolegol gwahanol pan ddywedir '[nad] yr un nodwedd a welir mewn ffurfiau fel **giât**, **giaffar**, a **giami** mewn rhai ardaloedd gogleddol: mae'n debyg mai adlewyrchu ynganiad y math o Saesneg y benthyciwyd ohono y mae'r ffurfiau hyn yn **gi**' (1989: 39). Ni cheir ganddynt unrhyw fanylion, fodd bynnag, o ran ble yn union y mae ffurfiau nodweddiadol o'r canolbarth yn gorffen. Nid yw'n eglur chwaith a yw Robert Owen Jones (1967) yn ystyried ffurfiau taflodol Dyffryn Nantlle fel parhad o batrymau'r canolbarth, ynteu ai ffenomen ogleddol a welir yn y ffurfiau /kjansar/ *cancer*, /gjat/ "giât" a /gjas/ *gas* sydd hefyd yn lledaenu i rannau o'r canolbarth. Yn sicr, felly, y mae cryn dipyn o waith yn angenrheidiol eto cyn y gwyddys yn bendant pa ardaloedd o'r canolbarth a'r gogledd sy'n gysylltiedig â ffurfiau taflodol o wahanol fathau.

Gwedd arall ar y nodwedd hon y rhoddir sylw iddi yw'r cyd-destunau a'r safleoedd sy'n caniatáu [kj] a [gj]. Gellir casglu oddi wrth y gwahanol weithiau uchod fod modd i'r cytseiniaid taflodol hyn ymddangos ar ddechrau gwahanol fathau o sillafydd, e.e. ar ddechrau geiriau unsill, y goben acennog, y sillaf olaf ddiacen, a'r sillaf ragobennol. O ran y seiniau a all ddilyn y cytseiniaid hyn, y llafariad [æ(:)] ac [a(:)] a welir yn y rhan fwyaf o ffurfiau enghreifftiol, ond ceir hefyd enghreifftiau o [kj] / [gj] o flaen [e(:)] / [ɛ(:)]. Nid yw'n hollol glir er hynny a oes gwahaniaeth amllder rhwng y defnydd o [kj] / [gj] o flaen [æ(:)] / [a(:)], a'r defnydd a wneir o'r cytseiniaid hyn o flaen [e(:)] / [ɛ(:)], neu a geir enghreifftiau o daflodoli o flaen y ddwy set o lafariad ym mhob ardal.

Y mae'n amlwg, felly, fod yr wybodaeth a geir o safbwynt y defnydd o ffrwydrolion taflodol yn y canolbarth i raddau helaeth yn fylchog. Ni chyflawnwyd yr un dadansoddiad meintiol hyd yma, felly nid yw natur yr amrywio a geir rhwng [kj] a [gj] taflodol a [k] a [g] felar (mwy safonol) yn eglur. Ni wyddys chwaith a oes rhai geiriau wastad yn cynnwys cytseiniaid taflodol, ynteu a yw amrywio o fewn gair yn gyffredin. Elfen arall y mae angen ei harchwilio yw i ba raddau y mae ardal ddaearyddol yn ffactor i'w ystyried wrth gymharu defnydd gwahanol siaradwyr o'r seiniau hyn. Yn wir, awgryma rhai o gasgliadau Sommerfelt (1925) a D. W. Griffiths (1974) fod gan siaradwyr unigol reolaeth drosti, ac na ddylid disgwyl i ddefnydd siaradwyr un gymuned o [kj] a [gj] fod yn unffurf. Gobeithir, felly, y bydd modd datrys rhai o'r cymhethdodau hyn wrth fwrw golwg fanylach ar y nodwedd hon ym mhennod 9.

2.2.4. Y llafariaid hanner caeedig / hanner agored

Nodwyd eisoes ar ddechrau 2.2 na roddwyd llawer o sylw hyd yma i'r ffenomen hon yn y canolbarth, sef y cryn amrywio a geir yn ansawdd y llafariaid hanner caeedig / hanner agored. Er hynny, sylwyd yn fuan ar ôl dechrau archwilio i batrymau ffonolegol y canolbarth fod [e(:)] / [o(:)] hanner caeedig yn ymglyfnewid ag [ɛ(:)] / [ɔ(:)] hanner agored, yn aml yn yr un geiriau, a hynny o fewn llafar yr unigolyn. O ran y llafariaid blaen, er enghraifft, cafwyd parau megis [tre:n] ~ [trɛ:n] “trên” mewn geiriau unsill, a [meðol] ~ [mɛðol] “meddwl” yn y goben acennog, a chafwyd parau tebyg hefyd ar gyfer y llafariaid ôl, e.e. [mo:χ] ~ [mɔ:χ] “moch”, a [kodi] ~ [kɔdi] “codi”. Trafodir yr amrywio hwn mewn manylder ym mhennod 10. Cyn hynny, rhoddir sylw i ymdriniaeth y gwahanol awduron â'r llafariaid hyn.

2.2.4.1. Thomas Darlington

Ni cheir unrhyw fanylion am y llafariaid hyn yn erthygl Darlington (1902).

2.2.4.2. Alf Sommerfelt

Fel y gwelwyd eisoes wrth ymdrin â'r nodweddion eraill, nid symbolau'r Wyddor Seinegol Gydwladol (yr IPA) sydd gan Sommerfelt, eithr rhai'r *Association Phonétique Internationale* a ddefnyddiwyd hefyd gan Henry Sweet (1913) ac O. H. Fynes-Clinton (1913). Oherwydd y gwahaniaeth rhwng y ddwy wyddor hyn, nid yw wastad yn rhwydd dilyn rhediad dadansoddiad Sommerfelt. Nodir, er enghraifft, fod y symbol *e* yn cynrychioli ‘a half open *e*’ (1925: 7), ac yn yr un modd, cynrychiola'r symbol *o* ‘a half open vowel of the French type in *pot, faux*’ (1925: 11). Y symbolau a ddefnyddid yn yr IPA gyfoes ar gyfer cynrychioli llafariaid hanner agored fyddai [ɛ] ac [ɔ]. Fodd bynnag, gellir dadlau bod y ffurfiau Ffrangeg *pot* a *faux* a nodir gan Sommerfelt yn gosod sail gadarn i amau ai cyfeirio at [ɛ] ac [ɔ] y mae ei ddisgrifiad ‘half open vowel[s]’. Yn wir, gellid bod yn sicr ddigon mai [o] hanner caeedig a yngenir yn arferol yn y geiriau *pot* a *faux*, a chadarnheir hyn gan sawl ymdriniaeth ffonolegol â Ffrangeg llafar (gweler, er enghraifft, Walker, 2001; Schane, 1968, a

Gougenheim, 1935).⁴⁶ Byrdwn hyn oll, felly, yw na ellir bod yn sicr o ansawdd y llafariaid a symboleiddir gan *e* ac *o* gan Sommerfelt. Y mae'n dra thebygol er hynny eu bod yn cynrychioli llafariaid o ansawdd mwy caeedig nag [ɛ] / [ɔ] hanner agored yr IPA gyfoes.

O ran y llafariaid blaen, noda Sommerfelt mai'r un llafariad 'half open' (beth bynnag a olygir wrth hynny), sef *e* / *e:*, a geir yn hir ac yn fyr, boent mewn geiriau unsill neu rai amlsillafog, e.e. yn *he:n* [hɛ:n] "hen", *kefil* [kɛfil] "ceffyl" a *geneθ* [gɛnɛθ] "geneth".⁴⁷ Ni sonia ddim am llafariaid hanner caeedig, ond cyfeiria er hynny at sain y mae'n ei hystyried yn 'somewhat more open *e*' (1925: 7) yn codi o flaen [r] mewn geiriau unsill ac yng ngoben acennog ffurfiau amlsillafog. Ni ellir gwybod ai sain mwy agored nag [ɛ] sydd ganddo o dan sylw yma. Tebyg hefyd yw ei ddadansoddiad o'r llafariaid ôl cyfatebol, lle y nodir mai'r un llafariaid 'half open', sef *o* / *o:*, a geir yn hir ac yn fyr unwaith eto, a hynny mewn gwahanol gyd-destunau unsill ac amlsillafog, e.e. yn *ko:χ* [kɔ:χ] "coch", *korf* [kɔrf] "corff", *moχin* [mɔχin] "mochyn" a *kostjo* [kɔstjɔ] "costio". Ni chyfeiria Sommerfelt yma at llafariaid hanner caeedig ôl, ond noda'r canlynol ynghylch ansawdd y llafariad hir:

Occasionally it may be more narrow than the short *o*. In *po:st* 'post' it is decidedly narrow, probably through the influence of the English pronunciation of the word. (1925: 11)

O ran deuseiniaid wedyn sydd â'r llafariaid blaen / ôl hyn yn elfennau cyntaf, gwelir y symbolau *e* / *e:* ac *o* / *o:* yn y rhain eto (h.y. yr hyn a eilw Sommerfelt yn 'half open vowel[s]'). Nodir, er enghraifft, *oi* ar gyfer *penvoil* [pɛnvɔil] "penfoel" a *blənəðoið* [blənəðɔið] "blynyddoedd", ac *o:i* ar gyfer *ko:id* [kɔ:id] "coed" a *po:iθ* [pɔ:iθ] "poeth". Yn yr un modd, nodir *eu* ar gyfer *deurder* [dɛurder] "dewrder", ac *e(:)u* ar gyfer *de(:)ur* [dɛ(:)ur]

⁴⁶ Nodir yng ngweithiau'r tri awdur hyn bod [ɔ] hanner agored ac [o] hanner caeedig yn arferol ar lafar yn y Ffrangeg, ond eu bod yn ymddangos mewn cyd-destunau seinogol gwahanol. Crynhoir yr egwyddor hon yn eglur gan Schane yn y dyfyniad canlynol: 'One must distinguish between those /o/ which occur in final position and those which are found in a closed syllable. Phonetically, /ɔ/ never occurs finally; one only finds /o/ in this environment' (1968: 51). Yn ddiddorol hefyd, nodir y ffurf *pot* gan Gougenheim (1935: 7) fel enghraifft o 'o fermé', h.y. y llafariad hanner caeedig ôl. Sylwer mai'r ffurf honno a nodir gan Sommerfelt fel enghraifft o llafariad 'half open'.

⁴⁷ Er y ceisir cyfateb ffurfiau Sommerfelt i'r hyn a geid yn yr IPA gyfoes, dylid pwysleisio na ellir bod yn sicr ai [ɛ(:)] ac [ɔ(:)] hanner agored sydd ganddo dan sylw pan ddefnyddia'r term 'half open'.

“dewr”. Ymddengys mai cyfleu amrywiaeth yn hyd y ddeusain a wna (:) yn y ffurf ddiwethaf, ond nad yw Sommerfelt yn barnu bod yr ymgyfnewid hwn yn cyd-fynd ag amrywio yn ansawdd y llafariad.

Gwelir, felly, mai dehongliad Sommerfelt o’r sefyllfa yng nghyffiniau Llanbryn-Mair oedd na cheid nemor ddim amrywiaeth ansawdd rhwng y llafariad blaen / ôl uchod, boent hir neu fyr, mewn llafariad syml neu ddeuseiniaid.⁴⁸ Dylid pwysleisio, fodd bynnag, na ellir bod yn sicr o’r ansodau y ceisiai Sommerfelt eu cyfleu, ac y gellir dehongli eu bod unrhyw le rhwng [ɛ:] / [ɔ:] hanner agored ac [e:] / [o:] hanner caeedig. Er gwaetha’r cymhlethdod hwn, un peth y gellir bod yn bendant yn ei gylch yw’r diffyg amrywio rhwng y llafariad hanner agored [ɛ(:) / [ɔ(:)] a’r rhai hanner caeedig [e(:) / [o(:)] sy’n dod i’r amlwg yn y dadansoddiad hwn.

2.2.4.3. Robert Owen Jones

Nid yw dehongliad Robert Owen Jones (1967) o sefyllfa’r llafariad hyn yn Llanfachreth yn un cymhleth, a gellir crynhoi’r sefyllfa drwy ddyfynnu brawddeg o’i eiddo:

Dyffryn Nantlle and Llanfachreth... have only two degrees of length – long and short, and the distinguishing features between different phones are qualitative and quantitative. (1967: 92)

Y mae’r llafariad hir hyn, felly, boent flaen neu ôl, wastad yn hanner caeedig yn Llanfachreth, e.e. yn [lɛ:] “lle”, [ke:g] “ceg”, [lɔ:] “llo” a [no:s] “nos”, tra bo’r llafariad byrion cyfatebol wastad yn hanner agored, e.e. yn [pen:] “pen”, [tɛn:a] “tenau”, [tɔp:] “top”, [fɔrk] “fforc” a [kɔrɔn] “coron”. Fodd bynnag, nodir y symbolau [ɛ] ac [ɔ] ar gyfer dynodi cynaniad ychydig yn fwy caeedig yn y sillaf ragobennol, e.e. yn [kɛfəl:a] “ceffylau” a [sɔspɛn:i] “sospenni”. Er hynny, ni cheir gan Robert Owen Jones enghreifftiau o’r llafariad hanner caeedig [e] ac [o] yn ymddangos yn fyr, na chwaith unrhyw sôn am y llafariad hanner agored [ɛ:] / [ɔ:] yn ymddangos yn hir.

⁴⁸ Yng ngoleuni’r canlyniadau hyn, ystyrier y dyfyniad canlynol o eiddo Iwan Wmffre: ‘For a phonemicist of Welsh... it is largely a matter of choice in transcription as to which feature – length (quantity) or aperture (quality) – should take precedence. Early in the twentieth century phoneticians such as Fynes-Clinton (1913) and Sommerfelt (1925), when describing Welsh, emphasized length...’ (2003: 8)

O safbwynt y deuseiniaid a nodir wedyn, patrymau tebyg i rai'r llafariaid syml a welir mewn gwirionedd gan mai llafariaid hanner caeedig a geir ar ddechrau deuseiniaid hir, e.e. yn [te:ɔ] "tew" a [ko:ɪd] "coed", tra gwelir llafariaid hanner agored ar ddechrau deuseiniaid byrion, e.e. yn [dɾeʊɪd] "drewllyd", [tɔi] "toi", [ɔiri] "oeri" ac [ɔirval] "oerfel". Ni nodir bod unrhyw ymgyfnewid rhwng gwahanol ddeuseiniaid yn gyffredin yn Llanfachreth.

Ar y cyfan, felly, gellir casglu bod y dehongliad hwn o sefyllfa'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn Llanfachreth yn hollol wahanol i'r hyn a adroddwyd am ardal Llanbryn-Mair. Tra na chofnodir unrhyw wahaniaeth ansawdd rhwng y llafariaid hir a'r rhai byrion hyn gan Sommerfelt, gwelir yn ddieithriad yn nadansoddiad Robert Owen Jones fod gwahaniaeth hyd a gwahaniaeth ansawdd yn mynd law yn llaw.⁴⁹

2.2.4.4. Dafydd Wyn Griffiths

O ran y llafariaid hyn mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog i ddechrau, ni cheir yn nhraethawd D. W. Griffiths (1974) unrhyw awgrymiadau o amrywio ar waith. Ar gyfer llafariaid hir, felly, [e:] ac [o:] hanner caeedig yn unig a nodir ar gyfer Llanfair Caereinion, ac ni cheir sôn am fodolaeth [ɛ:] neu [ɔ:] hanner agored yn y cylch. Rhoddir, felly, enghreifftiau o'r llafariad flaen hanner caeedig /e:/ yn digwydd mewn geiriau unsill, e.e. yn [tre:] "tref", [de:g] "deg" a [gwe:ɪd] "gwellt", yn y goben acennog o flaen llafariad, e.e. yn [ɬe:ol] "lleol", yn ogystal ag o flaen clystyrau cytseinol, e.e. yn [ple:njo] Saes. *to plane*, [ne:rɪd] "nerllyd" (oer) a [we:tjo] / [we:tja] Saes. *to wait*. Yn yr un modd, enghreifftir y defnydd o'r ffonem /o:/ â ffurfiau unsill fel [ɬo:] "llo", [ko:t] "cot" a [po:sd] "post", a ffurfiau amlsillafog lle y ceir y

⁴⁹ Er y gellid dadlau mai adlewyrchu dau batrwm cyferbyniol mewn dwy ardal yn y canolbarth a wna'r gwahaniaeth hwn, y mae'n fwy tebygol yn fy marn i mai deongliadau'r ddau dafodieithegydd sy'n wahanol, nid realiti seinegol y ddwy ardal. Ymddengys imi hefyd fod modd darllen disgrifiad Henry Sweet (1913) o'r seiniau hyn yn Nant Gwynant (Sir Gaernarfon) yn yr un goleuni. Y mae'n ddadlenol fod Sweet (fel Sommerfelt) yn honni nad oes gwahaniaeth ansawdd rhwng y llafariaid hir a'r rhai byrion hyn, tra bo Robert Owen Jones yn nodi bod gwahaniaeth hyd a gwahaniaeth ansawdd hefyd yn cyd-ddigwydd yn Nyffryn Nantlle (Sir Gaernarfon). Gan fod Nant Gwynant (yn fras) rhwng Dyffryn Nantlle a Llanfachreth, diau na fyddai'n rhesymegol credu bod y llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn ymddwyn yn hollol wahanol yn Nant Gwynant i'r hyn a wnânt yn y ddau le arall. Yn yr un modd, y mae'n anodd derbyn bod patrymau'r llafariaid hyn yn dra thebyg yn Nant Gwynant ac yn Llanbryn-Mair, ond yn hollol wahanol yn y canol yn Llanfachreth.

llafariad hir yn y goben acennog, e.e. o flaen llafariad yn [so:ar] “Soar”, ac o flaen cytsain yn [ko:læg] “coleg”. Disgrifir y llafariaid hanner caeedig byrion [e] ac [o] fel ‘amrywiadau byrion’ ar y ffonemau /e:/ ac /o:/. Nodir, felly, y ceir /e/ yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [kræse] “crysau” ac [əved] “yfed”, yn y sillaf ragobennol ddiacen, e.e. yn [perθna:se] “perthnasau” a [tesdøne] “testunau”, yn ogystal â mewn geiriau unsill diacen, e.e. [hen beθ] “hen beth”. Yn yr un modd, nodir bod /o/ yn ymddangos yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [pigo] “pigo” a [tənor] “tenor”, yn ogystal ag yn y sillaf ragobennol, e.e. yn [kołədjøn] “colledion”.

Nodir yn nisgrifiad D. W. Griffiths hefyd fod [ɛ] ac [ɔ] hanner agored yn dra chyffredin fel llafariaid byrion yn nhafodiaith Llanfair Caereinion, ac mai’r rhain a oedd yn arferol mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog. Ystyrir bod y ffonem /ɛ/ yn gyffredin mewn ffurfiau unsill, e.e. [hɛl] “hel” a [mɛrx] “merch”; yn y goben acennog, e.e. yn [wɛdin] “wedyn” a [mɛrlɛn] “merlen”; yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [mɪgɛrnɛ] “migyrnau” a [kɔjapɛl] “capel”; yn ogystal ag yn y sillaf ragobennol, e.e. yn [lɛnəðɔl] “llenyddol”. Yn yr un cyd-destunau sillafog y ceir y ffonem /ɔ/ hefyd, h.y. mewn geiriau unsill fel [lɔŋ] “llong” a [gɔrð] “gordd”; yn y goben acennog, e.e. yn [gɔsɔd] “gosod” a [gɔrmɔd] “gormod”; yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [gwisgɔ] “gwisgo” a [dɪgɔn] “digon”; yn ogystal ag yn y sillaf ragobennol, e.e. yn [gwɪrjɔnɛ:ðɔl] “gwirioneddol” a [kɔndɛmjɔ] “condemnio”.

Yn ymdriniaeth fer y rhagymadrodd ag ‘amrywiadau seinegol’, felly, pwysleisir bod amrywio ar waith rhwng y llafariaid hanner caeedig a’r rhai hanner agored yn y sillaf olaf ddiacen:

Mae’r ffurf fer ar y ffonem /e:/ yn amrywio gydag [ɛ]... Felly er y defnyddir y symbol [e] yn gyson yn yr eirfa dylid ei ddehongli fel [e] ~ [ɛ] : [bukɛd] = [bukɛd] ~ [bukɛd].

Mae’r ffurf fer ar y ffonem /o:/ yn amrywio gydag [ɔ]... Felly er y defnyddir y symbol [o] yn gyson yn yr eirfa dylid ei ddehongli fel [o] ~ [ɔ] : [agɔr] = [agɔr] ~ [agɔr]. (Griffiths, 1974: XCI)

O ran disgrifiad D. W. Griffiths o ddeuseiniaid y dafodiaith wedyn, ni chofnodir bod llawer o amrywio ar waith o safbwynt y llafariaid hanner caeedig / hanner agored. Yn gyntaf, y seiniau hanner caeedig [e:] ac [o:] yn unig a geir ar ddechrau deuseiniaid hir. Ceir, felly, /e:u/

mewn geiriau megis [ble:u] “blew” a [(go) le:u] “(go) lew”, tra ceir /o:i/ ac /o:y/ mewn ffurfiau fel [ko:id] “coed” a [ko:ys] “coes”. Er y gwelwyd mai [ɛ] hanner agored yn unig a nodwyd fel llafariad syml mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, ni cheir ond y llafariad hanner caeedig blaen ar ddechrau’r deuseiniaid byrion /ei/ ac /eu/. Ceir yma, felly, ffurfiau fel [meun] “mewn”, [deur] “dewr” a [teux] “tewch”, yn ogystal â [neiθ] “gwnaiff”, [teimlad] “teimlad”, a [neiθdi:ol] “neilltuol”. Nodir hefyd fod ‘... /ei/ ac /əi/ weithiau yn amrywio â’i gilydd’ (1974: LXXIX). Yn yr un modd, er mai’r [ɔ] hanner agored yn unig a gafwyd fel llafariad syml mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, cofnodir bod ymgyfnewid rhwng [ɔ] hanner agored ac [o] hanner caeedig ar ddechrau deuseiniaid a gaeai ag [i], e.e. ceir [ɔi] yn [lɔi] “lloi”, [knɔi] “cnoi” a [pɔintjɔ] “pointio”, ond [oi] yn [troi] “troi”, [roi] “rhoi” a [poini] “poeni”. Er hynny, ni cheir ond y llafariad ôl hanner caeedig yn /ou/, e.e. yn [sound] “sownd”, [doux] “dowch” a [kouled] “cowlaid”. Fel hyn, felly, yr adlewyrcha D. W. Griffiths yr ychydig amrywio a geir ar waith yn achos deuseiniaid Llanfair Caereinion yn ei adran fer ar ‘amrywiadau seinegol’:

Amrywia’r deuseiniaid [oi] ac [ɔi]... [oi] a ddefnyddir yn gyson yn yr eirfa ond dylid ei ddehongli fel /oi/ ~ /ɔi/ : [troi] = [troi] ~ [trɔi].

Amrywia’r deuseiniaid [ei] ac [əi] yn ddiamod yn y geiriau isod... [neiθ] = [neiθ] ~ [nəiθ], [reit] = [reit] ~ [rəit]... (1974: XCI)

I grynhoi’r dehongliad hwn, gwelwyd uchod mai darlun unffurf a bortreedir o sefyllfa’r llafariad hanner caeedig / hanner agored hyn mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog yn Llanfair Caereinion. Yn y cyd-destunau hyn, felly, gwelwyd mai [e:] ac [o:] hanner caeedig sydd wastad yn ymddangos mewn llafariad hir, tra bo [ɛ] ac [ɔ] hanner agored yn codi’n gyson mewn llafariad byrion. Y mae dehongliad D. W. Griffiths o’r sefyllfa hon, felly, yn gyfan gwbl wahanol i’r hyn a adroddwyd gan Sommerfelt (1925) gan na nodwyd ganddo wahaniaeth ansawdd rhwng y llafariad byrion a’r rhai hir hyn, boent flaen neu ôl.⁵⁰ Ar y llaw arall, gellir nodi bod dadansoddiad D. W. Griffiths o’r llafariad hyn mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog yn unfath ag eiddo Robert Owen Jones (1967) am Lanfachreth. Yr

⁵⁰ Noder nad yw Llanbryn-Mair nepell o Lanfair Caereinion, felly ni ddisgwylid gwahaniaeth sylweddol o’r math hwn o safbwynt realiti seinegol y ddau le.

astudiaeth hon, fodd bynnag, yw'r gyntaf i nodi bod amrywio ar waith rhwng y llafariad hanner caeedig a'r rhai hanner agored (yn y blaen a'r cefn) yn y sillaf olaf ddiacen.

O safbwynt y deuseiniaid wedyn, y mae'n ddi-ddorol fod D. W. Griffiths yn dehongli mai'r llafariad fer hanner caeedig [e] a geir ar ddechrau gwahanol deuseiniaid byrion (yn wahanol i'r hyn a geir ganddo ar gyfer llafariad syml byrion), a'i fod hefyd yn barnu bod [oi] ac [ɔi] yn gwamalu â'i gilydd yn ardal Llanfair Caereinion. Braenerir yma'r tir, felly, ar gyfer archwilio'n fanylach i amrywiadau o safbwynt y defnydd a wneir o'r llafariad hyn mewn gwahanol ddeuseiniaid.

2.2.4.5. Beth Thomas a Peter Wynn Thomas

Ni roddir unrhyw sylw i amrywio ar waith o safbwynt y llafariad hanner caeedig / hanner agored yn rhan gyntaf y gyfrol, ac ni chyfeirir chwaith at ansawdd y llafariad hyn yn yr ymdriniaethau â siaradwyr y canolbarth. Y mae rhai o'r sylwadau a geir ar gyfer siaradwraig Rhosllannerchrugog, fodd bynnag, yn berthnasol i dafodieithoedd y canolbarth. Cymerer y sylw hwn am y llafariad hanner caeedig flaen [e], er enghraifft:

Clywir llafariad 'main' yn y goben... mewn rhai geiriau, e.e. **gwely**... lle y mae'r **e** yn debyg i'r hyn a geir yn **hen**... Nodwedd gymhleth yw hon nad yw'n hawdd ei disgrifio mewn termau annhechnegol. Mae'r llafariad 'main', fodd bynnag, yn tueddu i ddi-gwydd pan fo **i**, **u** neu **w** yn eu dilyn yn y sillaf olaf; fe'u clywir, felly, yn **arbennig**... **capelydd**... a **meddwl**... ond nid yn **gweled**... **Gwener**... na **pethe**... (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 107)

Eir ati wedyn i gyffelybu defnydd siaradwraig y Rhos o'r llafariad hanner caeedig ôl [o] â'r hyn a glywir gan siaradwraig Bryn-crug:

Ceir patrwm tebyg yn achos **o**: nid yw'r llafariad mewn geiriau fel **honno**... a **hollol**... yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgwyliid. Mae **torri**..., fodd bynnag, yn swnio'n debyg i 'Tori', a hynny am fod **i** yn y sillaf olaf yn peri i'r **o** 'feinhau'. Fel y prawf enghraifft [o [tori] "torri"] yn y darn o Fryn-crug... mae'r nodwedd hon yn ymestyn drwy ran helaeth o'r Canolbarth hefyd... (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 107)

Ceir yma, felly, awgrym clir o gontinwrm yn ymestyn yr holl ffordd o arfordir de Meirionnydd drwy'r canolbarth i'r gogledd-ddwyrain. Fodd bynnag, er y dangosir bod y ffurf [tori] "torri" yn bosibl ym Mryn-crug a'r Rhos fel ei gilydd, hawdd y gellid rhagdybio o ddarllen y dyfyniadau uchod na fyddai ffurfiau fel [gwenar] "Gwener" a [noson] "noson" yn bosibl yn y canolbarth oherwydd nid "i", "u" neu "w" (h.y. y llafariaid caeedig) a welir yn y sillaf olaf. Nid dyna'r realiti, fodd bynnag, fel y gwelir mewn mwy o fanylder ym mhennod 10. Ni ddylid cymryd yn ganiataol, felly, mai'r un patrymau ffonolegol a geir yn y canolbarth a'r gogledd-ddwyrain, er bod yr un ffurfiau weithiau'n cyd-ddigwydd yn y ddau ranbarth. Y mae dirfawr angen cyflawni rhagor o waith maes, felly, er mwyn canfod a oes perthynas rhwng patrymau ffonolegol y canolbarth a rhai'r gogledd-ddwyrain, sef yr hyn a awgrymir yn gryno gan B. Thomas a P. W. Thomas.

2.2.4.6. *The Welsh Dialect Survey*

Canolbwyntiwyd eto ar saith ffurf gyntaf y cyd-destunau isod er mwyn dadansoddi dehongliad yr holiadur o'r llafariaid hyn yn y canolbarth. Noder hefyd y cyfyngir y sylwadau canlynol i lafariaid syml gan na cheir digon o enghreifftiau o ddeuseiniaid penodol mewn gwahanol gyd-destunau. Ni thrafodir y defnydd o'r llafariaid hyn yn y sillaf olaf ddiacen gan nad yw'r cyd-destun hwn yn destun dadansoddiad manwl ym mhennod 10.⁵¹

Cryn amrywio a gyfleir eto yn yr holiadur o safbwynt y defnydd o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y canolbarth. Gan ymdrin i ddechrau â llafariaid hir mewn geiriau unsill, gwelir ar fap 11 fod y llafariaid blaen hir [e:] ac [ɛ:] yn ymglyfnwid â'i gilydd mewn deg lleoliad gwahanol yn y canolbarth, tra bo defnydd cyson o [e:] hanner caeedig i'w weld yn y naw lleoliad arall.⁵² Nodir, er enghraifft, [he:n] "hen" ond [sɛ:r] "sêr" ar gyfer Llanfachreth (ardal 47). Gwelir ar fap 12 wedyn fod amrywio digon tebyg ar waith yn achos y llafariaid ôl hir [o:] ac [ɔ:], lle y gwelir y ddwy lafariad yn amrywio â'i gilydd mewn chwe ardal wahanol, tra ceir defnydd cyson o [o:] hanner caeedig yn yr ardaloedd eraill.⁵³ Ceir, er enghraifft, y pâr


⁵¹ Gweler y cyfiawnhad dros beidio â manylu ar y defnydd o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y sillaf olaf ddiacen ar ddechrau pennod 10.

⁵² Y saith gair a ddadansoddir yw "te", "hen", "pêl", "sêr", "gwres", "gwellt" a "hesb".


⁵³ Y saith gair a ddadansoddir yw "to", "tôn", "stôl", "côr", "nos", "cosb" a "hollt".

[ko:r] “côr” ~ [nɔ:s] “nos” yn ardal Abermaw (46). Ni cheir, fodd bynnag, unrhyw batrymau daearyddol amlwg gan y ceir enghreifftiau o [e:] ~ [ɛ:] ac [o:] ~ [ɔ:] ar waith yng ngogledd a de y rhanbarth, yn ogystal ag yn y gorllewin a’r dwyrain.

Map 11: Llafariaid blaen hanner caeedig / hanner agored hir mewn geiriau unsill



Map 12: Llafariaid ôl hanner caeedig / hanner agored hir mewn geiriau unsill




O safbwynt y defnydd o lafariaid hanner caeedig / hanner agored byrion mewn geiriau unsill, y mae’r sefyllfa yn llawer symlach ac yn fwy unffurf.⁵⁴ Dengys mapiau 13 ac 14 yn glir mai [ɛ] ac [ɔ] hanner agored yn unig a geir ym mhob ardal yn ddiwahân mewn ffurfiau fel [pen]


⁵⁴ Y geiriau sy’n berthnasol i’r lafariaid blaen yw “pen”, “gweld”, “pell”, “gwell”, “cer” a “het”, a’r rhai sy’n berthnasol i’r lafariaid ôl yw “ton”, “siom”, “llong”, “lol”, “(ar) goll” a “cloc”.

“pen” a [tɔn] “ton”. Yr unig eithriad a geir yw [gwɛɫ] “gwell” yn Llangadfan (38), a gellir cynnig mai o dan ddylanwad y ffurf ddeheuol [gwe:ɫ] y’i ceir.

Map 13: Llafariaid blaen hanner caeedig / hanner agored byrion mewn geiriau unsill




Map 14: Llafariaid ôl hanner caeedig / hanner agored byrion mewn geiriau unsill



Ar y llaw arall, gwelir cryn amrywio ar waith yn achos y llafariaid byrion hyn yn y goben acennog. Gwelir ar fap 15 isod fod y llafariaid blaen [e] ac [ɛ] yn ymgynffwrdd â’i gilydd ym mhob un ardal, ac eithrio yng Nghorris (50), sydd ag [ɛ] hanner agored yn gyson, ac Aberhosan (53), lle y ceir [e] hanner caeedig ym mhob un o’r ffurfiau a ddadansoddwyd.⁵⁵ Ceir, felly, barau megis [gwɛɫi] “gwely” ~ [kjɛnɪn] “cennin” ar gyfer Abermaw (46).


⁵⁵ Y geiriau a ddadansoddir yw “gwely”, “celyn”, “tenau”, “cennin” a “seren”.

Map 15: Llafariaid blaen hanner caeedig / hanner agored byrion yn y goben acennog



Yn yr un modd, dengys map 16 isod mai gwamalu a wna’r llafariaid ôl [o] ac [ɔ] yn y goben acennog mewn pedwar ar ddeg o leoliadau yn y canolbarth, tra ceir [ɔ] hanner agored yn gyson yn y pum ardal arall.⁵⁶ Ceir, er enghraifft, [ola] “olaf” ~ [pɔbi] “pobi” ar gyfer ardal Harlech (45).

Map 16: Llafariaid ôl hanner caeedig / hanner agored byrion yn y goben acennog



I grynhoi’r deunydd a geir yn yr holiadur o safbwynt y llafariaid hyn, felly, y mae’n eglur oddi wrth y dadansoddiad hwn fod cryn amrywio ar waith yn y canolbarth rhwng y llafariaid hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] a’r rhai hanner caeedig [e(:)] / [o(:)], a hynny mewn amrywiaeth o

⁵⁶ Y geiriau a ddadansoddir yw “olaf”, “tonnau”, “tonau”, “torri” a “pobi”.

gyd-destunau, yn enwedig yn llafariaid hir geiriau unsill ac yn llafariaid byrion y goben acennog. Dylid pwysleisio bod y dehongliad hwn, felly, yn dra gwahanol i'r hyn a welwyd mewn gweithiau cynharach (e.e. Sommerfelt, 1925; R. O. Jones, 1967, a D. W. Griffiths, 1974), lle y portreedir bod sefyllfa'r llafariaid hyn yn unffurf mewn gwahanol gyd-destunau sillafog. Y mae angen gwaith pellach, fodd bynnag, er mwyn gweld a yw'r amrywio hwn yn patrymu mewn ffordd benodol ai peidio.

2.2.4.7. Casgliadau

Er nad yw'r nodwedd hon yn arbennig o drawiadol yn yr astudiaethau uchod, gwelir er hynny fod amrywiaeth o safbwyntiau i'w cael o astudio gwahanol ganlyniadau yn fanwl. Yr hyn a amlygir yn bennaf yw na cheir consensws rhwng y gwahanol awduron o ran y gwahanol ansodau sy'n bosibl ar gyfer "e" ac "o" mewn gwahanol gyd-destunau. Cymerer gwaith Sommerfelt (1925), er enghraifft, lle y bernir mai'r un ansawdd a geir i'r seiniau hyn ym mhob cyd-destun yn ardal Llanbryn-Mair, boent yn hir neu'n fyr, yn llafariaid syml neu'n elfennau cyntaf mewn deuseiniaid.⁵⁷ Y mae dehongliad Robert Owen Jones (1967) o'r sefyllfa yn Llanfachreth wedyn yn dra gwahanol gan y gwelir bod gwahaniaeth ansawdd a gwahaniaeth hyd wastad yn cyd-fynd â'i gilydd, h.y. y llafariaid hanner caeedig [e:] ac [o:] a geir mewn llafariaid hir, a'r rhai hanner agored cyfatebol [ɛ] ac [ɔ] a geir mewn llafariaid byrion. Ceir y patrwm hwn yn gyson ar gyfer llafariaid syml ac elfennau cyntaf deuseiniaid. Gellir dweud mai'r un berthynas rhwng hyd ac ansawdd a nodir gan D. W. Griffiths (1974) ar gyfer llafariaid syml mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, h.y. mai [e:] / [o:] hanner caeedig a geir yn hir yn Llanfair Caereinion, ac mai [ɛ] ac [ɔ] hanner agored a geir yn fyr. Fodd bynnag, y mae'r dehongliad hwn yn wahanol i eiddo Robert Owen Jones gan y nodir bod amrywio ar waith rhwng y llafariaid hanner agored [ɛ] / [ɔ] a'r rhai hanner caeedig [e] / [o] yn y sillaf olaf ddiacen. Yn ogystal â hynny, y llafariad fer hanner caeedig [e] a geir gan D. W. Griffiths yn elfen gyntaf yn y deuseiniaid [ei] ac [eu], a nodir hefyd fod ymglyfnwid rhwng [o] hanner caeedig ac [ɔ] hanner agored yn y deuseiniaid [oi] ac [ɔi]. Mae'n amlwg yn y dadansoddiad hwn, felly, fod y berthynas a geir rhwng hyd ac ansawdd yn gymhlethach

⁵⁷ Trafodwyd eisoes y cymhlethodau sy'n codi pan geisir dehongli beth yn union yw ansawdd y llafariaid hyn a nodir gan Sommerfelt (gweler 2.2.4.2).

na'r hyn a gofnodir gan Robert Owen Jones. Y mae *The Welsh Dialect Survey* (A. R. Thomas et al., 2000) wedyn yn cyflwyno ystyriaethau newydd gan mai'r holiadur hwn yw'r cyntaf i ddangos bod amrywio ar waith rhwng y llafariaid hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] a'r rhai hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] yn llafariaid hir geiriau unsill ac yn llafariaid byrion y goben acennog mewn nifer o rannau o'r canolbarth. Ni nodir yn yr un o'r astudiaethau blaenorol hyn, fodd bynnag, fod amrywio ar waith o safbwynt y seiniau hyn yn llafariaid byrion geiriau unsill.

Byrdwn hyn oll, felly, yw na ellir ar hyn o bryd ddod i gasgliadau pendant ynghylch y defnydd a wneir o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn mewn rhannau o'r canolbarth gan nad oes cytundeb rhwng y gwahanol ddeongliadau uchod. Er bod modd casglu oddi wrth rai ffynonellau fod amrywio ar waith mewn rhai cyd-destunau mewn ambell ardal, nid yw'n hysbys a geir yr amrywiadau hynny ym mhob rhan o'r canolbarth. Gan na chyflawnwyd unrhyw ddadansoddiad meintiol ar y nodwedd hon, ni wyddys chwaith a yw ymgyfnewid rhwng [e(:)] ac [ɛ(:)], neu [o(:)] ac [ɔ(:)], yn fwy nodweddiadol o rai tafodieithoedd na rhai eraill yn y rhanbarth. Ystyriaeth arall hefyd yw a oes gwahaniaeth rhwng ymddygiad y llafariaid blaen a'r rhai ôl mewn gwahanol ardaloedd. Yn ddiaw, felly, y mae dirfawr angen astudio natur yr amrywio sydd ar waith o safbwynt ansawdd y seiniau hyn mewn gwahanol gyd-destunau. Trafodir y nodwedd hon, felly, mewn llawer mwy o fanylder ym mhennod 10, lle y rhoddir sylw i amllder y gwahanol seiniau hyn yn ogystal â'u hansoddau.

2.3. Y camau nesaf

Gwelwyd yn y bennod hon fod amrywiaeth o ffynonellau eisoes wedi ymdrin â'r nodweddion ffonolegol sy'n ganolog i'r astudiaeth hon. Nid ydynt oll, fodd bynnag, yn arddel yr un safbwyntiau ar bob nodwedd, ac o ganlyniad, ceir cymhlethdodau'n codi pan geisir pennu beth sydd wirioneddol ar waith mewn gwahanol rannau o'r canolbarth. Y mae'n amlwg, felly, y gallai astudiaeth a fyddai'n canolbwyntio ar ddefnydd siaradwyr o'r nodweddion ffonolegol hyn mewn sawl ardal yn y canolbarth fod yn fanteisiol. Nod y gwaith hwn, felly, yw cyfrannu ymhellach at ein gwybodaeth o amrywiadau ffonolegol mewn rhannau o'r canolbarth, gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn hysbys.

Fodd bynnag, cyn mynd at y patrymau ffonolegol a ddaw i'r amlwg yng nghanlyniadau'r astudiaeth hon, eir ati yn gyntaf ym mhennod 3 i drafod yr ystyriaethau methodolegol y bu raid eu pwysu a'u mesur. Cyfiawnheir, felly, y modd y gweithredwyd er mwyn casglu data yn y lle cyntaf, a thrafodir hefyd y dulliau dadansoddi a ddefnyddiwyd drwy adrannau B ac C y traethawd hwn.

PENNOD 3: Methodoleg

3. Cyflwyniad

Canolbwyntiwyd yn y bennod ddiwethaf ar y modd y mae astudiaethau blaenorol ar dafodieithoedd y canolbarth yn ymdrin â phedair nodwedd ffonolegol benodol, sef yr ‘u ogleddol’ [i(:)], yr ‘æ fain’ [æ(:)], y ffrwydrolion tafnodol [kj] a [gj], a’r llafariaid hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)]. Y mae’n deg barnu oddi wrth gasgliadau’r bennod flaenorol mai bylchog yw ein gwybodaeth o safbwynt y defnydd a wneir o’r pedair nodwedd hyn mewn gwahanol ardaloedd o’r canolbarth, yn enwedig yn achos y llafariaid hanner caeedig / hanner agored. Y mae dirfawr angen, felly, edrych yn fanylach ar sut y mae’r nodweddion hyn yn patrymu mewn gwahanol leoedd yn y canolbarth, gan sefydlu beth yw natur y gwahanol amrywiadau a welir ar waith. Diben y bennod hon, felly, yw egluro sut yr aed ati i geisio gwneud hynny. Dechreuir drwy egluro’r penderfyniadau y bu raid eu gwneud er mwyn cael digon o ddeunydd i’w ddadansoddi. Trafodir, felly, yr ardaloedd a ddewiswyd yn 3.1, yna’r siaradwyr y cyfwelwyd â hwy yn 3.2. Eir ati wedyn yn 3.3 i fanylu ar y modd y cyflawnwyd y gwaith maes, cyn y disgrifir yn 3.4 y dulliau dadansoddi y glynyd wrthynt yn adrannau B ac C y traethawd hwn.

3.1. Yr ardaloedd

Trafodir i ddechrau yn 3.1.1 y modd y dewiswyd ardaloedd a oedd yn addas ar gyfer yr astudiaeth ffonolegol hon, cyn yr eir ati wedyn yn 3.1.2 i ymdrin yn gryno â chefnidir cymdeithasol a sefyllfa ieithyddol yr ardaloedd hyn.

3.1.1. Dewis ardaloedd

Yn amlwg, yr oedd dewis ardaloedd yn un o'r penderfyniadau hollbwysig y bu raid imi ei wneud wrth ddechrau ymchwilio i dafodieithoedd y canolbarth. Yr oedd gennyf un ardal benodol mewn golwg o'r cychwyn cyntaf, sef cyffiniau Harlech. Gan mai hon yw bro fy mebyd, roeddwn yn ymwybodol ers fy nghyfnod yn yr ysgol uwchradd fod modd i nodweddion ffonolegol sy'n gysylltiedig â'r canolbarth ymddangos yn iaith cenedlaeth hŷn yr ardal, e.e. yr 'æ fain' mewn geiriau fel [tæ:d] "tad" a [mæm] "mam". Yr argraff a gefais, fodd bynnag, ar ôl siarad â nifer o drigolion lleol o wahanol oedrannau yw bod pobl yr ardal yn ystyried bod eu hiaith yn fwy nodweddiadol o'r gogledd nag o'r canolbarth.

Ymddangosai imi, felly, mai ar gyron eithaf y canolbarth yr oedd ardal Harlech yn ieithyddol, ac y gallai astudiaeth ffonolegol fanwl o Gymraeg yr ardal fod yn ddadlennol oherwydd hynny.

Fodd bynnag, deuthum i'r casgliad na fyddai astudio patrymau ffonolegol un ardal yn unig yn ddigon ar gyfer taflu goleuni ar natur gwahanol amrywiadau yn y canolbarth. Gwyddwn, er hynny, na ellid astudio pob tafodiaith 'ganolbarthol' oherwydd cyfyngiadau amser, yn enwedig gan fod y rhanbarth yn eang iawn, h.y. yn cynnwys rhannau helaeth o Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn i gyd. Fel cyfaddawd, penderfynwyd astudio iaith un ardal arall yn y canolbarth. Yr ail ardal a ddewiswyd, felly, yw Bro Dysynni (dalgylch Tywyn).

Gellir barnu bod y ddwy ardal hyn, sef cyffiniau Harlech a Bro Dysynni, yn addas iawn ar gyfer cyflawni gwaith maes ynddynt, a'u bod yn teilyngu sylw am resymau tebyg. Yn gyntaf, dylid pwysleisio na fu nemor ddim sôn am dafodieithoedd arfordir Sir Feirionnydd mewn gweithiau tafodieithogol eraill. Ychydig iawn sy'n hysbys, felly, ynglŷn â phatrymau ffonolegol yr ardaloedd hyn. Yn ail, ymddengys oddi wrth astudiaethau blaenorol a

ganolbwyntiodd ar y canolbarth (gweler pennod 2) fod lleoliad daearyddol y ddwy ardal hyn yn ddelfrydol ar gyfer archwilio i natur amrywiadau ffonolegol gwahanol. Y mae isoglos yr ‘u ogleddol’ a ddisgrifiwyd gan Darlington (1902), er enghraifft, i’w weld yn teithio drwy ganol Bro Dysynni (gweler 2.2.1.1). Yn yr un modd, disgrifir yn erthygl Darlington fod Harlech yn dra agos i ffin ogleddol tiriogaeth yr ‘æ fain’ (gweler 2.2.2.1). Y mae hefyd yn fanteisiol fod digon o bellter daearyddol rhwng y ddwy ardal hyn. Bydd modd dadlennu, felly, a yw daearyddiaeth yn ffactor hanfodol i’w ystyried wrth ddadansoddi defnydd siaradwyr y ddau ddalgylch o’r un nodweddion ffonolegol. Y mae’n werth nodi hefyd y gall cymariaethau manwl o batrymau ffonolegol y ddwy ardal hyn fod yn sail gadarn ar gyfer archwilio’n drylwyr yn y dyfodol i strwythurau a nodweddion ffonolegol ardaloedd eraill yn y canolbarth.

Yn ogystal â’r ystyriaethau academaidd pwysig uchod, yr oedd gennyf hefyd resymau ymarferol dros ddewis cyffiniau Harlech a Bro Dysynni fel mannau addas i gyflawni gwaith maes ynddynt. Yn y ddwy ardal hyn, yr oedd gennyf gysylltiadau teuluol a oedd yn fodlon rhoi cymorth imi ar gyfer dod o hyd i siaradwyr addas, a’u hargyhoeddi i’w helpu. Trafodir yn y man (gweler 3.2.2) y modd y bu’r cysylltiadau hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ennyn ymddiriedaeth siaradwyr ynof, a diau mai arwain at sgysiau mwyfwy naturiol a digymell a wnâi hyn yn y pen draw.

3.1.2. Cefndir cymdeithasol a sefyllfa ieithyddol yr ardaloedd

Gellir barnu mai cefndir cymdeithasol tebyg iawn sydd i ardaloedd gwledig Harlech a Bro Dysynni, ac mai’r un datblygiadau ieithyddol a gafwyd hefyd yn y rhannau hyn o Sir Feirionnydd. Er yr arferai Harlech fod yn dref lle y gwnâi trigolion ei chylch eu negesau, a lle’r ymgasglai ffermwyr y cyffiniau i brynu a gwerthu eu hanifeiliaid, nid hi bellach yw prif ganolfan fasnachu pobl yr ardal. Yn hytrach, teithia’r rhan fwyaf o breswylwyr y cyffiniau i’r Bermo neu i Borthmadog er mwyn siopa am fwyd, ac yn bellach na hynny’n aml ar gyfer prynu dillad. Collodd Harlech ei mart anifeiliaid hefyd, ac yn Nolgellau neu ym Mryncir (Sir Gaernarfon) y masnacha ffermwyr yr ardal bellach. Yn yr un modd, er bod mwy o siopau bwyd yn Nhywyn nag yn Harlech, cyfeiriai nifer o drigolion Bro Dysynni at eu harfer o fynd cyn belled â’r Drenewydd neu Aberystwyth i wneud eu negesau. Ar wahân i drefi Harlech a

Thywyn, felly, pentrefi bychain a chymoedd gwledig a geir yn yr ardaloedd hyn. Gwelir ar fap 1, er enghraifft, mai i mewn i'r tir o arfordir Harlech y mae pentref Llanbedr.⁵⁸ Er nad yw enw Cwm Bychan i'w weld ar y map, gellir nodi mai yn y cwm hwn y mae tarddiad Afon Artro a ddangosir ar y map. Yn yr un modd, er na nodir Cwm Nantcol ar y map, fe'i lleolir ar ochr orllewinol y Rhinog Fach. Dengys map 2 wedyn mai i mewn o'r tir o arfordir Tywyn y mae pentrefi Bryn-crug, Llanegryn ac Abergynolwyn ym Mro Dysynni.⁵⁹

Map 1: Cyffiniau Harlech (www.ordnancesurveyleisure.co.uk/leisure)



Map 2 – Bro Dysynni (www.ordnancesurveyleisure.co.uk/leisure)



⁵⁸ Gellir egluro yma nad aethpwyd i lawr i'r pentref nesaf, sef Dyffryn Ardudwy, na chwaith i fyny i'r gogledd o Harlech i Dalsarnau. Ardal gyfyng, felly, yw 'cyffiniau Harlech' yr astudiaeth hon.

⁵⁹ Noder bod Llanfihangel-y-pennant, lle y cafwyd un o'r siaradwyr, ger Abergynolwyn.

Er bod poblogaeth yr ardaloedd hyn yn gymharol isel, dylid pwysleisio nad yw eu demograffeg yn unffurf. Yn wir, yr oedd y modd y datblygasai'r cymunedau hyn yn fwyfwy Seisnig yn destun amlwg yn nifer o'r cyfweiliadau a gafwyd gyda siaradwyr hŷn o'r ddwy ardal. Ymddengys oddi wrth dabl 1, fodd bynnag, nad yw sefyllfa ieithyddol y cymunedau hyn yn unigryw, ond bod lleihad cyffredinol i'w weld yng nghanrannau y boblogaeth a allai siarad Cymraeg yn Sir Feirionnydd wrth i'r ugeinfed ganrif fynd rhagddi. Gan mai yn y 1930au, neu cyn hynny, y ganwyd y rhan fwyaf o'r siaradwyr a gafwyd (gweler 3.2.3), y mae'n amlwg oddi wrth ystadegau tabl 1 fod y Gymraeg yn rhan naturiol o'u magwraeth, ac y byddai mwyafrif llethol y boblogaeth ar hyd Meirionnydd wedi bod yn siaradwyr Cymraeg bryd hynny.

Tabl 1: Canrannau y boblogaeth a all siarad Cymraeg yn Sir Feirionnydd⁶⁰
(Ystadegau cyfrifiadau a atgynhychir ar wefan www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003/04) gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa EM)

1901	1911	1921	1931	1951	1961	1971	1981
93.7%	90.3%	82.1%	86.1%	75.4%	75.9%	73.5%	68.2%

Fodd bynnag, gwelir yn glir oddi wrth fapiau Aitchison a Carter (gweler, er enghraifft, 1994: 48, 49, 53 a 94) fod canrannau y siaradwyr a allai siarad y Gymraeg yn ôl cyfrifiadau 1961–1991 ar y cyfan yn sylweddol is ar hyd arfordir Meirionnydd na mewn rhannau eraill o'r sir. Diau y gellir cynnig mai dylanwad mewnffudo o Loegr sydd wrth wraidd hyn yn bennaf, a bod rheilffordd arfordir y Cambrian, sy'n rhedeg yn uniongyrchol rhwng Pwllheli a Birmingham, wedi hwyluso'r broses hon yn ddirfawr. Ar sail y mapiau hyn o eiddo Aitchison a Carter, felly, ceisir yn nhablau 2 a 3 grynhoi'r sefyllfa a ddarlunnir ar gyfer y ddwy ardal.

⁶⁰ Noder nad oedd cyfrifiad yn 1941 oherwydd yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Canrannau y boblogaeth a all siarad Cymraeg yn ardal Harlech
(Yn seiliedig ar fapiau Aitchison a Carter (1994: 48, 49, 53 a 94))

Tref Harlech				Pentrefi bychain / cymoedd gwledig cyffiniau Harlech			
1961	1971	1981	1991	1961	1971	1981	1991
50%+	50%+	50%+	50%+	65%+	65%+	50%+	50%+

Tabl 3: Canrannau y boblogaeth a all siarad Cymraeg ym Mro Dysynni
(Yn seiliedig ar fapiau Aitchison a Carter (1994: 48, 49, 53 a 94))

Tref Tywyn				Pentrefi gwledig Bro Dysynni			
1961	1971	1981	1991	1961	1971	1981	1991
50%+	50%+	35%+	35%+	80%+	80%+	65%+	50%+

Dengys tabl 2 yn gyntaf fod ardal Harlech wedi ei rhannu gennyf yn ddwy ran er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa a bortreedir ym mapiau Aitchison a Carter (1994). Yn y naill ran y mae tref Harlech ei hun, tra ceir yn y llall y pentrefi a'r cymoedd mwy gwledig, e.e. Llanfair, Llanbedr, Cwm Bychan a Chwm Nantcol. Gwelir, felly, fod gwahaniaethau rhwng canlyniadau'r ddwy ran hyn ar gyfer 1961 a 1971, sef bod canran uwch o siaradwyr Cymraeg i'w cael y tu allan i'r dref. O ran 1981 a 1991, fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth hwn i'w weld, ac ymddengys mai Seisnigeiddio a wnaeth yr ardal wledig yn debyg i dref Harlech. Noder bod y canrannau a welir yma ar gyfer 1961, 1971 a 1981 i'w gweld yn sylweddol is na'r ystadegau cyffredinol a nodwyd ar gyfer Sir Feirionnydd yn nhabl 1.

Yn yr un modd, rhaid rhannu Bro Dysynni yn ddwy ran yn nhabl 3 er mwyn cynrychioli yn effeithiol y sefyllfa a ddarlunnir gan fapiau Aitchison a Carter (1994). Gwelir mai tref Tywyn yw'r rhan gyntaf a ystyrir, tra bo'r ail ran yn fwy gwledig ei natur ac yn cynnwys Bryn-crug, Llanegryn, Llanfihangel-y-Pennant ac Abergynolwyn. Y mae cymharu ystadegau'r ddwy ran hyn, felly, yn ddadlennol, ac yn dangos bod canrannau y boblogaeth a allai siarad Cymraeg yn Nhywyn ei hun yn sylweddol is na'r hyn oeddynt ym mhentrefi gwledig Bro Dysynni. Yn wir, gwelir yma wahaniaethau mwy trawiadol na'r hyn a welwyd rhwng dwy ran ardal Harlech. Gellir casglu oddi wrth dabl 3 hefyd mai lleihau a wnaeth canrannau y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn

enwedig yng nghefn gwlad Bro Dysynni lle y gwelir newid o 80%+ i 50%+ mewn pedwar degawd. Gellir casglu, felly, y bu Seisnigeiddio cyffredinol helaethach ar waith ym Mro Dysynni nag yng nghyffiniau Harlech, ac y newidiodd y tirlun ieithyddol yn gyflymach yno hefyd.

Yn olaf, o ran sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn yn ystod y degawdau diwethaf, ceir ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (<http://www.ons.gov.uk/ons/interactive/census-map-2-2---wlanguage-w/index.html>, 2013) ganrannau sy'n cymharu canlyniadau cyfrifiad 2001 a rhai 2011 ochr yn ochr ar gyfer pob ward yng Nghymru, a hynny ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Ceir ar y wefan hon hefyd fapiau sy'n amlygu'r canlyniadau hyn. Er gwybodaeth, felly, atgynhychir yn nhabl 4 ystadegau tair ward sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon, sef Harlech,⁶¹ Tywyn ac ardal wledig Bro Dysynni.⁶²

Tabl 4: Cymhariaeth o ganlyniadau cyfrifiad 2001 ac un 2011 ar gyfer wardiau'r ddwy ardal (rhyddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2013)

WARD	Canrannau y boblogaeth a all siarad Cymraeg					
	2001 ⁶³			2011		
	Ward Harlech	Ward Tywyn	Ward pentrefi Bro Dysynni	Ward Harlech	Ward Tywyn	Ward pentrefi Bro Dysynni
Gallu siarad Cymraeg (cyffredinol)	50.7%	37.7%	58.4%	50.8%	35.8%	---
Gallu siarad Cymraeg: 3-15 oed	89.9%	77.2%	89.1%	86.1%	79.5%	---
Gallu siarad Cymraeg: 16-64 oed	47.1%	36.6%	55.6%	52.6%	38.7%	---
Gallu siarad Cymraeg: 65 oed a throsodd	41.9%	24.5%	44.6%	35.9%	23.2%	---

⁶¹ Cynnwys y ward hon dref Harlech yn ogystal â phentrefi a chymoedd gwledig y cylch.

⁶² Yn anffodus, ni cheir ystadegau ar gyfer y ward hon yng nghyfrifiad 2011 gan ei bod bellach wedi uno â ward Seisnicach Aberdyfi.

⁶³ Ceir gan Aitchison a Carter (2004: 52) fap o Gymru sy'n amlygu canrannau y boblogaeth a allai siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn ôl cyfrifiad 2001.

O ran ardal Harlech i ddechrau, gwelir bod canran yr holl boblogaeth a all siarad y Gymraeg yn debyg yn y ddau ddegawd (h.y. ychydig dros 50%). Fodd bynnag, gan y gwelir yn y man fod y genhedlaeth hŷn yn ganolog i'r astudiaeth hon, y mae'n werth nodi bod canrannau y boblogaeth 65 oed a throsodd a all siarad Cymraeg yn sylweddol is na'r canlyniadau cyffredinol yn y ddau ddegawd, a bod lleihad o 41.9% yn 2001 i 35.9% yn 2011 i'w weld o safbwynt y grŵp oedran hwn.

Gwelir hefyd mai'r un patrymau sydd ar waith yn ward Tywyn, er bod canrannau cyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn amlwg is yno (37.7% yn 2001 a 35.8% yn 2011). Unwaith eto, y mae canrannau y boblogaeth 65 oed a throsodd a all siarad Cymraeg gryn dipyn yn is na'r canlyniadau cyffredinol yn y ddau ddegawd (24.5% yn 2001 a 23.2% yn 2011). Gellir dweud, felly, fod cyn lleied â chwarter y boblogaeth hŷn yn medru'r Gymraeg yn ward Tywyn.

O safbwynt y ward sy'n cynnwys pentrefi gwledig Bro Dysynni yn olaf, er bod canrannau cyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch yno nag yn ward Tywyn, gwelir mai lleiafrif o'r genhedlaeth hŷn (65 oed a throsodd) a fedrai'r Gymraeg yno hefyd yn 2001 (44.6%). Yn anffodus, nid oes modd dweud beth yn union yw sefyllfa'r Gymraeg yn y pentrefi hyn ar hyn o bryd gan iddi gael ei huno â ward Seisnicach Aberdyfi ar gyfer cyfrifiad 2011.


Yr hyn y dylid ei bwysleisio, felly, yw ei bod yn eglur oddi wrth dabl 4 uchod fod aelodau o genedlaethau hŷn cyffiniau Harlech a Bro Dysynni a all siarad Cymraeg bellach yn lleiafrif amlwg yn yr ardaloedd hyn. Ymddengys, felly, mai mewnfudwyr di-Gymraeg wedi ymddeol yw'r rhan fwyaf o genhedlaeth hŷn y ddwy ardal dan sylw. Gwelir yn y man yn 3.2.1 fod y ffeithiau hyn yn bwysig wrth ystyried gwahanol ddulliau posibl o ddewis siaradwyr. Gellir barnu hefyd nad yw cyffiniau Harlech na Bro Dysynni yn ardaloedd nodweddiadol o awdurdod lleol Gwynedd o safbwynt cryfder y Gymraeg. Yn ôl canlyniadau cyfrifiad 2011, gall 65.4% o drigolion Gwynedd (3 oed a throsodd) siarad Cymraeg, a chymhara hynny â 69.0% yn 2001.⁶⁴ Gwelir, felly, fod y canrannau hyn yn sylweddol uwch na'r hyn a gafwyd

⁶⁴ Gweler, er enghraifft, 'Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg' ar y wefan

ar gyfer y ddwy ardal uchod, yn enwedig yn achos ward Tywyn. Yn wir, teg yw ystyried bod dyfodol y Gymraeg ar arfordir Sir Feirionnydd yr un mor ansicr ag ydyw yng Ngheredigion ac yn Sir Gaerfyrddin gan mai cynrychioli lleiafrif bellach y mae siaradwyr Cymraeg pob un o'r rhannau hyn o Gymru.


Yn olaf, priodol yw atgynhyrchu mapiau a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (<http://www.ons.gov.uk/ons/interactive/census-map-2-2---wlanguage-w/index.html>, 2013) sy'n amlygu'n glir fod canrannau y boblogaeth a all siarad Cymraeg yn gyffredinol is ar hyd arfordir Meirionnydd na mewn rhannau eraill o'r sir yn ôl cyfrifiad 2001 (map 3) ac un 2011 (map 4). Dengys map 4 er hynny fod cyffiniau Harlech â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn 2011 na'r hyn a geir i'r de iddi, e.e. yn wardiau Dyffryn Ardudwy a'r Bermo.

Map 3: Cyfrifiad 2001 (o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013)



<http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121211sb1182012cy.pdf>, t.7 (cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Rhagfyr 2012).

Map 4: Cyfrifiad 2011 (o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013)



Rhoddwyd cryn sylw yn yr isadran hon, felly, i'r newidiadau demograffig sylweddol a aeth rhagddynt yn ardaloedd Harlech a Bro Dysynni yn ystod yr ugeinfed ganrif. Y mae'n eglur oddi wrth y cyfweiliadau a gefais ag aelodau o genhedlaeth hŷn yr ardaloedd hyn mai mewn cymunedau naturiol Gymraeg y'u magwyd, a'u bod wedi profi newidiadau ieithyddol tra sylweddol. Diau mai cadarnhau'r arsylwadau hyn y mae'r ystadegau a'r mapiau uchod. Priodol fyddai pwysleisio yma, felly, y bydd erydiad graddol y Gymraeg yn hanfodol i'w ystyried os cyflawnir gwaith mwy sosioieithyddol ei natur yn yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.

3.2. Y siaradwyr

Y cam naturiol nesaf ar ôl penderfynu ar ardaloedd oedd dewis siaradwyr addas ar gyfer cyfweld â hwy. Ymdrinnir yn gyntaf yn 3.2.1 â'r math o siaradwyr y dewiswyd canolbwyntio arnynt ar gyfer yr astudiaeth hon. Manylir wedyn yn 3.2.2 ar y modd y cysylltwyd â'r siaradwyr, a sut y ceisiwyd rhwydweithio â hwy cyn y cyfweliadau. Yn olaf, rhoddir manylion y siaradwyr a gafwyd yn y ddwy ardal yn 3.2.3.

3.2.1. Dewis math o siaradwyr

Eglurwyd eisoes yn 3.1.1 nad oedd nemor ddim gwybodaeth yn hysbys am dafodieithoedd cyffiniau Harlech a Bro Dysynni cyn imi gychwyn ar y gwaith hwn, ac eithrio'r deunydd prin a geir yn *The Welsh Dialect Survey* (A. R. Thomas et al., 2000). Fy mwriad gwreiddiol, felly, oedd cychwyn drwy astudio patrymau ffonolegol cenedlaethau hŷn y ddwy ardal. Ar ôl disgrifio fersiynau mwyaf 'traddodiadol' o Gymraeg llafar yr ardaloedd hyn, gobeithiwn droi fy ngolygon at genedlaethau iau o siaradwyr Cymraeg, h.y. siaradwyr canol-oed ac ieuentid y dalgylchoedd hyn. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn fuan ar ôl dechrau dadansoddi'r deunydd a gasglwyd fod amrywio ffonolegol aruthrol ac annisgwyl i'w weld yn iaith siaradwyr hŷn cyffiniau Harlech a Bro Dysynni. Sylweddolwyd, felly, na ellid gwneud cyfiawnder â chymhlethdod patrymau ffonolegol y to hwn o siaradwyr yn ogystal â dadansoddi iaith cenedlaethau iau o siaradwyr o fewn y terfyn amser. Yn wir, buasai raid imi fod wedi cyfyngu'n sylweddol ar y nodweddion a'r gwahanol gyd-destunau y canolbwyntir arnynt yn y traethawd hwn er mwyn cymharu gwahanol grwpiau oedran â'i gilydd. Penderfynwyd, felly, mai canolbwyntio'n llwyr ar amrywiadau ffonolegol siaradwyr hŷn y ddwy ardal a wneid, a hynny mewn cryn fanylder. Barnwyd mai hyn a fyddai fwyaf adeiladol i'r maes, ac y byddai dadansoddiadau manwl o'r math hwn yn gosod seiliau cedyrn ar gyfer cymharu gwahanol genedlaethau o siaradwyr â'i gilydd yn y dyfodol.

Ar gyfer casglu data yn y ddwy ardal, felly, rhaid oedd pwysu a mesur y math o siaradwyr yr oeddwn am gyfweld â hwy. Yn draddodiadol, y math o siaradwyr a ystyrir yn ddelfrydol ar gyfer astudiaethau tafodieithogol oedd dynion hŷn o ardaloedd gwledig nad adawsent fro eu mebyd erioed. Yn wir, bathwyd y term Saesneg 'NORMs' (talfyriad o 'non-mobile, older,

rural males') er mwyn disgrifio'r math hwn o gyfranogwyr (gweler Chambers a Trudgill, 1998: 29-30). Gellir nodi, felly, mai'r term hwn sy'n adlewyrchu orau y math o siaradwyr sy'n sail i'r rhan fwyaf o draethodau MA a PhD a gyflwynwyd i Brifysgol Cymru rhwng y 1930au a'r 1980au (gweler, e.e., Davies, 1934; Watkins, 1951 a Griffiths, 1974), yn ogystal â'r ychydig holiaduron a gyhoeddwyd ym maes tafodieitheg y Gymraeg (gweler A. R. Thomas, 1973; G. E. Jones ac A. Jones, 1996 ac A. R. Thomas et al., 2000).⁶⁵ Fodd bynnag, beirnedir dulliau'r tafodieithegwyr 'traddodiadol' hyn gan rai sosioieithyddion am iddynt ragdybio mai iaith 'NORMs' a oedd 'buraf' (gweler, er enghraifft, Chambers a Trudgill, 1998: 33). Y mae sylw Chambers a Trudgill, er enghraifft, fod '... Standard English... just as much a dialect as any other form of English' (1998: 3) yn adlewyrchu bod ieithyddion bellach yn ystyried mai tafodiaith a siaredir gan bawb o fewn pob cymuned iaith, ac nad yw purdeb ieithyddol fel y cyfryw yn bodoli:

... linguistic studies suggest that there is probably no such thing as a 'pure' dialect, since most varieties of language appear to be variable and to show signs of influence from other varieties. (Chambers a Trudgill, 1998: 46)

Soniwyd eisoes ym mhennod 2 hefyd am y modd y beirniada Robert Owen Jones 'yr elfen o orgyffrediniad sy'n peri bod cymaint o weithiau tafodieithegol diweddar yn anghynrychioliadol' (1983: 50). Yr hyn a bwysleisir yma yw na all iaith 'NORMs' fod yn gynrychioliadol o iaith cymuned gyfan gan mai cynrychioli un garfan gymdeithasol benodol yn unig y maent mewn gwirionedd. Yn wir, gellir dadlau bod prinder 'NORMs' mewn nifer o drefi a phentrefi heddiw yn profi pa mor anghynrychioliadol ydynt o siaradwyr Cymraeg yr oes sydd ohoni.

Er nad yw dewis 'NORMs', felly, yn ddull effeithiol o gael sampl o siaradwyr sy'n gynrychioliadol o iaith cymuned yn ei chyfanrwydd, gellir dadlau er hynny fod manteision sylweddol dros astudio eu hiaith. Yn sicr, dyma'r garfan o siaradwyr y disgwyliad i'w hiaith fod fwyaf traddodiadol a cheidwadol, a diau fod eu diffyg symudoledd yn lleihau dylanwadau amrywiadau ieithyddol ardaloedd eraill ar eu Cymraeg. Nid yw hyn, er hynny, yn gyfystyr â dweud na ddisgwylid i'w defnydd o nodweddion ffonolegol amrywio o gwbl. Fodd bynnag,

⁶⁵ Noder er hynny fod siaradwyr benywaidd hyn hefyd yn sail i nifer o'r astudiaethau hyn.

gellir barnu mai un o fanteision pennaf cofnodi iaith siaradwyr hŷn sydd wedi byw ar hyd eu hoes yn yr un lle yw ei fod yn fodd effeithiol o sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer archwilio i'r hyn a geir ar waith yn iaith carfannau eraill o siaradwyr o'r un ardal. Gall astudio iaith 'NORMs', felly, fod yn gam cyntaf pwysig ar gyfer dadansoddi'r modd y mae defnydd cymunedau o nodweddion penodol yn datblygu dros sawl cenhedlaeth.

Gellir cyfeirio yn olaf yn y cyswllt hwn at astudiaeth led ddiweddar Glyn E. Jones (2000) o Gymraeg llafar Sir Frycheiniog lle y ceisir cyfiawnhau defnyddio 'NORMs', er y cydnabyddir gwendidau y dull hwnnw:

Gwelir bod y siaradwyr yn grŵp tra unffurf ei natur... Bid sicr y mae gwendidau yn y math hwn o gasglu a disgrifio a dehongli: nid yw'n samplo cynrychioliadol o ran oedran na chefnidir addysgol nac economaidd o holl siaradwyr y gymuned ac ni rydd gyfrif am wahaniaethau ieithyddol y gall y ffactorau hynny eu peri. Fodd bynnag y mae llawer yn dibynnu ar gyd-destun ieithyddol a sosio-economaidd y gymdeithas a fydd dan sylw ac i ddiben yr astudiaeth hon y mae rhinwedd i unffurfiaeth y siaradwyr gan ei bod yn rhoi corpws o ddata y gellir cyffredinoli amdano: fe'i casglwyd dan yr un amodau ac oddi wrth siaradwyr cyffelyb o ran eu nodweddion sosio-economaidd a diwylliannol. (G. E. Jones, 2000: 2-3)

Gellir dadlau, er hynny, nad yw natur ymddangosiadol unffurf grŵp o siaradwyr yn rheswm digonol i gyffredinoli ynghylch eu hiaith, a bod dirfawr angen archwilio i weld i ba raddau y mae iaith 'NORMs' yn unffurf.

Fodd bynnag, gyda thwf sosioieithyddiaeth yn y 1960au, nid yw'n syndod mai troi oddi wrth y dull traddodiadol o ddibynnu yn llwyr ar 'NORMs' a wnaeth gweithiau mwy diweddar ar amrywiadau llafar o'r Gymraeg (gweler, e.e., R. O. Jones, 1983; C. Jones, 1987; B. Thomas,⁶⁶ 1998 a M. C. Jones, 1998). Diddordeb pennaf ymchwilwyr y gweithiau hyn oedd dangos bod nodweddion ieithyddol yn amrywio o fewn cymunedau penodol, ac mai ffactorau cymdeithasol megis oedran y siaradwyr, eu rhywedd, eu haelodaeth o gapeli a'u statws a roesai gyfrif am yr amrywio hwnnw.

⁶⁶ Dylid egluro yma mai A. E. Thomas yw'r enw a ymddengys ar glawr yr astudiaeth hon, ond y penderfynwyd cyfeirio ati fel Beth Thomas er cysondeb â'r enw a ddefnyddir ganddi mewn astudiaethau eraill (e.e. B. Thomas, 1980 a 1992).

Mewn astudiaethau sosioieithyddol, ceir dwy ffordd gyffredin o ddewis siaradwyr ar gyfer astudio elfennau ieithyddol. Hapsamplu yw'r dull a ddefnyddiwyd gan sosioieithyddion megis William Labov (1963, 1966) yn yr Unol Daleithiau a Peter Trudgill (1974) yn Lloegr. Disgwylir i ymchwilydd a ddefnyddia'r dull hwn gael hyd i gyfranogwyr drwy samplu cymuned o siaradwyr ar hap. Defnyddir cofrestr etholiadol (neu ddogfen gyffelyb) ar gyfer cyflawni hyn fel rheol lle y dewisir siaradwyr yn ôl trefn a bennir gan yr ymchwilydd (e.e. rhifau 3, 103, 203 etc. ar y gofrestr). Eir ati wedyn i haenu'r hapsampl a geir yn garfannau cymdeithasol a ystyrir yn bwysig gan yr ymchwilydd, ac a fydd yn rhoi darlun cynrychioliadol o iaith cymuned benodol. Gellir rhannu siaradwyr, er enghraifft, i grwpiau o ddynion a merched, i amrediad o oedrannau, neu i wahanol grwpiau ethnig.

Fodd bynnag, y mae'n amlwg oddi wrth astudiaethau blaenorol y gall hapsamplu fod yn gymhleth ac yn broblemus yng nghyd-destun y Gymraeg. Cyfeddyf Beth Thomas, er enghraifft, iddi gael trafferthion wrth geisio llenwi haenau diffygiol drwy hapsamplu ym Mhont-rhyd-y-fen, a bod hynny, meddir, wedi 'peryglu natur 'wyddonol' a 'di-duedd' [ei sampl] (1998: 92). Ar y llaw arall, daw Mari C. Jones (1998: 49) i'r casgliad nad yw samplu oedolion trwy ddefnyddio dull y gofrestr etholiadol yn ymarferol mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn lleiafrifol iawn. Yn seiliedig ar brofiadau ymchwilydd eraill yn y maes, felly, deuthum i'r casgliad na fyddai ceisio hapsamplu siaradwyr drwy ddefnyddio dull y gofrestr yn ymarferol oherwydd bod y boblogaeth yn isel yn ardaloedd Harlech a Bro Dysynni, a chan mai lleiafrif amlwg ymhlith pobl 65 oed a throsodd yw siaradwyr Cymraeg y cymunedau hyn bellach (gweler 3.1.2 uchod).

Ceir, er hynny, ddulliau cydnabyddedig eraill o ddewis siaradwyr ar wahân i hapsamplu gyda chofrestr. Mabwysiadodd Lesley Milroy (1987), er enghraifft, dechneg a elwir yn 'friend of a friend', lle y ceir ymchwilydd yn cyflwyno ei hun fel cydnabod i un o gyfeillion y cyfweledigion. Eglurir manteision y dull hwn gan Milroy:

I introduced myself initially in each community not in my formal capacity as researcher, but as a 'friend of a friend' ... mentioning the name of a person categorized as an insider with whom I had previously made contact and who had given me the names of persons who might be initially approached. As a consequence of the reciprocal rights and obligations which members of closeknit

groups contract with each other, the mention of the insider's name had the effect of guaranteeing my good faith; moreover, members of the group appeared to feel some obligation to help me in my capacity as a friend of their friend, so that I acquired some of the rights as well as some of the obligations of an insider. (Milroy, 1987: 66)

Y mae'n briodol nodi yma, felly, mai'r dechneg 'friend of a friend' a ystyrid fwyaf addas gan Mari C. Jones (1998: 49) ar gyfer recordio siaradwyr hŷn a rhai canol-oed yng nghymunedau Cwm Rhymni a Rhosllannerchrugog. Gellir hefyd ychwanegu nad yw'r dull hwn yn annhebyg i'r hyn a wnaeth Robert Owen Jones ar gyfer cael siaradwyr addas yn y Wladfa mewn ardaloedd ar wahân i ardal y Gaiman yn Nyffryn y Camwy. Yr hyn a gafodd yn yr ardaloedd hyn, felly, yw'r hyn a elwir ganddo yn 'sampl barn (*judgement sample*) sef trawsdoriad o'r boblogaeth yn ôl cyngor cysylltwr lleol' (R. O. Jones, 1983: rhagarweiniad). Ymddengys i mi, felly, fod defnyddio cysylltiadau lleol yn fodd effeithiol o gael hyd i siaradwyr, nid yn unig am ei fod yn fwy ymarferol na dull y gofrestr, ond hefyd gan ei fod yn ffordd well o ennyn ymddiriedaeth pobl leol yn yr ymchwilydd, a'u darbwyllo i roi cymorth i un o berthnasau eu cyfeillion.

Yn olaf, fodd bynnag, rhaid cyfeirio at ddull cwbl eithriadol a gyflawnwyd gan Christine Jones (1987). Yn ei hastudiaeth o iaith lafar Y Mot yn Sir Benfro, recordiwyd ganddi bob un o siaradwyr Cymraeg y pentref (cyfanswm o 46 o drigolion). Ceir ganddi'r manylion canlynol ynghylch ei chysylltiad â'r Mot, a'r modd y llwyddodd i gwblhau gwaith maes a fyddai fel rheol yn anymarferol:

Y rheswm pennaf dros ddewis Y Mot yn hytrach na rhyw bentref bach gwledig arall yn Nyfed oedd fy mod i wedi byw yno dros ugain mlynedd ac y mae holl drigolion y plwyf yn fy adnabod yn dda. Golyga hyn na chododd unrhyw broblemau ynglŷn â'r gwaith maes. Llwyddais i sicrhau nifer o oriau o lafar naturiol, digymell gan bob un o'r Cymry Cymraeg. Teg yw galw yr astudiaeth hon yn gyfrifiad tafodieithegol, gan fod llafar pob siaradwr a fedrai Gymraeg o fewn cymuned ddaeryddol plwyf Y Mot yn sail i'r astudiaeth. (C. Jones, 1989: 66)

Anfantais y dull hwn, fodd bynnag, yw nad yw'n ymarferol recordio pob siaradwr Cymraeg mewn ardal benodol gan fod gwrthodiadau fel rheol yn anochel. Llwyddiant eithriadol na fuasid yn disgwyl iddo gael ei ailadrodd yn rhwydd yw dull Christine Jones, felly. Gellir ychwanegu hefyd y byddai'r dull hwn wedi bod yn anaddas ac yn ddianghenraid i mi gan na

ellid bod wedi dadansoddi iaith llawer iawn o siaradwyr mor fanwl ag a wneir yn yr astudiaeth hon.

Ar ôl pwysu a mesur y gwahanol bosibiliadau, felly, penderfynwyd ar ddull o ddewis siaradwyr a oedd mewn gwirionedd yn gyfuniad o'r ffordd draddodiadol o gael hyd i 'NORMs', a'r dechneg 'friend of a friend' fwy diweddar a eglurir gan Milroy (1987). Dylid pwysleisio, er hynny, nad 'NORMs' yn ystyr lawnaf y term a ddefnyddiwyd gan imi benderfynu cael niferoedd cyfartal o ddynion a merched rhag ofn y ceid gwahaniaethau ieithyddol dadlennol rhwng y rhywiau. Y bwriad ar hyd yr adeg, felly, oedd dewis pobl a oedd â gwreiddiau dyfnion yn eu hardaloedd, gan ddefnyddio cysylltiadau teuluol a oedd gennyf yn y ddwy ardal ar gyfer cael mynediad i rwydweithiau cymdeithasol. Drwy ddod i adnabod sawl siaradwr o'r un rhwydwaith, felly, gobeithiwn y deuent i ymddiried ynof, ac y teimlent hwy wedyn 'some obligation to help me', ys dywed Milroy. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, nad wyf yn ystyried bod Cymraeg yr aelodau a gafwyd o blith cenedlaethau hŷn cyffiniau Harlech a Bro Dysynni yn gynrychioliadol o'u cymunedau. I'r gwrthwyneb, disgwyliwn i batrymau llafar cenedlaethau iau fod yn dra gwahanol i eiddo siaradwyr hŷn yr ardaloedd hyn. Er hynny, gellir barnu bod y siaradwyr a gafwyd yn gwbl addas ar gyfer canfod i ba raddau y gwelir amrywio ffonolegol ar waith ymhlith grwpiau ymddangosiadol unffurf o'r ddwy ardal.

3.2.2. Cysylltu / rhwydweithio â siaradwyr cyn y cyfweiliadau

Nid oedd y modd y gofynnwyd am gyfweiliadau yn hollol debyg yn y ddwy ardal. Fel brodor o dref Harlech, adwaenai fy nheulu bob un o'r siaradwyr a holwyd yn yr ardal honno yn dda. Ni theimlwyd, felly, fod angen i neb fy nghyflwyno i'r siaradwyr gan y gwyddent yn dda amdanaf. Y cyfan a wneuthum, felly, oedd sgwrsio'n anffurfiol ar y ffôn â phob siaradwr, gan ddweud mai aelod o'r teulu a argymhellodd imi gysylltu â hwy. Ar ddiwedd y sgwrsiau, felly, trefnwyd y byddwn yn ymweld â'r siaradwyr yn eu cartrefi ar ddyddiad penodol ar gyfer eu recordio. Yn y cyfweiliadau eu hunain, daeth yn amlwg fod siaradwyr cyffiniau Harlech yn credu eu bod yn fy adnabod yn dda, a phrawf o hynny efallai oedd eu defnydd o'r ail berson unigol i'm cyfarch. Dylid hefyd nodi na wrthodwyd yr un cais am gyfweiliad yn yr ardal hon; arwydd efallai nad oeddynt am bechu aelodau o'm teulu.

Ym Mro Dysynni, ar y llaw arall, gwyddwn mai dieithryn i bob pwrpas yr oeddwn i drigolion yr ardal honno, er bod gennyf gysylltiadau teuluol yno. Amheurn yn gryf, felly, na fyddai ffonio pobl nad adwaenwn, gan egluro pwy a oedd yn perthyn imi yn eu cylch, yn llwyddo i ennyn ymddiriedaeth trigolion yr ardal ynof. Cynigiodd aelod o'm teulu, felly, gysylltu drosof â rhai siaradwyr posibl gan ei bod yn rhan o rwydweithiau cymdeithasol eang yn y cylch. O blith y rhai y cysylltwyd â hwy, un yn unig a fynegodd anfodlonrwydd i gael ei recordio, tra cytunodd pob un arall o gydnabod fy nghysylltwr i'm helpu. Er mwyn ceisio ennill ymddiriedaeth y siaradwyr, cytunodd y cysylltwr hefyd ddod gyda mi ar gyfer cyflwyno ei chyfeillion imi yn eu cartrefi. Llwyddodd hyn, felly, i sefydlu perthynas bendant rhyngof i a'r siaradwyr, ac i'm cyflwyno i mewn i rwydwaith o siaradwyr fel 'a friend of a friend'. Wrth gyfarfod â hwy am y tro cyntaf, felly, y trefnwyd y byddwn yn dychwelyd i recordio siaradwyr Bro Dysynni ar ddiwrnod arall.

Ni ddilynwyd yr un camau yn union, fodd bynnag, ar gyfer y ddau gyfweiliad olaf ym Mro Dysynni gan na ddefnyddiwyd fy nghysylltiad teuluol fel dolen gyswllt. Argymhellwyd un siaradwr imi gan ddarlithydd yn Aberystwyth a oedd yn perthyn iddo. Cysylltodd y darlithydd ag ef i ofyn a fyddai'n fodlon siarad â mi, ac wedi iddo gytuno, fe'i ffoniais i siarad yn anffurfiol ag ef, i ymhelaethu am fy nghysylltiad â'i berthynas a oedd yn ddolen gyswllt rhyngom, ac i drefnu cyfweiliad ag ef. Yr eithriad arall oedd y cyswllt teuluol ei hun.

Gan fy mod braidd yn brin o siaradwyr benywaidd addas, cytunodd yr aelod teuluol, a oedd eisoes wedi fy nghyflwyno i'w chyfeillion, hefyd i gael ei recordio. Er ei bod gryn dipyn yn iau na'r siaradwyr eraill (gweler 3.4 isod), roedd ei defnydd o nodweddion tafodieithol lleol yn dra amlwg, a theimlid na fuasai gwahaniaethau ffonolegol yn sgil y gwahaniaeth oedran hwnnw ond yn ychwanegu haen arall o bosibiliadau i'r darlun cyflawn.

Yn y diwedd, llwyddwyd i recordio tri siaradwr ar ddeg yng nghyffiniau Harlech, a chafwyd cyfweiliadau ag un ar ddeg o drigolion Bro Dysynni (er gwaethaf un gwrthodiad yn yr ardal honno). Penderfynwyd peidio â defnyddio rhai siaradwyr, fodd bynnag, am ddau reswm penodol. Yn gyntaf, sylwyd bod dylanwad tafodieithoedd Cymraeg eraill yn amlwg ar rai oherwydd iaith rhiant neu gymar iddynt, neu am iddynt dreulio cyfnodau yn byw mewn ardaloedd eraill o Gymru. Yn ail, nid ystyriwyd ambell gyfweiliad yn addas am eu bod yn rhyfyr, felly ni ellid bod wedi cael digon o ffurfiau perthnasol ynddynt. O blith y cyfweiliadau a farnwyd yn gymwys, felly, dewiswyd chwe siaradwr o ardal Harlech a chwe arall o Fro Dysynni. Gan ei bod yn fwriad gennyf ddadansoddi iaith nifer cyfartal o ddynion a merched yn y ddwy ardal rhag ofn y gellid priodoli gwahaniaethau amlwg rhwng sgorau'r siaradwyr i'w rhywedd, cafwyd tri dyn a thair benyw o bob ardal. Teimlwyd y gellid ymchwilio'n dra manwl i iaith y deuddeg siaradwr hyn, ond na fyddai canolbwyntio ar ragor o unigolion yn ymarferol ar gyfer y math hwn o astudiaeth.

3.2.3. Manylion y siaradwyr

Rhestrir isod fanylion y siaradwyr a ddefnyddiwyd yn y ddwy ardal dan sylw, gan ddechrau â'r hynaf ym mhob achos. Gwelir bod cryn ystod o oedrannau ymysg siaradwyr y ddwy ardal, yn bennaf gan nad oes modd mewn cymunedau isel eu poblogaeth ddod o hyd i siaradwyr o'r un genhedlaeth yn union. Ar gyfer pob siaradwr, nodir llythrennau cyntaf eu henwau, eu dyddiad geni, eu rhywedd, lleoliad eu cartrefi, eu galwedigaeth, ynghyd ag unrhyw fanylion eraill a ystyrir yn berthnasol (gan gadw at y drefn hon).

- *Siaradwyr Harlech*

D.O; 11/10/1918; gwryw; Harlech; peintiwr ac addurnwr, a milwr yn yr Ail Ryfel Byd; cyrhaeddodd Harlech o Elsemere Port yn saith oed i gael ei fagu gan deulu Cymraeg, ac ar wahân i'w gyfnod yn y rhyfel (yn Lloegr, yn Ffrainc ac yn India), yn Harlech y bu er ei blentynod; aelod o Gôr y Brythoniaid, Blaenau Ffestiniog.

T.R; 31/01/1929; gwryw; Harlech (Cwm Bychan cyn ei ymddeoliad); ffermwr; brawd i C.R; wedi symud yn blentyn i gyffiniau Cwm Bychan o Drawsfynydd; aelod o'r un côr â D.O.⁶⁷

E.J; 26/12/1932; benyw; Cwm Uwch Artro; gwraig fferm; wedi byw yn y cwm ar hyd ei hoes; capelwraig; ysgrifenyddes cangen leol Plaid Cymru.

G.J; 25/02/1933; benyw; Cwm Nantcol; gwraig fferm; wedi byw yn y cwm ar hyd ei hoes; yn weithgar gyda Chymdeithas Cwm Nantcol (sy'n ymwneud â'r diwylliant Cymraeg).

C.R; 20/09/1933; benyw; Llanbedr (Cwm Bychan cyn ei hymddeoliad); gwraig fferm; chwaer i T.R; wedi symud yn blentyn i gyffiniau Cwm Bychan o Drawsfynydd; yn weithgar iawn fel cadeirydd Capel Salem yn trefnu gwasanaethau a phererindodau.

⁶⁷ Gan na adawodd T.R a C.R yr ardal wedi iddynt symud o Drawsfynydd, a chan fod eu rhieni yn hanu o ardal Harlech, ystyrir eu bod yn gyfweledigion cwbl addas ar gyfer yr astudiaeth hon. Gwelir yn y man hefyd fod patrymau eu canlyniadau yn dra thebyg i eiddo'r siaradwyr eraill, ac yn awgrymu'n gryf mai iaith nodweddiadol o dafodiaith cyffiniau Harlech sydd ganddynt yn anad dim.

J.E; 25/01/1934; gwryw; Llandanwg (Cwm Nantcol a Chwm Uwch Artro cyn ei ymddeoliad); ffermwr; wedi byw yng nghyffiniau Harlech ar hyd ei oes.

- *Siaradwyr Bro Dysynni*

B.R; 14/06/1913; benyw; Abergynolwyn; gwraig tŷ; wedi byw yn yr ardal ar hyd ei hoes, ar wahân i bedair blynedd yn ei hugeiniau lle y bu gyda'i gŵr ym Mlaenau Ffestiniog.⁶⁸

M.V; 21/04/1929; gwryw; Tywyn; ffermwr a chyn-gynghorydd (Sir Gwynedd); gŵr cyhoeddus iawn ar nifer o bwyllgorau lleol, ac yn weithgar gyda chapel yn Nhywyn; wedi byw yn yr ardal ar hyd ei oes.⁶⁹

C.D; 29/09/1929; gwryw; Bryn-crug (ond Abergynolwyn cyn ei ymadawiad â'r ardal); milwr yn y llynges frenhinol, ac wedyn gyda NATO; wedi gadael yr ardal yn ei ugeiniau cynnar i fynd i Loegr, ond wedi dychwelyd i fro ei febyd i ymddeol gyda'i wraig o Saesnes.⁷⁰

G.E.T; 22/07/1931; gwryw; Bryn-crug; plymwr (gyda'r Bwrdd Dŵr); wedi byw yn yr ardal ar hyd ei oes; yn canu yn yr un côr â D.O. a T.R.

E.W; 04/12/1932; benyw; Llanfihangel-y-pennant; gwraig fferm; wedi byw yn yr ardal ar hyd ei hoes; capelwraig; yn ymddiddori yn hanes ei theulu a'i milltir sgwâr, ac yn cael ei gwahodd i siarad yn gyhoeddus am ei bywyd a'i theulu yn achlysurol.

⁶⁸ Bernir mai tafodiaith ei bro enedigol a glywir yn gryf ganddi, a'i bod yn gwbl addas ar gyfer yr astudiaeth hon.

⁶⁹ Drwy fy nghysylltiad â darlithydd yn Aberystwyth y deuthum o hyd i M.V. Cyn ei recordio, fodd bynnag, soniais am fy nheulu yng nghyffiniau Tywyn, ac fe'm hysbysodd eu bod yn eu hadnabod hwythau yn dda. Nid un rhwydwaith lac, felly, a oedd yn ein cysylltu.

⁷⁰ Er gwaethaf hir alltudiaeth C.D o Gymru, ystyrir mai tafodiaith Bro Dysynni sydd ganddo o hyd, a chadarnheir hyn gan y canlyniadau.

R.P; 28/04/1951; benyw; Abergynolwyn; gofalwraig ysgol gynradd; wedi byw yn yr ardal ar hyd ei hoes; yn weithgar gyda gweithgareddau neuadd bentref Abergynolwyn.⁷¹

Gwelir, felly, mai pobl sydd wedi byw yn eu cynefin ar hyd eu hoes, neu o leiaf am y rhan fwyaf o'u bywydau, yw'r siaradwyr a ddefnyddir ar gyfer yr astudiaeth hon, ac eithrio C.D a symudodd i Loegr, ond na chollodd ei dafodiaith Gymraeg. Dylid pwysleisio hefyd fod pob un o siaradwyr y ddwy ardal o gefndir addysgol tebyg, h.y. eu bod wedi gadael yr ysgol yn bymtheg oed neu'n gynharach na hynny.

Gellir dadlau, er hynny, mai tasg amhosibl yn yr unfed ganrif ar hugain fyddai dod o hyd i 'NORMs' llwyr, h.y. siaradwyr tafodieithol ansymudol 'pur' nad ydynt o dan ddylanwad acenion eraill o gwbl. Soniodd sawl siaradwr, er enghraifft, am eu hoffter o wyllo S4C, lle yn amlwg y clywant ystod eang o dafodieithoedd. Cyfeiriodd D.O a T.R o Harlech, yn ogystal â G.E.T o Fro Dysynni, at eu harferiad o deithio i Flaenau Ffestiniog i ganu mewn côr yno, lle yr oedd ganddynt nifer o gyfeillion. Fodd bynnag, er gwaethaf cyswllt anochel siaradwyr y ddwy ardal ag amrywiadau eraill o'r Gymraeg, bernir bod ganddynt elfennau ieithyddol nodweddiadol o'u hardaloedd, ac am y rheswm hwnnw yn bennaf y'u hystyrir yn gyfweledigion addas i'w hastudio.

⁷¹ Hi hefyd yw'r cysylltwr teuluol a'm cyflwynodd i'r siaradwyr eraill (ac eithrio M.V).

3.3. Dulliau gwaith maes

Defnyddio holiaduron a wneid yn draddodiadol ar gyfer casglu deunyddiau tafodieithol, fel yn achos yr *Atlas Linguistique de la France* gan Jules Gilliéron ac Edmond Edmont (1902-1910), y *Deutscher Sprachatlas* gan Georg Wenker a Ferdinand Wrede (1926), a chryn dipyn yn ddiweddarach, *The Linguistic Geography of Wales* gan Alan R. Thomas (1973). Un o anafanteision y dull hwn, fodd bynnag, yw na ellir bod yn sicr mai ffurfiau naturiol bob-dydd a gofnodir ynddynt. Gwelwyd yn y bennod flaenorol (yn 2.1.6), er enghraifft, fod rhai o ffurfiau *The Welsh Dialect Survey* (2000) yn awgrymu arddull ffurfiol, os nad annaturiol, gan ambell siaradwr.

Penderfynwyd, felly, ymwrthod â dull yr holiadur, gan anelu at recordio oriau o lafar naturiol digymell. Y mae i'r ffordd hon o gasglu data fanteision sylweddol gan fod modd iddi roi degau os nad cannoedd o ffurfiau perthnasol inni. Tra bo mynd drwy eiriau targed dirifedi yn arferol wrth gyflawni holiadur, nid oedd y ffurfiau a gafwyd yng nghyfweliadau'r astudiaeth hon yn gyfyngedig i unrhyw restr. Mantais arall y dull hwn, felly, yw ei fod yn fodd effeithiol o gael ffurfiau naturiol newydd na allasai'r ymchwilydd fod wedi eu rhagdybio cyn y cyfweliad. Hefyd yn wahanol i ddull yr holiadur, y mae'n dra thebygol mewn sgysgiau anffurfiol y bydd yr un geiriau neu'r un math o gystrawennau yn codi dro ar ôl tro. Y mae hyn eto'n fanteisiol ar gyfer astudio amllder gwahanol amrywiadau ffonolegol.

Penderfynwyd mai'r ffordd hawsaf o gasglu enghreifftiau o lafar naturiol oedd drwy holi'r siaradwyr fesul un yn eu cartrefi. Er y gallasai recordio siaradwyr mewn grwpiau fod wedi lleihau nifer fy ymweliadau â'r ardaloedd, fel y gwnaeth Mari C. Jones (1998) â disgyblion ysgol yng Nghwm Rhymni a Rhosllannerchrugog, rhagwelwyd anafanteision mawr â'r dechneg hon. Gallasai rhai cyfweledigion fod wedi bod yn fwy siaradus nag eraill, er enghraifft, a gallasai fod wedi bod yn anodd gwahaniaethu rhwng lleisiau'r gwahanol siaradwyr, gan ei gwneud hi'n anodd cadw data pob siaradwr ar wahân. Yn wahanol i blant ysgol hefyd, yr oedd y siaradwyr a holwyd yn wasgaredig, a gallasai fod wedi bod yn helbulus i siaradwyr oedranus ddod at ei gilydd mewn un lle penodol. Teimlwyd, felly, mai recordio'r siaradwyr ar eu haelwydydd oedd y dull mwyaf ymarferol o gyflawni'r gwaith maes, ac mai yno hefyd y byddent fwyaf naturiol yn sgwrsio â mi.

Ar ôl cyrraedd tai'r cyfweledigion er mwyn eu recordio, siaradwn yn anffurfiol â hwy am tua chwarter awr, yn aml dros banded o de, gan adael i'r peiriant recordio redeg wedi hynny. Drwy wneud hyn, yr amcan oedd cael y siaradwyr i ymlacio yn fy nghwmni cyn i'r recordio ei hun fynd rhagddo. Yr oedd mantais hefyd yn fy marn i o gael peiriant recordio bychan gan mai ychydig iawn o sylw a dynnai ar y cyfan. Derbynnir, er hynny, na ellir wrth recordio unigolion gael gwared yn llwyr ar yr hyn a elwir yn 'baradocs y sylwedydd' ('*observer's paradox*'), ni waeth pa mor naturiol fo'r sgwrs. Crynhoir y ffenomen hon yn eglur gan Lesley Milroy:

The observer's paradox, which springs from the effects of direct observation upon language, can be characterised as follows: the vernacular is the focus of the linguist's interest, and large volumes of high-quality recordings of speech are needed to describe it. However, since speakers will tend to shift away from their vernaculars in situations where they are being tape-recorded by a stranger, the very act of recording is likely to distort the object of observation. (Milroy, 1987: 57)

Oherwydd y paradocs diymwad hwn, penderfynwyd peidio ag ystyried gallu unigolion i bendilio rhwng gwahanol arddulliau yn wendid yn yr astudiaeth hon, ond yn hytrach fel ffactor a allai gyfrannu i'r amrywio ffonolegol yr ymddiddorid ynddo, ac a allai gael ei adlewyrchu yn rhai o'r canlyniadau.

Cofnodi hanes yr ardal oedd yr esgus cyfleus a ddefnyddiwyd i holi'r siaradwyr. Dywedais yn y cyfweliadau fy mod hefyd yn cymryd diddordeb mewn geiriau tafodieithol, ond ni phwysleisiais fy mod am astudio ynganiadau geiriau'r siaradwyr yn fanwl rhag i hynny beri i'w hiaith fod yn annaturiol yn y cyfweliadau eu hunain, a chynyddu 'paradocs y sylwedydd'. O ran patrwm y cyfweliadau, dechreuwyd fel rheol drwy holi'r cyfweledigion am eu plentyndod a'u profiadau yn yr ysgol, a gadawyd i'r siaradwyr reoli'r sgysiau wedi hynny. Amrywiai pynciau'r cyfweliadau, felly, o'r naill siaradwr i'r llall, ac ystyrir bod hyn o fantais i'r astudiaeth o gofio mai recordio llafar naturiol oedd yr amcan. Pan deimlwyd ar adegau fod angen imi reoli'r sgwrs er mwyn sicrhau bod y siaradwyr yn gyfforddus yn ymddiddan, tynnais ar wybodaeth gefndirol a gefais gan fy nghysylltwyr er mwyn llywio'r cyfweliad at bynciau a oedd o ddiddordeb iddynt. Ar ddiwedd y cyfweliad wedyn, penderfynwyd defnyddio holiadur geirfaol syml er mwyn cymell y siaradwyr i drafod iaith eu hardal.

Gofynnwyd, felly, i bob cyfwelai ymateb i gyfres o luniau drwy ddweud wrthyf beth fyddai eu geiriau beunyddiol am yr eitemau a welent. Yn aml, straeon yn hytrach nag atebion un gair a gafwyd yn ymatebion i'r lluniau hyn.

O ran hyd y cyfweliadau, dylid nodi yr amrywiant o un siaradwr i'r llall (rhwng 45 a 60 munud yw'r rhan fwyaf ohonynt), yn syml gan fod rhai yn fwy siaradus na'i gilydd. Ni chredir, fodd bynnag, y bydd y gwahaniaethau hyn yn effeithio'n sylweddol ar y canlyniadau gan mai canrannau y tocynnau sy'n cynnwys sylweddoliad seinegol penodol a ystyrir yn bwysig yn y gwaith hwn, nid niferoedd y tocynnau.

O safbwynt cywair fy iaith yn y cyfweliadau, ceisiwn gadw at iaith lafar naturiol a syml. Gellir cymharu hyn ag ymgais Mari C. Jones i gynnal 'a similar register throughout all the interviews' (1998: 53). Er hynny, diau fod fy iaith yn agosach ar sawl cyfrif i eiddo trigolion hŷn cyffiniau Harlech na rhai Bro Dysynni gan mai brodor o'r ardal honno wyf innau. Dylid ystyried y posibilrwydd, felly, y gallasai rhai o siaradwyr ardal Tywyn fod wedi addasu eu harferion ieithyddol i'm cyfeiriad innau, tra na chredai siaradwyr Harlech fod angen gwneud hynny i'r un graddau gan fod mwy yn gyffredin rhwng eu hiaith hwy a'm hun innau. Fodd bynnag, o wrando ar y recordiadau, amlygir imi ymaddasu fy iaith at siaradwyr Bro Dysynni ar brydiau, gan ddefnyddio elfennau nodweddiadol o'u tafodiaith na fyddai'n rhan o'm hiaith fel rheol, e.e. defnydd o'r 'æ fain'. Ymgais i beri i'm hiaith ymdebygu i'w heiddo hwy oedd hynny, yn y gobaith o'u cael i siarad yn hollol naturiol. Efallai mai yn sgil ymgais o'r math hwnnw y mynegwyd wrthyf gan wraig o Abergynolwyn fod fy iaith "yn o debyg" i dafodiaith ei chyffiniau hithau.

3.4. Dulliau dadansoddi

Disgrifir yn 3.4.1 i ddechrau y math o adysgrifiad seinegol a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon, gan egluro pam yr ymwrthodir â ffonemau. Manylir wedyn yn 3.4.2 ar y modd yr aed ati i geisio rhoi trosolwg o batrymau ffonolegol cyffredinol y ddwy dafodiaith yn adran B y traethawd hwn. Ymhelaethir wedyn yn 3.4.3 ar ddadansoddiadau manwl adran C y traethawd hwn sy'n canolbwyntio ar bedair nodwedd ffonolegol benodol. I gloi wedyn, rhoddir manylion yn 3.4.4. ynghylch y modd y cadwyd data pob siaradwr.

3.4.1. Y math o adysgrifiad

Drwy adrannau B ac C y traethawd hwn, trawsgrifir ffurfiau llafar siaradwyr y ddwy ardal yn fanwl gan ddefnyddio symbolau'r Wyddor Seinegol Gydwladol (yr IPA). Gan mai diddordeb pennaf yr astudiaeth hon yw amrywiadau ffonolegol, h.y. y modd y ceir seiniau yn ymgynffwrdd â'i gilydd, penderfynwyd glynu'n gyson wrth **adysgrifiad seinegol llydan** (*broad phonetic transcription*). Caniatâi'r adysgrifiad hwn imi gadw'n agos at y deunydd crai a gafwyd. Mewn geiriau eraill, mantais adysgrifiad seinegol llydan yw ei fod yn fodd effeithiol o beidio â rhagfarnu beth yw natur strwythurau ffonolegol gwahanol dafodieithoedd, a beth yw perthynas gwahanol seiniau â'i gilydd. Ni ragdybir, felly, mai'r un patrymau ffonolegol a welir ar waith mewn gwahanol safleoedd o fewn geiriau, neu mewn gwahanol gyd-destunau sillafog / seinegol. Y bwriad yn hytrach yw ymdrin â data gwahanol gyd-destunau yn annibynnol ar ei gilydd, gan gymharu'r rheini â'i gilydd wedyn (gweler 3.4.4 hefyd ynghylch y modd y cadwyd data pob unigolyn ar wahân i'w gilydd).

Gellir dweud, felly, fod yr astudiaeth hon yn wahanol i'r rhan fwyaf o draethodau MA a PhD blaenorol ar dafodieithoedd Cymraeg gan mai ymdrin â ffonoleg o fewn fframwaith ffonemig a wneir yn y rheini. Mewn termau ffonemig, felly, cymerir bod rhai seiniau yn allffonau sy'n perthyn i'r un ffonem. Ystyrir hefyd fod amrywio rhydd (*free variation*) yn bosibl rhwng gwahanol allffonau (neu aelodau o'r un ffonem), a bod modd hefyd i fersiynau ar yr un ffonem (h.y. allffonau gwahanol) fod mewn dosbarthiad cyfatebol (*complimentary distribution*) (am fanylion pellach ynghylch y termau hyn, gweler, e.e, Gleason, 1955; Watkins, 1961, a Lyons, 1971).

Fodd bynnag, gellir dadlau nad yw termau megis ‘amrywio rhydd’ neu ‘ddosbarthiad cyfatebol’ yn llwyddo i wneud cyfiawnder â phatrymau amrywio cymhleth. Cymerer, er enghraifft, y cymhlethdod canlynol y cyfeiria T. Arwyn Watkins ato:

Mae’r sain [kʰ] (k-dafnodol) a [k] fel rheol mewn dosbarthiad cyfatebol: [kʰ] a geir o flaen [e] ac [i] [sic]⁷² a [k] mewn cysylltiadau eraill. Felly perthynant i’r un ffonem. Ar y llaw arall, mae’r pâr [kʰan] *piser*; [kan] *gwyn* yn awgrymu fod y ddwy sain yn arwyddocaol ac felly yn ffonemau gwahanol ym Mangor. (Watkins, 1961: 20)

Yn yr un modd, ymddengys nad oedd theori ffonemig yn fuddiol i Glyn E. Jones wrth iddo ystyried beth oedd statws y llafariad [æ] yn Nefynnog, Sir Frycheiniog:

Â [a] yn unig y mae’r llafariad hon yn amrywio’n rhydd a chan nad ydyw’n cyferbynnu’n arwyddocaol â [a], ni ellir rhoddi iddi statws ffonem annibynnol. Ymhellach, gan nad yw [æ] yn dosbarthu’n gyfatebol ag allffonau /a/, sydd yn digwydd mewn ffurfiau unsill ac yn y sillaf olaf acennog, nid allffon gyd-destunol neu safleol mohoni ychwaith i’r ffonem honno. Felly, nid oes fodd rhoi cyfrif am [æ] yn nhermau y fframwaith ffonolegol... (G. E. Jones, 2000: 16)

Gellir barnu, felly, nad yw disgrifio ffonoleg gwahanol ardaloedd mewn termau ffonemig yn ffordd adeiladol o ddeall natur amrywiadau ffonolegol yn well. Ymddengys hefyd nad yw theori ffonemig yn berthnasol i waith meintiol manwl (sef yr hyn a geir yn adran C y traethawd hwn; gweler 3.4.3 isod) gan nad yw’n rhoi unrhyw bwys ar niferoedd neu ganrannau gwahanol sylweddoliadau seinegol. Oherwydd yr anfanteision hyn, felly, daethpwyd i’r casgliad na fyddai’n addas imi ddisgrifio’r deunydd a gafwyd drwy drafod ffonemau, neu drwy ymdrin â theorïau ffonolegol haniaethol eraill. Glynu’n agos wrth y deunydd crai a’r ffeithiau seinegol yw’r amcan, felly. Nid yw hynny, fodd bynnag, yn rhwystro neb rhag defnyddio’r data a gyflwynir yn yr astudiaeth hon ar gyfer creu strwythurau ffonolegol mwy haniaethol, boent mewn termau ffonemig, o fewn fframwaith ffonoleg gynhyrchiol (*generative phonology*) neu o safbwynt dadansoddiad prosodaidd (*prosodic analysis*).

⁷² Diau mai [e] ac [a] sydd ganddo dan sylw, fel y cadarnha’r enghreifftiau a roddir.

Yn olaf, o safbwynt y dull o ddadansoddi ffurfiau, dylid egluro nad adysgrifiwyd y cyfweliadau ar eu hyd. Penderfynwyd yn hytrach ganolbwyntio ar ffurfiau a oedd yn berthnasol i nodweddion ffonolegol penodol. Gwrandawyd lawer o weithiau, felly, ar bob siaradwr, gan ganolbwyntio ar nodweddion neilltuol bob tro. Mantais hyn oedd y gellid sicrhau bod cryn fanylder yn y trawsgrifiadau.

3.4.2. Dadansoddi patrymau ffonolegol cyffredinol y ddwy dafodiaith

Amlygwyd eisoes mai un o brif amcanion yr astudiaeth hon yw dadansoddi defnydd siaradwyr y ddwy ardal dan sylw o bedair nodwedd ffonolegol benodol (gweler pennod 2 am fanylion pellach). Fodd bynnag, cyn turio'n fanwl i gymhlethdodau'r nodweddion hyn, penderfynwyd bod angen llunio darlun cyffredinol o batrymau ffonolegol y ddwy dafodiaith. Gellir barnu bod hyn yn angenrheidiol gan na ddisgrifiwyd ffonoleg yr ardaloedd hyn erioed o'r blaen, a chan y bydd cymhariaeth o strwythurau elfennol y ddwy dafodiaith yn gosod sail gadarnach ar gyfer cymharu defnydd y ddwy ardal o wahanol amrywiadau ffonolegol.

Er mwyn sefydlu'r patrymau cyffredinol hyn, felly, dewiswyd dau siaradwr o bob ardal, gan wrando ddwywaith ar bob un ohonynt.⁷³ Trawsgrifiwyd pob un gair unsill y tro cyntaf, a phob un gair amlsillafog yr eildro. Aed ati wedyn i rannu'r llafariad, y deuseiniaid a'r cytseiniaid a gafwyd yn wahanol gyd-destunau. Grwpiwyd y llafariad syml a'r deuseiniaid, felly, ar sail eu cyd-destun sillafog, h.y. yn gategoriâu megis geiriau unsill, y goben acennog, y sillaf olaf ddiacen a'r sillaf olaf acennog. Yn yr un modd, rhannwyd y cytseiniaid a gafwyd yn dri grŵp yn ddibynnol ar eu safle o fewn geiriau, h.y. ai ar ddechrau, yng nghanol neu ar ddiwedd geiriau y'u ceir. Gwnaed hyn er mwyn peidio â rhagdybio mai'r un posibiladau a'r un patrymau a geir ym mhob cyd-destun. Y mae canfyddiadau'r dadansoddiad cychwynnol hwn, felly, i'w gweld yn Adran B y gwaith hwn, lle y neilltuir pennod yr un ar gyfer y llafariad syml (pennod 4), y deuseiniaid (pennod 5) a'r cytseiniaid (pennod 6).

⁷³ Y ddau o gyffiniau Harlech oedd D.O ac E.J, a'r ddau o Fro Dysynni oedd B.R ac E.W (gweler eu manylion yn llawn yn 3.2.3 uchod) .

3.4.3. Dadansoddi pedair nodwedd ffonolegol benodol

Yn dilyn Adran B yr astudiaeth hon, lle y cymherir patrymau ffonolegol cyffredinol y ddwy ardal â'i gilydd, eir ati yn Adran C (penodau 7-10) i ddadansoddi defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech a Bro Dysynni o bedair nodwedd ffonolegol benodol, sef yr 'u ogleddol' [i(:)], yr 'æ fain' [æ(:)], y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], a'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)]. Ar gyfer gwneud hynny, canolbwyntiwyd ar iaith deuddeg siaradwr (chwech o bob ardal). Dylid pwysleisio yma mai dadansoddiadau meintiol (*quantitative*) a geir ym mhenodau Adran C (yn wahanol i rai Adran B), felly rhaid oedd mesur amllder pob sain berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau. Yn achos llafariaid, er enghraifft, dadansoddiwyd eu hamlder mewn gwahanol safleoedd, e.e. mewn geiriau unsill, yn y goben acennog, ac yn y sillaf olaf ddiacen. Yn ogystal â hynny, aed ati i rannu'r ffurfiau a gafwyd ymhellach drwy ystyried ffactorau megis y cyd-destun seinogol (h.y. yr hyn a ddilynai'r sain) a'r acen bwys (h.y. y math o bwyslais a roddid ar y gair). Yr oedd yn hanfodol imi, felly, ddal **pob** ffurf berthnasol, h.y. pob tocyn a gynhwysai seiniau penodol.

Ar gyfer pob un nodwedd, felly, rhaid oedd penderfynu ar y dewisiadau. Barnwyd, er enghraifft, mai [i(:)] neu [i(:)] oedd y ddau sylweddoliad posibl ar gyfer newidyn yr 'u ogleddol'. Ar ôl adysgrifio ffurfiau perthnasol y nodweddion, lluniwyd rhestri yn nhrefn yr wyddor yn nodi pob ffurf a gafwyd, a rhoddwyd nifer y tocynnau a gafwyd ar gyfer pob ffurf neu deip (*type*) mewn cromfachau. Dangosir hyn yn eglur isod mewn rhan o dabl a wnaed ar gyfer defnydd un siaradwraig (E.W) o'r 'u ogleddol', a hynny ar gyfer un cyd-destun penodol, sef llafariaid syml hir mewn geiriau unsill (o dan yr acen).

Llafariaid syml hir mewn geiriau unsill (o dan yr acen)	
[i:]	[i:]
[bi:d] “byd” (1)	[bi:d] “byd” (10)
	[*gli:sd] “clust” (1)
[kri:g] “Crug” (1)	[kri:g] “Crug” (2)
	[*ðri:d] “drud” (2)
[di:ð] “dydd” (1)	[di:ð] “dydd” (3)
	[*ði:n] “dyn” (3)
	[*li:b] “gwlyb” (1)
[gwri:χ] “gwrych” (1)	[gwri:χ] “gwrych” (1)
	[*wi:χ] “gwyh” (3)
	[gwi:ld] “gwyllt” (1)

Drwy lunio rhestri fel hyn, gallesid cyfrifo’r sgorau perthnasol, sef canrannau y tocynnau a gynhwysai ‘u ogleddol’. Edrychwyd felly ar ddefnydd pob siaradwr o’r nodweddion dan sylw mewn amrywiaeth helaeth o gyd-destunau gwahanol, e.e. yn llafariaid syml hir geiriau unsill ac ar ddechrau deuseiniaid yn y goben acennog. Y mae’r canlyniadau a gyflwynir yn Adran C, felly, yn ein galluogi i edrych yn fanwl ar y modd y patryma’r pedair nodwedd hyn yn iaith pob un o siaradwyr y ddwy ardal. Gellir cymharu, felly, nid yn unig ganlyniadau siaradwyr unigol y ddwy ardal â’i gilydd, ond hefyd sgorau gwahanol gyd-destunau â’i gilydd.

O safbwynt y dewis o sylweddoliadau posibl, gellir nodi mai system ddeuol a ddefnyddir ar gyfer pob newidyn. Ar gyfer yr ‘æ fain’, er enghraifft, dau sylweddoliad posibl a geir: naill ai [a(:)] neu [æ(:)]. Gellir cyfeirio yn y cyswllt hwn at ymdriniaeth Beth Thomas â’r modd yr amrywaii ansawdd yr ‘æ fain’ yng nghymuned Pont-rhyd-y-fen. Nodir ganddi y ‘clywir [yno]... amrywynnau mwy agored na’r [ɛ:], ac amrywynnau mwy blaen na’r [a:] arferol’, ac iddi ystyried defnyddio graddfa driphwynt lle y ‘gellid rhoi sgôr o ddim i’r amrywyn mwyaf safonol, sgôr o 1 i’r amrywyn yn y canol, a sgôr o 2 i’r amrywyn mwyaf ansafonol’ (B. Thomas, 1998: 104). Ei phenderfyniad terfynol, fodd bynnag, oedd trin y newidyn fel un deuaidd gan nad oedd yn hyderus y gallai ‘wahaniaethu’n gyson rhwng y gwahanol ansoddau o siaradwr i siaradwr’ (1998: 104). I’r un casgliad y deuthum innau hefyd, a chadw at raddfa

ddeuol o bosibiliadau ym mhob achos. Dylid egluro nad yw ansawdd pob sain (megis yr ‘æ fain’) yn hollol debyg yn y ddwy ardal, na chwaith rhwng gwahanol siaradwyr o’r un ardal. Er hynny, ar amllder y seiniau y canolbwyntir yn bennaf yn yr astudiaeth hon. Bernir, fodd bynnag, y gallai mesur yn fanwl y gwahanol ansoddau sydd i seiniau’r canolbarth fod yn astudiaeth arall a allai fod yn ddadlennol iawn.

3.4.4. Y modd y cadwyd data pob siaradwr

Pwynt tra phwysig i’w bwysleisio yn olaf yw bod data pob un o’r deuddeg siaradwr wedi eu cadw gennyf ar wahân i’w gilydd gan nad oeddwn am gymryd yn ganiataol mai grwpiau unffurf o siaradwyr a geid yn y ddwy ardal, a bod iaith y siaradwyr yn debyg i’w gilydd. Ceir yma, felly, ystadegau sy’n sail i ganlyniadau pob un o’r siaradwyr (gweler Atodiad). Gellir, felly, gymharu’r modd y mae canlyniadau pob unigolyn yn wahanol i’w gilydd, gan beidio â rhagdybio mai gwahaniaethau daearyddol yw’r unig ffactor allweddol sy’n effeithio ar amrywiadau tafodieithol.

Y mae’r data a gyflwynir yma, felly, yn wahanol i’r hyn a welwyd mewn astudiaethau blaenorol a ganolbwyntiodd ar rannau o’r canolbarth (gweler pennod 2) gan nad yw’n cymryd yn ganiataol fod iaith siaradwyr yn gynrychioliadol o ardal, grŵp oedran neu gefndir cymdeithasol / diwylliannol. Gellir nodi yn y cyswllt hwn mai un o ddiffygion pennaf astudiaeth sosioieithyddol Mari C. Jones (1998) ar gymunedau Cwm Rhymni a Rhosllannerchrugog yw na cheir ynddi unrhyw ddata ar gyfer yr unigolion sydd o fewn ei grwpiau oedran. Nodir ganddi ei bod hyd yn oed wedi gadael ystafell ddosbarth ar ganol recordio grŵp o ddisgyblion, ffaith a fyddai wedi ei gwneud yn dra anodd iddi wahaniaethu rhwng defnydd pob unigolyn o nodweddion penodol (M. C. Jones, 1998: 52). Ymddengys, felly, na ddadansoddodd hi mo’r newidynnau y canolbwyntiodd arnynt fesul siaradwr, ond yn hytrach fesul grwpiau oedran yn unig. Amlyga hyn ragfarn amlwg gan yr ymchwilydd gan mai oed y siaradwyr yw’r unig ffactor a ystyrid yn bwysig ganddi o safbwynt y defnydd o wahanol nodweddion ffonolegol. O ganlyniad i’r rhagfarnu hwn, felly, ni ellir gwybod a geir hefyd wahaniaethau yn sgil ffactorau cymdeithasol eraill megis rhywedd y siaradwyr neu eu dosbarth cymdeithasol.

Yng ngoleuni'r diffygion hyn, felly, dadansoddir data pob unigolyn yn gyflawn, gan beidio â chyffredinoli ynghylch ffactorau megis oedran y siaradwyr, eu rhywedd, na chwaith effaith y cyd-destun ffonolegol ar eu defnydd o nodweddion. Un o amcanion yr astudiaeth hon, felly, yw archwilio i weld i ba raddau y gellir dweud bod siaradwyr sy'n ymddangosiadol debyg i'w gilydd yn gynrychioliadol o grŵp oedran, grŵp rhywedd neu gefndir cymdeithasol / diwylliannol penodol.

3.5. Crynodeb o'r fethodoleg a'r camau nesaf

Trafodwyd yn y bennod hon y rhesymau dros ddewis yr ardaloedd a'r siaradwyr sy'n ganolog i'r astudiaeth hon, ynghyd â'r modd y cyflawnwyd y cyfweiliadau. Soniwyd hefyd am y penderfyniadau a wnaed o safbwynt yr adysgrifiad seinegol y glynir wrtho, yn ogystal â'r math o ddata sy'n sail i ganlyniadau'r ddwy adran ddilynol.

Fel yr eglurwyd eisoes, amcan yr adran nesaf yw llunio darlun cyffredinol o batrymau ffonolegol y ddwy dafodiaith a fydd yn sail inni archwilio'n fanylach yn Adran C i'r defnydd a wneir o bedair nodwedd ffonolegol benodol gan siaradwyr y ddwy ardal. Ymdrinnir yn eu tro, felly, â llafariaid syml (pennod 4), deuseiniaid (pennod 5) a chytseiniaid (pennod 6) y ddwy dafodiaith. Yn ogystal â disgrifio patrymau ffonolegol ardaoedd Harlech a Bro Dysynni, rhoddir sylw hefyd i'r modd yr amrywia seiniau â'i gilydd yn y ddwy ardal.

ADRAN B:

TROSOLWG O BATRYMAU FFONOLEGOL Y DDWY ARDAL

PENNOD 4: Llafariaid syml cyffiniau Harlech a Bro Dysynni

4. Cyflwyniad

Fel yr eglurwyd yn y bennod ddiwethaf, nid ymdriniwyd erioed o'r blaen â nodweddion ffonolegol cyffiniau Harlech na rhai Bro Dysynni. Y mae'n angenrheidiol inni, felly, gael golwg ar batrymau cyffredinol y ddwy dafodiaith cyn archwilio'n fanylach i'w hamrywiadau ffonolegol. Prif amcan Adran B yr astudiaeth hon, felly, yw dangos sut y mae'r pedair nodwedd sy'n ganolog i'r astudiaeth hon yn perthyn i gyd-destun ehangach. Fel yr eglurwyd yn llawn yn 3.4.2, y mae canlyniadau'r adran hon yn bennaf seiliedig ar ddadansoddiadau manwl o iaith dau siaradwr o bob ardal.⁷⁴ Yn ogystal â disgrifio'r patrymau ffonolegol a geir, rhoddir sylw hefyd i'r modd y gwelir seiniau'n amrywio â'i gilydd yn y ddwy ardal. Bydd rhai o'r canfyddiadau hyn, felly, yn sail i ddadansoddiadau meintiol manylach ym mhennodau 7-10. I ddechrau, felly, ymdrinnir yn y bennod hon â llafariaid syml y ddwy ardal. Edrychir wedyn ym mhennod 5 ar ddeuseiniaid y ddwy ardal, cyn y bwrir golwg i gloi ym mhennod 6 ar eu cytseiniaid. Ym mhob un o'r penodau hyn, tynnir cymariaethau rhwng y patrymau ffonolegol a gyfyd yn y ddwy ardal.

O ran dadansoddi llafariaid syml y ddwy ardal, felly, pwysleisiwyd eisoes yn y bennod flaenorol (gweler 3.4.2) na fwriedir rhagdybio mai'r un patrymau a geir ym mhob cyd-destun. Edrychir yn gyntaf yn 4.1, felly, ar lafariaid syml mewn geiriau unsill, cyn yr ymdrinnir â hwy wedyn mewn gwahanol gyd-destunau amlsillafog yn 4.2, e.e. yn y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen. I gloi, tynnir cymariaethau yn 4.3 rhwng patrymau ffonolegol cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni. Er hwylustod wrth gymharu ffurfiau'r ddwy ardal, fe'u cyflwynir ochr yn ochr. Dylid nodi hefyd mai ffurfiau sydd o dan yr acen bwys (*lexical stress*⁷⁵) yn unig a gynhwysir isod oni nodir yn wahanol.⁷⁶

⁷⁴ Y ddau o gyffiniau Harlech yw D.O ac E.J, a'r ddau o Fro Dysynni yw B.R ac E.W (gweler eu manylion yn llawn ym mhennod 3: 3.2.3).

⁷⁵ Fe'i gelwir yn 'word-stress' gan Cruttenden (1986: 17-8).

⁷⁶ Am fanylion pellach ynghylch aceniad cyffredinol y Gymraeg, gweler P. W. Thomas (1996: 788).

4.1. Llafariaid syml mewn ffurfiau unsill

Ceir yn y ddwy ardal enghreifftiau o lafariaid hir, llafariaid byrion, yn ogystal ag ambell achos eithriadol o lafariad hanner hir mewn geiriau unsill. Ymdrinnir isod, felly, â'r gwahanol lafariaid hyn yn eu tro.

4.1.1. Y llafariaid hir a geir yw:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[i:]	[ti:r] “tir”	[bi:d] “byd”	llafariad gaeedig flaen
[i:]	[gri:g] “grug”	[bi:d] “byd”	llafariad gaeedig ganol
[u:]	[du:r] “dŵr”	[lu:χ] “llwch”	llafariad gaeedig ôl
[e:]	[he:n] “hen”	[ne:b] “neb”	llafariad hanner caeedig flaen
[o:]	[mo:χ] “moch”	[so:n] “sôn”	llafariad hanner caeedig ôl
[ɛ:]	[*dre:n] “trên”	[*vɛ:] “mê” ⁷⁷	llafariad hanner agored flaen
[ə:]	- - -	[ə:] “y” ⁷⁸	llafariad hanner agored ganol
[ɔ:]	[mɔ:χ] “moch”	[dɔ:] “do”	llafariad hanner agored ôl
[æ:]	[bæ:χ] “bach”	[læ:ð] “lladd”	llafariad led agored flaen
[a:]	[ba:χ] “bach”	[la:ð] “lladd”	llafariad agored led flaen

Ar wahân i'r ffurf eithriadol a gafwyd ym Mro Dysynni ar y fannod [ə:] “y”, gwelir mai'r un llafariaid hir a gafwyd yn y ddwy ardal. Cafwyd yn y ddwy dafodiaith hefyd enghreifftiau o'r ôl-lithriad (*off-glide*) [ʔ] yn dilyn rhai llafariaid hir. Gwelir, felly, barau o ffurfiau fel y canlynol yn amrywio â'i gilydd:

⁷⁷ Defnyddir “mê” fel enw ar ddafad gan E.W, ac yn y gair hwn yn unig y ceir y llafariad hon ym Mro Dysynni.

⁷⁸ Mewn ffurf eithriadol ar y fannod “y” yn unig y ceir y llafariad hon yn hir.


Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[i:]	[gi: ^ə d] ~ [gi:d] “(i) gyd”	[bi: ^ə d] ~ [bi:d] “byd”
	[hi: ^ə] ~ [hi:] “hi”	[χi: ^ə] ~ [χi:] “chi”
[i:]	[si: ^ə θ] ~ [si:θ] “syth”	[bi: ^ə d] ~ [bi:d] “byd” ⁷⁹
[o:]	[no: ^ə s] ~ [no:s] “nos”	[so: ^ə n] ~ [so:n] “sôn”
	[do: ^ə] ~ [do:] “do”	[vo: ^ə] ~ [vo:] “fo”
[ɔ:]	- - -	[dɔ: ^ə] ~ [dɔ:] “do” ⁸⁰

Ymddengys, felly, na cheir ôl-lithriad o'r math hwn yn dilyn pob un llafariad hir.⁸¹

Diagram 1: Llafariaid hir geiriau unsill



⁷⁹ Mewn sillafodd caeedig yn unig y cafwyd enghreifftiau o'r ôl-lithriad hwn yn dilyn [i:] yn y ddwy ardal.

⁸⁰ Mewn sillafodd agored yn unig y cafwyd enghreifftiau o'r ôl-lithriad hwn yn dilyn [ɔ:].

⁸¹ Y mae'n briodol nodi yn y cyswllt hwn fod Glyn E. Jones (1984) yn sylwi ar y nodwedd hon hefyd, ond yn dilyn y llafariad gaeedig ganol [i:] yn unig. Ymddengys ei fod yn cysylltu'r ôl-lithriad hwn ag ardaloedd lle y cynenir y llafariad hon, sef y gogledd yn gyffredinol. Meddir: 'The long vowel is sometimes diphthongized towards [ə] in monosyllables, particularly when heavily accented, e.g. [bi:^əs, si:^ər, ki:^əl]... Some degree of pharyngalization seems to be concomitant feature of the articulation of these vowels' (G. E. Jones, 1984: 57).

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Nodwyd sawl enghraifft debyg o amrywio ar waith yn y ddwy dafodiaith dan sylw, ac fe'u crynhoir isod.

- Sylwyd ar y llafariad hanner caeedig ôl [o:] yn ymgynffwrdd â'r llafariad hanner agored ôl [ɔ:], a hynny yn yr un geiriau weithiau, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[ko:χ] ~ [kɔ:χ] “coch”

[ko:r] ~ [kɔ:ʳ] “côr”

[mo:χ] ~ [mɔ:χ] “moch”

[do:] ~ [dɔ:] “do”

[po:sd] ~ [pɔ:sd] “post”

- O ran y llafariad blaen cyfatebol, sef [e:] hanner caeedig ac [ɛ:] hanner agored, ni chafwyd yr argraff fod amrywio rhyngddynt yn gyffredin iawn yn yr un o'r ardaloedd dan sylw. Yn wir, un enghraifft eithriadol yn unig a gofnodwyd o [ɛ:] hanner agored ym Mro Dysynni (gweler uchod). Yn ardal Harlech ar y llaw arall, cafwyd un enghraifft o [e:] ac [ɛ:] yn ymgynffwrdd o fewn gair, sef yn [tre:n] ~ [*dre:n] “trên”. Awgryma hyn, felly, nad yw ymddygiad y llafariad hanner caeedig / hanner agored blaen yn hollol debyg i eiddo'r llafariad ôl cyfatebol.
- Nodwyd ar gyfer y ddwy ardal hefyd achosion o wamalu rhwng y llafariad led agored flaen [æ:] (yr ‘æ fain’) a'r llafariad agored led flaen [a:], a chafwyd nifer o enghreifftiau o'r ddwy sain yn ymddangos yn yr un geiriau, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[næ:] ~ [na:] “na”

[hæ:] ~ [ha:] “haf”

[jæ:r] ~ [ja:r] “iâr”

[læ:ð] ~ [la:ð] “lladd”

[bræ:v] ~ [bra:v] “braf”

[gwæ:s] ~ [gwa:s] “gwas”

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

Daeth un gwahaniaeth pwysig i'r amlwg rhwng patrymau llafariad hir y ddwy dafodiaith. Ym Mro Dysynni, nodwyd enghreifftiau o'r llafariad gaeedig flaen [i:] yn amrywio â'r llafariad gaeedig ganol [i:], a hynny'n aml yn yr un geiriau gan yr un unigolion, e.e.

Bro Dysynni

[bi:d] ~ [bɪ:d] “byd”

[hi:n] ~ [hɪ:n] “llun”

[ti:] ~ [tɪ:] “tŷ”


Diau mai lleoliad Bro Dysynni ar gyrion tiriogaeth yr ‘u ogleddol’ sy'n rhoi cyfrif am hyn (gweler map 3, pennod 2). Yng nghyffiniau Harlech, ar y llaw arall, ni sylwyd ar amrywio o'r math hwn, er bod [i:] flaen ac [ɪ:] ganol yn gyffredin yn y dafodiaith (gweler enghreifftiau uchod). Awgryma hyn yn glir, felly, fod sain yr ‘u ogleddol’ yn sefydlog yn llafariad hir ardal Harlech, yn wahanol i'r sefyllfa ym Mro Dysynni.

4.1.2. Y llafariaid byrion a geir yw:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[i]	[dim] “dim”	[dim] “dim”	llafariad gaeedig flaen
[u]	[*grun] “crwn”	[fur] “ffwrdd”	llafariad gaeedig ôl
[ɪ]	[dim] “dim”	[dɪm] “dim”	llafariad led gaeedig flaen
[ɨ]	[gwɨn] “gwyn”	[pɨmp] “pump”	llafariad led gaeedig ganol
[ɔ]	[kron] “crwn”	[for] “ffwrdd”	llafariad led gaeedig ôl
[e]	[*verɣ] “merch”	[vel] “fel”	llafariad hanner caeedig flaen
[o]	[mor] “mor”	[mor] “mor”	llafariad hanner caeedig ôl
[ɛ]	[gwɛld] “gweld”	[gwɛɫ] “gwell”	llafariad hanner agored flaen
[ə]	[ən] “yn”	[ən] “yn”	llafariad hanner agored ganol
[ɔ]	[mɔr] “mor”	[ɔvn] “ofn”	llafariad hanner agored ôl
[æ]	[gævr] “gafr”	[plænt] “plant”	llafariad led agored flaen
[a]	[gavr] “gafr”	[plant] “plant”	llafariad agored led flaen

Yr un llafariaid byrion, felly, a gafwyd yn y ddwy ardal. Noder, fodd bynnag, nad yw'r setiau uchod yn hollol gymesurol gan fod [ɨ] fer (y llafariad gaeedig ganol) yn fwllch amlwg yn systemau'r ddwy ardal.

Diagram 2: Llafariaid byrion geiriau unsill



Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Fel yn achos y llafariaid hir, cafwyd nifer o enghreifftiau o lafariaid byrion yn amrywio â'i gilydd yn y ddwy ardal. Crynhoir yn gyntaf y mathau sy'n gyffredin yn y ddwy ardal.

- O safbwynt y llafariaid caeedig i ddechrau, cafwyd achosion o'r llafariad gaeedig flaen [i] yn ymgyfnewid â'r llafariad led gaeedig flaen [ɪ], yn ogystal â rhai enghreifftiau o'r llafariad gaeedig ôl [u] yn amrywio â'r llafariad led gaeedig ôl [ʊ], e.e.

Cyffiniau Harlech

[dim] ~ [dɪm] “dim”

[prin] ~ [*brɪn] “prin”

[fur] ~ [fʊr] “ffwrdd”

[*grun] ~ [kron] “crwn”

Bro Dysynni

[dim] ~ [dɪm] “dim”

[sdrikd] ~ [sdɪkd] *strict*

[fur] ~ [fʊr] “ffwrdd”

Noder, fodd bynnag, na chafwyd yr un enghraifft o'r llafariaid caeedig canol [ɪ] ac [ɪ] yn ymgyfnewid, ac mai [ɪ] yn unig a nodwyd yn y cyd-destun hwn. Gwelir, felly, fod y llafariaid caeedig blaen ac ôl i'w gweld yn ymddwyn yn wahanol i'r rhai canol yn y ddwy ardal.

- Cafwyd enghreifftiau prin yn y ddwy ardal o'r llafariaid hanner caeedig (blaen ac ôl) yn gwamalu â'r rhai hanner agored cyfatebol, e.e.

Cyffiniau Harlech

[wel] ~ [wɛl] “wel”

[mor] ~ [mɔr] “mor”

Bro Dysynni

[er] ~ [ɛr] “er”

[mor] ~ [mɔr] “mor”

Dylid pwysleisio yma, fodd bynnag, fod y llafariad byrion hanner caeedig [e] ac [o] yn dra phrin, ac mai [ɛ] ac [ɔ] hanner agored sy'n ymddangos yn arferol yn y ddwy ardal.

- Sylwyd hefyd fod ymgyfnewid rhwng y llafariad led agored flaen [æ] a'r llafariad agored led flaen [a] yn gyffredin yn y ddwy ardal fel ei gilydd. Cafwyd, er enghraifft, y parau canlynol o ffurfiau:

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[mæm] ~ [mam] “mam”

[kænt] ~ [kant] “cant”

[plænt] ~ [plant] “plant”

[plænt] ~ [plant] “plant”

[gævr] ~ [gavr] “gafr”

[læn] ~ [lan] “Llan”

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

Cofnodwyd hefyd enghreifftiau o wamalu rhwng dwy lafariad a oedd yn gyfyngedig i un o'r ardaloedd yn unig. Yn yr un modd ag y gwelwyd y llafariad gaeedig flaen hir [i:] yn ymgyfnewid â'r llafariad gaeedig ganol hir [i:] yn yr un geiriau ym Mro Dysynni, ceir enghreifftiau cyfatebol o'r llafariad fer led gaeedig flaen [ɪ] yn amrywio â'r llafariad fer led gaeedig ganol [ɪ], e.e.

Bro Dysynni

[bɪθ] ~ [bɪθ] “byth”

[kɪn] ~ [kɪn] “cyn”

[pɪmp] ~ [pɪmp] “pump”

Ni chafwyd enghreifftiau cyffelyb o ymgyfnewid yn nghyffiniau Harlech.

4.1.3. Y llafariaid hanner hir a geir yw:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[æ·]	[mæ·m] “mam”	[kæ·mp] “camp”	llafariad led agored flaen
[a·]	[*bla·nt] “plant”	[l̥a·n] “llan”	llafariad agored led flaen

Y ddwy lafariad uchod, felly, yw’r unig rai yr oedd hyd hanner hir iddynt yn y ddwy dafodiaith.⁸² Dylid pwysleisio yma, fodd bynnag, fod yr holl lafariaid hanner hir a gafwyd yn ymgynwrid â llafariaid byrion yn yr un geiriau, fel y dengys y parau canlynol yn glir:

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[mæ·m] ~ [mæm] “mam”	[mæ·m] ~ [mæm] “mam”
	[*blæ·nt] ~ [plænt] “plant”
	[kæ·mp] ~ [kæmp] “camp”
[*bla·nt] ~ [plant] “plant”	[*bla·nt] ~ [plant] “plant”
	[l̥a·n] ~ [lan] “Llan”
	[ka·mp] ~ [kamp] “camp”

Y mae’n amlwg, felly, fod cysylltiad agos rhwng y llafariaid hanner hir hyn a’r rhai byrion.

⁸² Trafodir arwyddocâd posibl hyn yn 8.4.4.

4.1.4. Lle y mae'r llafariaid hyn yn ymddangos?

O safbwynt strwythurau ffonolegol y ddwy dafodiaith dan sylw, y mae'n briodol archwilio i weld a yw'r llafariaid hir a'r rhai byrion bob amser yn ymddangos yn yr un safleoedd o fewn geiriau unsill, ynteu a yw'r defnydd a wneir ohonynt wedi ei gyflyru gan y cyd-destun seinegol. Amcan yr isadran hon, felly, yw dangos pa mor debyg neu wahanol yw patrymau ffonolegol cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni. Ymdrinnir yma, felly, â chyd-destunau sy'n caniatáu llafariaid hir a byr fel ei gilydd, yna'r rhai sy'n rhoi inni llafariaid hir yn unig, ac yna i gloi, y cyd-destunau y ceir ynddynt llafariaid byrion yn unig. Eir ati wedyn i drafod dylanwad benthyciadau Saesneg ar y patrymau hyn.

- Gwelir bod hyd llafariaid yn gyferbyniadol (*contrastive*) yn y cyd-destunau canlynol, h.y. yn caniatáu llafariaid hir a rhai byrion fel ei gilydd:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion di-lais	[kja:t] “gât” a [kɪt] “cyt”	[ʃæ:p] “siâp” a [*dɒp] “twp”
Cyn ffrithiolion di-lais	[no:s] “nos” a [bθ] “byth”	[mi:s] “mis” a [bθ] “byth” ⁸³
Cyn trwynolion	[he:n] “hen” a [pɛn] “pen”	[hi:n] “llun” a [kron] “crwn”
Cyn y sain drawol leisiol	[mo:r] “môr” a [mɔr] “mor”	[ti:r] “tir” a [tɔr] “twr”
Cyn y sain ochrol leisiol	[sa:l] “sâl” a [hɛl] “hel”	[sæ:l] “sâl” a [dal] “dal”
Cyn clystyrau cytseiniol sy'n cynnwys sain ffrwydrol + sain ffrithiol	[swe:ds] <i>swedes</i> a [bɔks] “bocs”	- - -

- Ar y llaw arall, y mae hyd llafariaid yn rhagweladwy, ac wastad yn hir yn y cyd-destunau seinegol a ganlyn:

⁸³ O safbwynt y ffrithiolyn ochrol di-lais [h], llafariaid byrion yn unig a gafwyd yn rhagflaenu'r gytsain honno yn y ddwy ardal, e.e. yn [*bɛl] “pell” a [hɪl] “hyll”. Eithriadau (nas cafwyd), fodd bynnag, fyddai [ho:l] “holl” ac [o:l] “oll”, ac efallai mai natur bwysleisiol y geiriau hynny a eglurai'r hyd a geid yn y ffurfiau hynny.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	[ki:g] “cig”	[bi:d] “byd” ⁸⁴
Cyn ffrithiolion lleisiol	[bra:v] “braf”	[læ:ð] “lladd”
Heb gytsain yn dilyn	[tri:] “tri”	[ki:] “ci”
Cyn clystyrau cytseiniol sy’n cynnwys sain ffrithiol + sain ffrwydrol	[me:lð] “mellt”	[gwi:lð] “gwyllt” ⁸⁵

- Yn yr un modd, y mae hyd llafariaid yn rhagweladwy, ac wastad yn fyr yn y cyd-destunau seinegol canlynol:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn clystyrau cytseiniol sy’n cynnwys sonant + sain ffrwydrol	[plant] “plant”, [ɔnd] “ond”, [gweld] “gweld”	[mænd] “mynd”, [pɪmp] “pump”, [hɛlp] “help”
Cyn clystyrau cytseiniol sy’n cynnwys sain ffrithiol + sonant	[ɔvn] “ofn”, [gavr] “gafi”	[ɔvn] “ofn” [lɪvr] “llyfr”
Cyn clystyrau cytseiniol sy’n cynnwys sonant + sonant arall	[farm] “fferm”, [darn] “darn”	[færm] “fferm” [forn] “ffwrn”
Cyn clystyrau cytseiniol sy’n cynnwys sonant + sain ffrithiol	[sɛrθ] “serth”, [harð] “hardd” ⁸⁶	[mɛrɕ] “merch”, [hɔrð] “hwrdd”, [*vælɕ] “balch” ⁸⁷

⁸⁴ Un eithriad a gafwyd i’r patrwm hwn yn y ddwy ardal yw’r ffurf [hɛb] “heb”, lle y ceir llafariad fer yn rhagflaenu ffrwydrolion lleisiol. Yn ddiddorol, cyfeiria Sweet (1913: 503) at y ffurf eithriadol hon wrth ymdrin â thafodiaith Nant Gwynant ger Beddgelert. Gan mai yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg y cyflawnodd Sweet ei waith maes, y mae’n amlwg fod y ffurf [hɛb] yn gyffredin yn y gogledd ers dros ganrif o leiaf. Fodd bynnag, o gofio mai [he:b] gyda llafariad hir sy’n nodweddiadol o dafodieithoedd y de, tybed a fu’r ffurf honno’n gyffredin ar lafar drwy Gymru ar un adeg?

⁸⁵ Eithriad i’r patrwm hwn yn y ddwy dafodiaith yw [lɔfd] “llofft”, ffurf sy’n deillio o’r Saes. *loft*. Cafwyd hefyd yn ardal Harlech y ffurf [drɔsd], adffurfiad cyffredin o’r arddodiad ‘dros’.

⁸⁶ Yn wahanol i’r ffurfiau [harð] “hardd” a [sɛrθ] “serth”, nodais y ffurfiau eithriadol [*a:rð] “gardd” a [ra:r] “gardd” yn ardal Harlech (er nas recordiwyd), lle y ceir iddynt lafariaid hir. Yn groes i’r canfyddiad hwn, fodd bynnag, cafwyd [*arð] gan C.D ym Mro Dysynni, lle y gwelir llafariad fer yn yr un cyd-destun.

Dengys y patrymau uchod, felly, mai'r un patrymau cyffredinol a welir ar waith yn y ddwy ardal o safbwynt hyd llafariaid mewn gwahanol gyd-destunau seinegol, ac na cheir dim gwahaniaeth rhyngddynt i bob pwrpas. Er hynny, gwelir arwyddion fod modd i fenthyciadau Saesneg ddylanwadu ar batrymau ffonolegol y ddwy dafodiaith, gan roi inni ffurfiau afreolaidd. Er eglurder, dyma rai enghreifftiau i gefnogi'r ddadl honno.

- Yn gyntaf, gwelir bod llafariaid hir yn gyffredin o flaen ffrwydrolion di-lais mewn geiriau sy'n tarddu o'r Saesneg, e.e. yn [kja:t] “gât”, [gre:t] “grêt” a [jæ:p] “siâp”.⁸⁸
- Er mai llafariaid hir sy'n arferol yn y dafodiaith o flaen clystyrau sy'n cynnwys sain ffrithiol + sain ffrwydrol, e.e. [me:lð] “mellt” a [po:sd] “post”, ymddengys fod [lɔfd] “llofft” yn eithriad amlwg sydd wedi ymsefydlu yn y dafodiaith drwy ddylanwad y ffurf Saesneg *loft*.
- Yn yr un modd, gwelir llafariaid hir a byr yn ymddangos cyn clymau cytseiniol sy'n cynnwys sain ffrwydrol + sain ffrithiol, e.e. [swe:ds] *swedes* a [bɔks] “bocs”, a diau mai dylanwad hyd llafariaid y ffurfiau Saesneg cyfatebol sydd wrth wraidd yr amrywio hwn.
- Yn y benthyciad tra chyffredin [dʒo:ns] *Jones* wedyn, ceir llafariad hir o flaen clwstwr o sonant + sain ffrithiol, er mai llafariad fer a fyddai'n arferfol yn y cyd-destun hwn mewn ffurfiau brodorol Gymraeg fel [mɛrɣ] “merch” a [horð] “hwrdd”.

⁸⁷ Ffurf sy'n torri ar draws y patrwm hwn yw'r cyfenw [dʒo:ns] *Jones*, sy'n deillio'n wreiddiol o 'ap Siôn', cf. *Jenkins* < 'ap Siencyn'. Ffurf eithriadol arall sy'n gyffredin yn y gogledd yw [tro:ns] “trôn”, lle y ceir llafariad hir eto o flaen y cwlwm cytseiniol [ns].

⁸⁸ Er mai prin iawn yw geiriau brodorol Gymraeg sy'n diweddu â ffrwydrolion di-lais, awgryma'r arddodiad [at] “at” a'r enw [ap] “ap” (< 'map') mai llafariad fer sydd fwyaf disgwylidig yn y cyd-destun hwn. Gellir dadlau er hynny nad yw ffurfiau fel [kɛ] “cyt” a [*dɔp] “twp” yn hollol frodorol gan mai deillio o'r Saesneg y maent hwy hefyd; y naill o *cot* a'r llall o *tup*.

4.1.5. Dylanwad yr acen ar system y llafariaid

Oherwydd llif y llafar, sylwyd bod yr acen bwys yn ffactor pwysig i'w ystyried wrth ddadansoddi hyd ac ansawdd llafariaid yn y ddwy dafodiaith.⁸⁹ Cymerer y ffurfiau canlynol, er enghraifft, lle y gwelir bod hyd yn newid yn ôl yr acen, a bod hyn hefyd yn effeithio ar ansawdd y llafariaid.

Cyffiniau Harlech

[l̥e:] (+ acen) ~ [l̥ɛ] (- acen) “lle”
[he:n] (+ acen) ~ [hɛn] (- acen) “hen”
[bo:d] (+ acen) ~ [bɔd] (- acen) “bod”
[do:d] (+ acen) ~ [dɔd] (- acen) “dod”

Bro Dysynni

[be:] (+ acen) ~ [bɛ] (- acen) “beth”
[pe:θ] (+ acen) ~ [*bɛθ] (- acen) “peth”
[*bo:b] (+ acen) ~ [*bɔb] (- acen) “pob”
[no:s] (+ acen) ~ [nɔs] (- acen) “nos”

Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nodwyd mai hyd llafariaid yn unig a newidiai mewn ffurfiau diacen, tra bo ansawdd y llafariaid hynny yn aros yn ddigymffwrdd, e.e.

Cyffiniau Harlech

[he:n] (+ acen) ~ [hen] (- acen) “hen”
[po:b] (+ acen) ~ [*bob] (- acen) “pob”

Bro Dysynni

[ki:g] (+ acen) ~ [kig] (- acen) “cig”
[di:ð] (+ acen) ~ [dið] (- acen) “dydd”

O ran llafariaid sy'n fyr oherwydd nad ydynt o dan yr acen bwys, felly, gwelir nad yw newid mewn hyd o angenrheidrwydd yn cyd-ddigymffwrdd â newid mewn ansawdd. Ni fwriedir cymryd yn ganiataol, felly, fod llafariaid byrion o'r math hwn (h.y. llafariaid a fyddai'n hir pe byddent o dan yr acen) yn ymddwyn yn debyg i'r rhai sy'n hir o dan yr acen, neu i'r rhai sy'n fyr o dan yr acen.⁹⁰

⁸⁹ Noder mai ffurfiau o dan yr acen yn unig a ystyriwyd hyd yma.

⁹⁰ Bydd y berthynas gymhleth hon rhwng yr acen bwys a hyd / ansawdd llafariaid yn berthnasol i'w hystyried wrth ddadansoddi rhai nodweddion ffonolegol yn fanylach ym mhenodau 7-10 (Adran C) y traethawd hwn.

4.2. Llafariaid syml mewn ffurfiau amlsillafog

Ymdrinnir yn awr â defnydd siaradwyr y ddwy ardal o lafariaid syml yn y goben acennog ac yn y sillaf olaf ddiacen, yn ogystal â mewn cyd-destunau amlsillafog y mae ffurfiau yn brinnach ynddynt.

4.2.1. Y goben acennog

Yn yr isadran hon, ymdrinnir â gwahanol lafariaid gan gadw at drefn debyg i'r hyn a ddilynwyd yn achos y geiriau unsill, sef llafariaid hir, llafariaid byrion, ac yna lafariaid hanner hir i gloi.


4.2.1.1. Y llafariaid hir a geir yw:⁹¹

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[i:]	[i:an] “lliain”	[bi:an] “buan”	llafariad gaeedig flaen
[i:]	[gi:a] “gaeaf”	[bi:an] “buan”	llafariad gaeedig ganol
[u:]	[klu:ad] “clywed”	[klu:ad] “clywed”	llafariad gaeedig ôl
[e:]	[əmðe:ɔl] “ymddeol”	[te:ɔl] “lleol”	llafariad hanner caeedig flaen
[o:]	[so:ar] “Soar”	- - -	llafariad hanner caeedig ôl
[a:]	- - -	[ɔidva:ɔn] “oedfaon”	llafariad agored led flaen

- Sylwer na chafwyd set gyflawn o lafariaid hir yn y goben acennog yn yr un o'r ardaloedd, ac nad yw'n eglur ai o achos patrymau systematig y ceir y bylchau hyn, ynteu ai drwy hap a damwain.

⁹¹ Ni chynhwysir ffurfiau fel [o:ma] “o(ddi y)ma”, [na:gɔs] “nac oes” a [næ:ðɔ] “naddo” gan yr ystyrir mai cyfuniad o ddau air sydd ynddynt.

Diagram 3: Llafariaid hir y goben acennog



Amrywiadau


O safbwynt llafariaid hir yn amrywio â'i gilydd yn y goben acennog, ym Mro Dysynni yn unig y nodwyd bod y llafariad gaeedig flaen [i:] a'r llafariad gaeedig ganol [ɨ:] yn ymglyfnewid, yr hyn a welwyd eisoes mewn ffurfiau unsill. Gwelir uchod, er enghraifft, y pâr [bi:an] ~ [bɨ:an] “buan” ar gyfer Bro Dysynni. Ni sylwyd ar amrywio o'r math hwn yn ardal Harlech.

4.2.1.2. Y llafariaid byrion a geir yw:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[i]	[diɫad] “dillad”	[digɔn] “digon”	llafariad gaeedig flaen
[i̥]	[ɪnwaiθ] “unwaith”	[ɪnwæiθ] “unwaith”	llafariad gaeedig ganol
[u]	[gubɔd] “gwybod”	[*gubɔl] “cwbl”	llafariad gaeedig ôl
[ɪ]	[diɫad] “dillad”	[diɔn] “digon”	llafariad led gaeedig flaen
[ɪ̥]	[ɪnwaθ] “unwaith”	[sɪsnag] “Saesneg”	llafariad led gaeedig ganol
[ʊ]	[gubɔd] “gwybod”	[kubɔl] “cwbl”	llafariad led gaeedig ôl
[e]	[menɪn] “menyn”	[wedi] “wedi”	llafariad hanner caeedig flaen
[o]	[bora] “bore”	[bora] “bore”	llafariad hanner caeedig ôl
[ɛ]	[mɛnɪn] “menyn”	[wɛdi] “wedi”	llafariad hanner agored flaen
[ə]	[əma] “yma”	[əma] “yma”	llafariad hanner agored ganol
[ɔ]	[bɔra] “bore”	[bɔra] “bore”	llafariad hanner agored ôl
[æ]	[kærjɔ] “cario”	[kæpal] “capel”	llafariad led agored flaen
[a]	[karjɔ] “cario”	[kapal] “capel”	llafariad agored led flaen

Gwelir, felly, mai'r un llafariaid byrion yn union a gafwyd yn y goben acennog yn y ddwy ardal.

Diagram 4: Llafariaid byrion y goben acennog



Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Cafwyd nifer o achosion tebyg o amrywio ar waith yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd, ac fe'u crynhoir isod.

- O ran y llafariaid caeedig, cafwyd enghreifftiau o'r llafariad flaen [i], y llafariad ganol [i̇], yn ogystal â'r llafariad ôl [u] yn amrywio â'r llafariaid lled gaeedig cyfatebol [ɪ], [ɨ], ac [ʊ]. Dangosir hyn ar waith yn eglur yn yr enghreifftiau canlynol.

Cyffiniau Harlech

[dɪlɑd] ~ [dɪlɑd] “dillad”

[ɪnwaiθ] ~ [ɪnwæθ] “unwaith”

[gubɔd] ~ [gubɔd] “gwybod”

Bro Dysynni

[*dɪpɪn] ~ [*dɪpɪn] “tipyn”

[ɪnwæiθ] ~ [ɪnwæθ] “unwaith”

[*gubɔl] ~ [kubɔl] “cwb”

Nid yw'r sefyllfa hon, felly, yn union debyg i'r hyn a gofnodwyd ar gyfer geiriau unsill gan mai amrywio yn ansawdd y llafariaid blaen a'r rhai ôl yn unig a welwyd yn y cyd-destun hwnnw. Yn y goben acennog, fodd bynnag, sylwyd ar ymglyfnawid rhwng y seiniau caeedig canol [i̇] ac [ɨ] yn y ddwy ardal.

- Sylwyd bod cryn amrywio ar waith yn y ddwy ardal rhwng y llafariaid hanner caeedig [e] / [o] a'r llafariaid hanner agored cyfatebol [ɛ] / [ɔ], e.e.

Cyffiniau Harlech

[meðul] ~ [mɛðul] “meddwl”

[devad] ~ [dɛvad] “defaid”

[lɛvriθ] ~ [lɛvriθ] “llefrith”

[bora] ~ [bɔra] “bore”

[kovjɔ] ~ [kɔvjɔ] “cofio”

[gorfan] ~ [gɔrfan] “gorffen”

Bro Dysynni

[evɔ] ~ [ɛvɔ] “efo”

[pɛθa] ~ [pɛθa] “pethau”

[wedi] ~ [wɛdi] “wedi”

[oχɔr] ~ [ɔχɔr] “ochr”

[nosɔn] ~ [nɔsɔn] “noson”

[*bobɔl] ~ [*bɔbɔl] “pobl”

Ymddengys, felly, fod rhyw berthynas rhwng y llafariad blaen a'r rhai ôl hyn.

- Yn ogystal, nodwyd enghreifftiau o wamalu rhwng y llafariad led agored flaen [æ] a'r llafariad agored led flaen [a] yn y ddwy ardal, yn debyg i'r hyn a welwyd yn achos llafariad byrion geiriau unsill, e.e.

Cyffiniau Harlech

[kjænɔl] ~ [kanɔl] “canol”

[kærjɔ] ~ [karjɔ] “cario”

[plæni] ~ [plani] “plannu”

Bro Dysynni

[æmsar] ~ [amsar] “amser”

[*gælad] ~ [kalad] “caled”

[færad] ~ [farad] “siarad”

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

Yr hyn sy'n wahanol rhwng patrymau y ddwy ardal yw'r defnydd a wneir o'r 'u ogleddol' eto yn y cyd-destun hwn. Ym Mro Dysynni, felly, gwelwyd y llafariad gaeedig / led gaeedig [i] / [ɪ] yn ymgynffwrdd â'r llafariad canol cyfatebol, e.e.

[*wilɔd] ~ [gwɪlɔd] “gwaelod”

[*wɪðɔχ] ~ [*wɪðɔχ] “gwyddoch”

[sɪsnag] ~ [sɪsnag] “Saesneg”

Ni chafwyd enghreifftiau cyffelyb ar gyfer ardal Harlech.

4.2.1.3. Y llafariaid hanner hir a geir yw:

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[i·] - - -	[bri·vɔ] “brifo” llafariad gaeedig flaen
[e·] [be·kən] <i>bacon</i>	[gwe·nær] “Gwener” llafariad hanner caeedig flaen
[o·] [sdro·bri] <i>strawberry</i>	[ko·di] “codi” llafariad hanner caeedig ôl
[a·] - - -	[ka·ni] “canu” llafariad agored led flaen

O safbwynt y defnydd o llafariaid hanner hir, ymddengys fod gwahaniaethau pwysig yn eu hamlygu eu hunain rhwng y ddwy dafodiaith. Yng nghyffiniau Harlech yn gyntaf, mewn geiriau Saesneg yn unig y gwelwyd llafariaid hanner hir yn ymddangos (gweler enghreifftiau uchod). Cafwyd ym Mro Dysynni, fodd bynnag, enghreifftiau o llafariaid hanner hir yn codi mewn geiriau brodorol Gymraeg megis [bri·vɔ] “brifo” a [ko·di] “codi”. Er hynny, gwelir uchod na nodwyd hyd hanner hir i bob un llafariad. Dylid pwysleisio hefyd fod pob un o’r llafariaid hanner hir a gafwyd ym Mro Dysynni yn amrywio â llafariaid byrion.⁹² Cafwyd, er enghraifft, y parau canlynol o ffurfiau:

Bro Dysynni

[ka·ni] ~ [kani] “canu”

[gwe·nær] ~ [gwenar] “Gwener”

[ko·di] ~ [kodi] “codi”

⁹² Trafodir arwyddocâd posibl yr amrywio hwn rhwng llafariaid byrion a rhai hanner hir yng nghyd-destun y llafariaid hanner caeedig [e(·)] ac [o(·)] mewn mwy o fanylder yn 10.4.3.

4.2.1.4. Lle y mae'r llafariaid hyn yn ymddangos?

Y mae'r defnydd a wneir o lafariaid hir a byr yn y goben acennog yn y ddwy ardal wedi ei gyflyru gan y cyd-destun seinegol, a dangosir hynny isod. Yn wahanol i'r sefyllfa mewn geiriau unsill, gellir dehongli bod hyd llafariaid yn rhagweladwy yn y goben acennog yn y ddwy ardal.

- Ceir llafariaid hir yn ymddangos mewn un cyd-destun seinegol penodol:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Heb gytsain yn dilyn	[gi:a] "gaeaf"	[bi:an] "buan"

- Digwydd llafariaid byrion wedyn yn y cyd-destunau seinegol canlynol:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	[gubɔd] "gwybod"	[digɔn] "digon"
Cyn ffrwydrolion di-lais	[*dɪpɪn] "tipyn"	[bita] "bwyta"
Cyn ffrithiolion lleisiol	[ivæŋk] "ifanc"	[ivæŋk] "ifanc"
Cyn ffrithiolion di-lais	[dɪlɔd] "dillad"	[dɪlɔd] "dillad"
Cyn trwynolion	[səmɪd] "symud"	[dinas] "dinas"
Cyn y sain drawol leisiol	[mɪldirɔð] "milltiroedd"	[morɔn] "moron"
Cyn y sain ochrol leisiol	[gɪlɪð] "gilydd"	[gola] "golau"
Cyn clystyrau cytseiniol	[dɔrnɔd] "diwrnod"	[mɛrɣad] "merched"

Hyd yma, felly, yr un patrymau a welwyd yn y ddwy ardal. O ystyried llafariaid hanner hir, fodd bynnag, gwelir gwahaniaethau rhwng systemau'r ddwy dafodiaith yn dod i'r wyneb.

- Ceir llafariaid hanner hir yn y cyd-destunau seinegol canlynol:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	- - -	[ma·gi] “magu”
Cyn ffrwydrolion di-lais	[be·kən] <i>bacon</i>	[be·kən] <i>bacon</i>
Cyn ffrithiolion lleisiol	- - -	[bri·vɔ] “brifo”
Cyn trwynolion	- - -	[gwe·nær] “Gwener”
Cyn y sain drawol leisiol	- - -	[a·rɔs] “aros”
Cyn clystyrau cytseiniol	[sdro·bri] <i>strawberry</i>	- - -


Y patrwm pwysicaf i dynnu sylw ato yw mai ym Mro Dysynni yn unig y ceir llafariaid hanner hir yn ymddangos mewn geiriau brodorol Gymraeg. Gwelir enghreifftiau o’r rhain yn codi o flaen ffrwydrolion lleisiol, ffrithiolion lleisiol, y trwynolyn [n] a’r sain drawol leisiol [r]. Yn torri ar draws y patrwm hwn, fodd bynnag, y mae rhai benthyciadau Saesneg sydd wedi ymsefydlu yn yr iaith yn rhoi inni lafariaid hanner hir yn y ddwy ardal. Llurgunio’r patrymau cyffredinol a wna’r benthyciadau hyn, fodd bynnag, gan fod gwahaniaeth eglur i’w weld hebddynt, lle y ceir llafariaid hanner hir yn bosibl ym Mro Dysynni, tra bônt yn llwyr absennol yng nghyffiniau Harlech.

4.2.2. Llafariaid syml yn y sillaf olaf ddiacen

4.2.2.1. Ni cheir llafariaid hir yn y cyd-destun hwn yn yr un o'r ardaloedd. Y llafariaid byrion a geir, felly, yw:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[i]	[gerði] “gerddi”	[kəsgi] “cysgu”	llafariad gaeedig flaen
[ɪ]	[təni] “tynnu”	[kəsgi] “cysgu”	llafariad gaeedig ganol
[u]	[galu] “galw”	[gælu] “galw”	llafariad gaeedig ôl
[ɪ]	[lɛvrɪθ] “llefrith”	[*vɪɪɪr] “milltir”	llafariad led gaeedig flaen
[ɪ]	[bəuɪd] “bywyd”	[wedɪn] “wedyn”	llafariad led gaeedig ganol
[o]	[tatos] “tatws”	[meðoɪ] “meddwl”	llafariad led gaeedig ôl
[o]	[əsgol] “ysgol”	[*bobol] “pobl”	llafariad hanner caeedig ôl
[ɛ]	[kɔɛg] “coleg”	[kəŋɛrð] “cyngerdd”	llafariad hanner agored flaen
[ə]	[nɔbəl] “nobl”	[fɛnɛsdər] “ffenesdr”	llafariad hanner agored ganol
[ɔ]	[əsgɔl] “ysgol”	[pɔbɔl] “pobl”	llafariad hanner agored ôl
[æ]	[baræ] “bara”	[sɪsnæg] “Saesneg”	llafariad led agored flaen
[a]	[bara] “bara”	[sɪsnag] “Saesneg”	llafariad agored led flaen

Diagram 5: Llafariaid byrion y sillaf olaf ddiacen



Yr un llafariad a geir yn y sillaf olaf ddiacen yn y ddwy ardal, felly. O ran llafariad caeedig y ddwy dafodiaith, mewn sillafodd agored yn unig y cafwyd enghreifftiau o [i], tra sylwyd bod y defnydd o [ɪ], [ɨ] ac [ʊ] ar y llaw arall wedi ei gyfyngu i sillafodd caeedig yn unig (gweler enghreifftiau uchod). Yr unig ddwy lafariad gaeedig sy'n ymddangos mewn sillafodd agored a chaeedig fel ei gilydd yw [i] ac [u] (gweler enghreifftiau o amrywio ar waith isod).

Y mae'n werth nodi yma hefyd na nodwyd achosion o [e] hanner caeedig flaen yn y safle hwn yn yr un o'r ddwy ardal. Er y gall absenoldeb y sain hon fod yn gyson â phrinder yr enghreifftiau a godwyd o [o] hanner caeedig ôl yn y cyd-destun hwn (gweler isod), dylid pwysleisio yma er hynny nad yw'r defnydd o [ɛ] hanner agored flaen chwaith yn arferol yn y safle hwn yn yr un o'r ardaloedd hyn (gweler rhagor o fanylion am hyn yn 4.2.2.2).

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Cafwyd nifer o enghreifftiau tebyg o ymgynnewid rhwng llafariad byrion yn y cyd-destun hwn yn y ddwy ardal, ac fe'u crynhoir isod.

- Gwelwyd yn y ddwy ardal y llafariad gaeedig flaen [i] a'r llafariad gaeedig ôl [u] yn ymgynnewid â'r llafariad mwy agored cyfatebol, e.e.

Cyffiniau Harlech

[ɬɛvriθ] ~ [ɬɛvriθ] “llefrith”

[tatus] ~ [tatos] “tatws”

Bro Dysynni

[miɫdir] ~ [*viɫdir] “milltir”

[knɛbrun] ~ [knɛbrɔn] “cynhebrwng”

Er hynny, ni sylwyd ar achosion o'r llafariad canol [i] ac [ɨ] yn ymgynnewid â'i gilydd yn yr un geiriau gan fod y naill yn ymddangos mewn sillafodd agored a'r llall mewn sillafodd caeedig. Y mae'r sefyllfa hon, felly, yn debyg i'r hyn a welwyd yn achos llafariad caeedig geiriau unsill, lle y gwelwyd amrywio yn y blaen a'r cefn, ond nid yn y canol.

- Cafwyd ambell enghraifft o'r llafariad hanner caeedig ôl [o] yn ymgynffwrdd â'r llafariad hanner agored ôl [ɔ] o fewn yr un gair, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[*bobol] ~ [bobɔl] "pobl"

[*bobol] ~ [pobɔl] "pobl"

[karjo] ~ [karjɔ] "cario"

[nabod] ~ [nabɔd] "nabod"

Dylid pwysleisio, er hynny, fod yr enghreifftiau a gafwyd o [o] hanner caeedig yn y cyd-destun hwn yn brin iawn, yn enwedig o'u cymharu â lluosogrwydd y ffurfiau sy'n cynnwys [ɔ] hanner agored.

- Cafwyd nifer o enghreifftiau hefyd o wamalu rhwng y llafariad led agored flaen [æ] a'r llafariad agored led flaen [a] yn y ddwy ardal, yn debyg i'r hyn a welwyd eisoes mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[əmə] ~ [əma] "yma"

[sɪsnæg] ~ [sɪsnag] "Saesneg"

[baɣgjæn] ~ [baɣgjɑn] "bachgen"

[ivæŋk] ~ [ivɑŋk] "ifanc"

[baræ] ~ [bara] "bara"

[dɪlæd] ~ [dɪlad] "dillad"

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

Sylwyd ar ddau fath gwahanol o amrywio a oedd yn gyfyngedig i un o'r ardaloedd dan sylw yn unig, ac fe'u crynhoir isod.

- Yn yr un modd ag y nodwyd bod amrywio ar waith mewn cyd-destunau eraill ym Mro Dysynni oherwydd y defnydd ansefydlog o'r 'u ogleddol' yno, cafwyd yn y sillaf olaf ddiacen hefyd enghreifftiau o'r llafariad caeedig blaen [i] / [ɪ] yn ymgynffwrdd â'r llafariad caeedig canol [ɪ] / [ɨ], ac yn ymddangos yn yr un geiriau, e.e.

Bro Dysynni

[kəsɡi] ~ [kəsɡi̯] “cysgu”

[kani] ~ [kani̯] “canu”

[aur] ~ [auɤ] “awyr”

[wedɪn] ~ [wedɪn̩] “wedyndyn”

- Math arall o amrywio y sylwyd arno yn y sillaf olaf ddiacen ym Mro Dysynni yw'r llithriad blaen (*on-glide*) a ymddangosai'n aml o flaen y llafariad flaen gaeedig [i], ac weithiau o flaen y llafariad ganol gaeedig [i̯]. Mewn sillafydd agored yn unig y sylwyd ar yr amrywio hwn ar waith, fel y prawf yr enghreifftiau a ganlyn:

Bro Dysynni

[lɛsdr̥i̯] ~ [lɛsdri] “llestri”

[tor̥i̯] ~ [tori] “torri”

[pob̥i̯] ~ [pobi] “pobi”

[ɔn̥i̯] ~ [həni̯] “hynny”

Ni chafwyd achosion o'r ffenomen hon yn ardal Harlech, ac ni chyfrifir bod cysylltiad o angenrheidrwydd rhyngddi a ffurfiau megis [hi:̥] “hi”, [si:̥θ] “syth” a [no:̥s] “nos”, lle y gwelir ôl-lithriad yn dilyn rhai llafariad yn y ddwy ardal (gweler 4.1.1). Gellir cynnig y gall llithriad blaen o'r math hwn fod yn gam cyntaf tuag at ddiptoneiddio cyflawn.

4.2.2.2. Lle y mae'r llafariaid hyn yn ymddangos?

Gan nad oes modd i lafariaid hir ymddangos yn y cyd-destun hwn yn yr un o'r tafodieithoedd, llafariaid byrion sy'n rhagweladwy yn y cyd-destun hwn, ni waeth beth fo'r cyd-destun seinegol. Ni chafwyd chwaith enghreifftiau o fenthyciadau Saesneg yn torri ar draws y patrwm hwn o safbwynt hyd llafariaid yn y sillaf olaf ddiacen. Er hynny, ceir rhai cyfyngiadau ffonotactig sy'n cyflyru'r dewis o lafariaid yn y cyd-destun hwn (yn rhannol o leiaf), ac fe'u trafodir yn gryno isod.

- Er nad yw defnydd o'r llafariad hanner agored ganol [ə] yn ddisgwyliedig mewn tafodieithoedd Cymraeg yn y sillaf olaf ddiacen (gweler, er enghraifft, Awbery, 1984: 77), cafwyd rhai enghreifftiau o'r sain honno mewn benthyciadau Saesneg yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[mæsdər] *mister*

[bördər] *border*

[sdɛʃən] *station*

Bro Dysynni

[sdreʃər] *stretcher*

[tiʃər] *teacher*

[əŋkəls] *uncles*

Ceir hefyd achosion eithriadol o'r sain yn ymddangos mewn ffurfiau brodorol Gymraeg yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[ginən] “ganddyn’ (nhw)”

[ʎambədər] “Llanbedr”

Bro Dysynni

[ʎenɛsdər] “ffenstr”


[mangəl] “mangl”

Yn [ginən] “ganddyn’ (nhw)”, gellir cynnig mai drwy ddylanwad “y nhw” y mae modd clywed ‘y dywyll’ yn y ffurf arddodiadol hon. Yn [ʎambədər] “Llanbedr” a [ʎenɛsdər] “ffenstr” wedyn, drwy ychwanegu trydedd sillaf at [ʎambad] a [ʎenasd] /

[fenasd]⁹³ y ceir y llafariad epenthetic [ə] yma. Yn yr un modd, gwahanu clwstwr o sain ffrwydrol a sonant y mae [ə] yn [maŋgəl] “mangl”.⁹⁴

- Ychydig iawn o enghreifftiau a gafwyd yn y ddwy dafodiaith o'r llafariad flaen hanner agored [ɛ] yn ymddangos yn y sillaf olaf ddiacen. Yr arfer yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni yn hytrach yw niwtraleiddio'r cyferbyniad a geid mewn ardaloedd eraill o Gymru rhwng [ɛ] “e” ac [a] “a”.⁹⁵ Er eglurder, atgynhychir isod fap o eiddo B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 41) sy'n dangos y diriogaeth ogleddol lle y collir cyferbyniad rhwng [ɛ] ac [a], h.y. lle y swir yr ‘a’ yn gyson.⁹⁶

Map 1: Tiriogaeth ‘-a’ yn y sillaf olaf ddiacen (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 41)



⁹³ Cafwyd enghreifftiau o'r ffurfiau deusill hyn hefyd.

⁹⁴ Am fanylion pellach ynghylch llafariad epenthetic a'u perthynas â chlystyrau cytseiniol, gweler 6.2.3.

⁹⁵ Mewn erthygl ddiweddar gan Gwenllian Awbery (2012), archwiler i ddatblygiad hanesyddol y nodwedd ffonolegol hon yn y gogledd. Ar sail ffurfiau a ymddengys mewn ewyllysau a rhestrï eiddo (*inventories*), dadleuir bod monotoneiddio deuseiniaid yn [ɛ] wedi digwydd drwy'r gogledd yn y lle cyntaf, ac mai yn ddiweddarach y niwtraleiddiwyd y cyferbyniad rhwng [ɛ] ac [a] yn y gogledd-orllewin.

⁹⁶ Gwelir bod swirio'r 'a' hefyd yn gysylltiedig â thafodiaith draddodiadol de-ddwyrain Cymru.

- Defnyddir y llafariaid agored [a] / [æ] yn gyson, felly, yn y cyd-destunau canlynol:

1. Yn hytrach na'r 'e' safonol / ysgrifenedig, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[adag] “adeg”

[kɛrðad] “cerdded”

[sɪsnag] “Saesneg”

[ambaf] “ambell”

[dɔiðag] “deuddeg”

[pɔpaθ] “popeth”

2. Yn hytrach na'r deuseiniaid orgraffyddol '-au', '-ae' neu '-ai-', e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[deχra] “dechrau”

[peθa] “pethau”

[χwara] “chwarae”

[χwaræ] “chwarae”

[lanvar] “Llanfair”

[tamad] “tamaid”

O ran y ffurfiau a gafwyd a gynhwysai [ɛ] yn y sillaf olaf ddiacen, gwelir nad geiriau a ddefnyddir yn feunyddiol ydynt, a bod iddynt gynodiadau swyddogol, academiaidd neu gyhoeddus, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[kɔlɛg] “coleg”

[kɔŋɛrð] “cyngerdd”

[lɔvrgɛl] “llyfrgell”

[hanɛs] “hanes”

[*raglɛn] “rhaglen”

Gwelir bod [ɛ] hefyd yn ymddangos yn sillaf olaf ddiacen rhai enwau personol, rhai enwau misoedd, yn ogystal ag ambell fenthyciad Saesneg, e.e.

Cyffiniau Harlech

[brɔnwɛn] “Bronwen”

[hɔdrɛv] “Hydref”⁹⁷

[*dʒɔklɛd] *chocolate*

[hɔsdɛl] *hostel*

Bro Dysynni

[ɛlɛn] “Elen”

[tɔxwɛð] “Tachwedd”

[lɛxwɛð] “Llechwedd”

Ni cheir yr un enghraifft o’r deuseiniaid ‘-au’, ‘-ae’, neu ‘-ai’ yn datblygu’n [ɛ] yn yr un o’r ardaloedd dan sylw, yr hyn a fyddai’n arferol yn nhafodieithoedd y de-orllewin, y gogledd-ddwyrain a Phowys.

⁹⁷ Ceir tystiolaeth yn y recordiadau mai yn Saesneg y meddylia sawl siaradwr am y misoedd. Gellir cynnig, felly, mai cyfieithu gair Saesneg i ffurf safonol yn hytrach nag i ffurf nodweddiadol o’r dafodiaith a wneir yma.

4.2.3. Llafariaid syml yn y sillaf ragobennol, y sillaf olaf acennog, a'r sillaf ddiacen o flaen yr olaf acennog

Oherwydd prinder ffurfiau yn y ddwy ardal, ni ellir dadansoddi'n fanwl batrymau'r llafariaid syml yn y cyd-destunau hyn, felly trosolwg cryno yn unig sy'n bosibl. Nodir y casgliadau mwyaf perthnasol isod.

4.2.3.1. Y sillaf ragobennol

- Llafariaid byrion yn unig sy'n ymddangos yn y sillaf ragobennol, e.e.

Cyffiniau Harlech

[l̥əθəra] “llythyrau”

[dɔlgɛla] “Dolgellau”

[aθrauɔn] “athrawon”

Bro Dysynni

[tikjedi] “ticedi”

[kɛfəla] “ceffylau”

[gɔvali] “gofalu”

- Ceir ambell enghraifft o'r llafariad hanner agored flaen [ɛ] yn ymgyfnewid â'r llafariad hanner caeedig flaen [e] yn y cyd-destun hwn, e.e.

Cyffiniau Harlech

[nɛgesa] ~ [negesa] “negesau”

Bro Dysynni

[pregeθɔr] ~ [pregeθɔr] “pregethwr”

4.2.3.2. Y sillaf olaf acennog

- O safbwynt ffurfiau brodorol Gymraeg, llafariad hir yn unig a geir yn y sillaf olaf acennog yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[kəm'ræ:g] “Cymraeg”

[kəm'ra:g] “Cymraeg”

Bro Dysynni

[kəm'ræ:g] “Cymraeg”

[əŋ'hi:d] “ynghyd”

[əm'i:sg] “ymysg”

Gwelir uchod fod modd i'r llafariad led agored flaen [æ:] amrywio â'r llafariad agored led flaen [a:] yn y cyd-destun hwn, yn debyg i'r hyn a welwyd mewn geiriau unsill.

- Yn ardal Harlech, cafwyd ambell enghraifft o lafariaid byrion yn ymddangos yn sillaf olaf acennog rhai benthyciadau, e.e. [ho'tɛl] *hotel* a [dʒa'pan] *Japan*.

4.2.3.3. Y sillaf ddiacen o flaen yr olaf acennog

- Llafariaid byrion yn unig a gafwyd yn y cyd-destun hwn hefyd. Gweler enghreifftiau o'r rhain yn 4.2.3.2 uchod.

4.3. Cymhariaeth o batrymau'r llafariaid syml yn y ddwy ardal

Amcan yr isadran hon yw crynhoi'r cyfatebiaethau a'r gwahaniaethau a welwyd uchod rhwng strwythurau'r ddwy dafodiaith, gan ystyried pa gamau pellach sy'n angenrheidiol wrth i adran nesaf yr astudiaeth hon ganolbwyntio'n fanylach ar natur amrywio ffonolegol yn y ddwy ardal.

Y mae'n gwbl eglur oddi wrth y dadansoddiad uchod, felly, fod systemau llafariaid y ddwy ardal yn dra thebyg i'w gilydd. Gwelwyd yn ddieithriad bron mai'r un llafariaid, boent yn hir neu'n fyr, a oedd yn gyffredin mewn gwahanol gyd-destunau yn y ddwy ardal. Pan geir gwahaniaethau bychain megis enghraifft o [ə:] hir yng ngeiriau unsill Bro Dysynni, ond diffyg hynny yng nghyffiniau Harlech, y mae'n amlwg mai ymdrin ag achosion eithriadol yr ydym yn hytrach na gwahaniaethau systematig rhwng dwy dafodiaith.

Ymdriniwyd yn fanwl yn yr adrannau blaenorol hefyd â hyd llafariaid, a'r modd y gall y cyd-destun sillafog yn ogystal â'r cyd-destun seinegol gyflyru'r dewis ohonynt. Gwelwyd, er enghraifft, fod llafariaid hir a rhai byrion yn bosibl mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog yn y ddwy ardal. Sefydlwyd hefyd fod cyferbyniad hyd i'w gael (h.y. llafariaid hir a byr) mewn rhai cyd-destunau seinegol penodol yn achos geiriau unsill, tra bo hyd llafariaid yn rhagweladwy (h.y. naill ai'n hir neu'n fyr) mewn cyd-destunau seinegol eraill, weithiau mewn geiriau unsill, ac yn ddieithriad yn achos y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen.

Y mae'n amlwg, felly, nad ar hap a damwain yr amrywia hyd llafariaid yn yr un o'r ddwy dafodiaith. Dylid pwysleisio hefyd na welwyd nemor ddim gwahaniaethau sylweddol rhwng patrymau llafariaid syml y ddwy ardal o safbwynt eu hyd, ac amlygir y tebygrwydd hwn yn nhabl 1 isod.⁹⁸ Gwelir yma un patrwm gwahanol pwysig rhwng geiriau unsill a'r goben acennog yn y ddwy ardal, sef bod modd cael cyferbyniad hyd mewn cyd-destunau seinegol penodol yn y naill, e.e. rhwng [sa:l] "sâl" a [hɛl] "hel", tra bo hyd llafariaid yn hollol ragweladwy yn y llall, ac wedi ei gyflyru gan yr hyn sy'n dilyn. Dangosir hefyd mai llafariaid byrion yn unig sy'n rhagweladwy yn y sillaf olaf ddiacen. Ar sail yr hyn a ddengys

⁹⁸ Sylwer mai canolwyntio ar y tri chyd-destun sillafog pwysicaf a wneir yma.

y tabl, felly, teg fyddai dehongli mai'r un strwythurau ffonolegol elfennol a geir yn y ddwy dafodiaith o safbwynt y llafariaid syml.⁹⁹

Tabl 1: Patrymau hyd llafariaid yn y ddwy ardal

A geir...	CYFFINIAU HARLECH			BRO DYSYNNI		
	Geiriau unsill	Y goben acennog	Y sillaf olaf ddiacen	Geiriau unsill	Y goben acennog	Y sillaf olaf ddiacen
Llafariaid byrion?	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Llafariaid hir?	✓	✓	X	✓	✓	X
Cyferbyniad hyd mewn rhai cyd-destunau seinegol?	✓	X	X	✓	X	X

Rhodddwyd cryn sylw yn yr isadrannau blaenorol hefyd i lafariaid byrion sy'n ymgynwied â'i gilydd, a gwelwyd eto fod nifer helaeth o'r amrywiadau hyn yn gyffredin i'r ddwy ardal. Un enghraifft yw'r modd y gall y sain flaen [i], y sain ganol [i̇], yn ogystal â'r sain ôl [u] ymgynwied â'r llafariaid lled gaeedig cyfatebol [ɪ], [ɨ] ac [ʊ] mewn sawl cyd-destun gwahanol. Er hynny, pwysleisiwyd nad yr un patrymau'n union a gafwyd ym mhob cyd-destun sillafog, e.e. ni chafwyd y llafariad gaeedig ganol (fer) [i̇] yng ngeiriau unsill y ddwy ardal, er y nodwyd bod [i̇] ac [ɨ] yn ymgynwied yn y goben acennog.

Bernir, fodd bynnag, fod pedwar pwynt neilltuol yn teilyngu sylw pellach o safbwynt amrywiadau ffonolegol. Ymdrin ag ansoddau gwahanol lafariaid syml a wna'r tair isadran gyntaf, a bwrir golwg fanylach yn yr isadran olaf ar y modd yr amrywia hyd llafariaid yn y ddwy dafodiaith.

⁹⁹ Yn y dehongliad hwn, gwahaniaethir rhwng llafariaid hir a rhai byrion yn unig. Rhoddir sylw neilltuol i lafariaid hanner hir, fodd bynnag, yn 4.3.4 isod.

4.3.1. Y llafariaid caeedig

Er y nodwyd uchod mai'r un llafariaid caeedig a geir ym mhob cyd-destun yn y ddwy ardal, ceir er hynny wahaniaethau sylweddol rhwng defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech o'r llafariaid caeedig canol, a defnydd siaradwyr Bro Dysynni ohonynt. Yn yr ail ardal yn unig y cafwyd enghreifftiau lluosog o'r llafariaid caeedig canol [i(:)] / [ɪ] yn ymgynffwrdd â'r rhai caeedig blaen cyfatebol [i(:)] / [ɪ] mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol, e.e.

Bro Dysynni

[bi:d] ~ [bi:d] "byd"

[pɪmp] ~ [pɪmp] "pump"

[bi:an] ~ [bi:an] "buan"

[gwɪlɔd] ~ [*wɪlɔd] "gwaelod"

[kani] ~ [kani] "canu"

Yng nghyffinau Harlech ar y llaw arall, ni sylwyd unwaith ar y math hwn o amrywio ar waith. Eir ati ym mhennod 7, felly, i ddadansoddi cymhlethdodau'r 'u ogleddol' yn y ddwy ardal yn llawn.

4.3.2. Y llafariaid hanner caeedig a'r rhai hanner agored

Trafodwyd yn yr adrannau blaenorol fod modd i llafariaid hanner caeedig (blaen ac ôl) amrywio â'r rhai hanner agored cyfatebol mewn gwahanol gyd-destunau. Nodwyd, er enghraifft, sawl enghraifft o'r llafariaid hir hanner caeedig / hanner agored ôl [o:] / [ɔ:] yn ymgynffwrdd â'i gilydd mewn geiriau unsill yn y ddwy ardal, yn ogystal ag un achos tebyg yn ardal Harlech â'r llafariaid blaen cyfatebol, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[ko:χ] ~ [kɔ:χ] “coch”

[ko:r] ~ [kɔ:ʳ] “côr”

[mo:χ] ~ [mɔ:χ] “moch”

[do:] ~ [dɔ:] “do”

[po:sd] ~ [pɔ:sd] “post”

[tre:n] ~ [*dre:n] “trên”

Cafwyd yn y ddwy ardal hefyd nifer o enghreifftiau o’r llafariaid hanner caeedig yn amrywio â’r rhai hanner agored yn y goben acennog (yn y blaen ac yn y cefn). Cymerer y ffurfiau canlynol, er enghraifft:

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[meðul] ~ [mɛðul] “meddwl”

[evɔ] ~ [ɛvɔ] “efo”

[devad] ~ [dɛvad] “defaid”

[peθa] ~ [pɛθa] “pethau”

[bora] ~ [bɔra] “bore”

[oχɔr] ~ [ɔχɔr] “ochr”

[kovjɔ] ~ [kɔvjɔ] “cofio”

[nosɔn] ~ [nɔsɔn] “noson”

Prinnach o lawer yw ymgyfnewid rhwng y llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn yn y sillaf olaf ddiacen, a chan nad yw “e” yn arferol yn y cyd-destun hwn yn yr un o’r ardaloedd dan sylw, yng nghefn y geg yn unig y sylwyd ar amrywio ar waith, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[*bɔbɔl] ~ [bɔbɔl] “pobl”

[nabod] ~ [nabɔd] “nabod”

Bwriedir, felly, edrych yn fanylach ar y defnydd a wneir o lafariaid hanner caeedig a hanner agored yn y ddwy ardal ym mhennod 10 er mwyn gweld ai’r un patrymau amrywio a geir ar waith yn y ddwy dafodiaith.

4.3.3. Y llafariaid agored

Sylwyd hefyd yn y ddau ddalgylch ar yr ‘æ fain’ (sain dra nodweddiadol o’r canolbarth) yn ymgynffwrdd â’r [a(:)] fwy agored mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Cymerer y parau canlynol o ffurfiau, er enghraifft:

Cyffiniau Harlech

[næ:] ~ [na:] “na”

[mæm] ~ [mam] “mam”

[kærjɔ] ~ [karjɔ] “cario”

[baɣgjæn] ~ [baɣgjan] “bachgen”

Bro Dysynni

[hæ:] ~ [ha:] “haf”

[kænt] ~ [kant] “cant”

[*gælad] ~ [kalad] “caled”

[ivæŋk] ~ [ivanɰk] “ifanc”

Ym mhennod 8, felly, canolbwyntir yn benodol ar newidyn yr ‘æ fain’, a’r modd y ceir gwahanol batrymau’n codi yn y ddwy ardal.

4.3.4. Hyd llafariaid yn amrywio

Un elfen eithriadol sy’n haeddu sylw yw bodolaeth llafariaid hanner hir mewn ambell air unsill yn y ddwy dafodiaith. Nodwyd y ffurfiau [mæ·m] “mam” a [*bla·nt] “plant” ar gyfer y ddwy ardal, a chafwyd [*blæ·nt] “plant”, [la·n] “llan”, a [ka·mp] “camp” yn ychwanegol at y rheini ym Mro Dysynni. Hyd y gwyddys, nid adroddwyd am lafariaid hanner hir mewn geiriau unsill yn y Gymraeg o’r blaen. Fodd bynnag, gan y gwelir llafariaid hanner hir yn ymddangos yn yr un ffurfiau yn y ddwy ardal, nid ymddengys mai ar hap a damwain, neu drwy gamynganu hyd yn oed, y daethant i fod. Cynigir rheswm posibl dros fodolaeth y llafariaid hanner hir hyn wrth drafod nodwedd yr ‘æ fain’ ym mhennod 8 (8.4.4).

Dylid pwysleisio hefyd fod un gwahaniaeth pwysig rhwng y ddwy ardal o safbwynt hyd llafariaid. Ym Mro Dysynni, cafwyd enghreifftiau o lafariaid hanner hir yn ymddangos o flaen rhai cytseiniaid yn y goben acennog, e.e. yn [bri·vɔ] “brifo” a [gwe·nær] “Gwener”. Sylwyd bod pob un o’r llafariaid hyn wastad yn amrywio â rhai byrion cyfatebol. Yn ardal Harlech ar y llaw arall, llafariaid byrion a gafwyd yn ddieithriad o flaen cytseiniaid yn y safle

hwn.¹⁰⁰ Trafodir arwyddocâd posibl yr amrywio hwn rhwng llafariaid byrion a rhai hanner hir ym Mro Dysynni wrth ymdrin yn fanylach â'r llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] ym mhennod 10 (10.4.3).

4.3.5. Y cam nesaf

Eir ati yn y bennod nesaf i ddadansoddi'n fanwl batrymau'r deuseiniaid a geir yn y ddwy ardal mewn modd tebyg i'r hyn a wnaed yn y bennod hon.

¹⁰⁰ Eithriadau yw'r benthyciadau Saesneg [be·kən] *bacon* a [sdro·bri] *strawberry* sy'n hollol anghyson â'r hyn a geir gan siaradwyr ardal Harlech mewn ffurfiau mwy brodorol Gymraeg.

PENNOD 5: Deuseiniaid cyffiniau Harlech a Bro Dysynni

5. Cyflwyniad

Penderfynwyd yn yr astudiaeth hon ymdrin â'r deuseiniaid fel unedau unigol yn hytrach na fel dilyniannau o ddwy lafariad hollol annibynnol ar ei gilydd.¹⁰¹ Tebyg hefyd yw ymdriniaeth Peter Wynn Thomas â hwy lle y disgrifir deusain fel 'sain lafarog... y ceir newid amlwg yn ei hansawdd pan gynhyrchir hi' (1996: 763). Er eglurder, dewiswyd y symbolau [i], [i̇], ac [u], yr hyn a ddefnyddir hefyd ar gyfer cynrychioli llafariad syml, er mwyn adlewyrchu elfennau olaf y gwahanol ddeuseiniaid. Er y gellid bod wedi defnyddio symbolau'r lled-lafariad [j], [j̇] ac [w] ar gyfer cynrychioli elfennau olaf y deuseiniaid hyn, fel a wneir er enghraifft yn A. R. Thomas et al. (2000) ac ar ddiwedd astudiaeth Awbery (1986: 124-153), bernir nad yw'r union symbolau a ddewisir yma, e.e. [i] neu [j], yn arwyddocaol o safbwynt cymharu gwahanol strwythurau ffonolegol â'i gilydd, ac mai confensiynau nodiant seinegol gwahanol astudiaethau sy'n gwahaniaethu â'i gilydd mewn gwirionedd yn hytrach nag unrhyw realiti seinegol.¹⁰²

Fel a wnaed yn y bennod ddiwethaf yn achos llafariad syml, edrychir yma hefyd ar ddeuseiniaid y ddwy ardal ochr yn ochr er hwylustod wrth eu cymharu â'i gilydd. Unwaith eto, seilir canfyddiadau'r bennod hon ar ddadansoddiadau manwl o iaith dau siaradwr o bob ardal.¹⁰³ Canolbwyntir yn gyntaf yn 5.1. ar y deuseiniaid a geir mewn geiriau unsill, cyn y bwrir golwg wedyn yn 5.2. ar y rhai a geir mewn gwahanol gyd-destunau amlsillafog, e.e. yn y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen. Ni ragdybir, felly, y bydd patrymau'r gwahanol gyd-destunau hyn o angenrheidrwydd yn debyg i'w gilydd. I gloi, tynnir cymariaethau yn 5.3 rhwng defnydd siaradwyr ardal Harlech a rhai Bro Dysynni o wahanol ddeuseiniaid.

¹⁰¹ Er bod gramadegau traddodiadol yn gwahaniaethu rhwng "deuseiniaid disgynedig" a "deuseiniaid esgynedig", ni chyfrifir y rhai esgynedig fel deuseiniaid yn y traethawd hwn. Mewn ffurfiau fel [ja:r] "iâr" a [gwi:n] "gwin", ystyrir [ja] ac [wi:] fel dilyniannau o led-lafariad a llafariad (am fanylion pellach ar ddeuseiniaid 'esgynedig', gweler P. W. Thomas, 1996: 765).

¹⁰² Dehonglwyd ail elfennau deuseiniaid mewn amryfal ffyrdd (fel cytseiniaid ac fel llafariad) mewn astudiaeth o elfennau ffonolegol yn Sir Benfro (gweler Awbery, 1986: 124-153).

¹⁰³ Y ddau o gyffiniau Harlech yw D.O ac E.J, a'r ddau o Fro Dysynni yw B.R ac E.W (gweler eu manylion yn llawn ym mhennod 3: 3.2.3).

5.1. Deuseiniaid mewn ffurfiau unsill

Caer pob deusain naill ai ag [i], [i] neu [u] ac, er eglurder, ymdrinnir â'r tri math gwahanol hyn o ddeuseiniaid yn eu tro, gan lynu wrth yr un drefn ym mhob achos. Rhoddir sylw yn gyntaf i ddeuseiniaid hir, h.y. deuseiniaid lle y ceir llafariad hir yn elfennau cyntaf iddynt mewn ffurfiau fel [l̥a:iθ] “llaeth” a [gl̥æ:u] “glaw”, cyn y manylir wedyn ar ddeuseiniaid byrion y dafodiaith, h.y. deuseiniaid lle y ceir llafariad byrion yn elfennau cyntaf iddynt mewn ffurfiau fel [kaus] “caws” a [dail] “dail”. Dylid pwysleisio hefyd mai ffurfiau sydd o dan yr acen bwys yn unig a ystyrir isod, oni nodir yn wahanol.

5.1.1. Y deuseiniaid hir a geir yw:

Yn cau â llafariad gaeedig flaen

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[u:i] - - -	[mu:i] “mwy”	llafariad gaeedig ôl
[o:i] [tro:i] “troi”	[ko:ɪd] “coed”	llafariad hanner caeedig ôl
[ø:i] ¹⁰⁴ - - -	[kø:i] “cei”	llafariad hanner agored ganol
[æ:i] - - -	[dæ:ɪl] “dail”	llafariad led agored flaen
[a:i] - - -	[ta:i] “tai”	llafariad agored led flaen

Yn cau â llafariad gaeedig ganol

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[u:i] [l̥u:ɪd] “llwyd”	[mu:i] “mwy”	llafariad gaeedig ôl
[o:i] [ko:ɪd] “coed”	[o:ɪr] “oer”	llafariad hanner caeedig ôl
[ø:i] [kø:ɪd] “coed”	[ɔ:ɪð] “oedd”	llafariad hanner agored ôl
[æ:i] [sdæ:ɪr] “staer”	[l̥æ:iθ] “llaeth”	llafariad led agored flaen
[a:i] [l̥a:iθ] “llaeth”	[tra:ɪd] “traed”	llafariad agored led flaen

¹⁰⁴ Prin iawn yw'r achosion o'r ddeusain hon.

Yn cau â llafariad gaeedig ôl

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[i:u] ¹⁰⁵ [di:u] “Duw”	- - -	llafariad gaeedig ganol
[e:u] [*le:u] “(go) lew”	[le:u] “llew”	llafariad hanner caeedig flaen
[ə:u] ¹⁰⁶ [ə:u] “Duw”	[ə:u] “Duw”	llafariad hanner agored ganol
[æ:u] [glæ:u] “glaw”	[jæ:un] “iawn”	llafariad led agored flaen
[a:u] [gla:u] “glaw”	[ja:un] “iawn”	llafariad agored led flaen

Yn gyntaf, o safbwynt deuseiniaid hir sy'n cau ag [i], gwelir cryn wahaniaeth rhwng y ddwy ardal. Yn ardal Harlech, y ddeusain [o:i] yn unig a nodwyd, tra ym Mro Dysynni ar y llaw arall, nodwyd pum deusain hir o'r math hwn. Er gwaetha'r gwahaniaeth hwn rhwng y ddwy ardal, ceir llawer mwy yn gyffredin rhwng deuseiniaid hir sy'n cau ag [i] neu [u]. Yn wir, ar wahân i'r ddeusain eithriadol [i:u], na chafwyd mohoni ym Mro Dysynni, gwelir mai'r un deuseiniaid hir yn union a geir yn cau ag [i] neu [u] yn y ddwy dafodiaith.

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Sylwyd ar sawl enghraifft debyg o ddeuseiniaid hir yn gwamalu â'i gilydd yn y ddwy ardal, ac fe'u crynhoir isod.

- Cafwyd enghreifftiau o'r llafariad ôl hanner caeedig [o:] a'r llafariad ôl hanner agored [ɔ:] yn ymgynwedd ar ddechrau deuseiniaid, a hynny weithiau o fewn y gair, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ko:ɪd] ~ [kɔ:ɪd] “coed”	[ko:ɪs] ~ [kɔ:ɪs] / [kɔ:ɪs] “coes”
[o:ɪs] ~ [ɔ:ɪs] “oes”	[o:ið] ~ [ɔ:ið] “oedd”

¹⁰⁵ Ni cheir y ddeusain hon ond yn yr ebychiad eithriadol hwn, sy'n ffurf ar “Duw”.

¹⁰⁶ Yn debyg i'r ddeusain [i:u] uchod, mewn ffurf ar “Duw” yn unig y ceir y ddeusain hon yn yr ebychiad [ə:u].

- Nodwyd hefyd achosion o [æ:] (yr ‘æ fain’) yn amrywio â’r [a:] fwy agored ar ddechrau deuseiniaid hir a gaeai ag [i] ac [u] yn y ddwy ardal, yn ogystal ag ar ddechrau rhai a gaeai ag [i] ym Mro Dysynni, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

	[χwæ:iθ] ~ [χwa:iθ] “chwaith”
[sdæ:ir] ~ [sda:ir] “staer”	[læ:iθ] ~ [la:iθ] “llaeth”
[glæ:u] ~ [gla:u] “glaw”	[jæ:un] ~ [ja:un] “iawn”

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

Fel y gwelwyd eisoes yn achos y llafariad syml (gweler 4.1 a 4.2), ym Mro Dysynni yn unig y mae’r defnydd o’r llafariad gaeedig ganol [i] yn ansefydlog. O ganlyniad i hynny, felly, yn yr ardal honno yn unig y nodwyd bod amrywio ar waith yn ansawdd elfennau olaf rhai deuseiniaid, e.e.

Bro Dysynni

[u:i] ~ [u:i]	[mu:i] ~ [mu:i] “mwy”
[o:i] ~ [o:i]	[ko:ɪd] ~ [ko:ɪd] “coed”
[a:i] ~ [a:i]	[ja:i] ~ [ja:i] “Iau”

5.1.2. Y deuseiniaid byrion a geir yw:

Yn cau â llafariad gaeedig flaen

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[ɛi]	[rɛin] “rhain”	[rɛi] “rhai”	llafariad hanner agored flaen
[əi]	[rəin] “rhain”	[ləi] “lleill”	llafariad hanner agored ganol
[ɔi]	[trɔi] “troi”	[rɔi] “rhoi”	llafariad hanner agored ôl
[æi]	[χwæiθ] “chwaith”	[*væint] “maint”	llafariad led agored flaen
[ai]	[χwaiθ] “chwaith”	[tair] “tair”	llafariad agored led flaen

Yn cau â llafariad gaeedig ganol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[ui] ¹⁰⁷	- - -	[puint] “pwynt”	llafariad gaeedig ôl
[ɛi]	[dɛid] “dweud”	[nɛi] “neu”	llafariad hanner agored flaen
[əi]	[dəid] “dweud”	[gnəid] “gwneud”	llafariad hanner agored ganol
[ai] ¹⁰⁸	[hail] “haul”	- - -	llafariad agored led flaen

Yn cau â llafariad gaeedig ôl

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[iu]	[*riu] “rhyw”	[kiu] “cyw”	llafariad gaeedig flaen
[iɪ]	[diu] “Duw”	[diɪ] “Duw”	llafariad gaeedig ganol
[ɪu]	- - -	[biu] “byw”	llafariad led gaeedig flaen
[bɪu]	[bɪu] “byw”	[bɪu] “byw”	llafariad led gaeedig ganol
[eu]	[meun] “mewn”	[meun] “mewn”	llafariad hanner caeedig flaen

¹⁰⁷ Yn y ffurf hon yn unig y ceir [ui] yn fyr o dan yr acen.

¹⁰⁸ Gan amlaf, deusain hir yw [a:i] pan y’i ceir o dan yr acen. Sylwyd er hynny fod y ffurf [hail] “haul” yn amlwg o dan bwyslais, ond eto’n cynnwys deusain fer.

[ɛu]	[mɛun] “mewn”	[mɛun] “mewn”	llafariad hanner agored flaen
[əu]	[rəund] “rownd”	[rəund] “rownd”	llafariad hanner agored ganol
[ɔu] ¹⁰⁹	[rəund] “rownd”	- - -	llafariad hanner caeedig ôl
[æu]	[kæus] “caws”	[mæur] “mawr”	llafariad led agored flaen
[au]	[kaus] “caws”	[maur] “mawr”	llafariad agored led flaen

O gymharu setiau cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni â'i gilydd, gellir barnu mai prin mewn gwirionedd yw'r gwahaniaethau rhyngddynt. Yn wir, o ran deuseiniaid sy'n cau ag [i], yr un rhai yn union a gafwyd yn y ddwy ardal. Er yr ymddengys fod llai o gyfatebiaethau yn achos deuseiniaid sy'n cau ag [i], rhaid cofio er hynny mai prin eithriadol yw [ui] ym Mro Dysynni ac [ai] yng nghyffiniau Harlech. Yn yr un modd, prin yw [ɔu] yn ardal Harlech, ac fe'i gwelir yn amrywio ag [əu], sef deusain a gafwyd hefyd ym Mro Dysynni. O ran [ɪu], gellir nodi y'i ceir ym Mro Dysynni fel rheol mewn ffurfiau lle y ceir [ɹu] neu [iu] yng nghyffiniau Harlech.

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Gwelir amrywio helaeth ar waith o safbwynt defnydd y ddwy ardal o ddeuseiniaid byrion. Nodir y gwahanol amrywiadau hyn isod.

- Cafwyd enghreifftiau yn y ddwy ardal o'r llafariad flaen hanner agored [ɛ] yn ymgyfnewid â'r llafariad ganol hanner agored [ə] ar ddechrau deuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [i], e.e.

¹⁰⁹ Ystyrir mai'r ddeusain hon a geir hefyd yn y ffurfiau [mɔur] “mawr”, [*bɔub] “pawb” a [*vɔuθ] “Mawrth” a gafwyd yn ardal Harlech, a'i bod yn ymgyfnewid ag [au] yn y geiriau hyn. Gellid bod wedi defnyddio'r symbolau [øu] i gynrychioli ansawdd deusain debyg i hon, fel y gwnaeth Anna Roberts yn ei hymdriniaeth â thafodiaith Pwllheli. Ystyrir ganddi fod [ø] yn ‘allophone of /ə/... [which] always occurs before [u]... It is probably heard more commonly amongst the older generation’ (Roberts, 1988: 108).

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[r̥ein] ~ [r̥əin] “rhain”

[r̥ei] ~ [r̥əi] “rhai”

[d̥eid] ~ [d̥əid] “dweud”

[n̥ei] ~ [n̥əi] “neu”

- Mewn modd tebyg, ceir amrywio rhwng y llafariad flaen hanner caeedig [e] a’r un flaen hanner agored [ɛ] ar ddechrau deuseiniaid sy’n cau ag [u], e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[meun] ~ [m̥eun] “mewn”

[meun] ~ [m̥eun] “mewn”

[*geuχ] ~ [*g̥euχ] “cewch”

Fodd bynnag, ni chafwyd enghreifftiau o’r llafariad ôl cyfatebol [o] ac [ɔ] yn ymgynwied ar ddechrau deuseiniaid byrion. Sylwer, er hynny, ar y pâr [r̥ound] ~ [r̥əund] “rownd” a nodwyd ar gyfer ardal Harlech, lle y gwelir y llafariad ôl hanner agored yn gwamalu â’r sain ganol hanner agored.

- Nodwyd hefyd achosion o [æ] (yr ‘æ fain’ fer) yn amrywio â’r [a] fwy agored mewn deuseiniaid byrion sy’n cau ag [u] ac [i], e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[χwæiθ] ~ [χwaiθ] “chwaith” [pæid] ~ [paid] “paid”

[kæus] ~ [kaus] “caws”

[bræud] ~ [braud] “brawd”

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

- Yn debyg i’r ymgynwied a welwyd eisoes ym Mro Dysynni rhwng y llafariad caeedig blaen [i(:)] / [i] a’r llafariad caeedig canol [i(:)] / [ɪ], gwelir yno hefyd fod ansawdd elfennau cyntaf deuseiniaid, yn ogystal â’u helfennau olaf, yn gwamalu, e.e.

Bro Dysynni

[iuχ] ~ [iux] “uwch”

[biu] ~ [bɪu] “byw”

[dəid] ~ [dæid] “dweud”

5.1.3. Hyd deuseiniaid yn amrywio

Hyd yma, canolbwyntiwyd ar amrywiaeth yn **ansawdd** gwahanol ddeuseiniaid. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, y gwelwyd amrywio ar waith yn y ddwy ardal hefyd o safbwynt **hyd** deuseiniaid. Rhestrir isod, felly, enghreifftiau o ymgyfnewid rhwng deuseiniaid hir a rhai byrion (o dan yr acen bwys), a hynny o fewn y gair:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[o:i] ~ [ɔi]	[tro:i] ~ [trɔi] “troi” [rɔ:i] ~ [rɔi] “rhoi”	[rɔ:i] ~ [rɔi] “rhoi”
[e:u] ~ [ɛu]	[*le:u] ~ [*lɛu] “(go) lew”	- - -
[æ:i] ~ [æi]	- - -	[pæ:ɪd] ~ [pæɪd] “paid”
[a:i] ~ [ai]	- - -	[gwa:iθ] ~ [gwaiθ] “gwaith”
[a:i] ~ [aɪ]	[ha:iɪ] ~ [haɪɪ] “haul”	- - -
[æ:u] ~ [æu]	- - -	[jæ:un] ~ [jæun] “iawn”
[a:u] ~ [au]	[gla:u] ~ [glau] “glaw”	[pa:ub] ~ [paub] “pawb”

Dengys yr enghreifftiau uchod, felly, nad yw sefyllfa’r ddwy dafodiaith dan sylw yn debyg iawn i’w gilydd cyhyd ag y bo amrywiaeth yn hyd deuseiniaid yn y cwestiwn. Yr unig debygrwydd gwirioneddol yw’r modd yr amrywia [o:i] ac [ɔi] yn y ddwy ardal, a hynny yn yr un cyd-destun seinegol, sef pan na cheir cytsain yn eu dilyn. O ystyried parau megis [pæ:ɪd] ~ [pæɪd] “paid”, [gwa:iθ] ~ [gwaiθ] “gwaith” ac [jæ:un] ~ [jæun] “iawn”, sylwer mai ym Mro Dysynni yn unig y’u cafwyd. Yn yr un modd, gwelir bod amrywio rhwng [a:i] ac [aɪ] yn berthnasol i gyffiniau Harlech yn unig. Ymddengys ar yr olwg gyntaf, fodd bynnag, fod y

ddwy ardal yn rhannu rhywfaint o dir cyffredin o ran y modd yr amrywia [a:u] ac [au] yno. Er hynny, gwelir o astudio'r ffurfiau a gafwyd mai o flaen cytsain yn unig y gwelir yr ymgyfnewid hwn ym Mro Dysynni, tra bo [a:u] ac [au] yn gwamalu â'i gilydd yn ardal Harlech pan na cheir sain yn eu dilyn.

Y mae'n briodol inni gyfeirio yma at ymdriniaeth gyffredinol Gwenllian Awbery â deuseiniaid gwahanol dafodieithoedd, lle y nodir y manlynyon canlynol am hyd y deuseiniaid /ɛu/ ac /au/ yn y gogledd:

Two diphthongs are regularly realized with a short allophone if followed by a consonant, and with a long allophone if there is no following consonant (Awbery, 1986: 96).

Dengys yr enghreifftiau uchod, fodd bynnag, fod modd yng nghyffiniau Harlech i [a:u] ymgyfnewid ag [au], ac i [e:u] amrywio ag [ɛu], pan na cheir cytsain yn dilyn (a hynny o dan yr acen).¹¹⁰ Hyd y gwyddys, nid adroddwyd bod yr amrywio hwn ar waith mewn rhannau eraill o'r gogledd.

Ar y cyfan, felly, gwelir cryn dipyn o amrywio ar waith o safbwynt hyd deuseiniaid cyffiniau Harlech a Bro Dysynni fel ei gilydd. Awgryma'r enghreifftiau uchod, fodd bynnag, nad yr un patrymau a welir bob amser yn y ddwy ardal. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhwydd rhoi cyfrif am y gwahaniaethau a'r elfennau tebyg a welir. Bydd yr isadran sy'n dilyn, felly, yn ein galluogi i edrych yn fanylach ar strwythurau'r deuseiniaid yn y ddwy ardal.

5.1.4. Lle y mae'r deuseiniaid hyn yn ymddangos?

Amcan yr isadran hon yw archwilio i weld a yw'r deuseiniaid a ddefnyddir yn y ddwy ardal wedi eu cyflyru gan y cyd-destun seinogol ai peidio. Ceisir gweld, felly, a yw rhai mathau o ddeuseiniaid yn gyfyngedig i rai amgylchiadau yn unig ai peidio. Ymdrinnir i ddechrau â'r patrymau a gyfyd pan ystyrir yr holl ddeuseiniaid a drafodwyd uchod gyda'i gilydd. Eir ati wedyn i rannu'r deuseiniaid yn dri grŵp, sef y rhai sydd ag [i], [u] neu [ɪ] yn elfennau olaf

¹¹⁰ Cafwyd hefyd y ffurfiau [*rɛu] "rhew" a [*ræu] "rhaw" gan G.J, heb enghreifftiau cyfatebol o ddeuseiniaid hir yn y geiriau hyn.

iddynt. Penderfynwyd ymdrin â'r tri math hwn o ddeuseiniaid ar wahân er mwyn gweld yn union pa wahaniaethau a geid rhyngddynt. O ran y drefn y'u cyflwynir, edrychir yn gyntaf ar ddeuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u], yn bennaf gan y gwelir cryn debygrwydd o ran y modd y patrymant yn y ddwy dafodiaith. Dadansoddir wedyn ddeuseiniaid sy'n cau ag [ɨ], sef y rhai y gwelir bod eu patrymau yn dra gwahanol i eiddo'r ddau grŵp arall yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd.¹¹¹

- O gynnwys **POB DEUSAIN** a gafwyd yn y ddwy ardal, felly, gwelir bod hyd deuseiniaid yn gyferbyniadol (*contrastive*) ym mhob un cyd-destun posibl, h.y. yn caniatáu deuseiniaid hir a rhai byrion.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	[ko:ɪd] “coed” a [braud] “brawd”	[ko:ɪd] “coed” a [kraɪg] “craig”
Cyn ffrwydrolion di-lais ¹¹²	[u:ɪt] “wyt” a [ʃiut] “siwt”	[u:ɪt] “wyt” a [bɔɪk] “beic”
Cyn ffrithiolion lleisiol	[o:ið] “oedd” a [haið] “haidd”	[o:ið] “oedd” a [braið] “braidd”
Cyn ffrithiolion di-lais	[ʎa:iθ] “llaeth” a [kaus] “caws”	[ʎæ:iθ] “llaeth” a [gwaɪθ] “gwaith”
Cyn trwynolion	[tru:ɪn] “trwyn” ac [jaun] “iawn”	[o:ɪn] “oen” ac [jaun] “iawn”
Cyn y sain drawol leisiol	[χwa:ɪr] “chwaer” a [maur] “mawr”	[o:ɪr] “oer” a [maur] “mawr”
Cyn y sain ochrol leisiol	[ha:ɪl] “haul” a [dail] “dail”	[hu:ɪl] “hwyl” a [saul] “sawl”
Cyn clystyrau cytseiniol	[pa:ɪnt] “paent” a [*vaint] “maint”	[ma:ɪnt] “maint” a [puɪnt] “pwynt”
Heb ddim sain yn dilyn	[glæ:u] “glaw” a [ʎai] “llai”	[da:ɪ] “dau” a [ʎai] “llai”

Fel yr eglurwyd eisoes, fodd bynnag, ni fwriedir rhagdybio bod deuseiniad sy'n cau ag [i], dyweder, yn ymddwyn yn yr un modd â'r rhai sy'n cau ag [u] neu [ɨ]. Dadansoddir yn awr, felly, sefyllfa'r tri math hwn o ddeuseiniaid ar wahân.

¹¹¹ Noder mai'r drefn hon a ddilynir hefyd ym mhennod 8 (8.1.2 ac 8.2.2) wrth ymdrin â gwahanol ddeuseiniaid sy'n agor â'r 'æ fain'.

¹¹² Prin yw'r enghreifftiau yn y cyd-destun hwn.

- Yn achos **DEUSEINIAID SY’N CAU AG [i]**, gwelir isod mai mewn un cyd-destun yn unig y gwelir bod eu hyd yn gyferbyniadol yn y ddwy ardal, sef pan na cheir cytsain yn dilyn.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	---	[ko:ɪd] “coed” a [kraɪg] “craig”
Cyn ffrwydrolion di-lais	---	---
Cyn ffrithiolion lleisiol	---	[o:ið] “oedd” a [braið] “braidd”
Cyn ffrithiolion di-lais	---	[gwa:iθ] “gwaith” ac [jaiθ] “iaith”
Cyn trwynolion	---	[na:ɪn] “nain” a [nain] “nain”
Cyn y sain drawol leisiol	---	[sda:ɪr] “staer” a [tair] “tair”
Cyn y sain ochrol leisiol	---	[a:ɪl] “ail” a [dail] “dail”
Cyn clystyrau cytseiniol	---	[ma:ɪnt] “maint” a [*væɪnt] “maint”
Heb gytsain yn dilyn	[tro:i] “troi” a [tai] “tai”	[tro:i] “troi” a [lɑi] “llai”

Ceir cryn wahaniaeth, felly, rhwng defnydd y ddwy ardal dan sylw o ddeuseiniaid sy’n cau ag [i]. Tra bo’r ffurfiau uchod yn profi bod hyd y deuseiniaid hyn yn gyferbyniadol ym mhob un cyd-destun seinegol bron ym Mro Dysynni, mewn un achos yn unig y gwelir cyferbyniad hyd tebyg yng nghyffiniau Harlech.

O droi’r dadansoddiad ar ei phen, gellir dweud bod hyd deuseiniaid sy’n cau ag [i] yn rhagweladwy (h.y. yn fyr bob amser) ym mhob un o’r cyd-destunau seinegol canlynol yn ardal Harlech, ond yn rhagweladwy mewn un achos arbennig ym Mro Dysynni.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol ¹¹³	[taid] “taid”	---
Cyn ffrwydrolion di-lais ¹¹⁴	[beik] “beic”	[bəik] “beic”
Cyn ffrithiolion lleisiol	[haið] “haidd”	---
Cyn ffrithiolion di-lais	[gwaiθ] “gwaith”	---
Cyn trwynolion	[nain] “nain”	---
Cyn y sain drawol leisiol	[fair] “ffair”	---
Cyn y sain ochrol leisiol	[dail] “dail”	---
Cyn clystyrau cytseiniol	[*vaint] “maint”	---

- O ran **DEUSEINIAID SY’N CAU AG [u]** wedyn, gwelir isod batrymau tebyg iawn i’r hyn a welwyd yn achos y grŵp blaenorol, sef cyferbyniad hyd mewn un cyd-destun seinegol penodol yn ardal Harlech, tra bo hyd y deuseiniaid dan sylw yn gyferbyniadol mewn ystod ehangach o lawer o gyd-destunau ym Mro Dysynni.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	---	[pa:ub] “pawb” a [paub] “pawb”
Cyn ffrwydrolion di-lais	---	---
Cyn ffrithiolion lleisiol	---	---
Cyn ffrithiolion di-lais	---	[*ga:us] “caws” a [kaus] “caws”
Cyn trwynolion	---	[ja:un] “iawn” ac [jaun] “iawn”
Cyn y sain drawol leisiol	---	[ma:ur] “mawr” a [maur] “mawr”
Cyn y sain ochrol leisiol	---	[sa:ul] “sawl” a [saul] “sawl”
Cyn clystyrau cytseiniol	---	---
Heb gytsain yn dilyn	[glæ:u] “glaw” a [bɥ] “byw”	[glæ:u] “glaw” a [bɥ] “byw”

¹¹³ Cafwyd gan C.R yr eithriad [ɾo:ɪd] “rhoid”, lle y ceir deusain hir o flaen ffrwydrolion lleisiol. Gellid cynnig, fodd bynnag, mai dylanwad [ɾo:i] “rhoi” a welir yma.

¹¹⁴ Mewn benthyciadau neu Gymreigiadau o eiriau Saesneg yn unig y ceir y deuseiniaid hyn yn y cyd-destun hwn.

Unwaith eto, gwelir gwahaniaeth trawiadol rhwng patrymau'r ddwy ardal. Sylwer nad yw hyd y deuseiniaid hyn yn gyferbyniadol yn ardal Harlech ond pan na cheir cytsain yn dilyn, ac mai dyna'n union a welwyd hefyd yn achos deuseiniaid a gaeai ag [i]. O ran y cyd-destunau seinegol uchod sy'n caniatáu cyferbyniad hyd ym Mro Dysynni, gellir nodi bod hyd deuseiniaid sy'n cau ag [i] hefyd yn gyferbyniadol ym mhob un o'r rhain (cymharer, er enghraifft, [na:in] ~ [nain] "nain" â [ja:un] ~ [jaun] "iawn"). Awgryma hyn yn gryf, felly, fod rhyw gydbertynas agos yn y ddwy ardal rhwng y defnydd a wneir o ddeuseiniaid sy'n cau ag [i], a'r defnydd a wneir o rai sy'n cau ag [u].

Gellir unwaith eto droi'r dadansoddiad ar ei phen, gan ddweud bod hyd deuseiniaid sy'n cau ag [u] yn rhagweladwy (h.y. yn fyr bob amser) ym mhob un o'r cyd-destunau seinegol canlynol yn ardal Harlech. Ym Mro Dysynni, ar y llaw arall, ymddengys fod deuseiniaid byrion yn rhagweladwy mewn tri o'r cyd-destunau hyn.¹¹⁵

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	[braud] "brawd"	- - -
Cyn ffrwydrolion di-lais	[ʃiut] "siwt"	[djauk] "diawc(s)"
Cyn ffrithiolion lleisiol	[hauð] "hawdd"	[hauð] "hawdd"
Cyn ffrithiolion di-lais	[kaus] "caws"	- - -
Cyn trwynolion	[jaun] "iawn"	- - -
Cyn y sain drawol leisiol	[meun] "mewn"	- - -
Cyn y sain ochrol leisiol	[djaul] "diawl"	- - -
Cyn clystyrau cytseiniol	[rəund] "rownd"	[bəund] <i>bound</i>

- O safbwynt **DEUSEINIAID SY'N CAU AG [i]** yn olaf, gwelir llawer mwy o debygrwydd rhwng patrymau'r ddwy ardal. Dengys y ffurfiau isod mai mewn tri chyd-destun o bob ardal y gwelir bod hyd y deuseiniaid hyn yn gyferbyniadol.

¹¹⁵ Gan fod yr enghreifftiau a gafwyd ar gyfer y tri chyd-destun seinegol hyn yn brin, ni ellir bod yn hollol sicr fod deuseiniaid hir yn amhosibl ynddynt ym Mro Dysynni.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion lleisiol	[ko:ɪd] “coed” a [dɔɪd] “dweud”	[tra:ɪd] “traed” a [nɔɪd] “gwneud”
Cyn ffrwydrolion di-lais	---	---
Cyn ffrithiolion lleisiol	---	---
Cyn ffrithiolion di-lais	---	---
Cyn trwynolion	---	---
Cyn y sain drawol leisiol	---	---
Cyn y sain ochrol leisiol	[ha:ɪl] “haul” a [hail] “haul”	---
Cyn clystyrau cytseiniol	---	[pa:ɪnt] “paent” a [puɪnt] “pwynt” ¹¹⁶
Heb gytsain yn dilyn	[da:i] “dau” a [nɛi] “neu”	[ka:i] “cae” a [nɛi] “neu”

Gwelir uchod, felly, fod deuseiniaid hir a rhai byrion yn bosibl yng nghyffiniau Harlech a Bro Dysynni fel ei gilydd mewn dau gyd-destun seinegol penodol, sef o flaen ffrwydrolion lleisiol, a phan nad oes cytsain yn eu dilyn. Yr unig wahaniaeth a nodwyd rhwng y ddwy ardal, felly, yw bod modd i [a:i] ac [aɪ] ymgyfnewid â’i gilydd yn ardal Harlech, a hynny o fewn y gair yn [ha:ɪl] ~ [hail] “haul”.¹¹⁷ Sylwyd hefyd fod modd ym Mro Dysynni i hyd deuseiniaid sy’n cau ag [ɪ] amrywio o flaen o clwstwr cytseiniol [nt]. Ni ddylid rhagdybio, fodd bynnag, fod y cyferbyniadau hyd hyn yn gyfyngedig i’r naill ardal, ac nad oes modd eu cael yn y llall. Yr hyn y dylid ei bwysleisio yma yn hytrach yw mai’r un patrymau elfennol a

¹¹⁶ Sylwer mai Cymreigiadau o eiriau Saesneg a geir yn y ddwy ffurf, ond bod hyd eu deuseiniaid yn amrywio er hynny.

¹¹⁷ Awgryma’r amrywio hwn rhwng [a:i] ac [aɪ] nad yw achosion tebyg yn amhosibl mewn geiriau eraill, h.y. bod modd i hyd deuseiniaid sy’n cau ag [ɪ] fod yn gyferbyniadol mewn cyd-destunau seinegol eraill. Y mae’n ddiddorol fod Sweet (1913: 506) yn nodi mai [aɪ] fer a geid yn gyson yn Nant Gwynant mewn geiriau sydd ag “au” yn yr orgraff, e.e. yn [kaɪ] “cau”, [daɪ] “dau”, [aɪr] “aur” a [hail] “haul”, tra ceid yno [a:i] hir mewn geiriau sydd ag “ae” yn yr orgraff, e.e. yn [ka:i] “cae”, [ma:i] “mae”, [χwa:ɪr] “chwaer”, [gwa:iθ] “gwaeth” a [bla:ɪn] “blaen”. Fodd bynnag, gan mai [ka:i] a gefais ar gyfer “cau” a “cae” yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni, yn ogystal â [da:i] yn gyson ar gyfer “dau”, gellir cynnig mai drwy gydweddiad â ffurfiau sydd ag “ae” yn yr orgraff y cafwyd hyd yn datblygu hefyd mewn ffurfiau sydd ag “au” yn ysgrifenedig. Er hynny, awgryma’r ffurf [hail] “haul” nad yw’r cyfuno ffonolegol (*phonological merger*) hwn wedi ei gwblhau yn llwyr yn ardal Harlech. Y mae’n ddiddorol yn y cyswllt hwn nodi mai *da:i* [da:i] “dau” a *ka:i* [ka:i] “cau” a nodir hefyd gan Sommerfelt (1925: 15) ar gyfer ardal Llanbryn-Mair, sy’n profi nad ffenomen newydd yw hyd mewn ffurfiau sydd ag “au” yn yr orgraff.

geir yn y ddwy dafodiaith o safbwynt deuseiniaid sy'n cau ag [i], ac mai eithriadau yw'r unig fân wahaniaethau a welir rhyngddynt. Y mae hyn, felly, yn dra gwahanol i'r sefyllfa a welwyd yn achos deuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u], lle y tynnwyd sylw at wahaniaethau sylweddol rhwng eu patrymau hwythau.

Pe troid y dadansoddiad ar ei phen eto, gan nodi'r cyd-destunau yr ymddengys fod hyd llafariad yn rhagweladwy ynddynt (h.y. wastad yn hir), ceid y darlun canlynol.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Cyn ffrwydrolion di-lais	[u:it] "wyt"	[u:it] "wyt"
Cyn ffrithiolion lleisiol	[o:ið] "oedd"	[o:ið] "oedd"
Cyn ffrithiolion di-lais	[la:iθ] "llaeth"	[ko:is] "coes"
Cyn trwynolion	[tru:in] "trwyn"	[o:in] "oen"
Cyn y sain drawol leisiol	[χwa:ir] "chwaer"	[o:ir] "oer"
Cyn y sain ochrol leisiol	- - -	[hu:il] "hwyl"
Cyn clystyrau cytseiniol	[pa:int] "paent"	- - -

Adlewyrcha'r dadansoddiad hwn eto, felly, fod cryn debygrwydd rhwng patrymau'r ddwy ardal. Y mae'n werth pwysleisio yma hefyd fod deuseiniaid hir sy'n cau ag [i] yn bosibl ym mhob un cyd-destun seinegol posibl yn y ddwy ardal. Y mae'r ffaith hon, felly, yn cadarnhau bod y deuseiniaid hyn yn wahanol i'r rhai blaenorol, yn enwedig yn ardal Harlech lle'r oedd deuseiniaid hir a gaeai ag [u] ac [i] yn gyfyngedig eu dosbarthiad i un cyd-destun seinegol yn unig.¹¹⁸

I grynhoi sefyllfa geiriau unsill y ddwy ardal, felly, y mae'n dra phwysig nodi inni sefydlu yn yr isadran hon mai un cyd-destun seinegol penodol sy'n caniatáu cyferbyniad hyd yn achos deuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u] yn ardal Harlech, sef pan na cheir cytsain yn dilyn. Ym

¹¹⁸ Y mae'r gwahaniaethau hyn a geir rhwng gwahanol ddeuseiniaid, h.y. rhwng y rhai sy'n cau ag [i] ac [u] ar y naill law, a'r rhai sy'n cau ag [i] ar y llaw arall, yn ogystal â'r modd y gwelir y deuseiniaid hyn yn patrymu'n wahanol yn y ddwy ardal, yn dra pherthnasol i'r drafodaeth a geir yn 7.4.3 ar ddyllanwad nodweddiadol yr 'u ogleddol' ar hyd deuseiniaid y canolbarth a'r gogledd.

Mro Dysynni ar y llaw arall, gwelwyd bod hyd y deuseiniaid hyn yn gyferbyniadol yn y rhan fwyaf o gyd-destunau seinegol posibl. Y mae'r gwahaniaeth hwn, felly, yn profi bod gwahaniaeth sylweddol rhwng strwythur y deuseiniaid yn y ddwy ardal. Er gwaetha'r gwahaniaethau hyn, fodd bynnag, yr un mor ddiddorol yw'r tebygrwydd trawiadol a welir rhwng defnydd y ddwy dafodiaith o ddeuseiniaid sy'n cau ag [i]. Sefydlwyd yma fod hyd y rhain yn rhagweladwy yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, h.y. yn rhwym o fod yn hir, ond bod eithriadau pwysig yn y ddwy ardal lle y mae eu hyd yn gyferbyniadol, e.e. pan na cheir cytsain yn dilyn, ac o flaen ffrwydrolion lleisiol.

5.1.5. Dylanwad yr acen ar system y deuseiniaid

Fel yn achos y llafariaid syml, gwelir bod yr acen bwys, h.y. y math o bwyslais a roddir ar y gair, yn ystyriaeth bwysig wrth ddadansoddi hyd ac ansawdd deuseiniaid yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni.

- Sylwyd, er enghraifft, fod y deuseiniaid hir [o:i] ac [ɔ:i] yn ymglyfnewid â'i gilydd mewn ffurfiau a oedd o dan yr acen, ond mai'r ddeusain fer [ɔi] a geir fel rheol pan nad yw ffurfiau o dan yr acen, e.e.

Cyffiniau Harlech a Bro Dysynni

[o:ið] (+ acen) ~ [ɔ:ið] (+ acen) ~ [ɔið] (- acen) “oedd”

[o:is] (+ acen) ~ [ɔ:is] (+ acen) ~ [ɔis] (- acen) “oes”

Bydd dylanwad yr acen ar y deuseiniaid uchod yn berthnasol i ddadansoddiad manwl o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored ym mhennod 10 (10.1.2 a 10.2.2).

- Nodwyd hefyd achosion o hyd deuseiniaid yn amrywio yn ôl yr acen, tra arhosai ansawdd elfennau cyntaf y deuseiniaid yn ddiglyfnewid, e.e.

Cyffiniau Harlech

[pu:i] (+ acen) ~ [puɪ] (- acen) “pwy”

[*vu:i] (+ acen) ~ [mɪi] (- acen) “mwy”

Bro Dysynni

[mu:i] (+ acen) ~ [mɪi] (- acen) “mwy”

[mæ:i] (+ acen) ~ [mæi] (- acen) “mae”

[læ:u] (+ acen) ~ [læu] (- acen) “llaw”

Nid ymddengys er hynny mai'r patrwm hwn a geir bob tro yn achos “wy” gan y sylwyd ar newid yn hyd ac yn ansawdd elfen gyntaf y ddeusain hon wrth i'r pwyslais a roddir ar y gair canlynol newid:

Bro Dysynni

[mu:in] (+ acen) ~ [mɔin] (- acen) “mwyn”

5.2. Deuseiniaid mewn geiriau amlsillafog

Trown ein golygon yn awr at y deuseiniaid a ddefnyddir mewn gwahanol gyd-destunau amlsillafog. Yn gyntaf, canolbwyntir ar y goben acennog yn y ddwy ardal, yna'r sillaf olaf ddiacen, cyn y rhoddir trosolwg i gloi o'r sefyllfa mewn cyd-destunau lle y mae deuseiniaid yn brinnach ynddynt.

5.2.1. Y goben acennog

Ni cheir deuseiniaid hir yn y cyd-destun hwn yn yr un o'r ardaloedd.¹¹⁹

5.2.1.1. Ceir, felly, y deuseiniaid byrion canlynol:

Yn cau â llafariad gaeedig flaen

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[ui] ¹²⁰ [tuini] “twyni”	[muia] “mwyaf”	llafariad gaeedig ôl
[ei] [eirin] “eirin”	[gweiθjɔ] “gweithio”	llafariad hanner agored flaen
[əi] [əira] “eira”	[gwəiθjɔ] “gweithio”	llafariad hanner agored ganol
[ɔi] [dʒɔinjɔ] <i>join</i> + -io ¹²¹	[krɔisɔ] “croeso”	llafariad hanner agored ôl

¹¹⁹ Ni chynhwysir ffurfiau eithriadol megis [næ:ikja] “naci” a [na:iki] “naci” gan yr ystyrir mai cyfuniad o ddau air a geir ynddynt mewn gwirionedd (“nac” + “ie”), cf. llafariad syml hir mewn ffurfiau fel [na:du] “nac ydw” a [na:gɔn] “nac oeddwn”.

¹²⁰ Yn [tuini] “twyni” yn unig y cafwyd y ddeusain hon yn ardal Harlech.

¹²¹ Yn y benthyciad hwn yn unig y ceir y ddeusain hon yn y goben acennog yn ardal Harlech.

Yn cau â llafariad gaeedig ganol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[ui]	[luivan] “llwyfan”	[muia] “mwyaf”	llafariad gaeedig ôl
[oi]	[loigar] “Lloegr”	[oiðan] “oeddem”	llafariad hanner caeedig ôl
[ei]	[neiθon] “gwnaethom”	- - -	llafariad hanner agored flaen
[øi]	[døiar] “daear”	[krøilon] “creulon”	llafariad hanner agored ganol
[øi]	[loigar] “Lloegr”	[øirax] “oerach”	llafariad hanner agored ôl

Yn cau â llafariad gaeedig ôl

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[iu]	[*riuvariant] “rhywfaint”	[diuað] “diwedd”	llafariad gaeedig flaen
[eu]	[neuid] “newid”	[neuid] “newid”	llafariad hanner caeedig flaen
[eu]	[neuið] “newydd”	[neuið] “newydd”	llafariad hanner agored flaen
[øu]	[tøuod] “tywod”	[bøuð] “bywyd”	llafariad hanner agored ganol
[øu] ¹²²	[pøu:s] “Powys”	- - -	llafariad hanner agored ôl
[æu]	[æuɪr] “awyr”	[læuar] “llawer”	llafariad led agored flaen
[au]	[lauar] “llawer”	[lauar] “llawer”	llafariad agored led flaen

Gwelir uchod, felly, fod y setiau a gafwyd yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni yn hynod debyg i’w gilydd. Yr unig wahaniaeth a welir rhyngddynt yw na chafwyd [ei] ym Mro Dysynni (gan mai [øi] a gafwyd yno’n gyson), na chwaith [øu]. Noder er hynny na chafwyd geiriau ym Mro Dysynni lle y buasid yn disgwyl i [øu] fod yn bosibl ynddynt, h.y. geiriau sydd ag “ow” yn yr orgraff.¹²³

¹²² Tra phrin yw’r ddeusain hon yn ardal Harlech.

¹²³ Er bod y Parch. D. S. Thomas o gylch Tywyn yn ystyried ar ddechrau’r ugeinfed ganrif mai “Towyn” oedd ‘y dull mwy diweddar o sillebu [Tywyn]’ (1907: 135), y ddeusain [øu] a geid yn gyson yn ynganiadau siaradwyr Bro Dysynni o’r enw hwn. Byddai’n ddiddorol gwybod i ba raddau y mae ynganiad siaradwyr Cymraeg o

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

Gwelir yn y cyd-destun hwn hefyd nifer o enghreifftiau o ddeuseiniaid byrion yn gwamalu â'i gilydd, ac fe'u crynhoir isod.

- Yn yr un modd ag y gwelwyd [ɛi] ac [əi] yn ymgynffwrdd yng ngeiriau unsill y ddwy ardal, cafwyd achosion tebyg yn codi yn y goben acennog, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[brɛiχja] ~ [brəiχjæ] “breichiau”¹²⁴ [gweiθjɔ] ~ [gwəiθjɔ] “gweithio”

- Hefyd yn debyg i'r sefyllfa mewn geiriau unsill, sylwyd yn y ddwy ardal ar lafariaid blaen hanner caeedig a rhai hanner agored yn amrywio â'i gilydd ar ddechrau deuseiniaid a gaeai ag [u] yn y goben acennog, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[deui] “Dewi” a [nɛuɪð] “newydd” [neuid] ~ [nɛuid] “newid”

Sylwer na chafwyd enghraifft o'r amrywio hwn yn digwydd o fewn y gair yn ardal Harlech.

- Yn wahanol i'r hyn a gafwyd mewn geiriau unsill, fodd bynnag, nodwyd rhai achosion o ymgynffwrdd rhwng [oɪ] ac [ɔɪ] yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[lɔɪgar] ~ [lɔɪgar] “Lloegr” [oɪðan] ~ [ɔɪðan] “oeddem”

“Towyn” (ger y Rhyl) yn wahanol i “Tywyn” (Sir Feirionnydd) oherwydd y gwahaniaeth orgraffyddol rhyngddynt.

¹²⁴ Mewn rhai geiriau, monotoneiddir y ddeusain “ei” yn [i], e.e. cafwyd [anivɪljad] “anifeiliaid” yn ardal Harlech, a [gwiθjɔ] “gweithio” a [*wriɡan] “gwreigen” ym Mro Dysynni.

- Sylwyd hefyd fod amrywio ar waith rhwng yr ‘æ fain’ a’r [a] fwy agored ar ddechrau deuseiniaid byrion a gaeai ag [u] yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[æuɪ] “awyr” a [lauar] “llawer”

[læuar] ~ [lauar] “llawer”

Ym Mro Dysynni yn unig y cafwyd enghraifft o’r ymgyfnewid hwn o fewn y gair.

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

Fel y nodwyd droeon eisoes, ym Mro Dysynni yn unig y gwelir ymgyfnewid rhwng y llafariaid caeedig canol (yr ‘u ogleddol’) â’r rhai caeedig blaen cyfatebol. Gwelir, felly, ansawdd elfennau olaf deuseiniaid yn amrywio yn y goben acennog yn yr ardal hon, e.e.

Bro Dysynni

[təɪl^oi] ~ [*dəɪli] “teulu”

[muia] ~ [muia] “mwyaf”

5.2.1.2. Lle y mae’r deuseiniaid hyn yn ymddangos?

Gwelir uchod mai deuseiniaid byrion yn unig sy’n arferol yn y goben acennog yn y ddwy ardal. Gellir dweud, felly, fod deuseiniaid byrion yn rhagweladwy yn y cyd-destun hwn, a’u bod yn codi mewn ystod eang o gyd-destunau seinegol gwahanol.

Er hynny, y mae’n briodol cyfeirio at un cyfyngiad ffonotactig pwysig a geir yn y goben acennog yn y ddwy ardal, sef **NA CHEIR** [a] ar ddechrau deuseiniaid sy’n cau ag [i] neu [ɪ], hyd yn oed pan ychwanegir terfyniadau neu forffemau eraill at eiriau unsill a gynhwysai [a]. Cymerer, er enghraifft, y ffurfiau canlynol a gafwyd:

Cyffiniau Harlech

[kəia] < “cae” + “-au”

[*əirja] < “gair” + “-iau”

Bro Dysynni

[nɔswɛiθja] < “noswaith” + “-iau”

[gwəiθjɔ] < “gwaith” + “-io”¹²⁵

Cyferbyniol, fodd bynnag, yw posibilrwydd [a] yn y goben acennog ar ddechrau deusain sy'n cau ag [u], e.e. yn [lauar] “llawer”. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, nad yw'r cyfyngiad ffonotactig hwn yn unigryw i ardaloedd Harlech a Bro Dysynni, a bod diffyg [a] o flaen [i] / [ɪ] yn arferol yn y goben acennog drwy Gymru (gweler Awbery, 1984: 93).

¹²⁵ Gellir ychwanegu yma y codwyd y ffurfiau unsill [ka:i] “cae” a [gair] “gair” yng nghyffiniau Harlech, yn ogystal â [gwa(:)iθ] “gwaith” ym Mro Dysynni.

5.2.2. Y sillaf olaf ddiacen

Ni cheir deuseiniaid hir yn y cyd-destun hwn yn yr un o'r ardaloedd.

5.2.2.1. Ceir, felly, y deuseiniaid byrion canlynol:

Yn cau â llafariad gaeedig flaen

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[æi]	[devæid] “defaid”	[*gəmæint] “cymaint”	llafariad led agored flaen
[ai]	[devaid] “defaid”	[devaid] “defaid”	llafariad agored led flaen

Yn cau â llafariad gaeedig ganol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[ui]	[ɔvnadi] “ofnadwy”	[ɛgluis] “eglwys”	llafariad gaeedig ôl
[ɔi]	[sdrədɔið] “strydoedd”	[*ganɔið] “cannoedd”	llafariad hanner agored flaen
[æi]	- - -	[kɔidwigæiθ] “coedwigaeth”	llafariad led agored flaen
[ai] ¹²⁶	- - -	[peθai] “pethau”	llafariad agored led flaen

Yn cau â llafariad gaeedig ôl

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	Elfen gyntaf y ddeusain
[iu]	[gɔriu] “gwryw”	[amriu] “amryw”	llafariad gaeedig flaen
[au]	- - -	[*ðisdau] “distaw” ¹²⁷	llafariad agored led flaen

¹²⁶ Prin iawn yw'r enghreifftiau o'r terfyniad lluosog [ai] / [æi] “-au” gan mai ‘swnio’r a’ sydd fwyaf arferol yn y cyd-destun hwn yn y ddwy ardal dan sylw (gweler 4.2.2.2 am fanylion pellach am y nodwedd hon).

¹²⁷ Yn y ffurf hon yn unig y gwelwyd y ddeusain [au] yn y cyd-destun hwn.

Gwelir uchod nad yw deuseiniaid mor niferus yn y cyd-destun hwn ag y maent mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog yn yr un o'r ardaloedd dan sylw. Sylwer na chafwyd enghreifftiau o'r deuseiniaid [ai] / [æi] "au" yn nherfyniadau lluosog ardal Harlech o gwbl gan mai 'swnio'r a' a wneir yno yn ddieithriad. Er hynny, cafwyd rhai achosion o'r deuseiniaid hyn ym Mro Dysynni, er eu bod yn hynod brin. Fodd bynnag, yn achos [ai] / [æi] "ai", sylwyd bod y deuseiniaid hyn yn gyffredin yn y ddwy ardal, a'u bod yn llai tebygol nag [ai] / [æi] "au" o newid yn [a].

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

- Yn debyg i'r hyn a welwyd eisoes mewn geiriau unsill, cafwyd enghreifftiau o'r 'æ fain' a'r [a] fwy agored yn ymgyfnewid ar ddechrau deuseiniaid a gaeai ag [i] yn y ddwy ardal, yn ogystal â rhai a gaeai ag [i] ym Mro Dysynni, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[devæid] ~ [devaid] "defaid"

[gəməint] "cymaint" a [devaid] "defaid"

- - -

[kɔidwigæiθ] "coedwigaeth" a [peθai] "pethau"

- Math gwahanol o amrywio a nodwyd ar gyfer y ddwy ardal yw hwnnw rhwng deusain a llafariad syml. Dengys yr enghreifftiau canlynol fod ymgyfnewid rhwng [ai] ac [a], [ui] ac [u], yn ogystal â rhwng [ɔi] ac [ɔ] yn bosibl yn y sillaf olaf ddiacen yn y ddwy dafodiaith, e.e.

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[lanvair] ~ [lanvar] "Llanfair"

[devaid] ~ [devad] "defaid"

[anuil] ~ [anul] "annwyl"

[ɛgluis] ~ [ɛglus] "eglwys"

[*vlənəðɔið] ~ [*vlənəðɔð] "blynyddoedd"

[mənəðɔið] ~ [mənəðɔð] "mynyddoedd"

5.2.2.2. Lle y mae'r deuseiniaid hyn yn ymddangos?

Gwelir uchod mai deuseiniaid byrion yn unig sy'n rhagwladwy yn y sillaf olaf ddiacen yn y ddwy ardal dan sylw, a'u bod yn codi mewn amrywiaeth o gyd-destunau seinegol gwahanol.

5.2.3. Deuseiniaid yn y sillaf olaf acennog a'r sillaf ragobennol

Yn debyg i sefyllfa'r llafariaid syml, y mae'r deuseiniaid a gafwyd mewn cyd-destunau eraill yn brin iawn yn y ddwy ardal. O ganlyniad i hynny, ni ellir ymdrin yn fanwl â phatrymau'r cyd-destunau hyn, a'r cyfan y gellir ei wneud yw crynhoi'r prif gasgliadau. Rhoddir sylw yn gyntaf i'r sillaf ragobennol, cyn yr edrychir wedyn ar y sillaf olaf acennog. Ni chafwyd enghreifftiau o ddeuseiniaid yn ymddangos mewn sillaf ddiacen o flaen yr olaf acennog.

5.2.3.1. Y sillaf ragobennol

- Deuseiniaid byrion yn unig a gafwyd yn y cyd-destun hwn yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[trausvənɨð] “Trawsfynydd”

[l̥əuɔdraθ] “llywodraeth”

[n̥euəðjɔn]

Bro Dysynni

[gəɪrjadɨr] “geiriadur”

[l̥əuel̥ɨn] “Llywelyn”

[ædn̥euəðɨ] “adnewyddu”

- Nodwyd hefyd mai o flaen llafariaid yn unig y cafwyd enghreifftiau o'r ddwy ddeusain [əu] ac [eu] (gweler enghreifftiau uchod).

5.2.3.2. Y sillaf olaf acennog

- Nodwyd enghreifftiau o ddeuseiniaid hir a rhai byrion yn y cyd-destun hwn, e.e.

Cyffiniau Harlech

Deusain hir [kəm'ra:ɨg] “Cymraeg”

Deusain fer [kəm'r̥eɨg] “Cymreig”

Bro Dysynni

[kəm'ra:ɨg] “Cymraeg”

[lab'sgəus] “lob-sgows”

O fwrw golwg ar yr enghreifftiau a nodir ar gyfer ardal Harlech, ymddengys fod deusain hir ac un fer yn bosibl yn yr un cyd-destun seinogol, sef o flaen y ffrwydrolyn felar lleisiol [g].

- Cafwyd achosion o [æ:] (yr ‘æ fain’) yn amrywio â’r [a:] fwy agored ar ddechrau deuseiniaid a gaeai ag [i] yn y ddwy ardal, yn ogystal ag ar ddechrau deuseiniaid a gaeai ag [i] yn ardal Harlech, e.e.

Cyffiniau Harlech

[kəm'ræ:ig] ~ [kəm'ra:ig] “Cymraeg”
 [ə'mlæ:in] ~ [ə'mla:in] “ymlaen”

Bro Dysynni

[kəm'ræ:ig] ~ [kəm'ra:ig] “Cymraeg”

- Nodwyd hefyd fod y deuseiniaid [æ:i] / [a:i] yn amrywio â’r llafariad agored syml [æ:] / [a:] mewn un gair penodol yn y ddwy dafodiaith, sef

Cyffiniau Harlech a Bro Dysynni

[kəm'ræ:ig] / [kəm'ra:ig] ~ [kəm'ræ:g] / [kəm'ra:g] “Cymraeg”¹²⁸

¹²⁸ Gellir cymharu’r amrywio hwn i ddwy ffurf unsill a gofnodwyd yn ardal Harlech, sef [sda:iɾ] a [sda:r] “staer”, lle y gwelir eto ymgyfnewid rhwng deusain hir a llafariad hir. Llafariad hir yn unig, fodd bynnag, a nodwyd ar gyfer [ka:l] “cael” (yn y ddwy ardal) a [sla:s] “slaes” (yng nghyffiniau Harlech yn unig). Y mae’n amlwg, felly, nad nodwedd sy’n gyfyngedig i dafodieithoedd deheuol yw’r defnydd hwn o [a:] hir yn lle deusain, ond ei fod ar waith hefyd yn y gogledd a’r canolbarth mewn rhai geiriau unsill yn ogystal ag yn y sillaf olaf acennog yn yr achos penodol hwn.

5.3. Cymhariaeth o batrymau'r deuseiniaid yn y ddwy ardal

Bwriad yr adran hon yw crynhoi'r prif wahaniaethau a'r elfennau tebyg a welwyd rhwng patrymau deuseiniol cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni. Tynnir sylw hefyd at elfennau a ddadansoddir yn fwy trwyadl yn adran nesaf yr astudiaeth, lle yr archwilir yn fanylach i natur amrywio ffonolegol yn y ddwy ardal. Manylir yn yr isadrannu cyntaf ar y modd y gwelir ansoddau gwahanol llafariad yn amrywio mewn deuseiniaid, boent yn elfennau cyntaf neu'n rhai olaf, a chanolbwyntir yn yr isadran olaf ar y modd yr amrywia deuseiniaid o ran eu hyd.

5.3.1. Y llafariad caeedig

Fel y gwelwyd yn achos llafariad syml y ddwy ardal, un gwahaniaeth ansawdd tra phwysig o safbwynt seiniau'r ddwy dafodiaith yw bod y llafariad caeedig canol [i(:)] / [ɪ] yn ymgyfnewid â'r rhai caeedig blaen [i(:)] / [ɪ] mewn amrywiaeth helaeth o gyd-destunau ym Mro Dysynni, tra na cheir amrywio o'r math hwnnw o gwbl yn ardal Harlech. Dengys y parau canlynol, felly, fel yr effeithia'r amrywio hwn hefyd ar elfennau cyntaf a rhai olaf deuseiniaid o wahanol fathau.

Bro Dysynni

[iuχ] ~ [iʊχ] "uwch"

[ko:ɪd] ~ [ko:ɪd] "coed"

[muɪa] ~ [muɪa] "mwyaf"

Rhoddir sylw llawer manylach i'r union fodd yr amrywia deuseiniaid o'r math hwn â'i gilydd ym mhennod 7.

5.3.2. Y llafariad hanner caeedig a'r rhai hanner agored

Gwelwyd yn yr adrannau uchod fod cryn amrywio ar waith o safbwynt y llafariad hanner caeedig a'r rhai hanner agored (blaen ac ôl) yn y ddwy ardal. Cymerer, er enghraifft, y parau canlynol o ffurfiau a drawsgrifiwyd:

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[ko:ɪd] ~ [kɔ:ɪd] “coed”

[o:ið] ~ [ɔ:ið] “oedd”

[lɔiɡar] ~ [lɔiɡar] “Lloegr”

[oiðan] ~ [ɔiðan] “oeddem”

[meun] ~ [mɛun] “mewn”

[*geuχ] ~ [gɛuχ] “cewch”

[deui] “Dewi” a [nɛuɪð] “newydd”¹²⁹ [neuid] ~ [nɛuid] “newid”

Megis yn achos y llafariaid syml, mewn geiriau unsill ac yng ngoben acennog ffurfiau amlsillafog y sylwyd ar ansawdd hanner caeedig a hanner agored llafariaid yn ymgynwedd gan amlaf. Dadansoddir y deuseiniaid hyn mewn mwy o fanylder felly ym mhennod 10.

5.3.3. Y llafariaid agored

Yn debyg i sefyllfa'r llafariaid syml agored, sylwyd ar [æ(:)] (yr ‘æ fain’) yn amrywio ag [a(:)] fwy agored ar ddechrau sawl math gwahanol o ddeuseiniaid (rhai hir a byr) yn y ddwy ardal. Cymerer y parau canlynol, er enghraifft:

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[glæ:u] ~ [gla:u] “glaw”

[jæ:un] ~ [ja:un] “iawn”

[læ:iθ] ~ [la:iθ] “llaeth”

[læ:iθ] ~ [la:iθ] “llaeth”

[kæus] ~ [kaus] “caws”

[mæur] ~ [maur] “mawr”

[æuɪr] “awyr” a [lɔuar] “llawer”¹³⁰

[læuar] ~ [lɔuar] “llawer”

Canolbwyntir yn benodol ar amrywiadau fel y rhain uchod ym mhennod 8, felly.

¹²⁹ Ni sylwyd ar achosion o'r amrywio hwn ar waith o fewn gair yn ardal Harlech.

¹³⁰ Ni chafwyd enghraifft o'r amrywio hwn yn digwydd o fewn gair yn ardal Harlech.

5.3.4. Hyd llafariaid yn amrywio

Yn gyntaf, gwelwyd sawl patrwm tebyg yn codi yn y ddwy ardal o safbwynt hyd deuseiniaid. Ceir, er enghraifft, ddeuseiniaid hir a rhai byrion yn y ddwy ardal. Y mae rhai hir y ddwy dafodiaith yn gyfyngedig eu dosbarthiad i'r ddau gyd-destun canlynol:

1. Geiriau unsill, e.e. [tra:ɪd] “traed” a [glæ:u] “glaw”
2. Yn y sillaf olaf acennog ffurfiau amlsillafog, e.e. [kəm'ra:ɪg] “Cymraeg” a [dra'ma:i] “dramâu”

Mewn cyd-destunau eraill fel y goben acennog, y sillaf olaf ddiacen, a'r sillaf ragobennol, gwelwyd bod hyd deuseiniaid yn rhagweladwy, h.y. wastad yn fyr, ni waeth beth fo'r cyd-destun seinegol.

O ran hyd deuseiniaid yn amrywio mewn geiriau unsill, ceir gwahaniaethau dadlennol a phwysig rhwng strwythur y ddwy dafodiaith. I ddechrau, yn achos deuseiniaid sy'n cau ag [i], gwelwyd yn ardal Harlech fod deuseiniaid byrion yn rhagweladwy ym mhob un cyd-destun seinegol bron. Yr unig eithriad yw pan na cheir cytsain yn dilyn, lle y gwelir bod modd i hyd deusain fod yn gyferbyniadol, e.e. yn [tro:i] ~ [trɔi] “troi”. Ym Mro Dysynni ar y llaw arall, gwelwyd bod hyd deuseiniaid sy'n cau ag [i] yn gyferbyniadol ym mhob cyd-destun seinegol bron.¹³¹ Y mae'r sefyllfa hon, felly, yn dra gwahanol yn y ddwy ardal. Yr un patrymau yn eu hanfod a ganfyddir hefyd mewn deuseiniaid sy'n cau ag [u], sef deuseiniaid byrion yn rhagweladwy ym mhob cyd-destun seinegol yn ardal Harlech, ac eithrio pan na cheir cytsain yn dilyn. Dengys dwy ffurf fel [glæ:u] “glaw” a [bɥu] “byw”, felly, fod modd i hyd deuseiniaid sy'n cau ag [u] fod yn gyferbyniadol yn y cyd-destun penodol hwn. Ym Mro Dysynni ar y llaw arall, gwelir bod hyd deuseiniaid sy'n cau ag [u] yn gyferbyniadol eto yn y rhan fwyaf o gyd-destunau. Crynhoir y gwahaniaethau sylweddol hyn yn nhabl 1 isod,¹³² a gwelir yn y man y bydd y patrymau gwahanol hyn yn berthnasol inni wrth ddadansoddi rhai

¹³¹ O flaen ffrwydrolion di-lais yw'r unig eithriad a gafwyd oherwydd prinder ffurfiau.

¹³² Cynigir rhesymau tebygol am y gwahaniaethau sylweddol hyn yn 7.4.3.

o'r nodweddion y canolbwyntir arnynt yn fanylach, e.e. yr 'u ogleddol' (pennod 7) a'r 'æ fain' (pennod 8).

Tabl 1: Patrymau'r deuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u]

	A geir deuseiniaid hir yn cau ag [i]...		A geir deuseiniaid hir yn cau ag [u]...	
	Heb gytsain yn dilyn?	Gyda chytsain yn dilyn?	Heb gytsain yn dilyn?	Gyda chytsain yn dilyn?
Yn Harlech	CEIR	NA CHEIR	CEIR	NA CHEIR
Ym Mro Dysynni	CEIR	CEIR	CEIR	CEIR

Er gwaetha'r gwahaniaethau a amlygir yn y tabl uchod rhwng y ddwy dafodiaith, ceir llawer mwy o debygrwydd rhwng patrymau'r deuseiniaid sy'n cau ag [i] yng ngeiriau unsill y ddwy ardal. Dangoswyd yn yr isadrannau blaenorol fod modd i ddeuseiniaid hir sy'n cau ag [i] godi ym mhob un cyd-destun posibl yn y ddwy ardal. Dengys parau megis [tra:ɪd] "traed" a [dɔɪd] "dweud", a [da:ɪ] "dau" a [bɥu] "byw" (a gafwyd yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni) fod modd i hyd deuseiniaid sy'n cau ag [i] fod yn gyferbyniadol yn y ddwy ardal mewn rhai cyd-destunau seinegol penodol, h.y. o flaen ffrwydrolion lleisiol, a phan na cheir cytsain yn dilyn yn yr achosion hyn. Lleiafrif bychan, er hynny, yw'r cyd-destunau sy'n caniatáu cyferbyniad. Efallai mai'r hyn sydd fwyaf trawiadol, fodd bynnag, yw bod cymaint o debygrwydd i'w weld rhwng patrymau deuseiniaid sy'n cau ag [i] yn y ddwy ardal, er bod gwahaniaethau sylweddol o ran defnydd y ddwy dafodiaith o'r 'u ogleddol' (gweler pennod 7 am ddadansoddiad trylwyr o'r sefyllfa). Pe gofynnid yr un cwestiwn ag a wnaed ar gyfer deuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u], felly, gwelir yn nhabl 2 mai'r un atebion a roddir ar gyfer y ddwy ardal y tro hwn.

Tabl 2: Patrymau'r deuseiniaid sy'n cau ag [ɨ]

	A geir deuseiniaid hir yn cau ag [ɨ]...	
	Heb gytsain yn dilyn?	Gyda chytsain yn dilyn?
Yn Harlech	CEIR	CEIR
Ym Mro Dysynni	CEIR	CEIR

Yn olaf, y mae'n briodol cyfeirio at wahaniaeth arall y sylwyd arno rhwng defnydd y ddwy dafodiaith o ddeuseiniaid. Yng nghyffiniau Harlech, gwelwyd bod modd i'r deuseiniaid hir [a:u] ac [e:u] amrywio â'r rhai byrion cyfatebol [au] ac [ɛu] mewn un cyd-destun seinegol penodol, sef pan na cheir cytsain yn dilyn. Dylid pwysleisio bod [au] ac [ɛu] yn amlwg o dan yr acen yn y ffurfiau hyn. Cafwyd, er enghraifft, y parau canlynol o ffurfiau:

Cyffiniau Harlech

[gla:u] ~ [glau] “glaw”

[*le:u] ~ [*lɛu] “(go) lew”

Nodwyd hefyd y ffurfiau [*rɛu] “rhew” a [*ræu] “rhaw” yn iaith G.J o ardal Harlech, a gellir barnu bod y deuseiniaid hyn yn swnio'n ddeheuol eu cynaniad oherwydd eu diffyg hyd.¹³³ Fodd bynnag, ym Mro Dysynni ar y llaw arall, ni welwyd mo'r amrywio hwn ar waith, a'r deuseiniaid hir [a:u] / [æ:u] ac [e:u] a gafwyd yn ddiethriad yno pan na cheid cytsain yn dilyn. Er eglurder, crynhoir y gwahaniaethau a geir rhwng y ddwy ardal yn nhabl 3 isod.

¹³³ Gan G.J y cafwyd y rhain. Defnyddiwyd ffurf “ddeheuol” debyg gan J.E hefyd, sef [kəm'raig] “Cymraeg”, lle'r oedd deusain y sillaf olaf acennog yn amlwg fyr.

Tabl 3: Defnydd o [a:u] / [e:u] ac [au] / [ɛu] pan **na cheir sain** yn dilyn, e.e. yn [gla:u] “glaw” a [*lɛu] “(go) lew”

	Pan na cheir sain yn dilyn, a geir...	
	Deuseiniaid hir?	Deuseiniaid byrion?
Yn Harlech	CEIR	CEIR
Ym Mro Dysynni	CEIR	NA CHEIR

Trafodir arwyddocâd posibl y gwahaniaeth hwn, felly, yn 7.4.3 pan ystyrir dylanwad yr ‘u ogleddol’ ar hyd deuseiniaid yn y canolbarth a’r gogledd.

5.3.5. Y cam nesaf

Yn y bennod nesaf, eir ati i ymdrin â phatrymau ffonolegol y cytseiniaid a geir yn y ddwy ardal mewn modd tebyg i’r hyn a wnaed yn y bennod hon.

PENNOD 6: Cytseiniaid cyffiniau Harlech a Bro Dysynni

6. Cyflwyniad

Trafodwyd hyd yma lafariaid syml a deuseiniaid y ddwy ardal. Amcan y bennod hon, felly, yw bwrw golwg ar eu cytseiniaid, boent yn rhai sengl neu'n ffurfio clystyrau cytseiniol â'i gilydd. Seilir dadansoddiadau'r bennod hon eto ar iaith dau siaradwr o bob ardal.¹³⁴ Fel a wnaed yn y ddwy bennod flaenorol, ymdrinnir â'r deunydd a gafwyd yn y ddwy ardal ochr yn ochr yma eto. Rhoddir sylw i ddechrau yn 6.1 i gytseiniaid sengl cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni, cyn y manylir wedyn yn 6.2 ar y mathau gwahanol o glystyrau a ganfyddir yno. I gloi, cymherir defnydd y ddwy ardal o'r elfennau cytseiniol hyn yn 6.3.

¹³⁴ Y ddau o gyffiniau Harlech yw D.O ac E.J, a'r ddau o Fro Dysynni yw B.R ac E.W (gweler eu manylion yn llawn ym mhennod 3: 3.2.3).

6.1. Cytseiniaid sengl

Crynhwir yn nhabl 1 isod y cytseiniaid a gafwyd yn y ddwy ardal. Dylid pwysleisio mai'r un cytseiniaid sylfaenol a gafwyd yn y ddwy ardal.

Tabl 1

	Dwy-wefusol	Gwefus-ddeintiol	Deintiol	Gorfannol	Ochrol	Tafod-orfannol	Tafodol	Felar	Yflar	Glotal
Ffrwydrolion di-lais	[p]		[t]				[kj]	[k]		
Ffrwydrolion lleisiol	[b]		[d]				[gj]	[g]		
Ffrithiolion di-lais		[f]	[θ]	[s]	[ʔ]	[ʃ]			[χ]	[h]
Ffrithiolion lleisiol		[v]	[ð]							
Affrithiolion di-lais						[ʒ]				
Affrithiolion lleisiol						[dʒ]				
Trwynolion lleisiol	[m]		[n]					[ŋ]		
Hylifolion di-lais				[r̥]						
Hylifolion lleisiol				[r]	[l]					
Lled-lafariad	[w]						[j]			

Eir ati yn yr isadrannau a ganlyn, felly, i fanylu ar y gwahanol safleoedd o fewn geiriau sy'n caniatáu gwahanol cytseiniaid, yn ogystal â chymharu'r modd yr amrywia ansoddau rhai cytseiniaid mewn gwahanol gyd-destunau yn y ddwy ardal.

6.1.1. Y cytseiniaid a geir ar ddechrau geiriau yw:¹³⁵

Ffrwydrolion di-lais

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[p]	[po:sd] “post”	[pe:l] “pêl”	sain ddwy-wefusol
[t]	[tai] “tai”	[tæ:n] “tân”	sain ddeintiol
[kj]	[kjaus] “caws”	[kjer] “cer”	sain daflodol
[k]	[ko:χ] “coch”	[kæ:l] “cael”	sain felar

- Gan amlaf, ceir anadliad caled yn dilyn y ffrwydrolion di-lais hyn ar ddechrau geiriau yn y ddwy ardal, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[p ^h ɛrθɪn] “perthyn”	[p ^h ɛdwar] “pedwar”
[t ^h ai] “tai”	[t ^h æ:n] “tân”
[k ^h arjɔ] “cario”	[k ^h ɔvjɔ] “cofio”

- Mewn rhai achosion, ceir tuedd yn y ddwy ardal i’r anadliad caled hwn ddatblygu’n affrithiad yn dilyn [t]. Sylwyd, er enghraifft, ar y ffurfiau canlynol:

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[t ^s urna] “twrnai”	[t ^s i:] “tŷ”
[t ^s i:] “tŷ”	[t ^s i:] “tu”

Nodwyd, fodd bynnag, nad oedd affrithiad yn y ffurf [tæ:n] “tân” ym Mro Dysynni. Efallai yr awgryma hynny fod y ffenomen hon yn fwy tebygol o godi o flaen llafariaid caeedig.

¹³⁵ Ni chynhwysir yma ond ffurfiau cysefin, h.y. nid y rhai a dreiglwyd. Noder, fodd bynnag, fod ffurfiau treigledig yn dra chyffredin yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni, ac y defnyddir y symbol * yn gyson yn y traethawd hwn ar gyfer eu dynodi, e.e. yn [*verwi] “berwi” a [*lɔvra] “llyfrau”.

- Yn y ddwy dafodiaith hefyd, sylwyd ar ddiffyg anadliad caled yn dilyn rhai ffrwydrolion di-lais ar ddechrau geiriau, h.y. nid [p^h] / [t^h] / [k^h] a geir ynddynt, e.e.

Cyffiniau Harlech

[pobɔl] “pobl”

[tuini] “twyni”

[ko:ɪd] “coed”

Bro Dysynni

[pɔpaθ] “popeth”

[tɔmɔs] “Tomos”

[kɔrs] “cwrs”

Ym Mro Dysynni hefyd, gwelwyd amrywio ar waith rhwng [t^han] a [tan] “tan”, lle y cafwyd anadliad caled yn y naill ffurf, ond diffyg hynny yn y llall.

- Hyd y gellir barnu o ddibyynu ar y glust yn unig, sain ddeintiol yw [t] gan amlaf yn y ddwy ardal. Gellir cynnig, fodd bynnag, fod yr affrithioli a geir ar ddechrau rhai ffurfiau megis [t^surna] “twrnai” a [t^si:] “tŷ” yn awgrymu y gall cynaniad y ffrwydrol yn hwn fod yn fwy gorfannol ei natur hefyd. Er hynny, ni ellir dweud hyn yn bendant.¹³⁶
- Fodd bynnag, yr amrywio mwyaf trawiadol yn y ddwy ardal o safbwynt y ffrwydrolion di-lais yw’r modd y ceir y gytsain felar [k] yn ymgyfnwid â’r sain daflodol [kj], a hynny o fewn geiriau penodol, e.e.

Cyffiniau Harlech

[kaus] ~ [kjaus] “caws”

[kærjɔ] ~ [kjærjɔ] “cario”

Bro Dysynni

[kæ:l] ~ [kjæ:l] “cael”

[kɛr] ~ [kjɛr] “cer”

[kefɪl] ~ [kjeɪl] “ceffyl”

¹³⁶ Diau y gallai gwaith acwstig manylach a archwiliai i ansodau [t], [d] a [n] mewn gwahanol safleoedd a chyd-destunau fod yn ddadlennol.

Ffrwydrolion lleisiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[b]	[bæ:χ] “bach”	[bi:d] “byd”	sain ddwy-wefusol
[d]	[de:g] “deg”	[de:g] “deg”	sain ddeintiol
[gj]	[gjælu] “galw”	[gjalu] “galw”	sain daflodol
[g]	[gavr] “gafir”	[gu:r] “gŵr”	sain felar

- Er mai ffrwydrolion lleisiol yw’r cytseiniaid hyn (yn wahanol i gytseiniaid y grŵp blaenorol), bernir nad yw’r elfen lleisiol yn gryf iawn yn yr un o’r ardaloedd.
- Hyd y gellir barnu o ddibynnu ar y glust, sain ddeintiol yw [d] gan amlaf yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd.
- Yr amrywio mwyaf amlwg a nodwyd yn achos y ffrwydrolion lleisiol hyn (yn debyg i sefyllfa’r ffrwydrolion di-lais cyfatebol) yw’r modd y gwelir [gj] daflodol a [g] felar yn ymgynffwrdd â’i gilydd yn y ddwy ardal, weithiau o fewn y gair, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[gælu] a [gjælu] “galw”	[*gæɫ] ~ [*gjæɫ] “cael”
	[*gæθ] ~ [*gjæθ] “cath” (cafodd)

Er mai ffurfiau treigledig a welir ym mharau Bro Dysynni uchod, cafwyd hefyd [gj] daflodol yno ar ddechrau ffurfiau cysefin, e.e. yn [gjælu] “galw” a [gjenɔχ] “gennyh”.

Ffrithiolion di-lais

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[f]	[fɔr] “ffordd”	[fɔr] “ffwrdd”	sain wefus-ddeintiol
[θ]	Ni cheir mo’r sain ddeintiol hon ar ddechrau ffurfiau cysefin yn yr un o’r ardaloedd		
[s]	[saiθ] “saith”	[si:χ] “sych”	sain sisiol orfannol
[l]	[le:] “lle”	[li:n] “Llun”	sain ochrol
[ʃ]	[ʃi:r] “sir”	[ʃɔp] “siop”	sain sisiol daflod-orfannol
[χ]	[χi:] “chi”	[χi:] “chi”	sain yflar
[h]	[he:n] “hen”	[hɔrð] “hwrdd”	sain lotal

- Sylwer bod modd i [s] orfannol gael ei thaflodoli yn [ʃ] ar ddechrau rhai geiriau pan y’i dilynrir gan y llafariad gaeedig flaen [i(:)], ac nad nodwedd gyfyngedig i dafodieithoedd y de mo hon yn llwyr. Cafwyd yn ardal Harlech y ffurfiau [ʃi:r] “sir” a [ʃiut] “siwt”.

Ffrithiolion lleisiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[v]	[vɛl] “fel”	[vɛl] “fel”	sain wefus-ddeintiol

- Ni cheir mo’r sain ffrithiol ddeintiol [ð] ar ddechrau ffurfiau cysefin yn yr un o’r ardaloedd. Gellir ystyried, fodd bynnag, fod y treigladd [d] > [ð] yn sefydlog yn y ffurf [ðo:i] “ddoe”, ac nad yw [do:i] bellach yn arferol.

Affrithiolion¹³⁷

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[ʃ]	[ʃæf] <i>chaff</i>	[ʃæp] <i>chap</i>	sain daflod-orfannol ddi-lais
[dʒ]	[dʒam] “jam”	[dʒɛsd] <i>just</i>	sain daflod-orfannol leisiol

¹³⁷ Sylwer mai mewn benthyciadau y ceir y seiniau hyn fel rheol. Yn ardal Harlech, cafwyd enghreifftiau o’r sain [ʃ] yn *chips* yn cael ei threiglo yn feddal ac yn llaes yn [də dʒɪps] “dy jips” ac [i ʃɪps] “ei ships (hi)”.

Trwynolion

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[m]	[me:ld] “mellt”	[mo:r] “môr”	sain drwynol leisiol ddwy-wefusol
[n]	[ne:b] “neb”	[nain] “nain”	sain drwynol leisiol ddeintiol

Ni cheir mo'r trwynolyn lleisiol felar [ŋ] ar ddechrau ffurfiau cysefin yn yr un o'r ardaloedd.

- Hyd y gellir barnu o ddibynnu ar y glust yn unig, sain ddeintiol yw [n] fel rheol yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni.

Hylfolion

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[ɾ]	[ɾe:s] “rhes”	[ɾæ:n] “rhan”	sain orfannol / drawol ddi-lais
[r] ¹³⁸	[re:it] “reit”	[ru:an] “rwan”	sain orfannol / drawol leisiol
[l]	[ləl] “lol”	[ləin] “lein”	sain ochrol leisiol

- O safbwynt ansawdd y sain drawol leisiol, nodwyd enghreifftiau o'r gytsain grech [r] (*trill*) a'r gytsain gnithiedig [ɾ] (*flap*) ar ddechrau geiriau yn y ddwy dafodiaith, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[r] grech	[rəʊnd] “rownd”	[*raid] “rhaid”
	[ru:] “rhyw”	[*rɔi] “rhoi”
[ɾ] gnithiedig	[feval] “Refail”	[*fai] “rhai”
		[fu:an] “rwan”

Yn ardal Harlech hefyd, sylwyd ar y seiniau hyn yn gwamalu â'i gilydd o fewn y gair yn y pâr [ru:an] ~ [fu:an] “rwan”.

¹³⁸ Er mai mewn benthyciadau y ceir [r] fel cytsain gysefin yn aml, gellir barnu nad ffurfiau treigledig fel y cyfryw a geir mewn ffurfiau brodorol cyffredin megis [robaθ] “rhywbeth”, [rula] “rhywle”, a [ru:] “rhyw”.

- Ni chafwyd enghraifft o'r sain barhaol ddiffrithiad ôl-orfannol [ɹ] (*approximant*) yn y safle hwn, ac eithrio fel ail elfen clwstwr (gweler 6.2.1.1 isod).
- O ran ansawdd y sain ochrol leisiol, nodwyd enghreifftiau o [ɹ] ('l dywyll') yn ogystal â [ɹ̥] ('l olau') ar ddechrau geiriau yn y ddwy ardal, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
'l dywyll'	[hɪkjɔ] "licio"	[hɒb'sgəʊs] "lob-sgows"
	[*ɫe:] "lle"	[hɒpjɔ] "lapio"
'l olau'	[l̥əɪns] "leins"	[hɒt] "lot"
		[hɒr] "(i) lawr"
		[l̥ɒr] "(i) lawr"

Ym Mro Dysynni, felly, gwelwyd ansawdd y sain hon yn amrywio o fewn gair yn y pâr [hɒr] ~ [l̥ɒr] "(i) lawr". Ni ellir dweud, felly, a yw'r llafariad sy'n dilyn yn cael effaith ar ansawdd y gytsain hon. Ymddengys, er hynny, fod 'l dywyll' yn fwy cyffredin nag 'l olau' yn y ddwy dafodiaith.

Lled-lafariad

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[w]	[wɛl] "wel"	[wɛl] "wel"	sain ddwy-wefusol
[j]	[jaiθ] "iaith"	[jæ:r] "iâr"	sain daflodol

6.1.2. Y cytseiniaid a geir yng nghanol geiriau yw:

Ffrwydrolion di-lais

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[p]	[*dɪpɪn] “tipyn”	[kropar] “crwper”	sain ddwy-wefusol
[t]	[ɛtɔ] “eto”	[totan] “twten”	sain ddeintiol
[kj]	[tɛkjaɫ] “tegel”	[tikjedi] “ticedi”	sain daflodol
[k]	[lɔkɪs] “lwcus”	[æku] “acw”	sain felar

- Yn debyg i sefyllfa’r cytseiniaid hyn ar ddechrau geiriau, y mae anadliad caled yn dilyn ffrwydrolion di-lais yn dra chyffredin hefyd yng nghanol geiriau yn y ddwy ardal, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[k ^h ap ^h al] “capel”	[*bəip ^h æɪn] “peipen”
[p ^h ɔt ^h al] “potel”	[p ^h ara ^h t ^h o:i] “paratoi”
[bɛk ^h ɔs] “becws”	[ak ^h ar] “acer”

- Ceir yn y safle hwn hefyd enghreifftiau yn y ddwy ardal o anadliad caled yn datblygu’n affrithiad yn dilyn [t], e.e. yn

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[at ^s ɔn] “atom”	[at ^s ɔn] “atom”
[*bəsgɔt ^s a] “pysgota”	[mɔdiu ^l e·t ^s ər] <i>modulator</i>
[ɛt ^s ɔ] “eto”	

- Mewn rhai achosion yn y ddwy ardal, sylwyd ar ddiffyg anadliad caled yn dilyn rhai ffrwydrolion di-lais yng nghanol gair, h.y. nid [t^h] / [k^h] a glywir, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[karɔtɪn] “carotyn”	[pɔpəθ] “popeth (ar ddechrau’r gair hefyd)
[tatus] “tatws” (ar ddechrau’r gair hefyd)	

- O ddibynnu ar y glust yn unig, bernir mai sain ddeintiol yw [t] fel rheol.
- Nodwyd bod amrywio rhwng y sain daflodol [kj] a'r sain felar [k] yn gyffredin yn y ddwy ardal yn y safle hwn eto, fel y dengys yr enghreifftiau canlynol:

Cyffiniau Harlech

Bro Dysynni

[kækjan] ~ [kakan] “cacen” [tekjał] ~ [tɛkał] “tegel”

Ffrwydrolion lleisiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[b]	[gʊbɔd] “gwybod”	[pob ^ə i] “pobi”	sain ddwy-wefusol
[d]	[kɔdi] “codi”	[lɔdas] “lodes”	sain ddeintiol
[gj]	[igjan] “ugain”	[igjan] “ugain”	sain daflodol
[g]	[hɔgɪn] “hogyn”	[hogan] “hogen”	sain felar

- Er mai fel seiniau lleisiol yr ystyrir y cytseiniaid hyn (o’u cymharu â ffrwydrolion dilais y grŵp blaenorol), nid yw’r elfen leisiol hon yn arbennig o gryf yn yr un o’r ardaloedd dan sylw.
- Yn ardal Harlech, sylwyd ar rai o’r cytseiniaid hyn yn cael eu dileisio ar ddiwedd y goben acennog mewn ffurfiau a oedd o dan rywfaint o bwyslais, e.e. yn [*vendigedɪg] “bendigedig” (y [d] olaf), [r̥ɪnɔgɪð] “Rhinogydd” a [wɛdɪn] “wedyn”. Ar y llaw arall, ni sylwyd ar ddileisio tebyg ym Mro Dysynni.
- O ddibynnu ar y glust, bernir mai sain ddeintiol yw [d] yn y ddwy dafodiaith.
- Y mae’n gyffredin yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni hefyd i’r sain daflodol [gj] yn ogystal â’r sain felar [g] gael eu defnyddio, er bod enghreifftiau o ymgynffwrdd rhyngddynt o fewn gair yn brin, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[gj] daflodol	[igjan] “ugain”	[negjæs] “neges”
[g] felar	[hogan] “hogen”	[*wrigan] “gwreigen”
	[brigax] “brigach”	[sɪsnigað] “Seisnigaidd”

Ym Mro Dysynni, cafwyd un enghraifft o ymgynfnewid o fewn gair penodol yn y pâr [igjan] ~ [igan] “ugain”.¹³⁹

Ffrithiolion di-lais

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[f]	[l̥əfant] “llyffant”	[kefɪl] “ceffyl”	sain wefus-ddeintiol
[θ]	[mɛθi] “methu”	[pleθi] “plethu”	sain ddeintiol
[s]	[isa] “isaf”	[nesa] “nesaf”	sain sisiol orfannol
[t]	[pɛla] “pellaf”	[kɔli] “colli”	sain ochrol
[ʃ]	[grɪʃa] “grisiau”	[gwiʃɔn] “gweision”	sain daflod-orfannol
[χ]	[səχi] “sychu”	[l̥ɛχi] “llechi”	sain yflar
[h] ¹⁴⁰	[gwahanɔl] “gwahanol”	[*wahanjæθ] “gwahaniaeth”	sain lotal

Ffrithiolion lleisiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[v]	[hɛvɔ] “hefo”	[trevið] “trefydd”	sain wefus-ddeintiol
[ð]	[mɛðɔl] “meddwl”	[mɛðɔl] “meddwl”	sain ddeintiol

Affrithiolion¹⁴¹

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[tʃ]	[kabeʃan] <i>cabbage</i>	[gwiʃæd] <i>wait</i> + ‘-ied’	sain daflod-orfannol ddi-lais
[dʒ]	[kabeɖʒan] <i>cabbage</i>	[badʒar] <i>badger</i>	sain daflod-orfannol lleisiol

- Gwelir oddi wrth y ffurfiau a nodwyd ar gyfer ardal Harlech fod modd i’r sain affrithiol ddi-lais [tʃ] ymgynfnewid o fewn gair â’r un lleisiol gyfatebol [dʒ].

¹³⁹ Cafwyd y ddwy ffurf hyn gan M.V a ddefnyddiai gywair ffurfiol iawn ar adegau.

¹⁴⁰ Noder er hynny na cheir mo’r sain lotal hon ar ddiwedd y goben acennog yng nghanol geiriau.

¹⁴¹ Mewn benthyciadau y ceir y seiniau hyn fel rheol. Eithriad, fodd bynnag, yw [*veʃɔn] “medraswn” yn ardal Harlech.

Trwynolion

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[m]	[əma] “yma”	[əməɪ] “ymyl”	sain drwynol leisiol ddwy-wefusol
[n]	[ɛnu] “enw”	[dinas] “dinas”	sain drwynol leisiol ddeintiol
[ŋ]	[jɛŋa] “ieuengaf”	[bliŋɔ] “blingo”	sain drwynol leisiol felar

- O ddibynnu ar y glust, bernir mai sain ddeintiol yw [n] yn y ddwy ardal.

Hylifolion

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[r]	[bora] “bore”	[kərað] “cyrraedd”	sain orfannol / drawol leisiol

Ni cheir mo'r sain orfannol / drawol ddi-lais [r̥] yng nghanol geiriau.

[l]	[mɛlɪn] “melyn”	[dolig] “(Na)dolig”	sain ochrol leisiol
-----	-----------------	---------------------	---------------------

- O ran ansawdd y sain drawol leisiol, bernir mai'r sain grech [r] a ddefnyddir amlaf yn y safle hwn yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni, er y nodwyd achosion o'r gytsain gnithiedig [l] hefyd yn y ddwy ardal, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[r] grech	[χwara] “chwarae”	[kərað] “cyrraedd”
	[*varu] “marw”	[diðorɔl] “diddorol”
	[bara] “bara”	[arɔs] “aros”
	[χwaral] “chwarel”	
[l] gnithiedig	[mɔfɪs] “Morus”	[gɔfɔ] “gorfod”
	[ærfaɪ] “arall”	[χwafa] “chwarae”
		[æfɔs] “aros”

- Gwelir, felly, fod y ddwy sain yn ymglyfnewid yn y gair “aros” ym Mro Dysynni.

- Dylid tynnu sylw hefyd at gryfder yr [r] grech yn aml ym Mro Dysynni, yn enwedig yn iaith B.R, sy'n gyffredinol amlycach yn yr ardal hon nag ydyw yng nghyffiniau Harlech.
- Cafwyd yn ardal Harlech hefyd un enghraifft o amrywio rhwng y sain grech [r] a'r sain barhaol ddiffrihiad ôl-orfannol [ɹ] yn y pâr [ʃarad] ~ [ʃaɪad] "siarad". Ym Mro Dysynni, fodd bynnag, ni chafwyd achosion o'r sain barhaol ddiffrihiad ôl-orfannol [ɹ] yn y safle hwn.
- O safbwynt y sain ochrol leisiol [l] wedyn, nodwyd enghreifftiau o [l̥] ('l olau') yn ogystal ag [ɫ] ('l dywyll') yn y safle hwn yn ardal Harlech. Ym Mro Dysynni, ar y llaw arall, [ɫ] ('l dywyll') yn unig a nodwyd, yn wahanol i'r hyn a welwyd ar ddechrau gair.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ɫ] ('l dywyll')	[dɔɫɪg] "Nadolig" [gaɫu] "galw" [*gjaɫad] "caled" [ruɫa] "rhywle"	[doɫɪg] "(Na)dolig" [geɫɪn] "gelyn" [*wəɪɫɔd] "gwaelod" [keɫəɫa] "ceffylau"
[l̥] ('l olau')	[nadɔɫɪg] "(Na)dolig" [kɔɫɛg] "coleg" [gɫɪɹð] "gilydd"	

- Hyd y gellir barnu, nid yw'n glir a yw'r cyd-destun seinegol yn cyflyru'r defnydd o 'l dywyll' ac 'l olau' ai peidio. Fodd bynnag, gwelir oddi wrth y pâr [dɔɫɪg] ~ [nadɔɫɪg] "(Na)dolig" fod modd i'r ddwy sain hyn ymddangos yn yr un gair (oni ystyrir bod yma ddau air gwahanol). Efallai y gellir cynnig bod y ffurf lawn "Nadolig" yn fwy safonol neu'n fwy parchus na "'Dolig" yn ngolwg rhai siaradwyr, a bod defnydd o'r 'l olau' yn cyd-fynd â chywair mwy ffurfiol. Byddai defnydd o'r 'l olau' yn [kɔɫɛg] "coleg" hefyd yn gyson â'r duedd hon, yn enwedig gan fod yma hefyd enghraifft dra phrin o [ɛ] safonol yn ymddangos yn y sillaf olaf ddiacen.

Lled-lafariaid

- Fel yr eglurwyd ar ddechrau pennod 5 wrth ymdrin â deuseiniaid y ddwy ardal, penderfynwyd defnyddio'r symbolau [i], [i̥] ac [u] er mwyn cynrychioli ansoddu elfennau olaf gwahanol ddeuseiniaid. Gallesid bod wedi dadlau er hynny fod elfennau olaf deuseiniaid yn lled-lafariaid (h.y. yn [j], [j̥] neu'n [w]), a bod modd iddynt ymddangos yng nghanol gair, e.e. yn [lawar] “llawer” a [kəja] “caeau”. Dylid pwysleisio yma, felly, mai oherwydd confensiynau'r nodiant seinegol y glynir wrtho (h.y. y symbolau), nid o achos y realiti seinegol, y dehonglir yma nad yw lled-lafariaid yn digwydd yng nghanol geiriau.

6.1.3. Y cytseiniaid a geir ar ddiwedd geiriau yw:

Ffrwydrolion di-lais¹⁴²

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[p]	[ʃɔp] “siop”	[tɔp] “top”	sain ddwy-wefusol
[t]	[gre:t] “grêt”	[kɪt] “cyt”	sain ddeintiol
Ni cheir mo’r sain ffrwydrol daflodol [kj] ar ddiwedd geiriau yn yr un o’r ardaloedd.			
[k]	[beik] “beic”	[sdɔk] “stoc”	sain felar

- Bernir mai diffyg anadliad caled yn dilyn y ffrwydrolion di-lais hyn yw’r patrwm mwyaf arferol ar ddiwedd geiriau yn y ddwy ardal. Nid [p^h], [t^h] a [k^h] a geir felly yn y ffurfiau canlynol:

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[*wɛp] “gwep”	[lɔt] <i>lot</i>
[lɔt] <i>lot</i>	[at] “at”
[at] “at”	[bɛik] “beic”

- Er hynny, sylwyd ar arlliw o anadliad yn dilyn rhai ffrwydrolion di-lais ar ddiwedd geiriau, efallai oherwydd mai llafariad sy’n dilyn, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[tɔp ^h] “top”	[*dɔp ^h] “top”
[ʃɔp ^{hə}] “siop” (ar ddiwedd brawddeg)	

- Hyd y gellir barnu o ddibyynu ar y glust yn unig, sain ddeintiol yw [t] gan amlaf yn y safle hwn.

¹⁴² Er mai mewn benthyciadau gan amlaf y ceir y ffrwydrolion di-lais ar ddiwedd geiriau, eithriadau yw rhai ffurfiau brodorol cyffredin megis [u:it] “wyt” ac [at] “at”.

Ffrwydrolion lleisiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[b]	[ne:b] “neb”	[mæ:b] “mab”	sain ddwy-wefusol
[d]	[ko:ɪd] “coed”	[do:d] “dod”	sain ddeintiol

Ni cheir mo’r sain ffrwydrol daflodol [gɟ] ar ddiwedd geiriau yn yr un o’r ardaloedd.

[g]	[ki:g] “cig”	[gwæ:g] “gwag”	sain felar
-----	--------------	----------------	------------

- Unwaith eto, ni chredir bod y lleisio sy’n gysylltiedig â’r cytseiniaid hyn yn arbennig o gryf yn yr un o’r ddwy dafodiaith.
- Hyd y gellir barnu, sain ddeintiol yw [d] gan amlaf yn y cyd-destun hwn yn y ddwy ardal dan sylw.

Ffrithiolion di-lais

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[f] ¹⁴³	[tʃæf] <i>chaff</i>	[sdɔf] “stwff”	sain wefus-ddeintiol
[θ]	[la:iθ] “llaeth”	[pe:θ] “peth”	sain ddeintiol
[s]	[mi:s] “mis”	[no:s] “nos”	sain sisiol orfannol
[t]	[hɪt] “hyll”	[gwɛt] “gwell”	sain ochrol
[ʃ] ¹⁴⁴	[a:ʃ] “es”	[χɛʃ] “ces” (cefais)	sain sisiol daflod-orfannol
[χ]	[bæ:χ] “bach”	[gwri:χ] “gwrych”	sain yflar

Ni cheir mo’r sain lotal [h] ar ddiwedd geiriau yn yr un o’r ardaloedd.

¹⁴³ Prin yw’r enghreifftiau a gafwyd o [f] ar ddiwedd geiriau, ond diau y byddai [ɾa:f] “rhaff” yn air cyffredin yn y ddwy ardal, er nas cafwyd yn y cyfweliadau.

¹⁴⁴ Pan daflodolir [s] o flaen y llafariad [i] neu’r lled-llafariad [j] y ceir y gytsain hon ar ddiwedd geiriau fel rheol. Cafwyd gan E.J yn ardal Harlech, er enghraifft, [neɪʃ jaun] “neis iawn”. Fe’i ceir hefyd ar ddiwedd ambell fenthyciad, e.e. [raʃ] *rash*.

Ffrithiolion lleisiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[v]	[bra:v] “braf”	[hæ:v] “haf”	sain wefus-ddeintiol
[ð]	[o:ið] “oedd”	[gwe:ð] “gwedd”	sain ddeintiol

- Yn ymgeiriau Harlech, mae'n gyffredin i [v] wefus-ddeintiol gael ei gollwng ar ddiwedd rhai geiriau unsill a rhai amlsillafog yn y ddwy ardal, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[hæ:] “haf”	
[duiθa] “diwethaf”	[adra] “adref”
[*bɛla] “pellaf”	[kənta] “cyntaf”

- Yn yr un modd, gellir cyfeirio at y ffurf [si:] “sydd” a gafwyd yn gyson yn ardal Harlech, lle y gollyngir y ffrithiolyn deintiol [ð]. Ym Mro Dysynni, fodd bynnag, cafwyd sawl enghraifft o [si:ð] / [si:ð] “sydd”, lle yr yngenir ynddynt [ð].

Affrithiolion

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
- - -	[*go:itʃ] “coets”	sain daflod-orfannol ddi-lais
- - -	[swe:dʒ] <i>swedes</i>	sain daflod-orfannol leisiol

- Er na chafwyd enghreifftiau o [tʃ] daflod-orfannol ddi-lais neu [dʒ] daflod-orfannol leisiol yn ymddangos ar ddiwedd geiriau yn ardal Harlech, diau y byddai modd eu clywed yn y safle hwn mewn benthyciadau megis *patch* a *sausage* (h.y. geiriau tebyg i'r rhai a nodir uchod ar gyfer Bro Dysynni).

Trwynolion

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[m]	[kom] “cwm”	[mæm] “mam”	sain drwynol leisiol ddwy-wefusol
[n]	[he:n] “hen”	[ku:n] “cŵn”	sain drwynol leisiol ddeintiol
[ŋ]	[lɔŋ] “llong”	[moŋ] “mwng”	sain drwynol leisiol felar

- Bernir o ddibynnu ar y glust mai sain ddeintiol yw [n] yn y cyd-destun hwn yn y ddwy ardal.

Hylifolion

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>	
[r]	[ko:r] “côr”	[ti:r] “tir”	sain orfannol / drawol leisiol
Ni cheir mo’r sain orfannol / drawol ddi-lais [r̥] ar ddiwedd geiriau.			
[l]	[no:l] “nôl”	[kæ:l] “cael”	sain ochrol leisiol

- Fel y gwelwyd mewn safleoedd eraill yn y gair, gwelir bod y sain drawol leisiol yn amrywio o ran ei hansawdd ar ddiwedd geiriau hefyd. Awgryma’r ffurfiau canlynol, er enghraifft, y ceir ymgyfnewid cyson rhwng y sain grech [r] a’r sain gnithiedig [l] yn y ddwy ardal dan sylw, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[r] grech	[maur] “mawr”	[mo:r] “môr”
	[aur] “awr”	[agɔr] “agor”
	[sikɪr] “sict”	[ma:ur] “mawr”
[l] gnithiedig	[ɔχɔl] “ochr”	[*bɛdwal] “pedwar”
	[lauf] “(i) lawr”	[mauf] “mawr”
	[ʃu:l] “siŵr”	[toʃ] “twr”

- Sylwer bod y ddwy sain i’w gweld yn codi yn yr un cyd-destun seinegol yn y ddwy ardal, sef yn dilyn y ddeusain [a(:)u].

- Fodd bynnag, nid yw sefyllfa'r cytseiniaid hyn yn hollol debyg yn y ddwy dafodiaith gan mai yn ardal Harlech yn unig y cafwyd enghreifftiau o'r sain barhaol ddiffrihiad ôl-orfannol [ɪ] yn ymddangos ar ddiwedd geiriau, e.e.

Cyffiniau Harlech

[aɪ] “ar”

[ʃu:ɪ] “siŵr”

[du:ɪ] “dŵr”

[amsaɪ] “amser”

- O droi ein golygon at y sain ochrol leisiol yn y safle hwn, ymglyfnewid rhwng [ɪ] (‘l dywyll’) ac [ɪ] (‘l olau’) a gofnodwyd yn y ddwy ardal, a hynny o fewn y gair mewn rhai achosion, e.e.

Cyffiniau Harlech

[*wahanɔɪ] ~ [*wahanɔɪ] “gwahanol”

[vɛɪ] ~ [vɛɪ] “fel”

[ɪɔŋgʊɪɪ] ~ [ɪɔŋgʊɪɪ] “Llwyngwrl”

Bro Dysynni

[o:ɪ] ~ [o:ɪ] “ôl”

[*bobɔɪ] ~ [*bobɔɪ] “pobl”

[əsgɔɪ] ~ [əsgɔɪ] “ysgol”

Lled-lafariad

Fel yr eglurwyd yn achos y seiniau hyn yng nghanol geiriau, oherwydd y penderfyniad a gymerwyd i ddefnyddio'r symbolau [i], [ɪ] ac [u] yn hytrach na [j], [j] a [w] ar gyfer cynrychioli ansoddau elfennau olaf deuseiniaid, dehonglir yma nad yw lled-lafariad yn ymddangos ar ddiwedd geiriau. Er hynny, pe buasid wedi trawsgrifio ffurfiau megis [gla:u] “glaw” a [tro:i] “troi” fel [gla:w] a [tro:j], gallesid fod wedi ystyried wedyn fod lled-lafariad yn bosibl ar ddiwedd geiriau. Nid mater o realiti seingol yw hyn mewn gwirionedd, felly, ond gwahanol gonfensiynau o ran y nodiant seingol y glynir wrtho.

6.1.4. Crynodeb o batrymau'r cytseiniaid sengl yn y ddwy ardal

Hyd yma, cafwyd golwg ar gytseiniaid y ddwy ardal, a thrafodwyd eu patrymau amrywio. Rhoddwyd sylw hefyd i rai cyfyngiadau ffonotactig sy'n codi yn achos rhai cytseiniaid sengl. Amcan yr isadran hon, felly, yw crynhoi'r prif ganfyddiadau a welwyd, gan gymharu defnydd y ddwy dafodiaith ohonynt. Dylid pwysleisio bod cryn debygrwydd rhwng y ddwy ardal o ran eu defnydd o gytseiniaid sengl, ac mai'r elfennau tebyg hynny a drafodir yn y lle cyntaf. Cyfeirir wedyn at fân wahaniaethau a gafwyd rhwng y ddwy dafodiaith. Eir ati wedyn yn 6.1.4.1 i drafod un nodwedd ffonolegol arall sy'n teilyngu sylw neilltuol oherwydd ei hamlygrwydd yn y canolbarth, sef y defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj].

Amrywiadau tebyg yn y ddwy ardal

- Yn gyntaf, o safbwynt ffrwydrolion y ddwy ardal, gwelwyd bod anadliad caled (yn ogystal ag affrithiad yn achos [t] ar adegau) yn dra chyffredin ar ôl y rhai di-lais ar ddechrau ac yng nghanol geiriau yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[p^hɛrθɪn] “perthyn”

[p^hɔt^hal] “potel”

[bɛk^hʊs] “becws”

Bro Dysynni

[t^hæ:n] “tân”

[p^hɛdwar] “pedwar”

[ak^har] “acer”

Ar ddiwedd geiriau, fodd bynnag, nodwyd bod anadliad caled yn llai cyffredin, er nad yn llwyr absennol yn y ddwy ardal fel y prawf y ffurfiau canlynol:

Cyffiniau Harlech

[tɔp^h] “top”

[ʃɔp^{hə}] “siop” (ar ddiwedd brawddeg)

Bro Dysynni

[*dɔp^h] “top”

- Cyferbyniol wedyn yw sefyllfa'r ffrwydrolion lleisiol, nid cymaint oherwydd yr elfen lleisiol sydd iddynt gan y bernir bod honno'n wan ar y cyfan yn y ddwy ardal, ond yn hytrach oherwydd na cheir anadliad caled byth yn dilyn y rhain.¹⁴⁵
- Gwelwyd uchod hefyd fod modd i union ansawdd y sain drawol / orfannol lleisiol [r] amrywio mewn gwahanol safleoedd yn y gair. Cafwyd yn y ddwy ardal, er enghraifft, achosion o'r gytsain grech [r] a'r gytsain gnithiedig [l] yn ymgyfnewid â'i gilydd ar ddechrau, canol a diwedd geiriau. Cafwyd y ffurfiau canlynol, er enghraifft:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[r] grech	[rəʊnd] "rownd" [χwara] "chwarae" [maur] "mawr"	[*raid] "rhaid" [kərað] "cyrraedd" [mo:r] "môr"
[l] gnithiedig	[feval] "'Refail" [mɔfis] "Morus" [ɔχɔl] "ochr"	[*fai] "rhai" [χwafa] "chwarae" [*bɛdwaf] "pedwar"

- Yn yr un modd, o safbwynt y sain ochrol lleisiol [l], nodwyd enghreifftiau o [ɫ] ('l dywyll') ac [ɭ] ('l olau') yn ymgyfnewid â'i gilydd mewn gwahanol safleoedd yn y gair, a hynny weithiau o fewn geiriau penodol, e.e.

¹⁴⁵ Yn y bennod hon, felly, cyferbynnir rhwng [p], [t], [k] ar y naill law, a [g], [b], [d] ar y llaw arall, drwy ystyried y set gyntaf yn ffrwydrolion di-lais, a'r llall yn ffrwydrolion lleisiol. Dylid pwysleisio er hynny nad y disgrifiadau hyn ohonynt sydd o angenrheidrwydd yn adlewyrchu orau y gwahaniaethau seinegol a geir rhwng y ddwy set hyn o ffrwydrolion. Gellir cyfeirio yn y cyswllt hwn at ymdriniaeth fanwl Glyn E. Jones (1984: 41) â'r cytseiniaid hyn, lle y trafodir y gwahaniaethau seinegol manwl a geir rhwng y ddwy set hyn o ffrwydrolion. Ceir hefyd dystiolaeth ystadegol a sbectrograffig ddefnyddiol gan Ball (1984: 13-18) sy'n profi bod yr amser a gymerir (mewn milieiliadau) i ryddhau'r ffrwydrolion hyn yn y Gymraeg ('the voice onset time', fel y'i gelwir) gryn dipyn yn hwy ar gyfer y rhai di-lais nag ydyw ar gyfer y rhai lleisiol.

Cyffiniau Harlech

[ɭaur] ~ [ʎaur] “(i) lawr”

[nadɔɭɪg] ~ [dɔɭɪg] “(Na)dolig”

[vɛɭ] ~ [vɛɭ] “fel

Bro Dysynni

[ɭaur] ~ [ɭaur] “(i) lawr”

[*bobɔɭ] ~ [*bobɔɭ] “pobl”

Ni chafwyd, fodd bynnag, yr un enghraifft o [ɭ] (‘l olau’) yn codi yng nghanol gair ym Mro Dysynni. Er gwaetha’r amrywio a welir yma, ymddengys mai’r fersiwn dywyll ar y sain sydd fwyaf cyffredin yn y ddwy ardal dan sylw.

- Yn olaf, dylid pwysleisio bod y dewis o gytseiniaid a ddefnyddir yn y ddwy ardal wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan ffactor ieithyddol hollbwysig, sef eu safle o fewn y gair. Dengys tabl 1 isod, felly, mai’r un un cyfyngiadau ffonotactig yn union a geir yn y ddwy ardal.

Tabl 1

A yw’r gytsain isod yn amhosibl ...	Ar ddechrau gair...		Yng nghanol gair...		Ar ddiwedd gair...	
	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?
Y ffrithiolyn di-lais deintiol [θ]	✓	✓				
Y ffrithiolyn lleisiol deintiol [ð]	✓	✓				
Y trwynolyn lleisiol felar [ŋ]	✓	✓				
Y sain drawol ddi-lais [r̥]			✓	✓	✓	✓
Y ffrwydrolion tafnodol [kj] / [gj]					✓	✓
Y ffrithiolyn glotal [h]					✓	✓

Amrywiadau gwahanol yn y ddwy ardal

- Y mae a wnelo'r unig wahaniaeth bychan y sylwyd arno rhwng y ddwy ardal â defnydd o'r sain drawol leisiol [r]. Yng nghyffiniau Harlech, nodwyd enghreifftiau o'r sain barhaol ddiffriithiad ôl-orfannol [ɹ] yn codi fel cytsain sengl yng nghanol ac ar ddiwedd geiriau, e.e.

Cyffiniau Harlech

[ʃaɹad] “siarad”

[aɹ] “ar”

[du:ɹ] “dŵr”

Ym Mro Dysynni, ar y llaw arall, ni nodwyd achosion tebyg o'r sain hon. Ni ellir bod yn sicr, fodd bynnag, ai gwahaniaeth rhwng y ddwy ardal fel y cyfryw a amlygir yma, ynteu a yw gwahanol amrywiadau ar y sain drawol leisiol yn bosibl gan wahanol unigolion, ni waeth o ba ardal y mae'r siaradwyr yn hanu.

6.1.4.1. Y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj]

Gellir ystyried mai'r elfen amlycaf y sylwyd arni o safbwynt amrywiadau cytseiniol yw'r modd yr amrywia'r ffrwydrolion felar di-lais a lleisiol [k] a [g] â'r ffrwydrolion taflodol cyfatebol [kj] a [gj] yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd. Nid yw hyn mewn gwirionedd yn hollol annisgwyl gan y gwelwyd eisoes ym mhennod 2 (2.2.3) fod astudiaethau blaenorol ar amrywiadau llafar yn y canolbarth yn trafod y nodwedd hon hefyd. Nodwyd, felly, enghreifftiau o'r ffenomen hon ar ddechrau ac yng nghanol geiriau, ond nid ar ddiwedd geiriau. Y mae'n werth pwysleisio hefyd y cafwyd enghreifftiau o'r cytseiniaid felar a'r rhai taflodol hyn yn ymglyfnwid o fewn y gair yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[kaus] ~ [kjaus] “caws”

[kærjɔ] ~ [kjærjɔ] “cario”

[kakan] ~ [kækjan] “cacen”

Bro Dysynni

[kɛɹ] ~ [kjɛɹ] “cer”

[kefɪl] ~ [kjefɪl] “ceffyl”

[tekaɪ] ~ [tekjɑɪ] “tegell”

Ymddengys ar hyn o bryd mai o flaen y llafariaid agored [a(:)] / [æ(:)] a'r rhai blaen hanner agored / hanner caeedig [ɛ] / [e(:)] yn unig y gwelir yr amrywio hwn ar waith. Fodd bynnag, cyn hyn, nid archwiliwyd yn fanwl erioed i ddefnydd siaradwyr y canolbarth o'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], ac ni chafwyd chwaith ddadansoddiad meintiol o'u defnydd mewn gwahanol rannau o'r canolbarth. Bwriedir, felly, ymdrin yn llawnach â defnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r nodwedd hon ym mhennod 9.

6.2. Clystyrau cytseiniol

Cafwyd yn y ddwy ardal amrywiaeth eang iawn o glystyrau cytseiniol. Yn hytrach na manylu ar bob un clwstwr unigol, penderfynwyd cyfyngu'r ymdriniaeth a ganlyn i deipiau cyffredinol o glystyrau, gan ddefnyddio termau megis 'sain argaeol' (*obstruent*), 'sonant' (*sonorant*) a lled-lafariaid er mwyn eu dosbarthu i wahanol grwpiau. Cynnwys 'seiniau argaeol' ffrwydrolion a ffrithiolion, tra bo 'sonantiaid' (neu gytseiniaid meddal, o roi enw arall arnynt) naill ai'n drwynolion neu'n hylifolion. Ystyrir na pherthyn y lled-lafariaid [w] / [j] i'r un o'r categorïau hyn. Defnyddir y termau hyn mewn ymdriniaethau eraill â thafodieithoedd y Gymraeg hefyd (gweler, e.e., Awbery, 1984: 86-90 a 1986: 86-94). Dylid pwysleisio yma nad rhestr gyflawn o glystyrau a geir isod, eithr rhai enghreifftiau ohonynt o fathau gwahanol. Bwriad yr adran hon, felly, yw amlinellu'r mathau o glystyrau cytseiniol a geir mewn gwahanol safleoedd o fewn geiriau, yn ogystal â manylu ar ansawdd ambell elfen gytseiniol lle y bo hynny'n briodol.

6.2.1. Y mathau o glystyrau a geir ar ddechrau geiriau

Gellir ystyried bod dau brif fath o glwstwr i'w cael yn y safle hwn sef rhai sydd â sain argaeol yn elfen gyntaf, a rhai sydd â sonant. Ymdrinnir â'r ddau fath hyn, felly, mewn isadrannau ar wahân (6.2.1.1. a 6.2.1.2. isod). Rhoddir sylw cryno wedyn yn 6.2.1.3 i rai clystyrau o dair cytsain sy'n ymddangos ar ddechrau geiriau. Noder na cheir clystyrau sydd â lled-lafariaid yn elfennau cyntaf ynddynt.

6.2.1.1. Clystyrau sydd â sain argaeol yn elfen gyntaf

Sain argaeol + sain argaeol

➤ Sain ffrithiol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sb]	[sbɔrt] “sbort”	- - -
[sd]	[sda:ɪr] “staer”	[sdæ:ɪr] “staer”
[sg] ¹⁴⁶	[sgert] “sgert”	[sgjɛnɔn] “(nid oe)s gennym (ni)”
[χd]	[χdi:] “chdi”	[χdi:] “chdi”

- O safbwynt ansawdd y ffrwydrolion uchod sy'n dilyn ffrithiolion di-lais, nid yn unig y maent yn ddi-lais, ond ni cheir iddynt chwaith anadliad caled yn eu dilyn.

Niwtraleiddir, felly, y cyferbyniad a geid fel rheol rhwng cytseiniaid di-lais a rhai lleisiol. O ganlyniad i hyn, gellir defnyddio symbolau'r ffrwydrolion di-lais neu'r rhai lleisiol ar gyfer cyfleu'r un realiti seinegol.¹⁴⁷ Rhaid dewis, felly, rhwng y ddwy set isod o gyfuniadau posibl:

¹⁴⁶ Ni chafwyd enghraifft o ffrwydrolyn taflodol ar ddiwedd clwstwr cytseinol yng nghyffiniau Harlech. Fodd bynnag, os ystyrir bod y ffurf [sgjɛnɔn] “(nid oe)s gennym” yn un uned, gellir dadlau y cafwyd ym Mro Dysynni enghraifft o ffrwydrolyn taflodol ar ddiwedd clwstwr cytseinol, a bod hyn yn gyson â'r ffurf [sgjert] “sgert” a nodwyd gan Alf Sommerfelt ar gyfer ardal Darowen (1925: 26). Noder mai [sgert] “sgert” yn unig a gafwyd yn ardal Harlech.

¹⁴⁷ Ymdrinnir yn fanylach â goblygiadau'r cymhlethdod hwn i seinegwyr gan Glyn E. Jones (1984: 43), lle y trafodir hefyd berthynas y clystyrau hyn â chonfensiynau cynganeddu yn y Gymraeg.

1. [sb], [sd], [sg]
2. [sp], [st], [sk]

Er cysondeb, felly, cedwir at y set gyntaf drwy gydol y traethawd hwn (lle y defnyddir symbolau'r ffrwydrolion lleisiol) er nad oes arwyddocâd seingol i'r penderfyniad hwnnw.

- Y mae'n werth nodi yn olaf nad oes modd cael clwstwr sy'n gyfuniad o **sain ffrwydrol + sain ffrithiol** yn y cyd-destun hwn yn yr un o'r ardaloedd. Amhosibl hefyd yw dilyniannau o ddwy sain ffrwydrol neu ddwy sain ffrithiol.

Sain argaeol + sonant¹⁴⁸

- Sain ffrwydrol + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[kn]	[knɛbrɔn] "cynhebrwng"	[knɛbrun] "cynhebrwng"

- Sain ffrwydrol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[tr]	[tre:n] "trên"	[tri:] "tri"
[dr]	[drɔsɔð] "drosodd"	[drəivjɔ] "dreifio"
[pr]	[prəni] "prynu"	[prəgeθi] "pregethu"
[br]	[braud] "brawd"	[bræud] "brawd"
[pl]	[plant] "plant"	[plænt] "plant"
[kr]	[krun] "crwn"	[krɔn] "crwn"

- O safbwynt ansawdd y sain drawol a geir ar ddiwedd rhai o'r clystyrau uchod, sylwyd mai'r sain barhaol ddiffrithiad ôl-orfannol (*approximant*) [ɹ] a ddilynai'r ffrwydrolion [t] a [d] gan amlaf yn y ddwy ardal,¹⁴⁹ e.e.

¹⁴⁸ Nid yw seiniau ffrithiol yn niferus iawn yn y math hwn o glwstwr yn yr un o'r ardaloedd.

¹⁴⁹ Fe'm hysbysir gan Dr Walter Brooks, brodor o Batagonia, fod Gwladfawyr yn ystyried bod defnydd o'r sain barhaol ddiffrithiad ôl-orfannol [ɹ] yn y clwstwr [tɹ] yn nodweddiadol o Sbaeneg siaradwyr Cymraeg o Gymru.

Cyffiniau Harlech

[tʃe:n] “trên”

[tʃu:] “trwy”

[dɪɔsɔð] “drosodd”

[*dɪaus] “(ar) draws”

Bro Dysynni

[tʃi:] “tri”

[tʃevɪð] “trefydd”

[tʃe:n] “trên”

[*dɪi:] “tri”

- Eithriadau i'r patrwm hwn, fodd bynnag, yw'r ffurfiau canlynol, lle y gwelir y gytsain gnithiedig [f] yn dilyn [t] / [d]:

Cyffiniau Harlech

[tʃiuant] “triwant”

[dʃei] *dry (cleaners)*

[dʃa:u] “draw”

Bro Dysynni

[dʃəivjɔ] “dreifio”

- Bernir mai cytsain gnithiedig a geir yn dilyn y ffrwydrolion dwy-wefusol [p] / [b] a'r rhai felar [k] / [g] yn y ddwy ardal, e.e.

Cyffiniau Harlech

[pʃəni] “prynu”

[bʃaud] “brawd”

[kʃun] “crwn”

Bro Dysynni

[pʃəgeθi] “pregethu”

[*bʃiɔdɔð] “priododd”

[kʃon] “crwn”

- Gwelir hefyd oddi wrth yr enghreifftiau uchod fod [r] (ni waeth beth fo'i hansawdd) yn ddi-lais yn dilyn y ffrwydrolion di-lais [p], [t] a [k], ond ei bod yn lleisiol yn dilyn y ffrwydrolion lleisiol [b], [d] a [g]. Ymddengys mai dyna'r patrwm hefyd yn achos y sain ochrol [l] gan y nodwyd bod y gytsain hon yn ddi-lais yn dilyn [p], e.e.

Cyffiniau Harlech

[pʃlant] “plant”

Bro Dysynni

[pʃænt] “plant”

Ansafonol, fodd bynnag, fyddai ffurfiau megis [ɛl tʃɛn] *el tren*, [tʃabaxɔ] *trabajo* a [tʃe'leu] “Trelew” gan mai'r [f] gnithiedig a ddisgwyldid mewn Sbaeneg safonol.

- Sain ffrithiol + sain drwynol

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ɫn] ¹⁵⁰ [ɫna:i] “glanhau”	---
[sm] ---	[smart] “smart”

- Sain ffrithiol + sain hylifol

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[fr] [fraɪŋk] “Ffrainc”	---

Sain argaeol + lled-lafariad

- Sain ffrwydrol + lled-lafariad

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[gw] [gwɛld] “gweld”	[gwaiθ] “gwaith”

- Y mae’n werth ychwanegu yma nad ystyrir bod y ffrwydrolion tafnodol [kj] a [gj] a geir ar ddechrau geiriau, e.e. yn [kjaus] “caws” a [gjavr] “gafr”, yn glystyrau cytseiniol. Bernir yn hytrach mai seiniau unigol ydynt yn y safle hwn (fel y gwelwyd eisoes yn 6.1.1 uchod), a chyfiawnheir y dehongliad hwn yn llawn yng nghyflwyniad pennod 9.¹⁵¹

- Sain ffrithiol + lled-lafariad

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[χw] [χwaiθ] “chwaith”	[χwa:ir] “chwaer”

¹⁵⁰ Gellir nodi yma mai yn y ffurf [ɫna:i] “ɫnau” (< ‘glanhau’) yn unig y cafwyd enghraifft o’r clwstwr [ɫn] yng nghyffiniau Harlech. Ymddengys, felly, na chafwyd y clwstwr hwn ar ddechrau geiriau ym Mro Dysynni gan mai [glən’ha:i] “glanhau” yw’r ffurf a gafwyd yno.

¹⁵¹ Noder, er hynny, fod modd ystyried [kj] a [gj] fel clystyrau cytseiniol yng nghanol geiriau mewn rhai achosion (gweler 6.2.2.1 isod).

6.2.1.2. Clystyrau sydd â sonant yn elfen gyntaf

Sonant + sain argaeol

Ni chafwyd clystyrau o'r math hwn ar ddechrau geiriau.

Sonant + sonant.

Ni chafwyd clystyrau o'r math hwn chwaith ar ddechrau geiriau.

Sonant + lled-lafariad

- Sain drwynol + lled-lafariad

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[nj]	[njaloχ] “(a)nialwch”	---

- Sain hylifol + lled-lafariad

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[rj]	[rjo:ɪd] “erioed”	[rjo:ɪd] “erioed”

- Gwelir, felly, na cheir **sonant + lled-lafariad** fel dilyniant ond mewn achosion eithriadol lle y collir llafariad ar ddechrau gair (a sillaf o ganlyniad i hynny).

Ar sail y deunydd a gyflwynwyd hyd yma, felly, ceisir yn nhabl 2 grynhoi y patrymau a geir o safbwynt y mathau o glystyrau sy'n bosibl ar ddechrau geiriau. Dangosir mai'r un sefyllfa a geir yn y ddwy ardal, ac mai **sain argaeol + sain arall** yw'r patrwm mwyaf arferol yn y sale hwn yn y ddwy dafodiaith.

Tabl 2

A geir y mathau canlynol o glystyrau...	Ar ddechrau geiriau...	
	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni
Sain argaeol + sain argaeol	✓	✓
Sain argaeol + sonant	✓	✓
Sain argaeol + lled-lafariad	✓	✓
Sonant + sain argaeol	X	X
Sonant + sonant	X	X
Sonant + lled-lafariad	✓	✓

6.2.1.3. Clystyrau sy'n cynnwys tair cytsain

Nid yw nifer y clystyrau cytseiniol sy'n cynnwys dilyniant o dair cytsain ar ddechrau geiriau yn niferus. Gwelir isod fod dau fath penodol o glystyrau i'w cael yn y ddwy ardal, a bod y ddau â seiniau argaeol yn elfennau cyntaf, a sonantiaid yn elfennau olaf.

Sain argaeol + sain argaeol + sonant

- Sain ffrithiol + sain ffrwydrol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sdr]	[sdri:d] “stryd”	[sdri:d] “stryd”
[sgr]	- - -	[sgrɔbjɔ] “sgrwbio”

- Gweler 6.2.1.1 uchod am fanylion seinegol ffrwydrolion sy'n dilyn ffrithiolion di-lais gan eu bod yn berthnasol i'r clystyrau [sdr] a [sgr] hefyd.

Sain argaeol + lled-lafariad + sonant

- Sain ffrwydrol + lled-lafariad + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[kwn]	- - -	[kwniŋan] “cwningen”

- Sain ffrwydrol + lled-lafariad + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[gwr]	[gwraig] “gwraig”	[gwri:χ] “gwrych”
[gwl]	[gwla:d] “gwlad”	[gwla:n] “gwlan”

6.2.2. Y mathau o glystyrau a geir yng nghanol geiriau

Yn debyg i'r sefyllfa ar ddechrau geiriau, gellir barnu mai dau brif fath o glwstwr sydd i'w cael yn y safle hwn hefyd sef rhai sydd â sain argaeol yn elfen gyntaf, a rhai sydd â sonant. Trafodir y ddau fath hyn yn eu tro, felly (yn 6.2.2.1 a 6.2.2.2 isod). Rhoddir sylw cryno wedyn yn 6.2.2.3 i rai clystyrau sy'n cynnwys tair cytsain yng nghanol gair.

Dylid pwysleisio yma hefyd nad ystyrir bod lled-lafariaid yn bosibl ar ddechrau clystyrau yn y safle hwn. Derbynnir er hynny mai confensiynau'r adysgrifio sydd eto wrth wraidd y dehongliad hwn yn hytrach nag unrhyw realiti seinegol. Pe trawsgrifid [eira] “eira” ac [oiðan] “oeddem (ni)” fel [ejra] ac [əjðan], dyweder, gellid wedyn ystyried [jr] ac [jð] fel clystyrau. Fodd bynnag, nid dyna a wneir yma.

6.2.2.1. Clystyrau sydd â sain argaeol yn elfen gyntaf

Sain argaeol + sain argaeol

➤ Sain ffrwydrol + sain ffrithiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ts]	- - -	[kabetsan] <i>cabbage</i>

- Y benthyciad Saesneg uchod yw'r unig enghraifft o'r math hwn o glwstwr. Ni chafwyd enghreifftiau tebyg yn codi yn ardal Harlech.¹⁵²

➤ Sain ffrithiol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sg]	[ɬisgɔ] “llusgo”	[əsgɔl] “ysgol”
[sd]	[əsdɪr] “ystyr”	[əsdɪr] “ystyr”
[ɬd]	[haldɪ] “halltu”	- - -

¹⁵² Gellir ychwanegu yma na cheir nemor ddim sail dros ystyried bod [ts] yn sain unigol. Ystyrir [ts] yn wahanol i'r affrithiolion [ʃ] a [dʒ], felly, yn enwedig gan y cafwyd tystiolaeth o [ʃ] yn treiglo yn feddal ac yn llaes yn [də dʒɪps] “dy jips” ac [i ʃɪps] “ei ships (hi)”.

- Yn yr un modd ag y gwelwyd ar ddechrau geiriau, niwtraleiddir y cyferbyniad a geid fel rheol rhwng ffrwydrolion di-lais a rhai lleisiol yn y clystyrau hyn yng nghanol geiriau hefyd. Gweler y manylion yn llawn yn 6.2.1.1 uchod.

➤ Sain ffrwydrol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[kd]	[sbekdɔl] “sbectol”	[trakdɔr] “tractor”

- Yn ail elfen y clwstwr hwn hefyd, bernir bod y cyferbyniad sy’n arferol rhwng ffrwydrolion lleisiol a rhai di-lais wedi ei niwtraleiddio, ac nad oes anadliad caled yn dilyn yr ail ffrwydrolyn. Gellid bod wedi trawsgrifio’r geiriau hyn, felly, â [kt] er mwyn adlewyrchu’r un realiti seinegol. Gellir barnu yng ngoleuni hyn fod niwtraleiddio ar waith mewn clystyrau sy’n cynnwys **sain argaeol** (boed ffrwydrol neu ffrithiol) + **sain ffrwydrol**.

➤ Sain ffrithiol + sain ffrithiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sv]	[trausvɔnɪð] “Trawsfynydd”	- - -
[ðv]		[sdɛðvɔd] “eisteddfod”

Sain argaeol + sonant

➤ Sain ffrwydrol + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[dn]	[adnɔd] “adnod”	- - -
[gn]	- - -	[ɛgni] “egni”

➤ Sain ffrwydrol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[bl]	[sdabla] “stablau”	- - -
[dr]	[gɔdro] “godro”	[ɛdrɨχ] “edrych”
[gl]	[ɛgluis] “eglwys”	- - -
[tr]	- - -	[bɨtraχ] “butrach”

- Yn debyg i’r sefyllfa ar ddechrau geiriau, gwelwyd amrywio ar waith o safbwynt ansawdd ail elfen y clystyrau [tr] a [dr]. Mewn rhai ffurfiau, nodwyd mai’r sain barhaol ddiffrihiad ôl-orfannol [ɹ] a geid yn y ddwy ardal, e.e.

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[pɛntɹɹa] “pentref” ¹⁵³	[kartɹa] “cartref”
[adɹa] “adref”	[kærtɹa] “cartref”

- Bernir, fodd bynnag, mai’r gytsain gnithiedig [l] a geir gan mwyaf yn y ddwy dafodiaith pan ddaw’r clystyrau hyn yng nghanol gair. Sylwyd ar y sain honno yn y ffurfiau canlynol:

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[adfa] “adref”	[bɨtɹaχ] “butrach”
[gɔdfɔ] “godro”	[mɔdfɨb] “modryb”
[pɛndɹɨn] “Penrhyn”	[ɛdɹɨχ] “edrych”

- Gwelir oddi wrth yr enghreifftiau uchod fod [r], boed ôl-orfannol neu gnithiedig, yn ddi-lais yn dilyn y ffrwydrolyn di-lais [t], ond yn lleisiol yn dilyn y ffrwydrolyn lleisiol [d].

¹⁵³ Gweler [ntr] a [rtr] yn yn yr enghreifftiau o glystyrau sy’n cynnwys tair cytsain yn 6.2.2.3 isod.

➤ Sain ffrithiol + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sn]	[sɪsnag] “Saesneg”	[sɪsnæg] “Saesneg”
[vn]	[kɛvna] “cefnau”	---

➤ Sain ffrithiol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[θr]	[*riθrɔ] “rhuthro”	[səθri] “sathru”
[θl]	---	[dathli] “dathlu”
[vr]	---	[*lɔvra] “llyfrau”

Sain argaeol + lled-lafariad

➤ Sain ffrwydrol + lled-lafariad

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[pj]	[tɔpjax] “topiach”	---
[tj]	[gatja] “gatiâu”	---
[kj]	[tɔkja] “tociau”	[sbɛkjan] “sbecian”
[dw]	[pɛdwar] “pedwar”	[pɛdwar] “pedwar”

- Mewn clystyrau lle y ceir ffrwydrolion di-lais yn rhagflaenu lled-lafariad, clywir anadliad caled fel rheol yn dilyn yr elfennau cyntaf, e.e. yn [tɔp^hjax] “topiach”, [gat^hja] “gatiâu” a [sbɛk^hjan] “sbecian”.
- Dylid pwysleisio yma hefyd nad ystyrir mai ffrwydrol yn taflodol yw'r [kj] uchod, e.e. yn [tɔkja] “tociau” a [sbɛkjan] “sbecian”. Dehonglir yn hytrach fod dwy elfen y clwstwr hwn yn perthyn i forffemau gwahanol, a'u bod mewn gwirionedd yn annibynnol ar ei gilydd. Trafodir y gwahaniaeth hwn, felly, rhwng y ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] a'r clwstwr [kj] mewn mwy o fanylder yng nghyflwyniad pennod 9.

➤ Sain ffrithiol + lled-lafariad

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[fj]	[kufjɔ] “cwffio”	[kɔvjɔ] “cofio”
[ðj]	[dəðja] “dyddiau”	[dɛvnəðjɔ] “defnyddio”

6.2.2.2. Clystyrau sydd â sonant yn elfen gyntaf

Sonant + sain argaeol

➤ Sain drwynol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[mp]	[*gɔmpas] “(o) gwmpas”	[*gɔmpas] “(o) gwmpas”
[mb]	[ɫambad] “Llanbedr”	[ambaɫ] “ambell”
[nd]	[handi] <i>handy</i>	[*bɛndant] “pendant”
[ŋk]	[paŋkan] “pancan”	[*lɔŋki] “llyncu”

- O safbwynt y clystyrau uchod sy’n ddilyniannau o **seiniau trwynol + ffrwydrolion**, ymddengys bod y ffurfiau a gafwyd yn amlygu cyfyngiad ffonotactig pwysig sef mai’r un man cynanu yn y geg sydd i ddwy elfen pob clwstwr perthnasol. Dwy sain ddwy-wefusol a geir yn [mp] / [mb], felly, ac yn yr un modd, dwy sain ddeintiol a geir yn [nd], a dwy sain felar sydd yn [ŋk].
- Diau y gellid dehongli mai cymathu tuag at yr ail elfen a wna’r trwynolyn mewn rhai geiriau. Cymerer, er enghraifft, y ddwy ffurf ganlynol a gafwyd ym Mro Dysynni:

Bro Dysynni

[brɪŋˈkri:g] “Bryn-crug”; [tɪmˈbrɪn] “Ty’n Bryn”

Gwelir mai “bryn” yw’r elfen gyffredin yn y ddwy ffurf, ond mai yn y gyntaf yn unig y gwelir bod [n] ddeintiol yn datblygu’n [ŋ] felar. Prawf hyn mai cymathu tuag at y ffrwydrolyn felar [k] a wna trwynolyn y ffurf gyntaf.

- Yn yr un modd, gellir nodi’r ddwy ffurf ganlynol a gafwyd yng nghyffiniau Harlech:

Cyffiniau Harlech

[ɫandanɔg] “Llandanwg”; [ɫambad] “Llanbedr”

Y tro hwn, yr elfen gyffredin yn y ddau enw yw “Llan”, ond gwelir mai yn yr ail ffurf yn unig y gwelir bod [n] ddeintiol yn datblygu’n [m] ddwy-wefusol. Unwaith eto, gellid barnu mai drwy gymathiad â’r ffrwydrolyn dwy-wefusol [b] y digwydd hyn.

- Sylwyd hefyd yn y ddwy ardal ar ddiffyg anadliad caled ar ôl ffrwydrolion di-lais a ddilynai drwynolion mewn clwstwr, e.e. yn [*gompas] “(o) gwmpas”, h.y. nid [mp^h] a nodwyd.

➤ Sain hylifol + sain ffrwydrolyn

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[rb]	[kɛrbɨd] “cerbyd”	[arbad] “arbed”

➤ Sain drwynol + sain ffrithiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ms]	[æmsar] “amser”	[amsar] “amser”

➤ Sain hylifol + sain ffrithiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[rθ]	[gwarθag] “gwartheg”	[gwarθag] “gwartheg”
[rð]	[gerði] “gerddi”	

Sonant + sonant

➤ Sain drwynol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[mr]	[kəmri] “Cymru”	- - -
[ŋl]	- - -	[aŋlað] “angladd”

- Sain hylifol + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[lm]	[alman] “Almaen”	- - -
[rn]	- - -	[dilɔrn ^ə i] “dilorni”

- Sain hylifol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[rl]	[harlaχ] “Harlech”	[ɛrlɪd] “erlid”

- Noder na chafwyd dilyniant o ddwy sain drwynol yn y safle hwn yn yr un o’r ardaloedd.

Sonant + lled-lafariad

- Sain drwynol + lled-lafariad

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[nw]	[gɛnwar] “genwair”	- - -
[nj]	[tanjɔ] “tanio”	[kɪnjɔ] “cinio”

- Sain hylifol + lled-lafariad

[lj]	[χwɪljɔ] “chwilio”	[brɔljɔ] “brolio”
[rw]	[*vɛrwi] “berwi”	[*vɔrwɪn] “morwyn”

Yn yr un modd ag a wnaed yn achos y mathau o glystyrau cytseiniol sy’n bosibl ar ddechrau geiriau, crynhoir yn nhabl 3 isod y patrymau a welwyd hyd yma yng nghanol geiriau. Gwelir bod sefyllfa’r ddwy ardal yn dra thebyg i’w gilydd yn y safle hwn eto, a bod y posibiladau yn ehangach y tro hwn na’r hyn a welwyd ar ddechrau geiriau (cymharer â thabl 2).

Tabl 3

A geir y mathau canlynol o glystyrau...	Ar nghanol geiriau	
	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni
Sain argaeol + sain argaeol ¹⁵⁴	✓	✓
Sain argaeol + sonant	✓	✓
Sain argaeol + lled-lafariad	✓	✓
Sonant + sain argaeol	✓	✓
Sonant + sonant	✓	✓
Sonant + lled-lafariad	✓	✓

¹⁵⁴ Y mae a wnelo'r unig wahaniaeth bychan a geir rhwng y ddwy ardal yn y cyd-destun penodol hwn â'r ffurf [kabetsan] "cabetsien" a gafwyd ym Mro Dysynni, lle y ceir enghraifft eithriadol o glwstwr sy'n ddilyniant o **sain ffrwydrol + sain ffrithiol** (gweler 6.2.2.1 uchod). Yr affrithiolion [tʃ] / [dʒ] a gafwyd yng nghanol y gair hwn yng nghyffiniau Harlech.

6.2.2.3. Clystyrau sy'n cynnwys tair cytsain

Ceir yn y safle hwn hefyd glymau cytseiniol sy'n ddilyniannau o dair cytsain. Nodir isod rai enghreifftiau o fathau gwahanol.

Sain argaeol + sain argaeol + sonant

- Sain ffrithiol + sain ffrwydrol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sdr]	[vesdri] “festri”	[ħesdri] “llestri”

- Gweler 6.2.1.1 uchod am fanylion seinegol ffrwydrolion sy'n dilyn ffrithiolion di-lais gan fod y niwtraleiddio a geir yn [sd] yn berthnasol i'r ffurfiau uchod hefyd.

Sain argaeol + sonant + sain argaeol

- Sain ffrithiol + sain drwynol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[vnd]	[kɛvndar] “cefnder”	- - -

Sonant + sain argaeol + sonant

- Sain drwynol + sain ffrwydrol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ntr]	[pɛntra] “pentref”	[mentrɔ] “mentro”

- Sain drwynol + sain ffrithiol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[nθr]	[kənθrɔn] “cynrhon”	[kənθrɔn] “cynrhon”

- Sain hylifol + sain ffrwydrol + sain hylifol

Cyffiniau Harlech

- - -

Bro Dysynni

[kartra] “cartref”

Sonant + sain argaeol + lled-lafariad

- Sain hylifol + sain ffrithiol + lled-lafariad

Cyffiniau Harlech

[rθj] [dɔsbarθjada] “dosbarthiadau” - - -

Bro Dysynni

6.2.3. Y mathau o glystyrau a geir ar ddiwedd geiriau

Fel a wnaed yn achos clystyrau a geir ar ddechrau ac yng nghanol geiriau, rhennir y rhai sydd ar ddiwedd geiriau hefyd i ddau brif fath sef rhai sydd â sain argaeol yn elfen gyntaf, a rhai sydd â sonant. Ymdrinnir â'r ddau fath hyn yn annibynnol ar ei gilydd eto, felly (yn 6.2.3.1 a 6.2.3.2 isod). Eir ati wedyn yn 6.2.3.3 i fanylu ynghylch y defnydd a wneir o lafariaid epenthetig yn y ddwy ardal ynghyd â'u perthynas â gwahanol glystyrau. Noder na chafwyd dilyniannau o dair cytsain yn y safle hwn yn yr un o'r ardaloedd.

Dylid pwysleisio yma hefyd nad ystyrir bod lled-lafariaid yn bosibl ar ddechrau clystyrau yn y safle hwn. Fel yr eglurwyd eisoes ar ddechrau 6.2.2, ar sail y confensiynau adysgrifio y dehonglir hyn. Er hynny, o drawsgrifio [mawr] “mawr” a [tajr] “tair”, dyweder, yn hytrach na [maur] a [tair], gellid ystyried wedyn fod clystyrau fel [jr] ac [jð] yn bosibl yn y safle hwn. Fodd bynnag, ni wneir hynny yma.

6.2.3.1. Clystyrau sydd â sain argaeol yn elfen gyntaf

Sain argaeol + sain argaeol

- Sain ffrwydrol + sain ffrithiol

Ni chafwyd clystyrau o'r math hwn yn y safle hwn.

- Sain ffrithiol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[sd]	[po:sd] “post”	[*gli:sd] “clust”
[ld]	[me:ld] “mellt”	[gwi:ld] “gwyllt”
[sg]	[að:sg] “addysg”	[pæ:sg] “Pasg”

- Yn debyg i'r hyn a welwyd yn achos y clystyrau hyn ar ddechrau ac yng nghanol geiriau, niwtraleiddir yma'r cyferbyniad a geid fel rheol rhwng ffrwydrolion lleisiol a

rhai di-lais pan y'u rhagflaenir gan ffrithiolion di-lais. Gweler y manylion yn llawn yn 6.2.1.1 uchod.

- Sain ffrithiol + sain ffrithiol

Ni chafwyd clystyrau o'r math hwn yn y safle hwn.

- Sain ffrwydrol + sain ffrwydrol

Ni chafwyd clystyrau o'r math hwn yn y safle hwn.

Sain argaeol + sonant

- Sain ffrithiol + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[vn]	[ɔvn] “ofn”	[ɔvn] “ofn”

- Sain ffrithiol + sain hylifol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[vr]	[gavr] “gafr”	[ɬvr] “llyfr”

- O ran y ddau fath uchod o glystyrau lle y ceir sain ffrithiol + sonant, y mae'r werth nodi yma nad yw defnydd siaradwyr Bro Dysynni ohonynt yn gyson (gweler 6.2.3.3 am fanylion pellach).
- O safbwynt clystyrau sy'n cynnwys sain ffrwydrol + sain drwynol neu sain ffrwydrol + sain hylifol (h.y. sain ffrwydrol + sonant), nis cafwyd yn yr un o'r ardaloedd. Ceisir rhoi cyfrif am yr absenoldeb hwn, felly, yn 6.2.3.3 isod.

Sain argaeol + lled-lafariaid

Ni cheir clystyrau o'r math hwn ar ddiwedd geiriau yn yr un o'r ardaloedd.

6.2.3.2. Clystyrau sydd â sonant yn elfen gyntaf

Sonant + sain argaeol

➤ Sain drwynol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[mp]	[p̥mp] “pump”	[lɔmp] “lwmp”
[nt]	[plant] “plant”	[kant] “cant”
[ŋk]	[ivæŋk] “ifanc”	[ivæŋk] “ifanc”

- Yn debyg i'r hyn a welwyd yng nghanol gair yn achos clystyrau sy'n ddilyniannau o **seiniau trwynol + ffrwydrolion**, gwelir bod cyfyngiad ffontactig cyffelyb ar glystyrau o'r math hwn ar ddiwedd geiriau hefyd sef bod i ddwy elfen y clwstwr yr un man cynanu yn y geg. Sylwer, felly, mai dwy sain ddwy-wefusol a geir yn [mp], mai dwy sain ddeintiol a geir yn [nt], ac yn yr un modd, mai dwy sain felar sydd yn [ŋk].
- Yn y safle hwn hefyd, sylwyd yn y ddwy ardal ar ddiffyg anadliad caled ar ôl ffrwydrolion a ddilynai drwynolion mewn clwstwr, e.e. yn [p̥mp] “pump”, [plant] “plant” ac [ivæŋk] “ifanc”, h.y. nid [nt^h], [mp^h] a [ŋk^h] a geir.

➤ Sain hylifol + sain ffrwydrol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ld]	[gwæld] “gweld”	[gwæld] “gweld”

➤ Sain drwynol + sain ffrithiol¹⁵⁵

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ns]	[dʒo:ns] <i>Jones</i>	[dʒo:ns] <i>Jones</i>

¹⁵⁵ Ymddengys nad yw'r math hwn o glwstwr yn arferol gan mai yn y benthyciad *Jones* yn unig y'i ceir. Ffurf gyffredin arall yn y gogledd sy'n diweddu â [ns] yw [tro:ns] “trôns”, ond ni chodwyd y ffurf hon o'r cyfweliadau a gafwyd.

- Sain hylifol + sain ffrithiol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[rð]	[harð] “hardd”	[hʊrð] “hwrdd”
[rθ]	[dɛuɾθ] “ewythr”	[ʊrθ] “wrth”
[rɣ]	[kʲerɣ] “cerch”	[mɛrɣ] “merch”

Sonant + sonant

- Sain hylifol + sain drwynol

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[rm]	[farm] “fferm”	[farm] “fferm”
[rn]	[darn] “darn”	[forn] “ffwrn”

- Ni chafwyd, er hynny, ddilyniannau o **sain drwynol + sain hylifol** yn y cyd-destun hwn. Cynigir yn 6.2.3.3 isod fod a wnelo’r bwllch hwn â defnydd o lafariaid epenthetic.
- Ni cheir chwaith glystyrau sy’n cynnwys dwy sain drwynol neu ddwy sain hylifol ar ôl ei gilydd.

Sonant + lled-lafariaid

Ni cheir clystyrau o’r math hwn ar ddiwedd geiriau yn yr un o’r ardaloedd.

Yn debyg i’r hyn a wnaed ar gyfer y clystyrau cytseiniol a geir ar ddechrau ac yng nghanol geiriau, felly, crynhoir yn nhabl 4 isod y patrymau a welwyd hyd yma ar ddiwedd geiriau. Gwelir mai’r un darlun a bortreedir ar gyfer y ddwy ardal yn y safle hwn eto. Yn wahanol i’r sefyllfa a geir mewn safleoedd eraill, fodd bynnag, sylwer na ellir cael lled-lafariad yn ail elfen mewn clwstwr yn y safle hwn.

Tabl 4

A geir y mathau canlynol o glystyrau...	Ar ddiwedd geiriau...	
	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni
Sain argaeol + sain argaeol	✓	✓
Sain argaeol + sonant	✓	✓
Sain argaeol + lled-lafariad	X	X
Sonant + sain argaeol	✓	✓
Sonant + sonant	✓	✓
Sonant + lled-lafariad	X	X

6.2.3.3. Llafariaid epenthetig

Nid yw tabl 4 uchod, fodd bynnag, yn ddigon ar gyfer cyfleu'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau a welir rhwng defnydd y ddwy ardal o lafariaid epenthetig, a'r modd y dylanwada hyn ar y dewis o glystyrau sy'n bosibl ar ddiwedd geiriau. Ymdrinnir isod, felly, â'r tir cyffredin a rennir rhwng y ddwy ardal o safbwynt y ffenomen hon, cyn y nodir wedyn rai amrywiadau sy'n wahanol yn y ddwy ardal.

Enghreifftiau o lafariaid epenthetig sy'n debyg yn y ddwy ardal

i) Rhwng sain ffrwydrol a sain hylifol

Nodwyd eisoes na chafwyd enghraifft o **sain ffrwydrol** + **sain hylifol** yn ymddangos ar ddiwedd gair. Gellir dadlau, er hynny, mai lafariaid epenthetig (neu lafariaid ymwithiol) sy'n arferol rhwng y seiniau hyn yn y safle hwn yn y ddwy ardal. Gellir cefnogi'r dehongliad hwn drwy gymharu ffurfiau y bernir mai lafariaid epenthetig sydd ynddynt i ffurfiau perthynol yr ychwanegir terfyniadau / ôl-ddodiaid atynt, lle yr adferir y clystyrau yng nghanol gair.

Cafwyd, er enghraifft, y parau canlynol o ffurfiau yn y ddwy ardal:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[dr] / [tr]	[bidɪr] "budr"; [bɪtraɪ] "butrach"	[bidɪr] "budr"; [bɪtraɪ] "butrach"
[bl]	[sdabal] "stabl"; [sdabla] "stablau"	- - -
[br]	[luɪbɪr] "llwybr"; [*luɪbra] "llwybrau"	[sobɔr] "sobr"; [sɔbri] "sobri"
[gl]	- - -	[mangəɫ] "mangl"; [manglɔ] "manglo"

Cafwyd hefyd ffurfiau eraill lle'r ymddengys mai lafariaid epenthetig a geir yn eu sillafodd olaf. Fodd bynnag, yn wahanol i'r enghreifftiau uchod, ni ellir cymharu'r rhain i ffurfiau perthynol iddynt lle yr adferir clystyrau o sain ffrwydrol + sain hylifol yng nghanol gair. Er hynny, gan mai'r patrwm a welir ar ddiwedd ffurfiau fel [sdabal] "stabl" a [sobɔr] "sobr" yw **sain ffrwydrol** + **llafariad** (sydd fel rheol yn rhagweladwy ac yn cyfateb i lafariad flaenorol)

+ **sain hylifol**, ac mai hwn hefyd yw'r patrwm sylfaenol a welir yn y ffurfiau isod, y mae'n dra thebygol mai llafariad epenthetig a welir yn sillafodd olaf y rhain hefyd:¹⁵⁶

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[bl]	[*gubul] “cwbl” [*bobol] “pobl”	[*gubul] “cwbl” [bøibul] “Beibl”
[gr]	[lɔɪgar] “Lloegr”	[lɔɪgar] “Lloegr”
[kr]	[sikɪr] “sicr”	
[pr]	[kɔpɔr] “copr” ¹⁵⁷	

Fodd bynnag, yn achos y gair amlsillafog “ffenstr”, gwelwyd datblygiad gwahanol ar waith ym Mro Dysynni. Gwelwyd yn iaith un o siaradwyr yr ardal y ddwy ffurf ganlynol yn ymgynwys â'i gilydd:

[fenasɔ] ~ [fɛnɛsdɔr] “ffenstr”

Yn y naill ffurf, yn hytrach na chynnwys llafariad epenthetig rhwng y ffrwydrolyn a'r sonant, symleiddir y clwstwr [sɔr] yn [sɔ], ac o ganlyniad dwy sillaf yn hytrach na thair sydd i'r ffurf hon, a swir yr ‘a’ fel y gwneir mewn sillafodd olaf diacen arferol. Gellir dehongli mai ymgais i ffurfioli a welir yn yr ail ffurf, lle y gwelir ei bod yn agosach i'r ffurf orgraffyddol safonol. Bernir er hynny fod y llafariad hanner agored ganol [ə] yn bresennol rhwng y ffrwydrolyn a'r sonant.

¹⁵⁶ Ymddengys fel petai orgraff y Gymraeg hefyd yn cadarnhau hyn gan nad yw fel rheol yn cydnabod bodolaeth llafariad epenthetig.

¹⁵⁷ Ceir gan Sweet (1913: 517-18) restr mwy cyflawn o'r ffurfiau hyn yn ymddangos yn Nant Gwynant, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r geiriau a nodwyd yma. Gelwir y llafariad hyn ganddo yn ‘parasitic unstressed vowels’. Er mai clystyrau rhwng sain ffrwydrolyn a sain hylifol y gwelir llafariad epenthetig yn y ffurfiau uchod, nid oes gennyf reswm i gredu y byddai clwstwr o sain ffrwydrolyn + sain drwynol (h.y. sain ffrwydrolyn + sonant eto) yn ymddwyn yn wahanol yn yr un o'r ddwy dafodiaith. Clywais, er enghraifft, [gwadan] “gwadn” yn ogystal â [gwadna] “gwadnau” (lle y gwahenir y clwstwr [dn] ar ddiwedd geiriau) yn ardal Harlech.

ii) Rhwng sain drwynol a sain hylifol

Gwelwyd hefyd fod clystyrau sy'n cynnwys **sain drwynol + sain hylifol** yn absennol yn y ddwy ardal. O gymharu'r ffurf ganlynol ar "aml" (a nodwyd yn y ddwy ardal) â ffurf berthynol yr ychwanegir ati yr ôl-ddodiad "-ach" (a gafwyd yn ardal Harlech yn unig), ymddengys mai llafariad epenthetic sydd eto'n rhoi cyfrif am hyn:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ml]	[amal] "aml"; [amlax] "amlach"	[amal] "aml"

Gan mai dilyniant o **sain drwynol + llafariad** (sy'n cyfateb i'r llafariad flaenorol) + **sain hylifol** yw'r patrwm yn [amal] "aml", ac mai dyna'n union a geir yn y ffurf isod hefyd, gellir dadlau fod yma ail enghraifft o lafariad epenthetic yn ymddangos yn yr un cyd-destun:¹⁵⁸

	<u>Cyffiniau Harlech</u>
[ŋl]	[*gɔŋɔl] "congl"

iii) Rhwng y sain ffrithiol felar a sain hylifol

Er y gwelwyd bod dilyniannau o sain ffrithiol + sain hylifol yn bosibl ar ddiwedd gair, e.e. yn [gavr] "gafir" a [lɛvr] "llyfr", ymddengys mai eithriad i'r patrwm hwn yw pan geir y sain ffrithiol felar [χ] ar ddechrau'r math hwn o glwstwr. Ar sail y ffurf berthynol [ɔχri] "ochri" a glywais droeon yn ardal Harlech (er nas recordiwyd gennyf), gellir dehongli mai llafariad epenthetic a welir yn y ffurfiau canlynol ar "ochr":

<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ɔχɔr] "ochr"; [ɔχri] "ochri"	[ɔχɔr] / [oχɔr] "ochr"

O blith y llafariad epenthetic a drafodwyd hyd yma, dylid pwysleisio na welwyd yr un o'r ffurfiau uchod yn ymgynwys â ffurf a gynhwysai glwstwr. Mewn geiriau eraill, ni chafwyd paru o ffurfiau megis [lɔɪgar] ~ [lɔɪgr], [amal] ~ [aml] neu [ɔχɔr] ~ [ɔχr] yn amrywio â'i gilydd. Ymddengys, felly, fod y patrymau uchod wedi ymsefydlu yn gadarn yn y ddwy dafodiaith dan sylw.

¹⁵⁸ Ymddengys fod yr orgraff eto'n cadarnhau mai llafariad epenthetic a geir yn "aml" a "congl".

Enghreifftiau o lafariaid epenthetig sy'n wahanol yn y ddwy ardal

Nodwyd un gwahaniaeth pwysig rhwng defnydd siaradwyr y ddwy ardal o glystyrau cytseiniol. Ym Mro Dysynni yn unig y cafwyd enghreifftiau o lafariaid epenthetig yn ymddangos ar ddiwedd geiriau rhwng y **sain ffrithiol wefus-ddeintiol [v]** a **sonantiaid** (seiniau trwynol a hylifol). Gwelwyd eisoes, er hynny, nad yw'r clystyrau [vr] a [vn] yn amhosibl ym Mro Dysynni yn y safle hwn. O ganlyniad, felly, ceir amrywio ar waith yno rhwng y parau canlynol o ffurfiau, a hynny o fewn llafar yr unigolyn:

Bro Dysynni

[ɔvn] ~ [ovan] “ofn” (gan B.R)

[ɬvr] ~ [ɬvɐr] “llyfr” (gan E.W)

Yn ardal Harlech ar y llaw arall, y clystyrau [vr] a [vn] a gafwyd yn gyson, e.e. yn [gavr] “gafr” a [kjɛvn] “cefn”.

Er mai â thafodieithoedd deheuol y cysylltir defnydd o ffurfiau fel [ovan] “ofn” a [ɬvɐr] “llyfr” fel rheol (gweler, e.e, Awbery, 1984: 89-90), y mae'n amlwg eu bod hefyd yn gyffredin mewn rhannau o'r canolbarth, fel y tystia ymdriniaeth Sommerfelt â hwy (1925: 221). Fodd bynnag, yn wahanol i barau megis [ɬuɪbɐr] “llwybr” / [*ɬuɪbra] “llwybrau” a [bidɐr] “budr” / [bɪtrax] “butrach”, lle y gwelwyd bod lafariaid epenthetig rhwng dilyniant o **sain ffrwydrol + sonant** yn gyfyngedig i ddiwedd geiriau yn y ddwy ardal,¹⁵⁹ cafwyd ambell enghraifft ym Mro Dysynni o lafariaid epenthetig yn ymddangos rhwng **sain ffrithiol a sonant** yng nghanol geiriau hefyd, e.e.

Bro Dysynni

[dɔvɛrg^əi] “dyfrgi”

[dɔvɛrgʊn] “dyfrgwn”

Unwaith eto, ni chafwyd ffurfiau o'r math hwn yn ardal Harlech.

¹⁵⁹ Eithriad posibl (nas cafwyd) yw'r gair “posibilrwydd”, lle y cydnabyddir bodolaeth llafariad epenthetig yng nghanol gair yn yr orgraff safonol.

6.2.4. Crynodeb o batrymau'r clystyrau cytseiniol yn y ddwy ardal

Gwelwyd yn yr isadrannau blaenorol fod defnydd cyffiniau Harlech ac eiddo Bro Dysynni o glystyrau cytseiniol yn drawiadol o debyg i'w gilydd. Crynhoir isod, felly, y patrymau tebyg a welwyd yn y ddwy ardal, cyn yr edrychir i gloi ar wahaniaethau bychain a geir rhwng defnydd y ddwy ardal o'r clystyrau hyn.

Patrymau tebyg yn y ddwy ardal

- Gwelwyd yn y ddwy ardal fel y niwtraleiddir y cyferbyniad a geid fel arfer rhwng ffrwydrolion di-lais a rhai lleisiol geiriau pan y'u rhagflaenir gan ffritholion di-lais. Digwydd hyn ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd geiriau o'r math canlynol:

Cyffiniau Harlech

[χdi:] "chdi"

[hald̪i] "halltu"

[að̪sg] "addysg"

Bro Dysynni

[sdæ:ir] "staer"

[əsgol] "ysgol"

[gwi:ld] "gwyllt"

- Tebygrwydd arall a welwyd rhwng y ddwy ardal yw'r cyfyngiad ffonotactig a geir mewn clystyrau o **sain drwynol** + **sain ffrwydrol**, sef bod dwy elfen y rhain wedi eu cyflyru i fod yn debyg o ran eu man cynanu, boent yng nghanol neu ar ddiwedd gair. Yn [mp], er enghraifft, ceir dwy sain ddwy-wefusol, tra ceir dwy sain ddeintiol yn [nt] a dwy sain felar yn [ŋk]. Nodir isod enghreifftiau o'r cyfyngiad hwn ar waith yn y ddwy ardal:

Cyffiniau Harlech

[mb] [lambad] "Llanbedr"

[nd] [handi] *handy*

[ŋk] [paŋkan] "pancan"

Bro Dysynni

[ambał] "ambell"

[*bendant] "pendant"

[*ləŋki] "llyncu"

[mp] [pɪmp] "pump"

[nt] [plant] "plant"

[ŋk] [ivaŋk] "ifanc"

[lɔmp] "lwmp"

[kant] "cant"

[ivæŋk] "ifanc"

- O ran ansawdd y sain drawol [r] mewn clystyrau wedyn, sylwyd bod amrywio ar waith pan y’i rhagflaenid mewn clwstwr gan y ffrwydrolion deintiol [t] / [d]. Er mai [t̥] / [d̥], lle y ceid y gytsain barhaol ddiffrihiad ôl-orfannol yn elfen olaf, a oedd fwyaf cyffredin ar ddechrau gair, cafwyd hefyd enghreifftiau o’r gytsain gnithiedig [f] yn yr un safle yn y ddwy ardal, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ɹ] ôl- orfannol	[t̥e:n] “trên” [*d̥ɹaus] “(ar) draws”	[t̥i:] “tri” [*d̥i:] “tri”
[f] gnithiedig	[t̥ɹuant] “triwant”	[d̥ɹɪvɹɔ] “dreifio”

Sylwyd hefyd ar yr un math o amrywio ar waith yng nghanol gair, a chafwyd yr argraff fod y gytsain gnithiedig [f] yn fwy cyffredin yn y safle hwn nag ydoedd ar ddechrau gair, e.e.

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
[ɹ] ôl- orfannol	[pɛnt̥ɹa] “pentref” [ad̥ɹa] “adref”	[kart̥ɹa] “cartref”
[f] gnithiedig	[ad̥fa] “adref” [gɔd̥fɔ] “godro”	[bɪt̥ɹaχ] “butrach” [mɔd̥fɪb] “modryb”

- Ystyriaeth hollbwysig arall wrth gloriannu defnydd y ddwy ardal o glystyrau cytseinol yw’r cyfyngiadau ffonotactig sydd arnynt, h.y. y modd y cyflyrir y defnydd o wahanol fathau o glystyrau gan eu safleoedd o fewn y gair. Amlygwyd y patrymau hyn eisoes yn nhablau 2, 3 a 4 uchod. Er hwylustod wrth gymharu patrymau gwahanol safleoedd â’i gilydd, felly, cyplyswyd canlyniadau’r tablau hyn ar gyfer eu crynhoi i gyd yn nhabl 5 isod. Gwelir oddi wrth y tabl hwn, felly, fod sefyllfa’r ddwy ardal i’w gweld yn union debyg o ran eu defnydd o glystyrau o wahanol fathau mewn gwahanol gyd-destunau. O ran y gwahaniaethau a welir rhwng y gwahanol safleoedd, fodd bynnag, gwelir nad yw sonantiaid yn arferol fel elfennau cyntaf clystyrau sy’n ymddangos ar ddechrau geiriau,

ond eu bod er hynny yn gyffredin yng nghanol ac ar ddiwedd geiriau, e.e. yn [gwarθag] “gwartheg” a [darn] “darn”. Gwelir oddi wrth y tabl hefyd na all lled-lafariad ymddangos fel elfennau olaf clystyrau ar ddiwedd geiriau, ond bod modd iddynt godi ar ddechrau ac yng nghanol ffurfiau, e.e. yn [gweld] “gweld” a [gatja] “gatiu”.

- Er bod tabl 5 hefyd yn dangos bod **sain argaeol + sonant** yn ddilyniant posibl mewn clystyrau ym mhob un o’r tri safle, dylid pwysleisio yma er hynny na fyddai hynny’n wir pe ystyrir clystyrau o **sain ffrwydrol + sonantiaid** yn benodol. Ceid wedyn y sefyllfa a ddarlunnir yn nhabl 6. Gwelir yma fod y math hwn o glwstwr yn arferol ar ddechrau ac yng nghanol gair, e.e. yn [knebrun] “cynhebrwng” a [godrɔ] “godro”, ond yn absennol ar ddiwedd geiriau. Gellir egluro’r bwlch hwn drwy ddehongli mai llafariad epenthetig sy’n rhwystro’r clystyrau hyn rhag ymddangos ar ddiwedd geiriau (gweler 6.2.3.3 uchod).

Tabl 5

A geir y mathau canlynol o glystyrau...	Ar ddechrau geiriau...		Yng nghanol geiriau...		Ar ddiwedd geiriau...	
	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?
Sain argaeol + sain argaeol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Sain argaeol + sonant	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Sain argaeol + lled-lafariad	✓	✓	✓	✓	X	X
Sonant + sain argaeol	X	X	✓	✓	✓	✓
Sonant + sonant	X	X	✓	✓	✓	✓
Sonant + lled-lafariad ¹⁶⁰	✓	✓	✓	✓	X	X

¹⁶⁰ Ni cheir y math hwn o glwstwr ar ddechrau geiriau ond mewn ffurfiau eithriadol lle y collir eu sillafoddedd cychaf, e.e. [rjo:ɪd] “erioed” a [njalɔχ] “anialwch”.

Tabl 6

A geir y mathau canlynol o glystyrau...	Ar ddechrau geiriau...		Yng nghanol geiriau...		Ar ddiwedd geiriau...	
	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?
Sain ffrwydrol + sonant	✓	✓	✓	✓	X	X

Patrymau gwahanol yn y ddwy ardal

- O safbwynt clystyrau cytseiniol, diau fod y gwahaniaeth amlycaf y sylwyd arno rhwng y ddwy ardal yn ymwneud â defnydd o lafariaid epenthetic rhwng y **sain ffrithiol wefus-ddeintiol [v]** a **sonant**. Ym Mro Dysynni yn unig y cafwyd enghreifftiau o lafariaid epenthetic yn ymddangos rhwng elfennau'r clwstwr hwn, ar ddiwedd ac yng nghanol geiriau. Nodwyd, fodd bynnag, fod y clystyrau [vr] a [vn] yn gwbl bosibl yn yr un cyd-destunau. Gwelwyd, felly, ymgyfnewid ar waith rhwng y ffurfiau canlynol:

Bro Dysynni

[ɔvn] ~ [ovan] “ofn” (gan B.R)

[ɫvr] ~ [ɫɔvr] “llyfr” (gan E.W)

Yn ardal Harlech ar y llaw arall, gwelir defnydd hollol gyson o [vr] a [vn].

Awgryma'r gwahaniaeth hwn yn gryf, felly, fod iaith Bro Dysynni yn cyfannu nodweddion deheuol a rhai gogleddol fel ei gilydd oherwydd ei lleoliad daearyddol, tra bo patrymau ardal Harlech ar y llaw arall yn fwy sefydlog ogleddol.

6.3. Cymhariaeth o batrymau'r cytseiniaid yn y ddwy ardal

Ymdriniwyd yn fanwl yn y bennod hon â chytseiniaid sengl cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni (yn 6.1 uchod) yn ogystal â chlystyrau cytseinol y ddwy ardal hyn (yn 6.2 uchod).¹⁶¹ O ran y cytseiniaid sengl yn gyntaf, diau mai'r hyn a oedd fwyaf trawiadol oedd y tebygrwydd sylweddol a geid rhwng patrymau'r ddwy ardal. Nodwyd, er enghraifft, mai'r un cytseiniaid a gafwyd yn y ddwy ardal, a'u bod yn ymddangos yn yr un safleoedd. Tynnwyd sylw hefyd at y modd y ceid amrywiadau tebyg yn y ddwy dafodiaith o safbwynt ansawdd rhai seiniau. Sylwyd, er enghraifft, ar ymgyfnewid rhwng [p^h], [t^h] a [k^h] (h.y. gydag anadliad caled yn dilyn y ffrwydrolion di-lais) a [p], [t] a [k] (h.y. diffyg anadliad caled yn dilyn yr un seiniau), a hynny mewn gwahanol safleoedd yn y ddwy ardal. Daeth i'r amlwg hefyd fod 'l olau' ac 'l dywyll' yn amrywio â'i gilydd yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni, a bod amrywiaeth o ansoddau i'w chael yn achos y sain drawol [r]. Ni ellir dweud, felly, fod unrhyw wahaniaethau amlwg i'w cael rhwng y ddwy ardal o safbwynt y cytseiniaid sengl.

Yn olaf o safbwynt cytseiniaid sengl, gellir barnu bod un nodwedd ffonolegol a oedd yn amlwg yn y ddwy ardal yn teilyngu sylw neilltuol. Y nodwedd dan sylw yw'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], sy'n amrywio â'r ffrwydrolion felar cyfatebol [k] a [g]. Ar sail astudiaethau blaenorol o dafodieithoedd y canolbarth, gellir ystyried bod y cytseiniaid taflodol hyn yn gyffredin mewn sawl rhan o'r canolbarth (gweler pennod 2). Ymddengys ar hyn o bryd, felly, fod defnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] yn debyg o ran y cyd-destunau sy'n eu caniatáu, h.y. ar ddechrau ac yng nghanol geiriau yn unig y'u cafwyd yn y ddwy ardal (gweler enghreifftiau yn 6.1.4.1). Fodd bynnag, ni fwriedir cymryd hynny'n ganiataol yn y traethawd hwn, ac eir ati ym mhennod 9 i ddadansoddi defnydd siaradwyr ardal Harlech a Bro Dysynni o'r seiniau hyn mewn cryn fanylder. Ceisir hefyd gyfiawnhau yng nghyflwyniad pennod 9 y modd y gellir gwahaniaethu rhwng y seiniau

¹⁶¹ Ni chymherir ffurfiau'r ddwy ardal yn fanwl yn yr adran hon gan y gwnaed hynny eisoes yng nghrynodebau'r ddwy adran flaenorol (gweler 6.1.4 a 6.2.4). Pwysleisio'r prif elfennau tebyg a'r mân wahaniaethau a welwyd yw'r nod yn hytrach.

taflodol [kj] / [gj], e.e. yn [kjaus] “caws” a [kjefɪl] “ceffyl”, a’r clwstwr [kj] a geir, er enghraifft, yn [tɔkja] “tociau” a [sbɛkjan] “sbecian” (gweler 6.2.2.1 uchod).

Fel yn achos cytseiniaid sengl, sylwyd hefyd ar gryn debygrwydd rhwng defnydd ardal Harlech a Bro Dysynni o glystyrau cytseiniol. Nodwyd eto mai’r un mathau o glystyrau yn union a geid yn y ddwy ardal, ac mai yn yr un safleoedd yr ymddangosent (gweler tablau 5 a 6 yn 6.2.4 uchod). Gwelwyd hefyd mai’r un amrywiaeth o ansoddau a oedd i’w gweld mewn rhai mathau o glystyrau. O safbwynt y sain drawol [r], er enghraifft, sylwyd bod [ɹ] ôl-orfannol a [ʀ] gnithiedig yn amrywio â’i gilydd yn dilyn ffrwydrolion mewn gwahanol safleoedd. Yn olaf, y mae’r unig fân wahaniaeth y sylwyd arno o safbwynt defnydd y ddwy ardal o glystyrau cytseiniol yn ymwneud â dilyniant o **sain ffrithiol wefus-ddeintiol [v] + sonant**. Tra bo defnydd ardal Harlech o [vr] a [vn] ar ddiwedd geiriau yn hollol gyson, sylwyd bod modd i’r rhain gael eu gwahanu gan lafariaid epenthetic ym Mro Dysynni (gweler enghreifftiau yn 6.2.4 uchod).

6.4. Y cam nesaf

Yn adran B y traethawd hwn, rhoddwyd gorolwg cyffredinol ac eang o batrymau ffonolegol y llafariaid syml, y deuseiniaid a’r cytseiniaid a geir yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni. Yn yr adran nesaf, felly, canolbwyntir yn fanylach ar ddefnydd y ddwy ardal o bedair nodwedd ffonolegol benodol, sef yr ‘u ogleddol’ [i(:)] / [ɪ], yr ‘æ fain’ [æ(:)], y cytseiniaid taflodol [kj] a [gj], a’r llafariaid hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)]. Yn wahanol i ganlyniadau’r adran hon, a oedd yn bennaf seiliedig ar iaith dau siaradwr o bob ardal, bydd chwe siaradwr o ardal Harlech a chwe arall o Fro Dysynni yn sail i ddadansoddiadau’r adran nesaf a fydd yn fwy meintiol eu natur.

ADRAN C:

**DADANSODDIADAU MEINTIOL O BEDAIR NODWEDD
FFONOLEGOL BENODOL YN Y DDWY ARDAL**

PENNOD 7: Yr ‘u ogleddol’

7. Cyflwyniad

Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 3, y mae dadansoddiadau Adran C yr astudiaeth hon yn fwy meintiol eu natur. Yn ogystal â mesur yn fanwl ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal dan sylw o’r ‘u ogleddol’ [i(:)] / [ɨ] yn y bennod hon, eir ati yn y tair pennod sy’n dilyn i ddadansoddi mewn modd tebyg ddefnydd yr un ardaloedd o’r nodweddion ffonolegol eraill sy’n ganolog i’r astudiaeth hon, sef yr ‘æ fain’ [æ(:)], y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], a’r llafariad hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)].

Fel y mae map 3 pennod 2 o eiddo B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 32) yn ei awgrymu, nodwedd a gysylltir â gogledd Cymru fel rheol yw’r defnydd o’r llafariad gaeedig ganol. Yr hyn a geir yn y gogledd, felly, yw cyferbyniad rhwng [i(:)] gaeedig ganol ac [i(:)] gaeedig flaen,¹⁶² e.e. rhwng [ti:] “tŷ” a [ti:] “ti”. Mewn tafodieithoedd deheuol, fodd bynnag, collir y cyferbyniad hwn. Canlyniad hyn, felly, yw bod dau air fel “ti” a “tŷ” yn homoffonau yn y de a yngenir yn gyson â’r llafariad gaeedig flaen [i:]. Nid edrychwyd erioed yn fanwl, fodd bynnag, ar yr union fodd y collir cyferbyniad yn raddol rhwng [i(:)] / [ɨ] ac [i(:)] / [ɪ] mewn ardaloedd o ganolbarth Cymru, a dyna y bwriedir ei wneud yn y bennod hon. Fel y gwelwyd ym mhennod 2, y gred draddodiadol yw bod ffin bendant yn rhedeg drwy rannau o’r canolbarth, ac nid oes dim dwywaith na fu’r isoglos a ddisgrifiwyd gan Thomas Darlington yn 1902 yn ddyllanwadol wrth greu’r rhagdybiaeth honno. Fodd bynnag, y mae’r cryn amrywio a welwyd ym mhenodau 4 a 5 rhwng y llafariad caeedig ganol [i(:)] / [ɨ] a’r llafariad caeedig blaen [i(:)] / [ɪ] ym Mro Dysynni yn awgrymu bod y darlun gwirioneddol yn gymhlethach na hynny. Amcan pennaf y bennod hon, felly, yw archwilio i’r amrywio a welir ar waith o safbwynt nodwedd yr ‘u ogleddol’, gan gymharu defnydd cyffiniau Harlech a Bro Dysynni ohoni. Yn gyntaf, trafodir defnydd ardal Harlech o’r nodwedd yn 7.1. Eir ati wedyn yn 7.2 i ddadansoddi’r patrymau amrywio sydd ar waith ym Mro Dysynni, a thynnir cymariaethau rhwng sefyllfa’r ddwy ardal yn 7.3. Yn olaf, trafodir yn 7.4 oblygiadau’r canlyniadau a gyflwynir yn y bennod hon, ac ystyrir hefyd gyd-destun ehangach y nodwedd hon.

¹⁶² Er eglurder, dynodi bod hyd llafariad yn opsiynol y mae (:), e.e. cynnwys [i(:)] y llafariad hir [i:] yn ogystal â’r llafariad fer [i].

7.1. Cyffiniau Harlech

Ar sail fy nadansoddiad o ddefnydd dau siaradwr (D.O ac E.J) o'r llafariaid caeedig canol a'r rhai blaen cyfatebol ym mhob cyd-destun perthnasol, gellir dweud yn hyderus fod y defnydd o'r 'u ogleddol' yn hollol sefydlog a chyson yng nghyffiniau Harlech, ac na cheir amrywio ar waith o safbwynt y nodwedd ffonolegol hon. Er eglurder, felly, nodir isod enghreifftiau o [i(:)] / [ɨ] yn ymddangos mewn gwahanol gyd-destunau yn iaith Harlech a'r cylch.

- Geiriau unsill; llafariaid hir: [i:n] "un", [bi:d] "byd", [ti:] "tŷ"
- Geiriau unsill; llafariaid byrion: [mɛnd] "mynd", [pɛmp] "pump", [gwɛn] "gwyn"
- Geiriau unsill; elfen gyntaf deusain: [diu] "Duw", [bɛu] "byw"
- Geiriau unsill; ail elfen deusain: [lu:i] "llwy", [bu:ɪd] "bwyd", [tru:ɪn] "trwyn"
- Goben acennog; llafariaid hir: [di:aɪ] "deall", [kani:ɔn] "caneuon", [wi:a] "wyau"
- Goben acennog; llafariaid byrion: [sisɔn] "Saeson", [mɛnd] "munud", [bɛta] "bwyta"
- Goben acennog;¹⁶³ ail elfen deusain: [dɛiɑr] "daear", [puiso] "pwyso", [ɔiɾɑχ] "oerach"
- Sillaf olaf ddiacen;¹⁶⁴ llafariaid byrion: [kani] "canu", [dɛsgɪ] "dysgu", [wɛdɛn] "wedyd"

¹⁶³ Noder na chafwyd enghreifftiau o [i] / [ɨ] yn ymddangos fel elfen gyntaf deuseiniaid yn y goben acennog. Diau fod [i] / [ɨ] yn bosibl, er hynny, mewn geiriau fel "bywiog" a "Duwiol", ond eu bod yn absennol yn y data drwy hap a damwain.

¹⁶⁴ Ni chafwyd enghraifft o'r 'u ogleddol' yn codi yn y sillaf olaf acennog yn yr ardal hon.

- Sillaf ragobennol; llafariad byrion: [gwɛlɔdjɔn] “gwaelodion”,
[sɛsnigæð] “Seisnigaidd”

Er gwaethaf sefydlogrwydd y llafariad gaeedig ganol yn nalgylch Harlech, daeth yn amlwg er hynny nad yw’r orgraff Gymraeg bob tro yn llinyn mesur dibynadwy o ran gwybod a yngenir [i(:)] / [ɪ] mewn ffurfiau ai peidio. Rhestrir isod, felly, yr enghreifftiau a gafwyd o [i(:)] / [ɪ] mewn geiriau lle y ceir “u”, “y”, “ae”, “yw” neu “wy” yn yr orgraff.

- Geiriau unsill; llafariad hir: [(i) gi:d] “(i) gyd”¹⁶⁵
- Geiriau unsill; llafariad byrion: [i] “eu”¹⁶⁶
- Geiriau unsill; elfen gyntaf deusain: [*riu] “rhyw”
[kiu] “cyw”
- Goban acennog; llafariad byrion: [igjan] “ugain”
[inɪg] / [rɪnɪg] “(yr) unig”

¹⁶⁵ Gellir cynnig mai cymathu at yr [i(:)] sydd fel rheol yn rhagflaenu’r gair y mae’r llafariad hir yma. O’r rhan fy hun, [i gi:d] ‘i gyd’ a ddywedwn yn gyson, tra ceid [i:] hir yn fy ynganiad o’r priod-ddull [ar ə ki:d] ‘ar y cyd’.

¹⁶⁶ Y mae’n briodol egluro yma mai [i] yw’r ynganiad llafar arferol ar gyfer y rhagenwau personol dibynnol blaen 3^{ydd} unigol a 3^{ydd} lluosog ‘ei’ ac ‘eu’. Ymdrinnir â’r rhagenwau hyn gan Ifor Williams (1946), lle’r awgrymir yn gryf mai ar ddelw’r ffurf Ladin *eius* y crëwyd y ffurfiau orgraffyddol ‘ei’, ‘ein’ ac ‘eich’ gan William Salesbury yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Cyn hynny, ‘i’, ‘yn’ ac ‘ych’ a ysgrifennid ar gyfer y rhagenwau hyn, a chyfetyb hyn i’r ynganiadau [i], [ən] ac [əχ] sy’n dal ar lafar heddiw. Pwysleisia Ifor Williams fod ‘ei’, ‘ein’ ac ‘eich’ yn enghreifftiau tra phrin o ‘gyfnewidiadau orgraff a wnaeth [Salesbury] sydd wedi aros yn ein hiaith lenyddol ni’ (1946: 43). Diau fod ‘sanctaidd’ yn un arall o’r rhain (cf. Llad. *sanctus*). Mae’n ddiddorol, fodd bynnag, nad yw Ifor Williams yn ystyried bod [ei] / [əi] yn ynganiadau safonol neu’n rhai cymeradwy. Cymerer y sylw hwn, er enghraifft: ‘Wrth ddarllen y Beibl yn gyhoeddus... mae rhai, ysywaeth, yn tueddu i ynganu *ei* fel *yi*...’ (1946: 43).

- Sillaf olaf ddiacen; llafariaid byrion:
 - [*ðɛnig] “denyg” (< ‘dihengyd’; cf. [dʒɛŋɪd] yn y de)
 - [divɪr] “difyr”
 - [dɪlɪn] “dilyn”
 - [dɪsgɪn] “disgyn”
 - [ɛrgɪd] / [ɛrgid] “ergyd”
 - [gɪlɪð] “gilydd”
 - [jɛχɪd] “iechyd”
 - [mɛnθɪg] “menthyg”
 - [*bɛrɪg] “peryg(l)” (enw)
 - [*bɛrɪg] “peryg(lus)” (ansoddair)
 - [həɪni] “rheiny” (< ‘rhai hynny’; cyffredin hefyd yw’r sillafiad “rheini”)
 - [*rium] “rhywun”
 - [tɛbɪg] “tebyg”
 - [*dɪpɪn] “tipyn”
 - [ədi] “ydy”
 - [əndi] “ydy”
- Goben acennog; elfen gyntaf deusain:
 - [*riuvaint] “rhywfaint”
 - [*rium] “rhywun”
- Goben acennog; ail elfen deusain:
 - [tuini] “twyni”
- Sillaf olaf ddiacen; elfen gyntaf deusain:
 - [amriu] “amryw”
 - [bɛniu] / [*vaniu] “benyw”
 - [gɔriu] “gwryw”
- Sillaf olaf acennog; ail elfen deusain:
 - [kəmˈra:ɪg] / [kəmˈræ:ɪg] “Cymraeg”

Y mae'n briodol yn y cyswllt hwn nodi bod John Morris-Jones (gweler, er enghraifft, 1913: 110-13 a 1925: 245-49) yn ymdrin â nifer o'r ffurfiau uchod, lle yr yngenir ynddynt [i(:)] / [ɪ] yn gyson yn y gogledd er na chydabyddir hynny gan yr orgraff. Yn ogystal â rhestru gwahanol eiriau, ceir ganddo ddadansoddiad o'r amryfal amgylchiadau seinegol sy'n egluro pam yr yngenir [i(:)] / [ɪ] yn hytrach nag [i(:)] / [ɪ̃] ym mhob ardal o Gymru. Cymerer yr esboniad hwn yn *Cerdd Dafod*, er enghraifft:

Seinir -yg ddiacen yn -ig drwy Gymru oll er y ddeuddegfed ganrif, fel yn *tebig*, *meddig*, *cerrig*, *diffig*, etc.; -ic a sgrifennir yn yr hen lawysgrifau, ac nid yw'r -yg diweddar ond casgliad o'r tarddiadau *tebygu*, *meddygon*, etc., sy'n dangos mai -yg yw'r sain wreiddiol, ac nid -ig fel yn *pendefig*, *pendefigion*. Odlir *dychymig*, *diffig*, *cynnhebig*, etc., gan Gynddelw [Brydydd Mawr]... (Morris-Jones, 1925: 247)

Ceir hefyd ymateb i sylwadau John Morris-Jones ar y pwnc hwn gan D. J. Bowen (1997), lle y nodir enghreifftiau pellach o [i] / [ɪ] mewn ffurfiau lle na cheir "i" yn yr orgraff.

Llwydda'r ymdriniaethau hyn, felly, i gadarnhau nad yn ardal Harlech yn unig yr yngenir [i(:)] / [ɪ] mewn rhai geiriau, lle nad yw'r orgraff yn awgrymu hynny. Cymerir, felly, fod y ffurfiau hyn, lle y ceir [i(:)] / [ɪ] ynddynt yn gyson, yn amherthnasol i nodwedd yr 'u ogleddol' ym mhob ardal o Gymru, a bod sgorau siaradwyr cyffiniau Harlech felly yn 100% ym mhob cyd-destun unsill ac amlsillafog o safbwynt eu defnydd o'r seiniau caeedig canol [i(:)] / [ɪ̃]. Fel y gwelir yn y man, y mae i hyn hefyd oblygiadau wrth ddadansoddi'r defnydd o'r 'u ogleddol' mewn ardaloedd trawsnewid megis Bro Dysynni.

7.2. Bro Dysynni

Yn sgil fy nadansoddiad manwl o batrymau ffonolegol dwy siaradwraig ym Mro Dysynni (B.R. ac E.W.), sylwyd bod amrywio ar waith rhwng y seiniau caeedig canol [i(:)] / [ɪ] a'r rhai caeedig blaen cyfatebol [i(:)] / [ɪ] mewn nifer o gyd-destunau gwahanol (gweler penodau 4 a 5). Amlyga'r parau canlynol o ffurfiau, felly, fod amrywio rhwng y llafariad ogleddol a'r un ddeheuol yn gyffredin, nid yn unig o fewn y gair, ond yn aml o fewn llafar yr unigolyn:

- Geiriau unsill; llafariaid hir: [bɪ:d] ~ [bi:d] “byd”, [ɦi:n] ~ [hi:n] “llun”, [ti:] ~ [ti:] “tŷ”
- Geiriau unsill; llafariaid byrion: [bɪθ] ~ [bɪθ] “byth”, [kɪn] ~ [kin] “cyn”, [pɪmp] ~ [pɪmp] “pump”
- Geiriau unsill; elfen gyntaf deusain: [bɪu] ~ [biu] “byw”, [pɪu] ~ [piu] “Puw”, [ɦuχ] ~ [iuχ] “uwch”
- Geiriau unsill; ail elfen deusain: [mu:ɦ] ~ [mu:i] “mwy”, [ko:ɦd] ~ [ko:ɪd] “coed”, [da:ɦ] ~ [da:i] “dau”
- Goben acennog; llafariaid hir: [dɪ:aɦ] ~ [di:aɦ] “deall”, [bɪ:an] ~ [bi:an] “buan”
- Goben acennog; llafariaid byrion: [*wɪðɔχ] ~ [*wɪðɔχ] “gwyddoch”, [ɦna] ~ [ɦna] “hyn’na”, [sɪsnag] ~ [sɪsnag] “Saesneg”
- Goben acennog; ail elfen deusain¹⁶⁷: [təɦiɦ] ~ [*dəɦiɦ] “teulu”, [muɦa] ~ [muɦa] “mwyaf”

¹⁶⁷ Fel yn ardal Harlech, ni chafwyd enghreifftiau o [i] / [ɪ] yn ymddangos fel elfen gyntaf deuseiniaid yn y goben acennog. Go brin eu bod yn amhosibl, fodd bynnag, gan y byddai ffurfiau ar “bywiog” a “Duwiol”, er enghraifft, yn cyfateb i “byw” a “Duw”, dwy ffurf unsill a gafwyd ym Mro Dysynni ag [i] / [ɪ].

- Sillaf olaf ddiacen; llafariaid byrion: [kəsgɪ] ~ [kəsgɪ] “cysgu”, [hɛlpi] ~ [hɛlpi] “helpu”, [wɛdɪn]~[wɛdɪn] “wedyndyn”
- Sillaf olaf acennog; llafariaid hir: [əm'i:sg] “ymysg” ac [əŋ'hi:d] “ynghyd” (ond nid o fewn y gair)

Ar sail yr amrywio hwn, felly, penderfynwyd archwilio'n fanylach i'r defnydd o'r 'u ogleddol' yn iaith chwe siaradwr ym Mro Dysynni. Ar gyfer y nodwedd hon, felly, barnwyd bod dau sylweddoliad posibl ym mhob cyd-destun; naill ai [i(:)] / [ɪ] neu [i(:)] / [ɪ]. Teimlir er hynny fod union ansawdd yr 'u ogleddol' ar y cyfan yn fwy blaen ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech, yn enwedig mewn llafariaid hir. Fodd bynnag, canolbwyntio ar amllder y seiniau hyn yn hytrach na'u gwahanol ansoddau posibl y bwriedir ei wneud yma.

Ar ôl adysgrifio pob ffurf berthnasol, felly, lluniwyd rhestri yn nhrefn yr wyddor yn nodi pob ffurf berthnasol, a rhoddwyd nifer y tocynnau a gafwyd ar gyfer pob ffurf neu deip (*type*) mewn cromfachau. Dangosir hyn yn eglur isod mewn rhan o dabl a wnaed ar gyfer un siaradwr (E.W), a hynny ar gyfer un cyd-destun penodol, sef llafariaid syml hir mewn geiriau unsill (o dan yr acen).

Llafariaid syml hir mewn geiriau unsill (o dan yr acen)	
[i:]	[i:]
[bi:d] “byd” (1)	[bi:d] “byd” (10)
	[*gli:sd] “clust” (1)
[kri:g] “Crug” (1)	[kri:g] “Crug” (2)
	[*ðri:d] “drud” (2)
[di:ð] “dydd” (1)	[di:ð] “dydd” (3)
	[*ði:n] “dyn” (3)
	[*li:b] “gwlyb” (1)
[gwri:χ] “gwrych” (1)	[gwri:χ] “gwrych” (1)
	[*wi:χ] “gwyh” (3)
	[gwi:ld] “gwyllt” (1)

Drwy lunio rhestri fel hyn, gallesid cyfrifo'r sgorau perthnasol, sef canrannau y tocynnau a gynhwysai 'u ogleddol'. Crynhoir y canlyniadau hyn, felly, mewn graffiau yn 7.2.1. a 7.2.2 isod, lle y mae llinellau o wahanol liwiau yn cynrychioli sefyllfa'r 'u ogleddol' mewn amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol gwahanol. Er eglurder, cadwyd sgorau pob siaradwr ar wahân, a hynny ar gyfer pob cyd-destun ieithyddol perthnasol, er mwyn peidio â rhagdybio bod y defnydd a wneir o'r sain yn unffurf ymhlith y grŵp, neu'n debyg mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Dylid pwysleisio imi hefyd beidio â chynnwys y geiriau hynny lle y gwelwyd mai [i(:)] / [ɪ] a geir ynddynt yn gyson yn ardal Harlech, h.y. ffurfiau fel [(i) gi:d] “i gyd” ac [igjan] “ugain”. Fel y nodwyd eisoes, bernir nad yw'r geiriau hyn yn berthnasol i nodwedd yr 'u ogleddol', ac y byddai eu cynnwys yr un mor annibynadwy â chynnwys ffurfiau fel [ki:] “ci” a [tɔri] “torri” gan mai [i(:)] sy'n arferol ynddynt. Trafodir isod y canlyniadau yn llawn, a cheir y data cyflawn sy'n sail i ganlyniad pob graff yn ymddangos yn yr atodiad. Ystyrir sefyllfa llafariaid syml o wahanol fathau yn gyntaf yn 7.2.1, cyn y bwrir golwg wedyn yn 7.2.2 ar ddeuseiniaid a all gynnwys 'u ogleddol' fel un o'u helfennau.

7.2.1. Llafariaid syml

Canolbwyntir i ddechrau ar y defnydd a wneir o'r llafariaid caeedig canol [i(:)] / [ɨ] mewn geiriau unsill, cyn yr ymdrinnir wedyn â'r sefyllfa mewn gwahanol gyd-destunau amlsillafog.

7.2.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir

Yn gyntaf, gwelir ar linell las graff 7.1 gryn amrediad o sgorau gan y chwe siaradwr yn rhychwantu rhwng 58% a 15%. Cafwyd y canrannau hyn drwy gyfuno dau fath o lafariaid, sef llafariaid sy'n hir o dan yr acen bwys, e.e. yn [di:ð] "dydd", a llafariaid byrion nad ydynt o dan yr acen bwys, ond a fyddai'n hir pe byddent, fel yn [di (ɨ:n)] "dydd (Llun)", er enghraifft. Penderfynwyd, fodd bynnag, fod angen grwpio'r ddau fath hyn o lafariaid ar wahân i'w gilydd rhag ofn eu bod yn ymddwyn yn wahanol i'w gilydd.


O safbwynt canlyniadau'r llafariaid sy'n hir o dan yr acen, felly, gwelir ar linell goch graff 7.1 amrywiaeth sylweddol o sgorau, gyda chanrannau y tocynnau sydd ag [i:] hir yn rhychwantu o 52% i 0%. Dylid nodi yma mai'r siaradwraig hynaf (14/06/1913) sydd â'r sgôr uchaf, tra bo'r ieuengaf (27/04/1951) ar 0%.¹⁶⁸ Eithaf tebyg yw oedrannau'r siaradwyr eraill (rhwng 79 ac 83 oed), ond gwelir nad yw sgorau'r pedwar hyn yn unffurf o gwbl, er eu bod yn ymddangos rhwng B.R, sy'n sylweddol hŷn na hwy, ac R.P, sydd gryn dipyn yn iau. Awgryma'r canlyniad hwn, felly, fod y defnydd o'r 'u ogleddol' yn gostwng **ar hyn o bryd** yn y cylch, a'i bod yn debygol y gallasai defnydd cenedlaethau iau Bro Dysynni o'r sain fod yn gyffredinol is na'r hyn a geir gan y chwe siaradwr hyn.

Gwelir ar linell werdd graff 7.1, fodd bynnag, fod y llafariaid byrion a fyddai'n hir pe baent o dan yr acen, e.e. yn [dið] "dydd" ac [in] "un", yn ymddwyn yn dra gwahanol i lafariaid sy'n hir o dan yr acen, h.y. yr hyn a geid yn [di:ð] "dydd" a [bɨ:d] "byd". Gwelir bod canrannau pob un o'r siaradwyr yn sylweddol uwch yn y cyd-destun hwn, a bod y sgorau hefyd yn fwy unffurf â'i gilydd. Y mae'r gwahaniaethau a welir rhwng y llinellau coch a gwyrdd felly'n

¹⁶⁸ Gweler pennod 3 (3.2.3) ar gyfer manylion y siaradwyr yn llawn.

cadarnhau bod angen cadw'r ddwy set o lafariaid ar wahân, a bod yr acen bwys yn dylanwadu'n fawr ar ddefnydd pob siaradwr o'r 'u ogleddol'.


Graff 7.1



7.2.1.2. Geiriau unsill; llafariaid byrion (o dan yr acen)


Yng ngraff 7.2, adlewyrchir y sefyllfa pan gymerir ffurfiau fel [mɨnd] "mynd" a [kɨn] "cyn" i ystyriaeth, lle y ceir llafariaid byrion o dan yr acen y tro hwn (yn wahanol i'r hyn a geir yn [dið] "dydd" ac [in] "un"). Darlun go unffurf, felly, a gyfleir yn ngraff 7.2, lle y gwelir bod y sgorau'n pendilio rhwng 76% a 61%. Ceir awgrym, fodd bynnag, fod y defnydd o'r 'u ogleddol' gan R.P, y siaradwraig ieuengaf, unwaith eto'n is nag ydyw gan y gweddill o'r siaradwyr.

Graff 7.2



O gymharu'r llafariaid byrion hyn, felly, â'r rhai sy'n fyr oherwydd nad ydynt o dan yr acen, e.e. yn [dið] "dydd" ac [ɪn] "un", amlygir ar linellau gwyrdd a choch graff 7.3 na cheir gwahaniaethau mawr rhwng canlyniadau'r ddau gyd-destun hyn. Gwelir yn eglur ar y llinell las hefyd fod y llafariaid "gwirioneddol hir" i'w gweld yn ymddwyn yn hollol wahanol i lafariaid byrion o bob math, boent o dan yr acen ai peidio.


Graff 7.3



7.2.1.3. Y goben acennog; llafariaid byrion

O droi ein golygon at ffurfiau amlsillafog, dangosir ar linellau coch a glas graff 7.4 gydberthynas glòs rhwng sgorau'r llafariaid byrion yn y goben acennog, e.e. yn [klɪsdʒa] "clustiau" a [hɪnan] "hunan", a'r rhai a geir o dan yr acen mewn geiriau unsill, e.e. yn [mɪnd] "mynd" a [kɪn] "cyn". Yr eithriad eto yw R.P, y siaradwraig ieuengaf o blith y chwech, lle y gwelir bod canran ei thocynnau sy'n cynnwys [ɪ] / [ɛ] yn sylweddol is na rhai'r siaradwyr eraill yn y ddau gyd-destun dan sylw.

Graff 7.4



7.2.1.4. Y goben acennog; llafariaid hir


O safbwynt llafariaid hir yn ymddangos yn y goben acennog, mewn un cyd-destun seinegol yn unig y digwydd hynny, sef yn y goben acennog pan geir llafariad arall yn dilyn, e.e. yn [ki:a] "caeau" a [di:aɪ] "deall". O graffu ar ganlyniadau'r cyd-destun hwn (gweler Atodiad: 7a), gwelir bod cyfanswm y tocynnau a gafwyd yn brin ar gyfer pob siaradwr, ac na ellir dod i gasgliad pendant. Er hynny, gan y cafwyd un ar bymtheg o docynnau gan un siaradwraig (E.W), ac y gwelir mai 19% o'r rheini sy'n cynnwys [i(:)], bernir bod yma sail i gredu bod y llafariaid hir hyn yn ymddwyn yn debyg i'r rhai hir a geir mewn geiriau unsill, e.e. yn [di:ð] "dydd" a [bi:d] "byd", yn enwedig gan mai 19% hefyd oedd sgôr y siaradwraig honno ar gyfer llafariaid hir mewn geiriau unsill (gweler graff 7.1).

7.2.1.5. Y sillaf olaf ddiacen; llafariaid byrion

Adlewyrchir ar linell las graff 7.5 y defnydd cyffredinol a wneir o'r 'u ogleddol' yn llafariaid byrion y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [kani] "canu" a [kəχwɪn] "cychwyn". Awgrymwyd gan y deunydd crai, fodd bynnag, y gallasai fod yn werth rhannu'r ffurfiau hyn yn ddau grŵp. Yn y naill, rhoddwyd llafariaid sy'n ymddangos mewn sillafau agored, h.y. lle **na cheir** cytsain neu glwstwr cytseiniol yn eu dilyn, fel yn [gweli] "gwely" a [kəsgi] "cysgu". Yn y grŵp arall, gosodwyd y llafariaid a geir mewn sillafau caeedig, lle **y ceir** cytsain neu glwstwr cytseiniol yn eu dilyn, megis yn [kəχwɪn] "cychwyn" ac [aur] "awyr". Gellir ychwanegu yma fod ansawdd y llafariaid caeedig hyn yn tueddu i fod yn fwy caeedig mewn sillafau agored nag y maent mewn sillafau caeedig.

Cadarnheir ar linellau gwyrdd a choch graff 7.5, felly, fod y llafariad gaeedig ganol yn fwy tebygol o godi mewn sillafau caeedig na mewn sillafau agored, a bod canrannau pob un o'r siaradwyr yn is mewn ffurfiau fel [gweli] "gwely" a [kəsgi] "cysgu" nag ydynt mewn geiriau fel [kəχwɪn] "cychwyn" ac [aur] "awyr".

Graff 7.5



7.2.1.6. Cymharu llafariaid syml â'i gilydd


Yn olaf o safbwynt llafariaid syml, penderfynwyd cymharu'r gwahanol ganlyniadau a drafodwyd hyd yma yng ngraff 7.6 er mwyn gweld yn union sut y mae gwahanol gyd-destunau unsill a rhai amlsillafog yn effeithio ar ddefnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r 'u ogleddol'. O edrych i ddechrau ar y sefyllfa a ddarlunnir ar gyfer llafariaid hir mewn geiriau unsill (acennog a rhai diacen) fel [di:ð] a [dið] "dydd" (y llinell las), gwelir mai yn y cyd-destun hwn y mae'r defnydd cyffredinol isaf o [i(:)] i'w weld. Dangosir hefyd fod canrannau pob un o'r siaradwyr hyn gryn dipyn yn uwch ym mhob un o'r pedwar cyd-destun arall a ystyrir yn y graff.

O ran y pedwar cyd-destun hynny, felly, gwelir mai llafariaid byrion o wahanol fathau yw pob un ohonynt. Dangosir er hynny nad yw'r defnydd o [i] / [ɪ] yn debyg ym mhob math o lafariad fer, ond bod ei chyd-destun ehangach hefyd yn briodol i'w ystyried. Gellir dweud yn gyntaf, felly, mai mewn geiriau unsill fel [mænd] "mynd" a [kɪn] "cyn" (y llinell goch), a llafariaid byrion y goben acennog megis [klɪsdʒa] "clustia" a [hɪnan] "hunan" (y llinell werdd) y mae'r defnydd cyffredinol isaf o [i] / [ɪ] i'w weld mewn llafariaid byrion. Gwelir hefyd fod patrymau'r cyd-destunau hyn yn dra agos i'w gilydd. O ran llafariaid byrion mewn sillafau olaf diacen agored wedyn (y llinell borffor), e.e. yn [gweli] "gwely" a [kəsgɪ] "cysgu", gwelir bod y defnydd cyffredinol o'r 'u ogleddol' yn uwch. Noder er hynny fod sgorau tri o'r siaradwyr yn debyg yn y cyd-destun hwn i'r hyn a geir ganddynt mewn geiriau unsill (y llinell goch) a'r goben acennog (y llinell werdd). Er hynny, ceir mwy o amrywio ar waith yn iaith y tri siaradwr arall wrth i'w sgorau ar y llinell borffor fod yn uwch na'r rhai a geir ganddynt ar y llinellau coch a gwyrdd. Fodd bynnag, y mae'n amlwg ddigon mai mewn sillafau olaf diacen caeedig, e.e. yn [kəɣwɪn] "cychwyn" ac [aur] "awyr" (y llinell oren), y mae'r defnydd uchaf o'r 'u ogleddol' i'w weld, a hynny gan bob siaradwr.

Amlyga'r canlyniadau hyn, felly, fod defnydd y siaradwyr o'r sain gaeedig ganol mewn llafariaid byrion wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan ffactorau ieithyddol megis safle'r llafariad o fewn y gair a'r cyd-destun seinegol (e.e. yr hyn sy'n dilyn y llafariad). Er hynny, dadlenna'r gwahaniaeth trawiadol a welir rhwng canlyniadau'r llinell las ac eiddo'r llinellau eraill fod hyd y llafariad hefyd yn hynod bwysig i'w ystyried. Yn wir, teg fyddai barnu bod

llafariaid hir a rhai byrion Bro Dysynni yn perthyn i garfannau gwahanol o safbwynt eu defnydd o'r 'u ogleddol'.

Graff 7.6



7.2.2. Deuseiniaid


Rhaid hefyd oedd archwilio i'r defnydd o'r llafariad caeedig canol mewn deuseiniaid, gan beidio â rhagdybio eu bod o angenrheidrwydd yn ymddwyn fel llafariad byrion syml.

Dylid pwysleisio i ddechrau y ceir dau fath gwahanol o ddeusain cyhyd ag y bo'r 'u ogleddol' yn y cwestiwn. Yn y naill, ceir deuseiniaid yn cau i gyfeiriad [i], e.e. yn [ko:ɪd] "coed" a [dɛɪd] "dweud", ac yn y llall, agorir deuseiniaid ag [i] / [ɪ], e.e. yn [bɪu] "byw" a [diu] "Duw". Ymdrinnir yn gyntaf â'r deuseiniaid a all gau ag [i] mewn geiriau unsill ac amlsillafog, a rhoddir sylw i gloi i'r rheini a all agor ag [i] / [ɪ].

7.2.2.1. Deuseiniaid a all gau ag [i] mewn geiriau unsill


Penderfynwyd rhannu'r deuseiniaid a fyddai wastad yn cau ag [i] yng ngogledd Cymru yn ddau gategori, sef deuseiniaid hir, yr hyn a geir yn [ko:ɪd] "coed" a [da:i] "dau", a deuseiniaid byrion, yr hyn sydd yn [dɛɪd] "dweud" a [nɛɪd] "gwneud", er enghraifft. Fodd bynnag, cadarnha llinellau coch a gwyrdd graff 7.7, yn ogystal â'r llinell las sy'n cymryd pob deusain i ystyriaeth, na chaiff hyd y deuseiniaid hyn nemor ddim dylanwad ar ansawdd eu helfennau olaf, a bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [i] yn uchel iawn ym mhob achos. Sylwer, er hynny, fod lefelau R.P, y siaradwraig ieuengaf, ychydig yn is na rhai'r trigolion eraill.

Graff 7.7



Sylwyd, fodd bynnag, fod nifer helaeth o docynnau yn ffurfiau ar y ferf “oedd”, e.e. [o:ið] a [ðoið], a bod pob un ohonynt yn cynnwys y llafariad gaeedig ganol yn iaith pob un siaradwr. Barnwyd, felly, y gallai’r tocynnau hyn fod yn llurgunio’r darlun cyffredinol, a phenderfynwyd hepgor yr holl ffurfiau “oedd” hyn. Dangosir canlyniad yr arbrawf hwn yng ngraff 7.8, lle y mae’r llinell las yn ddrych o’r sefyllfa pan gynhwysir pob deusain (hir a byr), tra bo’r llinell goch yn adlewyrchu’r darlun a geir o anwybyddu ffurfiau ar “oedd”. Gwelir, felly, gwmp yng nghanrannau y tocynnau sy’n cynnwys [i] yn achos pob un o’r siaradwyr pan hepgorir y ffurfiau berfol hyn. Awgryma hyn efallai fod y llafariad gaeedig ganol yn fwy tebygol o godi mewn geiriau gramadegol tra chyffredin nag y mae mewn eitemau geirfaol ystyrlon.


Graff 7.8




Yng ngoleuni’r canlyniadau uchod, felly, ceisir yng ngraffiau 7.9 a 7.10 gymharu’r defnydd a wneir o’r ‘u ogleddol’ yn neuseiniaid a llafariaid syml geiriau unsill. Y mae’n eglur oddi wrth linellau porffor y graffiau hyn mai yn ail elfen deuseiniaid y mae’r ‘u ogleddol’ ar ei chryfaf, hyd yn oed pan hepgorir y ffurfiau niferus ar y ferf “oedd” (gweler graff 7.10).

Dilynir y sgorau hyn yn agos wedyn gan y llinellau cochion a’r rhai gwyrddion, sef llafariaid byrion o wahanol fathau, tra bo llinellau gleision y graffiau hyn yn profi mai mewn llafariaid hir (o dan yr acen) y gwelir y defnydd isaf o’r sain ogleddol.

Graff 7.9




Graff 7.10



7.2.2.2. Deuseiniaid a all gau ag [i] mewn geiriau amlsillafog

Yn gyffredin hefyd y mae deuseiniaid a all gau â'r llafariad gaeedig ganol [i] yng ngoben acennog ffurfiau amlsillafog, e.e. yn [nəiað] “neuadd” a [muia] “mwyaf”. Cynrychiola llinell las graff 7.11 y canlyniadau pan gynhwysir y deuseiniaid i gyd, a gwelir bod y sgorau'n rhychwantu rhwng 87.5% a 58%. Gwelir bod sgôr R.P, y siaradwraig ieuengaf, yn drawiadol is na'r canrannau eraill ar y llinell hon. Y mae'r llinell goch wedyn yn darlunio'r sefyllfa a geir pan hepgorir ffurfiau “oedd” niferus,¹⁶⁹ e.e. [ɔiðɔn] “oeddwn” ac [ɔiðan (ni)] “oeddem (ni)”; ffurfiau yr oedd pob un ohonynt gan bob un siaradwr yn cynnwys [i], yn debyg i'r sefyllfa gyfatebol mewn geiriau unsill (gweler 7.2.2.1). Gwelir, felly, mai canlyniad yr arbrawf hwn yw cwmp ym nghanrannau pob un o'r siaradwyr pan hepgorir ffurfiau ar “oedd”. Gellir nodi hefyd fod sgorau y llinell goch i'w gweld yn llai unfurf na'r hyn a welir ar y llinell las.

Graff 7.11




Eir ati yng ngraffiau 7.12 a 7.13 wedyn i geisio gweld a geir gwahaniaethau rhwng y goben acennog a geiriau unsill o safbwynt defnydd siaradwyr Bro Dysynni o ddeuseiniaid a all gau


¹⁶⁹ Er eglurder, gelwir y rhain yn ffurfiau “oedd” er mwyn amlygu eu perthynas â ffurfiau unsill cyfatebol, e.e. [o:ið] “oedd” ac [ɔið] “oedd”. Noder, er hynny, mai ffurfiau deusill fel [ɔiðɔn] “oeddwn” ac [ɔiðan] “oedden (ni)” / “oedden (nhw)” sydd wastad o dan sylw yma.

ag [i]. Cynhwysir ffurfiau ar “oedd” yn ngraff 7.12, tra’u hepgorir hwy yng ngraff 7.13. Yn y ddau achos, felly, gwelir bod yr ‘u ogleddol’ yn fwy tebygol o ymddangos yn y deuseiniaid hyn mewn geiriau unsill nag yn y goben acennog. Fodd bynnag, er gwaetha’r gwahaniaethau hyn, awgrymir yng ngraff 7.12 yn arbennig fod cydberthynas agos rhwng patrymau’r ddau gyd-destun dan sylw.

Graff 7.12



Graff 7.13




7.2.2.3. Deuseiniaid a all agor ag [i] mewn geiriau unsill

Yn olaf, canolbwyntir ar y deuseiniaid hynny a fyddai wastad yn cynnwys [i] / [ɪ] fel elfen gyntaf yn ardal Harlech, e.e. yn [bɪu] “byw” a [dɪu] “Duw”,¹⁷⁰ gan ofyn a yw’r deuseiniaid hyn yn ymddwyn yn debyg ym Mro Dysynni i’r rhai a all gau ag [i]. Gan mai gan dri o’r siaradwyr yn unig y cafwyd niferoedd derbyniol o docynnau, ni chynhwysir y tri siaradwr arall yng ngraiff 7.14 (gweler, er hynny, eu hystadegau yn Atodiad: 7b).

Amlyga’r canlyniadau a gafwyd, felly, fod y defnydd a wneir o’r llafariad gaeedig ganol yn y deuseiniaid hyn yn sylweddol is na’r hyn a welwyd yn achos y rhai a all gau ag [i] (cymharer lefelau’r llinell las â chanlyniadau graff 7.7). Yn annisgwyl hefyd, ymddengys oddi wrth ddwy linell y graff hwn fod rhyw gydberthynas rhwng sgorau’r deuseiniaid hyn a’r canlyniadau a gafwyd ar gyfer llafariad hir mewn geiriau unsill acennog, e.e. yn [di:ð] “dydd” a [bi:d] “byd”. Awgryma hyn, felly, fod yr ‘u ogleddol’ yn ymddwyn yn eithaf tebyg yn y ddau gyd-destun hyn, ond bod y defnydd o’r sain mewn llafariad hir yn gyffredinol is.

Graff 7.14



¹⁷⁰ Nodwyd eisoes ar ddechrau 7.2. na chafwyd ffurfiau a oedd â deuseiniaid o’r math hwn yn ymddangos yn y goben acennog.

7.3. Cymhariaeth o sefyllfa'r ddwy ardal

Y mae eisoes yn amlwg oddi wrth fy sylwadau yn 7.1 a 7.2 fod sefyllfa ardal Harlech ac un Bro Dysynni o safbwynt yr ‘u ogleddol’ yn dra gwahanol i’w gilydd. Pwysleisiwyd yn 7.1 na welir y llafariaid caeedig canol [i(:)] / [ɪ] a’r rhai blaen cyfatebol [i(:)] / [ɪ] yn ymglyfnwid â’i gilydd o gwbl yng nghyffiniau Harlech, a bod defnydd trigolion yr ardal o’r ‘u ogleddol’ felly yn hollol sefydlog. Ym Mro Dysynni, ar y llaw arall, gwelwyd yn 7.2 fod amrywio helaeth ar waith o safbwynt y nodwedd hon, a bod gwahaniaethau sylweddol i’w gweld rhwng amryfal gyd-destunau ieithyddol. Gellir nodi yma, felly, mai’r ‘u ogleddol’ yw’r unig nodwedd a astudiwyd yn fanwl lle y gwelir diffyg amrywio llwyr yn y naill ardal, tra bo amrywio helaeth ar waith yn yr ardal arall (gweler y penodau sy’n dilyn).

Gan yr ystyrir, felly, y byddai 100% o docynnau perthnasol pob un o siaradwyr ardal Harlech yn cynnwys [i(:)] / [ɪ] ym mhob un o’r cyd-destunau yr archwiliwyd iddynt yng nghyswllt Bro Dysynni, bernir nad oes raid cyflwyno graffiau yma a fyddai’n cymharu sgorau gwahanol gyd-destunau y ddwy ardal â’i gilydd. Yn wir, y mae’n ddealedig oddi wrth y graffiau yn 7.2 fod y canrannau uchel a gafwyd ym Mro Dysynni yn debycach i’r hyn a geid yn ardal Harlech na’r sgorau isel a welwyd yno. Gellir casglu oddi wrth graff 7.6 (yn 7.2.1.6), er enghraifft, fod [i(:)] / [ɪ] yn fwy tebygol o ymddangos ym Mro Dysynni mewn llafariaid syml byrion (o wahanol fathau) nag ydynt mewn llafariaid syml hir (acennog). Byrdwn hyn, felly, yw bod llafariaid byrion Bro Dysynni yn ymddwyn yn debycach i rai ardal Harlech nag y mae’r rhai hir (acennog).

Fodd bynnag, y mae’n briodol tynnu sylw yma at wahaniaeth arall rhwng y ddwy ardal o safbwynt yr ‘u ogleddol’. Cafwyd gan rai siaradwyr ym Mro Dysynni enghreifftiau o orgywiriadau (*hypercorrections*), tra na chafwyd ffurfiau o’r math hwn gan siaradwyr cyffiniau Harlech. Er eglurder, defnydd o [i(:)] / [ɪ] mewn geiriau lle na ddisgwyliid iddynt ymddangos a olygir yma wrth orgywiriadau. Y mae [ki:] i olygu “ci”, felly, yn un enghraifft o’r ffenomen hon. Yn sicr, yr hyn a awgrymir yn gryf gan orgywiriadau o’r math hwn yw diffyg ymwybyddiaeth gan y siaradwyr o’r gwahaniaeth rhwng y llafariaid caeedig canol [i(:)] / [ɪ] a’r rhai blaen cyfatebol [i(:)] / [ɪ] yn eu hiaith. Mewn geiriau eraill, awgrymant nad yw siaradwyr Bro Dysynni yn clywed gwahaniaeth rhwng [bi:d] a [bi:d] “byd”, dyweder (lle

y ceid [i:] yn gyson yn y gogledd), ac mai ochr arall y geiniog yw nad ydynt bob amser yn gwahaniaethu rhwng y ddwy lafariad hyn mewn ffurfiau ar “ci”, dyweder (lle y ceid [i:] yn gyson yn y gogledd). Bernir, felly, ei bod yn addas cyflwyno yma restr o’r gorgywiriadau y sylwyd arnynt er mwyn amlygu’r ffenomen hon.¹⁷¹ Fe’u cyflwynir fesul unigolyn:

- B.R: [kəir] “ceir”
 [iði] “iddi (hi)”
 [amriu] “amryw” ([amriu] a gafwyd yn gyson yn ardal Harlech)
- E.W: [ki:] “ci”
 [sir (vo:n)] “sir”
 [*gəvjɪθi] “cyfieithu” (efallai drwy gymathiad â’r llafariad olaf)
 [*vɛndθ] “bendith”
 [mi tənθ] “mi’i tynnith” (gorgywiro ddwywaith mewn dilyniant o ddau air)
- M.V:¹⁷² [hi:r] “hir”
 [ni:] “ni”
- G.E.T: [tra:in] ffurf ar y benthyciad *train*

¹⁷¹ Dylid pwysleisio yma nad oedd y gorgywiriadau hyn yn berthnasol i ddadansoddiadau meintiol 7.2, h.y. ni ellid cyfiawnhau cynnwys [ki:] “ci” yn y rhestr, gan anwybyddu [ki:] “ci” wedyn. Ni cheir yma, felly, ddata meintiol ar gyfer y gorgywiriadau hyn. Byddai raid imi fod wedi trawsgrifio pob ffurf lle y disgwyliid cael [i(:)] / [ɪ] ynddynt ar gyfer hynny. Awgrymir gan niferoedd isel y gorgywiriadau uchod, fodd bynnag, mai canrannau isel a geid, ac mai “i” arferol sydd fwyaf cyffredin mewn geiriau lle y ceid [i(:)] / [ɪ] ynddynt yn gyson yn y gogledd.

¹⁷² Y mae’n werth nodi yma y cafwyd gan M.V hefyd y ffurf [saim] “‘does ’na ddim”, ond nas ystyrir yma fel achos o orgywiro ar waith gan imi sylwi ar y defnydd o [im (bi:d)] yn ardal Harlech hefyd. Diau fod lle i ddadlau fod y ffurf berthynol ‘diddymu’ yn awgrymu mai fel [dim] / [dɪm] yr yngenedid “dim” yn wreiddiol (gweler Bowen, 1997), ac y gellir cynnig felly fod y ffurfiau hyn wedi goroesi yn y gogledd a’r canolbarth mewn rhai achosion arbennig.

7.4. Trafodaeth

I gloi'r bennod hon, rhoddir sylw i oblygiadau'r canlyniadau a drafodwyd uchod. Trafodir i ddechrau yn 7.4.1 y ffactorau ieithyddol sydd i'w gweld yn effeithio ar y modd y collir yr 'u ogleddol' yn raddol ym Mro Dysynni. Yn 7.4.2 wedyn, ceisir gosod yr amrywio a geir yn achos y nodwedd hon mewn cyd-destun hanesyddol (a chenedlaethol, o ran hynny). Yn olaf, eir ati i adeiladu ar y dimensiwn hanesyddol drwy gynnig damcaniaeth y gall amrywiadau yn hyd gwahanol ddeuseiniaid fod wedi dod i fodolaeth oherwydd amrywio rhwng [i(:)] / [ɪ] ac [i(:)] / [ɪ].

7.4.1. Ystyriaethau ieithyddol

Ar ôl dadansoddi'n fanwl y defnydd a wneir o'r llafariad gaeedig ganol yn iaith chwe siaradwr hŷn ym Mro Dysynni, y mae'r canlyniadau uchod yn taflu goleuni newydd ar y defnydd a wneir o'r 'u ogleddol' yn un o'i hardaloedd trawsnewid. Un o'r canfyddiadau mwyaf dadlennol yn sicr yw bod yr amrywio sylweddol a welir ym Mro Dysynni o safbwynt y nodwedd hon wedi ei gyflyru gan **ffactorau ieithyddol**. Rhestrir isod y gwahanol ffactorau hyn, a manylir ar bwysigrwydd pob un ohonynt.

- Hyd y llafariad

Dangoswyd yn nadansoddiadau'r bennod hon fod llafariaid hir (rhai syml mewn geiriau unsill yn benodol) yn amlwg yn ymddwyn yn wahanol i lafariaid byrion o wahanol fathau o safbwynt eu defnydd o'r sain gaeedig ganol (gweler graff 7.6). Ymddengys, felly, mai mewn llafariaid hir, e.e. [di:ð] "dydd" a [bi:d] "byd", y ceir y defnydd cyffredinol isaf o'r 'u ogleddol' ym Mro Dysynni. Gellir barnu, felly, mai yn y llafariaid hyn y collir cyferbyniad rhwng [i(:)] / [ɪ] ac [i(:)] / [ɪ] gyflymaf. Ar y llaw arall, gwelwyd bod y defnydd o'r sain gaeedig ganol yn gyffredinol uwch o lawer mewn llafariaid byrion, e.e. yn [mænd] "mynd", [klisdja] "clustiau" a [gweli] "gwely", ac o ganlyniad yn agosach i'r defnydd a wneir ohonynt yn ardal Harlech.

- Safle'r llafariad o fewn gair

Fodd bynnag, er bod llafariaid byrion i'w gweld yn ymddwyn yn wahanol i lafariaid hir, ni ellir dweud bod llafariaid byrion o bob math yn gwneud defnydd hollol debyg o'r 'u ogleddol'. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn hytrach oedd bod safle'r llafariad o fewn y gair (boed mewn gair unsill, y goben acennog neu'r sillaf olaf ddiacen) yn ystyriaeth bwysig arall. Nodwyd, felly, fod defnydd o'r llafariad gaeedig ganol yn drawiadol debyg mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, e.e. yn [mænd] "mynd" a [klisdja] "clustiau", ond bod ei defnydd yn gyffredinol uwch yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [kəsgi] "cysgu" a [kəχwɪn] "cychwyn" (gweler graff 7.6).

- Y cyd-destun seinegol

Gellir barnu er hynny nad yw hyd llafariad a'i safle o fewn y gair yn ddigon hyd yn oed ar gyfer deall yr amrywio a geir ar waith o safbwynt nodwedd yr 'u ogleddol'. Yn wir, ymddengys ei bod yn briodol hefyd mewn rhai achosion ystyried yr union gyd-destun seinegol, e.e. yr hyn sy'n dilyn y llafariad. Nodwyd, er enghraifft, fod y defnydd o'r 'u ogleddol' mewn sillafedd olaf diacen agored (h.y. pan na cheir sain yn dilyn y llafariad), e.e. yn [gweli] "gwely" a [kəsgi] "cysgu", yn drawiadol is nag ydoedd mewn sillafedd olaf diacen caeedig (h.y. pan geir sain yn dilyn), e.e. yn [kəχwɪn] "cychwyn" ac [aur] "awyr" (gweler graff 7.5). Yn yr un modd, gwelwyd bod defnydd o'r 'u ogleddol' yn sylweddol uwch yn elfennau olaf deuseiniaid (llafariaid byrion), e.e. yn [ko:ɪd] "coed", nag ydyw mewn llafariaid syml byrion, e.e. yn [mænd] "mynd", er mai yn yr un math o sillafedd yr ymddangosant (gweler, er enghraifft, graffiau 7.9 a 7.10).

- Y math o air sydd dan sylw

Dimensiwn arall ar yr amrywio hwn rhwng [i(:)] / [ɪ] ac [i(:)] / [ɪ] yw'r gwahaniaeth y sylwyd arno rhwng dau fath gwahanol o air. Dangoswyd, er enghraifft, fod lefelau'r sain gaeedig ganol yn gyffredinol is ar ddiwedd deuseiniaid (mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog) pan gawsai ffurfiau berfol niferus ar "oedd" eu hepgor o'r darlun (gweler graffiau 7.8 a 7.11).

Awgryma hynny, felly, fod yr ‘u ogleddol’ yn fwy tebygol o ildio i [i] yn y cyd-destun hwn mewn eitemau geirfaol ystyrlon na mewn geiriau gramadegol tra chyffredin.

- Yr acen bwys

Yn olaf, rhaid nodi bod yr acen bwys, h.y. y math o bwyslais a roddir ar y gair, hefyd yn ffactor pwysig i’w ystyried wrth ddadansoddi’r nodwedd hon mewn llafariaid hir yn benodol. Yr hyn a ddaeth i’r amlwg yn y bennod hon, felly, yw bod llafariaid “hir” mewn ffurfiau diacen, e.e. [dið] “dydd” ac [in] “un”, i’w gweld yn ymddwyn yn wahanol iawn i lafariaid hir mewn ffurfiau acennog, e.e. [bi:d] “byd” a [di:ð] “dydd”. Yn wir, gellir dweud bod y llafariaid byrion hyn (a fyddai’n hir o dan yr acen) yn debycach i rai byrion ffurfiau acennog, e.e. [mɛnd] “mynd” a [kɪn] “cyn”, nag ydynt i lafariaid hir sydd o dan yr acen (gweler graff 7.3). Gellir bod yn bendant, felly, nad dylanwadu ar hyd llafariaid yn unig y mae’r acen bwys, ond ei fod hefyd yn effeithio ar eu hansawdd.

Nid yn unig y mae canlyniadau’r bennod hon, felly, yn cynnig mewnwelediad i’r amrywio sylweddol sydd ar waith o dan wahanol amodau ieithyddol, ond y mae hefyd yn ddadlennol pa mor gyson â’i gilydd yw sgorau’r siaradwyr mewn cynifer o’r cyd-destunau penodol hyn. Llwydda’r cysondeb hwn, felly, i gadarnhau bod y sain gaeedig ganol yn fwy tebygol o ymddangos mewn ambell gyd-destun ieithyddol nag un arall. Dylid pwysleisio hefyd nad tueddiadau a berthyn i rai unigolion mo’r rhain fel rheol, ond eu bod yn hytrach yn rhai cyffredinol sydd i’w gweld yn effeithio ar y gymuned gyfan. Gellir bod yn bendant ddigon, felly, y byddai dadansoddiad meintiol o’r nodwedd hon na fyddai’n ystyried y ffactorau ieithyddol uchod yn rhwym o golli agweddau pwysig ar sefyllfa gymhleth yr ‘u ogleddol’ ym Mro Dysynni.

7.4.2. Ystyriaethau cymdeithasol a hanesyddol

Yn ogystal â'r ystyriaethau ieithyddol pwysig hyn, ychwanegir haen arall o bosibiliadau i'r patrymau amrywio gan yr awgrymiadau a geir o gydbertynas rhwng oedrannau siaradwyr Bro Dysynni a'u defnydd o'r sain ogleddol hon. Yn wir, awgrymir gan ganrannau R.P, y siaradwraig ieuengaf, sy'n is na sgorau'r siaradwyr eraill yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, ein bod yn ymdrin â newid ieithyddol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Derbynnir, fodd bynnag, nad yw canlyniadau un siaradwraig yn brawf pendant o hyn, ac y dylid yn y dyfodol agos ddadansoddi iaith siaradwyr canol-oed ac ieuencid yr ardal er mwyn gallu cymharu defnydd gwahanol genedlaethau o'r nodwedd dafodieithol hon.

Fodd bynnag, yng ngoleuni'r awgrymiadau a geir o newid ar waith ym Mro Dysynni, lle y mae'r 'u ogleddol' yn graddol gilio o'r ardal, priodol yw rhywfaint o gyd-destun hanesyddol. Er ein bod hyd yma wedi cysylltu'r defnydd o'r llafariad caeedig canol [i(:)] / [ɨ] â'r gogledd yn unig, dylid pwysleisio er hynny fod enghreifftiau i'w cael o'r seiniau hyn yn ymddangos ar recordiadau o dafodieithoedd traddodiadol de-ddwyrain Cymru. Clywir, er enghraifft, yr 'u ogleddol' yn glir fel llafariad syml mewn ffurfiau fel [ri:] "rhy" a [kəməsɣi] "cymysgu", yn ogystal ag fel ail elfen y ddeusain [u:i] mewn ffurfiau fel [du:i] "dwy", [lu:i] "llwy" a [tu:im] "twym" yn iaith Mrs Margaret Williams o Lynogwr (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: Recordiad 14; 151-155). Ymddengys, felly, nad arferai'r llafariad canol uchel fod yn gyfyngedig i dafodieithoedd y gogledd, ond eu bod yn hytrach yn gyffredin drwy Gymru.

Yn ogystal â thynnu sylw at recordiadau lle y ceir yr 'u ogleddol' yn digwydd yn iaith draddodiadol Sir Forgannwg, cyfeiria Beth Thomas a Peter Wyn Thomas (1989: 33) hefyd at y modd y taflodolir y ffrithiolyn di-lais [s] mewn rhai geiriau yn y de pan fo'r gytsain honno yn rhagflaenu neu'n dilyn y llafariad flaen [i(:)], e.e. yn [ʃi:r] "sir", [mi:ʃ] "mis", [i:ʃ] "is" a [laiʃ] "llais". Ni chlywir taflodiad o'r math hwn, fodd bynnag, mewn ffurfiau fel [bi:s] "bys" a [kri:s] "crys", lle yr yngenir ynddynt [i:] yn gyson yn y gogledd. Dadleua Beth Thomas a Peter Wynn Thomas, felly, fod diffyg taflodoli o flaen [i(:)] yn y de yn awgrymu mai [i(:)] a geid yno mewn geiriau fel [bi:s] "bys" a [kri:s] "crys", h.y. bod [i(:)] yn rhwystro [s] rhag cael ei thaflodoli. Fodd bynnag, ymddengys fod taflodoli [s] o flaen [i(:)] wedi peidio â bod yn ffenomen gynhyrchiol yn y de erbyn i'r llafariad gaeedig ganol gael ei cholli yno, ac mai

dyna pam yr erys gwahaniaeth hyd heddiw rhwng dwy ffurf fel [mi:f] a [bi:s], er mai'r un llafariad a glywir yn y ddwy. Gellir barnu, felly, fod y ddamcaniaeth hon yn hollol resymegol, a'i bod yn dystiolaeth dra phwysig o fodolaeth yr 'u ogleddol' yn y de (a thrwy Gymru gyfan o ran hynny) ar un adeg.

Os derbynnir, felly, mai cilio tua'r gogledd a wnaeth y seiniau caeedig canol [i(:)] / [ɪ], a bod Thomas Darlington (1902) yn gywir pan fynegodd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif fod y llafariad hyn yn symud tua'r gogledd (gweler 2.2.1.1), gall y canlyniadau newydd a gyflwynwyd yn y bennod hon daflu goleuni ar y modd y collwyd y seiniau hyn yn raddol mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Yn sicr, awgrymant yn gryf nad darfod o'r tir ar unwaith a wnaeth y llafariad caeedig canol yn y de, ond eu bod yn hytrach wedi dadfeilio'n raddol, a bod cyflymder y newid hwnnw wedi ei amodi gan y ffactorau ieithyddol a drafodwyd eisoes. Ar sail y data newydd hwn, felly, y mae cyfle i gyflawni rhagor o waith maes mewn rhannau mwy deheuol o ganolbarth Cymru, e.e. ym Machynlleth neu yn Llanbryn-Mair, er mwyn gweld a yw'r 'u ogleddol' wedi llwyr ddarfod o'r tir yn yr ardaloedd hyn ai peidio.

Fodd bynnag, teimlir na all y canlyniadau uchod fod yn ddigonol ar gyfer mesur cyflymder erydiad yr 'u ogleddol' yn y fro, yn enwedig gan na chymherir digon o siaradwyr o genedlaethau gwahanol â'i gilydd. Awgryma'r geiriau canlynol o eiddo'r Parchedig D. S. Thomas o Dywyn (1907), er hynny, fod colli cyferbyniad rhwng [i(:)] ac [ɪ(:)], neu ymgynnewid rhwng y seiniau hyn, ar droed ym Mro Dysynni ers dros ganrif o leiaf.

Ceisiwn gadw mewn ystyriaeth yr iaith fain a leferir yn y cymydogoethau hyn. Mae y llythyren "u" wedi ei halltudio oddiyma, "i" sydd gan bawb, a hyn oedd y rheswm i Owen William ddweyd yn Sir Gaernarfon, wrth rywun a ofynodd iddo o ba le yr oedd yn dod, - "Yr wyf yn dod," meddai yntau, "o gymydogoeth nad oes dim son am Dduw na dyn un amser gan neb o'i brodorion." "Rhyfedd iawn," ebai yr ymofynydd diniwed, "am ba beth y maent yn siarad yno ynte?" "Am *Ddiw* a *Din*," ebai yr hen batriarch ffraeth. Yr oedd Dr. Pugh, Aberdyfi (Ioan ap Hu Feddyg) yn arfer dweyd fod tair iaith yn cael eu siarad yn y fro, sef y *Saesonaeg*, y *Gymraeg*, a'r *Dywynaeg*. Gwneir cam ag amryw o'r llafariad. Ceisiwn gadw golwg ar hyn. (D. S. Thomas, 1907: 122)

Gellir dehongli, felly, fod honiad D. S. Thomas fod yr 'u ogleddol' yn absennol yn nalgylch Tywyn fwy na thebyg yn awgrymu mai amrywio a oedd wirioneddol ar waith o safbwynt y

nodwedd hon ym 1907. Yn wir, gan mai dyddio yn ôl i ddechrau'r ugeinfed ganrif hefyd y mae disgrifiad Thomas Darlington (1902) o isoglos yr 'u ogleddol', sy'n teithio drwy ganol Bro Dysynni, ymddengys yn llawer mwy tebygol i mi mai ymgyfnewid rhwng y sain gaeedig ganol a'r un flaen gyfatebol a geid ar waith yn yr ardal bryd hynny yn hytrach na defnydd cyson o [i(:)] flaen. Diau mai cefnogi'r safbwynt hwn hefyd y mae canlyniadau'r bennod hon, lle na welwyd gwahaniaethau amlwg rhwng siaradwyr sy'n hanu o ochr ogleddol ffin Darlington (e.e. B.R ac E.W) a siaradwyr sy'n dod o'r ochr ddeheuol iddi (e.e. M.V a G.E.T).

7.4.3. Amrywiadau pellach yn sgil erydiad yr 'u ogleddol'

Ar sail yr awgrym diwethaf fod ymgyfnewid cyson rhwng y llafariad caeedig canol [i(:)] / [ɪ] a'r rhai blaen cyfatebol [i(:)] / [ɪ] yn gyffredin ym Mro Dysynni ers degawdau bellach, cynigir yn 7.4.3.1 bod yr amrywio hwn wedi dylanwadu'n fawr ar strwythur tafodieithol yr ardal hon. Yng ngoleuni'r ddamcaniaeth hon wedyn, eir ati yn 7.4.3.2 i ymdrin â'r modd y mae rhai o ddeuseiniaid ardal Harlech hefyd yn amrywio yn eu hyd, gan geisio rhoi cyfrif am hyn.

7.4.3.1. Hyd deuseiniaid yn amrywio ym Mro Dysynni

Gwelwyd eisoes ym mhennod 5 (5.1.4) fod patrymau gwahanol iawn i'w gweld rhwng deuseiniaid y ddwy ardal mewn geiriau unsill. Nodwyd bod un o'r prif wahaniaethau a geir rhwng y ddwy ardal yn ymwneud â hyd deuseiniaid sy'n cau ag [i] neu [u]. Yng nghyffiniau Harlech yn gyntaf, y mae hyd y deuseiniaid hyn yn rhagweladwy (h.y. wastad yn fyr) ym mhob un cyd-destun seinegol bron,¹⁷³ tra ym Mro Dysynni ar y llaw arall, y mae'r un deuseiniaid i'w cael yn hir ac yn fyr mewn nifer helaeth o gyd-destunau seinegol gwahanol. O ganlyniad i'r gwahaniaeth pwysig hwn rhwng y ddwy ardal, gwelir bod hyd deuseiniaid yn amrywio'n sylweddol ym Mro Dysynni, a hynny yn achos geiriau a fyddai wastad yn

¹⁷³ Ceir er hynny un cyd-destun seinegol eithriadol sy'n caniatáu cyferbyniad hyd yn ardal Harlech, sef pan na cheir cytsain yn dilyn. Gwelir yn y cyd-destun hwn, felly, ddeuseiniaid hir a rhai byrion yn ymgyfnewid, e.e. yn [tro:i] ~ [trɔi] "troi". Archwilir i'r amrywio hwn mewn mwy o fanylder yn 7.4.3.2 isod.

cynnwys deuseiniaid byrion yn ardal Harlech (ac yn y gogledd yn gyffredinol). Nodir isod, felly, enghreifftiau o ddeuseiniaid sy'n amrywio o ran eu hyd ym Mro Dysynni yn unig:

- **[a:i] ~ [ai]:** [ta:ir] ~ [tair] “tair”, [gwa:iθ] ~ [gwaiθ] “gwaith”,
[ɬa:i] ~ [ɬai] “llai”¹⁷⁴
- **[æ:i] ~ [æi]:** [pæ:id] ~ [pæid] “paid”
- **[a:u] ~ [au]:** [ma:ur] ~ [maur] “mawr”, [ja:un] ~ [jaun] “iawn”,
[pa:ub] ~ [paub] “pawb”
- **[æ:u] ~ [æu]:** [mæ:ur] ~ [mæur] “mawr”, [jæ:un] ~ [jæun] “iawn”,
[bræ:ud] ~ [bræud] “brawd”

Hyd y gwyddys, ni thrafodwyd yr amrywiadau uchod erioed o'r blaen, ac ni chynigiwyd rheswm dros eu bodolaeth. Ceisir yma, felly, gynnig damcaniaeth a all roi cyfrif amdanynt, gan amlygu camau posibl mewn proses gymhleth yn nhabl 1. I ddechrau, darlunnir ar ochr chwith tabl 1 y sefyllfa gymharol syml a geir yng nghyffiniau Harlech. Cyfleir bod [a:i] gan amlaf yn ddeusain hir, tra bo [ai] ac [au] fel rheol yn fyr.¹⁷⁵ Diau y gellir ystyried mai dyma batrwm cyffredinol y gogledd.¹⁷⁶

Ym Mro Dysynni, fodd bynnag, amlyga tabl 1 mai un o ganlyniadau yr amrywio helaeth a geir rhwng [i(:)] ac [i(:)] yw bod [a:i] hir y gogledd yn amrywio ag [a:i] hir, e.e. yn [sda:ir] ~ [sda:ir] “staer” a [ka:i] ~ [ka:i] “cae”.¹⁷⁷ Ymddengys, felly, i'r [a:i] hir a geir mewn ffurfiau fel [sda:ir] “staer” a [ka:i] “cae” ledaenu i gyd-destun arall, sef deuseiniaid sydd wastad yn cau ag [i], ac sy'n gyson fyr yn y gogledd. Dyry hynny inni amrywiadau megis [ta:ir] ~ [tair]

¹⁷⁴ Noder na all y ddeusain fer [ai] amrywio ag [a:i] yng nghyffiniau Harlech, hyd yn oed pan nad oes sain yn dilyn, yn wahanol i'r ymglyfnwid a welir rhwng [oi] ac [o:i] yn yr ardal, e.e. rhwng [tro:i] a [troi] “troi”.

¹⁷⁵ Eithriad amlwg, fodd bynnag, yw [a:u] / [æ:u] hir pan na cheir sain yn dilyn, e.e. yn [ɬa:u] “llaw” a [glæ:u] “glaw”, a cheisir cynnig rheswm posibl dros eu bodolaeth yn 7.4.3.2.

¹⁷⁶ Nodwyd eisoes yn 7.4.2 fod y ffurfiau [du:i] “dwy”, [ɬu:i] “llwy” a [tu:im] “twym” yn ymddangos yn iaith Mrs Margaret Williams o Lynogwr, Sir Forgannwg (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: Recordiad 14; 151-155), lle y gwelir ganddi hi hefyd ddeuseiniaid hir yn cau ag [i]. Awgryma hyn yn gryf, felly, fod a wnelo hyd mewn deuseiniaid yn uniongyrchol â defnydd o'r llafariad gaeedig ganol.

¹⁷⁷ Noder na cheir [a:i] hir yn ardal Harlech, ac na fuasid yn disgwyl ei chael yn unman yn y gogledd felly.

“tair”, [sa:is] ~ [sais] “Sais” a [gwa:iθ] ~ [gwaiθ] “gwaith” ym Mro Dysynni. Gellir wedyn gynnig mai drwy gydweddiad â’r deuseiniaid [a:i] ac [æ:i] y daeth y deuseiniaid hir [a:u] ac [æ:u] i fodolaeth mewn nifer o gyd-destunau seinegol gwahanol. Gan ei bod yn ymddangos bod cyfatebiaethau i’w cael rhwng y cyd-destunau seinegol sy’n caniatáu [a:i], a’r rhai sy’n caniatáu [a:u], e.e. ceir y ddwy o flaen [r] yn [ta:ir] “tair” a [ma:ur] “mawr”, diau ei bod yn bosibl fod elfen o gydbwyso rhwng deusain sy’n cau â llafariad flaen ac un arall sy’n cau â llafariad ôl yn rhan o’r cydweddiad hwn.

Tabl 1

HARLECH	BRO DYSYNNI		
	→ AMSER →		
Defnydd cyson o [i] “u”	Amrywio rhwng [i] “u” ac [i] “i”	[a:i] “ai” yn ehangu i gyd-destun arall	[a:u] “aw” yn cydweddu ag [a:i] “ai”
[sda:ir] “staer” →	[sda:ir] ~ [sda:ir]	[sda:ir] ~ [sda:ir]	[sda:ir] ~ [sda:ir]
[tair] “tair”	[tair]	[ta:ir] ~ [tair]	[ta:ir] ~ [tair]
[maur] “mawr”	[maur]	[maur]	[ma:ur] ~ [maur]

Cynigia’r ddamcaniaeth a ddarlunnir yn nhabl 1, felly, nad ymdrin ag achos o amrywio rhwng dwy lafariad gaeedig yn unig a wnawn, ond bod erydiad graddol yr ‘u ogleddol’ hefyd wedi dylanwadu ar batrymau ffonolegol eraill sy’n amlwg heddiw ym Mro Dysynni.¹⁷⁸

¹⁷⁸ Er y dangoswyd yn yr isadran hon fod llawer o amrywio ar waith yn hyd deuseiniaid sy’n cau ag [i] ac [u], y mae’n werth nodi yma mai un enghraifft yn unig a nodwyd o ymgyfnewid rhwng deusain hir a gaeai ag [i], a deusain fer a gaeai ag [i], sef y pâr [mo:in] ~ [moin] “mo’yn”. Y mae’n briodol crybwyll yn y cyswllt hwn fod Glyn E. Jones (2000) yn cofnodi pedwar sylweddoliad posibl ar gyfer y ddeusain “wy” yn ardal Llanwrtyd, sef

Ymddengys, felly, fel petai gan yr ‘u ogleddol’ y grym i newid ac i siapio gwahanol strwythurau tafodieithol, a diau fod i’r canfyddiad hwn oblygiadau pwysig, yn enwedig o gofio i’r sain fod yn gyffredin drwy Gymru ar un adeg.

7.4.3.2. Hyd deuseiniaid yn amrywio yn ardal Harlech

Yng ngoleuni’r posibilrwydd, felly, mai ymgyfnewid cyson rhwng [i(:)] ac [i(:)] sydd wrth wraidd y cryn amrywio a welir yn hyd deuseiniaid sy’n cau ag [i] ac [u] ym Mro Dysynni, penderfynwyd bwrw golwg ar yr ychydig ddeuseiniaid a gafwyd yn ardal Harlech a amrywiol yn eu hyd. Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 5 (5.3.4), mewn un cyd-destun seingol penodol yn unig y gwelwyd deuseiniaid a gaeai ag [i] ac [u] yn amrywio yn eu hyd, sef pan na cheir cytsain yn dilyn. Ai ar hap a damwain, felly, y ceir y parau canlynol o ffurfiau yn ymgyfnewid yn ardal Harlech?

[trɔi] ~ [tro:i] “troi”¹⁷⁹

[glau] ~ [gla:u] “glaw”

[*leu] ~ [*le:u] “(go) lew”

Efallai y gellir cynnig mai’r deuseiniaid byrion [ɔi], [au] ac [ɛu] a geid yn wreiddiol, ond eu bod wedi dechrau amrywio â’r rhai hir cyfatebol [o:i], [a:u] / [æ:u] ac [e:u] oherwydd dylanwad deuseiniaid sy’n cau ag [i]. Y mae’n werth nodi yma fod modd i ddeuseiniaid sy’n cau ag [i] gyferbynnu yn eu hyd yn y ddwy ardal pan na cheir cytsain yn dilyn (gweler 5.1.4 ym mhennod 5). Cymharer, er enghraifft, y ffurfiau [ka:i] “cae” a [nəi] “neu”. Tybed, felly,

[u:i], [u:i], [ui] ac [ɔi]. Ceir ganddo, er enghraifft, y ffurfiau canlynol ar gyfer “rhwydd”: [ru:ið] ~ [ruið] ~ [roið]. Awgrymir yma, felly, y gall ymgyfnewid rhwng y sain gaeedig ganol a’r un gaeedig flaen yn [u:i] ~ [u:i] arwain yn y diwedd at golli hyd yn gyfan gwbl. Yng ngoleuni’r posibilrwydd hwn, felly, gellir cynnig nad yw’r amrywiadau a welwyd yn hyd deuseiniaid Bro Dysynni o angenrheidrwydd yn agos at fod yn orffenedig, a’i bod yn debygol y gwelir yno yn y dyfodol nifer o ddeuseiniaid hir sy’n cau ag [i] yn amrywio â deuseiniaid byrion sy’n cau ag [i], yn debyg i’r hyn a gofnodwyd eisoes yn [mo:in] ~ [mɔin] “mo’yn”.

¹⁷⁹ Dylid pwysleisio yma y cafwyd enghreifftiau o [o:i] ac [ɔi] hefyd yn ymgyfnewid ym Mro Dysynni, e.e. yn [ɾo:i] ~ [rɔi] “rhoi”, ond mai [a:u] / [æ:u] ac [e:u] a gafwyd yno’n gyson pan na cheid sain yn dilyn, e.e. yn [glæ:u] “glaw” a [*le:u] “(go) lew”.

a yw hyn yn allweddol ar gyfer deall pam y mae deuseiniaid sy'n cau ag [i] neu [u] hefyd yn caniatáu cyferbyniad hyd yn yr un cyd-destun seinegol yn union?¹⁸⁰

Ceisir yn nhabl 2, felly, amlygu un trywydd a all roi cyfrif am barau o ffurfiau megis [trɔi] ~ [tro:i] “troi” a [glau] ~ [gla:u] “glaw” yn ardal Harlech. Ar ochr chwith y tabl, damcaniaethir mai'r hyn a geid yn wreiddiol oedd cyferbyniad hyd mewn deuseiniaid sy'n cau ag [ɪ] pan nad oedd cytsain yn dilyn, tra bo [ɔi] ac [au] yn gyson fyr. Cynigir wedyn bod y cyferbyniad hyd gwreiddiol hwn wedi peri i ddeuseiniaid sy'n gau ag [i] hefyd gyferbynnu yn eu hyd, gan roi inni barau megis [ɾɔi] a [ɾo:i] “rhai”. Y cam tebygol wedyn yw bod deuseiniaid sy'n cau ag [u] ôl yn y cyd-destun seinegol penodol hwn wedi cydweddu â'r rhai sy'n cau â'r [i] flaen, h.y. bod [au] / [ɛu] wedi dechrau amrywio ag [a:u] / [e:u], e.e. yn [glau] ~ [gla:u] “glaw” a [*ɛu] ~ [le:u] “(go) lew”. Dangosir, felly, fod yr holl amrywiadau hyn, h.y. [ɔi] ~ [o:i], [au] ~ [a:u] (neu [æ:u]) ac [ɛu] ~ [e:u], i'w cael ar lafar yn ardal Harlech ar hyn o bryd ymysg rhai siaradwyr. Fodd bynnag, ym Mro Dysynni, ymddengys oddi wrth y data a gasglwyd mai'r deuseiniaid hir [a:u] / [æ:u] ac [e:u] yn unig a geir. Gellir cynnig, felly, mai pen draw amrywio rhwng [au] ac [a:u] neu [ɛu] ac [e:u] yw defnydd o'r deuseiniaid hir yn unig.¹⁸¹

¹⁸⁰ O gofio bod Sweet (1913: 506) yn nodi'n gyson mai [a:i] hir a geir mewn ffurfiau sydd ag “ae” yn yr orgraff, e.e. yn [ka:i] “cae”, tra ceir “au” fer mewn geiriau sydd ag “au” yn yr orgraff, e.e. yn [kai] “cau”, nid yw'n amhosibl mai amrywio o'r math hwnnw a arweiniodd at ymglyfnewid rhwng [o:i] ac [ɔi] yn yr un cyd-destun seinegol.

¹⁸¹ Gan fod ymdriniaethau ffonolegol â'r gogledd i'w gweld yn honni mai'r deuseiniaid hir [a:u] ac [e:u] yn unig a geir yn y gogledd pan na cheir sain yn eu dilyn (gweler, er enghraifft, Awbery, 1984 a G. E. Jones, 1984), y mae'n ymddangos i mi fod ffurfiau megis [glau] “glaw”, [*rɛu] “rhew” a [*ɛu] “(go) lew” a gafwyd yn ardal Harlech yn achosion eithriadol o ddeuseiniaid byrion yn y gogledd. Yn wir, os na cheir enghreifftiau o ffurfiau tebyg yn digwydd mewn rhannau eraill o'r gogledd, teg fyddai ystyried cyffiniau Harlech yn greirfan ieithyddol (gweler enghraifft debyg o hyn gan B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 31-2) lle y ceir tystiolaeth a amrywio ar waith a fyddai wedi digwydd drwy'r gogledd a'r canolbarth os derbynnir y datblygiadau a awgrymir yn nhabl 2.

Tabl 2

→ AMSER →		TO HŶN HARLECH HEDDIW	TO HŶN BRO DYSYNNI HEDDIW
Cyferbyniad hyd mewn deuseiniaid sy'n cau ag [i] pan na cheir cytsain yn dilyn	Cyferbyniad hyd yn ymestyn i ddeuseiniaid sy'n cau ag [i] yn yr un cyd- destun seinegol, ac yn peri amrywio o fewn y gair	Cyferbyniad hyd yn ymestyn i ddeuseiniaid sy'n cau ag [u] yn yr un cyd- destun seinegol, ac yn peri amrywio o fewn y gair	Amrywio [au] ~ [a:u] ac [ɛu] ~ [e:u] yn arwain at ddeuseiniaid hir yn unig pan na cheir cytsain yn dilyn
[nɛi] “neu” a [ka:i] “cae”	[nɛi] a [ka:i]	[nɛi] a [ka:i]	[nɛi] a [ka:i]
[ɾɔi] “rhoi”	[ɾɔi] ~ [ɾo:i]	[ɾɔi] ~ [ɾo:i]	[ɾɔi] ~ [ɾo:i]
[glau] “glaw” [*lɛu] “(go) lew”	[glau] [*lɛu]	[glau] ~ [gla:u] [*lɛu] ~ [*le:u]	[glæ:u] “naw” [*le:u] “(go) lew” (deuseiniaid byrion yn absennol)

7.4.4. Y cam nesaf

Yng ngoleuni canlyniadau a goblygiadau y gwaith meintiol a gyflawnwyd yn achos yr ‘u ogleddol’, ac a drafodwyd yn fanwl yn y bennod hon, bydd y tair pennod nesaf yn dadlennu canlyniadau dadansoddiadau meintiol cyffelyb a wnaed ar y nodweddion ffonolegol eraill sy'n ganolog i'r astudiaeth hon. Eir ati yn y bennod nesaf, felly, i fanylu ar yr ‘æ fain’ yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni, gan geisio gweld a oes ystyriaethau ieithyddol, cymdeithasol neu rai hanesyddol tebyg i'r hyn a welwyd yn y bennod hon yn dylanwadu ar y defnydd a wneir ohoni.

PENNOD 8: Yr ‘æ fain’

8. Cyflwyniad

Y nodwedd nesaf a ddadansoddir yn fanwl yw’r ‘æ fain’. Soniwyd eisoes ym mhennod 2 am y modd cysylltir rhannau helaeth o ganolbarth Cymru â llafariad fwy caeedig a mwy blaen na’r [a(:)] agored a geir yn gyson yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru, ac a gynrychiolir fel rheol gan y symbol [æ(:)].¹⁸² Gwelwyd hefyd fod map 7 pennod 2 (2.2.2.5) o eiddo B. Thomas a P. W. Thomas (1989: 37) yn dangos tiriogaeth yr ‘æ fain’ yn eglur.¹⁸³

Ar sail astudiaethau ymchwilwyr blaenorol a fu’n cyflawni gwaith maes yn y canolbarth, buasai disgwyl i’r ‘æ fain’ ymddangos mewn llafariad hir fel rheol, e.e. yn [tæ:d] “tad” a [kanja^ltæ:d] “caniatâd”, ac efallai mewn ambell lafariad fer, e.e. yn [mæm] “mam”. Fodd bynnag, yn sgil fy nadansoddiad manwl o batrymau ffonolegol dau siaradwr o bob ardal (gweler penodau 4 a 5), sylwyd bod [a(:)] ac [æ(:)] yn ymgynwedd â’i gilydd mewn nifer o gyd-destunau gwahanol yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd. Cymerer yr parau canlynol o ffurfiau, er enghraifft, sy’n dangos bod amrywio ar waith, nid yn unig o fewn y gair, ond hefyd o fewn llafar yr unigolyn:

	<u>Cyffiniau Harlech</u>	<u>Bro Dysynni</u>
Geiriau unsill; llafariad hir:	[bræ:v] ~ [bra:v] “braf”	[gwæ:s] ~ [gwa:s] “gwas”
Geiriau unsill; llafariad fer:	[gævr] ~ [gavr] “gaft”	[plænt] ~ [plant] “plant”
Geiriau unsill; elfen gyntaf deusain hir:	[glæ:u] ~ [gla:u] “glaw”	[læ:iθ] ~ [la:iθ] “llaeth”

¹⁸² Er eglurder, dynodi bod hyd llafariad yn opsiynol y mae (:), e.e. cynnwys [æ(:)] y llafariad hir [æ:] yn ogystal â’r llafariad fer [æ].

¹⁸³ Dangosir ar y map hwn fod y nodwedd hon yn gysylltiedig hefyd â thafodieithoedd traddodiadol y de-ddwyrain. Noder, er hynny, mai [ɛ:] yw’r symbol a ddefnyddir yn gyson gan Beth Thomas (1998) ar gyfer cynrychioli ansawdd llafariad hir agored Pont-rhyd-y-fen.

Geiriau unsill; elfen gyntaf deusain fer:	[kæus] ~ [kaus] “caws”	[pæid] ~ [paid] “paid”
Goben acennog; llafariaid fer:	[kærjɔ] ~ [karjɔ] “cario”	[ʃærad] ~ [ʃarad] “siarad”
Sillaf olaf ddiacen; llafariad fer:	[baræ] ~ [bara] “bara”	[ivæŋk] ~ [ivaŋk] “ifanc”

Oherwydd yr amrywiadau hyn a sefydlwyd yn barod, felly, ni fwriedir rhagdybio dim yn y bennod hon o ran yr amodau a all ganiatáu'r ‘æ fain’.

Fel yn achos yr ‘u ogleddol’, penderfynwyd mai dau sylweddoliad posibl a oedd i newidyn yr ‘æ fain’: naill ai [æ(:)] neu [a(:)]. Ystyrir, fodd bynnag, y gall ansawdd y llafariad hon amrywio o ardal i ardal, a hyd yn oed o’r naill siaradwr i’r llall. Er hynny, manylwyd eisoes ym mhennod 3 (3.4.3) ar fy mhenderfyniad i drin y newidyn hwn fel un deuaidd (fel y gwnaeth Beth Thomas ym Mhont-rhyd-y-fen) gan na theimlwn y gallwn wahaniaethu rhwng gwahanol ansodau’r newidyn mewn modd cyson a gwrthrychol. Er hynny, ceir mewn mannau nodiadau yn tynnu sylw at wahaniaethau ansawdd cyffredinol rhwng y ddwy ardal, yn ogystal â rhwng gwahanol gyd-destunau yn yr un ardaloedd pan deimlir bod hynny’n briodol.

Ar ôl adysgrifio pob ffurf berthnasol, felly, lluniwyd rhestri yn nhrefn yr wyddor yn nodi pob ffurf, a rhoddwyd nifer y tocynnau a gafwyd ar gyfer pob ffurf neu deip (*type*) mewn cromfachau. Dangosir hyn yn eglur isod mewn rhan o dabl a wnaed ar gyfer un siaradwr o ardal Harlech (T.R), a hynny ar gyfer un cyd-destun penodol, sef llafariaid agored hir mewn geiriau unsill (boent o dan yr acen bwys ai peidio). Drwy lunio rhestri fel hyn, yr oedd modd cyfrifo’r sgorau a oedd yn berthnasol i’r nodwedd hon, sef canrannau y tocynnau a gynhwysai [æ(:)]. Crynhoir y canlyniadau hyn, felly, mewn graffiau isod yn 8.1 ac 8.2, lle y mae’r llinellau lliw yn cynrychioli gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Er hwylustod wrth gymharu gwahanol gyd-destunau â’i gilydd, ymddengys chwe siaradwr y ddwy ardal yn yr un drefn drwy’r graffiau, ac ar sail sgorau’r siaradwyr yn y cyd-destun cyntaf un (o’r uchaf i’r isaf) y sefydlwyd y drefn honno. Sylwer, felly, nad yw siaradwyr Bro Dysynni yn ymddangos yn yr un drefn yma ag y maent yn achos yr ‘u ogleddol’ ym mhennod 7.

O dan yr acen		Heb fod o dan yr acen	
[a:]	[æ:]	[a]	[æ]
[a:g] “ac” (4)			
[a:] “es” (1)			
	[æ:θ] “aeth” (1)		
[ba:χ] / [*va:χ] “bach” (4)	[bæ:χ] “bach” (6)	[baχ] “bach” (1)	
[bra:v] “braf” (2)	[bræ:v] “braf” (3)		
[ka:l] / [*ga:l] “cael” (7)	[kæ:l] / [*gæ:l] “cael” (2)	[kal] / [*gal] “cael” (20)	[kæl] / [*gæl] “cael” (6)
[da:] “da” (2)	[dæ:] “da” (3)		
[da:ld] “deall” (1)			
[gra:t] “grât” (1)			
[*wa:g] “gwag” (1)			
	[gwæ:s] “gwas” (1)		
[la:ð] “lladd” (2)	[læ:ð] “lladd” (1)		
[ma:] “mae” (1)		[ma] “mae” (29)	

Yng ngweddill y bennod hon, felly, trafodir y canlyniadau a gafwyd yn llawn. Fel y nodwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf, y mae'r data cyflawn sy'n sail i ganlyniad pob graff yn ymddangos yn yr atodiad.¹⁸⁴ Rhoddir sylw i ddechrau yn 8.1 i'r defnydd a wneir o [æ(:)] yng nghyffiniau Harlech, a dilynir yr ymdriniaeth honno â dadansoddiad tebyg o'r sefyllfa ym Mro Dysynni yn 8.2. Eir ati wedyn i gymharu canlyniadau'r ddwy ardal yn 8.3, cyn y tynnir casgliadau yn 8.4 ynghylch natur yr amrywio a welir ar waith o safbwynt y nodwedd hon yn y ddwy ardal. Dylid egluro na roddir sylw i'r defnydd o [æ(:)] mewn rhai cyd-destunau, e.e. y sillaf ragobennol a'r sillaf olaf acennog, gan na chafwyd digon o docynnau perthnasol i brofi dim yn bendant.

¹⁸⁴ Noder na cheir yn yr atodiad ystadegau ar gyfer graffiau'r gymhariaeth (yn 8.3) gan mai ailadrodd yr un canlyniadau â gyflwynir yn 8.1 ac 8.2 isod a wneir yno.

8.1. Cyffiniau Harlech

Yn yr adran hon, bwriedir dadansoddi'n fanwl y defnydd a wneir o'r 'æ fain' yn iaith y chwe siaradwr a gafwyd yn ardal Harlech. Dechreuir â llafariaid syml (rhai hir a byr), gan ddadansoddi gwahanol gyd-destunau unsill a rhai amlsillafog yn eu tro. Eir ati wedyn i archwilio i ddefnydd y siaradwyr o [æ(:)] mewn gwahanol fathau o ddeuseiniaid.

8.1.1. Llafariaid syml

Trafodir yn gyntaf ddefnydd siaradwyr ardal Harlech o lafariaid agored hir mewn geiriau unsill, cyn yr edrychir wedyn ar y modd y mae'r llafariaid byrion cyfatebol yn patrymu mewn gwahanol gyd-destunau unsill ac amlsillafog.

8.1.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir

Wrth archwilio i ddefnydd siaradwyr ardal Harlech o sain yr 'æ fain', penderfynwyd dadansoddi llafariaid hir mewn geiriau unsill i ddechrau. Y mae llinell las graff 8.1, felly, yn adlewyrchu'r defnydd a wneir o [æ(:)] yn y cyd-destun hwn. O gynnwys pob ffurf berthnasol sy'n cynnwys [a(:)] / [æ(:)], felly, gwelir ar y llinell hon amrediad eang o sgorau yn rychwantu o 72% i 33%.


Fodd bynnag, gellir barnu bod dau fath gwahanol o lafariaid agored "hir" yn sail i'r llinell las hon, sef

1. Llafariaid hir sydd o dan yr acen bwys, e.e. [kæ:l] "cael" a [bæ:χ] "bach"
2. Llafariaid nad ydynt o dan yr acen bwys, ac sy'n fyr o ganlyniad i hynny (er y byddent yn hir fel arall), e.e. [kæ] "cael" a [bæχ] "bach"

Gwelwyd eisoes wrth ymdrin â sain yr 'u ogleddol' yn y bennod ddiwethaf na ellir cymryd yn ganiataol fod ffurfiau acennog, e.e. [di:ð] "dydd", yn ymddwyn yn debyg i ffurfiau diacen, e.e. [di(ð) hi:n] "dydd (Llun)", a bod modd i'r acen bwys effeithio ar ansawdd llafariaid yn ogystal â'u hyd. O safbwynt yr 'æ fain' mewn llafariaid hir, felly, penderfynwyd dosbarthu

ffurfiau a oedd o dan yr acen bwys a'r rhai nad oeddynt mewn grwpiau ar wahân rhag ofn y ceid gwahaniaethau arwyddocaol yn eu hamlygu eu hunain rhwng sgorau'r ddau gyd-destun hyn. Y mae llinell goch graff 8.1, felly, yn adlewyrchu'r defnydd o [æ:] hir mewn ffurfiau acennog, tra bo llinell werdd yr un graff yn cynrychioli sgorau'r ffurfiau diacen. Gwelir yn glir, felly, ddefnydd sylweddol uwch o'r 'æ fain' mewn ffurfiau acennog na mewn rhai diacen.

Graff 8.1




Gwelwyd ym mhennod 7 hefyd dueddiad gan rai ffurfiau gramadegol, e.e. [o:ið] “oedd” ac [ɔiðun] “oeddw’n”, i ymddwyn yn wahanol i’r arfer o safbwynt y defnydd a wneid o’r ‘u ogleddol’. O ran yr ‘æ fain’, y ffurfiau gramadegol niferus a oedd i’w gweld yn ymddwyn yn wahanol i eitemau geirfaol cyffredin oedd [ma(:)] / [mæ(:)] “mae” (U3 presennol ‘bod’).¹⁸⁵ Barnwyd hefyd y gallasai ambell gysylltair eithriadol a oedd â llafariad hir, e.e. [a:] “a” ac [æ:g] “ac”, fod yn ymddwyn yn wahanol i lafariaid hir arferol, er nad oedd y rhain yn niferus iawn. Penderfynwyd, felly, hepgor yr holl docynnau gramadegol hyn, boent o dan yr acen ai peidio, er mwyn gweld pa effaith a gâi hyn ar y gwahanol sgorau.

¹⁸⁵ Gellir nodi yma mai’r ffurfiau diacen [ma] / [mæ] yw’r rhan fwyaf o’r tocynnau “mae” hyn. O blith y ffurfiau berfol diacen hyn, prin iawn neu gwbl absennol yw’r defnydd o’r ‘æ fain’ ynddynt, a dengys y sgorau’n glir mai [ma] yw’r ffurf fwyaf arferol yng nghyffiniau Harlech. E.J, fodd bynnag, yw’r eithriad amlwg, gan y ceir ganddi sgôr uwch na’r gweddill o [mæ]. Gweler Atodiad: 8a am y canlyniadau hyn yn llawn.

Canlyniad yr arbrawf hwn, felly, yw'r darlun a bortreedir yng ngraff 8.2. Gwelir bod sgorau llinell las y graff hwn, sy'n ystyried llafariaid acennog a rhai diacen, yn amlwg uwch gan bob siaradwr na'r hyn a gafwyd ganddynt yn yr un cyd-destun yng ngraff 8.1, a'u bod yn rhychwantu o 89% i 41% i y tro hwn. O safbwynt sgorau'r llinell goch wedyn, sy'n darlunio sefyllfa'r ffurfiau acennog yn unig, nid ydynt yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd yng ngraff 8.1. Y maent er hynny ychydig yn uwch ar y cyfan, ac yn amrywio rhwng 92% a 46%. Ar y llaw arall, gwelir ar y llinell werdd gynnydd sylweddol yng nghanrannau pob un o'r siaradwyr yn eu defnydd o [æ] mewn ffurfiau diacen, gydag amrediad y sgorau rhwng 92% ac 20%. Er hyn, dengys graff 8.2 fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys 'æ fain' yn parhau'n gyffredinol is mewn geiriau nad ydynt o dan yr acen. J.E yw'r unig eithriad i'r patrwm hwn gan fod ei sgôr ef ychydig yn uwch ar y llinell werdd.

Graff 8.2



Yr hyn sydd fwyaf trawiadol ynghylch pob un o'r llinellau yng ngraff 8.2 yw eu bod yn adlewyrchu rhychwant eang o sgorau, er mai i genhedlaeth hŷn un ardal wledig yn y bôn y perthyn pob un o'r siaradwyr. Er mai gan D.O, y siaradwr hynaf (11/10/1918), y ceir y ganran uchaf o docynnau sy'n cynnwys [æ:] mewn ffurfiau acennog (y llinell goch), nid yw oedrannau'r siaradwyr yn ddigon i egluro'r amrywio helaeth hwn, yn enwedig gan nad yw rhai o sgorau D.O yn wahanol iawn i eiddo J.E a G.J fel ei gilydd. Ac eithrio D.O, dylid cofio fod dyddiadau geni y pum siaradwr arall o fewn pum mlynedd i'w gilydd (rhwng 31/01/1929 a 25/01/1934), ac nad oes rhaniadau amlwg ar sail rhywedd i'w gweld yma chwaith.¹⁸⁶ Gellir cynnig, felly, fod yr amrywio helaeth hwn yn awgrymu mai ymdrin ag ardal drawsnewid yr ydym, lle y gwelir [æ(:)] ac [a(:)] yn ymglyfnwid yn gyson ar gyrion tiriogaeth yr 'æ fain', ond i raddau gwahanol gan bob siaradwr.

8.1.1.2. Geiriau unsill; llafariaid byrion (o dan yr acen)


Gan droi ein golygon at llafariaid byrion mewn geiriau unsill, gellir dweud nad [mæm] "mam" yw'r unig ffurf y ceir ynnddi'r 'æ fain' yn ymddangos yn fyr. Cafwyd hefyd enghreifftiau o ffurfiau megis [plænt] "plant", [gævr] "gafir", a [hærð] "hardd" yng nghyffiniau Harlech. Sylwyd, fodd bynnag, fod union ansawdd y llafariad yn tueddu i fod yn fwy caeedig yn y ffurf [mæm] nag ydoedd mewn geiriau eraill, ac awgryma hyn fod [mæm] wedi hen ymsefydlu yn y dafodiaith, ac mai'n ddiweddarach y daeth [æ] fer yn gyffredin mewn geiriau eraill. Gan mai dwy enghraifft yn unig a gafwyd o llafariaid hanner hir yn ardal Harlech, sef [mæ·m] "mam" a [*bla·nt] "plant" gan E.J., a'u bod yn amrywio â llafariaid byrion yn y ddau achos, penderfynwyd cynnwys y ffurfiau hynny gyda'r llafariaid byrion cyffredin.

Y mae graff 8.3, felly, yn ddrych o'r sefyllfa cyhyd ag y bo llafariaid agored byrion geiriau unsill yn y cwestiwn. Nid yn unig y gwelir yn eglur fod sgorau llinell las y graff hwn, sy'n amrywio rhwng 30% a 3%, yn sylweddol is na'r hyn a welwyd yn achos y llafariaid syml hir, ond y mae hefyd yn drawiadol nad oes modd gweld nemor ddim cydberthynas rhwng sgorau'r llafariaid byrion hyn a'r rhai hir. Cymerer E.J, er enghraifft, sydd â'r ganran uchaf

¹⁸⁶ Gweler manylion y siaradwyr ym mhennod 3 (3.2.3).

yn y cyd-destun hwn o docynnau sy'n cynnwys [æ], yn wahanol iawn i ganlyniadau ei llafariaid hir. Awgryma'r canlyniad hwn, felly, fod llafariaid agored hir yn ymddwyn yn hollol wahanol i rai byrion yn y dafodiaith hon.


Graff 8.3



O gofio bod ffurfiau gramadegol tra chyffredin fel [ma(:)] / [mæ(:)] “mae” wedi dylanwadu’n sylweddol ar ganlyniadau’r llafariaid hir, penderfynwyd y byddai’n syniad hepgor holl eitemau gramadegol y cyd-destun hwn hefyd rhag ofn fod y ffurfiau niferus hyn yn llurgunio’r canlyniadau mewn rhyw ffordd.¹⁸⁷

¹⁸⁷ Cynnwys y geiriau gramadegol hyn gysyllteiriau, e.e. [a] “a”, [æg] “ac”, [na] “na” (*nor*), [næ] “na” (*than*), a [ma] ‘mai’; arddodiaid fel [ar] “ar”, [æm] “am”, [at] “at”; y berfau [dan] “(ry)dan”, [daχ] “(ry)dach”, a [man] “maen(t)”; y cysylltair [pan] “pan” a’r adferf [pam] “pam” (popeth na all sefyll yn annibynnol mewn geiriau eraill).

Graff 8.4




Y mae'n eglur oddi wrth graff 8.4, felly, fod canran y tocynnau sy'n cynnwys [æ] yn cynyddu yn iaith pob siaradwr pan hepgorir y geiriau gramadegol hyn. Awgryma hynny fod [æ] yn fwy tebygol o ymddangos mewn eitemau geirfaol ystyrllon na mewn geiriau gramadegol tra chyffredin. Os mai mynd i'r afael yr ydym, felly, â datblygiad ieithyddol lle y mae'r 'æ fain' yn ymddangos mewn llafariaid byrion drwy gydweddiad â'r rhai hir, gellir dadlau mai mewn eitemau geirfaol ystyrllon y mae'r broses hon yn cychwyn, a'i bod yn dra thebygol mai'r cyntaf o'r rheini oedd [mæm].

8.1.1.3. Y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen; llafariaid byrion

Yng ngoleuni'r patrymau newydd a gododd yn achos llafariaid byrion mewn geiriau unsill, aed ati i archwilio i weld a oedd [æ(:)] yn gyffredin hefyd mewn cyd-destunau amlsillafog. Cadarnha graff 8.5, felly, fod modd clywed [æ] yn y goben acennog, e.e. yn [gælu] "galw" a [kænɔl] "canol", ac yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [mɪŋkjæɡ] "minciag" ac [ardæɫ] "ardal", a hynny yn iaith pob un o siaradwyr cyffiniau Harlech. Dylid nodi, fodd bynnag, fod ansawdd y sain yn llai caeedig yn y llafariaid byrion hyn nag ydyw pan fo'r llafariad yn hir, ac y gall hyn egluro pam na chofnodwyd bodolaeth y sain hon yn y cyd-destunau hyn gan ymchwilywyr eraill a fu'n canolbwyntio ar lafar y canolbarth yn y gorffennol. Amlygir yng ngraff 8.5, felly, fod sgorau'r goben acennog (y llinell las) a rhai'r sillaf olaf ddiacen (y llinell goch) yn dra thebyg i'w gilydd yn ardal Harlech.

Graff 8.5



8.1.1.4. Cymharu geiriau unsill â rhai amsillafog; llafariaid syml


Gwelwyd hyd yma y gall yr ‘æ fain’ ymddangos fel llafariad hir ac un fer, a hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau unsill ac amsillafog gwahanol. Y cam nesaf, felly, yw cymharu canlyniadau’r cyd-destunau hyn â’i gilydd er mwyn gweld a oes unrhyw gydberthynas rhyngddynt.¹⁸⁸

Gwelir yn eglur oddi wrth graff 8.6 fod y llafariaid agored hir i’w gweld yn ymddwyn yn dra gwahanol i lafariaid agored byrion o bob math, a bod lefelau’r ‘æ fain’ yn uwch yn y llafariaid hyn nag yn y cyd-destunau eraill gan bob un o siaradwyr cyffiniau Harlech. Y mae’n hynod drawiadol hefyd fod cydberthynas amlwg i’w gweld rhwng sgorau’r tri chyd-destun y ceir ynddynt lafariaid byrion (h.y. geiriau unsill, y goben acennog, a’r sillaf olaf ddiacen). Awgryma hyn yn gryf nad ar hap a damwain y gwelir lefelau’r siaradwyr yn

¹⁸⁸ Y mae llinell las graff 8.6, sy’n cynrychioli llafariaid hir mewn geiriau unsill, yn cynrychioli’r canlyniadau a gafwyd pan gynhwysir ffurfiau gramadegol (h.y. [ma(:)] / [mæ(:)] “mae” yn bennaf). Sefydlwyd eisoes yng ngraff 8.2, er hynny, y byddai’r lefelau llinell las hon yn uwch o hepgor geiriau gramadegol. Noder mai cyfuniad o ffurfiau acennog, e.e. [bæ:χ] “bach” a [kæ:l] “cael”, a ffurfiau diacen, e.e. [bæχ] “bach” a [kæɪ] “cael”, sy’n sail i’r canlyniadau hyn (h.y. yr un llinell â’r un las yng ngraff 8.1 sydd yma).

amrywio o safbwynt eu defnydd o'r 'æ fain' mewn llafariaid byrion, ond eu bod yn hytrach yn patrymu mewn modd tra chyson ar draws y gwahanol gyd-destunau. Cadarnha'r graff hwn, felly, yr hyn a awgrymai graffiau 8.3 ac 8.5, sef bod llafariaid agored byrion nid yn unig yn ymddwyn yn hollol wahanol i'r rhai hir, ond eu bod hefyd yn datblygu mewn modd tebyg iawn mewn sawl cyd-destun gwahanol. Diau fod y canfyddiad hwn, felly, yn taflu goleuni newydd ar y defnydd o'r 'æ fain' yn nhafodieithoedd y canolbarth.

Graff 8.6



8.1.2. Deuseiniaid

Cafwyd yng nghyffiniau Harlech enghreifftiau o'r 'æ fain' yn ymddangos fel elfen gyntaf gwahanol ddeuseiniaid o flaen [i], [u] ac [i].¹⁸⁹ Ymdrinnir i ddechrau â'r deuseiniaid hyn mewn ffurfiau unsill, cyn y trafodir yn gryno rai deuseiniaid sydd hefyd yn ymddangos mewn cyd-destunau amlsillafog.

8.1.2.1. Geiriau unsill

Edrychir yn gyntaf ar ddeuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u], y rhai y gwelwyd ym mhennod 5 eu bod yn rhagweladwy fyr yn y rhan fwyaf o gyd-destunau seinegol yn ardal Harlech. Eir ati wedyn i ymdrin â deuseiniaid sy'n cau ag [i], y rhai sydd gan amlaf yn hir ym mhob un cyd-destun seinegol (ac eithrio pan **na** fydd geiriau o dan yr acen bwys).

Dylid pwysleisio yma nad yw dadansoddi patrymau'r deuseiniaid hyn cyn symled ag yr oedd hi yn achos llafariad syml yr adran flaenorol, yn bennaf oherwydd prinder ffurfiau perthnasol gan nifer o siaradwyr yn achos rhai cyd-destunau. O ganlyniad, y mae'r graffiau isod sy'n cymharu defnydd pob unigolion o [æ(:)] yn gyfyngedig i gyd-destunau y cafwyd ynddynt niferoedd derbyniol o docynnau. Daethpwyd i'r casgliad, fodd bynnag, mai un ffordd o gael niferoedd gwell a mwy dibynadwy o docynnau mewn cyd-destunau lle'r oedd ffurfiau yn brin oedd drwy gyfuno sgorau'r holl siaradwyr. Derbynnir yn llwyr nad yw'r dull hwn yn llwyddo i adlewyrchu'r amrywiaeth o sgorau y gellir eu cael rhwng gwahanol siaradwyr o'r un ardal. Fodd bynnag, bernir y gall y dull hwn fod yn effeithiol ar gyfer darlunio'r tueddiadau cyffredinol a geir ar waith ymhlith grŵp o siaradwyr, a bod modd hefyd i gymariaethau o dueddiadau cyffredinol dwy ardal fod yn ddadlennol (gweler 8.3 isod). Dylid pwysleisio, er hynny, na fwriedir i'r canrannau hyn gael eu cymryd fel rhai absoliwt mewn


¹⁸⁹ O ran y modd y cyflwynir y gwahanol ddeuseiniaid hyn, cedwir yma at yr un drefn ag a ddilynwyd ym mhennod 5 (5.1.4) wrth ymdrin â dylanwad y cyd-destun seinegol ar batrymau'r deuseiniaid yn y ddwy ardal. Hefyd er eglurder, ymdrinnir â deuseiniaid byrion a rhai hir ar wahân i'w gilydd, sy'n gyson â'r hyn a wnaed yn achos llafariad syml byrion a rhai hir.

unrhyw fodd. Dylid eu dehongli yn hytrach fel awgrymiadau o'r tueddiadau sydd ar waith yn yr ardal.

8.1.2.1.1. Deuseiniaid sy'n cau ag [i]

Yng nghyffiniau Harlech, deuseiniaid byrion yn unig a gafwyd yn y cyd-destun hwn.¹⁹⁰ Sylwyd, felly, ar [ai] ac [æi] yn ymglyfnwid â'i gilydd yno mewn geiriau unsill, e.e. yn [gwaiθ] "gwaith" a [χwæiθ] "chwaith".¹⁹¹ O ddadansoddi'r amrywio hwn yn fanwl, gwelir yng ngraff 8.7 gryn amrediad o sgorau, gyda chanrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æi] yn amrywio rhwng 45% a 13%.

Graff 8.7




¹⁹⁰ Yn wahanol i'r sefyllfa ym Mro Dysynni, nid oes modd i [a:i] / [æ:i] godi yn yr ardal hon. Gwahanol yw hyn, felly, i'r ymglyfnwid a welir rhwng [ɔi] ac [o:i] yn ardal Harlech pan na cheir cytsain yn dilyn, e.e. yn [troi] ~ [tro:i] "troi".

¹⁹¹ Y mae'n werth nodi yma na cheir dim sôn am y ddeusain fer [æi] mewn astudiaethau eraill a ganolbwyntiodd ar rannau o'r canolbarth.

8.1.2.1.2. Deuseiniaid sy'n cau ag [u]

Yn wahanol i'r deuseiniaid blaenorol, y mae modd i'r rhai sy'n cau ag [u] fod naill ai'n fyr neu'n hir yn ardal Harlech.¹⁹² Edrychir yn gyntaf, felly, ar ffurfiau sydd â'r deuseiniaid byrion [au] ac [æu], e.e. [maur] “mawr” a [kjæus] “caws”, gan ddadansoddi'r defnydd o'r ‘æ fain’ ynddynt. Dengys graff 8.8, felly, fod amrywiaeth eang o sgorau i'w gweld eto yn y cyd-destun hwn, a bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æu] yn rhychwantu rhwng 69% a 17%.¹⁹³ Gwelir bod sgôr E.J yn eithriadol uchel, a bod hyn fel petai'n cyd-fynd â chryfder yr ‘æ fain’ ganddi mewn llafariaid syml byrion.


Graff 8.8



¹⁹² Ceir deuseiniaid byrion sy'n cau ag [u] yn ymddangos o flaen nifer o gytseiniaid gwahanol, tra bo'r rhai hir ar y llaw arall yn gyfyngedig i un cyd-destun seinegol penodol, sef pan na cheir cytsain yn dilyn [a:u] / [æ:u].

¹⁹³ Noder na ddisgwyliid y canlyniad amrywiol hwn o ddarllen ymdriniaethau'r gorffennol o lafar y canolbarth gan mai D. W. Griffiths yw'r unig un sy'n cyfeirio at fodolaeth y ddeusain fer [æu], a hynny'n y ffurfiau [pnæun] “prynhawn” ac [inlæu] “unllaw” yn unig (1974: LXXXV).

Graff 8.9




Teimlwyd ei bod hefyd yn briodol cymharu defnydd siaradwyr ardal Harlech o'r deuseiniaid byrion [æi] ac [æu], sef canlyniadau'r ddau gyd-destun a ddangosir yng ngraff 8.9. Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y graff hwn yn sicr yw'r cryn debygrwydd a welir rhwng sgorau'r siaradwyr o ran [æi] ac [æu] fel ei gilydd. Eithriad i'r gydberthynas hon, fodd bynnag, yw E.J, lle y gwelir ddefnydd sylweddol uwch o [æu] nag o [æi] ganddi hi.

Trown ein golygon nesaf at ffurfiau sy'n cynnwys y deuseiniaid hir [a:u] ac [æ:u], e.e. [na:u] "naw" a [glæ:u] "glaw".¹⁹⁴ Ni ellir, fodd bynnag, gymharu defnydd gwahanol unigolion yn y cyd-destun hwn oherwydd prinder tocynnau perthnasol. Yr hyn a wnaed, felly, yw cyplysu sgorau'r chwe siaradwr er mwyn cael syniad o duedd cyffredinol y grŵp o safbwynt eu defnydd o [æ:u]. Ar sail cyfanswm o 33 thocyn, felly, nodwyd bod 76% o'r rheini yn cynnwys [æ:u], ac adlewyrchir hynny'n glir yng ngraff 8.10.¹⁹⁵ Awgryma'r canlyniad hwn, felly, fod y defnydd a wneir o [æ:u] hir yn ardal Harlech yn gyffredinol uwch na'r defnydd a welir yno o [æu] fer (cymharer 76% â gwahanol sgorau graff 8.8).

¹⁹⁴ Gellir nodi yma fod cyfeiriadau at [æ:u] hir yn y canolbarth yn fwy cyffredin yng ngwaith ymchwilwyr eraill nag unrhyw sôn am [æu] fer (gweler Pennod 2: 2.2.2).

¹⁹⁵ Derbynnir mai histogram yn hytrach na "graff" fel y cyfryw a geir yma, ond er hwylystod wrth rifo histogramau a graffiau llinell y bennod hon, fe'u hystyrir i gyd yn "graffiau".

Graff 8.10



8.1.2.1.3. Deuseiniaid sy'n cau ag [i]

Y mae hefyd yn gyffredin yn ardal Harlech i'r deuseiniaid hir [a(:)i] ac [æ(:)i] ymddangos mewn ffurfiau fel [χwa:ir] "chwaer" a [sdæ:ir] "staer". Y mae llinell las graff 8.11, felly, yn ddrych o'r canlyniadau a geir pan ystyrir pob un o'r deuseiniaid hyn, a gwelir arni fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æ(:)i] yn amrywio rhwng 46% a 10%.


Fodd bynnag, yn debyg i sefyllfa'r llafariaid syml hir, gellir ystyried bod dau ddsbarth gwahanol o ddeuseiniaid "hir" yn sail i'r llinell las hon, sef

1. Deuseiniaid sydd o dan yr acen bwys, ac sydd wirioneddol yn hir, e.e. [χwa:ir] "chwaer" a [sdæ:ir] "staer"
2. Deuseiniaid byrion nad ydynt o dan yr acen bwys, ond a fyddai'n hir pe byddent, e.e. [mai] "mae" a [læiθ (ɛnwɪn)] "llaeth (enwyn)"

Aed ati, felly, i rannu'r ffurfiau a gafwyd i'r ddau ddsbarth uchod. Y mae llinell goch graff 8.11, felly, yn ystyried y geiriau sydd o dan yr acen bwys yn unig, a'r hyn a welir yma yw bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æ:i] hir ar y cyfan yn uwch o hepgor ffurfiau diacen fel [mai] "mae" a [læiθ] "llaeth". Ceir ar y llinell hon, felly, rychwant o sgorau rhwng


58% a 10%. Y mae'n amlwg hefyd fod sgorau T.R yn sylweddol uwch nag eiddo gweddill y siaradwyr o ran ei ddefnydd o [æ(:)i].

Graff 8.11




Er bod modd casglu oddi wrth ganlyniadau graff 8.11 fod [æ:i] yn fwy tebygol o ymddangos mewn ffurfiau acennog nag y mae [æi] o godi mewn ffurfiau diacen, nid oes modd cymharu sgorau gwahanol unigolion ar gyfer geiriau diacen fel [mai] “mae” a [læiθ] “llaeth” oherwydd prinder ffurfiau. Er hynny, penderfynwyd cymharu'r defnydd o [æ(:)i] mewn ffurfiau acennog a rhai diacen drwy gyfuno sgorau perthnasol pob siaradwr. Gwelir effaith yr arbrawf hwn yng ngraff 8.12. Y mae'r bloc glas yn gyntaf yn ddrych o'r sefyllfa pan gyplysir y ffurfiau acennog a'r rhai diacen, a'r sgôr gyffredinol a geir ar gyfer [æ(:)i] yw 25% (cymharer â llinell las graff 8.11). Ystyria'r bloc coch wedyn y deuseiniaid [a:i] / [æ:i] sydd o dan yr acen yn unig, a gwelir cynnydd bychan yn y sgôr gyfartalog wrth i 29% o'r 135 tocyn perthnasol gynnwys [æ:i] (cymharer â llinell goch graff 8.11). Yn olaf, darlunia'r bloc gwyrdd fod canran gyfartalog y ffurfiau diacen sy'n cynnwys [æi] yn 11% (ar sail cyfanswm o 35 tocyn). Awgryma'r graff hwn, felly, fod [æ:i] acennog yn fwy tueddol o godi yn ardal Harlech nag y mae [æi] ddiacen. Gellir barnu bod y deuedd hon yn gyson â sefyllfa'r llafariaid syml hir, lle y gwelir gwahaniaeth tebyg rhwng y ffurfiau sydd o dan yr acen bwys a'r rhai nad ydynt o dan bwyslais (gweler graff 8.2).

Graff 8.12



Teimlir mai priodol i gloi fyddai tynnu cymhariaeth rhwng defnydd cyffredinol siaradwyr cyffiniau Harlech o'r ddeusain [æ:i] a'u defnydd o [æ:u].¹⁹⁶ Y mae'n eglur oddi wrth graff 8.13, felly, fod [æ:u] yn llawer mwy tueddol o godi nag ydyw [æ:i] yn yr ardal hon.¹⁹⁷

Graff 8.13



¹⁹⁶ Barnwyd mai [a:i] / [æ:i] mewn ffurfiau acennog yn unig a fyddai fwyaf priodol ar gyfer y gymhariaeth hon gan fod pob [a:u] / [æ:u] a gafwyd hefyd o dan yr acen.

¹⁹⁷ Diau y gall goblygiadau diddorol fod i'r gwahaniaeth hwn o ran datblygiad hanesyddol y ddwy ddeusain hir hyn (gweler 8.4).

8.1.2.2. Geiriau amlsillafog

Gan fod y deuseiniaid a drafodwyd uchod yn dra phrin mewn cyd-destunau amlsillafog, bernir mai'r cyfan y gellir ei wneud mewn gwirionedd yw cyfeirio at eu bodolaeth, gan nodi'r ystadegau annibynadwy a gafwyd yn yr atodiad. Ymdrinnir isod, felly, â'r gwahanol ddeuseiniaid a gafwyd.

- Nodwyd bod y deuseiniaid byrion [ai] ac [æi] yn cydfodoli yn y sillaf olaf ddiacen yn ardal Harlech, e.e. yn [inwaiθ] “unwaith” a [*bigvæin] “pigfain” (gweler Atodiad: 8b).
- Yn achos un gair eithriadol, sef “Cymraeg” gwelwyd y deuseiniaid hir [a:i] ac [æ:i] yn ymgyfnewid â'i gilydd, h.y. yn [kəm'ra:ig] ~ [kəm'ræ:ig] (gweler Atodiad: 8c). Noder mai cau yn gyson ag [i] flaen yn hytrach nag [ɨ] ganol y mae deuseiniaid yn y gair hwn.
- Cafwyd enghreifftiau tebyg o'r deuseiniaid byrion [au] ac [æu] yn ymddangos yn y goben acennog, e.e. yn [lauar] “llawer” ac [æuɾ] “awyr” (gweler Atodiad: 8ch).
- Sylwyd hefyd ar y deuseiniaid hir [a:i] ac [æ:i]¹⁹⁸ yn codi yn y sillaf olaf acennog, e.e. yn [dra'ma:i] “dramâu” ac [ə'mlæ:i] “ymlaen” (gweler Atodiad: 8d).

¹⁹⁸ Ym mhennod 4 (4.2.1), penderfynwyd ystyried ffurfiau fel [na:ki] “naci” a [næ:goið] “nac oedd” fel cyfuniadau o ddau air. Y mae'n werth nodi yma, fodd bynnag, fod enghreifftiau o [a:i] ac [æ:i] hefyd yn ymddangos mewn ffurfiau o'r math hwn, e.e. yn [na:iki] “naci” a [næ:ikja] “nac” + “ie” (er nad yw [na:i] / [næ:i] yn bosibl fel geiriau unsill). Gellir dehongli, felly, fod y deuseiniaid hir [a:i] / [æ:i] yn bosibl yn y goben acennog mewn ffurfiau eithriadol.

8.2. Bro Dysynni

Bwriedir edrych yn fanwl nesaf ar ddefnydd y siaradwyr a gafwyd ym Mro Dysynni o'r 'æ fain'. Cedwir at yr un drefn ag a ddilynwyd yn achos siaradwyr ardal Harlech, gan ddechrau â llafariaid syml, a chloi â gwahanol ddeuseiniaid.

8.2.1. Llafariaid syml

Rhoddir sylw yn y lle cyntaf i ddefnydd siaradwyr Bro Dysynni o lafariaid agored hir mewn geiriau unsill, cyn y dadansoddir wedyn eu defnydd o lafariaid agored byrion mewn gwahanol gyd-destunau unsill ac amlsillafog.

8.2.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir

Yn yr un modd ag a wnaed wrth ymdrin â'r 'æ fain' yn ardal Harlech, trafodir llafariaid agored hir Bro Dysynni yn gyntaf. Adlewyrcha llinell las graff 8.14, felly, y defnydd a wneir o'r 'æ fain' pan ystyrir pob [a(:)] / [æ(:)] perthnasol.¹⁹⁹ Gwelir ar y llinell hon ganlyniadau amrywiol, lle y mae canrannau'r pedwar siaradwr cyntaf yn weddol agos i'w gilydd (rhwng 86% ac 81%), tra bo sgorau'r ddau siaradwr olaf gryn dipyn yn is (61% o docynnau E.W yn cynnwys [æ(:)], a 49% o rai M.V).


Fodd bynnag, fel a nodwyd ar gyfer llafariaid hir ardal Harlech, gellir ystyried bod dau fath gwahanol o "llafariaid hir" yn sail i'r llinell las hon, sef

¹⁹⁹ Sylwer bod trefn siaradwyr Bro Dysynni yn wahanol yn y bennod hon i'r hyn a welwyd yn y bennod flaenorol. Wrth ymdrin â phob nodwedd, y mae trefn y siaradwyr yn y graff cyntaf a lunnir yn cyd-fynd â threfn sgorau'r siaradwyr (h.y. o'r uchaf i'r isaf), ac er hwylustod wrth gymharu gwahanol gyd-destunau perthnasol, cedwir at yr un drefn drwy gydol y bennod. Gwelir, felly, nad yw sgorwyr uchel un nodwedd o angenrheidrwydd yn sgorio'n uchel yn achos nodwedd arall.

1. Llafariaid hir sydd o dan yr acen, e.e. [kæ:l] “cael” a [bæ:χ] “bach”
2. Llafariaid nad ydynt o dan yr acen, ac sy'n fyr o ganlyniad i hynny (er y byddent yn hir fel arall), e.e. [kæ] “cael” a [bæχ] “bach”

Er cysondeb â'r hyn a wnaed â ffurfiau ardal Harlech, felly, dosbarthwyd y ffurfiau acennog a'r rhai diacen mewn grwpiau ar wahân. Adlewyrchir canlyniadau'r ffurfiau acennog, felly, gan linell goch graff 8.14, tra bo llinell werdd yr un graff yn cynrychioli sgorau'r geiriau nad ydynt o dan yr acen. Gwelir yn y graff hwn batrymau amrywiol lle y ceir gan y pedwar siaradwr cyntaf ganrannau uwch o [æ(:)] mewn ffurfiau acennog nag yn y rhai diacen, tra bo'r gwrthwyneb yn wir am ganlyniadau y ddau siaradwr olaf (E.W a M.V). Awgrymir gan sgorau sylweddol is E.W a M.V ar y llinell goch fod yr ‘æ fain’ yn nodwedd sydd o dan rywfaint o reolaeth ganddynt. Nid yw hyn yn egluro, fodd bynnag, pam y mae sgorau'r ddau hyn yn uwch ar y llinell werdd, ac yn agosach o lawer i sgorau'r siaradwyr eraill.


Graff 8.14



Gan y gwelwyd eisoes fod gan y ffurfiau berfol cyffredin [ma(:)] / [mæ(:)] “mae” duddiad i lurgunio'r patrymau a oedd ar waith yng nghyffiniau Harlech, penderfynwyd eu hepgor o'r darlun hefyd ym Mro Dysynni er mwyn gweld beth a fyddai effaith hynny ar y

canlyniadau.²⁰⁰ Er cysondeb â'r hyn a wnaed â siaradwyr ardal Harlech, cafwyd gwared hefyd ar bob cysylltair eithriadol a oedd â llafariad hir, e.e. [a:] “a” ac [æ:g] “ac”, er bod y rhain yn dra phrin ym Mro Dysynni.

Graff 8.15



O hepgor y tocynnau gramadegol hyn, ceir y canlyniad a ddarlunnir yng ngraff 8.15. Gwelir yma batrymau cliriach yn eu hamlygu eu hunain lle y mae canrannau pob un o'r siaradwyr bellach yn uwch ar y llinell werdd na'r un goch, h.y. yn uwch mewn ffurfiâu diacen fel [bæχ] “bach” a [kæɪ] “cael” na mewn ffurfiâu acennog fel [bæ:χ] a [kæ:l]. Gwelir bod canrannau'r pedwar siaradwr cyntaf yn uchel iawn ym mhob cyd-destun, ac awgryma hyn yn gryf fod defnydd sylweddol uchel (h.y. agos i 100%) o'r ‘æ fain’ yn arferol gan y rhan fwyaf o siaradwyr Bro Dysynni. O edrych yn fanylach ar restrï o ffurfiâu'r pedwar hyn, gwelir yn aml mai mewn benthyciadau neu ffurfiâu anghyffredin fel [wa:l] “wal” ac [ja:] “(hufen) iâ” y


²⁰⁰ Y ffurfiâu diacen [ma] / [mæ] yw'r rhan fwyaf o'r ffurfiâu “mæ” hyn. O graffu ar ganlyniadau'r ffurfiâu diacen hyn, gwelir ystod eang o sgorau yn rhychwantu o 77% i 0% (gweler Atodiad: 8dd). Y mae'r sefyllfa, felly, yn amrywiol iawn ym Mro Dysynni o safbwynt [ma] / [mæ], ac yn dra gwahanol i'r sgorau cyson isel a welwyd yn achos y ffurfiâu berfol hyn yn ardal Harlech. Mae'n ddiddorol hefyd mai M.V sy'n gwneud y defnydd helaethaf o [mæ], er mai ef sy'n sgorio isaf ym mhob cyd-destun yng ngraff 8.15. Gellir barnu bod hyn yn gyson â'i dueddiad i ddefnyddio'r ‘æ fain’ yn amlach o lawer mewn ffurfiâu nad ydynt o dan yr acen.

defnyddir ganddynt [a:] yn lle [æ:]. Sylwer, fodd bynnag, ar y gwahaniaethau sylweddol yn sgorau E.W a M.V rhwng eu ffurfiau acennog a'u rhai diacen. Gellir dehongli oddi wrth hyn fod yr 'æ fain' yn nodwedd a reolir (i raddau gwahanol) gan y ddau siaradwr hyn, a bod ganddynt fwy o reolaeth ar eu defnydd o'r 'æ fain' pan fo ffurfiau o dan yr acen, ond llai o reolaeth ar y nodwedd mewn ffurfiau nad ydynt o dan bwyslais. Ymddengys, felly, y gallai agweddau'r gwahanol siaradwyr tuag at y nodwedd dafodieithol hon fod yn dylanwadu ar eu defnydd ohoni. Gellir casglu bod E.W a M.V, i raddau gwahanol i'w gilydd, yn perthyn i garfan gyhoeddus / ddiwylliedig, a bod yr olaf yn sicr yn rhan o rwydweithiau eang yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd sir yng Nghyngor Gwynedd.²⁰¹

8.2.1.2. Geiriau unsill; llafariaid byrion (o dan yr acen)

Y cam nesaf oedd archwilio i'r patrymau a geid o safbwynt defnydd siaradwyr Bro Dysynni o llafariaid agored byrion mewn geiriau unsill, e.e. yn [plænt] "plant", [mæm] "mam" a [pan] "pan". Gan mai prin oedd y llafariaid hanner hir a gafwyd, e.e. yn [plæ·nt] "plant", [ka·mp] "camp" a [mæ·m] "mam", a'u bod i gyd yn amrywio â llafariaid byrion yn debyg i'r sefyllfa yng nghyffiniau Harlech, penderfynwyd cynnwys y ffurfiau hyn gyda'r llafariaid byrion. Gwelir yng ngraiff 8.16, felly, y canlyniadau a gafwyd.

Graff 8.16




²⁰¹ Gweler manylion y siaradwyr ym mhennod 3 (3.2.3).

Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y sgorau hyn yw pa mor wahanol ydynt i'r hyn a welwyd yn achos y llafariaid hir. Bron na cheir gwrthgyferbyniad llwyr yn achos y pedwar siaradwr cyntaf wrth i ganrannau yr [æ(:)] mewn llafariaid hir gyrraedd 100% bron ganddynt, tra bo'r canrannau'n eithaf agos i 0% ganddynt yn achos y llafariaid byrion.

Mae'n ddadlennol hefyd nad yw'r amrywio a welir yn achos y llafariaid hir i'w weld ar waith yn y cyd-destun hwn. Ceir, serch hynny, ganran uwch o'r 'æ fain' gan R.P, a gellid ystyried y posibilrwydd fod a wnelo'r gwahaniaeth hwn â'i hoedran gan ei bod yn ieuengach na'r siaradwyr eraill.²⁰² Efallai yr awgryma hynny ein bod yn ymwneud â datblygiad seinogol nad ydyw wedi cyrraedd ei benllanw eto.

Fel yn achos data ardal Harlech, sylwyd bod nifer helaeth o'r tocynnau a gafwyd yn y cyd-destun hwn yn eiriau gramadegol tra chyffredin.²⁰³ Penderfynwyd, felly, hepgor y geiriau gramadegol hyn, a dangosir effaith hynny ar y canlyniadau yng ngraff 8.17.

Graff 8.17



²⁰² Gweler manylion pob un o'r siaradwyr ym mhennod 3 (3.2.3).


²⁰³ Nodwyd eisoes enghreifftiau o'r geiriau gramadegol hyn ar gyfer ardal Harlech yn 8.1.1.2.

Y mae'n amlwg oddi wrth y graff hwn, felly, fod canran y tocynnau sy'n cynnwys 'æ fain' yn cynyddu yn iaith pob siaradwr (ac eithrio M.V) o gael gwared ar bob gair gramadegol. Awgryma hyn eto fod [æ] fer o dan yr acen yn fwy tebygol o godi mewn eitemau geirfaol ystyrllon na mewn geiriau gramadegol. O ran M.V, fodd bynnag, ni welir cynnydd yn ei ganran ef o docynnau sy'n cynnwys [æ] mewn eitemau geirfaol, ac efallai y gellid awgrymu bod hyn yn gyson â'i dueddiad i reoli ei ddefnydd o'r 'æ fain' o dan yr acen mewn llafariaid hir, h.y. bod M.V yn fwy tueddol o ymwrthod â'r sain yn y geiriau amlycaf eto, boed hynny'n ymwybodol iddo ai peidio.

8.2.1.3. Y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen; llafariaid byrion

Fel yn achos tafodiaith cyffiniau Harlech, darganfuwyd ym Mro Dysynni enghreifftiau o'r 'æ fain' hefyd yn y goben acennog, e.e. yn [kærjɔ] "cario" a [jærad] "siarad", ac yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [ardal] "ardal" a [pɛdwær] "pedwar". Bernir bod ansawdd y llafariaid yn y cyd-destunau hyn unwaith eto yn llai caeedig na'r hyn a geir mewn llafariaid hir, ac felly'n llai amlwg i'r glust.

Graff 8.18



Crynhwir y canlyniadau a gafwyd ar gyfer y ddau gyd-destun amlsillafog hyn yng ngraff 8.18, lle y mae'r llinell las yn cynrychioli'r sefyllfa yn y goben acennog, tra bo'r llinell goch yn darlunio'r hyn a geir ar waith yn y sillaf olaf ddiacen. Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y sgorau hyn, felly, yw bod sgorau pedwar o siaradwyr Bro Dysynni yn debyg iawn i'w gilydd


(bron yn union debyg) yn y ddau gyd-destun dan sylw. Awgryma hyn fod llafariaid byrion yn ymddwyn yn debyg i'w gilydd yn y ddau gyd-destun, yr hyn a awgrymwyd hefyd gan ganlyniadau siaradwyr Harlech a'r cyffiniau (cymharer â graff 8.5). Gwelir yma hefyd fod trefn y siaradwyr o ran eu sgorau yn wahanol i'r hyn a welwyd yn achos y llafariaid hir, ac awgryma hyn eto fod llafariaid agored byrion yn ymddwyn mewn ffordd wahanol i'r rhai hir cyfatebol.

8.2.1.4. Cyd-destunau unsill ac amlsillafog; llafariaid syml

Yn debyg i'r hyn a welwyd yn llafar siaradwyr cyffiniau Harlech, dengys y canlyniadau uchod fod y defnydd o'r 'æ fain' yn gyffredin mewn llafariaid hir a rhai byrion ym Mro Dysynni hefyd, a hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Eir ati yn olaf, felly, i gymharu'r gwahanol ganlyniadau a gafwyd er mwyn gweld a geir cydberthynas rhwng patrymau'r gwahanol gyd-destunau ai peidio.²⁰⁴

²⁰⁴ Fel yn achos graff 8.6 (ardal Harlech), lluniwyd llinell las graff 8.19, sy'n cynrychioli llafariaid hir geiriau unsill, ar sail y canlyniad a geir pan gynhwysir ffurfiau gramadegol (h.y. [ma(:)] / [mæ(:)] yn bennaf). Dangoswyd eisoes yng ngraff 8.15, fodd bynnag, fod sgorau'r cyd-destun hwn yn uwch pan hepgorir geiriau gramadegol. Noder mai cyfuniad o ffurfiau acennog, e.e. [bæ:χ] "bach" a [kæ:l] "cael", a rhai diacen, e.e. [bæχ] "bach" a [kæl] "cael", sy'n sail i'r canlyniadau hyn (h.y. yr un llinell â'r un las yng ngraff 8.14 sydd yma).

Graff 8.19



Gwelir yn amlwg yng ngraff 8.19, felly, fod y llafariaid agored hir i'w gweld yn ymddwyn yn dra gwahanol i lafariaid agored byrion o bob cyd-destun, a bod lefelau'r 'æ fain' yn sylweddol uwch yn y llafariaid hir hyn yn iaith pob un siaradwr ym Mro Dysynni. O safbwynt y gwahanol gyd-destunau y ceir ynddynt lafariaid byrion, amlyga graff 8.19 fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æ] fer yn gyffredinol is yn yr ardal hon mewn geiriau unsill nag ydynt yn y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen. Ymddengys, er hynny, fod lefelau R.P yn amlwg uwch na'r gweddill yn y tri chyd-destun, a bod hyn yn awgrymu rhyw fath o gydberthynas rhwng y tri chyd-destun.

8.2.2. Deuseiniaid

Fel yn ardal Harlech, cafwyd ym Mro Dysynni enghreifftiau o'r 'æ fain' yn ymddangos fel elfen gyntaf deuseiniaid a gaeai ag [i], [u], ac [ɨ]. Trafodir yn gyntaf yn 8.2.2.1 y deuseiniaid a geir mewn ffurfiau unsill, cyn y tynnir sylw yn gryno yn 8.2.2.2 at y rhai sy'n ymddangos mewn geiriau amlsillafog.

8.2.2.1. Geiriau unsill


Trafodir isod y gwahanol fathau o ddeuseiniaid a gafwyd yn ffurfiau unsill Bro Dysynni, gan gadw at yr un drefn ag a ddilynwyd yn achos deuseiniaid ardal Harlech. Canolbwyntir yn gyntaf, felly, ar ddeuseiniaid sy'n cau ag [i] a'r rhai sy'n cau ag [u], cyn yr edrychir yn olaf ar ddeuseiniaid sy'n cau ag [ɨ]. Fel y gwelwyd eisoes ym mhennod 5, y mae gwahaniaethau sylweddol rhwng patrymau deuseiniaid sy'n cau ag [i] neu [u] ym Mro Dysynni a defnydd siaradwyr ardal Harlech ohonynt. Dangoswyd, er enghraifft, fod modd i hyd y deuseiniaid hyn fod yn gyferbyniadol (h.y. naill ai'n fyr neu'n hir) yn y rhan fwyaf o gyd-destunau seinegol ym Mro Dysynni, a bod parau o ffurfiau megis [tair] ~ [ta:ir] "tair" a [jæun] ~ [jæ:un] "iawn" yn gyffredin yno felly. Yng nghyffiniau Harlech ar y llaw arall, mewn un cyd-destun seinegol penodol yn unig y gwelwyd amrywio o'r math hwn ar waith, sef pan na cheid cytsain yn dilyn, e.e. yn [trɔi] ~ [tro:i] "troi". Gwelir yn y man, felly, y bydd yr amrywio helaeth hwn yn hyd deuseiniaid Bro Dysynni yn berthnasol i'r canlyniadau isod o safbwynt y defnydd a wneir o'r 'æ fain' yn eu helfennau cyntaf. Noder hefyd y bu prinder tocynnau yn broblem yn yr ardal hon hefyd o safbwynt rhai cyd-destunau, ac mai'r unig ffordd o gael niferoedd gwell a mwy dibynadwy o docynnau mewn rhai achosion oedd drwy gyfuno sgorau'r holl siaradwyr, yn debyg i'r hyn a wnaed yn fy nadansoddiad o ddeuseiniaid ardal Harlech.²⁰⁵

²⁰⁵ Ceisiwyd cyfiawnhau defnyddio'r dull hwn yn 8.1.2 uchod, gan bwysleisio hefyd ei anfanteision.

8.2.2.1.1. Deuseiniaid sy'n cau ag [i]

Fel yn ardal Harlech, ceir ym Mro Dysynni y deuseiniaid byrion [ai] ac [æi], e.e. yn [łai] “llai” a [*væint] “maint”. Dengys graff 8.20, felly, fod defnydd siaradwyr yr ardal hon o [æi] yn amrywio rhwng 21% a 0%. Sylwer na chafwyd [æi] fer o gwbl gan dri o'r siaradwyr, a bod y rhain i gyd yn ddyinion.


Graff 8.20




Yn wahanol i'r sefyllfa yng nghyffiniau Harlech, fodd bynnag, ceir ym Mro Dysynni enghreifftiau o ffurfiau sy'n cynnwys deuseiniaid hir yn cau ag [i], e.e. [ta:ir] “tair” a [kæ:i] “cae”. Gwelir yng ngraff 8.21, felly, fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æ:i] mewn ffurfiau o'r math hwn yn rhychwantu rhwng 29% a 0%. Sylwer bod sgorau dau o'r siaradwyr gwrywaidd, sef C.D ac M.V, yn 0% eto yn y cyd-destun hwn, ond bod G.E.T, y dyn arall, yn defnyddio ambell [æ:i] hir.

Addas, felly, yw cymharu defnydd siaradwyr Bro Dysynni o ddeuseiniaid byrion a rhai hir sy'n cau ag [i]. Yng ngraff 8.22, felly, ymddengys oddi wrth siapiau'r llinellau glas a choch fod rhyw gydberthynas rhwng sgorau'r ddau gyd-destun hyn, ond bod [æ:i] hir ar y cyfan yn fwy cyffredin nag [æi] fer. Eithriad amlwg i'w patrwm hwn, fodd bynnag, yw E.W lle y gwelir y gwrthwyneb ganddi.

Graff 8.21



Graff 8.22




Fodd bynnag, teg fyddai ystyried bod modd rhannu'r deuseiniaid hir [a:i] ac [æ:i] yn ddau grŵp gwahanol, sef:

1. Deuseiniaid sy'n gyson hir, ac a fyddai wastad yn cau ag [i] yn y gogledd, e.e. [*bla:in] "plaen" a [kæ:i] "cae"
2. Deuseiniaid sy'n amrywio yn eu hyd, sydd wastad yn cau ag [i], ac a fyddai'n gyson fyr yn y gogledd, e.e. [ta:i] "tai" ac [æ:il] "ail"

O rannu'r data fel hyn, fodd bynnag, y broblem a gyfyd yw bod nifer y tocynnau perthnasol yn brin gan sawl unigolyn, yn enwedig yn achos y cyd-destun cyntaf. Bodlonwyd felly ar gyflysu sgorau pob siaradwr er mwyn cymharu lefelau cyffredinol y ddau gyd-destun uchod, a gwelir canlyniad hynny yng ngraff 8.23. Dangosir bod [æ:i] ar gyfartaledd yn ymddangos yn 14% o'r deuseiniaid a fyddai'n cau ag [i] yn y gogledd (ar sail 36 thocyn), tra bo'r sgôr gyfatebol yn 8% ar gyfer deuseiniaid sy'n amrywio yn eu hyd (ar sail 166 thocyn). Gan nad yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau ganlyniad hyn yn un sylweddol, efallai mai'r hyn sydd bwysicaf i'w bwysleisio yw bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æ:i] hir yn gymharol isel ym Mro Dysynni, ni waeth beth fo'r mathau o eiriau a all eu cynnwys.

Graff 8.23




8.2.2.1.2. Deuseiniaid sy'n cau ag [u]


Yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, ceir ym Mro Dysynni hefyd y deuseiniaid byrion [au] ac [æu] yn ymddangos mewn nifer o gyd-destunau seinegol gwahanol, e.e. yn [jaun] "iawn" a

[mæur] “mawr”. Gwelir yng ngraff 8.24, felly, fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æu] yn y cyd-destun hwn yn rhychwantu rhwng 55% a 8%. Y mae'n drawiadol pa mor wahanol a chymaint yn fwy amrywiol yw'r canlyniad hwn o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn achos llafariaid syml byrion yr ardal hon. Yn ddiddorol, sylwer bod canrannau'r dynion, sef C.D, G.E.T ac M.V, ar y cyfan yn is nag eiddo'r siaradwyr benywaidd, a bod hyn yn gyson â'r hyn y sylwyd arno yn achos [æi] hefyd.

Graff 8.24



Graff 8.25



Priodol, felly, yw cymharu defnydd siaradwyr Bro Dysynni o [æu] ac o [æi], a darlunnir y gymhariaeth hon yng ngraff 8.25. Gwelir yma fod defnydd yr ardal hon o [æu] ar y cyfan yn llawer uwch na'r defnydd o [æi]. Er hynny, ymddengys oddi wrth siapiau'r ddwy linell fod cydberthynas rhwng sgorau'r ddau gyd-destun, bron fel petai'r llinell las yn ddynewarediad eithafol o'r llinell goch. Awgryma hyn yn gryf, felly, nad ar hap a damwain y gwelir lefelau'r 'æ fain' yn amrywio yn y deuseiniaid byrion hyn, er bod amrywio sylweddol yn amlwg ar waith.

O safbwynt y deuseiniaid hir [a:u] ac [æ:u] ym Mro Dysynni, y mae'r sefyllfa'n gymhlethach. Gwelwyd eisoes ym mhennod 5 (5.1.4) fod modd i hyd deuseiniaid sy'n cau ag [u] fod yn gyferbyniadol (h.y. naill ai'n hir neu'n fyr) mewn nifer o gyd-destunau seinegol gwahanol.²⁰⁶ Yng ngoleuni'r ffaith hon, gellir ystyried bod dau ddsbarth gwahanol o ddeuseiniaid hir yn briodol i'w hystyried, sef:


1. Deuseiniaid sy'n cau ag [u] **NAD OES SAIN YN EU DILYN**, ac sydd wastad yn hir, e.e. [na:u] "naw" a [læ:u] "llaw" (y rhai a geir yn ardal Harlech hefyd)
2. Deuseiniaid hir sy'n cau ag [u] **Y CEIR SAIN YN EU DILYN**, ac sy'n amrywio ag [au] / [æu], e.e. [ma:ur] "iawn" ac [jæ:un] "iawn" (y rhai na cheir mohonynt yn ardal Harlech)

Fodd bynnag, hyd yn oed o gyfuno deuseiniaid hir y ddau ddsbarth uchod, y mae niferoedd y tocynnau a geir yn rhy brin ar gyfer cymharu sgorau gwahanol unigolion â'i gilydd. Penderfynwyd, felly, gyfuno sgorau'r siaradwyr i gyd ar gyfer cymharu defnydd cyffredinol y grŵp o [æ:u] hir mewn gwahanol gyd-destunau. Gwelir yng ngraff 8.26, felly, fod y bloc glas yn adlewyrchu'r sgôr gyfartalog a geir pan gynhwysir ffurfiau sy'n perthyn i'r ddau gyd-destun uchod, e.e. [læ:u] "llaw" a [ma:ur] "mawr". Ar sail cyfanswm o 129 tocyn, y mae 34% ohonynt yn cynnwys [æ:u].

²⁰⁶ Trafodir dylanwad y cyd-destun seinegol ar batrymau deuseiniaid Bro Dysynni yn drylwyr ym mhennod 5 (5.1.4).

Er hynny, nid oes angen rhoi gormod o bwys ar ganlyniad y bloc glas gan fod lle i ddadlau bod cryn wahaniaeth rhwng y ddau ddsbarth o ddeuseiniaid hir uchod o safbwynt y defnydd a wneir o'r 'æ fain' ynddynt. Gwelir bod bloc coch graff 8.26 yn ystyried sgôr gyffredinol y deuseiniaid hir hyn pan **na** cheir sain yn eu dilyn (mewn ffurfiau megis [na:u] "naw" a [læ:u] "llaw", er enghraifft). Ceir cyfanswm o 41 tocyn yn y cyd-destun hwn, a gwelir bod 51% ohonynt yn cynnwys [æ:u]. Y mae'r bloc gwyrdd ar y llaw arall yn dadansoddi sefyllfa'r dosbarth arall o ddeuseiniaid, sef y rhai a ddilynir gan gytsain, ac yn amlygu bod canran gyfartalog y tocynnau sy'n cynnwys [æ:u] yn 26% (ar sail cyfanswm o 88 tocyn). Gwelir bod y sgôr hon gryn dipyn yn is na'r hyn a gafwyd yn achos y bloc coch, sy'n awgrymu'n gryf fod [æ:u] yn fwy cyffredin pan na cheir sain yn dilyn.

Graff 8.26



Fodd bynnag, o graffu ar ystadegau'r siaradwyr unigol, yr oedd defnydd un o'r siaradwyr, sef M.V, i'w weld yn llurgunio ambell batrwm a allai fod ar waith. Yn achos [a:u] / [æ:u] pan na cheir cytsain yn dilyn, sylwyd nad oedd yr un o'r 15 tocyn a gafwyd gan y siaradwr hwn yn cynnwys [æ:u], ac mai sgôr o 0% a gafwyd ganddo felly. Diau y gall hyn fod yn gyson â thuedd gref y siaradwr hwn i reoli ei ddefnydd o'r 'æ fain' mewn llafariaid syml hir (gweler graff 8.15). Yng ngoleuni'r posibilrwydd hwn, felly, aed ati i hepgor sgorau M.V o'r darlun, a dangosir effaith hynny yn eglur yng ngraff 8.27. Gwelir y tro hwn fod sgôr y bloc coch, sef canran y tocynnau sy'n cynnwys [æ:u] pan na cheir sain yn dilyn, yn 81% (ar sail cyfanswm

o 26 thocyn), ac yn sylweddol uwch na'r sgôr o 51% a welwyd ar bloc coch graff 8.26. Y mae bloc gwyrdd graff 8.27, ar y llaw arall, yn ddrych o sefyllfa'r deuseiniaid hir a ddilynir gan gytsain, a 29% o'r tocynnau perthnasol (cyfanswm o 76 ohonynt) sy'n cynnwys [æ:u] yn y cyd-destun hwn. Y mae'r canlyniad hwn, felly, yn agos iawn i'r sgôr o 26% a welwyd ar bloc gwyrdd graff 8.26, ac yn dangos nad yw hepgor M.V o'r darlun mewn gwirionedd yn effeithio ar ganlyniad y cyd-destun hwn. Yr hyn sy'n amlwg oddi wrth ganlyniadau graff 8.27, fodd bynnag, yw bod gwahaniaeth sylweddol bellach (o hepgor sgorau M.V) rhwng defnydd cyffredinol siaradwyr Bro Dysynni o [æ:u] yn y ddau gyd-destun seinegol sydd o dan sylw.²⁰⁷


Er bod canran gyfartalog bloc coch graff 8.27 yn uchel (81%), gellir cynnig yma fod yr 'æ fain' yn fwy tebygol o godi mewn llafariad syml hir, e.e. yn [dæ:] "da" a [ta:d] "tad", nag y mae mewn deuseiniaid hir sy'n cau ag [u] NA CHEIR dim yn eu dilyn, e.e. yn [læ:u] "llaw" a [na:u] "naw".²⁰⁸ Awgrymir hyn ymhellach pan edrychir ar y rhestri o ffurfiau a gafwyd gan y gwelir ffurfiau megis [dra:u] gan C.D, a [læ:u] a [na:u] gan R.P; siaradwyr na ddefnyddiai [a:] fel llafariad syml hir ond mewn ffurfiau eithriadol.²⁰⁹

²⁰⁷ Dyma, felly, brawf pellach o bwysigrwydd cadw data unigolion ar wahân i'w gilydd gan fod y gwahaniaeth rhwng graffiau 26 a 27 yn dangos yn glir cymaint y gall un siaradwr hyd yn oed ddylanwadu ar sgorau cyffredinol grŵp o siaradwyr.

²⁰⁸ O safbwynt datblygiad hanesyddol yr 'æ fain', diau y gall fod goblygiadau diddorol i'r ddamcaniaeth hon (gweler y drafodaeth yn 8.4).

²⁰⁹ Er y gwelwyd bod gan E.W dueddiad i reoli ei defnydd o [æ(:)] mewn llafariad syml hir, noder mai cyfanswm o 2 docyn yn unig a gafwyd ganddi yn y cyd-destun hwn (h.y. pan na cheir sain yn dilyn), ac mai [æ:u] oedd pob un o'r ddau.


Graff 8.27



8.2.2.1.3. Deuseiniaid sy'n cau ag [i]

Yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, ceir ym Mro Dysynni hefyd y deuseiniaid hir [a(:)i] ac [æ(:)i], e.e. yn [χwa:ir] "chwaer" a [mæi] "mae". Y mae llinell las graff 8.28, felly, yn adlewyrchiad o'r canlyniadau a geir pan ystyrir pob un o'r deuseiniaid hyn sy'n cau ag [i], a gwelir arni fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [æ(:)i] yn amrywio'n sylweddol rhwng 50% a 13%.

Graff 8.28




Er hynny, fel y nodwyd eisoes ar gyfer ardal Harlech, gellir ystyried bod modd rhannu'r deuseiniaid "hir" hyn yn ddau ddsbarth penodol yn ôl yr acen bwys, sef


1. Deuseiniaid sydd o dan yr acen, ac sydd wirioneddol yn hir, e.e. [χwa:ɪr] "chwaer" a [sdæ:ɪr] "staer"
2. Deuseiniaid byrion nad ydynt o dan yr acen, ond a fyddai'n hir pe byddent, e.e. [ɫaiθ] "llaeth" a [mæi] "mae"

O ran cymharu defnydd siaradwyr Bro Dysynni o [æ:i] mewn ffurfiau acennog â'u defnydd o [æi] mewn ffurfiau diacen, sylwyd mai gan dri o'r siaradwyr yn unig, sef GET, EW ac MV, y cafwyd niferoedd derbyniol o docynnau ar gyfer gwneud hyn. Tyn graff 8.29, felly, gymhariaeth rhwng y ddau gyd-destun hyn, a dadlenna fod defnydd y siaradwyr hyn o'r 'æ fain' yn sylweddol uwch mewn ffurfiau diacen fel [mæi] "mae" na'r hyn ydyw mewn ffurfiau acennog megis [sdæ:ɪr] "staer". O graffu ar y rhestri o docynnau, gwelir mai'r ffurfiau'r berfol niferus [maɪ] a [mæi] "mae" sy'n pennaf lywio canlyniadau'r deuseiniaid nad ydynt o dan yr acen, a bod nifer y tocynnau a geir o'u hepgor yn hynod brin gan bob siaradwr. Ni ellir dweud yn sicr, felly, y byddai [æi] yn brinnach mewn eitemau geirfaol ystyrlon (diacen), ond diau y ceir yma awgrym fod [aɪ] / [æi] yn ymddwyn mewn modd neilltuol mewn ffurfiau ar "mae" yn y dafodiaith hon.

Graff 8.29



Graff 8.30




Hefyd er cysondeb â'r hyn a wnaed yn ardal Harlech, penderfynwyd cyfuno niferoedd y tocynnau a gynhwysai [a(:)i] / [æ(:)i] yn iaith siaradwyr Bro Dysynni, a hynny ar gyfer tri chyd-destun gwahanol. Dengys bloc glas graff 8.30 fod y ganran gyfartalog o docynnau sy'n cynnwys [æ(:)i] pan gynhwysir ffurfiau acennog a rhai diacen â'i gilydd yn 37%. Fodd bynnag, o rannu'r ffurfiau hyn yn ddau ddsbarth, dadlenna'r bloc coch mai 11% yw'r sgôr gyffredinol ar gyfer ffurfiau acennog yn unig (ar sail cyfanswm o 161 tocyn), tra bo'r bloc gwyrdd yn dangos bod y sgôr gyfartalog ar gyfer ffurfiau diacen yn 63% ac yn amlwg uwch (ar sail cyfanswm o 153 tocyn). Y mae'r tueddiadau cyffredinol hyn, felly, yn hollol gyson â sgorau'r siaradwyr a welwyd yng ngraff 8.29.

Priodol i gloi, felly, fyddai cymharu defnydd cyffredinol siaradwyr Bro Dysynni o [æ:i] hir a'u defnydd o [æ:u] hir. Bernir mai [a:u] / [æ:u] hir pan **na cheir** cytsain yn eu dilyn sy'n addas i'w hystyried, yn bennaf er cysondeb â'r gymhariaeth a dynnwyd yn ardal Harlech, ond hefyd am mai yn y cyd-destun hwn y mae'r deuseiniaid hyn yn gyson hir, ac yn amlwg yn gysylltiedig â defnydd o'r 'æ fain' ers dros i ganrif o leiaf (gweler pennod 2: 2.2.2).²¹⁰ Yr

²¹⁰ Sylwer mai [a:i] / [æ:i] mewn ffurfiau acennog a ystyrir fwyaf priodol ar gyfer y gymhariaeth hon, nid yn unig er cysondeb â'r hyn a wnaed yn ardal Harlech, ond hefyd gan fod pob [a:u] / [æ:u] a gafwyd ym Mro Dysynni (heb sain yn eu dilyn) hefyd o dan yr acen.


hyn sydd i'w weld yn glir oddi wrth ganlyniadau graff 8.31, felly, yw bod defnydd cyffredinol siaradwyr Bro Dysynni o [æ:u] yn amlwg uwch nag yw [æ:i] ganddynt.

Graff 8.31



O gofio, fodd bynnag, am y rheolaeth a oedd gan M.V ar y ddeusain [æ:u] (pan nad oedd sain yn ei dilyn), teimlwyd mai priodol fyddai hepgor ei ganlyniadau ef o'r ddau gyd-destun dan sylw, a gwelir canlyniad yr arbrawf hwnnw yng ngraff 8.32. Yn ddiddorol, er bod bloc coch graff 8.32 yn dangos cynnydd sylweddol yn sgôr gyfartalog [æ:u] pan hepgorir M.V o'r darlun, nid yw'r bloc glas er hynny yn adlewyrchu cynnydd tebyg yn achos y defnydd cyffredinol o [æ:i]. Ymddengys, felly, nad yw M.V yn rheoli ei ddefnydd o [æ:i] yn wahanol i'r hyn a welir ganddo yn achos [æ:u]. Efallai yr awgryma hyn nad yw siaradwyr Bro Dysynni mor ymwybodol o'u cynaniad o'r 'æ fain' mewn ffurfiau fel [sdæ:iɾ] "staer" a [ɫæ:iθ] "llaeth" ag y maent o'r sain mewn geiriau fel [ɫæ:u] "llaw" a [glæ:u] "glaw". Gellir ystyried nad yw hyn yn syndod o sylwi bod [æ:u] yn fwy arferol nag [a:u], tra bo [a:i] yn fwy cyffredin nag [æ:i].

Graff 8.32



8.2.2.2. Geiriau amlsillafog

Yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, y mae deuseiniaid sy'n agor ag 'æ fain' mewn geiriau amlsillafog yn brin iawn ym Mro Dysynni hefyd. Tynnu sylw at eu bodolaeth yw'r cyfan a wneir isod, felly, a chynhwysir yr ystadegau sy'n berthnasol i'r cyd-destunau hyn yn yr atodiad.

- Fel yn ardal Harlech, sylwyd bod [ai] ac [æi] yn amrywio â'i gilydd yn y sillaf olaf ddiacen ym Mro Dysynni hefyd, e.e. yn [*gəmaint] “cymaint” ac [inwæiθ] “unwaith” (gweler Atodiad: 8e).
- Nodwyd hefyd fod y deuseiniaid hir [a:i] ac [æ:i] yn ymgynwied yn y sillaf olaf acennog, e.e. yn [glən'ha:i] “glanhau” a [kəm'ræ:ig] “Cymraeg” (gweler Atodiad: 8f).
- Nodwyd hefyd enghreifftiau o'r deuseiniaid byrion [au] ac [æu] yn ymddangos yn y goben acennog, e.e. yn [dau] “tawel” a [læuar] “llawer” (gweler Atodiad: 8ff). Cafwyd ambell enghraifft o'r ymgynwied hwn yng nghyffiniau Harlech hefyd.
- Cofnodwyd hefyd enghreifftiau prin o [ai] ac [æi] yn codi yn y sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [pɛθai] “pethau”, [kəidwigæiθ] “coedwigaeth” ac [amæiθəðjæiθ] “amaethyddiaeth” (gweler Atodiad: 8g).²¹¹
- Hefyd yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, sylwyd ar [a:i] yn ogystal ag [æ:i] yn ymddangos yn y sillaf olaf acennog, e.e. yn [dram'a:i] “dramâu” ac [əm'læ:i] “ymlaen” (gweler Atodiad: 8ng).

²¹¹ Noder bod y ffurf ddiwethaf yn dangos bod modd i [æi] ymddangos yn y sillaf ragobennol hefyd, ac mai hon yw'r unig enghraifft o hynny.

8.3. Cymhariaeth o batrymau'r ddwy ardal

Hyd yma, ceisiwyd ymdrin â chanlyniadau'r ddwy ardal yn annibynnol ar ei gilydd. Bwriad yr adran hon, felly, yw canolbwyntio'n fanylach ar y gwahaniaethau a'r cyfatebiaethau a gyfyd rhwng patrymau'r ddwy ardal. Ymdrinnir i ddechrau â phatrymau'r llafariaid syml yn 8.3.1, cyn y cymherir rhai o ddeuseiniaid y ddwy ardal â'i gilydd wedyn yn 8.3.2.²¹²

8.3.1. Llafariaid syml


Trafodir i ddechrau y defnydd a wneir o lafariaid agored hir yn y ddwy ardal, cyn y cymherir wedyn y modd y gwelir llafariaid byrion cyfatebol yr ardaloedd hyn yn ymddwyn mewn gwahanol gyd-destunau unsill ac amlsillafog.

8.3.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir

Nodwyd eisoes fod modd ystyried bod dau fath gwahanol o "lafariaid hir", sef y rhai gwirioneddol hir sydd mewn ffurfiau acennog megis [kæ:l] "cael" a [dæ:] "da", a'r llafariaid byrion a fyddai'n hir pe byddent o dan yr acen, ond sy'n fyr mewn ffurfiau diacen fel [kæɪ] "cael" a [bæχ] "bach". O gyfuno ffurfiau sy'n berthnasol i'r ddau ddsbarth hyn, ceir y darlun a bortreedir yng ngraff 8.33. Dengys y graff hwn fod sgorau Bro Dysynni (y llinell goch) yn gyffredinol uwch na rhai ardal Harlech (y llinell las). Gellir nodi, er hynny, fod sgorwyr uchaf ardal Harlech yn sgorio'n uwch na rhai isaf Bro Dysynni yn y cyd-destun hwn.


²¹² Sylwer nad yw graffiau'r adran hon yn nodi enwau'r siaradwyr gan mai'r amcan yma yw cymharu patrymau'r ddwy ardal â'i gilydd yn hytrach na chymharu defnydd gwahanol unigolion o [æ(:)].

Graff 8.33




Y cam nesaf yw cymharu defnydd siaradwyr y ddwy ardal o [æ(:)] mewn ffurfiau acennog â'u defnydd o'r sain mewn ffurfiau diacen. Gwelir yng ngraff 8.34 fod sgorau'r ffurfiau acennog (y llinell las) yn sylweddol uwch gan bob siaradwr yn ardal Harlech nag ydyw eu canlyniadau ar gyfer ffurfiau diacen (y llinell goch). Ym Mro Dysynni, ar y llaw arall, gwelir yng ngraff 8.35 fod y patrymau'n fwy amrywiol wrth i sgorau'r ffurfiau acennog (y llinell las) fod yn uwch na rhai'r ffurfiau diacen (y llinell goch) gan bedwar o'r siaradwyr, tra ceir y gwrthwyneb i hyn gan y ddau siaradwr olaf. Ymddengys, felly, fod graffiau 8.34 ac 8.35 yn awgrymu fod yr 'æ fain' ar y cyfan yn fwy tueddol o godi yn y ddwy ardal mewn llafariaid hir sydd o dan yr acen, e.e. yn [kæ:l] "cael" a [bæ:χ] "bach", nag ydyw mewn llafariaid byrion nad ydynt o dan bwyslais, e.e. yn [kæɪ] "cael" a [bæχ] "bach".

Graff 8.34



Graff 8.35




Fodd bynnag, gellir barnu na ddylid rhoi gormod o bwys ar y canlyniadau uchod gan y sefydlwyd eisoes fod geiriau gramadegol tra niferus yn llurgunio'r patrymau sydd wirioneddol ar waith yn achos yr 'æ fain' yn y ddwy ardal.²¹³ O hepgor y rhain, gwelir gwahaniaethau mwy arwyddocaol yn eu hamlygu eu hunain. I ddechrau, y ddau ddosbarth o lafariaid "hir" (y rhai acennog a'r rhai diacen) sy'n sail i ganlyniadau graff 8.36, lle y gwelir

²¹³ Y ffurfiau berfol [ma(:)] / [mæ(:)], yn ogystal â ffurfiau ar y cysylltieriau "a" ac "ac", e.e. [a:] ac [æ:g], yw'r geiriau gramadegol hyn.

eto fod y canrannau'n gyffredinol uwch ym Mro Dysynni (y llinell goch) nag y maent yn ardal Harlech (y llinell las).

Graff 8.36




Eir ati nesaf, felly, i gymharu defnydd siaradwyr y ddwy ardal o [æ(:)] mewn ffurfiau acennog â'u defnydd o'r sain mewn ffurfiau diacen. Gwelir bod graff 8.37 yn gyntaf yn adlewyrchiad o'r sefyllfa yn ardal Harlech, lle y dangosir bod defnydd o [æ:] hir mewn ffurfiau acennog (y llinell las) yn parhau i fod yn gyffredinol uwch na defnydd o [æ] fer mewn ffurfiau diacen (y llinell goch). Yng ngraff 8.38, ar y llaw arall, y gwrthwyneb a geir ym Mro Dysynni wrth i ganrannau pob un o'r siaradwyr fod yn uwch bellach mewn ffurfiau diacen (y llinell goch) na mewn ffurfiau acennog (y llinell las).

Fodd bynnag, go brin fod dweud bod defnydd siaradwyr ardal Harlech o'r 'æ fain' mewn llafariaid hir yn gyffredinol is na defnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r nodwedd yn gwneud cyfiawnder llwyr â'r canlyniadau a gafwyd. Yr hyn sy'n drawiadol am ganlyniadau Bro Dysynni (graff 8.38) yw bod sgorau pedwar o siaradwyr yr ardal hon yn gyson uchel (bron yn 100%), tra bo canlyniadau dau siaradwr arall yn awgrymu'n gryf ei bod yn gyffredin gan rai trigolion yn yr ardal i geisio rheoli eu defnydd o'r sain mewn rhai cyd-destunau penodol. Gellir ychwanegu yma ei bod yn amlwg oddi wrth gyfeiriadau nifer o siaradwyr Bro Dysynni at ffurfiau megis [tæ:d a mæm] "tad a mam" eu bod yn dra ymwybodol o fodolaeth y sain yn


eu tafodiaith. Gellir dehongli, felly, mai canlyniad ymgais dau siaradwr o'r ardal hon i reoli eu defnydd o'r llafariad [æ(:)] yw bod cryn wahaniaeth rhwng eu defnydd o [æ:] hir o dan yr acen, a'u defnydd o [æ] fer mewn ffurfiau nad ydynt o dan bwyslais. Mewn geiriau eraill, ymddengys y llwyddant i ymwrthod â sain yr 'æ fain' yn fwy llwyddiannus mewn ffurfiau acennog sydd o dan bwyslais.

Yn nghyffiniau Harlech ar y llaw arall, ymddengys fel petai canlyniadau graff 8.37 yn dangos bod tueddiadau yr ardal hon yn wahanol i'r hyn a geir ar waith ym Mro Dysynni (cymharer â sgorau graff 8.38). Yn wir, nid ymddengys fod siaradwyr ardal Harlech yn ymrannu'n ddwy garfan benodol, h.y. ni ellir dweud bod un grŵp yn defnyddio [æ(:)] yn gyson, tra bo grŵp arall yn ymdrechu i ymwrthod â hi. Gellir dehongli, felly, fod cyffiniau Harlech yn fwy o ardal drawsnewid o safbwynt nodwedd yr 'æ fain', lle y ceir ymgyfnewid naturiol rhwng [æ(:)] ac [a(:)], a hynny i raddau gwahanol gan bob siaradwr. Gan fod ansawdd y sain yn llai caeedig ac yn agosach i [a:] yn ardal Harlech nag ydyw ym Mro Dysynni, y mae'n dra phosibl nad yw nifer o drigolion y cylch yn ymwybodol o'u cynaniad o'r sain. Gall y rheswm hwn egluro, felly, pam nad yw canlyniadau ardal Harlech, yn wahanol i rai Bro Dysynni, yn awgrymu bod unrhyw reolaeth o'r 'æ fain' ar waith. Gellir cynnig hefyd mai arwydd pellach o'r diffyg rheolaeth hwn yw bod sgorau'r ffurfiau diacen yn is na'r rhai acennog yn ardal Harlech, yn groes i'r hyn a welir ym Mro Dysynni.

Graff 8.37



Graff 8.38




8.3.1.2. Geiriau unsill ac amlsillafog; llafariaid byrion

Dylid pwysleisio i ddechrau fod yr ‘æ fain’ yn ymddangos mewn llafariaid byrion yn y ddwy ardal, a hynny mewn geiriau ar wahân i [mæm] “mam” (ffurf sy’n nodweddiadol o lafar y canolbarth), e.e. yn [kjænt] “cant”, [plænt] “plant” a [gævr] “gafr”. O ran y patrymau a gyfyd yn achos llafariaid byrion geiriau unsill y ddwy ardal, felly, gwelir yng ngraff 8.39 ystod ehangach o sgorau yn ardal Harlech nag ym Mro Dysynni, a bod sgorau dau o siaradwyr cyffiniau Harlech yn uwch na chanrannau pob un o siaradwyr Bro Dysynni. Y mae’r canlyniad hwn, felly, yn dra gwahanol i’r hyn a welwyd yn achos y llafariaid hir, arwydd arall nad yw’r rhai byrion yn ymddwyn yn yr un modd â’r rhai hir.


Fodd bynnag, gan y nodwyd eisoes fod cynnydd i’w weld yng nghanrannau y tocynnau sy’n cynnwys [æ] yng ngeiriau unsill y ddwy ardal pan hepgorir geiriau gramadegol niferus,²¹⁴ cymherir yng ngraff 8.40 sefyllfa’r ddwy ardal pan na chynhwysir y ffurfiâu hynny. Ymddengys oddi wrth y graff hwn, felly, fod sgorau cyffiniau Harlech yn gyffredinol uwch na rhai Bro Dysynni, a bod rhychwant ehangach o sgorau i’w gweld eto yn ardal Harlech, sy’n gyson â’r hyn a welir yng ngraff 8.39.

²¹⁴ Gweler enghreifftiau o’r geiriau gramadegol hyn yn 8.1.1.2 uchod.

Graff 8.39




Graff 8.40




O droi ein golygon wedyn at y defnydd a wneir o'r llafariaid byrion hyn mewn cyd-destunau amlsillafog, h.y. yn y goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen, dengys llinellau coch a gwyrdd graffiau 8.41 ac 8.42 fod lefelau'r ddau gyd-destun hyn yn agos iawn at ei gilydd yn y ddwy ardal dan sylw, ond bod y sgorau'n gyffredinol uwch ym Mro Dysynni y tro hwn nag yng nghyffiniau Harlech.

Fodd bynnag, pan gymherir sefyllfa'r llafariaid byrion hyn mewn tri chyd-destun gwahanol, sef mewn geiriau unsill, yn y goben acennog, ac yn y sillaf olaf ddiacen, gwelir nad yw'r defnydd a wneir ohonynt yn hollol debyg yn y ddwy ardal. Ar y naill law, dengys graff 8.41 fod y sgorau pob un o'r cyd-destunau hyn yn drawiadol o debyg i'w gilydd yn ardal Harlech. Ym Mro Dysynni ar y llaw arall, amlyga graff 8.42 fod sgorau'r tri chyd-destun hyn yn llai cyson â'i gilydd, er bod modd gweld cydberthynas rhwng canrannau'r gwahanol gyd-destunau wrth i un siaradwraig (R.P) sgorio uchaf ym mhob achos, ac wrth i sgorau'r goben acennog a'r sillaf olaf ddiacen fod yn dra agos i'w gilydd.

Graff 8.41



Graff 8.42



Dylid pwysleisio yn olaf nad oes arwyddion yn yr un o'r ardaloedd fod unrhyw gydbertynas amlwg rhwng defnydd y siaradwyr o [æ:] mewn llafariaid hir, a'u defnydd o [æ] fer mewn gwahanol gyd-destunau. Ymddengys, felly, fod llafariaid agored hir yn ymddwyn mewn modd tra gwahanol i'r llafariaid agored byrion yn y ddwy ardal (amlygwyd hyn eisoes yng ngraffiau 8.6 ac 8.19 uchod). Er gwaetha'r mân wahaniaethau a welir, felly, rhwng defnydd y ddwy ardal o [æ] mewn gwahanol fathau o llafariaid byrion, y mae'r gwahaniaethau amlwg a welir rhwng llafariaid hir a rhai byrion yn awgrymu'n gryf mai'r un patrymau strwythurol sylfaenol a welir ar waith yn y ddwy dafodiaith o safbwynt y nodwedd hon.

Ym Mro Dysynni, gellir yn sicr ystyried bod y llafariaid hir a'r rhai byrion hyn ar begynau gwahanol gan fod lefelau cyffredinol yr [æ:] hir yn agosach i 100% na 0%, tra bo canrannau yr [æ] fer ar y llaw arall yn gyffredinol agosach i 0% na 100%. Er mwyn ceisio egluro pam na cheir yno sgorau hollol sefydlog o 100% neu 0%, un dehongliad posibl yw bod ffenomenau gwahanol ar waith yn rhwystro hyn. Yn gyntaf, gellir ystyried bod siaradwyr yn "gwyro" oddi wrth ddefnydd cyson (100%) o [æ:] hir oherwydd amryfal resymau, e.e. rheolaeth o'r sain, defnydd o [a:] mewn benthyciadau neu ffurfiau eithriadol, neu ddylanwad tafodieithoedd eraill y ceir ynddynt [a:] yn gyson. Yn yr un modd, gellir dadlau mai "gwyro" oddi wrth [a] fer gyson a wneir, ac mai rheswm ieithyddol pur sy'n egluro hyn, sef bod y llafariaid agored byrion yn graddol gydweddu â'r llafariaid agored hir o ran eu hansawdd. Mewn geiriau eraill, y mae dylanwad yr 'æ fain' hir i'w weld bellach ar y llafariad fer gyfatebol.

Fodd bynnag, nid yw'r pegynu hwn mor amlwg yng nghyffiniau Harlech, a gellir cynnig mai ei lleoliad daearyddol a'i sefyllfa fel ardal drawsnewid sydd wrth wraidd y patrymau cymhlethach a welir yno. Gellir awgrymu, er hynny, fod y gwahaniaethau sylfaenol a welir rhwng llafariaid hir a rhai byrion cyffiniau Harlech (sy'n debyg i'r hyn a welir ym Mro Dysynni) yn awgrymu y gallasai'r pegynu hwn fod wedi bod yn amlycach ac yn gryfach yn yr ardal honno hefyd yn y gorffennol, ac mai graddol erydu y mae [æ:] hir yno. Er gwaetha'r gwahaniaethau a welwyd, felly, rhwng lefelau'r 'æ fain' yn y ddwy ardal, dylid pwysleisio er hynny fod llawer o dir cyffredin rhwng strwythur y ddwy dafodiaith o ran y modd y mae'r

sain yn patrymu mewn gwahanol gyd-destunau, a bod y nodwedd hon yn y bôn yn ddibynnol i raddau helaeth ar un ffactor canolog, sef hyd llafariad.


8.3.2. Deuseiniaid

Ymdrinnir isod â'r gwahanol ddeuseiniaid a gafwyd yn y ddwy ardal, gan gadw at yr un drefn ag a ddilynwyd yn yr adrannau blaenorol, sef y rhai sy'n cau ag [i] i ddechrau, wedyn y rhai sy'n cau ag [u], ac yna'r deuseiniaid sy'n cau ag [ɪ] i gloi. Dylid pwysleisio nad oes modd cymharu pob deusain a gafwyd oherwydd gwahaniaethau rhwng systemau deuseiniol y ddwy ardal dan sylw (gweler dadansoddiad trylwyr o'r rhain ym mhennod 5). Cafwyd, er enghraifft, enghreifftiau o'r deuseiniaid hir [a:i] / [æ:i] yn ymddangos yn iaith siaradwyr Bro Dysynni, tra bo'r deuseiniaid perthnasol a gaeai ag [i] yn ardal Harlech, sef [ai] / [æi], wastad yn fyr. Noder hefyd mai deuseiniaid mewn geiriau unsill yn unig a gymherir isod oherwydd prinder ffurfiau perthnasol mewn cyd-destunau amlsillafog.

8.3.2.1. Deuseiniaid sy'n cau ag [i]

Yn y cyd-destun hwn, y deuseiniaid sy'n gyffredin yn y ddwy ardal fel ei gilydd yw'r rhai byrion [ai] ac [æi], h.y. yr hyn a geir yn [lai] "llai" a [χwæiθ], er enghraifft. Y mae graff 8.43, felly, yn tynnu cymhariaeth rhwng defnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r ddeusain fer [æi], lle y gwelir yn eglur fod sgorau ardal Harlech (y llinell las) yn gyffredinol uwch na rhai Bro Dysynni (y llinell goch). Gellir awgrymu, felly, fod y gwahaniaeth hwn yn gyson â thueddiadau'r ddwy ardal ar gyfer llafariad byrion syml mewn geiriau unsill (gweler graffiau 8.39 ac 8.40), lle y gwelwyd bod lefelau yr [æ] eto'n uwch ar y cyfan yn ardal Harlech nag ym Mro Dysynni.

Graff 8.43



8.3.2.2. Deuseiniaid sy'n cau ag [u]

Yn gyntaf, o safbwynt ffurfiau sydd â'r deuseiniaid byrion [au] / [æu] yn y ddwy ardal, e.e. [maur] "mawr" ac [jæun] "iawn", gwelir bod graff 8.44 yn dadlennu'n glir fod cryn amrywiaeth o sgorau i'w gweld ar gyfer ardal Harlech a Bro Dysynni fel ei gilydd. Er bod lefelau yr [æu] unwaith eto i'w gweld yn gyffredinol uwch yn ardal Harlech (y llinell las) nag y maent ym Mro Dysynni (y llinell goch), nid yw'r gwahaniaethau hyn mor amlwg â'r hyn a welwyd yn achos [æi] fer (gweler graff 8.43).


O droi ein golygon at y deuseiniaid hir sy'n cau ag [u], bernir mai mewn un cyd-destun seinegol penodol yn unig y gellir tynnu cymhariaeth deg rhwng defnydd y ddwy ardal o [a:u] / [æ:u], sef pan na cheir sain yn dilyn y ddeusain. Ffurfiâu megis [na:u] "naw" a [glæ:u] "glaw", felly, a ystyrir yng ngraff 8.45.²¹⁵ O gyfuno sgorau pob un o siaradwyr y ddwy ardal dan sylw, gwelir bod canran gyfartalog y tocynnau sy'n cynnwys [æ:u] gryn dipyn yn uwch yn ardal Harlech (76%) nag ydyw ym Mro Dysynni (51%).

²¹⁵ Deuseiniaid o'r math hwn yn unig sydd o dan sylw mewn ymdriniaethau blaenorol â'r 'æ fain' (gweler pennod 2: 2.2.2), a theg fyddai ystyried bod traddodiad hir o ddefnyddio [æ:] yn y cyd-destun hwn, ac mai datblygiad diweddarach yw [a:u] / [æ:u] mewn ffurfiau megis [ma:ur] "mawr" ac [jæ:un] "iawn" sydd wastad yn amrywio â'r deuseiniaid byrion [au] / [æu].


Gwelwyd eisoes, fodd bynnag, fod y gwahaniaeth hwn i raddau helaeth wedi ei seilio ar reolaeth un siaradwr, sef M.V, o'r 'æ fain' yn y cyd-destun penodol hwn (gweler 8.2.2.1.2 uchod). O beidio â chynnwys sgorau M.V, felly, gwelir yng ngraff 8.46 fod canlyniadau cyfansawdd y ddwy ardal yn llawer tebycach i'w gilydd (76% [æ:u] yn ardal Harlech, a 81% [æ:u] ym Mro Dysynni).

Y mae'n ddi-ddorol, felly, na welir yr un math o reolaeth ar waith yng nghanlyniad ardal Harlech, sy'n gyson â'r hyn a welwyd yn achos llafariaid syml hir geiriau unsill (gweler graff 8.37). Diau fod y canlyniad hwn yn atgyfnerthu'r ddadl nad yw siaradwyr ardal Harlech yn ymwybodol o'u cynaniad o [æ:], yn enwedig gan fod ansawdd y llafariad honno yn fwy agored ac yn agosach i [a:] yno nag y mae ym Mro Dysynni, ac mai dyna pam nad yw siaradwyr cyffiniau Harlech i'w gweld yn rheoli eu defnydd o'r 'æ fain' yn y cyd-destun hwn chwaith.


Graff 8.44



Graff 8.45




Graff 8.46



8.3.2.3. Deuseiniaid sy'n cau ag [i]


I gloi, ceisir tynnu cymhariaeth rhwng defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni o'r deuseiniaid [a(:)i] / [æ(:)i]. Gwelir bod graff 8.47 yn gyntaf yn ystyried ffurfiau acennog, e.e. [χwa:ir] "chwaer" a [sdæ:ir] "staer", yn ogystal â rhai diacen, e.e. [læiθ] "llaeth" a [mæi] "mae", yn iaith pob un o unigolion y ddwy ardal. Ymddengys oddi wrth y graff hwn, felly, fod y canrannau o [æ(:)i] ar y cyfan yn uwch ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech.

Graff 8.47




O wahanu'r ffurfiau hyn yn rhai acennog ac yn rhai diacen wedyn, rhaid dibynnu ar sgorau cyfansawdd, lle y cyfunir ystadegau pob siaradwr ar gyfer rhoi tueddiadau cyffredinol inni. Adlewyrcha graff 8.48, felly, y sefyllfa gyffredinol o safbwynt [a:i] / [æ:i] acennog, a gwelir bod sgôr ardal Harlech gryn dipyn yn uwch (29%) nag eiddo Bro Dysynni (11%) o ran defnydd cyffredinol o [æ:i].

Graff 8.48



Cyferbyniol, fodd bynnag, yw canlyniadau'r ddwy ardal o safbwynt [ai] / [æi] mewn ffurfiau nad ydynt o dan yr acen bwys. Yn wir, dengys graff 8.49 yn eglur fod canran gyfartalog Bro Dysynni (63%) yn sylweddol uwch y tro hwn nag un ardal Harlech (11%). Er hynny, o edrych yn fanylach ar y rhestri o'r tocynnau a luniwyd, gellir dweud mai'r ffurfiau berfol [mai] / [mæi] "mae" sy'n pennaf lywio canlyniad Bro Dysynni, a bod [mæi] yn gyffredin yno. Yn ardal Harlech ar y llaw arall, ni chafwyd yr un enghraifft o [mæi], h.y. [mai] yn unig a nodwyd yno.²¹⁶ Ymddengys, felly, fod ffurfiau ar "mae" yn ymddwyn yn dra gwahanol yn y ddwy dafodiaith, a bod hynny i'w weld yn dylanwadu'n fawr ar ganlyniadau graff 8.49.

Graff 8.49



²¹⁶ Dylid pwysleisio yma nad yw'r ffurf [mai] "mae" yn niferus iawn yn ardal Harlech, a bod [ma] "mae" (gyda llafariad syml) yn llawer mwy cyffredin yno. Gellir ychwanegu hefyd fod tueddiad siaradwyr Bro Dysynni i ddefnyddio'r 'æ fain' yn aml yn [mæi] "mae" yn gyson â'u defnydd cyffredin o'r sain yn [mæ] "mae", tra bo absenoldeb [mæi] "mae" yn ardal Harlech ar y llaw arall yn cyfateb i ddefnydd prin iawn o [mæ] "mae" yno (gweler 8.1.1.1 ac 8.2.1.1. uchod).

8.4. Trafodaeth

I gloi'r bennod hon, ystyrir goblygiadau'r canlyniadau a drafodwyd uchod. Rhoddir sylw i ddechrau yn 8.4.1 i ffactorau ieithyddol sy'n effeithio ar ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r 'æ fain', cyn yr eir ati yn 8.4.2 i drafod ystyriaethau mwy cymdeithasol a daearyddol eu natur. Ceisir gweld wedyn yn 8.4.3 i ba raddau y mae'r canlyniadau a welwyd yn awgrymu gwahanol drywyddau posibl o safbwynt datblygiad hanesyddol yr 'æ fain' yn y canolbarth, a damcaniaethir i gloi yn 8.4.4 fod amrywio rhwng [æ(:)] ac [a(:)]wedi esgor ar batrymau ffonolegol eraill o safbwynt hyd llafariaid mewn geiriau unsill.

8.4.1. Ystyriaethau ieithyddol

Y mae'n gwbl eglur oddi wrth ganlyniadau'r bennod hon nad yw defnydd siaradwyr ardaloedd Harlech a Bro Dysynni o'r 'æ fain' yn unffurf, a bod cryn amrywio i'w weld ar waith yn y ddwy ardal o safbwynt y nodwedd hon. Dylid pwysleisio yma nad ymgynffwrdd ar hap a damwain y mae [æ(:)] ac [a(:)], ond bod yr amrywio hwn yn hytrach wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan **ffactorau ieithyddol** hollbwysig. Nodir isod y rhai a oedd yn greiddiol i'w hystyried ar gyfer dadansoddi defnydd siaradwyr o'r 'æ fain', a manylir ar bwysigrwydd pob un ohonynt. Noder mai'r un ffactorau yw'r rhain â'r rhai a nodwyd ym mhennod 7 (7.4.1) yn achos defnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r 'u ogleddol'.

- Hyd y llafariad

Daeth i'r amlwg yn y bennod hon fod llafariad agored byrion yn ymddwyn yn dra gwahanol i lafariaid agored hir, boent yn rhai syml neu'n elfennau cyntaf mewn deuseiniaid (gweler, er enghraifft, graffiau 8.6 ac 8.19). Yn wir, yn achos y ddwy ardal, sylwyd bod defnydd o [æ(:)] yn sylweddol uwch mewn llafariad hir (mewn geiriau unsill) na'r hyn ydoedd mewn llafariad byrion (o wahanol fathau). Pwysleisiwyd hefyd nad oedd unrhyw gydberthynas amlwg i'w gweld rhwng sgorau'r ddau fath hyn o lafariaid yn yr un o'r ardaloedd. Y mae hyn, felly, fel petai'n cadarnhau bod llafariad byrion a rhai hir yn perthyn i garfannau hollol wahanol (neu begynau cyferbyniol yn achos rhai o ganlyniadau Bro Dysynni) o safbwynt y patrymau amrywio a welir ynddynt yn achos yr 'æ fain'.

- Safle'r llafariad o fewn y gair

Yn gysylltiedig â hyd llafariad y mae ei safle o fewn y gair. Drwy rannu'r data yn wahanol gyd-destunau sillafog, gallesid cymharu patrymau'r llafariaid syml byrion mewn tri safle penodol, sef mewn geiriau unsill, yn y goben acennog, ac yn y sillaf olaf ddiacen.

Arweiniodd hynny at un o ganfyddiadau pwysicaf y bennod hon, sef bod cydberthynas amlwg (un hynod drawiadol yng nghyffiniau Harlech) rhwng canlyniadau'r tri chyd-destun hyn (gweler graffiau 8.6 ac 8.19). Y mae hyn, felly, yn brawf pendant nad ar hap a damwain y gwelir [æ] ac [a] yn ymgyfnewid â'i gilydd yn llafariaid byrion y ddwy dafodiaith, ond eu bod yn hytrach yn patrymu mewn ffordd debyg mewn tri safle hollol wahanol. Yn amlwg, ni ellid bod wedi profi hynny pe buasid wedi grwpio'r holl llafariaid byrion gyda'i gilydd.

- Y cyd-destun seinegol

Nid yw hyd llafariad a'i safle o fewn gair yn ddigon o angenrheidrwydd ar gyfer deall y patrymau amrywio a welir ar waith o safbwynt yr 'æ fain'. Ymddengys fod y cyd-destun seinegol cyn bwysiced â'r ffactorau hynny hefyd. Gwelwyd ym Mro Dysynni, er enghraifft, fod cryn wahaniaeth o safbwynt lefelau'r 'æ fain' rhwng sefyllfa'r deuseiniaid [æ:u] / [a:u] mewn ffurfiau unsill pan na cheid sain yn eu dilyn, e.e. yn [læ:u] "llaw" a [gla:u] "glaw", a'u sefyllfa pan geid cytsain yn eu dilyn, e.e. yn [jæ:un] "iawn" a [ma:ur] "mawr" (gweler graffiau 8.26 ac 8.27). Gan y dangoswyd fod [æ:u] yn llawer mwy cyffredin yn y cyd-destun seinegol cyntaf nag yn yr ail, gellir dadlau na fyddai cyplysu'r cyd-destunau hyn yn ddigonol ar gyfer adlewyrchu'r defnydd cymhleth a wneir o'r 'æ fain' yn y deuseiniaid penodol hyn.

- Y math o air sydd o dan sylw

Ffactor ieithyddol arall sydd i'w weld yn cyflyru defnydd siaradwyr o'r 'æ fain' yw'r math o air sydd o dan sylw. Gwelwyd, er enghraifft, fod y defnydd a wneid o'r 'æ fain' mewn geiriau gramadegol niferus, e.e. yn [ma(:)] / [mæ(:)] "mae", yn amlwg wahanol (yn sylweddol is fel rheol) i'r hyn a oedd ar waith mewn eitemau geirfaol ystyrllon, a dangoswyd

effaith eu hepgor ar ganlyniadau siaradwyr y ddwy ardal (cymharer graffiau 8.1 ac 8.2 â'i gilydd, a rhai 8.14 ac 8.15).

- Yr acen bwys

Dylid nodi yn olaf fod dylanwad yr acen bwys hefyd yn bwysig i'w ystyried wrth ddadansoddi'r defnydd o [æ(:)] mewn llafariad a deuseiniaid hir. Gwelwyd, er enghraifft, fod y defnydd o'r 'æ fain' (ar ôl hepgor geiriau gramadegol) yn uwch gan bob un o siaradwyr Bro Dysynni mewn ffurfiau nad oeddynt o dan yr acen, e.e. [bæχ] "bach" a [kæɪ] "cael", na mewn ffurfiau acennog, e.e. [bæ:χ] "bach" a [kæ:l] "cael" (gweler graff 8.15). Gellir ychwanegu hefyd fod y gwahaniaethau a welwyd rhwng y ddau gyd-destun hyn yn fwy sylweddol gan siaradwyr a geisiai reoli eu defnydd o'r sain (E.W a M.V yn arbennig). Gwelir, felly, fel y gall y ffactor ymddangosiadol ymylol hwn fod yn gysylltiedig ag ystyriaethau cymdeithasol ac ymagweddau personol siaradwyr (gweler 8.4.2 isod).

Yn olaf, dylid pwysleisio bod dadansoddiadau manwl y bennod hon o'r 'æ fain' mewn dwy ardal wahanol yn dangos yn glir nad yw sefyllfa'r nodwedd hon yn y canolbarth cyn symled ag yr honnwyd mewn astudiaethau blaenorol o amrywiadau llafar y canolbarth (gweler pennod 2: 2.2). Yn wir, gellir dweud yn bendant nad yw'r 'æ fain' mewn unrhyw fodd yn gyfyngedig i lafariad hir / elfennau cyntaf deuseiniaid hir, ond bod y sain yn gyffredin hefyd yn llafariad byrion amryfal gyd-destunau (boent yn rhai syml neu'n elfennau cyntaf mewn deuseiniaid byrion). Gan fod hyn yn wir yn achos y ddwy ardal a astudiwyd, gellir bod yn sicr nad mympwyon anarferol rhai siaradwyr sy'n gyfrifol am ddefnydd uwch na'r disgwyl o [æ] fer, a'i bod yn dra thebygol y ceid y llafariad fer hon mewn rhannau eraill o'r canolbarth hefyd.

8.4.2. Ystyriaethau cymdeithasol a daearyddol

Er bod ffactorau ieithyddol i'w gweld yn dylanwadu'n fawr ar ddefnydd pob un o'r siaradwyr o'r 'æ fain', rhaid nodi er hynny mai un arall o ganfyddiadau'r bennod hon yw bod cryn amrywio ar waith ymysg siaradwyr y ddwy ardal, a hynny o fewn yr un cyd-destunau. Yn ddiau, y mae'r amrywio hwn a welwyd ymhlith grwpiau'r ddwy ardal yn bwysig gan y gellid yn rhwydd fod wedi rhagdybio y byddai iaith y siaradwyr hyn yn unffurf oherwydd eu cefndiroedd cymdeithasol tebyg.

Mewn rhai achosion, ymddengys nad oes ffactorau cymdeithasol neu rai daearyddol amlwg a all egluro'r amrywio a welir ar waith. Cymerer, er enghraifft, ddefnydd siaradwyr ardal Harlech o [æ] fer, lle y gwelwyd patrymau trawiadol o debyg mewn tri chyd-destun penodol (gweler 8.4.1 uchod, a graff 8.6). Er bod lefelau yr [æ] fer yn y cyd-destunau hyn yn amrywio cryn dipyn yn ardal Harlech, ni ellir dweud bod oedrannau neu rywedd neu statws y siaradwyr yn llwyddo i roi cyfrif am yr amrywio hwn. Diau mai ystyried hyn fel achos o 'amrywio rhydd', neu 'amrywio diamod' ys dywed D.W Griffiths (1974), a wnâi rhai ieithyddion, ond gellir barnu bod tebygrwydd y sgorau a welwyd rhwng gwahanol gyd-destunau yn peri i dermau fel y rhain fod yn annigonol, a'u bod yn tanseilio'r patrymu clir a welir ar waith.

Fodd bynnag, mewn achosion eraill, nid oes dim dwywaith nad yw ystyriaethau cymdeithasol a rhai daearyddol yn berthnasol i batrymau amrywio yr 'æ fain', a'u bod yn cydblethu. Nodir isod wahanol ffactorau allieithyddol sydd i'w gweld yn dylanwadu'n amlwg ar ddefnydd siaradwyr o'r nodwedd.

- Lleoliad daearyddol yr ardal

O ran y ffactor hwn, gellir ystyried bod cryn wahaniaeth rhwng y ddwy ardal. Ar sail disgrifiadau o ffiniau'r sain (gweler Darlington, 1902; B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 36-39), gellir ystyried bod ardal Harlech ar gyrion eithaf tiriogaeth yr 'æ fain', a bod ei siaradwyr yn naturiol o dan ddylanwad tafodieithoedd mwy gogleddol lle yr yngenir ynddynt

[a(:)] yn gyson (gweler sylwadau ar rwydweithiau isod). Ymddengys fod Bro Dysynni ar y llaw arall wedi ei hamgylchynu gan ardaloedd eraill sy'n defnyddio'r sain. Arwain y ffactor hwn yn naturiol at y ffactorau nesaf, sef

- Ymwybyddiaeth y siaradwyr o fodolaeth yr 'æ fain' yn eu hiaith

Nid yn unig y mae hyn yn gysylltiedig â daearyddiaeth, ond y mae a wnelo hefyd â ffactor ieithyddol, sef ansawdd y llafariad gan y siaradwr, ac yn yr ardal yn gyffredinol. Er mai ymroi i fesur amllder y sain a wnaed yn y bennod hon, bernir er hynny fod ansawdd [æ(:)] yn fwy caeedig ar y cyfan ym Mro Dysynni nag ydyw yn ardal Harlech. Daethpwyd i'r casgliad, felly, fod siaradwyr Bro Dysynni yn ymwybodol o'u cynaniad o [æ(:)] mewn llafariad hir, tra bo canlyniadau ardal Harlech ar y llaw arall yn awgrymu na allai siaradwyr ardal Harlech wahaniaethu rhwng eu cynaniad o [æ(:)] ac [a(:)], ac nad oeddynt yn ymwybodol hyd yn oed fod yr 'æ fain' yn rhan o'u hiaith.

- Rhwydweithiau'r siaradwyr

Gall y ffactor hwn fod yn gysylltiedig â daearyddiaeth, er nad yw'n llwyr ddibynnol ar hynny. Yn gyntaf, nodwyd eisoes ei bod yn dra thebygol fod cyffiniau Harlech yn ardal drawsnewid o safbwynt y nodwedd hon. Bernir, felly, fod [æ(:)] yn cystadlu, neu'n ildio hyd yn oed, i [a(:)], yn bennaf oherwydd ei safle daearyddol. Yn amlwg, y mae'n fwy tebygol i siaradwyr ardal Harlech, sy'n byw ar gyrion tiriogaeth yr 'æ fain', ddod i gysylltiad yn aml â siaradwyr sy'n defnyddio [a(:)] yn gyson (wrth siopa ym Mhorthmadog, dyweder) nag y mae hi i siaradwyr ardaloedd sydd yng nghanol tiriogaeth yr 'æ fain'.²¹⁷ Yn yr un modd, gellir ystyried ei bod yn llai tebygol i siaradwyr Bro Dysynni rwydweithio'n gyson â siaradwyr

²¹⁷ Gan ei bod yn dra thebygol fod trigolion ardal Harlech yn llai symudol yn y gorffennol, a bod llai o ymwneud rhyngddynt a phobl o ardaloedd eraill, efallai y dylid ystyried y posibilrwydd y bu'r defnydd o'r 'æ fain' yn fwy sefydlog yno ar un adeg. Gellir cynnig hefyd y gall rhwydweithiau rhai o siaradwyr cyffiniau Harlech fod wedi newid ers iddi ddod yn rhan o Wynedd yn hytrach na'r hen Sir Feirionnydd. Dylanwad posibl arall yw Atomfa Trawsfynydd, lle y pery nifer o drigolion ardal Harlech i gymysgu â phobl o gyffiniau Blaenau Ffestiniog ac o ardaloedd yn Sir Gaernarfon o'i herwydd. Dylid nodi, fodd bynnag, na fu'r un o siaradwyr a gafwyd yn gysylltiedig â'r atomfa.

Cymraeg sy'n defnyddio [a(:)] yn gyson gan fod pobl o ardaloedd cyffiniol, e.e. dalgylch Dolgellau a Sir Drefaldwyn gyfan, hefyd yn defnyddio'r 'æ fain'. Er hynny, sylwyd bod M.V yn eithriad amlwg i'r duedd hon ym Mro Dysynni gan yr amlygwyd yn y cyfweiliadau iddo gymysgu'n gyson â siaradwyr Cymraeg o bob rhan o Wynedd yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd. Go brin, felly, mai drwy gyd-ddigwyddiad y cafwyd ganddo ef y defnydd isaf o [æ(:)] hir. Ymddengys yn hytrach mai dylanwad ei rwydweithiau, sy'n ehangach nag eiddo siaradwyr eraill ei fro, sydd wrth wraidd ei ddefnydd cymharol isel o'r 'æ fain' mewn llafariad hir. Y mae dylanwad rhwydweithiau'r siaradwyr, felly, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o sain yr 'æ fain',²¹⁸ yn effeithio'n naturiol hefyd ar y ffactorau allieithyddol sy'n weddill.

- Statws cymdeithasol y siaradwyr

Nodwyd eisoes wrth ymdrin â rhai o ganlyniadau Bro Dysynni fod dau siaradwr neilltuol o Fro Dysynni, sef M.V ac E.W, yn perthyn i garfan gyhoeddus / ddiwylliedig, ac mai'r siaradwyr hyn a geisiai reoli eu defnydd o'r 'æ fain', yn benodol mewn llafariad hir. Gellir barnu bod rheolaeth y siaradwyr hyn ar y nodwedd yn amlygu bod y gallu ganddynt i amrywio rhwng gwahanol gyweiriau llafar. Ymddengys, er hynny, fel petai E.W yn siaradwraig a bendiliai rhwng gwahanol gyweiriau, tra bo M.V ar y llaw arall yn fwy cyson ffurfiol (gweler graff 8.15). Diau y gall rhwydweithiau cymdeithasol eang M.V gyfrif am gysondeb arddull ei draethu.

- Agweddau'r siaradwyr tuag at nodwedd yr 'æ fain'

Y mae'n debygol y gall rheolaeth o nodwedd dafodieithol ddangos bod siaradwr yn ei hystyried yn israddol, neu o leiaf yn ansafonol. Fodd bynnag, erys rhagor o waith maes i'w wneud ar gyfer archwilio'n fanwl i ymagweddau siaradwyr tuag at wahanol amrywiadau ffonolegol (astudiaethau diddorol yn y cyswllt hwn yw rhai B. Thomas, 1980 a 1992).

²¹⁸ Yn amlwg, ni all y ffactor hwn fod yn berthnasol i siaradwyr nad ydynt yn ymwybodol o'u cynaniad o [æ(:)].

- Oedran (efallai)

Un posibilrwydd arall yw bod oedran yn dylanwadu'n rhannol ar y defnydd a wneir o'r 'æ fain'. Gan y gwelwyd bod defnydd R.P o [æ] mewn llafariaid byrion o wahanol gyd-destunau yn gyson uwch nag eiddo siaradwyr eraill Bro Dysynni, gellir cynnig y gall fod a wnelo hynny â'i hoedran, sydd gryn dipyn yn is nag oedrannau gweddill y siaradwyr (gweler eu manylion ym mhennod 3: 3.2.3). Derbynnir er hynny na all canlyniadau un siaradwraig fod yn brawf pendant o hyn.

Y mae'n amlwg, felly, y gall amrywio rhwng [æ(:)] ac [a(:)] ddeillio o ffenomenau hollol wahanol i'w gilydd. Yn wir, gall rheolaeth o'r 'æ fain', defnydd o [a:] mewn ffurfiau a ystyrir yn ffurfiol neu'n anarferol, yn ogystal â dylanwad tafodieithoedd eraill sydd ag [a(:)] yn gyson (yr hyn sy'n arferol yn ardal drawsnewid Harlech) fod yn rhesymau hollol wahanol a all egluro'r ymgyfnewid hwn. Dylid hefyd bwysleisio nad ffactorau cwbl annibynnol ar ei gilydd yw'r rhai cymdeithasol / daearyddol a nodwyd uchod, ond eu bod yn hytrach yn cydblethu. Bydd safle daearyddol ardal, er enghraifft, yn rhwym o ddylanwadu ar y math o rwydweithiau a fydd gan siaradwr, ac yn yr un modd, gall ehangder y rhwydweithiau a fydd gan siaradwyr fod yn gysylltiedig â'u statws cymdeithasol o fewn eu cymunedau.

8.4.3. Datblygiadau hanesyddol

Trown ein golygon nesaf at y modd y gall rhai o'r canlyniadau a gyflwynwyd yn y bennod hon awgrymu datblygiadau hanesyddol posibl. Yn gyntaf, dylid pwysleisio na ddylid cymryd yn ganiataol fod y sefyllfa a ddarluniwyd ar gyfer yr 'æ fain' yng ngyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni yn ddigyfnewid, ac mai'r un patrymau a oedd ar waith yn yr ardaloedd hyn ganrif yn ôl, dyweder. Er imi bwysleisio bod y canlyniadau a ddangoswyd yn y bennod hon yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd mewn astudiaethau blaenorol a ganolbwyntiodd ar rannau o'r canolbarth, y mae'n bosibl er hynny fod sefyllfa'r 'æ fain' yn yr ardaloedd hynny heddiw yn wahanol i'r hyn ydoedd pan gyflawnwyd gwaith maes yno.

O ran yr ychydig dystiolaeth a geir o ddatblygiadau posibl yr 'æ fain' yn y canolbarth, gellir cyferio yn gyntaf at awgrym a geir yn erthygl Thomas Darlington (1902) mai drwy gydweddiad â'r [æ:] hir y daeth [æ] fer i fodolaeth yn ddiweddarach:

There is no trace of this short (æ) in any Welsh-speaking district, except in the solitary instance of 'mam', where presumably the palatalization has... been caused... by habitual collocations such as "tad a mam", "mam bach"... (1902: 19)

Ceir hefyd awgrymiadau yn astudiaeth Alf Sommerfelt (1925) fod yr 'æ fain' wedi ennill ei phlwyf i raddau helaethach mewn rhai cyd-destunau nag eraill. Gwelwyd eisoes ym mhennod 2 (2.2.2.2) fod Sommerfelt yn cofnodi bod ymglyfnewid rhwng [æ] ac [a] i'w weld ar waith yn ardal Llanbryn-Mair, e.e. yn y parau [mæm] ~ [mam] "mam" ac [ækstro] ~ [akstro] "acstro". Yn yr un modd, noda fod amrywio ar waith rhwng y deuseiniaid [a:i] ac [æ:i], yn ogystal â rhwng [a:u] ac [æ:u]. Gellir felly gymharu'r modd yr awgryma Sommerfelt fod amrywio'n gyffredin yn y cyd-destunau hyn â'r darlun sefydlog a rydd o sefyllfa'r llafariad syml hir. Yn wir, awgrymir yn ddiamwys mai [æ:] hir a oedd yn arferol yng ngyffiniau Llanbryn-Mair ar ddechrau'r 1920au gan mai dyma a ddywedir am [a:] hir fwy agored: 'It may be heard, but very seldom...' (Sommerfelt: 1925: 12).

Gellir ystyried bod cryn arwyddocâd i'r gwahaniaeth hwn rhwng defnydd sefydlog o [æ:] ar y naill law, a'r amrywio a welir rhwng [æ(:)] ac [a(:)] ar y llaw arall. Fel yr awgryma Petyt, y

mae ymgyfnewid rhwng dwy sain yn aml yn dangos bod newid ieithyddol yn mynd rhagddo, a chyrrhaedda'r newid hwnnw ei benllanw pan geir terfyn ar gyfnod o amrywio:

... variation is most probably not a recent phenomenon: it seems quite likely that all sorts of linguistic changes start out as occasional uses, then become commoner, and eventually more or less universal – in other words, a period of variation occurs between the stage when the earlier feature is usual and that when the later one has ousted it. (Petyt, 1980: 108)

Yng ngoleuni hynny, felly, gellir ystyried mai newid hanesyddol o [a(:)] i [æ(:)] a welwyd yn y canolbarth (nid newid o [æ(:)] i [a(:)]), a diau fod y defnydd cyson a wneir [a(:)] mewn ardaloedd eraill (yn ne a gogledd Cymru) yn atgyfnerthu'r ddadl honno. Gellir dehongli, felly, fod defnydd cyson (h.y. 100%) o [æ:] mewn un cyd-destun yn arwyddo bod newid ieithyddol o [a:] i [æ:] wedi ei gwblhau. Ar y llaw arall, gellir ystyried y gall amrywio rhwng [a(:)] ac [æ(:)] mewn cyd-destunau eraill ddynodi bod newid o [a(:)] i [æ(:)] ar waith, ond nad yw'n orffenedig eto. Y mae'n rhesymegol inni ragdybio hefyd mai yn y cyd-destunau hynny lle y mae'r newid yn orffenedig neu bron â chael ei gwblhau y mae'r newid yn cychwyn.

O gymhwyso'r rhesymeg hon at ffurfiau Sommerfelt (1925), felly, gellir dehongli bod y newid o [a(:)] i [æ(:)] yn cychwyn mewn llafariad syml hir, a bod prinder [a(:)] yn ardal Llanbryn-Mair yn dynodi bod y broses mewn gwirionedd yn orffenedig yno yn y cyd-destun hwn. Awgrymir, er hynny, mai datblygiad diweddarach nag [æ:] hir fel llafariad syml yw [æ:] ar ddechrau deuseiniaid hir mewn ffurfiau fel [glæ:u] “glaw” a [læ:iθ] “llaeth”, ac mai dyna pam yr amrywai elfennau cyntaf y deuseiniaid hyn ag [a:] fwy agored. Nid oes modd gwybod i sicrwydd, er hynny, ai cyn neu ar ôl i'r deuseiniaid [æ:u] ac [æ:i] ymddangos am y tro cyntaf y daeth y llafariad fer [æ] yn gyffredin yn y ffurf [mæm] “mam”.

Naturiol fyddai gofyn, felly, a yw'r canlyniadau a gyflwynwyd yn y bennod hon yn ein goleuo ymhellach o safbwynt trywydd hanesyddol yr ‘æ fain’ yn y canolbarth. Dylid pwysleisio yn y cyswllt hwn mai un o fanteision dadansoddiadau'r astudiaeth hon dros rai Sommerfelt yw eu bod yn rhai meintiol, felly nid gwahaniaeth rhwng defnydd cyson o [æ(:)] ar y naill law, ac amrywio rhwng [æ(:)] ac [a(:)] ar y llaw arall, yw'r unig batrymau a ddangosir gan y canlyniadau uchod. Tra bo Sommerfelt, felly, yn awgrymu bod y defnydd o [æ:] yn gyson uchel mewn llafariad syml hir, gellir nodi bod hyn yn gyson â chanlyniadau

pedwar o siaradwyr Bro Dysynni gan fod canrannau eu tocynnau sy'n cynnwys [æ(:)] yn agos at fod yn 100%.²¹⁹ Gan fod modd dehongli mai yn y cyd-destun hwn y gwelwyd y lefelau cyffredinol uchaf o'r 'æ fain' yn y ddwy ardal, y mae lle i ddadlau felly i'r sain hon ddod i fodolaeth yn wreiddiol mewn llafariad syml hir, sef yr hyn a awgrymir hefyd gan ddehongliad Sommerfelt o'r nodwedd.

Dengys canlyniadau'r bennod hon, fodd bynnag, fod y defnydd o [æ:] yn gyffredinol uchel yn y ddwy ardal mewn un cyd-destun penodol arall, sef fel elfen gyntaf deuseiniaid hir sy'n cau ag [u] pan NA CHEIR sain yn dilyn, e.e. yn [glæ:u] "glaw" a [næ:u] "naw" (gweler graff 8.46). Fodd bynnag, gan y sylwyd ar ddefnydd o [a:u] yn iaith siaradwyr na ddefnyddiai [a:] fel llafariad syml hir ond mewn ffurfiau eithriadol, e.e. [dra:u] gan C.D, a [la:u] a [na:u] gan R.P, gellir cynnig yma fod yr 'æ fain' yn fwy tebygol o godi mewn llafariad syml hir, e.e. yn [dæ:] "da" a [ta:d] "tad", nag y mae mewn deuseiniaid hir sy'n cau ag [u] NA CHEIR dim yn eu dilyn, e.e. yn [læ:u] "llaw" a [na:u] "naw". Awgryma hyn, felly, mai datblygiad diweddarach nag [æ:] fel llafariad syml yw'r 'æ fain' yn [æ:u] (pan na cheir sain yn dilyn), a diau mai cefnogi'r dadl honno y mae cyfeiriadau Sommerfelt (1925) at ymgynwied rhwng [æ:u] ac [a:u] yng nghyffiniau Llanbryn-Mair. Gan fod [mæm] "mam" yn dra chyffredin yn y ddwy ardal a astudiwyd, yn debyg i'r sefyllfa yng nghyfnod Darlington (1902), gellir cynnig i'r ffurf hon ddod i fodolaeth yn fras tua'r un adeg ag [æ:u].

Gellir damcaniaethu wedyn fod y lefelau sylweddol is a gafwyd o'r 'æ fain' yn y ddeusain hir [æ(:)i] (ac [æ(:)i] ym Mro Dysynni) yn awgrymu mai datblygiad diweddarach nag [æ:u] yw hon (gweler graffiau 8.13, 8.31 ac 8.32).²²⁰ Gellir cynnig i gloi mai'r camau diweddaraf yn hanes yr 'æ fain' fu ei chynnydd mewn llafariad byrion (boent yn rhai syml neu'n elfennau cyntaf mewn deuseiniaid). Os derbynnir honiad Darlington (1902) fod [mæm] "mam" yn ffurf gyffredin yn y canolbarth ers dechrau'r ugeinfed ganrif o leiaf, ac mai drwy gydweddiad â'r llafariad hir cyfatebol y daeth i fod, diau y gellir dadlau mai parhad o'r un broses a

²¹⁹ Nid yw Sommerfelt, er hynny, yn cyfeirio at y modd y gall yr 'æ fain' fod o dan reolaeth yn y cyd-destun hwn, neu bod modd i [æ:] ac [a:] amrywio'n gyson ar gyrion ei thriogaeth mewn ardal drawsnewid (gweler 8.4.2 uchod).

²²⁰ Y mae fel petai data Robert Owen Jones (1967) ar gyfer Llanfachreth yn cefnogi'r dehongliad hwn gan nad yw'n cydnabod bod [a:u] (heb 'æ fain') nac [æ:i] (gydag 'æ fain') i'w cael yn yr ardal.

esgorodd ar [æ] mewn ffurfiau eraill fel [gævr] “gafir”, [plænt] “plant” a [kjænɔl] “canol”.²²¹ Gwelir, felly, fod tabl 1 isod yn ceisio amlygu’r trywydd hanesyddol posibl hwn ar gyfer datblygiad yr ‘æ fain’. Noder, er hynny, na ellir cynnig dyddiadau pendant ar gyfer y gwahanol gamau a awgrymir.

Tabl 1

→ AMSER →			
CAM 1 →	CAM 2 →	CAM 3 →	CAM 4
[æ:] yn ymddangos mewn llafariaid syml hir	Y ddeusain hir [æ:u] (pan na cheir sain yn dilyn), ²²² a’r ffurf [mæm] “mam” yn ymddangos	Y ddeusain hir [æ:i] yn ymddangos	[æ] fer yn amlhau (mewn llafariaid syml a deuseiniaid byrion)
[tæ:d] “tad”	[tæ:d]	[tæ:d]	[tæ:d]
[gla:u] “glaw” [mam] “mam”	[glæ:u] [mæm]	[glæ:u] [mæm]	[glæ:u] [mæm]
[sda:ɪr] “staer”	[sda:ɪr]	[sdæ:ɪr]	[sdæ:ɪr]
[plant] “plant” [kapal] “capel” [maur] “mawr” [χwaiθ] “chwaith”	[plant] [kapal] [maur] [χwaiθ]	[plant] [kapal] [maur] [χwaiθ]	[plænt] [kæpal] [mæur] [χwæiθ]

²²¹ Cydnabyddir mai’r unig sail a geir dros ddadlau bod ‘æ fain’ mewn llafariaid byrion yn ddatblygiad diweddarach nag [æ:i] / [æ:i] yw am fod astudiaethau blaenorol yn cyfeirio at y deuseiniaid hyn, tra na cheir nemor ddim sôn am fodolaeth ‘æ fain’ mewn llafariaid byrion. O ran canlyniadau’r traethawd hwn, fodd bynnag, nid ydynt mewn gwirionedd yn awgrymu mai’n ddiweddarach nag [æ:i] / [æ:i] y daeth [æ] fer yn gyffredin.

²²² Gellir awgrymu bod [æ:u] pan geir cytsain yn dilyn, e.e. yn [jæ:un] “iawn” a [mæ:ur] “mawr”, yn ddatblygiad diweddarach sy’n cyd-ddigwydd ag ymddangosiad yr ‘æ fain’ mewn deuseiniaid byrion cyfatebol, e.e. yn [jæun] a [mæur].

8.4.4. Datblygiadau pellach yn sgil amrywio rhwng [a(:)] ac [æ(:)]

Dadleuwyd yn y bennod ddiwethaf fod ymgyfnewid cyson rhwng y llafariad gaeedig ganol [i(:)] a'r llafariad flaen gyfatebol [i(:)] wedi dylanwadu'n sylweddol ar strwythur ffonolegol tafodiaith Bro Dysynni drwy beri i hyd nifer o ddeuseiniaid amrywio â'i gilydd. Fodd bynnag, o ystyried y sylw canlynol o eiddo Sommerfelt, efallai na fuasai disgwyl i amrywio o safbwynt yr 'æ fain' gael effaith debyg ar strwythurau ffonolegol y canolbarth.

The development $\alpha > \text{æ}$: does not mean a change in the system to the same extent as that of y into i .
(Sommerfelt, 1925: 136)

Gellir awgrymu, fodd bynnag, mai un o sgil effeithiau amrywio rhwng [a(:)] ac [æ(:)] yw bodolaeth llafariad hanner hir mewn geiriau unsill yn y ddwy ardal dan sylw. Dengys yr enghreifftiau isod fod y llafariad hanner hir hyn wastad yn amrywio â rhai byrion:

Cyffiniau Harlech

[mæ·m] ~ [mæm] "mam"

[*bla·nt] ~ [plant] "plant"

Bro Dysynni

[mæ·m] ~ [mæm] "mam"

[*blæ·nt] ~ [plænt] "plant"

[kæ·mp] ~ [kæmp] "camp"

[*bla·nt] ~ [plant] "plant"

[la·n] ~ [lan] "Llan"

[ka·mp] ~ [kamp] "camp"

Barn Darlington, fel y gwelwyd eisoes, oedd mai drwy gyfosod "mam" yn rheolaidd â ffurfiau fel [tæ:d] "tad" a [bæ:χ] "bach", e.e. yn [tæ:d a mæm] a [mæm bæ:χ], y cafwyd [æ] fer yn y lle cyntaf. Mewn geiriau eraill, yr hyn a wnaeth y llafariad fer yn "mam" oedd cydweddu yn ei hansawdd â'r llafariad hir [æ:]. Cam digon naturiol, felly, fyddai i'r llafariad yn [mæm] ddatblygu rhywfaint o hyd drwy gydweddiad pellach ag [æ:] hir, h.y. bod [mæ·m] bellach yn ymdebygu o ran ei hyd yn ogystal â'i hansawdd i [æ:] hir. Gellir ychwanegu yma na chafwyd y ffurf [ma·m] "mam" yn yr un o'r ardaloedd, er bod [mæm] a [mam] i'w gweld yn ymgyfnewid â'i gilydd yn y ddwy ardal. Y mae'n rhesymegol credu, felly, mai yn y ffurf [mæ·m] y gwelwyd llafariad hanner hir yn codi yn y lle cyntaf, ac mai oherwydd ei dylanwad hi y ceir [æ·] ac [a·] yn ymddangos mewn geiriau unsill eraill, a hynny hefyd o flaen y

trwynolion [m] a [n]. Diau fod y datblygiad hwn, felly, hefyd yn berthnasol i drywydd hanesyddol yr ‘æ fain’ (gweler 8.4.3 uchod), ond na ellir cynnig dyddiadau penodol ar ei gyfer. Er eglurder, ceisir amlygu’r camau posibl a roes fod i lafariaid hanner hir yn nhabl 2 isod, gan ddangos hefyd sut y gallasant fod wedi lledaenu’n raddol.

Tabl 2

Y GOGLEDD A’R DE	Y CANOLBARTH				
	→ AMSER →				
Defnydd cyson o [a(:)]	Amrywio rhwng [a:] ac [æ:]	[æ:] hir yn dylanwadu ar ansawdd y llafariad fer yn “mam”	[æ:] hir yn dylanwadu ar ansawdd llafariad byrion geiriau eraill	Hyd yn datblygu yn [mæ·m] drwy gydweddiad â ffurfiau sydd ag [æ:] hir	[æ·] / [a·] yn ehangu i eiriau eraill pan geir trwynolion yn eu dilyn
[ta:d] “tad”	[ta:d] ~ [tæ:d]	[ta:d] ~ [tæ:d]	[ta:d] ~ [tæ:d]	[ta:d] ~ [tæ:d]	[ta:d] ~ [tæ:d]
[mam] “mam”	[mam]	[mam] ~ [mæm]	[mam] ~ [mæm]	[mam] ~ [mæm] ~ [mæ·m]	[mam] ~ [mæm] ~ [mæ·m]
[plant] “plant”	[plant]	[plant]	[plant] ~ [plænt]	[plant] ~ [plænt]	[plant] ~ [*bla·nt] ~ [plænt] ~ [*blæ·nt]

8.4.5. Y cam nesaf

Yr hyn y bwriedir ei wneud yn y bennod nesaf yw archwilio mewn modd tebyg i ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o nodwedd ffonolegol arall sy’n amlwg yn y canolbarth, sef y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj]. Ceisir yn y bennod nesaf hefyd ystyried pa ffactorau a all fod yn cyflyru patrymau amrywio’r siaradwyr.


PENNOD 9: Y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj]

9. Cyflwyniad

Hyd yma, edrychwyd yn fanwl ar ddefnydd siaradwyr Bro Dysynni a chyffiniau Harlech o ddwy lafariad benodol. Gellid dweud mewn modd cyffredinol fod y naill sain, sef yr ‘u ogleddol’ [i(:)] / [ɨ], yn creu rhaniad trawiadol rhwng siaradwyr Cymraeg y gogledd a rhai’r de, ac mai dyna pam y mae hynt y llafariad yn y canolbarth wedi ennyn diddordeb neilltuol. Ar y llaw arall, rhoddwyd sylw i’r ail lafariad, sef yr ‘æ fain’ [æ(:)], gan ei bod yn sain dra nodweddiadol o dafodieithoedd y canolbarth. Bwriedir yn awr archwilio i’r defnydd a wneir o’r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] (yr hyn a geir yn [kjæ:θ] “cath” a [gjavr] “gafr”, er enghraifft), seiniau sydd eto’n nodweddiadol o lafar y canolbarth. Er gwybodaeth, atgynhychir map 1 isod o’r gyfrol *Cyflwyniad i Astudio’r Iaith Gymraeg* (Thorne, 1985: 87), ac fe’i lluniwyd yn wreiddiol yn 1901 gan Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru (gweler disgrifiad sy’n cyd-fynd â’r map yn Anwyl, 1901: 40).²²³ Ceir yma ymgais brin i ddangos tiriogaeth ‘ci-’ o flaen ‘a’, a gwelir mai â rhannau o’r canolbarth y cysylltir y defnydd o [kj] yn y map hwn, er nad yw’n hollol glir oddi wrtho beth a ddigwydd yn nwyrain y rhanbarth.

²²³ Noder na thrafodwyd y map hwn ym mhennod 2 gan na cheir gan Anwyl (1901) na Thorne (1985) ddadansoddiadau manwl o amrywiadau ffonolegol yng nghanolbarth Cymru.

Map 1: Tiriogaeth ‘ci-’ o flaen ‘a’ (Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, 1901; cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn Thorne, 1985: 87)



Dangoswyd eisoes ym mhennod 6 (6.1.1 a 6.1.2) nad yw defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech a Bro Dysynni o’r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] yn sefydlog, ond eu bod yn hytrach yn ymglyfnwid â’r cytseiniaid felar cyfatebol [k] a [g] mewn gwahanol safleoedd o fewn y gair.²²⁴ Codwyd, felly, barau o ffurfiau megis [kaus] ~ [kjaus] “caws”, [kefɪl]~[kjefɪl] “ceffyl”, [gælu] a [gjælu] “galw” a [tekjaɫ] ~ [tekaɫ] “tegel”, a sylwyd ar yr amrywio hwn ar waith, nid yn unig o fewn y gair, ond o fewn iaith yr unigolyn yn aml.²²⁵

²²⁴ Er eglurder, y cyfan a nodwyd ym mhennod 6 (6.1.1 a 6.1.2) oedd bod y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] yn amrywio â’r rhai felar cyfatebol [k] a [g]. Gan na fwriedid yn y bennod honno ragdybio’r berthynas a geir rhwng y ddwy set hyn o ffrwydrolion, ni honnwyd bod siaradwyr yn taflodoli’r ffrwydrolion felar [k] a [g]. Yn y bennod hon, fodd bynnag, teg fyddai ystyried mai taflodoli yw’r ffenomen a welir ar waith, e.e. yn [kjæ:l] “cael” a [kjerig] “cerrig”. Dyna a ddehonglir hefyd mewn astudiaethau blaenorol o lafar y canolbarth (gweler pennod 2: 2.2.3), ac yn ogystal â hynny, nid yw’r posibilrwydd fod siaradwyr y canolbarth weithiau’n felareiddio [kj] / [gj] yn [k] / [g] yn un rhesymegol mewn gwirionedd o gofio mai’r ffrwydrolion felar yn unig a geir mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

²²⁵ Ceir rhagor o enghreifftiau tebyg o ymglyfnwid o fewn gair yn 9.4.3 isod, lle y trafodir arwyddocâd posibl hynny.

Yr hyn y bwriedir ei wneud yn y bennod hon, felly, yw archwilio'n fanylach i union natur yr amrywio hwn yn y ddwy ardal. Y cam cyntaf, felly, oedd trawsgrifio pob ffurf a gynhwysai [k(j)] neu [g(j)] o flaen pob llafariad yn iaith dau siaradwr o ardal Harlech (D.O ac E.J) a dau arall o Fro Dysynni (B.R ac E.W) ar gyfer pob cyd-destun posibl.²²⁶ O wneud hynny, daethpwyd i'r ddau gasgliad canlynol o safbwynt cyfyngiadau ffonotactig.

1. Ni cheir ffrwydrolion taflodol ond o flaen y llafariad [a(:)] / [æ(:)] “a” ac [ɛ] / [e(:)] “e”
2. Nid oes modd i'r seiniau taflodol [kj] neu [gj] gael eu cynanu ar ddiwedd geiriau, e.e. yn [ˈke:gj] “ceg”²²⁷

Ar gyfer dadansoddi defnydd siaradwyr eraill y ddwy ardal o'r nodwedd hon, felly, penderfynwyd cyfyngu'r adysgrifio i'r llafariad uchod yn unig, yn ogystal ag i ddechrau a chanol geiriau yn unig.

Daeth i'r amlwg wrth drawsgrifio, fodd bynnag, na ellid ystyried bod pob [kj] a [gj] a gafwyd yn y ddwy ardal fel enghreifftiau o daflodoli ar waith. Gwelwyd eisoes ym mhennod 6 (6.2.2.1) mai fel clystyrau cytseiniol yr ymdriniwyd â [kj] yng nghanol ffurfiau fel [tøkja] “tociau” a [sbəkjan] “sbecian”.²²⁸ Er hynny, ym mhennod 6 (6.1.1 a 6.1.2) hefyd, ystyriwyd mai ffrwydrolion taflodol a geid yng nghanol geiriau megis [tekja] “tegel” ac [igjan] “ugain”. Gan mai yn yr un cyd-destun sillafog yn union, sef ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, y ceir [kj] yn [sbəkjan] “sbecian” ac yn [tekja] “tegel”, rhaid cyfiawnhau yma sut y gellir barnu mai clwstwr yw [kj] y ffurf gyntaf, ac mai sain daflodol unigol yw [kj] yr ail.

²²⁶ Er eglurder, defnyddir y symbolau [k(j)] a [g(j)] er mwyn dynodi bod taflodiad yn opsiynol, h.y. cynhwysir y seiniau taflodol [kj] / [gj] yn ogystal â'r seiniau felar cyfatebol [k] a [g].

²²⁷ ^ = ffurf amhosibl.

²²⁸ Er eglurder, “twyni tywod” fyddai'r gair Cymraeg safonol a gyfatebai i [tøkja tævød] “tociau tywod” ardal Harlech.

Ymddengys mai ar sail gwahaniaethau morffolegol y gellir ystyried bod dwy ffenomen wahanol ar waith ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. Yn gyntaf, mewn ffurfiau fel [sbəkjan] “sbecian”, [təkja] “tociau” a [likjɔ] “licio”, gellir dehongli pob un ohonynt fel cyfuniad o ddwy forffem, e.e. dwy forffem [sbəkjan] “sbecian” yw ‘sbec’ + ‘ian’ (gweler Watkins, 1961: 32-37 am wybodaeth bellach ynghylch morffemau). Ymddengys, felly, mai perthyn i'r forffem gyntaf y mae'r ffrwydrol yn felar [k], ac mai perthyn i'r ail forffem y mae'r lled-lafariad [j] sy'n dilyn. Gellir cefnogi'r dehongliad hwn hefyd drwy gymharu ffurfiau fel [sbəkjan] “sbecian” a [təkja] “tociau” â ffurfiau eraill sy'n cynnwys yr un terfyniadau morffolegol, ond sydd â chytseiniad ar wahân i [k] / [g] felar yn eu rhagflaenu, e.e.

-ian: [sbəkjan] (sbec + ian) cf. [sɛvəljan] (sefyll + ian); [gɔrvɛðjan] (gorwedd + ian)

-iau: [təkja] (toc + iau) cf. [kardjæ] (card + iau); [gatja] (gât + iau)

-io: [likjɔ] (l(e)ic + io) cf. [adjɔ] (ad + io); [kɔvjɔ] (cof + io)

Ar sail morffoleg y ffurfiau uchod, felly, gellir honni yn argyhoeddiadol fod y sain felar [k] a'r lled-lafariad [j] yn unedau hollol annibynnol ar ei gilydd, ac mai clwstwr cytseiniol yw [kj] yn y geiriau hyn.

Ar y llaw arall, o safbwynt ffurfiau fel [tekjaɫ] “teggell” a [baɣgjan] “bachgen”, gellir dadlau nad dilyniant o seiniau ffrwydrol + lled-lafariad sy'n perthyn i forffemau gwahanol a welir yn y geiriau hyn. Gellir honni yn hytrach mai taflodoli [k] / [g] yn [kj] / [gj] yw'r nodwedd a welir ar waith, ac mai seiniau taflodol unigol (nid clystyrau) yw [kj] a [gj] mewn ffurfiau o'r math hwn. Diau fod yr amrywio a welir mewn parau megis [tekjaɫ] ~ [tɛkaɫ] a [baɣgjan] ~ [*vaɣgan] yn atgyfnerthu'r dehongliad hwn hefyd, yn enwedig o gofio na all ffurfiau fel [sbəkjan] “sbecian” a [təkja] “tociau” amrywio â [ˈsbɛkan] a [ˈtɔka], dyweder.

Yn yr un modd, ymddengys mai ffrwydrolion taflodol yw'r [kj] / [gj] a geir bob tro ar ddechrau geiriau (boent rai unsill neu ar ddechrau'r goben acennog), ac na ellir eu hystyried yn glystyrau cytseiniol. Er mwyn cefnogi'r safbwynt hwn, priodol yw cyfeirio at y modd y treigilir ffurfiau taflodol megis [gjalu] “galw” a [gjavr] “gafir”. Yn wir, yr unig ffurfiau

treigledig a gafwyd ar y geiriau hyn yw [*alu] / [*ælu] “galw” ac [*avr] “gafir”. Er nad yw hynny’n annisgwyl mewn gwirionedd, y mae’n bwysig nodi na chafwyd ffurfiau fel [ˈʲalu] “galw” a [ˈʲavr] “gafir”, h.y. y ffurfiau treigledig a gawsid pe byddai’r ddwy elfen a geir yn [gʲ] yn unedau annibynnol ar ei gilydd.²²⁹ Gellir cynnig, felly, fod amhosibilrwydd y ffurfiau hyn yn cadarnhau mai un uned yw’r [gʲ] a geir ar ddechrau geiriau fel [gʲalu] a [gʲavr], ac yn profi mai taflodoli a welir ar waith ynddynt.

Ar ôl adysgrifio pob ffurf berthnasol, felly, lluniwyd rhestri yn nhrefn yr wyddor yn nodi pob ffurf, a rhoddwyd nifer y tocynnau a gafwyd ar gyfer pob ffurf neu deip (*type*) mewn cromfachau. Dangosir hyn yn eglur isod mewn rhan o dabl a wnaed ar gyfer un siaradwr (J.E) o ardal Harlech, a hynny ar gyfer un cyd-destun penodol, sef ar ddechrau’r goben acennog.

[k] / [g]		[kj] / [gʲ]	
O flaen [a] / [æ]	O flaen [ɛ] / [e]	o flaen [a] / [æ]	o flaen [ɛ] / [e]
[kædu] (1)			
		[*gjadu] (1)	
		[kjalad] (1)	
		[*gjalad] (1)	
		[*gjæni] (1)	
		[kjapal] (1)	
[karjɔ] (1)			
[kærjɔ] (2)			
	[kɛfɪl] (6)		
	[kɛrðad] (1)		[kʲɛrðad] (3)

Drwy lunio rhestri fel hyn, yr oedd modd cyfrifo’r sgorau a oedd yn berthnasol i’r nodwedd hon, sef canrannau y tocynnau a gynhwysai’r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gʲ]. Crynhoir y

²²⁹ Fel brodor o ardal Harlech, gallaf nodi na chlywais ffurfiau fel y rhain erioed, ac nad wyf yn ystyried eu bod yn bosibl yn unman.

canlyniadau hyn mewn graffiau isod yn 9.1 a 9.2, lle y mae'r llinellau lliw yn cynrychioli gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Fel yr eglurwyd eisoes yng nghyflwyniadau penodau 7 ac 8, gosodir chwe siaradwr y ddwy ardal yn yr un drefn drwy'r graffiau, ac ar sail sgorau'r siaradwyr yn y cyd-destun cyntaf un (o'r uchaf i'r isaf) y sefydlir y drefn honno. Er hwylustod wrth gymharu gwahanol gyd-destunau â'i gilydd y gwneir hyn yn bennaf. Sylwer, felly, nad yw siaradwyr y ddwy ardal yn ymddangos yn yr un drefn yn y bennod hon ag y maent yn y penodau blaenorol.

Yng ngweddill y bennod hon, felly, trafodir y canlyniadau a gafwyd yn llawn. Unwaith eto, y mae'r data cyflawn sy'n sail i ganlyniad pob graff yn ymddangos yn yr atodiad.²³⁰ Rhoddir sylw i ddechrau yn 9.1 i'r defnydd a wneir o [kj] / [gj] yng nghyffiniau Harlech, a dilynir yr ymdriniaeth honno â dadansoddiad tebyg o'r sefyllfa ym Mro Dysynni yn 9.2. Eir ati wedyn i gymharu canlyniadau'r ddwy ardal yn 9.3, cyn y tynnir casgliadau yn 9.4 ynghylch y patrymau sydd ar waith yn y ddwy ardal dan sylw.

²³⁰ Fel yn achos cymhariaeth y bennod ddiwethaf (8.3), ni cheir yn yr atodiad ystadegau ar gyfer graffiau cymhariaeth y bennod hon (yn 9.3) gan mai ailadrodd yr un canlyniadau â gyflwynir yn 9.1 a 9.2 isod a wneir.


9.1. Cyffiniau Harlech

Edrychir yn yr adran hon ar ddefnydd siaradwyr ardal Harlech o'r cytseiniaid taflodol [kj] / [gj] mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Ymdrinnir i ddechrau â'r nodwedd ar ddechrau geiriau unsill, yna ar ddechrau'r goben acennog,²³¹ wedyn ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. I gloi, ceisir gweld a geir gwahaniaethau ai peidio rhwng y modd y taflodolir y ffrwydrolion felar hyn o flaen [a(:)] / [æ(:)], a'r modd y gwneir hynny o flaen [ɛ] / [e(:)].

9.1.1. Ar ddechrau geiriau unsill

Yn gyntaf, adlewyrcha graff 9.1 y canlyniadau a gafwyd o ddadansoddi pob [k(j)] a [g(j)] (boent wedi eu taflodoli ai peidio) ar ddechrau ffurfiau unsill, e.e. [kjæ:l] "cael" a [kjæ:i] "cae". Dengys y graff hwn, felly, gryn amrywiaeth o sgorau o safbwynt defnydd y siaradwyr o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn y cyd-destun hwn, lle y gwelir bod y sgorau yn rhychwantu rhwng 36% a 0%.

Graff 9.1




²³¹ Dylid egluro yma fod mwyafrif llethol yr enghreifftiau a gafwyd o [k(j)] / [g(j)] ar ddechrau'r goben acennog yn ymddangos ar ddechrau geiriau, ac mai eithriadau prin yw ffurfiau fel [bendigedig] "bendigedig" ac [akjeri] "aceri".

Fodd bynnag, gellir ystyried bod dau gyd-destun seinegol gwahanol wrth wraidd canlyniadau graff 9.1, sef

1. [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu **llafariaid syml**, e.e. yn [kjæ:l] “cael” a [*gant] “cant”
2. [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu **deuseiniaid**, e.e. yn [kjaus] “caws” a [ka:i] “cau”

Penderfynwyd, felly, rannu'r tocynnau a gafwyd i'r ddau ddsbarth uchod rhag ofn fod y cyd-destun seinegol yn effeithio ar ddefnydd siaradwyr ardal Harlech o'r ffrwydrolion taflodol yn y cyd-destun hwn. Darlunia graff 9.2, felly, y sefyllfa a geir pan ddadansoddir y ffrwydrolion perthnasol sy'n rhagflaenu llafariaid syml yn unig (yr hyn a geir yn [kjæ:l] “cael” a [*gant] “cant”, er enghraifft). Gwelir bod sgorau'r graff hwn yn debyg iawn i'r hyn a welwyd yng ngraff 9.1. Dengys hyn yn glir, felly, mai canlyniadau'r cyd-destun hwn, sef [k(j)] / [g(j)] o flaen llafariaid syml, sy'n pennaf lunio stori graff 9.1 hefyd (fel y mae canlyniadau'r deuseiniaid sy'n dilyn yn ei gadarnhau). Sylwer, fodd bynnag, mai T.R sydd â'r sgôr uchaf yn y graff hwn, nid J.E, a bod y rhychwant o sgorau a geir ychydig yn llai yng ngraff 9.2 (rhwng 33% a 0%) na'r hyn a welwyd yng ngraff 9.1. Bid a fo am hynny, yr hyn sydd bwysicaf i'w nodi am y ddau siaradwr hyn, sef T.R a J.E, yw eu bod fel petaent yn perthyn i garfan wahanol o siaradwyr i'r rhai eraill oherwydd eu sgorau cymharol uchel yng ngraffiau 9.1 a 9.2.

Graff 9.2




O safbwynt y ffrwydrolion felar / taflodol sy'n rhagflaenu deuseiniaid wedyn (yr hyn sy'n [kjaus] "caws" a [ka:i] "cau", er enghraifft), y mae nifer y tocynnau perthnasol a gafwyd yn rhy brin i ddod i unrhyw gasgliadau pendant (gweler Atodiad: 9a). Y cyfan y gellir ei nodi yw bod modd i [k] a [g] gael eu taflodoli o flaen gwahanol ddeuseiniaid yn y dafodiaith hon, fel y tystia ffurfiau megis [kjaus] "caws" a [gjæir] "gair". Nid oes modd dweud, felly, a yw taflodoli yn fwy ynteu'n llai cyffredin yn y cyd-destun hwn nag ydyw pan geir llafariaid syml yn dilyn [k(j)] / [g(j)].

9.1.2. Ar ddechrau'r goben acennog

Yn wahanol i'r hyn a gafwyd ar ddechrau geiriau unsill, o flaen llafariaid syml yn unig y cafwyd achosion o [k(j)] / [g(j)] yn ymddangos yn y cyd-destun hwn.²³² Y mae graff 9.3, felly, yn adlewyrchiad o'r sefyllfa pan ddadansoddir pob [k(j)] a [g(j)] o flaen llafariad syml ar ddechrau'r goben acennog (yr hyn a welir yn [kjerig] "cerrig" a [gjælu] "galw", er enghraifft). Dengys canlyniadau'r graff hwn fod amrediad eang o sgorau i'w weld o ran defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech o [kj] / [gj], a'u bod yn ddigon tebyg i'r hyn a welwyd ar ddechrau geiriau unsill. Gwelir yn eglur hefyd fod sgorau J.E a T.R unwaith eto ben ac ysgwyddau'n uwch na rhai gweddill y siaradwyr, ac nad oes cymaint o amrywio i'w weld ar waith ymysg y pedwar siaradwr arall.


²³² Y mae'n dra thebygol mai ar hap a damwain y digwydd fod [k(j)] / [g(j)] yn gyfyngedig i'r cyd-destun seinegol hwn ar ddechrau'r goben acennog. Diau y byddai [kauɔd (o la:u)] "cawod (o law)" yn rhan o eirfa siaradwyr yr ardal, lle y ceid yn yr achos hwn enghraifft o ddeusain yn dilyn [k] felar (ni allaf ddweud imi sylwi erioed ar [kj] daflodol yn ymddangos ar ddechrau'r gair hwn, er hynny). Yn yr un modd, go brin y byddai deuseiniaid sy'n agor ag [ɛ] / [e] yn amhosibl yn dilyn [k(j)] / [g(j)], e.e. yn [keinant] "ceunant" a [kɛuri] "cewri".

Graff 9.3



Dengys graff 9.4 wedyn faint o debygrwydd yn union a geir rhwng defnydd siaradwyr ardal Harlech o'r cytseiniaid taflodol ar ddechrau geiriau unsill (y llinell las), a'u defnydd ohonynt ar ddechrau'r goben acennog (y llinell goch). Gan D.O y ceir y gwahaniaeth mwyaf rhwng sgorau'r ddau gyd-destun (15% yn y naill a 4% yn y llall). Er hynny, y mae sgorau'r siaradwyr ar y cyfan yn hynod drawiadol o debyg i'w gilydd yn y ddau gyd-destun dan sylw. Awgryma hyn, felly, fod defnydd siaradwyr ardal Harlech o [k(j)] / [g(j)] yn debyg ar ddechrau geiriau o bob math, ni waeth beth fo niferoedd eu sillafodd.


Graff 9.4



9.1.3. Ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen

O flaen llafariaid syml yn unig y cafwyd enghreifftiau o [k(j)] a [g(j)] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen hefyd. Y mae graff 9.5, felly, yn crynhoi'r canlyniadau a geir pan ddadansoddir defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech o ffrwydrolion perthnasol yn y cyd-destun hwn (mewn ffurfiau megis [tɛkjaɪ] “tegel”, [baɪgjan] “bachgen” a [haŋkas], er enghraifft). Y mae'n glir oddi wrth y patrymau a welir yma nad yw defnydd y siaradwyr o'r cytseiniaid taflodol yn debyg yn y cyd-destun hwn i'r hyn a gafwyd yn y cyd-destunau eraill. Nid yn unig y gwelir bod lefelau'r [kj] / [gj] yn gyffredinol uwch ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, ond amlygir yn y graff hefyd nad J.E a T.R (y ddau a sgoriai'n sylweddol uwch na gweddill y siaradwyr yn y cyd-destunau blaenorol) sydd â'r canrannau uchaf chwaith. Er bod defnydd G.J o'r ffrwydrolion taflodol i'w weld yn isel yn y cyd-destun hwn, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar hyn gan fod ei chanlyniad yn seiliedig ar gyfanswm o 11 tocyn yn unig. O graffu'n fanylach ar y rhestri o ffurfiau a briodolir iddi, gwelir mai ffurfiau ar “hogen”, sef [hɔgan] a [hogan], yw pump o'r tocynnau, ac mai [lɔvrgɛɪ] “llyfrgell” yw un arall o'r tocynnau. Y mae'n briodol nodi yn y cyswllt hwn na welwyd taflodoli ar waith yn y geiriau “hogen” a “llyfrgell” gan neb o'r siaradwyr eraill chwaith (o'r ddwy ardal dan sylw). Ymddengys felly mai prinder ffurfiau lle y gellir taflodoli ynddynt sy'n rhannol egluro sgôr eithriadol isel G.J.²³³


Graff 9.5



²³³ Trafodir y math o eiriau sy'n caniatáu cytseiniaid taflodol yn fanylach yn y drafodaeth (9.4).

Dangosir yn fanwl yng ngraff 9.6, felly, sut y mae canlyniadau'r cyd-destun hwn (ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen) yn wahanol i eiddo'r cyd-destunau blaenorol ([k(j)] / [g(j)] ar ddechrau geiriau unsill ac ar ddechrau'r goben acennog). Y mae'n gwbl amlwg oddi wrth y graff hwn fod trefn sgorau'r siaradwyr yn hollol wahanol ar y llinell werdd (ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen) i'r hyn a geir ar y llinell las (ar ddechrau geiriau unsill) ac ar y llinell goch (ar ddechrau'r goben acennog). Yr hyn sydd fwyaf trawiadol efallai yw bod D.O, C.R ac E.J, rhai a sgoriodd yn isel yn y cyd-destunau blaenorol, yn gwneud defnydd sylweddol uwch o [kj] a [gj] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. Sylwer yn arbennig ar E.J, sydd â sgôr o 0% ar y llinellau coch a glas, tra bo'i chanran o 56% ar y llinell werdd yn ei gwneud yn un o'r sgorwyr uchaf ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen.²³⁴

Graff 9.6



²³⁴ Ceisir mynd i'r afael â pham y ceir canrannau cyffredinol uwch ar y llinell werdd (ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen) yn nhrafodaeth y bennod hon (gweler 9.4 isod).


9.1.4. Taflodoli o flaen [a(:)] / [æ(:)] ac [ɛ] / [e(:)]

Hyd yma, cynhwyswyd yr holl enghreifftiau a gafwyd o [k(j)] a [g(j)] gyda'i gilydd, boent yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)], e.e. yn [kjæ:l] “cael” a [gjælu] “galw”, neu'n rhagflaenu [ɛ] / [e(:)], e.e. yn [kjɛvn] “cefn” a [kjerig] “cerrig”. Ni ofynnwyd hyd yma, fodd bynnag, a yw taflodoli yn fwy tebygol o ddigwydd o flaen y naill bâr o lafariaid neu'r llall. Penderfynwyd, felly, archwilio i'r ystyriaeth hon gan ganolbwyntio ar ddau gyd-destun penodol, sef ar ddechrau geiriau unsill ac ar ddechrau'r goben acennog. Nid oes raid dadansoddi'r sefyllfa ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen gan mai “swnio'r a” yn gyson yw arferiad siaradwyr ardal Harlech yn y safle hwn, fel yr eglurwyd eisoes ym mhennod 4 (4.2.2.2).

Gan ddechrau â sefyllfa'r geiriau unsill, felly, sail llinell las graff 9.7 yw ffurfiau sydd â'r ffrwydrolion [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] yn ogystal ag [e(:)] / [ɛ], e.e. [kjæ:l] “cael” a [kjerɣ] “cerch”. Yr un llinell yw hon ag a welwyd yng ngraff 9.1, felly, a thrafodwyd eisoes y canlyniadau hyn. Yr hyn a wna'r llinell goch ar y llaw arall yw adlewyrchu'r sgorau a geir pan ystyrir ffurfiau unsill sydd â [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] yn unig, e.e. [kjæ:l] “cael” a [kaus] “caws”.²³⁵ Gwelir yn glir yma fod canlyniadau'r llinell goch yn dra thebyg i eiddo'r llinell las, a phrawf hyn mai ffurfiau sydd â [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] sy'n llywio'r darlun cyffredinol a gynrychiolir gan y llinell las. Gellir nodi yma er hynny fod hepgor ffrwydrolion a ddilynir gan [ɛ] / [e(:)] i'w weld yn arwain at gymysgedd o effeithiau (gweler y llinell goch). O gynnwys [a(:)] / [æ(:)] yn unig, gostyngiad bychan a welir yn sgorau rhai siaradwyr, e.e. J.E a D.O, tra ceir cynnydd bychan ar y llaw arall yn sgôr G.J.

²³⁵ Sylwer bod deuseiniaid sy'n agor ag [a(:)] / [æ(:)] neu [ɛ] / [e(:)] wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.


Graff 9.7



Fodd bynnag, y mae niferoedd y tocynnau a gafwyd sy'n cynnwys [k(j)] / [g(j)] o flaen [ε] / [e(:)] ar ddechrau ffurfiau unsill megis [kjɛrɕ] "cerch" a [kɛvn] "cefn" yn rhy brin i'r canlyniadau allu bod yn ddibynadwy (gweler Atodiad: 9b). Nid oes modd, felly, gymharu defnydd siaradwyr ardal Harlech o'r ffurfiau hyn â'r rhai sydd â [k(j)] / [g(j)] o flaen [a(:)] / [æ(:)]. Y mae'n werth nodi er hynny y cafwyd niferoedd gwell na'r cyffredin o [k(j)] / [g(j)] o flaen [ε] / [e(:)] gan G.J (cyfanswm o 21 tocyn). Tra bo 23% o'i thocynnau yn cynnwys [kj] / [gj] pan y'u dilynir gan [a(:)] / [æ(:)], tra chyferbyniol yw ei sgôr o 0% o safbwynt [kj] / [gj] o flaen [ε] / [e(:)]. Awgryma hynny'n gryf fod G.J yn fwy tueddol o daflodoli o flaen y llafariad agored [a(:)] / [æ(:)] yn y cyd-destun penodol hwn. Ni ellir cymryd yn ganiataol, fodd bynnag, fod canlyniad G.J yn gynrychioliadol o'r hyn a geid gan bob siaradwr.

Ymddengys, er enghraifft, fod T.R yn gwneud defnydd helaethach na G.J o ffrwydroliion taflodol o flaen [ε] / [e(:)] gan fod 4 o blith 11 o'i docynnau (36%) yn cynnwys [kj] / [gj] (cymharer hyn â'i sgôr is ar y llinell goch). Yn y geiriau [kɛvn] "cefn", [kjɛr] "cer", a [kjɛrɕ] "cerch" y gwelir taflodoli ar waith yn iaith T.R. I grynhoi'r sefyllfa ar ddechrau geiriau unsill, felly, ni ellir gwybod yn bendant ym mha un o'r cyd-destunau seinegol, boed o flaen [a(:)] / [æ(:)] neu [ε] / [e(:)], y gwelir lefelau'r [kj] / [gj] ar eu huchaf. Awgryma canlyniadau rhai o'r siaradwyr, fodd bynnag, na cheir cysondeb o fewn y grŵp, ac y gall defnydd rhai siaradwyr o [kj] / [gj] fod yn uwch o flaen [a(:)] / [æ(:)] nag ydyw o flaen [ε] / [e(:)], tra gallai'r gwrthwyneb fod yn wir am siaradwyr eraill.

Graff 9.8



Fodd bynnag, o droi ein golygon at y sefyllfa gyfatebol ar ddechrau'r goben acennog, ceir niferoedd gwell o docynnau perthnasol yn achos y ddau bâr o lafariaid, e.e. [kjadaɣ] “cadach” a [kæpaɣ] “capel” (o flaen [a] / [æ]) a [kjerig] “cerrig” a [kɛrðad] (o flaen [ɛ] / [e]), sy'n ei gwneud yn haws cymharu'r ddau gyd-destun seinegol hyn. Yn gyntaf, felly, y mae llinell las graff 9.8 yn ystyried ffurfiau sydd â'r ffrwydrolion [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] yn ogystal ag [e(:)] / [ɛ], e.e. [kjadaɣ] “cadach” a [kjerig] “cerrig”. Noder mai'r llinell las hon a ymddangosodd hefyd yng ngraff 9.3, ac y rhoddwyd sylw i'r sgorau hyn eisoes. Y canlyniadau newydd, fodd bynnag, yw'r rhai a welir ar y llinell goch ([k(j)] / [g(j)] o flaen [a] / [æ]) a'r rhai sydd ar y llinell werdd ([k(j)] / [g(j)] o flaen [ɛ] / [e]). O gymharu'r ddwy linell hyn, felly, gwelir mai darlun cymysg a bortreedir ar y cyfan. Awgrymir gan ganlyniadau T.R a C.R (y brawd a'r chwaer) eu bod yn fwy tebygol o daflodoli'r ffrwydrolion felar o flaen [ɛ] / [e] yn y goben, tra bo sgorau J.E, G.J a D.O ar y llaw arall yn awgrymu'r gwrthwyneb, h.y. eu bod yn gwneud defnydd helaethach o [kj] / [gj] o flaen [a] / [æ]. Y mae dau o'r canlyniadau yn hynod drawiadol, sef 65% [kj] / [gj] gan T.R o flaen [ɛ] / [e], a 53% [kj] / [gj] gan J.E o flaen [a] / [æ], ac yn dangos pa mor gyffredin y gall taflodoli fod gan rai siaradwyr mewn cyd-destunau penodol. Gellir nodi hefyd fod y canlyniadau amrywiol hyn yn gyson â'r hyn a awgrymwyd am y sefyllfa gyfatebol ar ddechrau geiriau unsill, sef na cheir un patrwm unffurf yn ardal Harlech o safbwynt y gwahaniaeth rhwng defnydd ei siaradwyr o [kj] / [gj] o flaen dwy set wahanol o lafariaid.


9.2. Bro Dysynni

Fel a wnaed yn achos siaradwyr cyffiniau Harlech, canolbwyntir yma ar ddefnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], gan edrych ar wahanol gyd-destunau sillafog yn eu tro. Dadansoddir y nodwedd i ddechrau ar ddechrau geiriau unsill, yna ar ddechrau'r goben acennog, wedyn ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. Ceisir gweld yn olaf a yw'r defnydd o'r ffrwydrolion felar taflodol [kj] a [gj] yn debyg neu'n wahanol o flaen dwy set o lafariaid, sef [a(:)] / [æ(:)] ac [ɛ] / [e(:)].

9.2.1. Ar ddechrau geiriau unsill

Lluniwyd graff 9.9 yn gyntaf ar ôl dadansoddi pob [k(j)] / [g(j)] a ymddangosai ar ddechrau geiriau unsill, e.e. [kjæ:l] "cael" a [*gɛuχ] "cewch". Dengys y graff hwn, felly, fod amrywiaeth o sgorau i'w cael ym Mro Dysynni o ran defnydd ei siaradwyr o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] ar ddechrau geiriau, a bod y canrannau yn rhychwantu rhwng 19% a 0%. Noder mai gan y tri siaradwr gwrywaidd y cafwyd y canrannau uchaf yma.

Graff 9.9




Yn yr un modd ag a wnaed â ffurfiau ardal Harlech, barnwyd bod modd dosbarthu'r ffurfiau a oedd yn sail i linell las graff 9.9 yn ôl dau gyd-destun seinegol penodol, sef

1. [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu **llafariaid syml**, e.e. yn [kjæ:l] “cael” a [*gjænt] “cant”
2. [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu **deuseiniaid**, e.e. yn [ka:us] “caws” a [ka:i] “cau”

Rhag ofn y ceid gwahaniaethau rhwng defnydd siaradwyr Bro Dysynni o ffrwydrolion taflodol yn y ddau gyd-destun seinegol uchod, felly, penderfynwyd rhannu'r tocynnau a gafwyd yn ddau ddosbarth penodol. Adlewyrcha graff 9.10, felly, y canlyniadau pan gyfyngir y dadansoddiad i ffrwydrolion felar / taflodol sy'n rhagflaenu llafariaid syml yn unig (yr hyn a geir yn [kjæ:l] “cael” a [kɛr] “cer”, er enghraifft). Gwelir bod canlyniadau'r graff hwn yn dra thebyg i'r rhai a welwyd yng ngraff 9.9, ac mai'r un drefn sydd i sgorau'r siaradwyr yn y ddau gyd-destun. Dengys hynny mai [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu llafariaid syml sydd hefyd yn pennaf lunio'r darlun cyffredinol a welir yng ngraff 9.9. Sylwer, fodd bynnag, fod amrediad y sgorau a welir yng ngraff 9.10 yn rhychwantu rhwng 22% a 0%, sydd ychydig yn ehangach na'r hyn a geir yng ngraff 9.9 (19% – 0%).

Graff 9.10




O ran y ffrwydrolion felar [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu deuseiniaid wedyn (yr hyn a geir yn [kaus] “caws” a [ka:i] “cau”, er enghraifft), y mae cyfanswm y tocynnau a gafwyd yn y cyd-

destun hwn, fel yng nghyffiniau Harlech, yn rhy brin i'n galluogi i ddod i unrhyw gasgliadau terfynol (gweler Atodiad: 9c). Er hynny, o blith cyfanswm o 48 tocyn a gafwyd gan y chwe siaradwr, y mae'n ddiddorol na chafwyd yr un ffurf daflodol. Efallai yr awgryma hynny fod taflodoli yn fwy tebygol o flaen llafariaid syml nag o flaen deuseiniaid yn nhafodiaith Bro Dysynni.

9.2.2. Ar ddechrau'r goben acennog

Rhagflaenu llafariaid syml yn unig y mae'r enghreifftiau a gafwyd o [kj] / [gj] yn y cyd-destun hwn.²³⁶ Adlewyrcha graff 9.11, felly, y sefyllfa pan ddadansoddir pob [k(j)] a [g(j)] o flaen llafariad syml ar ddechrau'r goben acennog (yr hyn a welir yn [kjerig] "cerrig" a [kalad] "caled", er enghraifft). Ymddengys oddi wrth y graff hwn na wneir defnydd helaeth iawn o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] gan yr un o siaradwyr Bro Dysynni yn y cyd-destun hwn. Y mae hefyd yn drawiadol cyn lleied o amrywiaeth a welir o safbwynt taflodoli ar ddechrau'r goben acennog ym Mro Dysynni.


Graff 9.11



²³⁶ Fel y nodwyd ar gyfer ardal Harlech, ymddengys mai ar hap y gwelwn fod achosion o [k(j)] / [g(j)] o flaen deuseiniaid yn gwbl absennol, ac y byddai'n hollol bosibl i ffurfiau megis [kauɔd] "cawod" a [kɛuri] "cewri" godi.

Eir ati wedyn yng ngraff 9.12 i gymharu'r canlyniad diwethaf, sef [k(j)] / [g(j)] ar ddechrau'r goben acennog, â'r hyn a geir yn y graff cyntaf, sef [k(j)] / [g(j)] ar ddechrau geiriau unsill. Dangosir yn y graff hwn fod y siaradwyr sydd â'r canrannau uchaf ar y llinell las (ar ddechrau geiriau unsill) yn sgorio gryn dipyn yn is ar y llinell goch (ar ddechrau'r goben acennog). Y mae'r siaradwyr eraill, fodd bynnag, yn gyson isel o ran eu defnydd o [kj] / [gj] yn y ddau gyd-destun dan sylw. Dichon y gellid cynnig bod patrymau G.E.T a C.D yma, sy'n wahanol i rai gweddill y siaradwyr am fod eu canrannau yn uwch ar y llinell las, yn ein hatgoffa o sgorau J.E a T.R yng nghyffiniau Harlech, a oedd ben ac ysgwyddau'n uwch na rhai gweddill y siaradwyr yn yr ardal honno.

Graff 9.12




9.2.3. Ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen

Rhagflaenu llafariaid syml yn unig a wna [kj] / [gj] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen hefyd. Adlewyrcha graff 9.13, felly, y canlyniadau a geir pan ddadansoddir defnydd y ffrwydrolion felar / taflodol [k(j)] / [g(j)] mewn ffurfiau megis [tɛkjaɫ] "tegel" a [baɣgjæn] "bachgen". Gwelir yn glir yn y graff hwn fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys y seiniau taflodol [kj] / [gj] yn gyffredinol uwch o lawer yn y cyd-destun sillafog hwn nag yn y rhai blaenorol. Noder, fodd bynnag, mai cyfanswm prin iawn o chwe thocyn a gafwyd gan B.R, ac nad yw'r

canlyniad hwn yn ddigon dibynadwy ar gyfer tynnu casgliadau pendant ynghylch ei defnydd hi o [kj] / [gj] yn y cyd-destun hwn.


Eir ati yng ngraff 9.14 wedyn i gymharu canlyniadau'r cyd-destun uchod (ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen) ag eiddo'r cyd-destunau blaenorol (ar ddechrau geiriau unsill ac ar ddechrau'r goben acennog). Cadarnha'r graff hwn, felly, fod gan siaradwyr Bro Dysynni, fel rhai ardal Harlech, dueddiad sylweddol gryfach i daflodoli'r cytseiniaid felar ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen nag yn y ddau gyd-destun arall.²³⁷ Gwelir hefyd nad yr un drefn sydd i sgorau'r siaradwyr ar y llinell werdd (ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen). Sylwer, er enghraifft, fel y mae E.W yn un o'r sgorwyr uchaf ar y llinell werdd, er bod ei chanrannau'n gyson isel ar y llinell las (ar ddechrau geiriau unsill) ac ar y llinell goch (ar ddechrau'r goben acennog).

Graff 9.13



²³⁷ Cynigir rhesymau am y gwahaniaethau a geir rhwng y cyd-destunau hyn yn y drafodaeth isod (9.4 isod).

Graff 9.14




9.2.4. Taflodoli o flaen [a(:)] / [æ(:)] ac [ɛ] / [e(:)]

Yn yr un modd ag a wnaed yng nghyffiniau Harlech, penderfynwyd rhannu'r ffurfiau a gafwyd mewn gwahanol gyd-destunau yn ddwy set benodol. Yn y naill, gosodwyd ffurfiau a oedd â [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)], e.e. [kjæ:l] "cael" a [kalad] "caled", ac yn y llall, rhoddwyd ffurfiau a oedd â'r un ffrwydrolion perthnasol yn rhagflaenu [ɛ] / [e(:)], e.e. [kjer] "cer" a [kjerig] "cerrig". Y rheswm dros wneud hyn oedd er mwyn ceisio canfod a yw'r seiniau taflodol [kj] / [gj] yn fwy tebygol o godi o flaen y naill set o lafariaid neu'r llall. Y ddau gyd-destun sy'n berthnasol i'r archwiliad hwn yw dechrau geiriau unsill a dechrau goben acennog ffurfiau amsillafog. Fel yn ardal Harlech, anarferol iawn yw [ɛ] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen yn nhafodiaith Bro Dysynni (gweler pennod 4: 4.2.2.2 am fanylion pellach), felly ni ellir cymharu effaith y ddwy set o lafariaid ar [kj] / [gj] yn y cyd-destun hwn.

Gwelir yn gyntaf fod llinell las graff 9.15 yn ystyried pob ffurf sy'n cynnwys [k(j)] / [g(j)] ar ddechrau geiriau unsill, boent yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] neu [e(:)] / [ɛ], e.e. [kjæ:l] "cael",

[ka:us] “caws” a [kjɛr] “cer”.²³⁸ Yr un llinell yw hon â’r hyn a welwyd eisoes yng ngraiff 9.9, a thrafodwyd y canlyniadau hyn eisoes. Y mae’r llinell goch ar y llaw arall yn adlewyrchiad o’r sefyllfa pan ystyrir ffurfiau unsill sydd â [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] yn unig, e.e. [kjæ:l] “cael” a [ka:us] “caws”. Gwelir bod y ddwy linell yng ngraiff 9.15 yn drawiadol o debyg i’w gilydd; arwydd clir mai ffurfiau sydd â [k(j)] / [g(j)] yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] sy’n llywio’r darlun cyffredinol a gynrychiolir gan y llinell las (yr hyn a nodwyd hefyd ar gyfer ardal Harlech). Ymddengys er hynny fod peidio â chynnwys pob [k(j)] / [g(j)] sy’n rhagflaenu [ɛ] / [e(:)] i’w weld yn arwain at effeithiau gwahanol (gweler y llinell goch). O gynnwys [a(:)] / [æ(:)] yn unig, gwelir cynnydd bychan yn sgorau dau siaradwr, sef G.E.T a M.V, tra ceir gostyngiad bychan ar y llaw arall yn sgôr C.D.

Graff 9.15




Fodd bynnag, o safbwynt ffurfiau unsill sydd â [k(j)] / [g(j)] o flaen [ɛ] / [e(:)], e.e. [kjɛr] “cer” a [gɛn] “gan”, y mae niferoedd y tocynnau perthnasol a gafwyd yn rhy brin i’r canlyniadau fod yn ddibynadwy (gweler Atodiad: 9ch). Ni ellir yn rhwydd, felly, gymharu defnydd siaradwyr Bro Dysynni o’r ffurfiau hyn â’r rhai sydd â [k(j)] / [g(j)] o flaen [a(:)] / [æ(:)]. Er hynny, gan fod sgorau G.E.T a M.V yn 0%, a hynny ar sail 13 tocyn gan y naill a

²³⁸ Fel a wnaed yn achos siaradwyr ardal Harlech, cynhwysir y deuseiniaid sy’n agor ag [a(:)] / [æ(:)] neu [ɛ] / [e(:)] yn y dadansoddiad hwn.

10 tocyn gan y llall, gellir cynnig nad yw taflodoli o flaen [ɛ] / [e(:)] mor gyffredin yn iaith y ddau hyn ag ydyw taflodoli o flaen [a(:)] / [æ(:)].

O ran taflodoli ar ddechrau'r goben acennog mewn ffurfiau fel [gʲælu] “galw” a [kʲefl̩] “ceffyl”, fodd bynnag, y mae nifer y tocynnau yn well ar y cyfan yn achos y ddwy set o lafariaid, sy'n ei gwneud cymhariaeth o'r ddau gyd-destun seinegol dan sylw yn fwy dibynadwy. Yn gyntaf, felly, y mae llinell las graff 9.16 yn cyfleu'r canlyniadau a geir pan ystyrir pob ffurf sydd â [k(j)] / [g(j)], boent yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] neu [e(:)] / [ɛ], e.e. [gʲælu] “galw” a [kʲerig] “cerrig”. Sylwer mai hon yw'r llinell las a welir hefyd yng ngraff 9.11, ac y trafodwyd y canlyniadau hyn eisoes. Y gwahaniaeth rhwng lefelau'r llinell goch ([k(j)] / [g(j)] o flaen [a] / [æ]) a rhai'r llinell werdd ([k(j)] / [g(j)] o flaen [ɛ] / [e]) yw ein diddordeb pennaf yma, fodd bynnag. Ymddengys oddi wrth ganlyniadau'r ddwy linell hyn, felly, fod cryn wahaniaeth rhwng defnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r seiniau taflodol [kʲ] / [gʲ] yn y ddau gyd-destun seinegol hyn. Y mae'n drawiadol mai **un** enghraifft yn unig a gafwyd o daflodoli o flaen [a] / [æ] ar ddechrau'r goben acennog, sef [gʲælu] “galw” gan M.V, a bod [kʲ] / [gʲ] yn hollol absennol yn y cyd-destun seinegol hwn yn iaith pob un o'r siaradwyr eraill (gweler y llinell goch). Tra chyferbyniol, fodd bynnag, yw sefyllfa'r ffurfiau sy'n cynnwys [k(j)] / [g(j)] o flaen [ɛ] / [e(:)] gan fod defnydd pob un o'r siaradwyr o'r ffrwydrolion taflodol i'w weld yn sylweddol uwch yn yr achos hwn (gweler llinell werdd). Dengys y rhestri o'r tocynnau hefyd nad yw [kʲ] / [gʲ] o flaen [ɛ] / [e] mewn gwirionedd yn gyfyngedig i rai geiriau yn unig gan y gwelwyd taflodoli ar waith mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. [kʲerðad] “cerdded”, [kʲerig] “cerrig”, [tikʲedi] “ticedi”, [kʲefl̩] “ceffyl”, [gʲel̩i] “gallu” a [(s)gʲɛnɔχ] “gennyh”. Noder, er hynny, mai 4 tocyn yn unig a gafwyd gan C.D, ac 8 tocyn yn unig gan R.P, o ran cyfanswm y [k(j)] / [g(j)] a ddilynir gan [ɛ] / [e] ganddynt. Ni ddylid, felly, roi gormod o bwys ar eu canlyniadau hwy.

Graff 9.16




9.3. Cymhariaeth

Hyd yma, ymdriniwyd â chanlyniadau siaradwyr ardal Harlech a rhai Bro Dysynni yn annibynnol ar ei gilydd. Bwriad yr isadran a ganlyn, felly, yw cymharu canlyniadau'r ddwy ardal, gan edrych ar wahanol safleoedd o fewn y gair yn y lle cyntaf, cyn mynd ati i archwilio i ddylanwad gwahanol gyd-destunau seinegol ar y defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj].²³⁹

9.3.1. Taflodoli mewn gwahanol gyd-destunau sillafog

Gan gychwyn gyda'r defnydd o [k(j)] / [g(j)] ar ddechrau geiriau unsill yn y ddwy ardal, ymddengys oddi wrth graff 9.17 fod defnydd o'r cytseiniaid taflodol yn gyffredinol uwch yn y cyd-destun hwn yn ardal Harlech nag ydyw ym Mro Dysynni. Gellir barnu, fodd bynnag, fod sgorau dau siaradwr (gwrywaidd) yng nghyffiniau Harlech yn sefyll ben ac ysgwyddau'n uwch na'r siaradwyr eraill (boent o'r un ardal neu o Fro Dysynni), a bod defnydd pob un o'r 10 siaradwr arall o [kj] / [gj] yn ddigon tebyg i'w gilydd, h.y. yn gymharol isel.

Graff 9.17




²³⁹ Fel yn achos y gymhariaeth yn y bennod ddiwethaf (8.3), noder nad yw enwau'r siaradwyr yn ymddangos yng ngraffiau'r adran hon gan mai cymharu patrymau'r ddwy ardal â'i gilydd y bwriedir ei wneud yma yn hytrach na chymharu defnydd gwahanol unigolion o [k(j)] / [g(j)].

Fodd bynnag, o edrych yn fanylach ar y rhestri o ffurfiau unsill a luniwyd ar gyfer y ddwy ardal, gellir dehongli nad yw'r math o eiriau a daflodolir yn hollol debyg yn y ddwy ardal. Yn ardal Harlech, er enghraifft, gwelir sawl enghraifft o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn rhagflaenu deuseiniaid, e.e. yn [kjaus] "caws", [kjæus] "caws", [gjæir] "gair" a [kjæ:i] 'cae'. Mae'n ddadlennol, felly, na chafwyd yr un enghraifft debyg o daflodoli yn y cyd-destun hwn ym Mro Dysynni, er bod ffurfiau fel [ka(:)us] "caws", [ga(:)ir] "gair" a [ka:i] "cau" yn gyffredin yno.

Gan symud at ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r ffrwydrolion [k(j)] / [g(j)] mewn cyd-destun arall, sef ar ddechrau'r goben acennog, gwelir oddi wrth graff 9.18 fod y defnydd o'r seiniau taflodol [kj] / [gj] i'w weld yn gyffredinol uwch yng nghyffiniau Harlech nag ydyw ym Mro Dysynni. Y mae rhychwant y sgorau a geir yn ardal Harlech hefyd yn ehangach (rhwng 40% a 0%), tra bo lefelau Bro Dysynni ar y llaw arall yn gyson isel ymhlith ei siaradwyr. Gwahaniaeth arall yw bod canrannau siaradwyr Harlech a'r cyffiniau yn debyg yn y cyd-destun hwn i'r hyn a welwyd ganddynt ar ddechrau geiriau unsill, tra bo defnydd siaradwyr Bro Dysynni o [kj] / [gj] ar y llaw arall i'w weld yn is ar ddechrau'r goben acennog na'r hyn ydyw ar ddechrau geiriau unsill.

Graff 9.18




Er gwaetha'r gwahaniaethau hyn rhwng y ddwy ardal, gellir dadlau er hynny mai defnydd eithafol o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn iaith dau siaradwr gwrywaidd yng nghyffiniau Harlech (J.E a T.R) sydd yn peri i ganlyniadau'r goben acennog ymddangos yn dra gwahanol yn y ddwy ardal. O ganolbwyntio ar ganlyniadau siaradwyr eraill ardal Harlech, dadlennir mai ychydig iawn o wahaniaeth a geir mewn gwirionedd rhwng lefelau cyffredinol y rhain a phob un o siaradwyr Bro Dysynni. Dylid egluro yma fod J.E a T.R yn dra thebyg o ran eu cefndir. Bu'r ddau ŵr hyn, er enghraifft, yn ffermwyr mewn mannau digon anghysbell yn y cylch (h.y. Cwm Nantcol a Chwm Uwch Artro yn achos J.E, a Chwm Bychan yn achos T.R), cyn i'r ddau ymdeol yn agosach i dref Harlech.²⁴⁰ Gellir mentro awgrymu, felly, mai arwydd o geidwadaeth ieithyddol yw defnydd cymharol uchel y ddau ddyn gwledig hyn o ffrwydrolion taflodol, a bod defnydd D.O (gŵr sy'n hŷn na'r ddau ddyn arall), yn gwneud defnydd sylweddol is o [kj] / [gj] am mai un o drigolion tref Harlech ydyw ef. Y mae'n wir, er hynny, imi gael siaradwyr o gefndir amaethyddol ym Mro Dysynni hefyd (E.W ac M.V yn arbennig), ond rhain yw'r rhai y barnwyd eisoes eu bod yn perthyn i garfan neilltuol o bobl gyhoeddus / diwylliedig (gweler pennod 8: 8.2.1.1 ynghylch eu rheolaeth o'r 'æ fain'). Diau y gallai'r ddau hyn, felly, fod yn rheoli eu defnydd o [kj] / [gj] ar ddechrau geiriau, yn enwedig o ddwyn i gof eu rheolaeth o'r 'æ fain' mewn llafariaid hir. Yn y cyswllt hwn, efallai mai'r awgrym cryfaf sydd gennyf y gallasai rhai siaradwyr fod yn rheoli eu defnydd o [kj] / [gj] ar ddechrau geiriau yw'r cryn wahaniaeth a welir yn ardal Harlech rhwng sgorau T.R a C.R, sy'n frawd a chwaer. Y mae C.R yn sicr yn fwy o berson cyhoeddus na'i brawd, ac yn chwarae rhan flaenllaw yn nigwyddiadau Capel Salem (yn croesawu pererinion i'r capel, er enghraifft, ac yn trefnu gwasanaethau). Er iddi fyw yn yr un ffermdy â'i brawd am ddegawdau, gan gydweithio ag ef ar y tir hyd yn oed (yn debyg i'r modd y pery E.W o Fro Dysynni hyd heddiw i roi cymorth i'w mab gyda'r anifeiliaid), diau y gellid ystyried bod statws cymdeithasol / diwylliannol C.R yn uwch yn yr ardal nag eiddo ei brawd, ac mai dyna yn anad dim sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng eu defnydd o ffurfiau taflodol. Yn olaf, dylid ystyried y posibilrwydd y gallasai siaradwyr eraill ym Mro Dysynni fod yn gwneud defnydd cyfuch o [kj] / [gj] â'r hyn a wneir gan J.E a T.R yn ardal Harlech (os nad uwch na hynny, hyd yn oed), ond na recordiwyd mohonynt.

²⁴⁰ Gweler manylion llawn am y siaradwyr ym mhennod 3 (3.2.3).

Yn olaf, trown ein golygon at y defnydd a wneir o ffurfiau taflodol ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, e.e. [tɛkjaɫ] “tegel” a [baɣgjæn] “bachgen”. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys oddi wrth graff 9.19 fod y defnydd a wneir o [kj] / [gj] yn y cyd-destun hwn yn gyffredinol uwch ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech. Yr hyn sydd bwysicaf i dynnu sylw ato, fodd bynnag, yw bod sgorau'r ddwy ardal dan sylw yn debyg yn yr ystyr bod lefelau'r siaradwyr yn gyffredinol uwch yn y cyd-destun hwn nag yn y rhai blaenorol, a bod trefn y siaradwyr o safbwynt eu sgorau hefyd yn hollol wahanol yn yr achos hwn.²⁴¹ Yn wir, nid ymddengys fod nemor ddim cysylltiad rhwng y canlyniadau hyn a'r hyn a welwyd yn y cyd-destunau blaenorol.

Graff 9.19



9.3.2. Taflodoli o flaen [a(:)] / [æ(:)] ac [ɛ] / [e(:)]


Ceisiwyd tynnu cymariaethau eisoes rhwng defnydd siaradwyr y ddwy ardal o [k(j)] / [g(j)] o flaen [a(:)] / [æ(:)], a'u defnydd o'r un cytseiniaid o flaen [ɛ] / [e(:)]. Bwriad yr isadran hon, fodd bynnag, yw gweld sut y mae sefyllfa'r ddwy ardal hyn yn cymharu â'i gilydd pan gedwir y cyd-destunau seinegol hyn ar wahân i'w gilydd.

²⁴¹ Trafodir arwyddocâd posibl y canfyddiadau hyn yn y drafodaeth (9.4 isod).

O ran y ffrwydrolion [k(j)] / [g(j)] sy'n rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] ar ddechrau geiriau unsill i ddechrau, dangoswyd eisoes yng ngraffiau 9.7 a 9.15 fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys taflodiad yn y cyd-destun seinogol hwn yn dra thebyg yn y ddwy ardal i'r rhai cyffredinol a gafwyd pan gyfrifwyd pob un [k(j)] / [g(j)] (boent yn rhagflaenu [a(:)] / [æ(:)] neu [ɛ] / [e(:)]). Yng ngoleuni hynny, felly, afraid yw tynnu cymhariaeth rhwng y canlyniadau yn y ddwy ardal gan mai'r hyn a wneid i bob pwrpas fyddai cymharu'r un patrymau ag a wnaed eisoes wrth ymdrin â graff 9.17.

O safbwynt taflodoli o flaen [ɛ] / [e(:)] ar ddechrau geiriau unsill wedyn, gwelwyd yn yr adrannau blaenorol fod ffurfiau perthnasol yn brin iawn yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd. Nid yn unig, felly, y methir â dweud yn bendant a yw taflodoli yn fwy tebygol o ddigwydd o flaen y naill bâr o lafariaid neu'r llall, ond nid oes modd chwaith gymharu'r ddwy ardal o safbwynt eu defnydd o'r seiniau taflodol [kj] / [gj] yn y cyd-destun seinogol penodol hwn. Y cyfan y gellir ei nodi yw bod enghreifftiau megis [kjɛvn] "cefn", [kjɛr] "cer", a [kjɛrɣ] "cerch" i'w cael yn ardal Harlech, yn ogystal â [kjɛr] "cer", [kjɛrt] "cert" a [*gjɛvn] "cefn" ym Mro Dysynni, sy'n dangos bod taflodoli yn bosibl o flaen [ɛ] (yn ogystal ag o flaen [a(:)] / [æ(:)]) ar ddechrau ffurfiau unsill y ddwy dafodiaith.

Graff 9.20




Yn wahanol i'r sefyllfa ar ddechrau geiriau unsill, fodd bynnag, cafwyd ar ddechrau'r goben acennog ddigon o docynnau a gynhwysai [k(j)] / [g(j)] o flaen [a] / [æ], yn ogystal ag o flaen [ɛ] / [e], a hynny yn y ddwy ardal. Gan ddechrau gyda graff 9.20, sy'n cymharu defnydd cyffredinol y ddwy ardal o'r cytseiniaid taflodol [kj] / [gj] o flaen [a] / [æ] yn unig, gwelir ar unwaith wahaniaethau trawiadol yn eu hamlygu eu hunain rhwng sgorau'r llinell las (ardal Harlech) a rhai'r llinell goch (Bro Dysynni). Yn wir, dangosir yn eglur fod taflodoli o flaen [a] / [æ] ar ddechrau'r goben acennog bron â bod yn gwbl absennol ymhlith siaradwyr Bro Dysynni (h.y. un ffurf daflodol gan un siaradwr yn unig a gafwyd). Yng nghyffiniau Harlech, ar y llaw arall, gwelir bod taflodoli o flaen [a] / [æ] ar y cyfan yn gyffredin, yn enwedig yn iaith y siaradwyr cyntaf. Er y gellid dadlau nad oes nemor ddim gwahaniaeth rhwng sgorau isaf ardal Harlech a holl rai Bro Dysynni, y mae gwahaniaeth er hynny rhwng defnydd isel iawn o [kj] / [gj], a diffyg ffurfiau taflodol yn llwyr.

Nid yw'n rhwydd egluro, felly, pam y mae'r seiniau taflodol [kj] / [gj] yn hollol absennol bron o flaen [a] / [æ] ar ddechrau'r goben acennog ym Mro Dysynni, tra bônt ar y cyfan yn gyffredin yn yr un cyd-destun yn ardal Harlech. Y mae hefyd yn werth nodi fod cryn wahaniaeth rhwng canlyniadau siaradwyr Bro Dysynni yma a'r hyn a gafwyd ganddynt yn yr un cyd-destun seinegol mewn geiriau unsill (gweler graff 9.15). Yn wir, gwelwyd yn yr achos hwnnw enghreifftiau o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn ymddangos o flaen [a(:)] / [æ(:)] ar ddechrau geiriau unsill pump o'r siaradwyr. Dengys hyn yn glir, felly, nad yw'r cytseiniaid dan sylw yn ymddwyn mewn modd tebyg ar ddechrau geiriau unsill i'r hyn a wnânt ar ddechrau'r goben acennog ym Mro Dysynni, hyd yn oed pan fo'r union gyd-destun seinegol yn debyg.

O safbwynt taflodoli ar ddechrau'r goben acennog o flaen [ɛ] / [e] wedyn, gwelir yng ngraff 9.21 lawer mwy o debygrwydd rhwng canlyniadau ardal Harlech (y llinell las) a rhai Bro Dysynni (y llinell goch). Y mae amrywiaeth ddigon tebyg o sgorau i'w gweld yn y ddwy ardal hefyd, er bod eu rhychwant yn ehangach yn ardal Harlech. Er hynny, tra cafwyd enghreifftiau o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn ymddangos yn y safle hwn gan bob un o siaradwyr Bro Dysynni, gan bedwar o siaradwyr cyffiniau Harlech y'u cafwyd. Gellir dweud yn hyderus, felly, fod ffurfiau megis [kjerig] "cerrig" a [kjefl] / [kjefl] "ceffyl" yn gyffredin yn y ddwy dafodiaith dan sylw. Diau fod y gwahaniaeth a welir uchod, felly, rhwng sgorau

hollol wahanol i'w gilydd yn y ddwy ardal yng ngraff 9.20 ([k(j)] / [g(j)] o flaen [a] / [æ]), a phatrymau digon tebyg rhwng sgorau'r ddwy ardal yng ngraff 9.21 ([k(j)] / [g(j)] o flaen [ɛ] / [e]), yn tanlinellu pa mor bwysig yw hi yn yr achos hwn i ystyried yr union gyd-destun seinegol wrth gymharu canlyniadau'r ddwy ardal.

Graff 9.21



9.4. Trafodaeth

I gloi'r bennod hon, ystyrir goblygiadau'r canlyniadau a drafodwyd uchod. Rhoddir sylw i ddechrau yn 9.4.1 i ystyriaethau ieithyddol sy'n dylanwadu'n fawr ar ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r ffrwydrolion taflodol, cyn y trafodir yn 9.4.2 ystyriaethau mwy cymdeithasol eu natur. Ystyrir wedyn yn 9.4.3 beth yw sefyllfa gyfredol y ffrwydrolion taflodol yn y ddwy ardal dan sylw, gan ystyried y posibilrwydd y gallasai defnydd o'r seiniau hyn fod wedi bod yn wahanol yn y gorffennol. Gofynnir yn 9.4.3 wedyn a oes gwahaniaeth rhwng y ffurfiau taflodol niferus a geir yn y canolbarth a ffurfiau tebyg a geir yng ngogledd Cymru, gan holi hefyd ai taflodoli a welir mewn gwirionedd mewn rhai cyd-destunau.

9.4.1. Ystyriaethau ieithyddol

Efallai mai'r hyn sydd fwyaf amlwg oddi wrth y canlyniadau a welwyd yn y bennod hon yw bod defnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r nodwedd ffonolegol hon, sef y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], unwaith yn rhagor wedi ei gyflyru gan ffactorau ieithyddol allweddol. Er eglurder, felly, fe'u nodir isod, gan drafod hefyd oblygiadau'r canfyddiadau hyn.

- Safle'r ffrwydrolion perthnasol o fewn y gair

Dengys canlyniadau'r bennod hon yn glir fod union safle [k(j)] a [g(j)] o fewn y gair, ac o fewn gwahanol sillafoddd, yn hanfodol i'w ystyried wrth archwilio i ddefnydd y ddwy ardal o ffurfiau taflodol. Diau mai'r hyn sydd fwyaf trawiadol am ganlyniadau'r ddwy ardal yw bod y defnydd o'r cytseiniaid taflodol [kj] / [gj] i'w weld yn sylweddol uwch pan ddônt ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, e.e. yn [tɛkjaʃ] "teggell" ac [igjan] "ugain", nag ydyw yn y cyd-destunau sillafog eraill (h.y. ar ddechrau geiriau unsill ac ar ddechrau'r goben acennog). Y mae'n werth tynnu sylw yma hefyd at amhosibilrwydd y seiniau taflodol [kj] / [gj] ar ddiwedd geiriau. Yng ngoleuni'r gwahaniaethau hyn, felly, gellir dehongli bod taflodoli yn nodwedd fwy cyffredin yng nghanol geiriau nag ydyw ar ddechrau geiriau.²⁴²

²⁴² Noder, er hynny, fod modd i [k(j)] / [g(j)] ymddangos ar ddechrau'r goben acennog heb iddynt fod ar ddechrau geiriau, e.e. yn [*vɛndigɛdig] "bendigedig" a [tikjedi] "ticedi". Prin iawn, fodd bynnag, yw'r

Y mae hefyd yn ddadlennol na cheir nemor ddim cydberthynas rhwng sgorau'r sillaf olaf ddiacen a chanlyniadau'r cyd-destunau eraill yn yr un o'r ddwy dafodiaith. Ceir, er hynny, debygrwydd trawiadol yn ardal Harlech rhwng y canrannau a gafwyd ar gyfer dau o'r cyd-destunau, sef [k(j)] / [g(j)] ar ddechrau geiriau unsill, a'r seiniau hynny ar ddechrau'r goben acennog. Yn yr un modd, y mae canlyniadau Bro Dysynni ar gyfer y ddau gyd-destun hyn hefyd yn ddigon tebyg i'w gilydd, yn enwedig yn achos tri o'r siaradwyr. Awgryma hynny eto, felly, fod y ffrwydrolion [k(j)] / [g(j)] yn ymddwyn mewn un ffordd benodol ar ddechrau geiriau (boent ar ddechrau geiriau unsill neu ar ddechrau'r goben acennog), tra bônt yn ymddwyn mewn modd tra gwahanol yng nghanol geiriau (h.y. ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen).

- Yr hyn sy'n dilyn y ffrwydrolion [k(j)] / [g(j)] (h.y. y cyd-destun seinegol)

O safbwynt y math o lafariaid sy'n dilyn [k(j)] / [g(j)], nodwyd eisoes yn y bennod hon mai yn dilyn dwy set o lafariaid yn unig, sef y llafariaid agored [a(:)] / [æ(:)] a'r rhai hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ], y gellir gweld taflodoli ar waith yn y ddwy ardal. Dylid pwysleisio yma, felly, mai astudio'r defnydd o [k(j)] / [g(j)] yn y cyd-destunau seinegol hyn yn unig a wnaed yn y bennod hon, ac y byddai cyfrif pob un ffurf a gynhwysai [k(j)] / [g(j)] yn ddiwahân, e.e. [kɔrs] “cwrs”, [gi:a] “gaeaf”, [ko:r] “côr” ac [agɔr] “agor”, wedi creu camargraff lwyr o'r sefyllfa. Yn wir, nid oes dim dwywaith nad llurgunio'r darlun a wnâi ffurfiau sydd â [k] / [g] yn rhagflaenu llafariaid gwahanol i [a(:)] / [æ(:)] ac [ɛ] / [e(:)]. Y mae'n ddiddorol, fodd bynnag, nad yw'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored ôl [o(:)] / [ɔ(:)] i'w weld yn dylanwadu ar y cytseiniaid felar [k] a [g] yn yr un modd ag y mae'r llafariaid blaen cyfatebol yn ei wneud.

Canfyddiad diddorol arall o safbwynt effaith y cyd-destun seinegol ar y defnydd o [k(j)] / [g(j)] yw na ddylid cymryd yn ganiataol y bydd un set benodol o lafariaid yn dylanwadu yn yr un modd ar iaith pob ardal. Gwelwyd, er enghraifft, fod [kj] / [gj] o flaen [a] / [æ] yn

enghreiffiau hyn, ac o'u hepgor, ni newidia'r sgorau odid ddim. Ceir sail gadarn i gredu, felly, fod taflodoli yn llai cyffredin ar ddechrau geiriau nag yng nghanol geiriau.

gyffredin ar ddechrau'r goben acennog yn nhafodiaith Harlech, tra bo'r seiniau taflodol hyn bron â bod yn gyfan gwbl absennol ym Mro Dysynni yn yr un cyd-destun seinegol yn union. Ni ellir yn rhwydd roi cyfrif am y gwahaniaeth hwn, er hynny, a'r cyfan y gellir ei bwysleisio yw na ddylid rhagdybio mai yn yr un cyd-destunau yn union y taflodolir ym mhob ardal yn y canolbarth. Gan na fyddai'r sgorau cyffredinol a gafwyd (h.y. [k(j)] / [g(j)] o flaen [a] / [æ] ac [ɛ] / [e]) wedi dadlennu gwahaniaethau manwl o'r math hwn rhwng y ddwy ardal, tanlinella'r canlyniad penodol hwn pa mor bwysig y gall rhannu data yn wahanol gyd-destunau seinegol fod.

Y mae hefyd yn briodol cyfeirio at un ystyriaeth arall o safbwynt dylanwad gwahanol gyd-destunau seinegol, sef y gwahaniaeth posibl rhwng [k(j)] / [g(j)] o flaen llafariad syml, a'r cytseiniaid hyn o flaen deuseiniaid. Oherwydd prinder deuseiniaid perthnasol, nid oes modd dweud i sicrwydd fod gwahaniaethau o bwys rhwng y ddau gyd-destun seinegol hyn. Cafwyd yr argraff, er hynny, fod taflodoli o flaen deuseiniaid yn gyffredin yn ardal Harlech, e.e. yn [kjaus] "caws", [kjæus] "caws", [gjæir] "gair" a [kjæ:i] 'cae', tra na chafwyd yr un ffurf debyg ym Mro Dysynni. Awgrymir yma eto, felly, nad yr un effaith a gaiff y cyd-destun seinegol ar bob ardal o ran eu hunion ddefnydd o ffrwydrolion taflodol.

9.4.2. Ystyriaethau cymdeithasol

Awgrymwyd eisoes yn y bennod hon nad ffactorau ieithyddol yn unig a all amodi defnydd gwahanol siaradwyr o ffurfiau taflodol. Pwysleisiwyd yn arbennig fod dau siaradwr neilltuol o gyffiniau Harlech i'w gweld yn defnyddio'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn fwy helaeth ar ddechrau geiriau (boent ffurfiau unsill neu ar ddechrau'r goben acennog) na phob un o'r siaradwyr eraill a gafwyd yn y ddwy ardal. Damcaniaethwyd eisoes ynghylch rhesymau cymdeithasol posibl a allai roi cyfrif am eu defnydd cymharol uchel o seiniau taflodol yn y cyd-destunau hyn (gweler 9.3.1 am fanylion llawn). Cynigiwyd hefyd y gallasai statws cymdeithasol siaradwyr yn ogystal â'u hymwneud â gwahanol ddigwyddiadau diwylliannol a chyhoeddus fod yn ffactorau a allai fod yn berthnasol i'w hystyried wrth archwilio i'r nodwedd hon. Awgrymwyd yn gryf hefyd nad ar hap a damwain y gwelwn fod y ddau siaradwr a sgoriai'n uchel yn ddynion gwledig o gymoedd lled anghysbell, ac y gallai eu canlyniadau hwy fod yn arwydd o geidwadaeth ieithyddol.

Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau uchod ynghylch statws, diwylliant a cheidwadaeth siaradwyr i'w weld mor berthnasol i'r canlyniadau a gafwyd ar gyfer dechrau'r sillaf olaf ddiacen. Rhaid gofyn, felly, a yw defnydd y ddwy ardal o [kj] / [gj] taflodol ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, a oedd ar y cyfan yn uwch o lawer ac yn fwy amrywiol nag ydoedd yn y cyd-destunau sillafog eraill (gweler 9.4.1 uchod), yn seiliedig ar unrhyw ffactorau cymdeithasol ai peidio? Un posibilrwydd rhesymegol y gellir ei gynnig yw nad yw hi cyn amlyced i siaradwyr ar lawr gwlad mai taflodoli a geir ar waith ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen (sydd wastad yng nghanol gair) ag y mae hi pan geir [kj] / [gj] yn ymddangos ar ddechrau ffurfiau unsill, e.e. yn [gjavr] "gafr" a [kjaus] "caws", neu ar ddechrau'r goben acennog, e.e. yn [kjapal] "capel" a [kjefl] "ceffyl". Er mwyn deall hyn, rhaid nodi bod y lled-lafariad [j] yn dra chyffredin ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen mewn ôl-ddodiaid megis [jɔ] "-io" (e.e. yn "neidio", "peidio", "tanio" etc.) ac [jan] "-ian" (e.e. yn "sefyllian", "gorweddian", "cecian" etc.), yn ogystal â mewn terfyniadau berfol fel [jais], [jɔð] ac [jɔn] (e.e. yn "ciciais", "ciciodd" a "ciciwn"). Diau y gallai lluosogrwydd ffurfiau sy'n cynnwys [j] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, felly, wneud i ffurfiau taflodol megis [baɣgjan] "bachgen", [tɛkjaɫ] "tegel", [igjan] "ugain" a [haŋkjas] "hances" ymddangos yn arferol i siaradwyr y ddwy ardal, os nad yn safonol hyd yn oed. Ochr arall y geiniog, fodd bynnag, yw ei bod yn amlwg i'r un siaradwyr mai'r seiniau taflodol [kj] / [gj] a geir ar ddechrau ffurfiau fel [kjaus] "caws", [kjɛvn] "cefn" a [kjapal] "capel". Gellir cynnig, felly, mai'r ffurfiau hyn yn unig a stigmatiddir (yn ymwybodol neu'n isymwybodol) gan rai siaradwyr, ac mai dyna pam yr ymddengys fod y ffrwydrolion taflodol o dan fwy o reolaeth pan ymddangosant ar ddechrau geiriau. Gall fod elfen gref o seicoleg, felly, yn perthyn i'r modd y gall siaradwyr fod yn ymagweddu'n wahanol tuag at ddau air megis [kjaus] "caws" a [baɣgjan] "bachgen", ac mai eu hawydd i gydymffurfio â phatrymau a ystyrir yn "normal" ganddynt sydd wrth wraidd hyn yn bennaf. I grynhoi'r ddamcaniaeth hon, felly, ymddengys yn dra phosibl mai ymagweddau'r siaradwyr tuag at daflodoli sy'n pennaf egluro eu defnydd sylweddol uwch o seiniau taflodol ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen.

9.4.3. Sefyllfa gyfredol y ffrwydrolion taflodol

Un ystyriaeth nad ymdriniwyd ag ef hyd yma yw i ba raddau y gellir dweud bod taflodoli yn ffenomen gynhyrchiol yn iaith cyffiniau Harlech a Bro Dysynni heddiw. A dueddir, er enghraifft, i daflodoli'n gyson mewn rhai geiriau yn unig, ond i beidio â gwneud hynny mewn geiriau eraill? Ynteu a welir amrywio helaeth o fewn geiriau, sy'n awgrymu nad yw'r defnydd o [kj] / [gj] yn gyfyngedig i ffosilau o'r gorffennol? Yn gyntaf, y mae'n werth pwysleisio bod yr enghreifftiau a gafwyd o wahanol ffurfiau ar yr un geiriau, h.y. heb daflodiad a chyda thafloidiad, yn niferus o edrych drwy'r rhestri a luniwyd, a bod yr amrywio hwn yn aml ar waith o fewn iaith yr unigolyn yn ogystal ag o fewn yr ardal. Cymerer, er enghraifft, y parau canlynol a gafwyd gan wahanol unigolion, ac o wahanol gyd-destunau sillafog, yn ardal Harlech:

[kaus] ~ [kjaus] / [kjæus] (D.O)

[kɛrχ] ~ [kjɛrχ] (T.R)

[gælu] ~ [gjalu] (J.E)

[kerðad] ~ [kjerðad] (G.J)

[*vaχgan] ~ [baχgjan] / [baχgjæn] (D.O)

[haŋkas] ~ [haŋkjas] (T.R)

Awgryma'r amrywiadau hyn, felly, nad ymdrin â nodwedd hollol sefydlog sy'n ymddangos mewn rhai geiriau stoc yn unig yr ydym, ond bod y ffrwydrolion taflodol yn seiniau digon ansefydlog a all fod yn gynhyrchiol hyd heddiw. Gellir ychwanegu at hyn fod dwy o ffurfiau T.R o ardal Harlech, sef [wi'kjend] *weekend* ac [a'merikja] *America*, yn atgyfnerthu'r dehongliad hwn gan y gwelir taflodoli ar waith mewn dau fenthyciad Saesneg. Ar y llaw arall, fodd bynnag, ymddengys fod rhai geiriau sy'n gyffredin yn y ddwy dafodiaith yn gwrthsefyll taflodoli, e.e. "hogen", "poced" a "Dolgellau", h.y. [hogan] / [hɔgan], [pɔkad] a [dɔlgɛla] a nodwyd yn gyson yn achos y geiriau hyn. Nid yw'n hawdd gwybod, er hynny, pam nad yw taflodoli i'w weld yn arferol mewn geiriau cyffredin fel y rhain, tra bo amrywio helaeth ar waith mewn geiriau tebyg eraill.

I grynhoi, felly, er nad oes sail i gredu mai ffenomen gwbl anghynhyrchiol yw taflodoli yn ardaloedd Harlech a Bro Dysynni, efallai fod y canrannau cyffredinol isel a gafwyd o seiniau taflodol ar ddechrau geiriau yn awgrymu er hynny y gallasai taflodoli fod wedi bod yn nodwedd amlycach fyth yn yr ardaloedd hyn yn y gorffennol.²⁴³ Os derbynnir hyn, teg fyddai ystyried mai arwydd o geidwadaeth ieithyddol (a chreirfannau ieithyddol o safbwynt cymoedd diarffordd) yw defnydd cymharol uchel rhai o'r genhedlaeth hŷn o ffrwydrolion taflodol.

9.4.4. Gwahaniaethau rhwng y canolbarth a'r gogledd

Nid yw'n ymddangos mai ffenomen gyfyngedig i rannau o ganolbarth Cymru yn unig yw taflodoli fel y cyfryw, er bod map 1 a atgynhyrchwyd yng nghyflwyniad y bennod hon yn awgrymu hynny. Ychydig o drafod a fu er hynny ar y gwahaniaethau posibl a geir rhwng ffurfiau taflodol canolbarth Cymru a rhai gogledd Cymru. Er mwyn ymdrin â'r cymhlethdodau hyn, bernir ei bod yn briodol ystyried dwy ffenomen wahanol, sef taflodoli ar ddechrau geiriau (rhai unsill neu rai amsillafog), a thaflodoli ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. Ymdrinnir isod â'r ddwy wedd hon ar daflodoli yn eu tro.

9.4.4.1. Taflodoli ar ddechrau geiriau

Nid yw Alf Sommerfelt wrth ymdrin â'r nodwedd hon mewn rhannau o'r canolbarth yn mentro nodi ffiniau ar ei chyfer (1925: 137), ond y mae fel petai'n ystyried mai ffurfiau tebyg i'r rhai a nodwyd ganddo ef y sylwodd Fynes-Clinton arnynt yn nalgylch Bangor (1913), sef: 'g'ambl : Engl. gamble; g'amjo : Engl. game; g'a:t : Engl. gate; k'an : Engl. can; k'aptan : Engl. captain'. Sylwer, er hynny, mai deillio o'r Saesneg y mae pob un o'r ffurfiau a nodir gan Fynes-Clinton.

Fodd bynnag, rhaid troi'n ôl at yr astudiaeth dafodieithgol gynharaf un o Gymraeg llafar, sef 'Spoken North Welsh' gan Henry Sweet (1913), er mwyn canfod awgrym bychan nad yw

²⁴³ Gwelir yn y man fod cymhlethdodau eraill yn codi o safbwynt y defnydd mwy amrywiol a chyffredinol uwch a wneir o [kj] / [gj] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen.

ffurfiau taflodol y canolbarth yn debyg o angenrheidrwydd i rai'r gogledd. Yr hyn a awgrymir gan Sweet yw mai mewn benthyciadau Saesneg y mae ffrwydrolion taflodol yn gyffredin yn y gogledd, tra bônt ar y llaw arall yn arferol hefyd mewn geiriau Cymraeg brodorol mewn rhannau o'r canolbarth.

In words of E[nglish] origin (k) and (g) generally become (kj, gj) before (a), as in (kjastin, kjaf; gjard, gjaat) 'casting (in fishing), gaff; guard (of a coach), gate'. The same pronunciation may often be observed before unstressed (a) = written *e*, as in (basgjad, baxgjan) 'basket, boy'. Also in (loygjar) *Lloegr* 'England'. In the neighbouring Merioneth dialect the change is said to be fully carried out in native words before stressed (a). (Sweet, 1913: 510)

O safbwynt cysylltiad y nodwedd â benthyciadau Saesneg, y mae'n briodol nodi bod T. H. Parry-Williams yn egluro bod taflodoli ar un adeg yn gyffredin mewn Saesneg llafar, ac mai oherwydd hynny yr erys [kj] / [gj] mewn benthyciadau yn y gogledd. Meddir:

For a period (end of eighteenth century and beginning of nineteenth century), E(nglish) had a front-glide between *g-*, *k-* and the following front vowel. Traces of this are seen in some dial[ect] words in W[elsh], e.g. Carn[arvonshire] dial[ect] *giard* "guard"; *giât* "gate"; *giaffar* "gaffer"; *giamocs* "gammocks"; *giami* "gammy"; *giâm* "game"; *gieid* "guide". (1923: 221)

Gan fod y ffurfiau [gja:t] / [gjæ:t] "gât" yn gyffredin yng nghyffiniau Harlech a Bro Dysynni fel ei gilydd,²⁴⁴ ymddengys felly fod dau ddatblygiad posibl o ran taflodoli ar ddechrau geiriau yn y Gymraeg, sef:

1. Bod cytseiniaid taflodol y gogledd a'r canolbarth yn tarddu o fenthyciadau Saesneg, ac mai drwy gydweddiad â'r rhain y cafwyd [kj] / [gj] yn ymddangos ar ddechrau geiriau brodorol Cymraeg fel [kjaus] "caws", [kjɛvn] "cefn" a [kjænɔl] "canol" yn y canolbarth.

²⁴⁴ Gellir ychwanegu i un siaradwr o Fro Dysynni, nas defnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, fy nghyfarch â'r ffurf [gjafar] "giaffar"; prawf arall fod y ffurfiau taflodol a geir yn y gogledd hefyd yn gyffredin yn y canolbarth.

2. Bod taflodoli mewn benthyciadau yn y gogledd yn ddatblygiad hollol annibynnol i'r hyn a welir mewn ffurfiau brodorol Gymraeg yn y canolbarth (er bod ffurfiau gogleddol fel [gja:t] / [gjæ:t] i'w cael yno hefyd).

Y mae'n ddiddorol yn y cyswllt hwn fod Parry-Williams yn ei draethawd doethuriaethol i'w weld yn awgrymu'n gynnil y gall y defnydd o'r ffrwydrolion taflodol fod yn wahanol yn nhiriogaeth yr 'æ fain' i'r hyn a welir yn y gogledd:

In Merionethshire, where *a* is pronounced as an open *e*, forms like *ciâth* (*cath*), *ciâs* (*câs*) are very common. (1913: 116).

Mae'n ddadlennol hefyd fod Parry-Williams yn barnu bod tuedd yn y canolbarth i daflodoli cytseiniaid ar wahân i [k] a [g]:

In parts of Mid-Wales *t* and *b* tend to become palatalised before *a* as in *biachu* (*bachu*), *tiad* (*tad*)... In Mid-Wales too *r*, *n*, *l*, *m*, are also palatalised... before *a*, e.g. *niage* (*nage*), *miab* (*mab*) etc.²⁴⁵ (1913: 116)

Awgryma hyn oll, felly, fod y taflodoli helaeth hwn sy'n gysylltiedig â'r canolbarth yn ffenomen gwbl wahanol i'r defnydd o [kj] / [gj] mewn benthyciadau Saesneg. Ceir sail i gredu, felly, fod [kjaus] "caws" a [gja:t] "gât" yn perthyn i ddau ddatblygiad seinegol gwahanol a digyswllt. Ymddengys mai i'r un casgliad y daeth Beth Thomas a Peter Wynn Thomas pan honnant am seiniau taflodol y canolbarth '[nad] yr un nodwedd a welir mewn ffurfiau fel **giât**, **giaffar**, a **giami** mewn rhai ardaloedd gogleddol: mae'n debyg mai adlewyrchu ynganiad y math o Saesneg y benthyciwyd ohono y mae'r ffurfiau hyn yn **gi-**' (1989: 32).

²⁴⁵ Prin iawn yw'r enghreifftiau a gafwyd o daflodoli cytseiniaid ar wahân i [k] / [g], ond gellir crybwyll yma i un siaradwr, sef G.E.T o Fro Dysynni, ddefnyddio dwy ffurf debyg i'r hyn a nodir yma gan Parry-Williams, sef [mjɛun] "mewn" a [hjel] "hel". Gellir cynnig, er hynny, mai dylanwad yr anadliad caled a geir o flaen llafariad mewn ffurfiau fel "ei hiacháu" a welir yn yr enghraifft olaf. Math o orgywiriad yw [hjel], felly, lle y dehonglir mai anadliad caled yw'r [h], er nad [jel] yw'r ffurf gysefin.

I grynhoi, gellir casglu bod dwy set wahanol o ffurfiau i'w cael o safbwynt taflodoli ar ddechrau geiriau, sef y rhai “gogleddol” (benthyciadau Saesneg fel rheol) a'r rhai “canolbarthol” (ffurfiau brodorol gan amlaf). Dylid pwysleisio er hynny nad yw hyn mewn unrhyw fodd yn egluro pam y mae lefelau cyffredinol ardal Harlech (a rhai J.E a T.R yn arbennig) yn uwch na rhai Bro Dysynni. Yn wir, yr unig ffurfiau taflodol “gogleddol” a gafwyd yw [gja:t] / [gjæ:t] “gât”, a chafwyd y rhain gan siaradwyr o'r ddwy ardal. Sylwyd hefyd fod y rhain yn amrywio â [ga:t] / [gæ:t] yn y ddwy ardal, yn debyg i sefyllfa'r ffurfiau “canolbarthol” mwy brodorol Gymraeg.

9.4.4.2. Taflodoli ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen

Hefyd o safbwynt gwahaniaethau rhwng ffurfiau taflodol y canolbarth a rhai'r gogledd, ymddengys fod cymhlethdodau pellach yn codi pan ystyriwn ddisbarthiad daeryddol [kj] / [gi] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. Gwelsom yn 9.4.4.1 uchod, er enghraifft, fod Sweet (1913) yn nodi'r ffurfiau [basgjad] “basged”, [baɣgjan] “bachgen” a [lɔigjar] “Lloegr” ar gyfer Nant Gwynant, er mai yn Sir Feirionnydd (ac mewn rhannau eraill o'r canolbarth efallai) y tybia fod seiniau taflodol yn arferol mewn geiriau “brodorol” Gymraeg.

Fodd bynnag, gellir bod yn sicr nad benthyciadau mo [baɣgjan] na [lɔigjar], felly nid yw'n ymddangos bod [kj] / [gi] yn hollol gyfyngedig i fenthyciadau yn y gogledd. Y mae'n ddiddorol yn y cyswllt hwn fod *The Welsh Dialect Survey* (2000) yn dangos bod y ffurf [igjan] “ugain” i'w chael hefyd drwy'r gogledd, yn ogystal ag yn y canolbarth.²⁴⁶ Hyd yma, dehonglwyd ffurfiau fel [baɣgjan] “bachgen” ac [igjan] “ugain” fel enghreifftiau diamwys o daflodoli ar waith. Tybed a ddylid er hynny gwestiynu ai taflodoli fel y cyfryw sydd wastad ar waith ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen? Posibilrwydd arall yn sicr fyddai dehongli [kj] / [gi] yng nghanol gair fel dilyniant o gytsain a lled-lafariad. Diau fod modd cefnogi'r ddadl hon drwy nodi enghreifftiau o ffurfiau a gafwyd yn ardal Harlech lle y ceir y lled-lafariad [j]

²⁴⁶ Y mae'r canfyddiadau hyn, sef bod tiriogaeth ehangach i ffurfiau fel [igjan] “ugain” a [baɣgjan] “bachgen”, na sydd gan ffurfiau fel [kjaus] “caws” a [kʲefɪl] “ceffyl”, dyweder, yn egluro ymhellach pam y gallai siaradwyr ystyried bod [kj] / [gi] yn fwy “normal” neu'n fwy derbyniol ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen nag ydyw ar ddechrau geiriau (gweler 9.4.2 uchod).

yn dilyn cytseiniaid ar wahân i [k] / [g] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen, er nad dyna a gynrychiolir gan orgraff y Gymraeg:

[dornɔdja] “diwrnodau”,

[*ðəlja] “dylai”

[*ðəljɔn] “dylwn”

[platjad] “plataid”²⁴⁷

Diau, felly, fod modd dehongli [kj] / [gj] fel dilyniant o gytsain a lled-lafariad yn hytrach na seiniau taflodol unigol yng nghanol rhai geiriau. Dylid pwysleisio er hynny nad yw hyn yn gyfystyr â dweud nad yw taflodoli ar waith o gwbl ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen. Yn sicr, byddai sefydlu beth yn union yw dosbarthiad daearyddol gwahanol ffurfiau “taflodol” megis [baɣgjan] “bachgen”, [tɛkjaɫ] “tegell” a [kakjan] “cacen”, gan weld a yw rhai o'r rhain yn gyfyngedig i'r canolbarth ai peidio, yn gam cyntaf pwysig ar gyfer ymchwilio ymhellach i gymhlethdod [kj] / [gj] ar ddechrau'r sillaf olaf ddiacen.

9.4.5. Y cam nesaf

Eir ati yn y bennod nesaf i ymdrin â nodwedd ffonolegol arall, sef y defnydd a wneir yn y ddwy ardal o'r llafariad hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)]. Yn yr un modd ag a wnaed yn y tair pennod flaenorol, archwilir i weld pa ffactorau (boent yn rhai ieithyddol, daearyddol neu gymdeithasol) a all fod yn cyflyru'r amrywio a welir ar waith yn achos y llafariad hyn.

²⁴⁷ Tra chyffredin yn y gogledd yw'r ynganiad [jad] ar gyfer yr ôl-ddodiad digenedl ‘-aid’.

PENNOD 10: Y llafariaid hanner caeedig a'r rhai hanner agored

[e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)]

10. Cyflwyniad

Yn y tair pennod flaenorol, ymdriniwyd mewn ffordd newydd o safbwynt tafodieitheg y Gymraeg ag elfennau ieithyddol nodweddiadol o ganolbarth Cymru a gawsai eu trafod eisoes mewn ymdriniaethau blaenorol (gweler pennod 2: 2.2), sef yr ‘u ogleddol’ [i(:)] / [ɪ], yr ‘æ fain’ [æ(:)], a’r ffrwydrolion tafnodol [kj] a [gj]. Ychydig iawn o sylw, fodd bynnag, a roddwyd gan ieithyddion i destun y bennod hon, sef yr amrywio a geir mewn rhannau o’r canolbarth rhwng y llafariaid hanner caeedig a’r rhai hanner agored. Gwelwyd eisoes yn nadansoddiadau pennod 4 (4.1-4.2) a rhai pennod 5 (5.1-5.2) o batrymau cyffredinol y ddwy dafodiaith fod modd yn y ddwy ardal i’r llafariaid blaen [e(:)] ac [ɛ(:)] yn ogystal â’r llafariaid ôl [o(:)] ac [ɔ(:)] ymgyfnewid â’i gilydd mewn gwahanol gyd-destunau.²⁴⁸ Nodwyd, felly, fod parau o ffurfiau megis [ne:b] ~ [nɛ:b] “neb”, [do:] ~ [dɔ:] “do”, [peθa] ~ [pɛθa] “pethau” a [*bobɔl] ~ [*bɔbɔl], nid yn unig yn amrywio â’i gilydd o fewn yr un dafodiaith, ond hefyd o fewn iaith yr unigolyn yn aml. Amcan yr adrannau a ganlyn, felly, yw archwilio’n fanylach i union natur yr amrywio hwn.

Ar gyfer y canlyniadau a gyflwynir yma, adysgrifiwyd pob ffurf a gynhwysai [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)] (boent llafariaid syml neu elfennau cyntaf mewn deuseiniaid), a hynny ar gyfer dau gyd-destun penodol, sef geiriau unsill a’r goben acennog. Dewis deuol a oedd, felly, rhwng y seiniau hanner caeedig a’r rhai hanner agored. Barnwyd, er hynny, fod [e(:)] / [o(:)] ychydig yn fwy caeedig ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech, yn enwedig yn y goben acennog. Fodd bynnag, fel a wnaed yn achos nodweddion y penodau blaenorol, penderfynwyd rhoi blaenoriaeth i amllder y seiniau hyn yn hytrach na’u gwahanol ansoddu. Yr oedd eisoes yn amlwg oddi wrth ddadansoddiadau pennod 4 (4.1-4.2) a rhai pennod 5 (5.1-5.2) fod hen ddigon o ddeunydd addas i’w cael mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog, a bod amrywio helaeth ar waith ynddynt hefyd. Daethpwyd i’r casgliad, felly, mai

²⁴⁸ Yn yr un modd ag a wnaed ym mhenodau 7 ac 8, defnyddir y symbol (:) ar gyfer dynodi bod hyd llafariad yn opsiynol. Cynnwys [e(:)], er enghraifft, y llafariad hir [e:] yn ogystal â’r llafariad fer [e].

canolbwyntio ar y cyd-destunau hyn fyddai'r cam cyntaf mwyaf priodol ar gyfer ymdrin â chymhlethdodau'r llafariaid hyn yn y ddwy ardal.

Gellir ychwanegu yn y cyswllt hwn y byddai anawsterau wedi codi pe ceisid dadansoddi sefyllfa'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y sillaf olaf ddiacen, yn bennaf gan nad yw [ɛ] yn arferol yn y safle hwn yn yr un o'r ddwy ardal a astudir gan mai niwtraleiddio'r cyferbyniad a geid mewn rhannau eraill o Gymru rhwng [a] ac [ɛ] a wneir (gweler pennod 4: 4.2.2.2 am ragor o fanylion). Ofer, felly, fyddai dadansoddiad trylwyr o sefyllfa'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y cyd-destun hwn gan na fyddai modd cymharu'r llafariaid blaen a'r rhai ôl â'i gilydd yn yr un o'r ardaloedd dan sylw. Hefyd ar sail dadansoddiad ffonolegol cyffredinol pennod 4 (4.2.2.1) o lafariaid y ddwy ardal, gwelwyd yn glir mai tra phrin oedd yr enghreifftiau o'r llafariad ôl hanner caeedig [o] yn y cyd-destun hwn o'u cymharu â lluosogrwydd y ffurfiau a gynhwysai [ɔ] hanner agored yn yr un safle.²⁴⁹ Y mae'r awgrym cryf hwn, felly, o ddiffyg amrywio sylweddol rhwng [o] ac [ɔ] yn y cyd-destun hwn yn rheswm arall dros flaenoriaethu dadansoddiad o'r llafariaid hyn mewn geiriau unsill ac yng ngoben acennog ffurfiau amlsillafog, yn enwedig gan mai edrych o'r newydd ar y nodwedd hon a wneir yn y bennod hon, a chan fod cymaint o ddeunydd perthnasol yn codi yn y cyd-destunau hyn. O safbwynt cyd-destunau sillafog eraill megis y sillaf olaf acennog a'r sillaf ragobennol, bernir bod y ffurfiau perthnasol a gafwyd, e.e. [hɔ'tɛl] *hotel* a [gɔ'vali] “gofalu”, yn rhy brin ar gyfer adlewyrchu unrhyw batrymau amrywio mewn modd dibynadwy.

Ar ôl adysgrifio pob ffurf berthnasol, felly, lluniwyd rhestri yn nhrefn yr wyddor yn nodi pob ffurf, a rhoddwyd nifer y tocynnau a gafwyd ar gyfer pob ffurf neu deip (*type*) mewn cromfachau. Dangosir hyn yn eglur isod mewn rhan o dabl a wnaed ar gyfer un siaradwr o Fro Dysynni (E.W), a hynny ar gyfer un cyd-destun penodol, sef llafariaid ôl sy'n rhagflaenu cytseiniaid sengl yn y goben acennog.

²⁴⁹ Eglurwyd eisoes mai dosbarthu pob gair a gafwyd gan ddau siaradwr o bob ardal i adrannau penodol a wnaed ar gyfer y dadansoddiad cychwynnol hwn. Er mai tra phrin yw [o] hanner caeedig yn y sillaf olaf ddiacen, y mae'n ddiddorol nodi i'r pâr [*bobɔ] ~ [*bobol] “pobl” godi yn y ddwy ardal. Gellir cynnig mai cymathu at ansawdd hanner caeedig y goben acennog y mae'r llafariad epenthetic yn yr achos hwn.

LLAFARIAID ÔL O FLAEN CYTSEINIAID SENGL	
[o(·)]	[ɔ]
[aðo·li] “addoli” (1)	
[bora] “bore” (5)	
[karo·la] “carolau” (1)	
	[klɔna] “calonnau” (1)
[*gənjoga] “ceiniogau” (1)	
[koχn] “cochyn”(3)	
[kodi] / [*godi] “codi” (6)	
	[kɔhi] / [*gɔhi] “colli” (3)

Gellid felly, yn debyg i'r hyn a wnaed yn achos y nodweddion eraill y canolbwyntiwyd arnynt, ddefnyddio'r gwahanol dablau a luniwyd er mwyn cyfrifo'r sgorau a oedd yn berthnasol i'r nodwedd hon. Canrannau y tocynnau a gynhwysai'r llafariaid hanner caeedig [e(·)] / [o(·)] oedd y rhai perthnasol hynny. Crynhoir y canlyniadau hyn, felly, mewn graffiau isod yn 10.1 a 10.2, lle y mae'r llinellau lliw yn cynrychioli gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Fel y gwelwyd hefyd yn y penodau blaenorol, ymddengys chwe siaradwr y ddwy ardal yn yr un drefn drwy'r graffiau, ac ar sail sgorau'r siaradwyr yn y cyd-destun cyntaf un (o'r uchaf i'r isaf) y sefydlir y drefn honno. Gwneir hyn yn bennaf er hwylustod wrth gymharu gwahanol gyd-destunau â'i gilydd. Noder, felly, na fydd y siaradwyr o angenrheidrwydd yn ymddangos yn yr un drefn ag y gwnaethant yn y penodau blaenorol.

Eir ati yng ngweddill y bennod hon, felly, i gyflwyno ac i ddadansoddi'r canlyniadau yn llawn. Fel yn achos y nodweddion a drafodwyd eisoes, ceir y data cyflawn sy'n sail i ganlyniad pob graff yn yr atodiad.²⁵⁰ Ymdrinnir â defnydd siaradwyr cyffiniau Harlech o'r llafariaid hyn i ddechrau yn 10.1, a dilynir hyn ag ymdriniaeth debyg â'r sefyllfa gyfatebol ym Mro Dysynni yn 10.2. Cymherir canlyniadau'r ddwy ardal wedyn yn 10.3, a cheir trafodaeth i gloi ar oblygiadau y canlyniadau a gafwyd yn 10.4.

²⁵⁰ Fel yng nghymariaethau y ddwy bennod ddiwethaf (8.3 a 9.3), ni cheir yn yr atodiad ystadegau ar gyfer graffiau cymhariaeth y bennod hon (yn 10.3) gan mai ailadrodd yr un canlyniadau â gyflwynir yn 10.1 a 10.2 isod a wneir. Ceir er hynny gyfeiriadau at ystadegau yn yr atodiad sy'n berthnasol i'r graffiau a geir yn 10.3.

10.1. Cyffiniau Harlech

Fel a wnaed yn achos nodweddion eraill yr ardal hon, ymdrinnir yn gyntaf â'r llafariaid syml, cyn y bwrir golwg wedyn ar ddeuseiniaid yr ardal.

10.1.1. Llafariaid syml

Yn yr isadran hon, dadansoddir y defnydd a wneir o'r seiniau hanner caeedig / hanner agored yn llafariaid hir geiriau unsill yn gyntaf, yna yn llafariaid byrion geiriau unsill, cyn yr archwilir i gloi llafariaid byrion y goben acennog.

10.1.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir

Ystyrir i ddechrau y defnydd a wna siaradwyr ardal Harlech o'r llafariaid **blaen** hir [e(:)] / [ɛ(:)] mewn geiriau unsill. Y mae llinell las graff 10.1, felly, yn adlewyrchu'r defnydd a wneir o [e(:)] hanner caeedig. O gynnwys pob ffurf berthnasol, felly, ceir ystod eithaf eang o sgorau yn rhychwantu o 77% i 40%. O eithrio D.O o'r darlun, fodd bynnag, gwelir bod sgorau pob siaradwr yn y 40au, ac yn ddigon agos at ei gilydd.


Fodd bynnag, gellir ystyried bod dau fath gwahanol o llafariaid hanner caeedig / hanner agored "hir" yn sail i'r llinell las hon, sef

1. Llafariaid hir sydd o dan yr acen, e.e. [he:n] "hen" a [nɛ:b] "neb"
2. Llafariaid nad ydynt o dan yr acen, ac sy'n fyr o ganlyniad i hynny (er y byddent yn hir fel arall), e.e. [hen] "hen" a [pɛθ] "peth"

Gwelwyd eisoes wrth archwilio i'r defnydd o'r 'u ogleddol' (pennod 7) a'r 'æ fain' (pennod 8) mewn llafariaid hir fod modd i'r acen bwys ddylanwadu nid yn unig ar hyd, ond hefyd ar ansawdd llafariaid. Barnwyd, felly, y gallai'r gwahaniaeth hwn rhwng ffurfiau acennog a rhai diacen fod yn berthnasol hefyd wrth ddadansoddi ansawdd y llafariaid y canolbwyntir arnynt yma. Aed ati, felly, i osod ffurfiau acennog megis [he:n] "hen" a [nɛ:b] "neb" mewn

grŵp ar wahân i ffurfiau diacen fel [hen] “hen” a [pɛθ] “peth” er mwyn gweld a geid gwahaniaethau amlwg rhwng sgorau’r ddau gyd-destun hyn. Y mae llinell goch graff 10.1, felly, yn adlewyrchiad o’r canlyniadau a geir pan ystyrir ffurfiau acennog yn unig, tra bo’r llinell werdd yn cynrychioli’r sefyllfa pan ddadansoddir y ffurfiau diacen yn unig.

Graff 10.1




Gwelir yn eglur oddi wrth y graff uchod, felly, fod y defnydd o [e(:)] hanner caeedig yn sylweddol uwch mewn ffurfiau acennog na’r hyn ydyw mewn ffurfiau diacen. Dengys sgorau’r llinell goch hefyd mai ychydig iawn o amrywio a welir ar waith mewn ffurfiau acennog o safbwynt y defnydd o [e:] hir, a bod y sgorau i gyd, os nad yn 100%, yn agos iawn at fod yn 100%. O ran y ffurfiau diacen ar y llaw arall, y mae amrywiaeth ehangach o lawer o sgorau i’w gweld ar y llinell werdd, lle y gwelir y canrannau’n rhychwantu rhwng 63% a 22%.

Y cam nesaf, felly, yw archwilio i weld ai darlun tebyg ai peidio a welir yn achos y llafariaid ôl hir cyfatebol [o(:)] ac [ɔ(:)]. Yn debyg i’r graff cyntaf, y mae llinell las graff 10.2 yn dangos beth yw canrannau y tocynnau sy’n cynnwys [o(:)] hanner caeedig gan bob un o siaradwyr ardal Harlech pan gyfrifir ynghyd ffurfiau acennog, e.e. [mo:r] “môr” a [mo:χ] “moch”, a ffurfiau diacen, e.e. [pob] “pob” a [dɔd] “dod”. Gwelir ar y llinell hon amrywiaeth o sgorau rhwng 39% a 23%.

Gan y dangoswyd yng ngraff 10.1, fodd bynnag, fod darlun cywirach o'r sefyllfa i'w gael o ddsbarthu'r llafariaid "hir" hyn i ddau grŵp penodol, h.y. ffurfiau acennog a rhai diacen, dyna a wnaed hefyd â'r llafariaid ôl hanner caeedig / hanner agored. Dengys graff 10.2, felly, wahaniaethau sylweddol iawn rhwng canlyniadau'r ffurfiau acennog (y llinell goch) a sgorau'r ffurfiau diacen (y llinell werdd), a bod [o(:)] hanner caeedig yn llawer mwy tebygol o ymddangos mewn ffurfiau acennog. Yr un patrwm cyffredinol a welir yma, felly, ag y gwelwyd yn y graff cyntaf, a chadarnha hyn fod effaith yr acen bwys yn ystyriaeth hollbwysig pan ddadansoddir ansawdd llafariaid hanner caeedig / hanner agored blaen ac ôl.

Graff 10.2




Gwelir yn glir yn y ddau graff uchod, felly, fod canrannau y ffurfiau acennog (y llinellau cochion) yn drawiadol uwch na rhai'r llinellau gwyrddion (y ffurfiau diacen). Sut, felly, y mae canlyniadau'r llafariaid blaen yn cymharu â rhai'r llafariaid ôl? Amlyga graff 10.3 y gwahaniaethau a geir rhwng [e(:)] / [ɛ(:)] ac [o(:)] / [ɔ(:)] mewn ffurfiau acennog, h.y. rhwng [he:n] "hen" / [nɛ:b] "neb" etc. a [mo:r] "môr" / [mɔ:ɣ] "moch" etc. Eir ati wedyn yng ngraff 10.4 i gymharu'r un llafariaid mewn ffurfiau diacen, h.y. rhwng [hen] "hen" / [pɛθ] "peth" etc. a [pob] "pob" / [dɔd] "dod" etc.

Dengys graff 10.3, felly, fod defnydd o'r llafariad ôl hanner caeedig [o:] ar y cyfan gryn dipyn yn llai sefydlog yn ardal Harlech nag ydyw'r llafariad flaen hanner caeedig [e:]. Gan E.J y ceir y gwahaniaeth mwyaf sylweddol, lle y ceir ganddi sgôr o 71% ar gyfer [o:] hir, ond


98% ar gyfer [e:]. Awgryma'r graff hwn yn gryf, felly, fod llafariaid blaen hanner caeedig yn fwy tebygol o godi yn ardal Harlech na'r rhai ôl hanner caeedig cyfatebol.

Er bod canlyniadau'r ffurfiau diacen a welir yng ngraff 10.4 wedyn yn dra gwahanol i rai'r ffurfiau acennog o safbwynt eu canrannau, gellir dehongli bod rhywfaint o dir cyffredin rhwng y ddau gyd-destun hyn gan yr ymddengys oddi wrth graffiau 10.3 a 10.4 fel ei gilydd fod [e(:)] hanner caeedig yn codi'n amlach nag [o(:)] hanner caeedig ym mhob achos.

Graff 10.3




Graff 10.4



10.1.1.2. Geiriau unsill; llafariaid byrion (o dan yr acen)

Y cam nesaf yw edrych ar ffurfiau unsill acennog sydd â llafariaid hanner caeedig / hanner agored byrion, e.e. [pen] “pen” a [*verχ]; [ɔvn] “ofn” a [mor] “mor”. Cymherir yng ngraff 10.5 ganlyniadau’r llafariaid blaen [e] / [ɛ] â rhai’r llafariaid ôl cyfatebol [o] / [ɔ], fel a wnaed yn achos y llafariaid “hir” uchod (gweler graffiau 10.3 a 10.4 uchod). Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y ddau gyd-destun sydd dan sylw yn y graff hwn yw cyn brinned yw ffurfiau sy’n cynnwys y llafariaid hanner caeedig [e] ac [o]. Ni welir nemor ddim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng canlyniadau’r llafariaid blaen (y llinell las) a rhai’r llafariaid ôl (y llinell goch) gan fod yr holl sgorau, os nad ydynt yn 0%, yn agos iawn at fod yn 0%. Ymddengys, felly, mai eithriadau prin yn y dafodiaith yw ffurfiau megis [*verχ] “merch” (a gafwyd gan D.O), a [mor] “mor” (a gafwyd gan C.R). Yn wir, ni ellir gorbwysleisio pa mor wahanol yw canlyniadau graff 10.5 i’r hyn a welwyd yn achos y llafariaid hir acennog (gweler graff 10.3), yn enwedig o safbwynt y llafariaid blaen lle’r oedd y canlyniadau bron â bod yn hollol gyferbyniol, h.y. yn 100% [e:], neu’n dra agos i hynny.

Graff 10.5




10.1.1.3. Y goben acennog; llafariaid byrion

Trown ein golygon yn awr at y defnydd a wneir yn Harlech a'r cyffiniau o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored mewn geiriau amlsillafog, ac yn benodol yn y goben acennog.

Edrychir yn gyntaf ar ddefnydd siaradwyr yr ardal o'r llafariaid blaen [e] / [ɛ], e.e. yn [peθa] "pethau" a [dɛχra] "dechrau". Gwelir, felly, fod llinell las graff 10.6 yn adlewyrchu'r sgorau a gafwyd ar gyfer y goben acennog pan ddadansoddir pob un ffurf berthnasol. Yr hyn sy'n drawiadol am sgorau'r llinell hon, sy'n rhychwantu rhwng 26% a 49%, yw eu bod yn dra gwahanol i'r hyn a welir yn achos llafariaid blaen hir geiriau unsill acennog (y llinell goch), yn ogystal â llafariaid blaen byrion ffurfiau unsill acennog (y llinell werdd). Yn wir, y mae fel petai canrannau'r goben acennog (y llinell las) yn y canol rhwng canlyniadau'r ddau gyd-destun arall. Y mae'n amlwg hefyd fod cryn dipyn yn fwy o amrywio ar waith yn y goben acennog. Gan mai llafariaid byrion a geir yn y goben acennog, y mae'n ddiddorol fod [e] hanner caeedig i'w gweld yn ymddwyn mor wahanol yn y cyd-destun hwn i'r hyn a wna yn llafariaid byrion geiriau unsill.


Graff 10.6



Penderfynwyd, fodd bynnag, y gallai gwahanol gyd-destunau seinegol fod yn dylanwadu ar y defnydd o'r llafariaid blaen hyn yn y goben acennog. Aed ati, felly, i rannu'r ffurfiau a

gafwyd yn ddau grŵp penodol yn seiliedig ar yr hyn a ddilynai'r llafariaid. Yn y naill grŵp, gosodwyd ffurfiau a oedd â llafariaid blaen yn rhagflaenu clystyrau cytseiniol, e.e. [dɛχra] “dechrau” a [lɛvrɪθ] “llefrith”, tra rhoddwyd yn y llall ffurfiau a oedd â'r un llafariaid yn rhagflaenu cytseiniaid sengl, e.e. [vɛɦ] “felly” a [pɛθa] “pethau”.²⁵¹ Crynhoir canlyniadau'r arbrawf hwn yng ngraft 10.7, lle y gwelir bod y llinell las (sy'n cyfateb i linell las y graff blaenorol) yn portreadu'r darlun a geir pan gynhwysir pob llafariad yn y goben. O graffu ar y canlyniadau eraill, fodd bynnag, gwelir bod llinell werdd graff 10.7 yn gyffredinol uwch na'r llinell goch. Yr argraff a geir, felly, yw bod y llafariad flaen hanner caeedig [e] ar y cyfan yn fwy tueddol o ymddangos o flaen cytseiniaid sengl nag ydyw o flaen clystyrau cytseiniol. Er hynny, gwelir bod canrannau E.J yn dra agos i'w gilydd yn y ddau gyd-destun seinogol, ac mai'r un sgôr yn union a geir gan C.R yn y ddau achos, sef 46%.


Graff 10.7




²⁵¹ Mewn ffurfiau megis [tekjal] “tegel” a [negjæs] “neges”, ystyrir mai cytseiniaid sengl yn hytrach na chlystyrau cytseiniol yw'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] sy'n dilyn llafariaid y goben. Mewn ffurfiau fel [sbɛkjan] “sbecian” a [kɛkjan] “cecian” ar y llaw arall, dehonglir mai clwstwr cytseiniol yw'r [kj] a geir ynddynt (yn debyg i'r [vj] a geir yn [kovjɔ] “cofio”, er enghraifft, lle y ceir hefyd led-lafariad yn ail elfen). Gweler trafodaeth fanwl yng nghyflwyniad pennod 9 ar y modd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu rhwng y ddwy set hyn o ffurfiau.

Y cam nesaf, felly, yw archwilio i weld a yw sefyllfa'r llafariaid ôl hanner caeedig / hanner agored [o] / [ɔ] yn debyg ai peidio yn y goben acennog. Er cysondeb â'r hyn a wnaed yn achos y llafariaid blaen, cymherir i ddechrau yng ngraff 10.8 y canlyniadau a gafwyd ar gyfer llafariaid ôl y goben acennog (pob llafariad), e.e. [hogan] "hogen" a [kɔrði] "corddi", â'r hyn a welwyd eisoes mewn ffurfiau unsill. Adlewyrcha llinell las y graff hwn, felly, ganrannau y tocynnau sy'n cynnwys [o] hanner caeedig pan ddadansoddir pob ffurf berthnasol yn y goben acennog, a gwelir arni gryn amrywiaeth o sgorau rhwng 44% a 11%. Yn ddigon tebyg i sefyllfa'r llafariaid blaen cyfatebol felly, gwelir bod canlyniadau'r cyd-destun hwn yn amlwg wahanol i rai llafariaid hir geiriau unsill acennog (y llinell goch) a rhai llafariaid byrion geiriau unsill acennog (y llinell werdd). Y mae'n amlwg hefyd nad oes unrhyw gydberthynas rhwng canlyniadau llafariaid byrion y goben acennog a rhai byrion ffurfiau unsill.

Graff 10.8



Graff 10.9




Aed ati wedyn i rannu'r ffurfiau a gafwyd ar gyfer y goben acennog yn ddau grŵp ar sail yr hyn a ddilynai'r llafariaid. Yn y naill categori, rhoddwyd ffurfiau a oedd â llafariad ôl yn rhagflaenu clystyrau cytseiniol, e.e. [kovjɔ] "cofio" a [kɔrði] "corddi", tra yn y llall gosodwyd ffurfiau a oedd â'r un llafariad yn rhagflaenu cytseiniaid sengl, e.e. [hogan] "hogen" a [ʃɔpa] "siopau". Darlunnir canlyniadau'r gwahanol gyd-destunau seinegol hyn yng ngraff 10.9, lle y gwelir bod y llinell las (sy'n cyfateb i linell las y graff blaenorol) yn cynrychioli'r sefyllfa pan ddadansoddir pob llafariad berthnasol yn y goben acennog. O gymharu sgorau'r llinell goch â rhai'r llinell werdd â'i gilydd wedyn, awgrymir bod y llafariad ôl hanner caeedig [o] yn fwy tueddol o godi o flaen cytseiniaid sengl nag ydynt o flaen clystyrau cytseiniol. Gwelir, fodd bynnag, nad yw canlyniadau D.O a G.J yn cydymffurfio â'r patrwm hwn.

Yr hyn a geir yn y graffiau uchod, felly, yw awgrymiadau bod y llafariad hanner caeedig (boent flaen neu ôl) yn fwy cyffredin o flaen cytseiniaid sengl nag ydynt o flaen clystyrau cytseiniol. Hyd yma, fodd bynnag, ni chymharwyd y defnydd a wneir o'r llafariad blaen [e] / [ɛ] â chanlyniadau'r rhai ôl cyfatebol [o] / [ɔ]. Eir ati yng ngraff 10.10, felly, i ddadansoddi'r gwahaniaethau a geir rhwng y ddau grŵp o llafariad pan geir clystyrau yn dilyn. Ymddengys oddi wrth y gymhariaeth a ddarlunnir yn y graff hwn, felly, fod y llafariad


flaen hanner caeedig [e] ar y cyfan yn fwy tueddol o ymddangos o flaen clystyrau nag ydyw'r llafariad ôl gyfatebol [o]. Yn wir, ceir canrannau cryn dipyn yn uwch o [e] nag [o] gan bedwar o'r siaradwyr. Y mae canlyniadau D.O a G.J, fodd bynnag, yn awgrymu'r gwrthwyneb, sef bod [o] yn fwy cyffredin nag [e] ganddynt hwy o flaen clystyrau. Er hynny, efallai mai'r hyn sydd fwyaf trawiadol am y graff hwn yw'r gydberthynas a awgrymir gan y ddwy linell rhwng sgorau'r pum siaradwr olaf yn y ddau gyd-destun (y mae D.O eto'n eithriad amlwg i'r patrwm hwn). Mewn geiriau eraill, yr un siâp sydd i'r ddwy linell pan ystyrir sgorau'r pum siaradwr hyn.

Yn yr un modd, dengys graff 10.11 fel y cymhara canlyniadau'r ddwy set o lafariaid â'i gilydd pan geir cytseiniaid sengl yn dilyn. Awgrymir yn gryf yn y graff hwn eto fod y llafariad flaen hanner caeedig [e] yn fwy tueddol o ymddangos o flaen cytseiniaid sengl nag ydyw'r llafariad ôl gyfatebol [o] (er bod canlyniad D.O yn eithriad eto i'r duedd hon). Ymddengys oddi wrth siapiau'r ddwy linell hefyd, lle y gwelir bod eu hesgyniadau a'u cwmpniadau yn cyd-ddigwydd sawl tro, fod rhyw gydberthynas agos eto rhwng sgorau'r ddau gyd-destun.

Graff 10.10



Graff 10.11



I gloi'r adran hon, felly, crynhoir y canlyniadau pwysicaf a welwyd uchod.

- Dangoswyd hyd yma fod y llafariaid hanner caeedig / hanner agored blaen ac ôl yn amlwg yn ymddwyn yn dra gwahanol ym mhob un o'r cyd-destunau a astudiwyd, sef llafariaid hir geiriau unsill, llafariaid byrion geiriau unsill, yn ogystal â rhai byrion y goben acennog. Dylid pwysleisio bod y sefyllfa hon mewn gwirionedd yn dra gwahanol i'r hyn a welwyd yn achos nodweddion eraill yr archwiliwyd iddynt yn y penodau blaenorol. Yn wir, yn achos nodweddion yr 'u ogleddol' a'r 'æ fain', sylwyd ar gydberthynas a chryn debygrwydd rhwng canlyniadau llafariaid byrion mewn geiriau unsill ac eiddo'r rhai byrion yn y goben acennog (gweler, er enghraifft, pennod 7: 7.2.1.6; graff 7.6 a phennod 8: 8.1.1.4 ac 8.2.1.4; graffiau 8.6 ac 8.19). Yn amlwg, y mae sefyllfa'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored ymhell o fod yn gyffelyb.
- Gwelwyd hefyd fod defnydd o'r llafariaid hyn bron â bod yn gategoriol mewn geiriau unsill, h.y. yn agos at 100% [e:] / [o:] mewn llafariaid hir acennog, a bron â bod yn 0% [e] / [o] mewn llafariaid byrion acennog. Fodd bynnag, nid yw'r patrwm pendant hwn yn ei ailadrodd ei hun yn y goben acennog, lle y ceir amrywio helaeth ar waith.
- Awgryma archwiliad pellach o'r sefyllfa yn y goben acennog wedyn fod y llafariaid hanner caeedig [e] ac [o] yn fwy tueddol o godi o flaen cytseiniaid sengl, e.e. yn

[peθa] “pethau” a [morɔn] “moron”, nag oeddynt o flaen clystyrau cytseiniol, e.e. yn [deχra] “dechrau” a [kovjɔ] “cofio”.²⁵²

- Yn olaf, aed ati i archwilio i weld a geid gwahaniaethau rhwng ymddygiad y llafariaid blaen a’r rhai ôl yn y goben acennog. Yn achos y ddau gyd-destun seinegol, h.y. o flaen clystyrau cytseiniol ac o flaen cytseiniaid sengl, awgryma’r canlyniadau fod y llafariad flaen hanner caeedig [e] yn fwy tebygol o gael ei defnyddio na’r llafariad ôl hanner caeedig [o]. Y mae’n debygol, felly, fod [e(:)] yn gyffredinol fwy cyffredin nag [o(:)] yn y dafodiaith hon (gweler graffiau 10.3 a 10.4 hefyd).

²⁵² Yn sgil y canfyddiad hwn, aed ati i graffu ar y rhestri o ffurfiau sydd â llafariaid byrion mewn geiriau unsill, e.e. [gwɛld] “gweld”, [*verχ] “merch”, [ɔnd] “ond” a [mor] “mor”, er mwyn gweld a gâi’r cyd-destun seinegol ddylanwad ar ansoddau’r llafariaid hyn. Y mae’n amlwg, fodd bynnag, na cheir nemor ddim gwahaniaeth yn y cyd-destun hwn rhwng ffurfiau sydd â llafariaid sy’n rhagflaenu clystyrau cytseiniol, e.e. [kjɛvn] “cefn” a [lɔnd] “llond”, a rhai sydd â llafariaid yn rhagflaenu cytseiniaid sengl, e.e. [hɛb] “heb” a [brɔn] “bron”. Yn y bôn, eithriadau prin yw ffurfiau megis [*verχ] “merch” a [mor] “mor”, lle y ceir seiniau hanner caeedig. Er hynny, dengys y ddwy enghraifft ddiwethaf fod modd i’r llafariaid hanner caeedig eithriadol hyn ymddangos yn y ddau gyd-destun seinegol, sef o flaen clwstwr ac o flaen llafariad sengl. Cadarnha hyn ymhellach, felly, fod y llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn ymddwyn yn dra gwahanol yn y goben acennog i’r hyn a welir yn llafariaid byrion geiriau unsill.

10.1.2. Deuseiniaid

Trown ein golygon yn yr adran hon at ddefnydd siaradwyr ardal Harlech o ddeuseiniaid sydd â llafariad hanner caeedig / hanner agored yn elfennau cyntaf iddynt. Yr amcan, felly, yw archwilio i weld a oes amrywio tebyg ar waith yn y rhain i'r hyn a welwyd yn achos y llafariad syml. Gwelir yn y man, fodd bynnag, nad yw dadansoddi patrymau'r deuseiniaid cyn symled ag yr oedd hi yn achos llafariad syml yr adran flaenorol. Prinder ffurfiau perthnasol sy'n cyfrif am hyn yn aml, a'r broblem bennaf yw bod niferoedd y deuseiniaid sydd ag [e(:)] / [ɛ] yn elfennau cyntaf iddynt ar y cyfan yn brin iawn. Yng ngoleuni hynny, felly, penderfynwyd ymdrin yn gyntaf yn 10.1.2.1 â deuseiniaid sydd â'r llafariad ôl [o(:)] / [ɔ(:)] yn elfennau cyntaf iddynt, cyn y bwrir golwg sydyn wedyn yn 10.1.2.2 ar ddeuseiniaid prinnach sydd â'r llafariad blaen [e(:)] / [ɛ] yn elfennau cyntaf iddynt. Oherwydd prinder ffurfiau, ni ellir cymharu defnydd y siaradwyr o llafariad blaen a rhai ôl mewn deuseiniaid, yn wahanol i'r hyn a wnaed yn achos y llafariad syml.

10.1.2.1. Deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad ôl [o(:)] / [ɔ(:)]

Ymdrinnir yn gyntaf â deuseiniaid hir sy'n cau ag [i̯] / [i], sef yr hyn a geir yn [o:i̯r] "oer", [ko:ɪd] "coed" a [tro:i̯] "troi", er enghraifft. Penderfynwyd cyplysu'r deuseiniaid [o:i̯] / [ɔ:i̯] gydag [o:i] / [ɔ:i] (er prinned oedd y rhai a gaeai ag [i] flaen yn ardal Harlech), yn bennaf oherwydd yr ymglyfnwid helaeth a welir rhwng y llafariad ganol gaeedig [i̯] a'r un flaen gaeedig [i] ym Mro Dysynni, fel y dangoswyd eisoes ym mhennod 5 (5.1 a 5.2).²⁵³ Bernir, felly, fod cynnwys pob [o(:)] / [ɔ(:)] sydd naill ai'n cau ag [i] neu [i̯] gyda'i gilydd mewn un grŵp yn fodd o sicrhau cymhariaeth hollol gytbwys rhwng canlyniadau'r ddwy ardal.

Gan mai deuseiniaid sy'n cau ag [i̯] / [i], h.y. [o(:)i̯] / [o(:)i] ac [ɔ(:)i̯] / [ɔ(:)i], yw'r unig rai y cafwyd digon o docynnau ar eu cyfer er mwyn dadansoddi eu patrymau amrywio yn drylwyr, ymdrinnir â'r rheini i ddechrau. Cafwyd er hynny rai achosion tra phrin o ddeuseiniaid sy'n cau ag [u], h.y. [ou] / [ɔu], ac fe'u cyflwynir ar ddiwedd yr adran hon er gwybodaeth.

²⁵³ Cafwyd ym Mro Dysynni, er enghraifft, barau o ffurfiau megis [ko:is] ~ [ko:is] "coes" a [ka:i̯] ~ [ka:i̯] "cae" yn ymglyfnwid â'i gilydd, a hynny o fewn iaith yr unigolyn.

10.1.2.1.1. Deuseiniaid sy'n cau ag [i̯] / [i]

Deuseiniaid hir mewn geiriau unsill a drafodir yn y lle cyntaf, yna'r rhai byrion a geir mewn geiriau unsill, cyn y rhoddir sylw yn olaf i ddeuseiniaid byrion yn y goben acennog.

10.1.2.1.1.1. Geiriau unsill; deuseiniaid hir sy'n cau ag [i̯] / [i]

Yng ngraff 10.12, felly, adlewyrcha'r llinell las ganrannau y tocynnau sy'n cynnwys [o(:)i̯] / [o(:)i], lle y ceir y llafariad ôl hanner caeedig yn elfen gyntaf i'r deuseiniaid hyn. Dengys y llinell hon fod canrannau'r siaradwyr yn rhychwantu rhwng 53% a 28%. Fodd bynnag, yn debyg i'r hyn a welwyd yn achos y llafariad syml hir, oherwydd effaith yr acen bwys ar hyd deuseiniaid, ystyrir bod yma ddau fath gwahanol o ddeuseiniaid "hir" mewn gwirionedd, sef


1. Deuseiniaid hir sydd o dan yr acen, e.e. [o:i̯r] "oer", [kɔ:i̯d] "coed" a [tro:i̯] "troi"
2. Deuseiniaid nad ydynt o dan yr acen, ac sy'n fyr o ganlyniad i hynny (er y byddent yn hir fel arall), e.e. [oi̯ð] "oedd" ac [ɔi̯s] "oes"

Gan y gwelwyd droeon fod ffurfiau acennog a'r rhai diacen yn ymddwyn yn wahanol i'w gilydd, gosodwyd y ddau fath hyn o ffurfiau mewn grwpiau ar wahân. Gwelir yng ngraff 10.12, felly, fod gwahaniaeth sylweddol rhwng sgorau'r ffurfiau acennog (y llinell goch) a rhai'r ffurfiau diacen²⁵⁴ (y llinell werdd), a bod y deuseiniaid [o(:)i̯] / [o(:)i], lle y ceir ansawdd hanner caeedig i'w helfennau cyntaf, yn llawer mwy cyffredin mewn ffurfiau sydd o dan yr acen bwys. Gwelir hefyd fwy o amrywiaeth yng nghanrannau'r ffurfiau acennog, lle y mae'r sgôr uchaf yn 84% (gan C.R), tra bo'r sgôr isaf o 43% (gan J.E) yn gyfwerth â hanner

²⁵⁴ Ni chafwyd y deuseiniaid [oi̯] / [ɔi̯] (h.y. rhai sy'n cau ag [i]) yn ymddangos mewn ffurfiau diacen gan yr ystyrir bod [troi̯] "troi" a [rɔi̯] "rhoi" yn enghreifftiau o ddeuseiniaid byrion sydd o dan yr acen. Manylwyd eisoes ym mhennod 5 (5.1.3) fel y ceir [ɔi̯] fer ac [o:i̯] hir yn ymgynwedd pan na cheir cytsain yn dilyn.

hynny bron. Y mae sgorau'r ffurfiau diacen, ar y llaw arall, yn fwy cyson â'i gilydd, h.y. yn 0%, neu'n agos at fod yn ddi-sgôr.²⁵⁵

Graff 10.12




Fe'n hatgoffir yma o ganlyniadau graff 10.2, a oedd hefyd yn dangos bod canrannau'r llafariad (syml) ôl hir hanner caeedig [o(:)] yn uwch mewn ffurfiau acennog, e.e. [mo:r] "môr" a [mɔ:ɣ] "moch", nag oeddynt mewn ffurfiau diacen, e.e. [pob] "pob" a [dɔd] "dod". Y cam naturiol nesaf, felly, yw gweld sut y mae lefelau'r deuseiniaid [o(:)i] / [o(:)i] yn cymharu â rhai'r llafariad syml hanner caeedig [o(:)]. Darlunia graff 10.13, felly, y gymhariaeth hon pan ystyrir ffurfiau acennog yn unig. Ymddengys oddi wrth y graff hwn fod y llafariad ôl hanner caeedig yn llai tebygol o godi ar gyfartaledd fel elfen gyntaf deusain nag ydyw fel llafariad syml. Gwelir, fodd bynnag, fod un siaradwraig (sef E.J) yn eithriad i'r duedd hon. Ceir y gwahaniaethau mwyaf sylweddol, er hynny, gan J.E a G.J, lle y gwelir gan y ddau ganrannau sylweddol uwch o [o:] mewn llafariad syml. Yng ngraff 10.14 wedyn, cymherir yr un llafariad "hir" a deuseiniaid "hir" mewn ffurfiau diacen, ac awgryma'r


²⁵⁵ Gan y gwelwyd yn achos yr 'u ogleddol' (pennod 7: 7.2.2) a'r æ fain' (pennod 8: 8.1.1 ac 8.2.1) fod rhai geiriau gramadegol â'r gallu i ddylanwadu'n drwm ar rai patrymau ffonolegol, ystyriwyd y posibilrwydd y gallasai ffurfiau ar "oedd", h.y. [o:ið] "oedd" ac [ɔ:ið] "oedd", fod yn dylanwadu ar y defnydd o [o(:)] / [ɔ(:)] ar ddechrau'r deuseiniaid hyn. Wedi archwilio i hynny, fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd hepgor ffurfiau ar "oedd" yn taflu unrhyw oleuni pellach ar ddefnydd siaradwyr cyffiniau Harlech o'r deuseiniaid hyn.

canlyniadau yn gryf fod [o] hanner caeedig eto'n fwy tueddol o godi mewn llafariaid syml nag ydyw ar ddechrau'r deuseiniaid [oɪ] / [oi]. Y mae canrannau'r ddau gyd-destun, er hynny, yn dra isel yn y ffurfiau diacen hyn.

Graff 10.13



Graff 10.14



I grynhoi sefyllfa'r deuseiniaid hir hyn, sylwyd ar gryn dipyn o wamalu rhwng [o(:)ɪ] ac [ɔ(:)ɪ] yn ardal Harlech, yn enwedig mewn ffurfiau acennog. Nodwyd nad oedd yr amrywio hwn yn annhebyg i'r ymgyfnewid a welwyd rhwng y llafariaid syml hir cyfatebol [o(:)] ac

[ɔ(:)]. Gwelwyd, er hynny, fod y defnydd o [o:] hanner caeedig yn uwch fel llafariad sengl nag ydoedd fel elfen gyntaf deusain. Prawf hyn, felly, na ellir cymryd yn ganiataol fod yr [o:] hir a geir ar ddechrau deusain yn rhwym o ymddwyn yn hollol debyg i'r hyn a geir mewn llafariad syml.

10.1.2.1.1.2. Geiriau unsill; deuseiniaid byrion sy'n cau ag [i] / [i]

Cafwyd hefyd enghreifftiau o'r llafariad ôl hanner caeedig / hanner agored [o] / [ɔ] yn ymddangos (o dan yr acen) ar ddechrau deuseiniaid byrion a gaeai ag [i], e.e. yn [rɔid] "rhoi" a [trɔi] "troi".²⁵⁶ Dengys yr ystadegau, fodd bynnag, nad yw niferoedd y tocynnau o ddeuseiniaid byrion sy'n cau ag [i] yn uchel iawn (gweler Atodiad: 10a). Er hynny, y mae'r amrediad eang o sgorau a geir (rhwng 67% a 6%) yn awgrymu bod cryn amrywiaeth yn nefnydd siaradwyr yr ardal o [oi] / [ɔi]. O graffu ar y rhestr o docynnau, fodd bynnag, gwelir mai yn y ffurfiau [rɔi] / [rɔid] "rhoi" y ceir [oi] fel rheol, ac mai'r rhain sy'n llywio'r canlyniadau amrywiol. Gellir cynnig efallai i [oi] fer ddod yn gyffredin o dan yr acen gan y ceir hyd deuseiniaid yn amrywio yn y gair penodol hwn, h.y. ceir yr amrywiadau [rɔ:i] ~ [rɔi] ~ [rɔi] "rhoi", yn ogystal â [rɔ:ɪd] ~ [rɔid] ~ [rɔid] "rhoi" (trafodwyd eisoes arwyddocâd posibl y ffurfiau hyn yng nghyd-destun yr 'u ogleddol' ym mhennod 7: 7.4.3).

10.1.2.1.1.3. Y goben acennog; deuseiniaid byrion sy'n cau ag [i] / [i]


Yn yr un modd ag y gwelwyd deuseiniaid a agorai â'r llafariad ôl [o(:)] / [ɔ(:)] yn cau ag [i] / [i] mewn geiriau unsill, cafwyd hefyd enghreifftiau o'r deuseiniaid hyn yn ymddangos yn y goben acennog, e.e. yn [oiðan] "oeddem", [ɔiðran] "oedran" a [bɔilar] *boiler*.²⁵⁷ Cafwyd niferoedd llawer gwell o'r tocynnau hyn, a chrynhwir y canlyniadau yng ngraff 10.15. Gwelir mai canrannau isel iawn o [oi] / [ɔi] a gafwyd yn y goben acennog, a bod sgôr G.J o 10% yn uwch na'r cyffredin. Y mae'n amlwg, felly, nad yw canlyniadau'r cyd-destun hwn yn debyg

²⁵⁶ Noder na cheir yr un ddeusain fer (o dan yr acen) sy'n cau ag [i] pan fo [o] / [ɔ] yn elfen gyntaf iddi, h.y. [oi] / [ɔi] yn unig a geir.

²⁵⁷ Sylwer bod deuseiniaid sy'n cau ag [i] a'r rhai sy'n cau ag [i] wedi eu cyplysu yma er cysondeb â'r hyn a wnaed yn achos y ffurfiau unsill cyfatebol yn 10.1.2.1.1 uchod.

o gwbl i'r hyn a welwyd yn achos llafariaid ôl syml y goben acennog, lle yr oedd amrywio helaeth ar waith (gweler llinell las graff 10.8).

Graff 10.15



10.1.2.1.2. Deuseiniaid sy'n cau ag [u]

Fel yr eglurwyd eisoes ar ddechrau'r adran hon, y mae'r deuseiniaid hyn yn eithriadol brin. Y cyfan a wneir isod, felly, yw nodi'r rhai a gafwyd, gan gynnwys yr ystadegau perthnasol yn yr atodiad.

- Cafwyd y ddeusain fer [ɔu] mewn ffurfiau unsill acennog, e.e. yn [rɔund] "rownd" a [*bɔub] "pawb" (gweler Atodiad: 10b). Ni chafwyd yr un enghraifft o [ou].
- Cafwyd hefyd enghreifftiau o [ɔu] fer yn ymddangos yn y goben acennog, e.e. yn [*bɔulan] "powlen". Dengys yr ystadegau, fodd bynnag, mai cyfanswm o dri thocyn yn unig a gafwyd rhwng y siaradwyr (gweler Atodiad: 10c). Eto, ni chafwyd yr un enghraifft o'r ddeusain [ou].

Y mae'n werth nodi hefyd na chafwyd achosion o ddeuseiniaid hir yn cau ag [u], h.y. [o:u] neu [ɔ:u], ac nad ymddengys eu bod yn bosibl.

10.1.2.2. Deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad blaen [e(:)] / [ɛ]

Fel y nodwyd eisoes ar ddechrau'r adran hon, y mae deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad blaen hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ] yn rhy brin ar gyfer cymharu defnydd gwahanol unigolion ohonynt. Y cyfan a wneir yma, felly, yw cyflwyno'r gwahanol ddeuseiniaid perthnasol a gafwyd, gan nodi'r ystadegau prin a geir ar eu cyfer yn yr atodiad. Noder, er hynny, y ceir ymdriniaeth fanylach â thueddiadau cyffredinol ardal Harlech o safbwynt y deuseiniaid hyn, h.y. y canlyniadau a geir pan gyfunir ffurfiau pob un o'r chwe siaradwr, yn y gymhariaeth yn 10.3.

- O ran deuseiniaid hir mewn geiriau unsill i ddechrau, [e:u] yn unig a nodwyd, e.e. yn [*le:u] "(go) lew" (gweler Atodiad: 10ch).
- O safbwynt deuseiniaid byrion mewn geiriau unsill wedyn, sylwyd ar [eu] ac [ɛu] yn ymgynwied, e.e. yn [meun] ~ [mɛun] "mewn" (gweler Atodiad: 10d). O graffu ar y rhestri o'r tocynnau, gwelir mai ffurfiau ar un gair penodol sy'n egluro'r amrywio hwn, sef [meun] a [mɛun] "mewn".
- Yn yr un modd ag y cafwyd y deuseiniaid byrion [eu] ac [ɛu] yn ymgynwied mewn ffurfiau unsill, nodwyd eu bod yn cydfodoli hefyd yn y goben acennog. Cafwyd, er enghraifft, y ffurfiau [neuid] "newid" a [nɛuɪð] "newydd" (gweler Atodiad: 10dd).
- Deuseiniaid byrion eraill a gafwyd mewn geiriau unsill yw'r rhai sy'n cau ag [i] / [i], e.e. yn [eiθ] "aiff", [nɛi] "neu" a [reit] "reit" (gweler Atodiad: 10e). Ymddengys mai [ei] / [ɛi] sydd fwyaf arferol yn y cyd-destun hwn, er bod [ei] yn bosibl hefyd.
- Yn yr un modd ag y mae [ei] / [ɛi] yn ymddangos mewn geiriau unsill, fe'u cafwyd hefyd yn y goben acennog, e.e. yn [tɛili] "teulu" a [heibjɔ] "heibio" (gweler Atodiad: 10f). Ni chafwyd yr un enghraifft o'r deuseiniaid [ɛi] / [ei].

Yr argraff a geir, felly, yw bod siaradwyr ardal Harlech yn gwamalu rhwng eu defnydd o'r deuseiniaid [eu] ac [ɛu] mewn geiriau unsill yn ogystal ag yn y goben acennog. Tra chyferbyniol, er hynny, yw sefyllfa'r deuseiniaid [ei] / [ɛi] yn yr un cyd-destunau, lle'r ymddengys nad yw amrywio yn gyffredin ganddynt.

10.2. Bro Dysynni

Fel a wnaed yn yr adran flaenorol ar gyfer y sefyllfa yn ardal Harlech, canolbwyntir ar ddechrau'r adran hon ar llafariaid syml hanner caeedig / hanner agored Bro Dysynni, cyn yr ymdrinnir wedyn â deuseiniaid yr ardal.

10.2.1. Llafariaid syml

Yn yr isadran hon, manylir ar y defnydd o'r seiniau hanner caeedig / hanner agored mewn tri chyd-destun penodol, sef llafariaid hir mewn geiriau unsill, llafariaid byrion mewn geiriau unsill, a llafariaid byrion yn y goben acennog. Bwriad yr adran hon, felly, yw edrych ar y cyd-destunau hyn yn eu tro.


10.2.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir

Y cam cyntaf yw dadansoddi defnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r llafariaid blaen hir [e(:)] / [ɛ(:)] mewn geiriau unsill. Adlewyrcha llinell las graff 10.16, felly, y defnydd a wneir o [e(:)] hanner caeedig pan gynhwysir pob un ffurf berthnasol. Gwelir ar y llinell hon fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [e(:)] hanner caeedig yn amrywio rhwng 89% a 71%. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd yn achos llafariaid "hir" ardal Harlech, gellir ystyried bod dau fath gwahanol o llafariaid hanner caeedig / hanner agored "hir" yn sail i'r llinell las hon, ac mai'r acen bwys sy'n egluro'r gwahaniaeth hwn (gweler 10.1.1.1 am drafodaeth fanylach ar hyn). Noder, felly, i'r llinell las gael ei llunio drwy gyplysu ffurfiau acennog, e.e. [he:n] "hen" a [tre:n] "trên", â rhai diacen, e.e. [hen] "hen" a [pɛθ] "peth".

Ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y canlyniad hwn, fodd bynnag, gan y gwelwyd droeon fel y gall patrymau'r ffurfiau acennog fod yn wahanol i eiddo'r ffurfiau diacen cyfatebol. O gymharu'r ffurfiau acennog (y llinell goch) â ffurfiau diacen (y llinell werdd) yng ngraff 10.16, felly, gwelir cryn wahaniaeth rhwng sgorau'r ddau gyd-destun hyn yn ei amlygu ei hun, yn debyg i'r hyn a welwyd hefyd yn ardal Harlech. Gwelir yn glir fod sgorau holl

siaradwyr yr ardal yn 100% [e:] mewn ffurfiau acennog, ar wahân i E.W sydd â sgôr o 99%.²⁵⁸ Diffyg amrywio llwyr, felly, sy'n nodweddu'r cyd-destun penodol hwn. Ar y llaw arall, nid yn unig y gwelir bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [e] yn gyffredinol is mewn ffurfiau diacen, ond ceir hefyd ystod ehangach o lawer o sgorau yn rhychwantu rhwng 64% a 23%.

Graff 10.16




Archwilir yng ngraff 10.17 wedyn i weld ai'r un patrymau sylfaenol a geir ar waith cyhyd ag y bo'r llafariad ôl hir yn y cwestiwn. Fel yn y graff diwethaf, adlewyrcha llinell las y graff hwn ganrannau y tocynnau sy'n cynnwys [o(:)] hanner caeedig gan bob siaradwr ym Mro Dysynni pan gyfunir ffurfiau acennog, e.e. [no:s] "nos" a [ko:ɣ] "coch", â rhai diacen, e.e. [nos] "nos" a [dɔd] "dod". Gwelir bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [o(:)] yn rhychwantu rhwng 55% a 30%.

O ddsbarthu'r ffurfiau acennog (y llinell goch) a'r rhai diacen (y llinell werdd) mewn grwpiau ar wahân, fodd bynnag, ceir gwahaniaethau trawiadol yn eu hamlygu eu hunain. Gwelir bod lefelau'r ffurfiau acennog bron yn union debyg i rai'r llafariad blaen cyfatebol.

²⁵⁸ Noder mai [(he:n) *vɛ:] "mê", sef ffurf a ddefnyddiwyd gan E.W fel enw ar ddfafad, yw'r unig enghraifft a gafwyd ym Mro Dysynni o'r llafariad flaen hir hanner agored [ɛ:].

100% [o:] a geir gan bob siaradwr, felly, ac eithrio G.E.T, lle y ceir ganddo sgôr o 99%.²⁵⁹ O ystyried wedyn wedyn sefyllfa'r ffurfiau diacen, gwelir bod y lefelau yn dra isel o'u cymharu â rhai y ffurfiau acennog. Bron na cheir cyferbyniad llwyr gan rai siaradwyr wrth i'w canrannau fod yn agos i 0%.

Graff 10.17



Nid oes ddwywaith, felly, nad yw'r acen bwys yn ddylanwad hollbwysig ar ansawdd y llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn, fel y prawf y ddau graff uchod. Eir ati yn y ddau graff a ganlyn, felly, i ddangos fel y mae canlyniadau'r llafariaid blaen yn cymharu ag eiddo'r llafariaid ôl. Cais graff 10.18 ddangos a oes unrhyw wahaniaethau rhwng [e(:)] / [ɛ(:)] ac [o(:)] / [ɔ(:)] mewn ffurfiau acennog, h.y. rhwng [he:n] "hen", [tre:n] "trên" etc. a [no:s] "nos", [ko:χ] "coch" etc. Tynnir cymhariaeth wedyn yng ngraff 10.19 rhwng y defnydd a wneir o'r un llafariaid mewn ffurfiau diacen, h.y. rhwng [hen] "hen" / [pɛθ] "peth" etc. a [nos] "nos", [dɔd] "dod" etc.


Y mae'r unffurfiaeth a welir yng ngraff 10.18, felly, yn dangos cyn lleied o amrywio a geir mewn ffurfiau acennog, a pha mor gyson uchel yw'r defnydd o [e:] ac [o:] hanner caeedig

²⁵⁹ Ni chafwyd y llafariad ôl hir hanner agored ond yn y gair [ɔ:] "o", sef ffurf anarferol gan G.E.T ar yr arddodiad 'o'. Sylwyd hefyd ar [ɔ:] gan B.R yn y benthyciadau [hɔ:p] (*Band of Hope*) a [hɔ:l] *hall*, ond ni chynhwyswyd mohonynt yn y dadansoddiad hwn gan nad ystyrir hwynt fel Cymreigiadau cyffredin, yn wahanol i [tre:n] "trên" neu [sdo:v] "stof", dyweder.


ynddynt. Gellir ychwanegu yma fod y tebygrwydd a welir yn y cyd-destun hwn ym Mro Dysynni rhwng y defnydd o lafariaid blaen a'r rhai ôl yn eithaf gwahanol i'r hyn a gafwyd yn ardal Harlech (trafodir hyn ymhellach yn y gymhariaeth yn 10.3).

O gymharu'r ddwy set o lafariaid mewn ffurfiau diacen wedyn, ymddengys yr awgrymir yn gryf yng ngraff 10.19 fod [e] flaen hanner caeedig ar y cyfan gryn dipyn yn fwy cyffredin nag [o] ôl hanner caeedig yn y geiriau hyn. Gellir nodi bod y duedd hon yn un gref yn y cyd-destun hwn yn ardal Harlech hefyd (gweler y gymhariaeth yn 10.3).

Graff 10.18




Graff 10.19



10.2.1.2. Geiriau unsill; llafariaid byrion (o dan yr acen)

Symudir yn awr at ffurfiau unsill (acennog) sydd â llafariaid hanner caeedig / hanner agored byrion, e.e. [gwɛld] “gweld” a [mor] “mor”. Eir ati yng ngraff 10.20 i gymharu sgorau’r llafariaid blaen [e] / [ɛ] â rhai’r llafariaid ôl cyfatebol [o] / [ɔ]. Yn debyg i’r sefyllfa yn ardal Harlech, diffyg [e] ac [o] caeedig sydd amlycaf am y graff isod, ac ymddengys mai eithriadau prin yw’r achosion lle na cheir sgorau o 0%. Ni cheir, felly, nemor ddim gwahaniaethau o bwys rhwng lefelau’r ddau gyd-destun. Yr unig ddwy enghraifft a gafwyd o llafariaid hanner caeedig yn y cyd-destun hwn yw [vel] “fel” (gan M.V) a [mor] “mor” (gan C.D). Er prinedd yw’r llafariaid hyn, efallai nad drwy gyd-ddigwyddiad y cafwyd y ffurf [mor] “mor” (Saesneg *so*) yn y ddwy ardal, a dichon mai natur bwysleisiol yr adferf hon sydd wrth wraidd cynaniad mwy caeedig na’r arfer ohoni. Ym Mro Dysynni, felly, y mae’n drawiadol y ceir gwrthgyferbyniad llwyr i bob pwrpas rhwng canlyniad y cyd-destun hwn, sef 0% [e] ac [o] fel rheol, a sefyllfa’r llafariaid hir mewn ffurfiau acennog (gweler graff 10.18) lle y ceir [e:] ac [o:] 100% o’r amser fel rheol.


Graff 10.20



10.2.1.3. Y goben acennog; llafariaid byrion

Bwrir golwg yn olaf ar y defnydd a wneir ym Mro Dysynni o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yng ngoben acennog geiriau amsyllafog. Canolbwyntir yn gyntaf ar ddefnydd siaradwyr yr ardal o'r llafariaid blaen [e(·)] / [ɛ], e.e. yn [gweli] "gwely" a [bɛχgɪn] "bechgyn."²⁶⁰ Yng ngraff 10.21, felly, gwelir bod y llinell las yn adlewyrchu sgorau'r siaradwyr pan gyfrifir pob un o'r llafariaid perthnasol yn y goben acennog. Dadlenna'r llinell hon fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [e(·)] yn y goben acennog yn amrywio rhwng 39% a 54%. Tra gwahanol yw'r sefyllfa hon, fodd bynnag, i'r hyn a welir yn achos llafariaid blaen hir geiriau unsill acennog (y llinell goch), yn ogystal â llafariaid blaen byrion geiriau unsill acennog (y llinell werdd). Byrdwn hyn oll, felly, yw bod amrywio rhwng [e(·)] hanner caeedig ac [ɛ] hanner agored yn dra chyffredin yn y goben acennog, tra bo ddiffyg amrywio llwyr yn nodweddiadol o'r cyd-destunau eraill. Fel yn ardal Harlech hefyd, nid ymddengys fod unrhyw gydberthynas rhwng sgorau llafariaid byrion y goben acennog a rhai byrion ffurfiau unsill.

Graff 10.21




²⁶⁰ Cofier bod modd i llafariaid hanner hir ymddangos ym Mro Dysynni, yn wahanol i'r sefyllfa yn Harlech. Noder mai o flaen cytseiniaid sengl yn unig y'u ceir, e.e. yn [gwe-nær] "Gwener" a [ko-di] "codi". Gan eu bod, er hynny, yn brin iawn, fe'u dosberthir gyda'r llafariaid byrion arferol.

Yn yr un modd ag a wnaed â geiriau ardal Harlech, rhannwyd y llafariaid blaen a gafwyd yn y goben acennog yn ddau gyd-destun seinegol penodol, h.y. ar sail yr hyn a ddilynai'r llafariaid. Gosodwyd yn y naill grŵp ffurfiau a oedd â llafariaid yn rhagflaenu clystyrau cytseiniol, e.e. [bɛχgɪn] “bechgyn” a [lɛvrɪθ] “llefrith”, tra rhoddwyd yn y grŵp arall ffurfiau a oedd â llafariaid yn rhagflaenu cytseiniaid sengl, e.e. [ɛnɪl] “ennill” a [kredɪ] “credu”.²⁶¹ Gwelir bod llinell las graff 10.22 i ddechrau (sy'n cyfateb i linell las graff 10.21) yn adlewyrchu'r sefyllfa a geir pan gynhwysir pob llafariad yn y goben. Fodd bynnag, y mae'r gwahaniaethau trawiadol a ddangosir ar y graff hwn rhwng lefelau'r llinell goch ac eiddo'r llinell werdd yn profi'n ddiamwys fod y llafariad flaen hanner caeedig [e(·)] yn llawer mwy tebygol o ymddangos pan geir cytsain sengl yn dilyn na phan geir clwstwr cytseiniol yn dilyn. Yn wir, gwelir amrediad o ganrannau eithaf uchel yn y naill gyd-destun seinegol (rhwng 53% a 82%), tra bo [e] ar y llaw arall yn agos at fod yn absennol yn y llall. Ymddengys, felly, mai eithriadau yw ffurfiau megis [lɛvrɪθ] “llefrith” gan B.R, a [*vedrɔχ] “medrwch” gan G.E.T. Rhoddir sylw manylach i'r modd y mae'r canlyniadau hyn yn dra gwahanol i'r hyn a gafwyd yn ardal Harlech yn y gymhariaeth (yn 8.3).


²⁶¹ Eglurwyd eisoes yn 10.1.1.3 wrth drafod y sefyllfa gyfatebol yn ardal Harlech mai fel fel cytsain sengl yr ystyriwyd y seiniau tafnodol [kj] / [gj] mewn ffurfiau fel [tɛkjaɪ] “tegel” a [negjæs] “neges”, ond bod modd hefyd i [kj] / [gj] fod yn glystyrau cytseiniol mewn geiriau eraill yn yr un safle, e.e. yn [sbekjan] “sbecian” a [kɛkjan] “cecian (yn debyg i [kovjɔ] “cofio”, er enghraifft, lle y ceir hefyd led-lafariad yn ail elfen).

Graff 10.22




Y cam nesaf yw archwilio i sefyllfa'r llafariad ôl cyfatebol er mwyn gweld a ydynt yn patrymu mewn modd tebyg i'r llafariad blaen ai peidio. Er cysondeb â'r hyn a wnaed yn achos y llafariad blaen, cymherir yng ngraff 10.23 y canlyniadau a gafwyd ar gyfer llafariad ôl y goben acennog (pob llafariad), e.e. [morɔn] "moron" a [kɔvjɔ] "cofio", â'r hyn a gafwyd mewn ffurfiau unsill. Gwelir yn y graff hwn, felly, mai'r un egwyddorion sylfaenol sydd ar waith yma ag y gwelwyd yn achos y llafariad blaen cyfatebol. Unwaith eto, dengys y llinell las fod lefelau'r goben acennog, sy'n amrywio rhwng 52% a 34%, yn drawiadol wahanol i'r hyn a geir yn y ddau gyd-destun arall, sef llafariad hir mewn ffurfiau unsill acennog (y llinell goch) a llafariad byrion mewn geiriau unsill acennog (y llinell werdd). Y mae'n werth pwysleisio yma eto pa mor gyferbyniol yw'r amrywio helaeth a welir yn y goben acennog o'i gymharu ag unffurfiaeth y cyd-destunau eraill.

Graff 10.23



Graff 10.24




Aed ati wedyn i rannu'r llafariaid ôl a gafwyd yn y goben acennog i ddau gyd-destun seinegol penodol wedyn, h.y. ar sail yr hyn a ddilynai'r llafariaid. Ffurffiau a oedd â llafariaid yn rhagflaenu clystyrau cytseiniol, e.e. [kɔvjɔ] "cofio" a [sosban] "sosban" a osodwyd yn y naill grŵp, tra rhoddwyd ffurffiau a oedd â llafariaid yn rhagflaenu cytseiniaid sengl, e.e. [morɔn] "moron" a [kɔti] "colli" yn y grŵp arall. Gwelir bod llinell las graff 10.24 i ddechrau (sy'n cyfateb i linell las graff 10.23) yn adlewyrchu'r sefyllfa a geir pan gynhwysir pob llafariad yn y goben. Fodd bynnag, y mae'r cryn gyferbyniad a welir yn y graff hwn eto

rhwng lefelau'r llinell goch a rhai'r llinell werdd yn profi bod [o·] hanner caeedig yn llawer mwy arferol ym Mro Dysynni o flaen cytseiniaid sengl nag ydynt o flaen clystyrau cytseiniol. Yn wir, gwelir bod canrannau y naill gyd-destun seinegol yn gymharol uchel (rhwng 74% a 43%), tra bo holl sgorau'r cyd-destun seinegol arall naill ai'n 0% neu'n agos at fod yn ddi-sgôr. Gellir dweud, felly, fod canlyniadau'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored ôl hyn i'w gweld yn gyson â'r hyn a welwyd yn achos y rhai blaen cyfatebol.


Hyd yma, fodd bynnag, ni thynnwyd cymariaethau rhwng y defnydd a wneir o'r llafariaid blaen [e(·)] / [ɛ] a'r rhai ôl cyfatebol [o(·)] / [ɔ] yn y goben acennog. Y cam nesaf, felly, yw cymharu'r sgorau a gafwyd yn achos y ddau grŵp o lafariaid, yn gyntaf pan geir clystyrau cytseiniol yn dilyn, ac yna pan geir cytseiniaid sengl yn dilyn. Gwelir yng ngraff 10.25, felly, fod sgorau'r ddwy set o lafariaid, h.y. canrannau'r tocynnau sy'n cynnwys [e(·)] ac [o(·)] hanner caeedig, yn drawiadol o debyg i'w gilydd pan geir clystyrau yn eu dilyn, a'u bod yn gyson isel yn iaith pob un o siaradwyr Bro Dysynni. Y mae hefyd yn ddadlennol mai gan y ddau siaradwr y cafwyd ganddynt ambell enghraifft o [e(·)] hanner caeedig y cafwyd ambell enghraifft o [o(·)] hefyd. Defnyddiwyd, er enghraifft, [lɛvrɪθ] "llefrith" a [sosban] "sosban" gan B.R, y siaradwraig hynaf, tra bo diffyg [e(·)] / [o(·)] llwyr i'w weld gan siaradwyr eraill. Awgryma hyn fod perthynas bendant rhwng y defnydd o'r llafariaid blaen a'r rhai ôl hyn yn y cyd-destun seinegol hwn.

Dengys graff 10.26, ar y llaw arall, batrymau mwy cymysg, a mwy o wahaniaethau rhwng y defnydd o [e(·)] a'r defnydd o [o(·)] ym Mro Dysynni pan geir cytseiniaid sengl yn eu dilyn. Ymddengys oddi wrth y graff hwn, fodd bynnag, fod y defnydd o [e(·)] flaen hanner caeedig yn uwch ar gyfartaledd nag yw'r defnydd o'r [o(·)] ôl gyfatebol yn y cyd-destun seinegol hwn. Eithriadau i'r duedd hon, er hynny, yw sgorau C.D, sydd â chanrannau tebyg yn y ddau gyd-destun, a rhai M.V, lle y gwelir canran uwch o [o(·)] nag o [e(·)]

Graff 10.25



Graff 10.26



I gloi'r adran hon, felly, crynhoir isod y canlyniadau pwysicaf a welwyd.

- Dangoswyd fod y llafariaid hanner caeedig a'r rhai hanner agored blaen ac ôl yn amrywio â'i gilydd i raddau helaethach o lawer yn yn y goben acennog nag y maent yn llafariaid byrion a rhai hir geiriau unsill. Y mae'r gwahaniaeth sylweddol a welir, felly, rhwng llafariaid byrion y goben acennog a rhai byrion geiriau unsill yn cyferbynnu'n drawiadol â'r canlyniadau a gafwyd yn achos nodweddion eraill, yn

arbennig yr ‘u ogleddol’ a’r ‘æ fain’ (gweler, er enghraifft, pennod 7: 7.2.1.6; graff 7.6 a phennod 8: 8.1.1.4 ac 8.2.1.4; graffiau 8.6 ac 8.19).

- Gellir barnu bod defnydd siaradwyr Bro Dysynni o’r llafariaid hyn bron â bod yn llwyr gategoriol mewn geiriau unsill (i raddau helaethach nag yng nghyffiniau Harlech hyd yn oed), h.y. fel rheol yn 100% [e:] / [o:] mewn llafariaid hir acennog, ac yn 0% [e] / [o] mewn llafariaid byrion acennog. Tra gwahanol yw’r sefyllfa yn y goben acennog, felly, lle y gwelir amrywio helaeth ar waith.
- O ddadansoddi llafariaid y goben acennog yn fanylach fyth wedyn, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol a dadlennol ym Mro Dysynni rhwng y defnydd o’r llafariaid hanner caeedig [e(·)] / [o(·)] sy’n rhagflaenu clymau cytseiniol, a’r defnydd ohonynt o flaen cytseiniaid sengl. Nodwyd mai yn yr ail gyd-destun seinegol, h.y. o flaen cytseiniaid sengl, yr oedd amrywio yn arferol, sy’n wahanol i’r sefyllfa yng nghyffiniau Harlech (gweler cymhariaeth o batrymau’r ddwy ardal yn 10.3 isod).
- Wedi sefydlu hynny, aed ati i weld a geid gwahaniaethau rhwng y llafariaid blaen a’r rhai ôl mewn gwahanol gyd-destunau seinegol yn y goben acennog. Sylwyd nad oedd nemor ddim gwahaniaeth rhwng canrannau’r [e(·)] a rhai’r [o(·)] ym Mro Dysynni pan geid clystyrau cytseiniol yn eu dilyn, ac awgryma hyn fod cydberthynas amlwg i’w chael rhwng ymddygiad y llafariaid blaen a’r rhai ôl yn y cyd-destun hwn. Gellir dehongli, felly, fod y gydberthynas hon yn cyfateb yn agos i’r hyn a welwyd yn achos llafariaid hir a rhai byrion geiriau unsill acennog, h.y. yr un patrymau cyffredinol a geir yn y blaen a’r cefn. O ran llafariaid sy’n rhagflaenu cytseiniaid sengl wedyn, lle y gwelir cryn ymglyfnawid ar waith rhwng [e(·)] ac [ε], a rhwng [o(·)] ac [ɔ], awgryma’r canlyniadau hyn fod [e(·)] flaen ar y cyfan yn fwy cyffredin nag [o(·)] ôl yn y cyd-destun seinegol hwn. Gall y duedd hon, felly, fod yn gydnaws â sawl canlyniad a gafwyd yn ardal Harlech, lle y gwelwyd defnydd helaethach o [e(:)] nag o [o(:)] mewn sawl cyd-destun (gweler 10.1.1).

10.2.2. Deuseiniaid

Symudir yn awr at ddeuseiniaid Bro Dysynni sydd â llafariad hanner caeedig / hanner agored yn elfennau cyntaf iddynt. Yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, fodd bynnag, ceir anawsterau wrth geisio dadansoddi patrymau rhai deuseiniaid oherwydd prinder ffurfiau. Gwelir, er enghraifft, fod niferoedd y deuseiniaid sydd ag [e(:)] / [ɛ] yn elfennau cyntaf iddynt ar y cyfan yn brin iawn. Gan gadw at yr un drefn, felly, ag a ddilynwyd yn achos deuseiniaid ardal Harlech, ymdrinnir yn gyntaf yn 10.2.2.1 â deuseiniaid y mae'r llafariad ôl [o(:)] / [ɔ(:)] yn elfennau cyntaf iddynt, cyn yr edrychir wedyn yn 10.2.2.2 ar ddeuseiniaid prinnach sy'n agor â'r llafariad blaen [e(:)] / [ɛ]. Oherwydd prinder ffurfiau, gwelir nad oes modd cymharu defnydd y siaradwyr o lafariad blaen a rhai ôl mewn deuseiniaid, yn wahanol i'r hyn a wnaed yn achos y llafariad syml.

10.2.2.1. Deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad ôl [o(:)] / [ɔ(:)]


Dadansoddir i ddechrau ddeuseiniaid hir sydd â llafariad ôl hanner caeedig / hanner agored yn elfennau cyntaf iddynt, ac sy'n cau ag [i] / [i], mewn ffurfiau fel [o:ɪr] “oer” a [kɔ:ɪd] “coed”, er enghraifft. Sylwer fel y gosodir y deuseiniaid [o:i] / [ɔ:i] ac [o:i] / [ɔ:i] yn yr un grŵp gan fod y llafariad ganol gaeedig [i] a'r un flaen gaeedig [i] yn amrywio â'i gilydd yn y dafodiaith hon (gweler pennod 7: 7.2). Yn debyg i'r sefyllfa yng nghyffiniau Harlech, yn achos deuseiniaid sy'n cau ag [i] / [i] yn unig y cafwyd digon o ffurfiau perthnasol ar gyfer archwilio'n fanwl i'w patrymau amrywio, a thrafodir y rheini yn gyntaf, felly. Er hynny, cafwyd rhai enghreifftiau tra phrin o ddeuseiniaid perthnasol sy'n cau ag [u], h.y. [ou] / [ɔu], a chyflwynir y rheini'n fyr ar ddiwedd yr adran hon.

10.2.2.1.1. Deuseiniaid sy'n cau ag [i] / [i]

Rhoddir sylw yn gyntaf i ddeuseiniaid hir mewn geiriau unsill, yna'r rhai byrion a geir mewn geiriau unsill, cyn y trafodir i gloi ddeuseiniaid byrion yn y goben acennog.

Gwelir yng ngraff 10.27, felly, fod y llinell las yn adlewyrchu'r defnydd a wneir gan siaradwyr Bro Dysynni o'r deuseiniaid [o(:)i] / [o(:)i], lle y ceir y llafariad ôl hanner caeedig yn elfen gyntaf iddynt. Dengys y llinell hon fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys y deuseiniaid hyn yn rhychwantu rhwng 56% 29%.

Graff 10.27




Fodd bynnag, oherwydd y gwelwyd eisoes fod cryn wahaniaeth ymysg siaradwyr ardal Harlech rhwng eu defnydd o'r deuseiniaid "hir" hyn mewn ffurfiau acennog, e.e. yn [o:ir] "oer" a [kɔ:ɪd] "coed", a'u defnydd ohonynt mewn ffurfiau diacen, e.e. yn [ɔið] "oedd" ac [ɔis] "oes", rhannwyd y ffurfiau a gafwyd yn ddau grŵp penodol. Dengys y gwahaniaeth a geir rhwng canlyniadau'r ffurfiau acennog (y llinell goch) a rhai'r ffurfiau diacen (y llinell werdd) fod y deuseiniaid [o(:)i] / [o(:)i], sy'n agor â'r llafariad hanner caeedig, yn llawer mwy tebygol o godi mewn ffurfiau sydd o dan yr acen bwys nag ydynt mewn ffurfiau diacen. Gwelir hefyd rychwant ehangach o sgorau o ran y ffurfiau acennog, lle y gwelir bod 100% o ffurfiau un siaradwraig (R.P) yn cynnwys [o:i] hir, tra bo canran y sgoriwr isaf (C.D) yn 72%, sydd gryn dipyn yn is. O safbwynt canlyniadau'r ffurfiau diacen ar y llaw arall, gwelir eu bod oll yn gyson isel, a bod canrannau tri o'r siaradwyr yn 0%.²⁶²

²⁶² Fel yr eglurwyd yn 10.1.2.1, ystyriwyd y posibilrwydd y gallasai ffurfiau ar "oedd", h.y. [o:ið] "oedd" ac [ɔ:ið] "oedd", fod yn dylanwadu ar y defnydd o [o(:)] / [ɔ(:)] ar ddechrau'r deuseiniaid hyn. Wedi archwilio i


O gofio bod y defnydd o'r llafariad (syml) ôl hir hanner caeedig [o(:)] hefyd yn sylweddol uwch mewn ffurfiau acennog, e.e. yn [ko:χ] "coch" a [no:s] "nos", nag ydoedd mewn ffurfiau diacen fel [nos] "nos" a [dɔd] "dod" (gweler graff 10.17), efallai nad yw'n syndod mai patrwm tebyg a welir ar waith yn achos y deuseiniaid. Y cam nesaf, felly, yw cymharu lefelau'r deuseiniaid [o(:)i] / [o(:)i] â rhai'r llafariad syml hanner caeedig [o(:)]. Darlunia graff 10.28, felly, y gymhariaeth hon pan ystyrir ffurfiau acennog yn unig, a gwelir yn eglur oddi wrtho fod llai o dueddiad ar y cyfan i ddefnyddio'r llafariad ôl hanner caeedig [o:] ar ddechrau deuseiniaid na mewn llafariad syml. Yn wir, go brin y gallai lefelau'r [o:] fel llafariad syml fod yn uwch. Dadlennol, felly, yw'r lleihad amlwg a welir yn y defnydd o'r [o:] hon yn y deuseiniaid [o:i] / [o:i], yn enwedig yn iaith B.R, C.D ac E.W. Gellir ychwanegu yma fod [o:] hanner caeedig yn llai cyffredin fel elfen gyntaf deusain nag ydoedd fel llafariad syml yn ardal Harlech hefyd (gweler y gymhariaeth yn 10.3). Amcan graff 10.29 wedyn yw darlunio'r un gymhariaeth ar gyfer ffurfiau diacen o safbwynt canrannau y tocynnau sy'n cynnwys y llafariad syml hanner caeedig [o] a'r deuseiniaid cyfatebol [oi] / [oi]. Er bod canrannau'r llafariad syml (y llinell las) a rhai'r deuseiniaid (y llinell goch) i'w gweld yn isel ar y graff hwn, awgrymir yma fod [o] fel llafariad syml ar y cyfan ychydig yn fwy cyffredin na'r deuseiniaid [oi] / [oi]. Y mae'r patrwm hwn, felly, sef defnydd cyffredinol is o [o(:)] hanner caeedig ar ddechrau deusain, yn debygrwydd a geir rhwng y ffurfiau acennog a'r rhai diacen, er gwaetha'r gwahaniaethau sylweddol a geir rhwng canrannau'r geiriau acennog a'r rhai diacen yn y ddau achos.

hynny, fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd hepgor ffurfiau ar "oedd" yn taflu unrhyw oleuni pellach ar ddefnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r deuseiniaid hyn chwaith.

Graff 10.28



Graff 10.29



I grynhoi sefyllfa'r deuseiniaid hir hyn, gellir dweud bod amrywio rhwng [o(:)i] ac [ɔ(:)i] yn gyffredin ym Mro Dysynni, yn enwedig mewn ffurfiau acennog. Y mae hyn mewn gwirionedd yn wahanol i'r defnydd sefydlog a welir mewn ffurfiau acennog o'r llafariad syml hanner caeedig [o:]. Dengys hyn yn glir, felly, na ddylid rhagdybio bod yr [o(:)] hir a geir ar ddechrau deusain o angenrheidrwydd yn ymddwyn yn yr un modd ag [o(:)] fel llafariad syml.

10.2.2.1.1.2. Geiriau unsill; deuseiniaid byrion sy'n cau ag [i] / [i]


Cafwyd hefyd ym Mro Dysynni enghreifftiau o'r llafariaid ôl hanner caeedig / hanner agored [o] / [ɔ] yn ymddangos (o dan yr acen) ar ddechrau deuseiniaid byrion a gaeai ag [i], e.e. yn [mɔin] "mofyn" a [rɔid] "rhoi".²⁶³ Nid yw cyfanswm y ffurfiau hyn, fodd bynnag, yn niferus iawn (gweler Atodiad: 10ff). Er hynny, awgryma'r rhychwant eang o sgorau a gafwyd (rhwng 83% a 12.5%) fod amrywio rhwng [oi] ac [ɔi] yn gyffredin ym Mro Dysynni. Er hynny, gwelir ar y rhestri o docynnau mai yn y ffurfiau [rɔi] / [rɔid] "rhoi" y ceir [o] ar ddechrau'r deuseiniaid hyn fel rheol, ac mai'r rhain sydd i raddau helaeth yn llywio'r canlyniadau amrywiol a gafwyd. Dyna'n union y sylwyd arno yn ardal Harlech hefyd (gweler 10.1.2.1.2 am fanylion pellach ynghylch y ffurfiau eithriadol a geir ar "rhoi" yn y ddwy dafodiaith).

10.2.2.1.1.3. Y goben acennog; deuseiniaid byrion sy'n cau ag [i] / [i]

O safbwynt deuseiniaid sy'n agor â'r llafariaid ôl [o] / [ɔ] yn y goben acennog wedyn, y rhai mwyaf cyffredin yw'r rheini sy'n cau ag [i] / [i], e.e. yn [kɔisa] "coesau" a [krɔisɔ] "croeso". Gan fod niferoedd y ffurfiau sy'n cynnwys y deuseiniaid [ɔi] / [ɔi] neu [oi] / [oi] yn y cyddestun hwn yn dda, eir ati i grynhoi'r canlyniadau a gafwyd yng ngraff 10.30. Y mae'n glir oddi wrth y graff hwn, felly, na wneir defnydd o [oi] o gwbl gan y rhan fwyaf o'r siaradwyr, h.y. 0% yw sgorau pedwar o'r siaradwyr, tra bo canrannau'r ddau arall hefyd yn dra isel. Yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, felly, gwelir gwahaniaeth sylweddol rhwng sefyllfa'r deuseiniaid hyn a'r canlyniadau a gafwyd ar gyfer llafariaid ôl syml y goben acennog, lle y gwelwyd amrywio helaeth ar waith (cymharer â llinell las graff 10.23 uchod).

²⁶³ Ni cheir yr un ddeusain fer (o dan yr acen) sy'n cau ag [i] pan fo [o] / [ɔ] yn elfen gyntaf iddi, h.y. [oi] / [ɔi] yn unig a geir.

Graff 10.30



10.2.2.1.2. Deuseiniad sy'n cau ag [u]

Fel y nodwyd eisoes ar ddechrau'r adran hon, y mae'r deuseiniaid hyn yn eithriadol brin. Y cyfan y gellir ei wneud, felly, yw crybwyll y rhai a gafwyd, gan gynnwys yr ystadegau perthnasol yn yr atodiad.

- Cafwyd y ddeusain fer [ɔu] mewn ffurfiau unsill acennog, e.e. yn [rɔund] "rownd" (gweler Atodiad: 10g). Ni chafwyd yr un enghraifft o [ou].
- Cafwyd hefyd enghraifft o [ɔu] fer yn codi yn y goben acennog mewn un ffurf yn unig, sef [bɔuljɔ] "bowlio" (gweler Atodiad: 10ng).

Yn debyg i'r sefyllfa yn ardal Harlech, ni chafwyd achosion o ddeuseiniaid hir yn cau ag [u], h.y. [o:u] neu [ɔ:u].

10.2.2.2. Deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad blaen [e(:)] / [ɛ]

Fel yr eglurwyd eisoes, y mae deuseiniaid sydd â'r llafariad blaen hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ] yn elfennau cyntaf iddynt yn rhy brin i'n galluogi i gymharu defnydd siaradwyr Bro Dysynni ohonynt. Yn debyg i'r hyn a wnaed ar gyfer cyffiniau Harlech, y bwriad yma yw nodi'n gryno y deuseiniaid perthnasol a gafwyd, gan nodi'r ystadegau prin a

geir ar eu cyfer yn yr atodiad. Er hynny, rhoddir sylw manylach i batrymau cyffredinol y deuseiniaid hyn ym Mro Dysynni, h.y. y canlyniadau a geir pan gyplysir ffurfiau pob un o'r chwe siaradwr, yn y gymhariaeth yn 10.3.

- Gan gychwyn â deuseiniaid hir mewn geiriau unsill, [e:u] yn unig a nodwyd, e.e. yn [le:u] “llew” a [*le:u] “(go) lew” (gweler Atodiad: 10h).
- O ran deuseiniaid byrion mewn geiriau unsill wedyn, nodwyd bod [eu] ac [ɛu] yn amrywio â'i gilydd, e.e. yn [meun] ~ [mɛun] “mewn” a [*geuχ] ~ [*gɛuχ] “cewch” (gweler Atodiad: 10i). Er mai yn y pâr [meun] ~ [mɛun] “mewn” y gwelir y ddwy ddeusain hyn yn ymgynffwrdd gan amlaf, cafwyd hefyd y ffurfiau [*geuχ] a [*gɛuχ] “cewch” gan B.R, sy'n awgrymu nad yw'r amrywio hwn o angenrheidrwydd wedi ei gyfyngu i un gair yn unig.
- Yn debyg i'r modd y gwelwyd [eu] ac [ɛu] yn amrywio â'i gilydd mewn ffurfiau unsill, sylwyd hefyd ar y deuseiniaid hyn yn ymgynffwrdd yn y goben acennog, e.e. yn [neuid] “newid” a [nɛuɪð] “newydd (gweler Atodiad: 10j).
- Deuseiniaid byrion eraill a gafwyd mewn geiriau unsill yw'r rhai sy'n cau ag [i] / [ɪ], e.e. yn y ffurfiau [nɛi] “neu” a [*reid] “rhoi”. Dengys yr ystadegau na chafwyd yr un enghraifft o [ei] / [ɛi] ym Mro Dysynni (gweler Atodiad: 10l).
- Nodwyd bod [ɛi] / [ei] hefyd yn ymddangos yn y goben acennog, e.e. yn [kəveirjɔ] “cyfeirio” a [keinjɔg] “ceiniog” (gweler Atodiad: 10ll).²⁶⁴ Ni chafwyd yr un enghraifft o'r deuseiniaid [ɛi] / [ei], yn debyg i'r sefyllfa mewn geiriau unsill.

I grynhoi, felly, ymddengys fod amrywio yn gyffredin rhwng y deuseiniaid byrion [eu] ac [ɛu] mewn geiriau unsill yn ogystal ag yn y goben acennog. Ar y llaw arall, o ran [ɛi] / [ei] yn yr un cyd-destunau, ni cheir dim i awgrymu eu bod yn ymgynffwrdd â'i gilydd.

²⁶⁴ Ni chafwyd yr un enghraifft o [ɛi] / [ei] yn y cyd-destun hwn ym Mro Dysynni.

10.3. Cymhariaeth o batrymau'r ddwy ardal

Hyd yma, ymdriniwyd â'r defnydd amrywiol a wneir o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y ddwy ardal yn annibynnol ar ei gilydd. Amcan yr adran hon, felly, yw cymharu canlyniadau ardal Harlech a rhai Bro Dysynni â'i gilydd, gan dynnu sylw at unrhyw gyfatebiaethau neu wahaniaethau o bwys a geir rhwng patrymau siaradwyr y ddwy ardal. Ni fwriedir dyblygu sylwadau yma ynghylch patrymau gwahanol unigolion, oni bai fod amrywio o'r math hwnnw yn berthnasol wrth gymharu'r ddwy ardal â'i gilydd.²⁶⁵

10.3.1. Llafariaid syml

Edrychir yn gyntaf ar lafariaid hir mewn geiriau unsill, yna ar lafariaid byrion mewn geiriau unsill, cyn y cymherir i gloi y patrymau a welir yn llafariaid byrion y goben acennog.

10.3.1.1. Geiriau unsill; llafariaid hir


Gwelir yn eglur oddi wrth y canlyniadau yng ngraff 10.31 na cheir nemor ddim gwahaniaethau sylweddol rhwng canrannau y tocynnau sy'n cynnwys [e:] flaen hir mewn ffurfiau acennog yn y ddwy ardal, a bod lefelau ardaloedd Harlech a Bro Dysynni yn gyson uchel fel ei gilydd. Er hynny, efallai yr awgryma'r cwmp bychan a geir yn ail hanner y llinell las nad yw'r defnydd o [e:] mor sefydlog yn ardal Harlech ag ydyw ym Mro Dysynni. Gellir cynnig hefyd fod y gwahaniaethau bychain a welir yma rhwng canlyniadau'r ddwy ardal yn gyson â'r gwahaniaethau mwy sylweddol a welir yn achos y llafariaid ôl cyfatebol (gweler graff 10.32).

O safbwynt y defnydd o [o:] ôl hir mewn ffurfiau acennog, felly, dengys graff 10.32 wahaniaethau mwy sylweddol rhwng sgorau'r ddwy ardal. Tra bo'r llinell goch yn dangos bod y defnydd o [o:] hanner caeedig i'w weld yn hollol sefydlog ym Mro Dysynni, gwelir yn


²⁶⁵ Fel yn achos cymariaethau y ddwy bennod flaenorol (8.3 a 9.3), nid yw enwau'r siaradwyr yn ymddangos yng ngraffiau'r adran hon gan mai cymharu patrymau'r ddwy ardal â'i gilydd y bwriedir ei wneud yma yn hytrach na chymharu defnydd gwahanol unigolion o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn.

glir oddi wrth y llinell las fod amrywio rhwng [o:] a'r llafariad hanner agored [ɔ:] yn llawer mwy cyffredin yn ardal Harlech. Y mae'n ddiddorol, felly, fod defnydd y ddwy ardal o'r llafariaid blaen ar y cyfan yn dra thebyg i'w gilydd, ond bod gwahaniaeth trawiadol o safbwynt y llafariaid ôl cyfatebol.

Graff 10.31




Graff 10.32




Mewn ffurfiau diacen wedyn, er bod canlyniadau'r ddwy linell yng ngraifff 10.33 i'w gweld yn wahanol ar yr olwg gyntaf, sylwer bod amrediad y sgorau a geir o safbwynt y defnydd o [e] flaen hanner caeedig yn ddigon tebyg yn y ddwy ardal. Gwelir, er enghraifft, fod

canrannau sgorwyr isaf y ddwy ardal ychydig dros 20%, tra bo'r rhai uchaf dros 60%. Gellir barnu, felly, mai'r un patrymau cyffredinol a welir yng nghanlyniadau'r ddwy ardal yn y cyddestun hwn. Yn yr un modd, gwelir yng ngraiff 10.34 fod y defnydd a wneir o'r [o] ôl hamner caeedig yn debyg iawn yn y ddwy ardal, er yn sylweddol is na lefelau'r [e] yn y ddau achos.

Graff 10.33



Graff 10.34



10.3.1.2. Geiriau unsill; llafariaid byrion (o dan yr acen)


Nid oes raid llunio graffiau ar gyfer ffurfiau unsill acennog sydd â llafariaid byrion, e.e. [gwɛld] “gweld”, [pɛn] “pen”, [ɔvn] “ofn” a [fɔr] “ffordd”, gan y gwelwyd eisoes yn 10.1 (graff 10.5) ac yn 10.2 (graff 10.20) fod y canrannau yn gyson isel yn y ddwy ardal, a hynny yn achos llafariaid blaen a rhai ôl. Dylid pwysleisio, felly, mai sgorau o 0% [e] / [o] sy’n arferol yn y cyd-destun hwn, ac mai eithriadau yn y ddwy ardal yw ambell ffurf megis [vel] “fel” a [mor] “mor”.

Hyd yma, felly, gwelwyd cyferbyniad llwyr i bob pwrpas rhwng defnydd y ddwy ardal o’r seiniau blaen hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ(:)] mewn llafariaid hir acennog, a’r defnydd a wneir o’r seiniau hyn mewn llafariaid byrion acennog. O safbwynt y seiniau ôl cyfatebol [o(:)] / [ɔ(:)], fodd bynnag, ym Mro Dysynni yn unig y ceir cyferbyniad clir tebyg gan y gwelir mwy o amrywio ar waith rhwng [o:] ac [ɔ:] yn llafariaid hir acennog ardal Harlech.


10.3.1.3. Y goben acennog; llafariaid byrion

Gwelwyd yn yr adrannau blaenorol (yn 10.1.1 a 10.1.2) fod amrywio rhwng y llafariaid hanner caeedig [e(·)] / [o(·)] a’r rhai hanner agored [ɛ] / [ɔ] yn fwy amlwg yn y ddwy ardal yn y goben acennog nag ydoedd yn y cyd-destunau eraill. Darlunnir yng ngraffiau 10.35 a 10.36, felly, y canlyniadau a gafwyd yn y ddwy ardal o safbwynt y defnydd o llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y goben acennog yn gyffredinol, h.y. pan gyfrifir pob un llafariad. Ymddengys oddi wrth y graffiau hyn, felly, fod y defnydd o [e(·)] flaen hanner caeedig yn ogystal ag [o(·)] ôl hanner caeedig yn gyffredinol uwch ym Mro Dysynni (y llinellau cochion) nag ydynt yn ardal Harlech (y llinellau gleision). Fodd bynnag, er gwaetha’r gwahaniaethau hyn rhwng lefelau’r ddwy ardal, ymddengys fod yr un egwyddorion sylfaenol ar waith yn y ddwy ardal, sef bod amrywio rhwng [e(·)] ac [ɛ], a rhwng [o(·)] ac [ɔ], yn gyffredin yn y goben acennog.

Graff 10.35




Graff 10.36



Yn yr adrannau blaenorol, fodd bynnag, dangoswyd bod cyd-destun seinegol y llafariad hyn yn bwysig i'w ystyried wrth archwilio i'r defnydd o [e(·)] / [o(·)] yn y goben acennog. Yn wir, sylwyd yn y ddwy ardal ar wahaniaethau rhwng canlyniadau llafariad sy'n rhagflaenu clystyrau cytseiniol, a chanlyniadau'r rhai sy'n rhagflaenu cytseiniaid sengl. Ceisir gweld yn yr adran hon, felly, ai'r un math o wahaniaethau a geir rhwng y ddau gyd-destun seinegol hyn yn y ddwy ardal.


Gwelir bod graffiau 10.37 a 10.38 yn cymharu'r defnydd a wneir o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn y ddwy ardal pan geir clystyrau cytseiniol yn dilyn. Y mae'r gwahaniaethau eglur a amlygir rhwng canlyniadau'r ddwy ardal yn hynod drawiadol. Gwelir ar y llinellau cochion fod y defnydd a wneir ym Mro Dysynni o [e] / [o] hanner caeedig bron â bod yn gwbl absennol yn y cyd-destun seinegol hwn. Ar y llaw arall, dengys y llinellau gleision fod [e] / [o] hanner caeedig yn llawer mwy cyffredin yn ardal Harlech, er bod yr union lefelau'n amrywio'n sylweddol rhwng y siaradwyr. Gellir cynnig, felly, fod y gwahaniaethau trawiadol hyn yn awgrymu nad yr un patrymau strwythurol sylfaenol a welir ar waith yn y ddwy dafodiaith yn y cyd-destun penodol hwn.²⁶⁶

Graff 10.37



²⁶⁶ Trafodir goblygiadau posibl y gwahaniaeth hwn rhwng patrymau y ddwy dafodiaith yn fanylach yn y drafodaeth (10.4).


Graff 10.38




Arwain y canlyniadau uchod yn naturiol at gymhariaeth debyg o ddefnydd y ddwy ardal o lafariaid hanner caeedig / hanner agored y goben acennog pan geir cytseiniaid sengl yn eu dilyn. Yn dra gwahanol i'r canlyniadau blaenorol, gwelwn fod graffiau 10.39 a 10.40 yn dangos yn gwbl ddiamwys fod y llafariaid hanner caeedig blaen ac ôl [e(·)] ac [o(·)] yn fwy arferol ar gyfartaledd ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech. Dylid pwysleisio bod y gwahaniaeth a welir rhwng tueddiadau'r ddwy ardal yn y cyd-destun seinegol hwn yn gwbl groes i'r hyn a welwyd yn achos llafariaid a ragflaenai glystyrau cytseiniol (cymharer â graffiau 10.37 a 10.38).²⁶⁷

²⁶⁷ Unwaith eto, rhoddir sylw pellach i'r canfyddiadau hyn yn y drafodaeth (10.4).

Graff 10.39



Graff 10.40



Y mae'r canlyniadau hyn, felly, yn profi cyn bwysiced yw dylanwad y cyd-destun seinegol ar y llafariaid hyn yn y goben acennog, ac yn dangos sut y gellid bod wedi colli grym hynny pe buasid wedi cyfyngu'r dadansoddiad i sefyllfa gyffredinol y llafariaid hyn yn y goben acennog (yr hyn a welir yng ngraffiau 10.35 a 10.36).

10.3.2. Deuseiniaid

Fel a wnaed yn yr adrannau blaenorol, cymherir yn gyntaf ddefnydd y ddwy ardal o ddeuseiniaid sydd â'r llafariad ôl hanner caeedig / hanner agored [o(:)] / [ɔ(:)] yn elfennau cyntaf iddynt. Eir ati wedyn i edrych ar ddsbarth arall o ddeuseiniaid sy'n brinnach yn y ddwy ardal, sef y rhai sy'n agor â'r llafariad blaen hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ].

10.3.2.1. Deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad ôl [o(:)] / [ɔ(:)]

Fel y gwelwyd yn 10.1.2 a 10.2.2, yn achos deuseiniaid sy'n cau ag [i] / [i], h.y. [o(:)i] / [o(:)i] ac [ɔ(:)i] / [ɔ(:)i], y cafwyd digon o ddeunydd addas i archwilo'n fanylach i ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal ohonynt. Gan y gwelwyd bod y rhai a gaeai ag [u], h.y. [ɔu] / [ou], mor brin, ni ellir cymharu defnydd y ddwy ardal o'r rhain. Y cyfan y gellir ei nodi yw mai [ɔu] yn unig a gafwyd yn y ddwy ardal.

Edrychir yn awr, felly, ar y deuseiniaid perthnasol sy'n cau ag [i] / [i] mewn gwahanol gyd-destunau. Rhoddir sylw yn gyntaf i ddeuseiniaid hir geiriau unsill, yna i ddeuseiniaid byrion geiriau unsill, cyn trafod i gloi ddeuseiniaid byrion y goben acennog.


10.3.2.1.1. Geiriau unsill; deuseiniaid hir

Gwelwyd eisoes fel y rhannwyd y deuseiniaid "hir" [o(:)i] / [o(:)i] ac [ɔ(:)i] / [ɔ(:)i] yn ddau grŵp penodol, sef ffurfiau acennog, e.e. [o:ɪr] "oer" a [kɔ:ɪd] "coed", a ffurfiau diacen, e.e. [oið] "oedd" ac [ɔis] "oes". Canolbwyntir yn gyntaf yng ngraff 10.41 ar ganlyniadau'r ffurfiau acennog, lle y gwelir bod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys y deuseiniaid [o:i] / [o:i] ar gyfartaledd gryn dipyn yn fwy cyffredin ym Mro Dysynni nag yng nghyffiniau Harlech. Gellir nodi bod hyn yn gyson â defnydd cyffredinol uwch siaradwyr Bro Dysynni o [o:] hanner caeedig fel llafariad syml mewn ffurfiau acennog (gweler graff 10.32).


O safbwynt y deuseiniaid [oi] / [oi] ac [ɔi] / [ɔi] wedyn yn y ffurfiau diacen cyfatebol, gwelir yng ngraff 10.42 fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys y deuseiniaid [oi] / [oi] yn debyg iawn ar y cyfan yn y ddwy ardal, a'u bod yn gyson isel. Gellir ychwanegu bod canlyniadau'r

ffurfiau diacen hyn unwaith eto'n debyg i'r hyn a gafwyd ar gyfer llafariaid syml mewn ffurfiau diacen, yn enwedig gan mai ychydig iawn o wahaniaeth a welir eto rhwng sefyllfa'r ddwy dafodiaith (gweler graff 10.34).

Graff 10.41



Graff 10.42




10.3.2.1.2. Geiriau unsill; deuseiniaid byrion

O safbwynt y defnydd o'r deuseiniaid [oi] / [ɔi] mewn ffurfiau unsill (acennog), e.e. yn [roi] "rhoi" a [trɔi] "troi", gwelwyd cryn amrywiaeth o sgorau yn y ddwy dafodiaith (rhwng 67% a 6% yn ardal Harlech, a rhwng 83% a 12.5% ym Mro Dysynni). Dylid dwyn i gof, fodd bynnag, nad yw'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar niferoedd uchel o docynnau yn yr un o'r ardaloedd (gweler Atodiad: 10a a 10ff). Yn ogystal â hynny, bernir na ddylid rhoi gormod o bwys ar yr union lefelau gan y sylwyd mai ffurfiau eithriadol ar un gair penodol a oedd yn llurgunio'r canlyniadau hyn yn y ddwy ardal, sef [roi] / [roid] "rhoi".

10.3.2.1.3. Y goben acennog; deuseiniaid byrion

Gan droi ein golygon wedyn at y deuseiniaid byrion [oi] / [oi] ac [ɔi] / [ɔi] yn y goben acennog, e.e. yn [ɔidran] "oedran" a [krɔisɔ] "croeso", cafwyd niferoedd digon dibynadwy o docynnau i allu cymharu lefelau gwahanol unigolion y ddwy ardal â'i gilydd. Gwelir yng ngraff 10.43, felly, fod canrannau y tocynnau sy'n cynnwys y deuseiniaid [oi] / [oi] yn gyson isel yn y ddwy dafodiaith, ac nad oes nemor ddim gwahaniaethau o bwys rhwng defnydd y ddwy ardal o'r deuseiniaid hyn. Y mae'r deuseiniaid hyn, felly, i'w gweld yn ymddwyn yn dra gwahanol yn y ddwy ardal i lafariaid ôl syml y goben acennog (gweler graff 10.36).

Graff 10.43



10.3.2.2. Deuseiniaid sy'n agor â'r llafariad blaen [e(:)] / [ɛ]

Fel y nodwyd eisoes, oherwydd prinder ffurfiau perthnasol o safbwynt deuseiniaid o'r math hwn, ni ellir cymharu canrannau unigolion â'i gilydd. Fodd bynnag, yn yr un modd ag a wnaed yn achos deuseiniaid prin a agorai â'r 'æ fain' (gweler pennod 8: 8.1.2 ac 8.2.2), penderfynwyd mai un ffordd o gael niferoedd gwell a mwy dibynadwy o docynnau oedd drwy gyfuno sgorau siaradwyr o'r un ardal. Dylid pwysleisio yma eto nad wyf yn ystyried bod y dull hwn yn effeithiol ar gyfer adlewyrchu'r amrywiaeth eang o sgorau y gellir eu cael rhwng gwahanol siaradwyr o'r un dafodiaith. Bernir, er hynny, y gall y dull hwn fod yn addas ar gyfer darlunio'r tueddiadau cyffredinol a geir ar waith yn y ddwy dafodiaith, yn enwedig pan ganolbwyntir ar gymharu defnydd dwy dafodiaith o nodwedd benodol. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r canrannau hyn gael eu cymryd fel rhai absoliwt mewn unrhyw fodd, nac fel rhai sy'n profi union gryfder nodwedd benodol. Dehongler hwy yn hytrach fel awgrymiadau o'r tueddiadau sydd ar waith yn yr ardaloedd dan sylw.

10.3.2.2.1. Geiriau unsill; deuseiniaid hir


O safbwynt ffurfiau sydd â'r ddeusain hir [e:u], e.e. [*le:u] "(go) lew" a [lɛ:u] "llew", y mae nifer y tocynnau a gafwyd yn y ddwy ardal, hyd yn oed pan gyfunir ystadegau pob siaradwr, yn dal yn brin iawn (gweler Atodiad: 10ch a 10h). Ar sail cyfanswm o 5 tocyn yn ardal Harlech a 12 tocyn ym Mro Dysynni, felly, gwelir defnydd cyson (100%) o [e:u], h.y. ni chafwyd yr un enghraifft o [ɛ:u] a agorai â llafariad flaen hanner agored. Hyd y gellir barnu, felly, ni cheir gwahaniaeth rhwng defnydd y ddwy ardal o'r ddeusain [e:u]. Dylid pwysleisio serch hynny fod nifer y tocynnau yn rhy brin i brofi hyn yn derfynol.

10.3.2.2.2. Geiriau unsill; deuseiniaid byrion

Gwelwyd eisoes yn yr adrannau blaenorol fod [eu] ac [ɛu] yn ymgynwedd yn ffurfiau unsill y ddwy ardal, e.e. yn [meun] ~ [mɛun] "mewn" a [*geuχ] ~ [gɛuχ] "cewch". O gyfuno niferoedd y tocynnau perthnasol a gafwyd ymhlith chwe siaradwr y ddwy ardal, felly, cafwyd ystadegau boddhaol ar gyfer cymharu tueddiadau cyffredinol y ddwy ardal. Adlewyrcha bloc

glas graff 10.44, felly, y sgôr gyfartalog a gafwyd ar gyfer ardal Harlech (Atodiad: 10d) ar sail cyfanswm o 56 tocyn, tra bo bloc coch yr un graff ar y llaw arall yn cynrychioli'r canlyniad cyfatebol a gafwyd ar gyfer Bro Dysynni (Atodiad: 10i) ar sail cyfanswm o 79 tocyn.²⁶⁸ Gan y gwelir oddi wrth y graff hwn gryn wahaniaeth rhwng sgôr ardal Harlech o 50% a sgôr Bro Dysynni o 86%, awgrymir yn gryf yma fod y defnydd cyffredinol o [eu] yn helaethach ym Mro Dysynni nag ydyw yng nghyffiniau Harlech. Gellir cynnig nad yw'r canlyniad hwn yn annhebyg i'r hyn a welwyd yn achos y llafariaid blaen [e(·)] / [ɛ] a ragflaenai gytseiniaid sengl yn y goben acennog (gweler graff 10.39), lle y gwelwyd eto fod lefelau Bro Dysynni gryn dipyn yn uwch na rhai ardal Harlech. Nid yw'n hawdd gwybod, er hynny, pam y byddai cysylltiad rhwng canlyniadau'r ddau gyd-destun hyn.

Graff 10.44



O ran y defnydd o'r deuseiniaid [ei] / [ɛi] ac [ei] / [ɛi] mewn ffurfiau unsill wedyn, e.e. yn [neɪ] "neu" ac [ɛiθ] "aiff", nid oes raid crynhoi'r canlyniadau a gafwyd mewn graff gan fod canlyniadau'r ddwy ardal mor gyson isel pan gyplysir sgorau pob siaradwr. Yn ardal Harlech (Atodiad: 10e), un tocyn yn unig o blith cyfanswm o 69 (sef 1% ohonynt) a gynhwysai [ei] / [ɛi], tra ym Mro Dysynni (Atodiad: 10l) ar y llaw arall, nid oedd yr un o'r tocynnau a gafwyd


²⁶⁸ Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 8 (8.1.2.1.2), gelwir histogramau'r bennod hon, yn ogystal â'r graffiau llinell, i gyd yn "graffiau" er hwylustod wrth eu rhifo.

yn cynnwys [ei] / [ɛi], er bod cyfanswm o 61 ohonynt. Ymddengys yn bur debygol, felly, mai [ɛi] / [ei] sy'n arferol yn y cyd-destun hwn yn y ddwy dafodiaith.

10.3.2.2.3. Y goben acennog; deuseiniaid byrion

Nodwyd eisoes yn yr adrannau blaenorol fod [eu] ac [ɛu], nid yn unig yn gwamalu mewn ffurfiau unsill, ond hefyd yn ymgynffwrdd yn y goben acennog. Cafwyd, er enghraifft, [neurd] “newid” a [dɛui] “Dewi” yn ardal Harlech, yn ogystal â'r pâr [neurd] ~ [neurd] “newid” ym Mro Dysynni. O gyplysu y tocynnau perthnasol a gafwyd gan chwe siaradwr y ddwy ardal, felly, cafwyd ystadegau digon derbyniol ar gyfer cymharu tueddiadau cyffredinol y ddwy ardal. Cynrychiola bloc glas graff 10.45, felly, sgôr ardal Harlech (Atodiad: 10f) ar sail cyfanswm o 38 tocyn, tra adlewyrcha bloc coch yr un graff ganlyniad cyfatebol Bro Dysynni (Atodiad: 10ll) ar sail cyfanswm o 48 tocyn. Dangosir yma'n eglur, felly, fod gwahaniaeth sylweddol rhwng canran ardal Harlech (47%) ac eiddo Bro Dysynni (87.5%), ac awgryma hyn yn gryf fod y ddeusain [eu] yn llawer mwy tebygol o godi ar gyfartaledd ym Mro Dysynni nag ydyw yng nghyffiniau Harlech. Gellir ychwanegu bod y gwahaniaeth a welir rhwng y ddwy sgôr gyfartalog yn hynod debyg i'r hyn a gafwyd yn achos y defnydd o [eu] / [ɛu] mewn geiriau unsill (gweler graff 10.44). Ymddenys, felly, fod y deuseiniaid hyn yn ymddwyn mewn modd tebyg yn y ddau gyd-destun yn y ddwy dafodiaith.

Graff 10.45



I gloi, o ran y defnydd o'r deuseiniaid [ɛi] / [ei] ac [ɛi] / [ei] yn y goben acennog, e.e. yn [tɛiɪ] "teulu" a [kɛinjɔg] "ceiniog", nid oes diben crynhoi'r sgorau a gafwyd mewn graff gan na chafwyd yr un enghraifft o [ɛi] / [ei] yn yr un o'r ddwy dafodiaith. Sail y canlyniadau hyn yw cyfanswm o 55 tocyn ar gyfer ardal Harlech (Atodiad: 10f), a 30 tocyn ar gyfer Bro Dysynni (Atodiad: 10ll). Awgrymir yn gryf, felly, nad yw'r llafariad blaen hanner caeedig yn gyffredin ar ddechrau'r deuseiniaid hyn yn yr un o'r ddwy ardal.

I grynhoi sefyllfa'r deuseiniaid sydd â'r llafariad blaen hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [ɛ(:)] yn elfennau cyntaf iddynt, felly, ymddengys fod sefyllfa'r ddwy ardal ar y cyfan yn debyg iawn i'w gilydd. Yn gyntaf, ymddengys mai [e:u] yw'r ddeusain hir fwyaf arferol mewn geiriau unsill yn y ddwy ardal, er na chafwyd niferoedd digonol ar gyfer profi hyn yn derfynol. O ran y deuseiniaid byrion wedyn, gwelwyd bod amrywio rhwng [eu] ac [ɛu] yn gyffredin yn y ddwy ardal mewn dau gyd-destun penodol, sef mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog. Yn ddiddorol, sylwyd fod defnydd cyffredinol o [eu] yn uwch ym Mro Dysynni nag ydoedd yn ardal Harlech yn y ddau achos. Un dehongliad posibl, felly, yw bod [eu] yn ddeusain fwy cyffredin yn y canolbarth nag ydyw yn y gogledd. Cyferbyniol, fodd bynnag, yw sefyllfa [ɛi] / [ei] yn y ddwy ardal gan nad yw'n ymddangos bod amrywio yn gyffredin o safbwynt y deuseiniaid byrion hyn. Ymddengys, felly, nad yw [ei] / [ɛi] yn nodweddiadol o dafodiaith ardal Harlech nac un Bro Dysynni.

10.4. Trafodaeth

I gloi'r bennod hon, ystyrir goblygiadau'r canlyniadau a drafodwyd uchod. Manylir i ddechrau yn 10.4.1 ar ffactorau ieithyddol sy'n dylanwadu ar ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored, cyn y rhoddir sylw wedyn yn 10.4.2 i ystyriaethau daearyddol a all fod yn berthnasol i'w hystyried wrth ddadansoddi'r nodwedd hon mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn olaf, holir yn 10.4.3 a yw amrywio rhwng llafariaid hanner caeedig a rhai hanner agored yn gallu arwain hefyd at ddatblygiadau ffonolegol eraill.

10.4.1. Ystyriaethau ieithyddol

Yn debyg i'r hyn a welwyd yn y penodau blaenorol yn achos nodweddion yr 'æ fain' [æ(:)], yr 'u ogleddol' [i(:)] / [ɪ] a'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj], yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn y bennod hon hefyd yw bod defnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan ffactorau ieithyddol pwysig. Rhestrir y gwahanol ffactorau hyn isod, ac ymhelaethir ar bwysigrwydd pob un ohonynt.

- Hyd y llafariad

Gwelwyd uchod fod modd i lafariaid hir a rhai byrion y ddwy ardal ymddwyn yn dra gwahanol i'w gilydd. Mewn geiriau unsill, er enghraifft, sylwyd ym Mro Dysynni ar gyferbyniad llwyr bron rhwng ansawdd llafariaid hir acennog a oedd yn gyson hanner caeedig, e.e. yn [he:n] "hen" a [no:s] "nos", ac ansawdd rhai byrion acennog a oedd yn gyson hanner agored, e.e. yn [pɛn] "pen" ac [ɔvn] "ofn".

- Safle'r llafariad o fewn y gair

Ystyriaeth hollbwysig arall wrth ddadansoddi'r llafariaid hyn yw eu hunion safle o fewn y gair (y cyd-destun sillafog mewn geiriau eraill). Dangoswyd yn y bennod hon nad yw disgrifio llafariad fel un fer yn ddigon ar gyfer dadansoddi patrymau amrywio cymhleth y

nodwedd hon. Yn wir, efallai mai canfyddiad mwyaf trawiadol y bennod hon yw bod llafariaid byrion geiriau unsill acennog, e.e. yn [pɛn] “pen” ac [ɔvn] “ofn”, i’w gweld yn ymddwyn yn hollol wahanol i rai byrion y goben acennog, e.e. yn [peθa] “pethau”, [dɛχra] “dechrau”, [kovjɔ] “cofio” a [ʃɔpa] “siopau”. Yn wir, gwelwyd cryn amrywio ar waith rhwng y llafariaid hanner caeedig a’r rhai hanner agored yn y goben acennog, tra bo diffyg amrywio tebyg yn amlwg mewn geiriau unsill lle’r oedd lefelau yr [e] / [o] hanner caeedig yn dra isel.

- Y cyd-destun seinegol

Sylwyd hefyd mewn rhai achosion nad yw hyd y llafariad na’i safle yn ddigon ar gyfer deall natur yr ymgyfnewid a welir rhwng [e(·)] / [o(·)] hanner caeedig ac [ɛ] / [ɔ] hanner agored. Ymddengys, felly, fod yr union gyd-destun seinegol, h.y. yr hyn sy’n dilyn y llafariad, yn dra phwysig i’w ystyried weithiau. Gwelwyd bod hyn yn arbennig o wir yn y goben acennog, lle y gwelwyd gwahaniaethau (rhai sylweddol yn achos siaradwyr Bro Dysynni) rhwng y defnydd o [e(·)] / [o(·)] o flaen clystyrau cytseiniol, a defnydd o’r un llafariad hanner caeedig o flaen cytseiniaid sengl.

Yn yr un modd, o ran deuseiniaid byrion sy’n agor ag [e] / [ɛ] neu [o] / [ɔ], ymddengys fod yr hyn sy’n ymddangos fel elfennau olaf y deuseiniaid hyn yn hollbwysig i’w ystyried. Sylwyd, er enghraifft, fod [eu] ac [ɛu] yn ymgyfnewid yn sylweddol mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog fel ei gilydd, tra bo’r defnydd a wneid o [ɛi] / [ɛi] ar y llaw arall yn sefydlog yn yr un cyd-destunau sillafog. Er bod disgrifiad fel “elfen gyntaf deusain fer mewn geiriau unsill” yn ymddangos yn benodol, felly, y mae angen bod yn fanylach na hynny hyd yn oed ar gyfer deall natur y nodwedd hon yn llwyr.

- Yr acen bwys

Yn olaf, rhaid cyfeirio hefyd at bwysigrwydd yr acen bwys, h.y. y pwyslais a roddir ar wahanol eiriau. Gwelwyd mai effeithio ar llafariad hir yn ogystal â deuseiniaid hir y mae’r ffactor hwn. Yr hyn sy’n bwysig ei bwysleisio yma, felly, yw bod llafariad “hir” mewn ffurfiau diacen megis [hɛn] “hen” a [dɔd] “dod” nid yn unig yn colli eu hyd, ond hefyd yn

newid o ran eu hansawdd. Fel yr eglurwyd eisoes, y mae ansawdd hanner agored yn llawer mwy arferol mewn llafariaid byrion (acennog) na mewn llafariaid hir (acennog). Y mae fel petai llafariaid “hir” nad ydynt o dan yr acen, felly, yn rhannol ymdebygu yn eu hansawdd i lafariaid byrion, er na ddigwydd hyn yn gyson.

Noder mai'r ffactorau hyn a nodwyd hefyd ym mhenodau 7 (7.4.1) ac 8 (8.4.1) yn achos yr ‘u ogleddol’ a’r ‘æ fain’, a’i bod yn amlwg felly nad effeithio ar y nodwedd hon yn unig y maent. Gwelwyd hefyd ym mhennod 9 (9.4.1) fod safle’r sain o fewn y gair a’r cyd-destun seinegol hefyd yn ffactorau perthnasol i ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o’r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj].

10.4.2. Ystyriaethau cymdeithasol a daearyddol

Yn wahanol i sefyllfa’r ‘u ogleddol’, lle y gall cyferbyniad rhwng [i(:)] flaen ac [i(:)] ganol newid ystyr gair yn llwyr yn y gogledd, e.e. rhwng [mi:l] “mil” a [m̄i:l] “mul”, nid yw gwahaniaeth rhwng [e(:)] / [o(:)] hanner caeedig ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)] hanner agored, e.e. rhwng [ne:b] a [n̄e:b] “neb” neu [kovjɔ] a [k̄ovjɔ] “cofio”, yn gallu newid ystyr gair mewn gwirionedd. Gellir ychwanegu nad yw’r ‘æ fain’ na’r ffrwydrolion taflodol â’r gallu i newid ystyr chwaith, ond bod siaradwyr yn aml yn ymwybodol o’r nodweddion hynny (gweler sylwadau ym mhennod 8: 8.4.2 a phennod 9: 9.4.2). Fodd bynnag, o safbwynt y llafariaid hanner caeedig / hanner agored [e(:)] / [o(:)] ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)], ni chafwyd yr argraff wrth astudio’r canlyniadau fod neb o’r siaradwyr a gafwyd yn y ddwy ardal yn rheoli eu defnydd o’r seiniau hyn. Gellir awgrymu, felly, nad yw siaradwyr o angenrheidrwydd yn ymwybodol fod y llafariaid hyn yn amrywio yn eu hiaith, ac mai nodweddion tafodieithol sy’n amlycach iddynt a reolir (ac a stigmatiddir) gan rai.

Fodd bynnag, o ran lleoli y gwahanol amrywiadau a welir yn achos y llafariaid hanner caeedig a’r rhai hanner agored, y mae’r sefyllfa’n llai clir na’r hyn a welwyd yn achos yr ‘u ogleddol’ a’r ‘æ fain’. Hyd y gwyddys, ni luniwyd map erioed yn dangos ym mha rannau o Gymru y ceir gwahanol amrywiadau ar “e” ac “o”. Er gwaetha’r ansicrwydd cyffredinol hwn ynghylch lleoliad daearyddol gwahanol amrywiadau o safbwynt y nodwedd hon, ceir er

hynny rai disgrifiadau ffonolegol sy'n berthnasol i'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn. Y bwriad yn gyntaf, felly, yw ystyried yn 10.4.2.1 sut y mae canlyniadau'r bennod hon yn cymharu â'r hyn a geir mewn astudiaethau ffonolegol eraill o ardaloedd yn y canolbarth. Eir ati wedyn yn 10.4.2.2 i geisio gweld beth yw perthnasedd canfyddiadau'r bennod hon i'r honiadau a geir mewn rhai ymdriniaethau cyffredinol â thafodieithoedd y Gymraeg ynghylch y gwahaniaethau ffonolegol a geir rhwng Cymraeg y gogledd a Chymraeg y de. Yn olaf, ymhelaethir yn 10.4.2.3 ar gymhlethdodau pellach y gellir ymchwilio iddynt yng ngoleuni canlyniadau'r bennod hon.

10.4.2.1. Y canolbarth

Trafodwyd eisoes ym mhennod 2 (2.2.4) y gwahanol safbwyntiau a geir mewn astudiaethau blaenorol a ganolbwyntiodd ar y canolbarth ynghylch defnydd gwahanol ardaloedd o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn. Nid ailadrodd popeth y bwriedir ei wneud yma, felly, ond yn hytrach dynnu sylw at y prif ddeongliadau sy'n berthnasol i'r canlyniadau a gafwyd. Bernir, felly, fod y safbwyntiau canlynol yn bwysig i'w hystyried.

- Yn gyntaf, nid yw Sommerfelt (1925) yn nodi gwahaniaeth ansawdd rhwng llafariaid hir a rhai byrion Llanbryn-Mair (yn debyg i ddeongliadau Sweet (1913) a Fynes-Clinton (1913) o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn).
- Cyferbyniol yw dehongliad Robert Owen Jones (1967) o'r sefyllfa yn Llanfachreth gan y barna fod gwahaniaeth ansawdd a gwahaniaeth hyd wastad yn cyd-fynd â'i gilydd, h.y. y llafariaid hanner caeedig [e:] ac [o:] a geir mewn llafariaid hir, a'r rhai hanner agored cyfatebol [ɛ] ac [ɔ] a geir mewn llafariaid byrion. Crynhoir y patrwm hwn yn y dyfyniad canlynol o'i eiddo:

Dyffryn Nantlle and Llanfachreth... have only two degrees of length – long and short, and the distinguishing features between different phones are qualitative and quantitative. (R. O. Jones, 1967: 92)

- *The Welsh Dialect Survey* (2000) yw'r unig astudiaeth sy'n dangos bod ymgyfnewid rhwng y llafariaid hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] a'r rhai hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] yn

bosibl yn llafariaid hir geiriau unsill ac yn llafariaid byrion y goben acennog yn y canolbarth.

O gymharu canlyniadau'r bennod hon â'r deongliadau uchod, felly, gellir dweud yn gyntaf eu bod yn hollol anghyson â'r unffurfiaeth ansawdd a honnir gan Sommerfelt (1925). Nid yw'n glir, fodd bynnag, beth yw arwyddocâd y gwahaniaeth hwnnw. Gall fod mai dulliau dadansoddi Sommerfelt a'i ddefnydd o wyddor seingol wahanol i'r IPA gyfoes sy'n egluro'r gwahaniaeth. Posibilrwydd arall yw nad oedd cymaint o amrywio ar waith rhwng [e(:)] / [o(:)] hanner caeedig ac [ɛ(:)] / [ɔ(:)] hanner agored ar waith yn ardal Llanbryn-Mair ar ddechrau'r 1920au. Yr hyn sy'n bwysig ei nodi yma, fodd bynnag, yw mai diffyg amrywio o ran y llafariaid hyn a adroddir gan Sommerfelt.

Y mae dehongliad Robert Owen Jones (1967) o'r llafariaid hyn wedyn yn cyd-fynd yn agos â'r canlyniadau a gafwyd yn achos geiriau unsill, lle y gwelwyd mai [e:] / [o:] hanner caeedig sydd fwyaf cyffredin yn llafariaid hir cyffiniau Harlech a Bro Dysynni, tra bo [ɛ] / [ɔ] hanner agored yn arferol yn llafariaid byrion yr ardaloedd hyn. Er hynny, nid yw'r unffurfiaeth a ddarlunia o safbwynt ansawdd llafariaid byrion y goben acennog yn gyson â'r amrywio helaeth a welwyd yma yn yr un cyd-destun.

Dylid pwysleisio'n olaf mai ffurfiau *The Welsh Dialect Survey* (2000) yw'r rhai sydd fwyaf cyson â chanlyniadau'r bennod hon gan yr awgrymant hwy hefyd fod amrywio yn gyffredin yn y canolbarth rhwng y llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)], nid yn unig mewn geiriau unsill, ond hefyd yn y goben acennog.

10.4.2.2. Y gogledd a'r de

Ymddengys nad yw ieithyddion yn gytûn chwaith ar y modd y ceir gwahaniaethau rhwng gogledd a de Cymru o safbwynt y llafariaid hanner caeedig / hanner agored hyn (a llafariaid eraill, o ran hynny). Yn gyntaf, honnir gan Glyn E. Jones (1984) fod gwahaniaethau sylfaenol rhwng llafariaid y de a rhai'r gogledd:

The clear qualitative differences between long and short vowels found in S[outh] W[ales] is far less marked in N[orth] W[ales], indeed, some sources have maintained that the difference between the long and short vowels in N[orth] W[ales] is exclusively one of quantity... (1984: 57)

Disgrifiad Sweet (1913) o dafodiaith Nant Gwynant ac un Fynes-Clinton (1913) o iaith dalgylch Bangor yw'r enghreifftiau a nodir yma o ddiffyg gwahaniaeth ansawdd rhwng llafariad hir a rhai byrion.²⁶⁹ Rhydd Glyn E. Jones wedyn ei safbwynt ei hun ynghylch sefyllfa gyffredinol llafariad Ynys Môn:

In Anglesey varieties of Welsh... the qualitative difference between long and short [vowels] is on the whole slight... in all vowel areas... (1984: 57)

Yn yr un modd, ymddengys fod Ball a Williams (2001) hefyd i'w gweld yn rhagdybio nad oes nemor ddim gwahaniaeth ansawdd i'w gael rhwng llafariad hir a rhai byrion y gogledd, ond bod gwahaniaeth ansawdd clir rhyngddynt yn y de. Gwelir eu bod, er hynny, yn ymwybodol nad oes consensws ar y mater. Nodir y canlynol ganddynt, ac amlygir eu dehongliad o'r sefyllfa yn niagram 1 isod.²⁷⁰

Detailed recent accounts of the articulation of northern vowels are not easily found... and... disagreement exists as to whether both qualitative and quantitative differences occur between vowel pairs. Assuming only length differences are found, the vowels can be placed on the [following] vowel diagram... (2001: 36)

Y mae hefyd yn werth atgynhyrchu y diagram cyfatebol a geir ganddynt ar gyfer llafariad y de gan ei fod yn amlygu'r gwahaniaeth a ragdybir ganddynt rhwng y ddwy ran hyn o Gymru.

²⁶⁹ Ceir gan Martin J. Ball (1981 / 82) hefyd ymdriniaeth â'r gweithiau cynnar hyn, lle y manylir yn benodol ar ddisgrifiadau Sweet a Fynes-Clinton (ymhlith eraill) o wahanol lafariad Cymraeg llafar.

²⁷⁰ Gwelir yn y diagram hwn mai'r un symbolau, sef [e(:)] ac [o(:)], a ddefnyddir ar gyfer llafariad hir a rhai byrion y gogledd. Dylid pwysleisio er hynny nad yw'n eglur pam mai defnydd cyson o lafariad hanner caeedig yn y gogledd a ragdybir yma gan Ball a Williams. Dehonglwyd hyn efallai ar sail honiad Glyn E. Jones (1984) fod y gwahaniaeth ansawdd amlwg a geir rhwng llafariad hir a rhai byrion y de yn 'far less marked' yn y gogledd (gweler uchod). Er hynny, gellir barnu ei bod yr un mor debygol mai cyfeirio at ansawdd mwy hanner agored cyson y mae Glyn E. Jones, ac nad yw'n honni bod llafariad byrion y gogledd yn gyffredinol fwy caeedig na rhai y de.

Diagram 1: Llafariaid y gogledd (Ball a Williams, 2001: 36)




Figure 3.2 Main variants of the vowel phonemes of northern Welsh

Diagram 2: Llafariaid y de (Ball a Williams, 2001: 35)




Figure 3.1 Main variants of the vowel phonemes of southern Welsh

Fodd bynnag, y mae'n briodol cyfeirio yn olaf at waith acwstig a gyflawnwyd yn ddiweddar gan Mayr a Davies (2011). Amcan yr astudiaeth hon oedd archwilio i wahaniaethau seinogol rhwng llafariaid y gogledd a rhai'r de. Gwnaed hyn drwy gael ugain siaradwr brodorol gwrywaidd rhwng 18 a 21 oed i ynganu setiau o eiriau targed. Yr oedd deg o'r siaradwyr hyn o'r gogledd (Gwynedd / Ynys Môn), tra ddi y deg siaradwr arall o Dde Cymru (Sir Gaerfyrddin / Abertawe). Ar sail eu dadansoddiad manwl o iaith y siaradwyr hyn, felly, y mae'n dra diddorol mai un o'u canfyddiadau pennaf oedd bod llafariaid hir a rhai byrion yn

gwahaniaethu yn eu hansawdd yn ogystal â'u hyd yn y ddwy ran o Gymru, yn wahanol i'r hyn a awgrymir gan ymdriniaethau blaenorol â llafariaid y Gymraeg. Meddir:

In conformity with descriptive accounts ([G. E.] Jones 1984, Ball & Williams 2001), Southern Welsh was found to distinguish pairs of vowels on the basis of both spectrum [i.e. quality] and duration. Interestingly, however, this pattern also appears to hold true for Northern Welsh, despite the fact that Northern Welsh monophthongs are typically reported as being distinguished on the basis of duration alone... The empirical data of the present study are hence at odds with the claims of descriptive studies... An implication of this finding is that the symbols used to represent Southern Welsh monophthongs may also be appropriate for those of Northern Welsh. (Mayr a Davies, 2011: 18)

Gan mai canolbwyntio yn llwyr ar eiriau unsill a wneir yn astudiaeth Mayr a Davies, gellir barnu mai'r dehongliad hwn sy'n cyd-fynd orau â'r canlyniadau a welwyd yn y bennod hon o safbwynt defnydd siaradwyr ardal Harlech a rhai Bro Dysynni o'r seiniau hanner caeedig / hanner agored yn llafariaid syml geiriau unsill. Er hynny, y mae'n werth ychwanegu mai un arall o ganfyddiadau gwaith acwstig Mayr a Davies oedd bod ansawdd y llafariaid hir /e:/ ac /o:/ ar y cyfan yn sylweddol fwy agored yn y gogledd nag ydoedd yn y de. Cynigir ganddynt reswm posibl am hyn:

... the mid vowels /e:/ and /o:/ were found to be characterized by significantly higher F1 values in Northern Welsh than in Southern Welsh... The more open realization of /e:/ is perhaps a result of the relatively crowded high-to-mid front vowel space in this variety. In other words, this vowel may be produced with higher F1 values in order to maintain contrastivity with the high front and high central vowels. In Southern Welsh, on the other hand, /e:/ remains distinctive despite its comparatively close realization, due to the absence of /i:/ and /i/ in this variety. Note, however, that this hypothesis does not explain the observed differences in vowel height for /o:/ since the back vowel space is not crowded in either variety. Perhaps, the relatively more open realization of /o:/ in Northern Welsh is a result of vowel height harmonic processes by analogy with /e:/. (Mayr a Davies, 2011: 19)

Er yr awgrymir yma y gallasai [ɔ:] ôl hanner agored fod wedi dod i fodolaeth drwy gydweddiad â defnydd o'r [ɛ:] flaen gyfatebol, tuedda'r ddamcaniaeth hon i fod yn anghyson â chanlyniadau'r bennod hon (yn enwedig ar gyfer ardal Harlech), lle y gwelwyd defnydd cyffredinol helaethach o [ɔ:] hanner agored nag o [ɛ:] hanner agored.

Yn olaf, gellir barnu mai un o anfanteision yr astudiaeth acwstig hon, fel yn achos yr ymdriniaethau cyffredinol eraill â llafariaid y de a'r gogledd, yw ei bod i'w gweld yn rhagdybio na all ansawdd llafariaid hir neu rai byrion amrywio o fewn llafar yr unigolyn. Y mae fel petai tuedd gan Mayr a Davies hefyd i gyffredinoli ynghylch llafariaid hir a rhai byrion y de a'r gogledd, er mai ffurfiau unsill yn unig a ddadansoddwyd. Dangoswyd yn y bennod hon, fodd bynnag, nad yw ystyried hyd llafariad yn ddigonol ar gyfer dadansoddi'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored yn fanwl, a bod gwahaniaeth trawiadol iawn rhwng llafariaid byrion geiriau unsill a rhai byrion y goben acennog. Diau y gallai astudiaeth acwstig debyg a archwiliai i lafariaid y goben acennog fod yn ddadlennol, felly, ac y gallai ddangos nad oes raid cael cydberthynas rhwng hyd ac ansawdd, h.y. bod modd, er enghraifft, i [e] / [o] hanner caeedig fod yn fyr, ac i [ɛ(:)] / [ɔ(:)] hanner agored fod yn hir.

10.4.2.3. Arwyddocâd posibl canlyniadau'r bennod hon

Rhaid gofyn i gloi a oes unrhyw arwyddocâd neu oblygiadau i'r gwahaniaethau a welwyd rhwng defnydd siaradwyr ardal Harlech ac eiddo siaradwyr Bro Dysynni o'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored. Un posibilrwydd tebygol yw bod gwahaniaethau rhwng defnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r llafariaid hyn gan fod iaith y naill ardal yn fwy gogleddol na'r llall. Mewn geiriau eraill, gellid disgwyl i ddefnydd o elfennau nodweddiadol "ganolbarthol" fod yn is yn ardal Harlech nag ym Mro Dysynni. O ddilyn y rhesymeg hon, gellir dadlau ar sail y canlyniadau a welwyd fod defnydd o'r elfennau canlynol yn fwy cyffredin yn y canolbarth nag ydynt yn y gogledd.

- Defnydd cyson o [e:] / [o:] hanner caeedig mewn geiriau unsill acennog (fel llafariad syml ac elfen gyntaf mewn deusain).

Gwelwyd bod defnydd siaradwyr Bro Dysynni o'r seiniau hyn yn dra sefydlog, tra bo amrywio rhyngddynt ag [ɛ:] / [ɔ:] hanner agored yn fwy cyffredin yn ardal Harlech, er mai [e:] / [o:] a oedd fwyaf arferol yno hefyd (gweler, er enghraifft, graffiau 10.31, 10.32 a 10.41).

- Cryn amrywio yn y goben acennog rhwng [e(·)] / [o(·)] hanner caeedig ac [ɛ] / [ɔ] hanner agored **pan geir cytseiniaid sengl yn dilyn.**

Gwelwyd bod y defnydd o'r llafariaid hanner caeedig yn y cyd-destun seinegol penodol hwn gryn dipyn yn uwch ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech (gweler graffiau 10.39 a 10.40).

- Defnydd uchel o'r ddeusain [eu] mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog.

Dangoswyd bod defnydd cyffredinol Bro Dysynni o'r ddeusain hon yn sylweddol uwch na'r hyn a gafwyd yn ardal Harlech (gweler graffiau 10.44 a 10.45).

Er bod modd ystyried cyffiniau Harlech yn llai canolbarthol na Bro Dysynni ar sail y canfyddiadau hyn, dylid pwysleisio y gall defnydd siaradwyr ardal Harlech fod yn wahanol iawn i'r hyn a geir ar waith ymhellach i'r gogledd, e.e. yn Sir Gaernarfon neu yn Ynys Môn. Yn wir, un posibilrwydd tebygol yw ein bod yn ymdrin â chontinwmm lle y mae ffurfiau nodweddiadol ganolbarthol yn graddol ddarfod wrth deithio tua'r gogledd. Gall fod yn bosibl, er enghraifft, i'r defnydd o [ɛ:] / [ɔ:] hanner agored gynyddu wrth deithio ymhellach i'r gogledd-orllewin, e.e. i Sir Gaernarfon neu Ynys Môn. Gwaith pellach yn unig a ddengys ai gwir fo hyn ai peidio.

Fodd bynnag, y mae un canlyniad trawiadol a gafwyd yn cymhlethu'r ddamcaniaeth hon rywfaint. Hyd yma, gwelwyd bod y defnydd o'r llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] yn gyffredinol uwch mewn sawl cyd-destun ym Mro Dysynni nag ydoedd yn ardal Harlech. Sylwyd, er hynny, ar eithriad pwysig i'r patrwm hwn, sef

- Bod cryn amrywio yn y goben acennog yn ardal Harlech rhwng [e] / [o] hanner caeedig ac [ɛ] / [ɔ] hanner agored **pan geir clystyrau cytseiniol yn dilyn**, tra bo [e] / [o] yn dra phrin neu'n hollol absennol yn iaith siaradwyr Bro Dysynni yn yr un cyd-destun seinegol (gweler graffiau 10.37 a 10.38).

Nid gwahaniaeth bychan rhwng lefelau'r ddwy ardal a welir yma, felly. Awgrymir yn hytrach fod strwythur ffonolegol sylfaenol y ddwy dafodiaith o safbwynt y llafariaid hyn yn wahanol i'w gilydd. Ymddengys, felly, y gall defnydd o [e] / [o] hanner caeedig yn y cyddestun seinegol penodol hwn fod yn fwy o ffenomen ogleddol nag un ganolbarthol. Er hynny, hyd y gwyddys, ni chyfeiriwyd at ddefnydd o ffurfiau megis [*vedrɔχ] “medrŵch” a [kovjɔ] “cofio” mewn tafodieithoedd gogleddol erioed o'r blaen. Y mae angen gwneud llawer yn rhagor o waith maes a dadansoddi gofalus mewn ardaloedd eraill, felly, cyn y gellir gwybod sut yn union y mae'r llafariaid hyn yn patrymu yn y goben acennog ar hyd y gogledd a'r canolbarth. Gallai astudiaethau acwstig tebyg i un Mayr a Davies (2011) hefyd fod yn ddadlennol, yn enwedig pe canolbwyntid ar ansawdd y llafariaid hyn yn y goben acennog.

10.4.3. Datblygiad pellach yn sgil amrywio rhwng [ɛ] / [ɔ] ac [e] / [o]

Cynigiwyd ym mhenodau 7 (7.4.3) ac 8 (8.4.4) y gall amrywio rhwng dwy sain, e.e. rhwng [i(:)] gaeedig ganol ac [i(:)] gaeedig flaen, arwain at ddatblygiadau ffonolegol eraill, e.e. newid yn hyd rhai deuseiniaid. Rhaid holi i gloi, felly, a yw amrywio rhwng [ɛ] / [ɔ] hanner agored ac [e] / [o] hanner caeedig yn arwain at newidiadau tebyg yn strwythur gwahanol dafodieithoedd.

Gwelwyd eisoes ym mhennod 4 (4.1.2.1.3) mai ym Mro Dysynni yn unig y cafwyd enghreifftiau o lafariaid hanner hir yn ymddangos yn y goben acennog mewn geiriau brodorol Gymraeg,²⁷¹ a'u bod wastad yn amrywio â llafariaid byrion o'r un ansawdd, e.e.

[gwɛnar] ~ [gwe·nær] “Gwener”

[kodi] ~ [ko·di] “codi”

²⁷¹ Eithriadau yw benthyciadau Saesneg fel [be·kən] *bacon* a [sdro·bri] *strawberry* a gafwyd yn ardal Harlech. Dylid pwysleisio hefyd nad yw'n ymddangos bod cysylltiad rhwng llafariaid hanner hir y goben acennog (a geir ym Mro Dysynni yn unig) a'r rhai hanner hir a geir mewn ffurfiau unsill (yn y ddwy ardal). Gan mai'r llafariaid agored [æ·] / [a·] yn unig (e.e. yn [mæ·m] “mam” a [*bla·nt] “plant”) sy'n hanner hir mewn geiriau unsill, ystyrir mai datblygiad hollol wahanol a roes fod i lafariaid hanner hir yn y goben acennog.

Y mae'n werth pwysleisio yma na chafwyd enghreifftiau o'r llafariaid hanner agored [ɛ] ac [ɔ] a chanddynt hyd hanner hir ym Mro Dysynni.²⁷²

Awgrymir yma, felly, mai'r llafariaid hanner caeedig byrion [e] ac [o] a geir yn y lle cyntaf (efallai ar ôl cyfnod yn amrywio ag [ɛ] / [ɔ] hanner agored) ac mai'r ansawdd hanner caeedig sydd wedyn yn esgor ar hyd. Yn wir, gan fod y llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] yn amlwg gysylltiedig â llafariaid hir yng ngeiriau unsill Bro Dysynni, e.e. yn [he:n] "hen" a [mo:r] "môr", gellir cynnig mai cam naturiol ydyw i [e] / [o] byrion ddatblygu rhywfaint o hyd yn y goben acennog hefyd. Y mae'n bosibl hefyd i'r hyd hanner hir a geir yn y goben acennog yn [e·] ac [o·] ymestyn i llafariaid eraill, ac mai dyna pam y ceir ffurfiau megis [bri·vɔ] "brifo" a [ka·ni] "canu" yn ymddangos (gweler pennod 4: 4.1.2.1.3).

Dylid pwysleisio, er hynny, fod enghreifftiau o ymgyfnewid rhwng llafariaid byrion o wahanol ansoddau, e.e. yn [peθa] ~ [pɛθa] "pethau" ac [oχɔr] ~ [ɔχɔr] "ochr", yn fwy lluosog ym Mro Dysynni nag ydyw amrywio o ran hyd, e.e. yn [gwe·nær] ~ [gwenar] "Gwener" a [ko·di] ~ [kodi] "codi". Awgryma hyn efallai y gallasai llafariaid hanner hir ddod yn fwy cyffredin yn y dyfodol, neu'n gyson eu defnydd mewn rhai geiriau hyd yn oed. Ceisir, felly, grynhoi camau posibl y broses hon yn nhabl 1 isod. Dylid pwysleisio mai damcaniaethu ar sail y data a gafwyd a wneir yma, nid ar sail unrhyw dystiolaeth hanesyddol.

²⁷² Y mae'n briodol yn y cyswllt hwn ddyfynnu troednodyn gan Glyn E. Jones sy'n cofnodi un o arsylwadau Peter Wynn Thomas ynghylch perthynas hyd ac ansawdd llafariaid yn y goben acennog: '... [Peter Wynn Thomas] informs me that he has observed instances of the length factor being omitted in the penultimate which suggests that of the qualitative and quantative (*sic*) features which mark the close long vowels it may be that it is the qualitative which is primary' (Glyn E. Jones, 1984: 63). Nid yw'r ardal sydd o dan sylw yn hysbys, ysywaeth.

Tabl 1

→ AMSER →			
Y gorffennol?	Bro Dysynni heddiw		Y dyfodol?
Defnydd cyson o'r llafariaid byrion hanner agored [ɛ] / [ɔ] yn y goben acennog	Amrywio rhwng [ɛ] / [ɔ] hanner agored ac [e] / [o] hanner caeedig yn y goben acennog	Y llafariaid hanner caeedig [e] / [o] yn amrywio ag [e·] / [o·] hanner hir yn y goben acennog	Defnydd cyson o [e·] / [o·] hanner hir yng ngoben acennog rhai geiriau
[gwɛnar] "Gwener"	[gwɛnar] ~ [gwɛnar]	[gwɛnar] ~ [gwe·nar]	[gwe·nar]
[kɔdi] "codi"	[kɔdi] ~ [kodi]	[kodi] ~ [ko·di]	[ko·di]

10.4.4. Y cam nesaf

Eir ati yn y bennod nesaf i drafod goblygiadau'r canlyniadau a gyflwynwyd hyd yma, gan egluro beth yw eu pwysigrwydd i dafodieitheg a sosioieithyddiaeth yn gyffredinol.

PENNOD 11: Trafodaeth

11. Cyflwyniad

Amcan y bennod hon yw adeiladu ar y canlyniadau a drafodwyd yn fanwl ym mhenodau blaenorol Adran C y traethawd hwn. Rhoddir sylw yn gyntaf yn 11.1 i'r modd y mae canlyniadau'r penodau blaenorol yn dadlennu pwysigrwydd dulliau meintiol o ddadansoddi amrywiadau ffonolegol, gan ymdrin hefyd â'u goblygiadau i dafodieitheg a sosioieithyddiaeth yn gyffredinol. Trafodir wedyn yn 11.2 sut y gall astudio'r modd y mae gwahanol seiniau yn ymgynwedd â'i gilydd awgrymu gwahanol ddatblygiadau hanesyddol. Yn dilyn hynny, eir ati yn 11.3 i holi sut y mae diffinio beth yw tafodiaith yng ngoleuni canlyniadau cymhleth yr astudiaeth hon. Yn olaf, awgrymir yn 11.4 astudiaethau pellach a fyddai'n adeiladu ar ganfyddiadau'r gwaith hwn.

11.1. Pwysigrwydd dulliau meintiol

Amcan yr adran hon yw tanlinellu pa mor bwysig fu defnyddio dulliau meintiol o ddadansoddi yn yr astudiaeth hon ar gyfer taflu goleuni newydd ar natur amrywiadau ffonolegol yng nghanolbarth Cymru. Ymdrinnir i ddechrau yn 11.1.1, felly, â'r diffyg unffurfiaeth ieithyddol a ddaeth i'r amlwg yn y canlyniadau a gafwyd. Eir ati wedyn yn 11.1.2 i gloriannu pwysigrwydd dylanwad ffactorau ieithyddol ar ddefnydd siaradwyr y ddwy ardal o'r nodweddion ffonolegol a astudiwyd. Yn y ddwy isadran hyn hefyd, trafodir goblygiadau canfyddiadau'r astudiaeth hon i faes sosioieithyddiaeth yn gyffredinol, cyn y crynhoir yn olaf y gwersi pwysig a ddysgwyd o wneud gwaith meintiol yn 11.1.3.

11.1.1. Diffyg unffurfiaeth ieithyddol

Dylid pwysleisio yn gyntaf nad trawstoriad eang o siaradwyr o wahanol gefndiroedd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Yr hyn a gafwyd yn hytrach oedd siaradwyr a berthynai i genedlaethau hynaf ardaloedd Harlech a Bro Dysynni, ac a oedd ar y cyfan yn dra thebyg o ran eu cefndir cymdeithasol, addysgol a diwylliannol (gweler eu manylion yn llawn ym mhennod 3: 3.2.3). Yn wir, gellir barnu nad yw'r siaradwyr a gafwyd yn annhebyg i'r 'NORMS' ('non-mobile older rural males') a ddefnyddiwyd mewn astudiaethau tafodieithogol traddodiadol,²⁷³ ond bod niferoedd cyfartal o ddynion a merched yn sail i ddadansoddiadau'r astudiaeth hon. O'r dechrau, felly, derbyniwyd na allai iaith y grwpiau ymddangosiadol unffurf hyn o siaradwyr fod yn gynrychioliadol o Gymraeg eu cymunedau yn eu cyfanrwydd. Yr oeddwn, er hynny, yn awyddus i weld pa mor unffurf oedd iaith y grwpiau penodol hyn o siaradwyr, h.y. pa mor gynrychioliadol yr oedd gwahanol unigolion o garfan neilltuol o fewn eu hardaloedd.

Gellir dweud, felly, ei bod yn gwbl eglur oddi wrth ganlyniadau'r astudiaeth hon nad yw siaradwyr y ddwy ardal dan sylw yn agos at fod yn unffurf yn ieithyddol. Yn wir, gwelwyd

²⁷³ Eithriad, er hynny, yw C.D gan iddo adael Bro Dysynni am Loegr yn ei ieuenctid cynnar, gan ddychwelyd wedyn i ymddeol ym mro ei febyd. Gellir barnu, er hynny, na fu dylanwadau tafodieithoedd eraill ar ei Gymraeg, a bod y canlyniadau yn cadarnhau bod ei Gymraeg yn gwbl nodweddiadol o dafodiaith Bro Dysynni.

amrywiaeth eang o sgorau a phatrymau ymhlith siaradwyr o'r ddwy ardal, a hynny er gwaetha'r ffaith eu bod yn debyg o ran oedran a chefnidir cymdeithasol. Y mae'n dra phriodol yma, felly, ein hatgoffa ein hunain o farn Glyn E. Jones ynghylch natur y sampl a gafodd yn Sir Frycheiniog:

Gwelir bod y siaradwyr yn grŵp tra unffurf ei natur... Bid sicr y mae gwendidau yn y math hwn o gasglu a disgrifio a dehongli: nid yw'n samplo cynrychioliadol o ran oedran na chefnidir addysgol nac economaidd o holl siaradwyr y gymuned ac ni rydd gyfrif am wahaniaethau ieithyddol y gall y ffactorau hynny eu peri. Fodd bynnag y mae llawer yn dibynnu ar gyd-destun ieithyddol a sosio-economaidd y gymdeithas a fydd dan sylw ac i ddiben yr astudiaeth hon y mae rhinwedd i unffurfiaeth y siaradwyr gan ei bod yn rhoi corpws o ddata y gellir cyffredinoli amdano: fe'i casglwyd dan yr un amodau ac oddi wrth siaradwyr cyffelyb o ran eu nodweddion sosio-economaidd a diwylliannol. (G. E. Jones, 2000: 2-3)

Fodd bynnag, y mae canlyniadau'r traethawd hwn yn cadarnhau nad yw natur ymddangosiadol unffurf grŵp o siaradwyr yn rhwym o arwain at unffurfiaeth ieithyddol. Nid yw tebygrwydd cymdeithasol grwpiau, felly, yn cyfiawnhau cyffredinoli ynghylch gwahanol dafodieithoedd.

Er bod y siaradwyr yn debyg o ran oedran a chefnidir cymdeithasol a diwylliannol, gellid dadlau er hynny eu bod yn rhanedig o safbwynt rhywedd gan y cafwyd niferoedd cyfartal o ddynion a merched yn y ddwy ardal. Y mae'n ddiddorol er hynny nad yw'n ymddangos oddi wrth y canlyniadau a gafwyd fod y ffactor cymdeithasol hwn yn ddigon i roi cyfrif am yr amrediad o sgorau a gafwyd yn y ddwy ardal. Yn sicr, ni cheir awgrymiadau fod dynion a merched yn perthyn i garfannau gwahanol o ran eu defnydd o'r nodweddion ffonolegol a ddadansoddwyd.²⁷⁴ Y mae'r canfyddiad hwn, felly, yn ddadlennol, yn enwedig gan fod nifer

²⁷⁴ Ystyrier, er enghraifft, y defnydd o'r 'æ fain' mewn llafariaid hir ym Mro Dysynni (gweler graff 8.15 pennod 8: 8.2.1.1), lle y gwelir bod sgorau uchel iawn C.D a G.E.T (dau ddyn) a rhai B.R ac R.P (dwy fenyw) yn drawiadol o debyg i'w gilydd, tra bo'r sgorau'n sylweddol is gan E.W (benyw) a M.V (dyn) oherwydd bod y nodwedd hon o dan reolaeth (i raddau gwahanol) ganddynt. Yn yr un modd, ni cheir cydberthynas amlwg rhwng rhywedd siaradwyr ardal Harlech a'u defnydd o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] ar ddechrau'r goben acennog (gweler graff 9.3 pennod 9: 9.1.2). Er mai sgorau J.E a T.R (dau ddyn) sydd uchaf yn yr achos hwn, a bod E.J (benyw) â'r sgôr isaf posibl (0%), gwelir er hynny fod sgorau G.J a C.R (dwy fenyw) yn uwch nag eiddo D.O (dyn).

o astudiaethau sosioieithyddol (gweler, er enghraifft, Labov, 1966; C. Jones, 1989 a Chambers a Trudgill, 1998) yn pwysleisio bod gwahaniaethau ieithyddol pwysig rhwng dynion a merched.²⁷⁵

Y mae'n werth pwysleisio yma, felly, mai drwy ddulliau meintiol o ddadansoddi amrywiadau ffonolegol y dangoswyd nad oedd iaith y grwpiau a astudiwyd yn y ddwy ardal yn unffurf. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y dulliau hyn, felly, na chwaith y modd y cadwyd data pob siaradwr ar wahân i'w gilydd. Gellir nodi yn y cyswllt hwn mai ar gyfer amlygu gwahaniaethau ieithyddol rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol y mae sosioieithyddion fel rheol yn defnyddio dulliau meintiol o ddadansoddi. Yn yr astudiaeth hon, fodd bynnag, dangoswyd bod dadansoddiadau meintiol yr un mor effeithiol ar gyfer dangos nad yw siaradwyr ymddangosiadol debyg a berthynai i'r un grwpiau cymdeithasol yn unffurf yn ieithyddol. Diau fod i'r canfyddiad hwn, felly, oblygiadau pellgyrhaeddol i faes sosioieithyddiaeth yn gyffredinol. Yn sicr, gosodir yma sail i ymchwilyr eraill fynd ati i ganfod a oes amrywio ffonolegol helaeth ar waith ymhlith grwpiau eraill sy'n ymddangos yn debyg o ran eu nodweddion cymdeithasol, boed hynny mewn ardaloedd eraill o Gymru, neu yn achos ieithoedd eraill. Gellir dadlau hefyd fod angen i sosioieithyddion gadw data unigolion ar wahân i'w gilydd er mwyn peidio â rhagdybio ar unwaith fod eu hiaith yn gynrychioliadol o grwpiau penodol.

11.1.2. Dylanwad ffactorau ieithyddol

Un arall o ganfyddiadau cwbl greiddiol yr astudiaeth hon yw bod ddefnydd pob un o siaradwyr y ddwy ardal o'r nodweddion ffonolegol a astudiwyd wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan ffactorau ieithyddol penodol sy'n cydblethu. Y rhai a oedd yn allweddol i'w hystyried ar gyfer deall natur yr amrywiadau ffonolegol y canolbwyntiwyd arnynt yn yr astudiaeth hon oedd:

²⁷⁵ Derbynnir, er hynny, nad yw'r sampl a gafwyd yn y ddwy ardal yn fawr iawn, ac y gallai niferoedd uwch o siaradwyr arwain ar ddarlun gwahanol o'r sefyllfa.

- Hyd y sain (boed yn hir neu'n fyr)
- Safle'r sain o fewn y gair (h.y. y cyd-destun sillafog)
- Y cyd-destun seinegol (h.y. yr hyn sy'n dilyn y sain)
- Y math o air sydd o dan sylw (boed yn eitem eirfaol ystyrllon neu'n air gramadegol)
- Yr acen bwys (h.y. a yw'r gair o dan bwyslais ai peidio)

Manylwyd eisoes ar yr union fodd y gwelir y ffactorau ieithyddol hyn yn dylanwadu ar ddefnydd siaradwyr ardal Harlech a rhai Bro Dysynni o'r pedair nodwedd yr archwiliwyd iddynt (gweler 7.4.1, 8.4.1, 9.4.1 a 10.4.1).²⁷⁶

Y mae'n werth pwysleisio yma mai drwy ddefnyddio dulliau meintiol o ddadansoddi amrywiadau ffonolegol y daeth gwahanol effeithiau y ffactorau ieithyddol uchod i'r amlwg. Gellir bod yn sicr hefyd na fyddai pwysigrwydd y ffactorau hyn wedi ei amlygu ei hun oni bai am fy mhenderfyniad gwreiddiol i gadw data gwahanol gyd-destunau ieithyddol ar wahân i'w gilydd. Diau y bu'n fuddiol, felly, ymwrthod â ffonemau yn yr astudiaeth hon gan fod hynny'n fodd o beidio â rhagfarnu beth fyddai perthynas gwahanol seiniau â'i gilydd. Gellid glynu wrth adysgrifiad seinegol llydan drwy gydol yr astudiaeth, felly, gan ddadansoddi gwahanol gyd-destunau ieithyddol yn annibynnol ar ei gilydd. Caniatâi hynny wedyn i batrymau amrywio dadlennol ddod i'r amlwg. Gellir ychwanegu yn y cyswllt hwn na fyddai niferoedd na chanrannau gwahanol sylweddoliadau seinegol yn berthnasol i theori ffonemig ar y llaw arall, ac y byddai gosod y deunydd a gafwyd o fewn fframwaith ffonemig yn rhwym o gelu tueddiadau a phatrymau ffonolegol cymhleth yn hytrach na thaflu goleuni pellach arnynt.

Y mae'n ddi-ddorol fod Petyt (1980: 108) yn pwysleisio na roddai tafodieithegwyr na ieithyddion yn gyffredinol lawer o bwys ar amrywiadau fel y cyfryw hyd nes ail hanner yr ugeinfed ganrif. Noda er hynny fod dwy agwedd yn gyffredin tuag at amrywio cyn hynny. Y naill oedd ei anwybyddu'n llwyr, h.y. esgus nad oedd amrywiadau yn rhan o'r system 'normal' neu 'draddodiadol'. Yr agwedd gyffredin arall oedd defnyddio'r term 'amrywio rhydd' er mwyn rhoi cyfrif am amrywiadau o bob math. 'Amrywio'n ddi-ammod' yw'r term

²⁷⁶ Noder er hynny nad yw pob un o'r ffactorau hyn yn berthnasol i bob nodwedd.

arall a ddefnyddir yn nhraethawd D. W. Griffiths (1974). Yn amlwg, y mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn profi bod yr agweddau hyn tuag at amrywio yn hollol annigonol gan y dangosant yn glir nad eithriadau neu achosion mympwyol o amrywio ar hap yw'r ymgynnewid a welir rhwng dwy sain. Yn wir, gan y gwelwyd yn y gwaith hwn fod gwahanol batrymau amrywio yn 'gaeth' neu wedi eu 'hamodi' i raddau helaeth gan gyd-destunau ieithyddol, gellir dadlau bod lle i amau a oes y fath beth ag 'amrywio rhydd' fel y cyfryw.

Yn olaf, gan y dangoswyd bod y ffactorau ieithyddol uchod yn berthnasol i'w hystyried yn achos pob un o'r pedair nodwedd ffonolegol a ddadansoddwyd (a hynny yng nghyffiniau Harlech a Bro Dysynni fel ei gilydd), diau y byddai'r un ffactorau, neu rai tebyg iddynt, yn bwysig hefyd ar gyfer dadansoddi yr un nodweddion mewn ardaloedd eraill. Gellir mynd yn bellach na hynny hefyd drwy gynnig y gallai ffactorau ieithyddol (boent yn debyg neu'n wahanol i'r rhai a nodwyd) fod yn allweddol wrth archwilio i ddefnydd siaradwyr o nodweddion ffonolegol eraill, boed hynny yn yr un rhanbarth, mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, neu yn achos ieithoedd eraill hyd yn oed.

Yn sicr, y mae i ddylanwad gwahanol ffactorau ieithyddol ar nodweddion ffonolegol oblygiadau hollbwysig i faes sosioieithyddiaeth yn gyffredinol. Yn wir, ymddengys fod y dyfyniad canlynol o eiddo Petyt (1980) yn awgrymu fod rhai astudiaethau sosioieithyddol sy'n glynu wrth ddulliau Labovaidd o ddadansoddi yn cymryd yn ganiataol mai'r un patrymau ffonolegol a geir ar waith mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol.²⁷⁷ Meddir:

... it is claimed [by Bailey and Bickerton] that there is actually much *less* variation in a community than appears to be the case from the Labovian method of averaging scores for groups of speakers. If *individuals* are examined, and the different linguistic environments are carefully distinguished, it will emerge that most features are categorical, and that alternation between old and new categorical rules (i.e. variation) is much less than had been thought. Bickerton..., discussing a feature of Montreal French, shows that when data is examined for individual speakers and specific environments, the amount of variation is 22 per cent; but if environments are lumped together variation appears to be 57 per cent; and if individuals were grouped together the figure would be even higher. So a lot of the

²⁷⁷ Gellir ychwanegu fod y dyfyniad hwn hefyd yn amlygu bod tuedd gan rai sosioieithyddion i beidio â dadansoddi data unigolion ar wahân i'w gilydd. Gweler fy sylwadau yn 11.1.1 ar yr angen i beidio â chymryd yn ganiataol fod unffurfiaeth ieithyddol i'w chael gan grwpiau o siaradwyr sy'n debyg yn gymdeithasol.

‘variation’ found in Labov-type studies is in fact an artefact of the method of analysis. (Petyt, 1980: 195)

Nid y canrannau fel y cyfryw sy’n berthnasol i’r drafodaeth hon, ond yn hytrach y modd yr amlygir yma nad yw gweithiau sosioieithyddol o angenrheidrwydd yn rhoi pwys ar gadw sgorau gwahanol gyd-destunau ar wahân i’w gilydd, ac mai “lympio” rhain ynghyd a wneir yn aml. Gan y gwelwyd sawl gwaith yng nghanlyniadau’r astudiaeth hon, fodd bynnag, nad y sgorwr uchaf mewn un cyd-destun ieithyddol a sgoriai uchaf mewn un arall, gellir bod yn sicr y byddai cymysgu canlyniadau gwahanol gyd-destunau yn rhwym o greu camargraff lwyr o’r tueddiadau a allai fod ar waith yn achos gwahanol nodweddion.

Neges sylfaenol yr astudiaeth hon, felly, yw bod angen i astudiaethau sosioieithyddol ystyried ffactorau ieithyddol yn ogystal ag ystyriaethau cymdeithasol wrth geisio rhoi cyfrif am batrymau amrywio. Er mwyn gwneud hyn, felly, dylai sosioieithyddion gadw data gwahanol gyd-destunau ieithyddol ar wahân i’w gilydd er mwyn peidio â rhagfarnu bod nodweddion ffonolegol yn rhwym o ymddwyn mewn modd tebyg, ni waeth beth fo’u sefyllfa. Oni wneir hynny, gellir dadlau ei bod yn dra thebygol mai canlyniadau annilys a chamarweiniol a geir. Yn sicr, awgryma canfyddiadau’r astudiaeth hon yn gryf na ddylid rhagdybio bod ffactorau cymdeithasol yn ddigon ar eu pennau eu hunain i gyfrif am amrywiadau ieithyddol unrhyw gymuned o siaradwyr.

11.1.3. Crynodeb

I grynhoi, gellir barnu bod dwy wers allweddol bwysig a phellgyrhaeddol eu goblygiadau yn deillio o’r dadansoddiadau meintiol a gyflawnwyd, ac fe’u nodir isod.

1. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod siaradwyr ymddangosiadol debyg y gellir eu dosbarthu mewn un grŵp cymdeithasol yn unffurf yn ieithyddol. Dylai tafodieithegwyr a sosioieithyddion, felly, gadw data gwahanol unigolion ar wahân i’w gilydd er mwyn gweld yn y lle cyntaf faint o unffurfiaeth ieithyddol a geir o fewn eu grwpiau cymdeithasol.

2. Ni ddylid chwaith gymryd yn ganiataol fod nodweddion ffonolegol penodol yn rhwym o ymddwyn mewn modd tebyg ni waeth beth fo'r cyd-destun ieithyddol. Y mae angen i dafodieithegwyr a sosioieithyddion, felly, rannu'r data a geir ar gyfer gwahanol nodweddion yn gyd-destunau ieithyddol penodol cyn dadansoddi defnydd siaradwyr ohonynt.

Mewn gwirionedd, yr un yw byrdwn y ddwy wers uchod, sef na ddylid rhagfarnu mai'r un patrymau ffonolegol a geir ym mhob achos, boed hynny ymhlith gwahanol unigolion, neu mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol.

11.2. Datblygiadau hanesyddol

Rhoddir sylw yn yr adran hon i'r modd y mae'r canlyniadau a gafwyd yn awgrymu gwahanol drywyddau hanesyddol. Trafodir yn gyntaf yn 11.2.1, felly, sut y gall patrymau amrywio gwahanol ardaloedd trawsnewid fod yn berthnasol i ddatblygiadau ffonolegol yn y gorffennol. Manylir wedyn yn 11.2.2 ar yr awgrymiadau a gafwyd bod modd i amrywio ffonolegol arwain at ailstrwythuro gwahanol dafodieithoedd. Rhoddir sylw yn olaf yn 11.2.3 i arwyddocâd posibl y cyfatebiaethau ffonolegol a geir rhwng iaith lafar canolbarth Cymru a thafodieithoedd traddodiadol de-ddwyrain Cymru.

11.2.1. Arwyddocâd amrywio ffonolegol mewn ardaloedd trawsnewid

Daeth i'r amlwg yng nghwrs yr astudiaeth hon fod cyffiniau Harlech a Bro Dysynni yn ddwy ardal drawsnewid o fathau gwahanol o safbwynt y defnydd a wneir yno o'r nodweddion ffonolegol a astudiwyd. Pwysigrwydd llawer o'r canlyniadau a gafwyd, felly, yw eu bod yn taflu goleuni newydd ar natur ieithyddol gymhleth ardaloedd trawsnewid. Dylid pwysleisio yma hefyd na fyddai astudio amrywiadau ffonolegol un ardal yn unig wedi cynnig hanner cymaint o fewnwelediad inni i'r union fodd y mae tueddiadau ieithyddol ardal drawsnewid yn wahanol i rai ardaloedd eraill sy'n fwy sefydlog o ran eu defnydd o rai nodweddion. Bu cymharu patrymau ffonolegol dwy ardal mewn modd meintiol, felly, yn fanteisiol ar gyfer profi bod yr amrywio a welid ar waith yn aml yn gysylltiedig â lleoliad daearyddol (gweler manylion pellach yn 11.3.1).

Fodd bynnag, er bod cyflwr ieithyddol presennol ardaloedd trawsnewid yn ddiddorol ynddo'i hun, ymddengys y gall patrymau amrywio cyfoes yr ardaloedd hyn hefyd awgrymu gwahanol drywyddau hanesyddol. Er mwyn deall sut y gall hyn fod yn bosibl, dylid pwysleisio bod ymgyfnewid rhwng dwy sain yn aml yn dangos bod newid ieithyddol yn mynd rhagddo. Fel y noda Petyt,

... variation is most probably not a recent phenomenon: it seems quite likely that all sorts of linguistic changes start out as occasional uses, then become commoner, and eventually more or less universal –

in other words, a period of variation occurs between the stage when the earlier feature is usual and that when the later one has ousted it. (Petyt, 1980: 108)

Rhesymegol yw ystyried, felly, nad oes modd i newid ieithyddol fynd rhagddo heb i gyfnod o amrywio ddigwydd (ni waeth beth fo'i hyd).²⁷⁸ Gellir barnu, felly, fod modd i ddadansoddiadau meintiol fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi syniad inni o le yn y 'broses newid' y mae gwahanol grwpiau o siaradwyr neu unigolion wedi cyrraedd, yn enwedig mewn ardaloedd trawsnewid. Yng ngoleuni hynny, y mae'n bur annhebygol fod union lefelau yr amrywio a geir mewn ardaloedd trawsnewid yn hollol debyg i'r rhai a geid yno yn y gorffennol.

O dderbyn, felly, fod modd i ymgyfnewid rhwng dwy sain arwyddo bod newid ffonolegol ar waith, diau y gall sefyllfa bresennol ardaloedd trawsnewid awgrymu gwahanol drywyddau hanesyddol. Cymerer, er enghraifft, sefyllfa'r 'u ogleddol' heddiw ym Mro Dysynni. Yn gyntaf, gan fod sail gadarn dros ddadlau bod y llafariaid caeedig canol [i(:)] / [ɨ] yn gyffredin drwy Gymru gyfan ar un adeg (gweler pennod 7: 7.4.2), gellir cynnig mai erydiad graddol yr 'u ogleddol' sydd wrth wraidd yr amrywio a welir ym Mro Dysynni yn achos y nodwedd hon, h.y. newid o [i(:)] / [ɨ] i [i(:)] / [ɪ]. Gan fod y canlyniadau a welwyd ym mhennod 7 (7.2) yn dangos bod lefelau'r 'u ogleddol' ym Mro Dysynni yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol amgylchiadau ieithyddol, gellir dweud nad yw cyflymder y newid ieithyddol hwn yn debyg ym mhob un cyd-destun, ac nad yw'n ymddangos felly i erydiad y sain hon ddechrau ar yr un pryd mewn gwahanol gyd-destunau.

Yn sgil y canfyddiadau hyn, felly, gellir barnu bod modd i amrywiadau cyfoes ardaloedd trawsnewid fod yn berthnasol i newidiadau ffonolegol a aeth rhagddynt eisoes mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Diau fod modd i'r patrymau amrywio cymhleth a ddaeth i'r amlwg yn achos yr 'u ogleddol', felly, daflu goleuni ar y modd y collwyd y sain hon yn

²⁷⁸ Nid yw hynny, fodd bynnag, yn gyfystyr â dweud bod pob math o amrywio yn rhwym o arwain at newid. Noda Petyt (1980: 213-4), er enghraifft, rai achosion 'stagnant' o amrywio ar waith, h.y. achosion lle y gwyddys bod amrywio yn gyffredin ers nifer o flynyddoedd, ond lle nad oes tystiolaeth gadarn fod newid o hen sain i un newydd yn mynd rhagddo, e.e. ymgyfnewid rhwng [θ] a [t] ar ddechrau geiriau sydd â 'th-' mewn amrywiadau Americanaidd o'r Saesneg, a'r modd y gollyngir 'h' yn Saesneg sawl rhan o Brydain.

raddol mewn rhannau o dde Cymru. Yn sicr, awgryma'r canlyniadau a gafwyd ei bod yn dra thebygol mai proses gymhleth a gafwyd yn y de hefyd wrth i'r llafariaid caeedig canol ddarfod o'r tir yn raddol yno.

I grynhoi, ymddengys fod sawl gwedd wahanol ar bwysigrwydd amrywiadau ffonolegol mewn ardaloedd trawsnewid. Yn gyntaf, gellir dweud bod cymharu ardal drawsnewid ag ardal fwy sefydlog o safbwynt defnydd siaradwyr o rai nodweddion yn fodd o daflu goleuni ar y modd y gall sain fod yn darfod o'r tir yn raddol. Yn ail, dylid pwysleisio nad adlewyrchu cyflwr ieithyddol presennol ardaloedd trawsnewid yn unig y gall dadansoddiad o amrywiadau ffonolegol ei wneud, ond bod modd iddo hefyd awgrymu gwahanol ddatblygiadau hanesyddol yn yr ardaloedd hynny. Yn olaf, gellir cynnig bod astudio'r modd y mae rhai seiniau yn dadfeilio'n araf mewn ardaloedd trawsnewid yn fuddiol ar gyfer cael syniad o'r prosesau ieithyddol cymhleth a all fod wedi bod ar waith mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, yn enwedig yn achos yr 'u ogleddol'.

11.2.2. Ailstrwythuro ffonolegol

Un o ganfyddiadau eraill yr astudiaeth hon yw bod amrywio ffonolegol yn fwy nag arwydd o newid o un sain i'r llall, ond fod modd iddo hefyd beri i elfennau ffonolegol eraill newid yn sylweddol mewn gwahanol dafodieithoedd. Gellir dweud bod modd gweld y newidiadau hyn ar waith o fewn un dafodiaith, a'u bod yn eu hamlygu eu hunain hefyd pan gymherir patrymau ffonolegol gwahanol ardaloedd â'i gilydd.

Dylid pwysleisio unwaith yn rhagor mai gwahanol amrywiadau cyfoes a'm galluogodd i ddamcaniaethu ynghylch datblygiadau a ddigwyddodd yn y gorffennol, a bod hyn unwaith eto yn tanlinellu pwysigrwydd astudio amrywiadau ffonolegol ardaloedd trawsnewid. Yn nadansoddiadau'r astudiaeth hon, felly, awgrymwyd y trywyddau canlynol o safbwynt ailstrwythuro ffonolegol:

1. Ymglyfnwid rhwng [i(:)] / [ɨ] caeedig canol ac [i(:)] / [ɪ] caeedig blaen yn peri i ddeuseiniaid sy'n cau ag [i] ac [u] amrywio yn eu hyd ym Mro Dysynni (gweler pennod 7: 7.4.3).

2. Ymgyfnewid rhwng [æ(:)] led agored ac [a(:)] agored yn arwain at ddefnydd o'r llafariaid hanner hir [æ·] ac [a·] mewn geiriau unsill yn y ddwy ardal (gweler pennod 8: 8.4.4).
3. Ymgyfnewid rhwng y llafariaid byrion hanner agored [ɛ] / [ɔ] a'r rhai hanner caeedig [e] / [o] yn arwain at ddefnydd o'r llafariaid hanner hir [e·] ac [o·] ym Mro Dysynni (gweler pennod 10: 10.4.3).

Gellir barnu bod y datblygiadau ffonolegol uchod ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn gwbl amherthnasol i'r nodweddion sydd dan sylw. Nid yw'n amlwg, er enghraifft, fod a wnelo amrywiadau mewn hyd deuseiniaid, e.e. yn [tai] ~ [ta:i] "tai" a [jaun] ~ [ja:un] "iawn", â'r ymgyfnewid a welir rhwng y llafariaid caeedig canol [i(:)] / [ɪ] a'r rhai blaen cyfatebol [i(:)] / [ɪ]. Yn yr un modd, ni ddisgwylid i lafariaid hanner hir mewn geiriau unsill, e.e. yn [mæ·m] "mam" a [*bla·nt] "plant", fod yn gysylltiedig ag amrywio rhwng y llafariaid agored [æ(:)] ac [a(:)]. Nid yw'n amlwg chwaith y gallasai'r llafariaid hanner hir [e·] ac [o·] a geir yn y goben acennog fod yn deillio o'r amrywiaeth ansawdd a geir mewn llafariaid byrion, h.y. yr ymgyfnewid a geir rhwng [ɛ] / [ɔ] hanner agored ac [e] / [o] hanner caeedig. Gobeithir, er hynny, y llwyddwyd i ddangos yn yr astudiaeth fod perthynas rhwng y datblygiadau ffonolegol hyn a'r amrywio yr ymchwilid iddo yn y lle cyntaf.

Y mae'n werth nodi yma y gallwn fod wedi peidio â sylwi ar y trywyddau posibl hyn pe na bawn wedi disgrifio patrymau ffonolegol cyffredinol y ddwy dafodiaith yn Adran B y traethawd hwn. Ni fyddwn, er enghraifft, wedi cymryd llawer o sylw o amrywiadau megis [tai] ~ [ta:i] "tai" a [jaun] ~ [ja:un] "iawn" pe bawn wedi canolbwyntio'n unig ar ddau sylweddoliad posibl newidyn yr 'u ogleddol'. Dengys hyn yn glir, felly, fel y gall disgrifio strwythurau cyffredinol gwahanol dafodieithoedd fod yn fuddiol cyn dechrau dadansoddi amrywiadau ffonolegol yn fanwl mewn modd meintiol, ac y gall y naill ddadansoddiad daflu goleuni ar y llall.

11.2.3. Y canolbarth a'r de-ddwyrain

Hefyd o safbwynt datblygiadau hanesyddol posibl, y mae'n briodol cyfeirio at gyfatebiaethau amlwg a geir rhwng nodweddion ffonolegol canolbarth Cymru a'r rhai a geir yn nhafodieithoedd traddodiadol de-ddwyrain Cymru, gan ystyried eu goblygiadau posibl. Yn wir, ymddengys fod perthnasedd i bob un o'r pedair nodwedd ffonolegol a ddadansoddwyd yn y cyswllt hwn.

O ran yr 'æ fain' yn gyntaf, y mae eisoes yn hysbys oddi wrth astudiaethau blaenorol fod y nodwedd hon yn gysylltiedig â'r de-ddwyrain yn ogystal â'r canolbarth (gweler, er enghraifft, B. Thomas a P. W. Thomas, 1989 a B. Thomas, 1998). Y mae dosbarthiad daearyddol y ddwy diriogaeth a gysylltir â'r 'æ fain' i'w gweld hefyd ar fap 7 pennod 2 (2.2.2.5) o eiddo Beth Thomas a Peter Wynn Thomas (1989: 37). Y mae'n ddiddorol fod yr un awduron hefyd yn cysylltu'r tiriogaethau hyn â nodwedd arall a astudiwyd, sef y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj], gan mai dyma sydd ganddynt i'w ddweud am y seiniau hynny:

Nodweddir ardaloedd sydd yn cyfateb yn agos i diriogaethau æ y Canolbarth a dwyrain Morgannwg gan gytseiniaid arbennig mewn nifer o eiriau sydd yn dechrau gyda **ca** a **ga**. Cytseiniaid taflodol yw'r rhain... (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 39)

Gellir ychwanegu yma y ceir hefyd enghreifftiau o'r ffrwydrolion taflodol [kj] / [gj] yn ymddangos ar recordiadau o dafodieithoedd traddodiadol de-ddwyrain Cymru. Clywir, er enghraifft, y ffurfiau [kjaus] "caws", [gjalu] "galw", [kjekin] "cegin", [kjatar] "cadair" a [gjatal] "gadael" yn iaith Mrs Margaret Williams o Lynogwr a anwyd ym 1873 (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: Recordiad 14; 151-155), a cheir y rhain i gyd o fewn ychydig funudau. Y mae'n amlwg mai ffurfiau sy'n ymdebygu i'r rhai "canolbarthol" yn hytrach nag i'r rhai gogleddol yw'r rhain gan y digwydd [kj] / [gj] ar ddechrau geiriau brodorol Gymraeg (gweler pennod 9: 9.4.3). Hefyd yn debyg i'r sefyllfa yn ardaloedd Harlech a Bro Dysynni, dengys y ffurfiau o Lynogwr fod modd i'r cytseiniaid taflodol [kj] a [gj] ymddangos o flaen [a] yn ogystal ag [ε].

Fodd bynnag, ni ddaw'r tebygrwydd a geir rhwng tafodieithoedd y canolbarth a rhai'r de-ddwyrain i ben â'r ddwy nodwedd hyn. Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 7 (7.4.2), ceir tystiolaeth o fodolaeth yr 'u ogleddol' hefyd yn nhafodiaith draddodiadol y de-ddwyrain. Clywir, felly, ffurfiau megis [ri:] "rhy", [kəməsɣi] "cymysgu" a [lu:i] "llwy" gan Mrs Margaret Williams, Glynogwr (sydd hefyd yn defnyddio'r 'æ fain' a'r cytseiniaid taflodol).

Yn ogystal â hynny, ceir rhywfaint o sail dros ddadlau nad yw'r modd y mae'r llafariaid hanner caeedig [e(:)] / [o(:)] a'r rhai hanner agored [ɛ(:)] / [ɔ(:)] yn patrymu yn y goben acennog yn annhebyg yn y canolbarth i'r hyn a welir ar waith yn nhafodieithoedd traddodiadol de-ddwyrain Cymru. Ystyrier, er enghraifft, y dyfyniad canlynol o eiddo B. Thomas a P. W. Thomas, lle y cymherir iaith y de-orllewin ag eiddo'r de-ddwyrain:

Nodwedd ar iaith y De-orllewin yw'r **e** a'r **o** [hanner] agored (fel yn **pen** a **llong**, ond weithiau'n hwy) a glywir mewn geiriau fel **wedyn**... a **mochyn**... Yn y De-ddwyrain byddai'r rhain lawer yn 'feinach' [h.y. yn hanner caeedig] ac yn debycach i'r seiniau a glywir yn **hen** a **llo** yn y De... Yn y De-orllewin, felly, ceir llafariaid [hanner] agored o flaen **i** neu **w** [a ddaw yn y sillaf olaf acennog]... (1989: 131)

Gellir nodi yn y cyswllt hwn y cafwyd y ffurfiau [wedɨn] "wedyn" a [moɣɨn] "mochyn" hefyd yn ardal Harlech ac ym Mro Dysynni. Gellir casglu oddi wrth y dyfyniad uchod, felly, mai'r un llafariaid hanner caeedig a geid yn y geiriau hyn yn y de-ddwyrain hefyd, ond mai [ɛ] / [ɔ] hanner agored a geid ynddynt yn y de-orllewin. Ymddengys, felly, y gall fod rhai cyfatebiaethau rhwng patrymau'r llafariaid hyn yn y canolbarth a'r de-ddwyrain, yn debyg i'r hyn a welwyd rhwng defnydd y ddwy diriogaeth o'r 'æ fain' a'r ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj].

O safbwynt arwyddocâd posibl y cyfatebiaethau hyn, felly, diau y gellir awgrymu nad ar hap a damwain y'u ceir, ond bod y ddwy diriogaeth annibynnol hyn (h.y. y canolbarth a'r de-ddwyrain) yn ddi-dor ar un adeg o safbwynt eu defnydd o nodweddion ffonolegol. Os derbynnir hynny, gellir cynnig mai Seisnigeiddio cyffredinol rhwng y canolbarth a'r de-ddwyrain dros y canrifoedd sy'n egluro orau sut y daeth y ddwy diriogaeth hyn yn ymddangosiadol ddigyswllt. Awgrymir y posibilrwydd hwn hefyd gan Darlington pan ddywed '...[that] there can be no doubt as to the existence of a considerable bilingual population along the border of Mid and South Wales in the seventeenth century' (1902: 33).

Gellir ychwanegu y gall dadansoddiad Glyn E. Jones (1988, 1989/90, 2000) o iaith Brycheiniog, lle y nodir ganddo enghreifftiau prin o'r 'æ fain' yn ogystal ag o'r 'u ogleddol' mewn rhannau o'r sir honno, fod yn berthnasol i'r ddadl hon. Yn wir, ar sail ei ddarganfyddiad o'r llafariad gaeedig ganol mewn gwahanol rannau o Sir Frycheiniog, cynigiodd Glyn E. Jones newidiadau sylweddol i'r isoglos a luniwyd yn wreiddiol gan Thomas Darlington (1902):

More recent work... has uncovered the occurrence of the central vowel in the speech of informants in the Llanwrtyd area of north Breconshire... and on the Brecon-Radnorshire border. The details of its occurrence in north Breconshire so closely match those in Sommerfelt's account... that it seems highly unlikely that we are dealing with a 'relic' area in north Breconshire, but rather that the central vowel has a much wider distribution over mid-Wales than was hitherto supposed. It follows, therefore, that the Darlington / Sommerfelt isogloss... has been plotted too far north. This evidence from Breconshire is an indication of the crucial place Breconshire occupies in the mid-Wales transition zone. (G. E. Jones: 1988: 101)

Gellir awgrymu, felly, y gallai ymchwil i rwydweithiau Cymry Cymraeg y canolbarth a rhai'r de-ddwyrain dros y canrifoedd daflu goleuni pellach ar y tebygrwydd a geir rhwng patrymau ffonolegol y canolbarth a rhai traddodiadol y de-ddwyrain. Dylid pwysleisio hefyd fod diffyg cyfatebiaethau amlwg rhwng nodweddion y canolbarth a rhai de-orllewin Cymru (h.y. Dyfed) yr un mor ddiddorol â'r cyfatebiaethau a welir rhwng tafodieithoedd y canolbarth a rhai y de-ddwyrain, ac y gallai astudiaeth o rwydweithiau trigolion Dyfed fod yn ddadlennol yn y cyswllt hwn hefyd.

11.2.4. Crynodeb

Dangoswyd yn yr adran hon, felly, fod sawl gwedd wahanol ar ddatblygiadau hanesyddol yn eu hamlygu eu hunain yng ngoleuni canfyddiadau'r astudiaeth hon. Priodol, felly, yw pwysleisio'r pwyntiau canlynol i gloi:

1. Ymddengys fod modd i ddadansoddiadau o amrywiadau ffonolegol cyfoes ardaloedd trawsnewid awgrymu datblygiadau hanesyddol yn ogystal ag adlewyrchu cyflwr yr

iaith ar y pryd. Gellir ychwanegu bod y canfyddiad hwn yn berthnasol i ardaloedd eraill yng Nghymru hefyd lle y gallasai prosesau ieithyddol tebyg fod wedi bod ar waith yno.

2. Gellir cynnig na roddwyd llawer o sylw cyn hyn i'r modd y gall amrywiadau presennol rhai tafodieithoedd Cymraeg daflu goleuni ar batrymau ffonolegol eraill nad ydynt yn ymddangos yn berthnasol ar yr olwg gyntaf i'r nodweddion yr archwilir iddynt. Gellir awgrymu, felly, fod modd edrych ar dafodieithoedd eraill yng Nghymru yng ngoleuni'r canfyddiad hwn, yn enwedig gan fod cymaint o wahaniaethau rhwng strwythurau ffonolegol y gogledd a rhai'r de (gweler, e.e. B. Thomas a P. W. Thomas, 1989: 34-35).
3. Yn olaf, gall fod yn werth edrych yn fanylach ar rwydweithiau cymdeithasol gwahanol ardaloedd o safbwynt hanesyddol. Diau y gallai gwybodaeth fanylach o'r maes hwn fwrw goleuni pellach ar ddatblygiadau ieithyddol a welir mewn ardaloedd trawsnewid, yn ogystal â chynnig rhesymau posibl dros gyfatebiaethau a geir rhwng defnydd gwahanol ranbarthau o nodweddion ffonolegol.

Er mai ymdrin â rhai amrywiadau ffonolegol yng nghanolbarth Cymru yn unig a wnaed yn yr adran hon, dylid pwysleisio er hynny y gallasai'r canfyddiadau a gyflwynwyd yma fod yn berthnasol i nodweddion eraill hefyd, boent mewn ardaloedd eraill o Gymru neu mewn ieithoedd eraill.

11.3. Cwestiynu rhai cysyniadau tafodieithegol

Hyd yma yn y bennod hon, soniwyd am ddiffyg unffurfiaeth ieithyddol, nid yn unig ymhlith grwpiau o siaradwyr sy'n ymddangosiadol debyg yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, ond hefyd rhwng gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Trafodwyd hefyd sut y gall natur hylifol a chymhleth ardaloedd trawsnewid awgrymu gwahanol ddatblygiadau hanesyddol.

Ymddengys fod hyn oll yn arwain at ystyriaethau sylfaenol, sef i ba raddau y gellir dweud bod gan wahanol ardaloedd dafodieithoedd fel y cyfryw. Ymdrinnir â'r cymhlethdod hwn, felly, yn 11.3.1. Holir wedyn yn 11.3.2 beth yw budd isoglosau yng ngoleuni'r canlyniadau a ddaeth i'r amlwg yn yr astudiaeth hon. Dylid pwysleisio yma mai ystyried cymhlethdodau dyrys yn hytrach na chynnig atebion pendant yw nod yr adran hon.

11.3.1. Perthynas tafodiaith ac ardal

Drwy'r traethawd hwn, tynnwyd cymariaethau rhwng y patrymau ffonolegol a gafwyd yn ardal Harlech a'r rhai a gafwyd ym Mro Dysynni, gan nodi'r gwahaniaethau yn ogystal â'r elfennau tebyg a welid rhyngddynt. Fodd bynnag, gan y pwysleisiwyd nad oedd iaith y grwpiau o siaradwyr a gafwyd yn unffurf, ac mai amrywio ffonolegol helaeth yw'r norm yn y ddwy ardal, rhaid holi i ba raddau y gellir sôn am "dafodiaith ardal Harlech" a "thafodiaith Bro Dysynni", dyweder. Yn wir, a oes modd dangos bod "dafodiaith ardal" fel y cyfryw yn fwy na dim ond haniaeth neu arteffact?

Nid yw'r cymhlethdod hwn mewn gwirionedd yn newydd i'r maes. Pwysleisia Jochnowitz (1973), er enghraifft, na fu erioed gytundeb ymysg ieithyddion ynghylch sut y mae modd pennu ffiniau gwahanol dafodieithoedd:

There has never been a definition of "dialect" that enabled us to determine whether two given idiolects belong to the same dialect, or, for that matter, to the same language. The criteria that have been used to determine dialect classifications are always selected *ad hoc*. (Jochnowitz, 1973: 31)

Ymdrinia Durrell (1990) â'r ystyriaeth hon hefyd, a daw i'r casgliad fod dau brif safbwynt i'w canfod mewn gweithiau tafodieithegol.

An unresolved controversy has existed since the beginnings of systematic research into dialects. On the one hand we have those scholars who stand in what we might loosely call the German tradition who assume the existence of discrete dialects and regard it as their primary concern to identify their boundaries... On the other, there are those who deny that such boundaries can exist, given that linguistic transitions across space from one region or even village to the next are gradual and imperceptible. This view was expressed as early as 1875 by Paul Meyer and 1888 by Gaston Paris, who was of the opinion that 'il n'y a réellement pas de dialectes...' ... and many scholars have followed them in rejecting entirely the notion of dialects as relatively unified language varieties used by discrete groups within a well defined geographical area... (Durrell, 1990: 937)

Ar sail canlyniadau'r astudiaeth hon, fodd bynnag, gellir dadlau bod safle daearyddol ardal yn ystyriaeth bwysig wrth archwilio i ddefnydd siaradwyr o nodweddion tafodieithol (rhai ffonolegol yn yr achos hwn), hyd yn oed os na cheir unffurfiaeth ieithyddol o fewn gwahanol grwpiau o'r un ardal. Yn wir, llwyddwyd i ddangos drwy ddefnyddio dulliau meintiol o ddadansoddi amrywiadau fod tueddiadau ieithyddol siaradwyr ardal Harlech a rhai Bro Dysynni yn aml yn wahanol i'w gilydd. Ymddengys, felly, y gall y tueddiadau ieithyddol hyn fod yn llawer pwysicach nag unrhyw ffeithiau absoliwt wrth ymdrin â gwahaniaethau tafodieithol o wahanol fathau.

Er mwyn enghreifftio hyn, nodir isod ddau dabl y gellid bod wedi eu llunio ar ddiwedd Adran B y traethawd hwn. Ceisir yn y tablau hyn amlygu yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng systemau ffonolegol cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni, er mai rhan fechan o'r darlun cyflawn a adlewyrchir yma mewn gwirionedd.

Tabl A: Seiniau posibl y ddwy ardal

A geir y seiniau isod...	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?
[i(:)] 'u ogleddol'	✓	✓
[æ(:)] 'yr æ fain'	✓	✓
[kj] / [gj] taflodol	✓	✓
[e(:)] / [o(:)] hanner caeedig	✓	✓

Tabl B: Amrywiadau posibl y ddwy ardal

A geir y seiniau isod yn ymgyfnewid...	Yn ardal Harlech?	Ym Mro Dysynni?
[i(:)] ~ [i(:)]	X	✓
[æ(:)] ~ [a(:)]	✓	✓
[kj] / [gj] ~ [k] / [g]	✓	✓
[e(:)] ~ [ɛ(:)] / [o(:)] ~ [ɔ(:)]	✓	✓

Gwelir bod tabl A yn cyfleu bod yr un seiniau ‘canolbarthol’ / gogleddol i’w cael yn y ddwy ardal. Ystyrir yn nhabl B wedyn yr amrywiadau sy’n bosibl yn y ddwy ardal, a dangosir mai amrywio rhwng [i(:)] ac [i(:)] yw’r unig wahaniaeth amlwg rhwng ardal Harlech a Bro Dysynni o safbwynt y pedair nodwedd sy’n ganolog i’r astudiaeth hon. Dylid pwysleisio nad yw’r “ffeithiau” a gyfleir yn y tablau hyn yn anghywir, ond bod modd barnu er hynny eu bod yn annigonol ac yn gamarweiniol gan na lwyddant i adlewyrchu nifer o dueddiadau sydd, fel y gwelsom yn y penodau blaenorol, yn wahanol iawn yn y ddwy ardal.

Gellir dadlau, felly, mai tueddiadau ieithyddol sy’n adlewyrchu orau natur y gwahaniaethau a geir rhwng tafodieithoedd â’i gilydd, ac mai drwy ddulliau meintiol o ddadansoddi amrywiadau ffonolegol y daethant i’r amlwg yn yr astudiaeth hon. Yn wir, gan y gwelwyd bod tueddiadau’r ddwy ardal yn wahanol yn achos y pedair nodwedd ffonolegol a astudiwyd, gellir dweud yn sicr fod lleoliad daearyddol yn ystyriaeth hollbwysig wrth astudio tafodieithoedd Cymraeg y canolbarth. Priodol yn y cyswllt hwn yw dyfynnu Durrell eto:

... many scholars see quantitative measures as the most objective method for determining the degree of difference between geographical variants... Such methods, termed ‘**dialectometry**’ have been developed primarily within the Romance areas...²⁷⁹ (1990: 940)

²⁷⁹ Yn ddiddorol, daeth Hans Goebel, sef un o’r ysgolheigion sydd wedi bod yn flaenllaw wrth ddatblygu’r maes hwn, i Brifysgol Aberystwyth ym mis Chwefror 2012 er mwyn traddodi darlith Ffrangeg o’r enw ‘Introduction aux problèmes et méthodes de l’Ecole Dialectométrique de Salzbourg (avec des exemples gallo-, italo- et ibéroromans)’. Fe’m trawyd yn fawr gan helaethrwydd y data ffonolegol a gasglwyd ar raddfa eang iawn yn Ffrainc, yn yr Eidal ac yn Sbaen, ac a ddadansoddiwyd eisoes. Diau y byddai angen casglu llawer mwy o ddata yng Nghymru er mwyn cyflawni gwaith manwl o’r math hwn ar amrywiadau o’r Gymraeg.

Y mae'n dra phosibl, felly, mai ymdrin â chontinwa gwahanol yr ydym wrth ddadansoddi nifer o nodweddion ffonolegol, ac mai dyna sy'n aml yn egluro pam y gwelir bod tueddiadau (h.y. lefelau cyffredinol gwahanol seiniau) yn amrywio o'r naill ardal i'r llall. Y mae yma sail, felly, i herio deongliadau Paul Meyer a Gaston Paris nad oes "tafodieithoedd" fel y cyfryw i wahanol ardaloedd. Ys dywed Durrell,

...many dialectologists still regard Gaston Paris's view as too extreme and remain convinced that there are geographical groups which exhibit such a significant degree of uniformity in their linguistic behaviour as to justify the attempt to identify them. (1990: 942)

Tueddu i gyd-weld â'r tafodieithegwyr hynny yr wyf innau ar sail dadansoddiadau manwl yr astudiaeth hon. Er na ellir derbyn bod unffurfiaeth ieithyddol i'w chael rhwng siaradwyr o'r un ardal (hyd yn oed o fewn grŵp o unigolion sy'n debyg o ran eu cefndir), gellir barnu bod astudio canlyniadau'r ddwy ardal ochr yn ochr (gweler, er enghraifft, y cymariaethau ym mhenodau 7-10 yn 7.3, 8.3, 9.3 a 10.3) yn aml yn dangos bod tueddiadau cyffredinol y ddwy ardal yn wahanol iawn. Gellir nodi hefyd fod y gwahaniaethau a geir rhwng gwahanol gyd-destunau ieithyddol yn aml yn berthnasol i bob un siaradwr o'r un ardal, ac yn dangos bod tueddiadau siaradwyr yr un dafodiaith yn gyson â'i gilydd. Cymerer, er enghraifft, y defnydd o'r 'u ogleddol' ym Mro Dysynni lle y gwelwyd bod canrannau y tocynnau a gynhwysai [i(:)] / [ɨ] yn uwch mewn llafariad byrion o wahanol fathau nag yn llafariad hir geiriau unsill, a hynny gan bob un siaradwr. Teg yw ystyried, felly, fod y tueddiadau tebyg hyn a geir rhwng siaradwyr o'r un ardal, ac sy'n wahanol i dueddiadau siaradwyr ardaloedd eraill, yn rhoi elfen o undod iddynt. Gan mai lleoliad daearyddol ardal sy'n aml wrth wraidd yr undod hwnnw, gellir dod i'r casgliad fod yr arfer o gysylltu tafodiaith ag ardal neilltuol yn seiliedig ar fwy na haniaeth neu arteffact.

11.3.2. Dilysrwydd isoglosau

Yn sgil dadansoddiadau'r astudiaeth hon, gellir bod yn bendant ddigon fod cysyniad yr isoglos, sef llinell ar fap sy'n cynrychioli ffiniau tafodieithol, yn broblemus iawn. Yn sicr, y mae'r syniad y gall un sain fod yn arferol ar un ochr i ffin, tra bo sain arall yn arferol ar ochr arall iddi, yn rhy syml o lawer. Cymerer, er enghraifft, yr isoglos a ddisgrifiwyd gan Thomas

Darlington (1902) ar gyfer nodwedd yr ‘u ogleddol’ (gweler manylion ym mhennod 2: 2.2.1.1), sy’n torri drwy ganol Bro Dysynni. Gan mai amrywio helaeth rhwng [i(:)] / [ɨ] caeedig canol ac [i(:)] / [ɪ] caeedig blaen a welwyd yng nghanlyniadau’r gwaith hwn, a hynny gan siaradwyr a hanai o ddwy ochr ffin Darlington (e.e. B.R, E.W, C.D ac R.P o’r gogledd ohoni, a M.V a G.E.T o’r de ohoni), gellir barnu na ddaw isoglos Darlington yn agos at adlewyrchu realiti ieithyddol cymhleth Bro Dysynni. Fel y noda Beth Thomas a Peter Wynn Thomas,

Erbyn hyn, gwyddom nad yw ffiniau ieithyddol mor hawdd eu diffinio, ac felly er bod map Darlington yn crynhoi hanfodion y sefyllfa, ac yn dal i fod yn ddefnyddiol, ni ddylid meddwl bod y ‘ffin’ yn gadarn a diwro... Megis gyda phob nodwedd dafodieithol, ceir ardal drawsnewid i’r **u** hithau. (1989: 31)

Yn yr astudiaeth hon, felly, canolbwyntiwyd ar natur ieithyddol ardaloedd trawsnewid yn hytrach na cheisio disgrifio isoglosau. Y mae’n ddiddorol yn y cyswllt hwn yr awgryma Durrell fod obsesiwn ag isoglosau yn y gorffennol wedi arwain at ddiffyg gwybodaeth fanwl o natur ardaloedd trawsnewid yn y maes yn gyffredinol:

... there have rarely been satisfactory attempts to establish these [transitional areas] systematically for a large speech-area, perhaps in part at least because of the established tradition of representing geographical variation exclusively through abrupt lines on a map. (1990: 942)

Cyfraniad yr astudiaeth hon yn y cyswllt hwn, felly, yw bod y dadansoddiadau meintiol a gyflawnwyd yn dangos yn glir nad ar hap a damwain y gwelir amrywio ar waith mewn ardaloedd trawsnewid, ond bod y defnydd a wneir o wahanol seiniau wedi ei gyflyru yn hytrach gan ffactorau ieithyddol penodol (gweler 11.1.2 uchod). Yn amlwg, ni ddaw isoglosau cyffredinol yn agos at wneud cyfiawnder â’r patrymau mewnol cymhleth hyn. Ar sail canlyniadau’r traethawd hwn, felly, go brin y byddai modd pennu lle y mae sain benodol yn darfod o’r tir ac un arall yn ei disodli (hyd yn oed yn achos un cyd-destun ieithyddol yn unig) gan fod amrywio yn debygol, nid yn unig rhwng siaradwyr o’r un ardal, ond o fewn iaith yr unigolyn hefyd.

Hyd yn oed os nad yw isoglosau yn ffiniau diwyro a chysáct, ac na allant gyfleu cymhlethdod ardaloedd trawsnewid, rhaid holi er hynny a oes defnydd iddynt mewn ffyrdd eraill. Barna Petyt fod enghreifftiau o fwndeli o isoglosau i'w cael mewn sawl gwlad, a bod mwy o bwysigrwydd i'r rhain nag isoglosau unigol gan y gall ffin gyfansawdd arwyddo 'some sort of dialect boundary' (1980: 57). Enghraifft enwog o'r math hwn o ffin yw Ffan Rhine (*The Rhenish Fan*) yn yr Almaen (gweler Petyt, 1980: 59-60 a Durrell, 1990, 924-926). Fodd bynnag, cwestiyna Durrell ddibynadwyedd y duedd hon i roi pwys ar un isoglos penodol:

... the selection of a single isogloss to define a linguistic area is highly dubious from a purely linguistic standpoint. (1990: 938)

Gellir ystyried bod y safbwynt hwn yn berthnasol i rannau o'r canolbarth gan nad yw elfennau ffonolegol nodweddiadol o wahanol rannau o'r canolbarth i'w gweld yn rhannu'r un "isoglosau" bras. Y mae'n werth cyfeirio yma at fap 2 pennod 2 (2.2.1.3) a luniwyd gan Robert Owen Jones (1967: Clawr) sy'n dangos isoglosau ar gyfer tair nodwedd ffonolegol sy'n berthnasol i'r canolbarth, sef yr 'u ogleddol', yr 'æ fain' a'r cyferbyniad / diffyg cyferbyniad rhwng 'a' ac 'e' yn y sillaf olaf ddiacen. Gwelir yn glir oddi wrth y map hwn fod safleoedd pob un o'r ffiniau hyn yn hollol wahanol, ac nad ymddengys fod cysylltiad rhyngddynt.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol, felly, mai bwndeli o nodweddion ffonolegol yn rhannu'r un isoglosau sydd o angenrheidrwydd yn creu gwahaniaethau trawiadol. Gellir cynnig yn hytrach mai'r hyn sy'n aml yn wahanol rhwng ardaloedd cyffiniol yw bod cyfuniadau gwahanol o nodweddion i'w gweld yno. Gellir ystyried, er enghraifft, fod ffurf fel [kapal] "capel", lle y swir yr 'a', yn elfen debyg a geir rhwng ardal Harlech a Bro Dysynni, ond y byddai'r ffurf [kapɛl] yn gwneud iaith Machynlleth, dyweder, yn wahanol i Gymraeg y ddwy ardal hyn. Fodd bynnag, o ddewis ffurf arall fel [di:n] "dyn", gwelir y tro hwn fod mwy o dir cyffredin rhwng tafodiaith Bro Dysynni ac un Machynlleth gan mai [di:n] (gyda'r 'u ogleddol') a geir yn gyson yn ardal Harlech. Y mae gan bob ardal, felly, ei gwead o nodweddion a'i hamrywiadau ffonolegol, a hyn i raddau helaeth sy'n peri bod gwahaniaethau yn ogystal ag elfennau tebyg i'w cael rhwng ardaloedd cyfagos. Efallai y gellir awgrymu, felly, na roddwyd digon o ystyriaeth yn y gorffennol i'r cysyniad hwn mai "cyfuniadau" neu

“gymysgeddau” o elfennau sy’n creu gwahanol dafodieithoedd, a hynny gan mai chwilio am glystyrau o isoglosau a wneid.

Efallai mai prif neges map Robert Owen Jones (1967: Clawr), felly, yw bod y gwahaniaethau a ganfyddir rhwng tafodieithoedd ardaloedd gwahanol yn rhwym o fod yn ddibynnol ar y nodweddion y canolbwyntir arnynt. Rhaid cyfaddef, felly, fod y gwahaniaeth a’r tebygrwydd a welwyd yn yr astudiaeth hon rhwng patrymau tafodieithol ardal Harlech a rhai Bro Dysynni yn seiliedig ar bedair nodwedd ffonolegol yn unig. Y mae’n bosibl, er hynny, y gallai nodweddion ieithyddol eraill (boent rai ffonolegol, geirfaol neu gystrawennol) awgrymu bod mwy neu lai o wahaniaethau rhwng y ddwy dafodiaith dan sylw. Cyfyd hyn yn sicr gwestiynau diddorol nad yw’n rhwydd eu hateb yma. A yw pob nodwedd ffonolegol, er enghraifft, cyn bwysiced â’i gilydd neu yn gydradd o ran eu gallu i wahaniaethu tafodieithoedd oddi wrth ei gilydd? Yn wir, tybed a fyddai ymchwil ym maes tafodieitheg ganfyddiadol (*perceptual dialectology*; gweler, er enghraifft, Preston, 2006) yn gallu bod yn ddadlennol yn y cyswllt hwn? Bid a fo am hynny, cymhlethdodau i fynd ar eu holau yn y dyfodol yw’r rhain. Digon yw pwysleisio yma nad yw manylu ar un nodwedd ieithyddol yn ddigon i ddangos pa mor wahanol neu debyg yw tafodieithoedd ardaloedd neilltuol. Wrth reswm, rhaid i bob ymchwilydd dynnu terfyn yn rhywle, a gorau oll os gellir cael sawl astudiaeth wahanol ar amrywiadau llafar yn yr un ardaloedd. Ys dywed Petyt, y mae’r posibiladau yn ddiderfyn ym mhob ardal:

We can... distinguish a virtually infinite number of ‘different forms’ of any language, depending on just what linguistic features we focus on, and in how much detail. (1980: 12)

11.3.3. Crynodeb

Ceisiwyd yn yr adran hon ymdrin â chysyniadau tafodieithogol a chwestiynau cymhleth sy’n codi yng ngoleuni canlyniadau’r astudiaeth hon. Crynhoir isod, felly, y prif ganfyddiadau.

1. Yn sgil yr amrywio helaeth a nodwyd ymhlith siaradwyr y ddwy ardal, gofynnwyd i ba raddau y gellid ystyried bod lleoliad daearyddol yn ystyriaeth bwysig wrth astudio tafodieithoedd. Gellir dod i’r casgliad fod daearyddiaeth yn ffactor pwysig er mwyn deall y gwahanol dueddiadau ieithyddol a all fod ar waith rhwng gwahanol ardaloedd,

hyd yn oed os yw'r ardaloedd hynny yn ymddangos yn debyg iawn o ran eu defnydd o nodweddion ffonolegol.

2. Dadleuwyd hefyd fod cysyniad yr isoglos yn broblemus yng nghyd-destun canlyniadau'r traethawd hwn. Cynigiwyd hefyd y gallasai ymdrin â thafodieithoedd fel cymysgeddau o wahanol nodweddion fod yn fwy buddiol na chwilio am fwndeli o isoglosau, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru.

11.4. Astudiaethau pellach posibl

I gloi'r bennod hon, cyflwynir yma syniadau o ran y math o astudiaethau pellach y gellir eu cyflawni yn y maes yng ngoleuni canfyddiadau'r traethawd hwn. Y mae pob un o'r isadrannau isod yn ymdrin â dulliau gwahanol o astudio amrywiadau ffonolegol.

11.4.1. Gwaith meintiol tebyg mewn ardaloedd eraill

Un posibilrwydd yn sicr fyddai adeiladu ar ganlyniadau'r astudiaeth hon drwy ddadansoddi defnydd siaradwyr ardaloedd eraill o'r canolbarth o'r un nodweddion. O ran yr 'u ogleddol', er enghraifft, gallai dadansoddiadau tebyg o'r sain hon mewn ardaloedd lle y disgwylid iddi fod yn brinnach (ym Machynlleth neu yng Ngharno, dyweder) ein goleuo ymhellach ar y modd y mae'n graddol gilio o'r tir. Gallai cyflawni gwaith meintiol ar y defnydd o 'æ fain', y ffrwydrolion taflodol [kj] a [gj] a'r llafariaid hanner caeedig / hanner agored "e" ac "o" ymhellach i'r dwyrain o ardaloedd Harlech a Bro Dysynni hefyd fod yn werthfawr. Yn wir, byddai'n ddiddorol cymharu'r canlyniadau a gafwyd yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni â rhai ardaloedd eraill er mwyn gweld a yw patrymau amrywio y rhanbarth yn newid yn raddol wrth deithio o'r gorllewin i'r dwyrain.

Dylid hefyd bwysleisio y gallai'r dulliau meintiol a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon fod yn addas iawn ar gyfer archwilio i nodweddion ffonolegol eraill, nid yn unig mewn rhannau o'r canolbarth, ond drwy Gymru. Diau y byddai hynny'n fodd o ddatgelu a welir yr un math o amrywio helaeth ar waith mewn rhannau o'r gogledd a'r de â'r hyn a welwyd yma yn achos y canolbarth.

11.4.2. Defnyddio dulliau acwstig o ddadansoddi nodweddion

Arwain hyn yn naturiol at ystyriaeth arall, sef y manteision a allai fod o ddefnyddio dulliau acwstig ar gyfer archwilio i ddefnydd gwahanol rannau o'r canolbarth o'r pedair nodwedd ffonolegol a astudiwyd yn y traethawd hwn. Gan mai dibynnu'n llwyr ar y glust a wnaed ar gyfer dadansoddiadau'r astudiaeth hon, daethpwyd i'r casgliad mai'r hyn a oedd yn ymarferol oedd cael dau sylweddoliad posibl i bob newidyn. Fel yr eglurwyd eisoes ym

mhennod 3 (3.4.3), teimlwyd fel Beth Thomas (1998) na fyddai modd gwahaniaethu'n gyson rhwng sawl ansawdd gwahanol. Ar gyfer nodwedd yr 'æ fain', felly, yr oedd dewis syml rhwng [æ(:)] neu [a(:)]. Er hynny, nodwyd bod amrywiaeth o ansoddau i'r sain hon mewn gwirionedd. Nid yn unig y sylwyd bod ansawdd y sain ar y cyfan yn fwy agored yn ardal Harlech nag ym Mro Dysynni, pwysleisiwyd hefyd fod ansawdd yr 'æ fain' i'w weld yn fwy agored mewn llafariaid byrion na mewn llafariaid hir, a hynny yn y ddwy ardal a astudiwyd. Barnwyd hefyd fod ansawdd yr 'u ogleddol' yn fwy blaen ym Mro Dysynni nag yng nghyffiniau Harlech, ac yn yr un modd, fod ansawdd y llafariaid hanner caeedig [e(:)] ac [o(:)] ychydig yn fwy caeedig ym Mro Dysynni nag yn ardal Harlech, yn enwedig yn y goben acennog.

Gan mai dulliau meintiol o ddadansoddi gwahaniaethau tafodieithol a gafodd y flaenoriaeth yn yr ymchwil hwn, byddai'n ddiddorol pe cyflawnid gwaith mwy ansoddol ei natur (o ran y math o waith sy'n bosibl, gweler Mayr a Davies, 2011). Yn wir, gan y nodwyd eisoes yn 11.3.1 ei bod yn dra thebygol mai ymdrin â chontinwa tafodieithol yr ydym wrth gymharu defnydd gwahanol ardaloedd o batrymau ffonolegol, diau y gallai mesur ansawdd seiniau gwahanol leoedd yn y canolbarth fod yn dra dadlennol. O wneud hynny, gellid ateb y cwestiwn a oes continwwm helaeth yn y canolbarth lle y mae cryfder y nodweddion canolbarthol yn gryf ar y naill begwn, ond yn wan ar y pegwn arall. Ynteu a yw'r sefyllfa yn gymhlethach na hynny? Pe datgelai archwiliad acwstig o sefyllfa'r canolbarth fod gwahanol gontinwa i'w cael, gellid wedyn gyfuno'r dulliau hyn a rhai meintiol er mwyn gweld beth yw'r gydberthynas rhwng newid ansawdd ac amllder seiniau. Y mae hefyd yn bosibl y gallai astudio patrymau o'r math hwn daflu rhywfaint o oleuni ar symudiadau neu rwydweithiau siaradwyr Cymraeg yn y gorffennol.

11.4.3. Astudiaeth sosioieithyddol ei gogwydd

Yn sicr, y mae'r gwaith manwl hwn wedi sefydlu nifer o batrymau ffonolegol clir sy'n berthnasol i iaith siaradwyr hynaf cyffiniau Harlech a rhai Bro Dysynni fel ei gilydd. Nid oes ddwywaith nad yw hyn yn gosod sail gadarn i gyflawni ymchwil mwy sosioieithyddol ei ogwydd a edrychai yn fanwl ar iaith cenedlaethau iau y ddwy ardal hyn. Yn wir, gallai astudiaeth o'r math hwn roi syniad inni o'r modd y mae defnydd o'r nodweddion yr

archwiliwyd iddynt yma yn datblygu ar hyd y cenedlaethau yn y ddwy ardal. A yw'r 'u ogleddol' wedi diflannu'n llwyr o iaith ieuenctid Bro Dysynni, er enghraifft? A beth am yr 'æ fain' ar gyrion eithaf ei thiriogaeth yn ardal Harlech? Byddai modd hefyd archwilio i weld a oes gwahaniaethau rhwng defnydd siaradwyr iaith gyntaf a rhai ail iaith o'r nodweddion hyn, a cheisio gweld i ba raddau y mae iaith athrawon a'r ysgolion yn dylanwadu ar ddefnydd gwahanol ddisgyblion o'r nodweddion hyn.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar siaradwyr sy'n iau na'r rhai a ddefnyddiwyd yn y gwaith hwn, byddai hefyd yn bosibl gwranddo ar recordiadau o siaradwyr sy'n perthyn i genedlaethau hŷn fyth yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Gallai hyn yn sicr fod yn fodd o olrhain datblygiadau ffonolegol o'r gorffennol hyd at y dwthwn hwn, a byddai modd bwrw goleuni pellach hefyd ar ddatblygiadau hanesyddol a awgrymir yn yr astudiaeth hon (gweler 11.2). Hefyd o safbwynt trywyddau hanesyddol ar nodweddion ffonolegol cyffiniau Harlech a Bro Dysynni, y mae'n debygol y gallai gwahanol ffynonellau ysgrifenedig awgrymu bod datblygiadau ffonolegol ar waith ar wahanol adegau yn y gorffennol. Dengys Gwenllian Awbery (1988, 2007, 2012), er enghraifft, fod modd i gofnodion o achosion enllib, ewyllysau, rhestri eiddo (*inventories*) yn ogystal ag arysgrifau ar gerrig beddau gynnig tystiolaeth o amrywiadau tafodieithol amrywiol. Nid yw'n amhosibl chwaith i ddisgrifiadau anecdotaidd o dafodieithoedd y canolbarth ddod i'r fei, yn debyg i'r hyn a welwyd gan y Parch. D. W. Thomas (1907; gweler pennod 7.4.2).

11.4.4. Dadansoddi deunyddiau'r astudiaeth hon o safbwyntiau eraill

Pwysleisiwyd eisoes yn 11.1.2 mai glynu'n agos at y deunydd crai a wnaed yn y gwaith hwn, gan gadw at adysgrifiad seinegol llydan yn gyson. O ganlyniad i'r dull hwnnw, felly, daeth nifer o batrymau amrywio dadlennol i'r amlwg. Er hynny, rhaid pwysleisio bod llawer o ddeunydd crai yn y traethawd hwn a allai fod yn gaffaeliad i unrhyw un sydd am ddadansoddi tafodieithoedd cyffiniau Harlech a Bro Dysynni o safbwynt gwahanol fframweithiau theoretig, e.e. ffonoleg gynhyrchiol (*generative phonology*), ffonemeg neu ddadansoddiad prosodaidd (*prosodic analysis*).

Trywydd arall posibl yw'r cysyniad o drylediad geirfaol (*lexical diffusion*). Crynhoir hanfodion y broses ieithyddol hon gan McMahon:

The main assumption of lexical diffusion theory is that not all eligible words are affected by a sound change at the same time. Instead, a change will originate in a small subset of morphemes. If we assume for the moment an abstract change of some phoneme X to some other phoneme Y, some morphemes will undergo the change directly, but in others, pronunciation will fluctuate for a time, for individuals and/or for the community. (McMahon, 1994: 50)

Y mae'n ddi-ddorol fod McMahon yn ystyried mai ymdriniaeth gan Sommerfelt â'r modd y graddol gollir y ffrithiolyn yflar /χ/ o flaen y lled-lafariad /w/ mewn rhannau o ganolbarth Cymru yw un o'r disgrifiadau cyntaf a geir o drylediad geirfaol. Er na fu'r nodwedd hon yn berthnasol i'r ardaloedd a astudir yn y gwaith hwn, y mae'n werth dyfynnu un o arsylwadau arloesol Sommerfelt yn y cyswllt hwn:

... at a given moment, /ware/ reaches a Welsh village and replaces /χware/, without it being necessary that, at the same time, /wanen/ should supplant /χwanen/ or /wa:ir/ 'sister' replace /χwa:ir/. (Sommerfelt, 1962: 75; dyfynnwyd o McMahon, 1994: 51)

Arwain hyn yn naturiol at ofyn a welir yr un ffenomen ar waith yn achos rhai o'r nodweddion y canolbwyntiwyd arnynt yn yr astudiaeth hon. A sylwyd yn achos yr 'u ogleddol', er enghraifft, fod [i:] wastad yn ymddangos mewn rhai geiriau, fod amrywio rhwng [i:] ac [i:] yn gyffredin mewn geiriau eraill, tra bo [i:] yn codi'n gyson mewn achosion eraill? Yr ateb yn syml yw na ddaeth patrymau fel y rhain i'r amlwg. Yr hyn a oedd yn arbennig o drawiadol, fodd bynnag, oedd bod enghreifftiau o amrywio o fewn y gair, e.e. [ba:χ] ~ [bæ:χ] "bach", [hi:n] ~ [hi:n] "llun" a [kefɪl] ~ [kjefɪl], yn dra niferus, a digwyddai parau o ffurfiau fel y rhain yn aml o fewn iaith yr unigolyn. Y mae'n wir, er hynny, na ddefnyddiwyd yr un geiriau gan bob siaradwr, ac y gallai dull arall o gyfweld (a fyddai'n sicrhau bod yr holl siaradwyr yn defnyddio'r un geiriau) fod yn fwy addas ar gyfer archwilio i drylediad geirfaol.

Y mae'n briodol hefyd ystyried dehongliad R. O. Jones o'r hyn a olygir wrth drylediad geirfaol. Ar ôl edrych yn fanwl ar y modd yr oedd newidiadau ieithyddol yn nhre'r Gaiman yn y Wladfa yn gysylltiedig â ffactorau cymdeithasol megis oedran ac arddull y traethu, deuir i'r casgliad canlynol ynghylch trylediad geirfaol:

... gellid ymestyn y ddamcaniaeth ynglŷn â thrylediad [geirfaol]... i gynnwys nid y gair yn unig fel ffactor gyflyrol ond hefyd y cyd-destun gramadegol, a hyd yn oed y sillaf o fewn y gair. (R. O. Jones, 1983: 330)

Byrdwn y traethawd hwn hefyd yw bod ffactorau ieithyddol megis y rhai y cyfeiria R. O. Jones atynt yn cyflyru'r amrywio ffonolegol a welir ymysg cymuned o siaradwyr. Yn sicr o safbwynt nodwedd yr 'u ogleddol', lle y gellir rhagdybio newid llwyr o 100% [i(:)] / [ɪ] i 100% [i(:)] / [ɪ] dros gyfnod o amser, y mae'r canfyddiad fod cyflymder y newid hwn yn ddibynnol i raddau helaeth ar y cyd-destun ieithyddol yr un mor arwyddocaol ei oblygiadau ag ydyw'r cysyniad o drylediad geirfaol ei hun. Y mae hefyd, fel y noda R. O. Jones, yn 'gwrthbrofi honiad y Neo-ramadegwyr fod newid seinegol yn gweithio drwy'r iaith ym mhob safle posibl ar yr un adeg' (1983: 332).

Yn olaf, ymddengys fod modd dadansoddi amrywiadau ffonolegol ardaloedd trawsnewid helaeth drwy ddefnyddio cysyniadau a ddatblygwyd gan Chambers a Trudgill (1998: 104-118) megis 'mixed lects', 'fudged lects' a 'scrambled lects'.²⁸⁰ Wrth ymdrin ag amrywiadau ffonolegol pwysig yng nghyd-destun tafodieithoedd Lloegr, trafodir ganddynt y ffin rhwng /ʌ/ de Lloegr ac /ʊ/ gogledd Lloegr (e.e. /kʌp/ a /kʊp/ *cup*), yn ogystal â'r ffin rhwng /ɑ:/ hir de Lloegr ac /a/ fer gogledd Lloegr (e.e. /bɑ:θ/ a /bɑθ/ *bath*). Ar sail dadansoddiadau manwl, nid yn unig y deuir i'r casgliad fod rhan helaeth o Ddwyrain Canolbarth Lloegr (*the East Midlands*) yn ardal drawsnewid o safbwynt y nodweddion hyn, ond nodir hefyd fod gwahanol raddfeydd cymhleth o drawsnewid i'w cael rhwng Saesneg deheuol 'pur' a Saesneg gogleddol 'pur'. Yn achos y llafariaid agored, er enghraifft, gwahaniaethir rhwng yr hyn a elwir gan Chambers a Trudgill yn 'mixed lects' (/ɑ:/ neu /a/ yn bennaf, gyda'r amrywiad arall yn ymddangos yn achlysurol), 'fudged lects' (llafariaid hanner hir yn gyfaddawd rhwng y ddau amrywiad posibl) a 'scrambled lects' (sef cymysgedd o 'mixed lects' a 'fudged lects').

Diau y gallai dadansoddiadau tebyg o dafodieithoedd Cymraeg ddadlennu a oes camau fel y rhain i'w cael mewn ardaloedd trawsnewid sylweddol eu maint yng Nghymru, yn enwedig os gwelir newid mewn hyd ac ansawdd, e.e. rhwng [kɔɪ] a [ko:ɪ] "coll" neu [gwɛɪd] a [gwe:ɪd]

²⁸⁰ Gellir barnu bod angen cyflawni gwaith maes mewn rhagor o ardaloedd, ac ar raddfa ehangach, er mwyn gallu cymhwyso'r cysyniadau hyn i sefyllfa'r Gymraeg yn y canolbarth.

“gwellt”.²⁸¹ Y mae'n bosibl hefyd y gallai dulliau acwstig o ddadansoddi hyd ac ansoddu llafariaid (gweler 11.4.2 uchod) fod yn addas i'w defnyddio ar gyfer sefydlu a geir gwahanol 'lects' mewn tafodieithoedd Cymraeg.

11.5. Crynodeb

Amcan y bennod hon oedd trafod goblygiadau canlyniadau'r astudiaeth hon mewn modd mwy cyffredinol na'r hyn a wnaed ym mhenodau 7-10. Ceisiwyd tanlinellu yn gyntaf bwysigrwydd y dulliau meintiol a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi amrywiadau ffonolegol. Yn sicr, ni allaswn fod wedi dangos faint o ddiffyg unffurfiaeth a oedd i'w weld ymhlith y grwpiau o siaradwyr a gafwyd yn y ddwy ardal oni bai am y dulliau hyn. Yr oeddynt hefyd yn greiddiol ar gyfer profi bod amrywio helaeth ar waith rhwng gwahanol gyd-destunau ieithyddol â'i gilydd. Ymhelaethwyd wedyn ar y gwahanol drywyddau hanesyddol a awgrymir gan ganlyniadau'r astudiaeth hon, gan gynnig na roddwyd digon o ystyriaeth i'r wedd hon ar amrywiadau tafodieithol yng nghyd-destun y Gymraeg. Wedi hynny, aed ati i ddehongli bod astudio tueddiadau ieithyddol yn hollbwysig ar gyfer deall gwahaniaethau tafodieithol, ac i bwysleisio bod problemau gwirioneddol â chysyniad yr isoglos yng ngoleuni canfyddiadau'r gwaith hwn. Cynigiwyd i gloi rai astudiaethau pellach y gellir eu cyflawni yn sgil yr astudiaeth hon. Gobeithir y bydd hyn oll yn esgor ar drafodaethau adeiladol yn y maes.

Eir ati yn y bennod nesaf i dynnu prif gasgliadau'r astudiaeth hon ynghyd, gan egluro beth yw ei phwysigrwydd.

²⁸¹ Priodol yw cyfeirio yn y cyswllt hwn at ffurf a nodir yn y *Welsh Dialect Survey* (2000) ar gyfer Llangadfan, sef [gweł] “gwellt”. Y mae'n dra phosibl mai cyfaddawd (neu ‘fudged lect’) a geir yma rhwng [gwɛł] y gogledd a [gwe:l] y de.

PENNOD 12: Casgliadau

12. Cyflwyniad

Amcan gwreiddiol y gwaith hwn oedd edrych o'r newydd ar amrywiadau ffonolegol mewn gwahanol rannau o ganolbarth Cymru, gan adeiladu ar yr wybodaeth a oedd eisoes yn hysbys oddi wrth astudiaethau blaenorol o dafodieithoedd y rhanbarth (gweler pennod 2: 2.2). Gellir datgan ar ddiwedd y traethawd hwn, felly, i'r amcan hwnnw gael ei wireddu. Rhaid cyfaddef, er hynny, i'r astudiaeth hon ddilyn hynt ychydig yn wahanol i'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Y rheswm syml am hynny oedd am fod amrywio ffonolegol llawer helaethach na'r disgwyl wedi ymddangos yn iaith y siaradwyr a gefais yng nghyffiniau Harlech ac ym Mro Dysynni fel ei gilydd. Nid anfantais fu hynny, fodd bynnag, gan y llwyddodd dadansoddiadau manwl o'r amrywio helaeth hwn i arwain at ganfyddiadau newydd a dadlennol.

Yr hyn y bwriedir ei wneud i gloi'r traethawd hwn, felly, yw pwysleisio beth yw cyfraniad y gwaith hwn i ysgolheictod, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Rhoddir sylw yn gyntaf yn 12.1 i wahanol agweddau ar yr astudiaeth hon sy'n newydd yng nghyd-destun tafodieitheg y Gymraeg. Eir ati wedyn yn 12.2 i grynhoi canfyddiadau pwysicaf y gwaith hwn. I gloi, pwysleisir yn 12.3 yr elfennau sy'n peri bod yr astudiaeth hon yn torri tir newydd ac yn arloesi, nid yn unig yn y Gymraeg, ond ym maes tafodieitheg yn gyffredinol.

12.1. Newydd-deb yr astudiaeth hon yng nghyd-destun tafodieitheg y Gymraeg

Rhoddir sylw yn gyntaf yn 12.1.1 i bwysigrwydd yr ardaloedd a fu'n ganolog i'r astudiaeth hon, cyn trafod yn 12.1.2 y modd y bu'r dulliau dadansoddi y glynwyd wrthynt yn fodd o dorri tir newydd ym maes tafodieitheg y Gymraeg.

12.1.1. Gwybodaeth o ardaloedd newydd, ac o fath arbennig o ardaloedd

Un o gyfraniadau y traethawd hwn yn sicr yw'r modd y llwydda i ehangu ein gwybodaeth o amrywiadau ffonolegol yng nghanolbarth Cymru yn sylweddol. Dylid pwysleisio yma nad yw nifer yr astudiaethau blaenorol a ganolbwyntiodd ar rannau o'r canolbarth yn niferus iawn, a bod llawer o fylchau amlwg yn yr wybodaeth a gynigiant (gweler pennod 2: 2.2). Yn wir, nid yw'n eglur oddi wrthynt hyd yn oed i ba raddau y ceir ardaloedd trawsnewid yn y rhanbarth.

Y mae'r astudiaeth hon, felly, yn bwrw goleuni newydd ar amrywiadau ffonolegol dwy ardal o'r canolbarth na chawsant nemor ddim sylw cyn hyn, sef rhai cyffiniau Harlech a Bro Dysynni. Y mae hyn ynddo'i hun yn gyfraniad i faes tafodieitheg y Gymraeg. Gellir barnu bod yr ardaloedd hyn hefyd yn bwysig gan eu bod yn ardaloedd trawsnewid o wahanol fathau; math o ardaloedd nad archwiliwyd i'w patrymau ffonolegol yn fanwl erioed o'r blaen yng nghyd-destun y Gymraeg. Gobeithir, felly, fod y gwaith hwn yn ymgais gyntaf effeithiol i fynd i'r afael â chymhlethdod y patrymau ffonolegol a all godi mewn gwahanol ardaloedd trawsnewid, ac y bydd yn sail i astudiaethau eraill i archwilio i drawsnewid ffonolegol mewn gwahanol rannau o Gymru. Diau y gall canlyniadau'r astudiaeth hon hefyd fraenaru'r tir ar gyfer archwilio i ba raddau y mae elfennau geirfaol a chystrawennol ardaloedd Harlech a Bro Dysynni yn arddangos yr un math o amrywio helaeth ag a welwyd yn achos eu patrymau ffonolegol.

12.1.2. Dulliau dadansoddi newydd ar gyfer cymharu gwahanol dafodieithoedd

Nid yr ardaloedd a ddewiswyd a'u natur drawsnewidiol yw'r unig elfennau sy'n newydd i faes tafodieithog y Gymraeg. Rhaid nodi yma hefyd mai hon yw'r astudiaeth gyntaf i archwilio i amrywiadau ffonolegol y canolbarth mewn modd meintiol. Gellir ychwanegu mai'r gwaith hwn hefyd yw'r cyntaf i ddefnyddio dulliau meintiol ar gyfer archwilio i ba raddau y gwelir unffurfiaeth ar waith ymhlith grwpiau o siaradwyr ymddangosiadol debyg i'w gilydd, yn ogystal ag er mwyn cymharu tueddiadau gwahanol dafodieithoedd â'i gilydd. Y mae'n amlwg, felly, i'r wedd hon ar ddadansoddi iaith unigolion a chymharu tafodieithoedd gael ei hesgeuluso, nid yn unig gan ieithyddion eraill a ganolbwyntiodd ar rannau o'r canolbarth, ond hefyd ym maes tafodieithog y Gymraeg yn gyffredinol. Hyderir, felly, y bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn werthfawr i'r sawl sy'n ymddiddori yn amrywiadau tafodieithol y Gymraeg, a'u bod yn taflu goleuni newydd ar nodweddion ffonolegol sy'n amlwg ar lafar yng Nghymru.

12.2. Cynodeb o'r prif ganfyddiadau

Ystyrir mai pwysigrwydd pennaf yr astudiaeth hon yw bod y dulliau meintiol a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi gwahanol amrywiadau ffonolegol wedi bod yn dra effeithiol ar gyfer dadlennu gwybodaeth sy'n newydd, nid yn unig i faes tafodieitheg y Gymraeg, ond hefyd i sosioieithyddiaeth yn gyffredinol. Crynhoir isod, felly, y prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yng nghwrs yr astudiaeth hon.

- Dangoswyd nad oedd unffurfiaeth ieithyddol i'w chael, a bod amrywio helaeth i'w weld yn y ddwy ardal ymhlith siaradwyr a ymddangosai'n debyg i'w gilydd o ran eu cefndir cymdeithasol a diwylliannol (gweler y manylion yn llawn ym mhennod 11: 11.1.1). Pe bawn wedi glynu wrth y dulliau Labovaidd o ddadansoddi amrywiadau a welir mewn nifer o astudiaethau sosioieithyddol (gweler, er enghraifft, Labov, 1966; Trudgill, 1974 a M. C. Jones, 1998), gallwn fod wedi grwpio unigolion y ddwy ardal ynghyd, eu galw yn 'siaradwyr 70 oed a throsodd',²⁸² a chyfrifo cyfartaleddau y grwpiau oedran hynny ar gyfer y ddwy ardal. Yng ngoleuni'r diffyg unffurfiaeth a amlygwyd yng nghanlyniadau'r astudiaeth hon, fodd bynnag, ymddengys y byddai'r dull hwnnw wedi bod yn hollol annigonol ar gyfer cyfleu yr hyn a oedd wirioneddol ar waith ymhlith siaradwyr y ddwy ardal. Ceir sail gadarn i ddadlau, felly, fod angen cadw data siaradwyr ar wahân er mwyn peidio â rhagdybio bod unffurfiaeth ieithyddol i'w chael ymhlith rhai grwpiau cymdeithasol ymddangosiadol debyg.
- Yn yr un modd, llwyddodd dadansoddiadau meintiol yr astudiaeth hon i brofi nad yw nodweddion ffonolegol gwahanol yn ymddwyn yn debyg mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol (gweler y manylion yn llawn ym mhennod 11: 11.1.2). Yn sgil y canfyddiad hwn, felly, gellir dadlau bod angen i dafodieithegwyr a sosioieithyddion ystyried y posibilrwydd fod nifer o ffactorau ieithyddol penodol yn dylanwadu'n drwm ar ddefnydd gwahanol siaradwyr o nodweddion ffonolegol. Dylid pwysleisio, felly, fod cadw data gwahanol gyd-destunau ieithyddol ar wahân

²⁸² Noder na fyddai un o'r siaradwyr, sef R.P o Fro Dysynni, yn rhan o'r grŵp oedran hwn.

yn hollbwysig ar gyfer peidio â rhagfarnu mai'r un patrymau amrywio a geir ym mhob cyd-destun.

- Agwedd arall ar bwysigrwydd y dadansoddiadau meintiol a gyflawnwyd yw'r canfyddiad mai gwahanol dueddiadau ieithyddol yn hytrach nag unrhyw ffeithiau absoliwt sydd yn aml yn creu gwahaniaethau tafodieithol rhwng gwahanol ardaloedd (gweler y manylion yn llawn ym mhennod 11: 11.3.1). Diau fod y safbwynt hwn yn berthnasol i'r trafodaethau a fu yn y gorffennol ynghylch bodolaeth tafodieithoedd (gweler, er enghraifft, Jochnowitz, 1973 a Durrell, 1990).
- Yn olaf, gellir honni bod y canlyniadau meintiol a welwyd yn yr astudiaeth hon yn dra phwysig gan eu bod yn bwrw goleuni newydd ar natur yr amrywiadau ffonolegol a gyfyd mewn ardaloedd trawsnewid o wahanol fathau. Yn wir, nid yn unig y cynigia'r canlyniadau a gafwyd fewnwelediad dadlennol i gyflwr cyfredol ardaloedd Harlech a Bro Dysynni, ond ymddengys hefyd fod eu hamrywiadau ffonolegol yn awgrymu gwahanol drywyddau hanesyddol posibl (gweler pennod 11: 11.2 am fanylion pellach). Yng ngoleuni'r canfyddiad hwn, felly, gellir archwilio i weld a yw amrywiadau ffonolegol ardaloedd eraill yng Nghymru, yn ogystal â rhai ieithoedd eraill, hefyd yn awgrymu datblygiadau hanesyddol posibl.

12.3. Sylwadau clo

I gloi, y mae'n werth pwysleisio nad astudiaeth dafodieithgol draddodiadol yw hon. Y mae'n wir, er hynny, fod y math o siaradwyr sy'n sail i'w chanlyniadau yn debyg i'r 'NORMs' a ddefnyddid mewn astudiaethau tafodieithgol traddodiadol (gweler Chambers a Trudgill, 1998: 29-30). Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, na chymerais yn ganiataol yn yr astudiaeth hon (yn wahanol i dafodieithgwyr traddodiadol) fod iaith y siaradwyr a gefais yn gynrychioliadol mewn unrhyw fodd o dafodiaith eu hardaloedd. Yr oeddwn yn hytrach yn agored i'r posibilrwydd y gallasai amrywio ffonolegol helaeth fod ar waith ymhlith siaradwyr a ymddangosai yn unffurf ar yr olwg gyntaf oherwydd tebygrwydd eu cefndir cymdeithasol a diwylliannol.

Gan mai defnydd hynod amrywiol o wahanol nodweddion a ddaeth i'r amlwg, felly, diau mai neges bwysicaf yr astudiaeth hon yw na ellir cymryd unffurfiaeth ieithyddol yn ganiataol mewn unrhyw fodd, ni waeth pa mor wledig neu geidwadol yr ymddengys siaradwyr, hyd yn oed os bernir gan rai fod "dafodiaith gref" ganddynt (beth bynnag a olygir wrth hynny). Ar sail y canfyddiad sylfaenol hwnnw, felly, gellir hawlio bod yr astudiaeth hon yn arloesol. Dylid hefyd bwysleisio bod ei phrif ganfyddiadau (gweler 12.2 uchod) yn berthnasol i dafodieithgwyr a sosioieithyddion ym mhob cwr o'r byd, a'u bod hefyd yn briodol i'w hystyried yn achos amrywiadau tafodieithol ieithoedd eraill, boent mewn dinasoedd poblog neu mewn ardaloedd gwledig pellennig.

Llyfryddiaeth

LLYFRAU AC ERTHYGLAU

Aitchison, John a Carter, Harold (1994), *A Geography of the Welsh Language 1961–1991*, Cardiff: University of Wales Press.

Aitchison, John a Carter, Harold (2004), *Spreading the Word: The Welsh Language 2001*, Tal-y-bont, Ceredigion: Y Lolfa.

Anwyl, Edward (1901), ‘Report of the Dialect Section of the Guild of Graduates’ yn *Transactions of the University of Wales Guild of Graduates*, Cardiff: University of Wales Press, 33–52.

Awbery, Gwenllian (1984), ‘Phonotactic Constraints in Welsh’ yn Martin J Ball a Glyn E. Jones (goln.), *Welsh Phonology: Selected Readings*, Cardiff: University of Wales Press, 65–104.

Awbery, Gwenllian (1986), *Pembrokeshire Welsh: A Phonological Study*, Llandysul: Gomer.

Awbery, Gwenllian (1988), ‘Slander and Defamation as a Source for Historical Dialectology’ yn A. R. Thomas (gol.) *Methods in Dialectology*, Clevedon, Multilingual Matters, 164–74.

Awbery, Gwenllian (2007), ‘Welsh in the Churchyard and Burial Ground: A New Approach to Documenting Language Shift’ yn *Studia Celtica*, XL1, 199–228.

Awbery, Gwenllian (2009), ‘Welsh’ yn Martin J. Ball a Nicole Müller (goln.), *The Celtic Languages* (2nd edition), London and New York: Routledge, 359–426.

Awbery, Gwenllian (2012), ‘Welsh Language Wills and Inventories: Exploring Dialect Variation in the Past’ yn *Studia Celtica*, XLVI, 137–164.

Ball, Martin J. (1981/82), ‘Descriptions of the Vowels of North Welsh: A Review’ yn *Studia Celtica*, XVI/XVII, 191–208.

Ball, Martin J. a Williams, Briony (2001), *Welsh Phonetics*, Llanbedr Pont Steffan: The Edwin Mellen Press.

Ball, Martin J. (1984), ‘Phonetics for Phonology’ yn Martin J Ball a Glyn E. Jones (goln.), *Welsh Phonology: Selected Readings*, Cardiff: University of Wales Press, 5–39.

Bowen, D. J. (1997), ‘Pynciau Cynghanedd: Odli *i*, *u*, ac *y*’ yn Gruffydd Aled Williams (gol.), *Llên Cymru*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 138–143.

Chambers, J. K. a Trudgill, Peter (1998), *Dialectology*, Cambridge: Cambridge University Press.

- Cruttenden, Alan (1986), *Intonation*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Darlington, Thomas (1902), 'Some Dialectal Boundaries in Mid Wales: With Notes on the History of the Palatalization of Long a' yn *The Transactions of The Honourable Society of Cymmrodorion (1900-01)*, London, 13–39.
- Davies, J. J. Glanmor (1934), *Astudiaeth o Gymraeg Llafar Ardal y Ceinewydd: Ei Seineg gydag Ymchwiliadau Gwyddonol, ei Seinyddiaeth a'i Ffuriant gyda Geirfa Lawn, a Chyfeiriad at ei Semanteg*, Traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
- Durrell, Martin (1990), 'Language as Geography' yn Neville Edgar Collinge (gol.), *An Encyclopedia of Language*, London: Routledge, 917–955.
- Fynes-Clinton, O. H. (1913), *The Welsh Vocabulary of the Bangor District*, Oxford: Oxford University Press.
- Gilliéron, Jules ac Edmont, Edmond (1902-10), *Atlas Linguistique de la France*, Paris: Champion.
- Gleason, H. A. (1955), *An Introduction to Descriptive Linguistics*, New York: Henry Holt and Company.
- Gougenheim, G. (1935), *Éléments de Phonologie Française*, Strasbourg: Publications de la Faculté des Lettres de l'Université de Strasbourg.
- Griffiths, D. W. (1974), *Astudiaeth Eirfaol o Gymraeg Llafar Llanfair Caereinion*, Traethawd MA nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
- Jochnowitz, George (1973), *Dialect Boundaries and the Question of Franco-Provençal*, The Hague: Mouton.
- Jones, Christine M. (1987), *Astudiaeth o Iaith Lafar Y Mot (Sir Benfro)*, Traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.
- Jones, Christine M. (1989), 'Cyberthynas Nodweddion Cymdeithasol ag Amrywiadau'r Gymraeg yn Y Mot, Sir Benfro' yn *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 36, 64–83.
- Jones, Glyn E. (1984), 'The Distinctive Vowels and Consonants of Welsh' yn Martin J Ball a Glyn E. Jones (goln), *Welsh Phonology: Selected Readings*, Cardiff: University of Wales Press, 40–64.
- Jones, Glyn E. (1988), 'Some Features of the Welsh of Breconshire' yn Ball, Martin J. (gol.), *The Use Of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics*, Clevedon: Multilingual Matters, 97–103.

- Jones, Glyn E. (1989/90), 'Ffin y Llafariad Ganol yng Nghanolbarth Cymru: Tystiolaeth Brycheiniog' yn *Studia Celtica* XXIV/XXV, 108–116.
- Jones, Glyn E. (2000), *Iaith Lafar Brycheiniog: Astudiaeth o'i Ffonoleg a'i Morffoleg*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, Glyn E. a Jones. A. (1996), *Atlas Geirfaol Brycheiniog*, Caerdydd: Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru.
- Jones, Mari C. (1994), 'Standardization in Modern Spoken Welsh' yn M. M. Parry, W. V. Davies a R. A. M. Temple (goln), *The Changing Voices of Europe: Social and Political Change and their Linguistic Repercussions, Past, Present and Future*, Cardiff: University of Wales Press, 243–264.
- Jones, Mari C. (1998), *Language Obsolescence and Revitalization: Linguistic Change in Two Sociolinguistically Contrasting Welsh Communities*, Oxford: Clarendon Press.
- Jones, R. O. (1967), *A Structural Phonological Analysis and Comparison of Three Dialects*, Traethawd MA nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Bangor.
- Jones, R. O. (1983), *Astudiaeth o Gydberthynas Nodweddion Cymdeithasol ag Amrywiadau'r Gymraeg yn y Gaiman, Dyffryn y Camwy*, Traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Abertawe.
- Jones, R. O. (1984), 'Change and Variation in the Welsh of Gaiman, Chubut' yn Martin J Ball a Glyn E. Jones (goln.), *Welsh Phonology: Selected Readings*, Cardiff: University of Wales Press, 237–261.
- Labov, William (1963), 'The Social Motivation of a Sound Change', yn *Word* 19, 273–309.
- Labov, William (1966), *The Social Stratification of English in New York City*, Washington: Center for Applied Linguistics.
- Lyons, John (1971), *Introduction to Theoretical Linguistics*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Mayr, Robert a Davies, Hannah (2011), 'A Cross-dialectal Acoustic Study of the Monophthongs and Diphthongs of Welsh' yn *Journal of the International Phonetic Association* 41 (1), 1–15.
- McMahon, April M. S. (1994), *Understanding Language Change*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Milroy, Lesley (1987), *Observing and Analysing Natural Language*, Oxford: Basil Blackwell.

Morris-Jones, John (1913), *A Welsh Grammar: Historical and Comparative*, Oxford: Clarendon Press.

Morris-Jones, John (1925), *Cerdd Dafod: Sef Celfyddyd Barddoniaeth Gymraeg*, Rhydychen: Gwasg Clarendon.

Parry-Williams, T. H. (1913), *Some Points of Similarity in the Phonology of Welsh and Breton*, Traethawd PhD a gyhoeddwyd, Paris: Librairie Ancienne Honoré Champion (atgynhyrchwyd ar safle gwe www.archive.org).

Parry-Williams, T. H. (1923), *The English Element in Welsh: A Study of English Loan-words in Welsh*, London: The Honourable Society of Cymmrodorion.

Peate, Iorwerth (1925-26), 'The Dyfi Basin: A Study in Physical Anthropology and Dialect Distribution' yn *Journal of the Royal Anthropological Institute*, 58–72.

Petyt, K. M. (1980), *The Study of Dialect: An Introduction to Dialectology*, London: André Deutsch.

Preston, D. R. (2006), 'Language with an Attitude' yn J. K. Chambers, P. Trudgill ac N. Schilling-Estes, *The Handbook of Language Variation and Change*, Oxford: Blackwell Publishers, 40–66.

Roberts, Anna (1988), 'Age-related Variation in the Welsh Dialect of Pwllheli' yn Ball, Martin J. (gol.), *The Use Of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics*, Clevedon: Multilingual Matters, 104–22.

Schane, Sanford A. (1968), *French Phonology and Morphology*, Cambridge, Massachusetts: The M.I.T Press.

Sommerfelt, Alf (1920), *Le Breton Parlé à Saint-Pol-de-Léon: Phonétique et Morphologie*, Rennes : Imprimeries Réunies.

Sommerfelt, Alf (1921), *The Dialect of Torr, Co. Donegal*, Christiania: Jacob Dybwad

Sommerfelt, Alf (1925), *Studies in Cyfeiliog Welsh*, Oslo: Jacob Dybwad.

Sommerfelt, Alf (1962), *Diachronic and Synchronic Aspects of Language*, The Hague: Mouton.

Sweet, Henry (1913), 'Spoken North Welsh' yn Wyld, H. C. (gol.), *Collected Papers of Henry Sweet*, Oxford: The Clarendon Press, 409–84; cyhoeddwyd yn wreiddiol yn *Transactions of the Philological Society* (1882-84), 498–574.

Thomas, Alan R. (1973), *The Linguistic Geography of Wales: A Contribution to Welsh Dialectology*, Cardiff: University of Wales Press.

- Thomas, Alan R. (gol.); Jones, Glyn E., Jones, Robert O. a Thorne, David A. (goln cynorthwyol) (2000), *The Welsh Dialect Survey*, Cardiff: University of Wales Press.
- Thomas, Ann Elizabeth [= Beth Thomas] (1998), *Ynys Fach o Gymreictod: Astudiaeth Sosioieithyddol o'r Gymraeg ym Mhont-rhyd-y-fen*, Traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Caerdydd.
- Thomas, Beth (1980), 'Cymrêg, Cymraeg: Cyweiriau Iaith Siaradwraig o Ddyffryn Afan' yn *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 20, 579–92.
- Thomas, Beth (1992), '“Yn Felys ar y Tafod ac yn Soniarus ar y Glust”: Agweddau at Dafodiaith' yn *Cardiff Working Papers in Welsh Linguistics* 7, 57–69.
- Thomas, Beth a Thomas, Peter Wynn (1989), *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd*, Caerdydd: Gwasg Taf.
- Thomas, D. S. (1907), 'Yr Ail Draethawd' yn *Ystyron Enwau, Trefi, Tai, Meusydd, Mynyddoedd, Afonydd, Llynoedd &c. ym Mhlwyfi Towyn, Llangelynin, Llanegryn, Llanfihangel y Pennant, Tallylyn, a Phennal: Traethodau Arobryn Eisteddfod Gadeiriol Towyn, Mehefin 21^{ain}, 1907* (golygwyd gan Bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Towyn, 1907), Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyd Cymreig, 114–164.
- Thomas, Peter Wynn (1996), *Gramadeg y Gymraeg*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thorne, D. A. (1985), *Cyflwyniad i Astudio'r Iaith Gymraeg*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Trudgill, Peter (1974), *The Social Differentiation of English in Norwich*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Walker, Douglas C. (2001), *French Sound Structure*, Calgary: University of Calgary Press.
- Watkins, T. Arwyn (1951), *Tafodiaith Plwyf Llansamlet*, Traethawd MA nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Abertawe.
- Watkins, T. Arwyn (1961), *Ieithyddiaeth: Agweddau ar Astudio Iaith*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Wenker, Georg a Wrede, Ferdinand (1926), *Deutscher Sprachatlas*, N.G. Elwert'sche Verlagsbuchhandlung, Marburg.
- Williams, Ifor (1946), 'Ar Gymraeg William Salesbury' yn *Y Traethodydd* (Cyfres 3, cyfrol XV), Caernarfon: Argraffdy'r Methodistiaid Calфинаidd, 32–43.
- Wmffre, Iwan (2003), *Language and Place Names in Wales: The Evidence of Typonymy in Cardiganshire*, Cardiff: University of Wales Press.

GWEFANNAU

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003/04), www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau; atgynhychir ganddynt ystadegau cyfrifiadau yr ugeinfed ganrif (deunydd hawlfraint y goron) gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa EM (HMSO).

Arolwg Ordnans (2013), www.ordnancesurveyleisure.co.uk/leisure; ceir yma fapiau o wahanol ardaloedd yng Nghymru

Wikimedia (2009), http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Wales_location_map.svg; map o Gymru

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013), 'Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg' ar y wefan <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121211sb1182012cy.pdf>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013), <http://www.ons.gov.uk/ons/interactive/census-map-2-2---wlanguage-w/index.html>; mapiau ar gyfer cyfrifiadau 2001 a 2011